Bodleian Libraries
UNIVERSITY OF OXFORD

This book is part of the collection held by the Bodleian Libraries and scanned by Google, Inc. for the Google Books Library Project.

For more information see:

http://www.bodleian.ox.ac.uk/dbooks

This work is licensed under a Creative Commons Attribution-NonCommercial-ShareAlike 2.0 UK: England & Wales (CC BY-NC-SA 2.0) licence.


DARLLENIADAU SABBATHOL
and God blessed the Seventh day
and Sanctified it
DARLUNIADOL

106.e.83

# DARLLENIADAU

# SABBATHOL DARLUNIADOL.



"CONSIDER THE LI



LEIGHTON, BROTHERS.

LIES HOW THEY GROW."

# DARLLENIADAU SABBATHOL DARLUNIADOL.


GAN Y

PARCH. WILLIAM OWEN,

AWDWR "COFIANT HAVELOCK," &C., &C.






LLUNDAIN:

JAMES SANGSTER A'I GYF., 36, PATERNOSTER ROW;

A 6, PEMBROKE STREET, ST. PAUL'S, BRISTOL.

# DARLLENIADAU

# SABBATHOL DARLUNIADOL:

YN CYNHWYS

## Cyfres o Faterion Ysgrythyrol,

YN CAEL EU TRAFOD

GYDA CHYFADDASDER NEILLDUOL AT CHWAETH A GOFYNION TEULUOEDD,

AC YN GWNEYD I FYNY

## DRYSORFA GYNHWYSFAWR O WYBODAETH FIBLAIDD.

GAN

PARCH. W. OWEN,

AWDWR "COFIANT HAVELOCK," &c.

CYFROL II.

LLUNDAIN:
JAMES SANGSTER A'I GYF.,
PATERNOSTER ROW.

106.e.83.

RHESTR O DDARLUNIAU.

## CYFROL II.


YSTYRIWCH Y LILI (*Gwyneblun*).

ST. IOAN (*Cerfaddurn*).

*I wynebu Tudalen*

GWARCHAE LACHIS ... ... ... ... ... ... ... ... ... ... 8

LLYN HEZECIAH ... ... ... ... ... ... ... ... ... ... 15

Y FRENHINIAETH HEDDYCHOL ... ... ... ... ... ... ... ... 25

PSALM CXXXVII. ... ... ... ... ... ... ... ... ... ... 43

CAETHION BABILON ... ... ... ... ... ... ... ... ... ... 45

DANIEL AC EZECIEL ... ... ... ... ... ... ... ... ... 46

PETRA ... ... ... ... ... ... ... ... ... ... ... 64

NINEFEH ... ... ... ... ... ... ... ... ... ... ... 66

BABILON ... ... ... ... ... ... ... ... ... ... ... 67

BETHLEHEM ... .. ... ... ... ... ... ... ... ... ... 106

CRIST A'R DOCTORIAID IUDDEWIG ... ... ... ... ... ... ... 118

SAMARIA ... ... ... ... ... ... ... ... ... ... ... 156

CRIST A'R WRAIG O SAMARIA ... ... ... ... ... ... ... ... 156

MYNYDD TABOR ... ... ... ... ... ... ... ... ... ... 206

LLYN SILOAM ... ... ... ... ... ... ... ... ... ... 215

IESU YN NHŶ MARTHA ... ... ... ... ... ... ... ... ... 222

DYCHWELIAD YR AFRADLON ... ... ... ... ... ... ... ... 226

DEFAID ... ... ... ... ... ... ... ... ... ... ... 229

CRIST YN BENDITHIO PLANT BYCHAIN ... ... ... ... ... ... 231

MYNEDIAD CRIST I JERUSALEM ... ... ... ... ... ... ... 235

CRIST YN WYLO UWCH BEN JERUSALEM ... ... ... ... ... ... 237

Y DISGYNIAD ODDIAR Y GROES .. ... ... ... ... ... ... ... 248

Y CLADDEDIGAETH ... ... ... ... ... ... ... ... ... ... 250

## RHESTR O DDARLUNIAU.

*I wynebu Tudalen*


YR ESGYNIAD ... .. ... ... ... .. .. ... ... ... 252

PORTH PRYDFERTH Y DEML ... ... ... ... ... ... ... .. 260

MARWOLAETH ANANIAS ... ... ... ... ... ... ... ... .. 263

DAMASCUS ... ... ... ... ... ... ... ... ... ... .. 283

PAUL YN PREGETHU YN ATHEN ... ... ... ... ... ... ... ... 289

ELYMAS Y SWYNWR ... ... ... ... ... ... ... ... ... 290

PAUL A BARNABAS YN LYSTRA ... ... ... ... ... ... ... ... 292

PATMOS ... ... ... ... ... ... ... ... ... ... ... 304

EPHESUS ... ... ... ... ... ... ... ... ... ... .. 304

PERGAMUS ... ... ... ... ... ... ... ... ... ... ... 304

THYATIRA ... ... ... ... ... ... ... ... ... ... ... 304

SARDIS ... ... ... ... ... ... ... ... ... ... ... 304

PHILADELPHIA ... .. ... ... ... ... ... ... ... ... 304

LAODICEA ... ... ... ... ... ... ... ... ... ... ... 304

SMYRNA ... ... ... ... ... ... ... ... .. ... ... 304

# LLYFR V.


Hezeciah, a'i Lafur Diwygiadol.
Gwarchae Lachis.
Senacherib a Hezeciah.
Cyflenwad-dwfr Jerusalem.
Dinystr y Fyddin Assyriaidd.
Dyddiau Olaf Hezeciah.
Manasseh—yr Annychweledig a'r Dychweledig.
Y Frenhiniaeth Heddychol.
Y Brenhin da Josiah.
Y Prophwyd Jeremiah.
Y Rechabiaid a'r Gwersi Ddysgir oddiwrth eu Hesiampl.
Brenhiniaeth Babilon.
Dinystr Jerusalem a Chaethiwed Judah.
Judah yn y Caethiwed.
Y Prophwyd Ezeciel.
Daniel a'i Gymdeithion yn Babilon.
Y Ddelw Aur ar Wastadedd Dura.
Yr Olaf o'r Brenhinoedd Caldeaidd.
Taflu Daniel i Ffau'r Llewod.
Cyfodiad a Chwymp Cenhedloedd yn cael eu Rhafynegu gan y Prophwyd.
Gweledigaethau Daniel.
Dychweliad o'r Caethiwed.
Nehemiah—ei Waith a'i Wrthwynebwyr.
Llyfr Esther.
Cyssylltiad rhwng Hanesiaeth yr Hen Destament a'r Newydd. (I.)
Cyssylltiad rhwng Hanesiaeth yr Hen Destament a'r Newydd. (II.)
Pleidiau Iuddewig—Phariseaid, Sadduceaid, Esseniaid.
Y Synagog—ei Dechreuad a'i Gwerthfawredd.
Herod a'i Deml—ei Thegwch a'i Gogoniant.

"Beth a wnaf i ti, Ephraim? Beth a wnaf i ti, Judah? eich mwynder sydd yn ymado fel cwmmwl y bore, ac fel gwlith boreol.

"Am hynny y tarewais hwynt trwy y prophwydi; lleddais hwynt â geiriau fy ngenau; a'th farnedigaethau sydd fel goleuni yn myned allan.

"Canys ewyllysiais drugaredd, ac nid aberth; a gwybodaeth o Dduw, yn fwy nâ phoeth-offrymmau.

"A'r rhai hyn, fel Adda, a dorrasant y cyfammod; yno y buant anffyddlawn i'm herbyn."

HOSEA VI. 4—7.

## PENNOD I.

### HEZECIAH.

Cyfodwyd y brenhin Hezeciah yn drugarog i'r genedl Iuddewig ar ol i'w dad drygionus am un mlynedd ar bymtheg arwain y bobl i'r eithafion gwrthunaf o annuwioldeb, ac ar amser pan yr oedd Israel yn ymyl cael ei chaethgludo i Assyria. Yn oes lygredig Ahaz, mae yn debygol fod y prophwyd Esaiah yn cyfeirio at Hezeciah fel cysgod o'r Brenhin Messiah, pan y dywedodd: "Wele, brenhin a deyrnasa mewn cyfiawnder, a thywysogion a lywodraethant mewn barn. A gŵr fydd megis yn ymguddfa rhag y gwynt, ac yn lloches rhag y dymmestl; megis afonydd dyfroedd mewn sychdir; megis cysgod craig fawr mewn tir sychedig." Tra nad yw y darluniad prydferth yma yn ei ystyr lawnaf yn gymhwys ond at y Gwaredwr yn unig, mae yn ei gyfeiriad cyntaf yn ddarluniadol o nodwedd a theyrnasiad y brenhin da Hezeciah. "Yn Arglwydd Dduw Israel yr ymddiriedodd efe, ac ar ei ol ef ni bu ei fath ef ym mhlith holl frenhinoedd Judah, nac ym mysg y rhai a fuasai o'i flaen ef. Canys efe a lynodd wrth yr Arglwydd, ni throdd efe oddi ar ei ol ef, eithr efe a gadwodd ei orchymynion ef, y rhai a orchymynasai'r Arglwydd wrth Moses."

Ni a ddisgwyliwn pan y meddiennir gwir grefydd gan y rhai hyny a lanwant y sefyllfaoedd uwchaf, y gwelir hi trwy weithredoedd o wasanaeth enwog yn yr achos sanctaidd. Rhaid i'r lliaws talentau â pha rai maent wedi eu hymddiried gael eu defnyddio oll er gogoniant yr Arglwydd. Felly yr oedd hi gyda Hezeciah. "Yn y flwyddyn gyntaf o'i deyrnasiad ef, yn y mis cyntaf, efe a agorodd ddrysau tŷ'r Arglwydd, ac a'u cyweiriodd hwynt." Fe gofir fod ei dad a'i ragflaenor annuwiol wedi cau drysau tŷ'r Arglwydd, ac yn awr profa y mab mor ymroddedig i Jehofah ag y bu ei dad i Satan. "Efe a dynnodd ymaith yr uchelfeydd, ac a ddrylliodd y delwau, ac a dorrodd y llwyni, ac a faluriodd y sarph bres a wnelsai Moses; canys hyd y dyddiau hynny yr oedd meibion Israel yn arogl-darthu iddi hi; ac efe a'i galwodd hi Nehustan." Mae yn addysgiadol i sylwi fod y brenhin duwiol hwn wedi cyfeirio ei sel nid yn unig yn erbyn eilun-addoliaethau paganaidd, ond hefyd yn erbyn

ordinhad Ddwyfol, pan y cafodd ei chamddefnyddio a'i throi o'i hamcan gwreiddiol a phur.

Wedi dadgan fel hyn ei fwriad i wasanaethu Jehofah, ymdrechodd gael cydweithrediad yr offeiriaid a'r Lefiaid yn y gwaith mawr y ceisiai ei gyflawni. Efe a adroddodd y camweddau a gyflawnasai eu rhagflaenoriaid, darluniodd y melldithion a ddygasant ar y genedl, a dadganodd ei fwriad ei hun i wasanaethu yr Arglwydd: "Yn awr y mae yn fy mryd i wneuthur cyfammod âg Arglwydd Dduw Israel, fel y tro ei ddigofaint llidiog ef oddi wrthym ni;" a chan bwyso mwy ar rym cariad, nag ar awdurdod frenhinol, efe a'u galwodd hwy i ymuno âg ef yn ei waith crefyddol: "Fy meibion, na fyddwch ddifraw yn awr; canys yr Arglwydd a'ch dewisodd chwi i sefyll ger ei fron ef, i weini iddo ef, ac i fod yn gweini, ac yn arogl-darthu iddo ef."

Profodd apeliad y brenhin yn llwyddianus. Mae gennym enwau dynion brwdfrydig yn mysg y Lefiaid, y rhai "a gynnullasant eu brodyr, ac a ymsancteiddiasant, ac a ddaethant yn ol gorchymyn y brenhin, trwy eiriau'r Arglwydd, i lanhâu tŷ'r Arglwydd." Dechreuwyd ar y gwaith yn ddioed, yr offeiriaid yn unig yn ol y Gyfraith yn myned i'r Lle Sanctaidd i'w lanhau oddiwrth y pentyriadau ffiaidd, pa rai a ddygodd y Lefiaid ymaith i afon Cedron. Gorphenwyd yr ymweithiad cyntaf yma mewn un diwrnod ar bymtheg, fel yr adferwyd y Deml a'i dodrefn i'r drefn gyfaddas i ailgychwyn y gwasanaeth cyssegredig.

Yr oedd y glanhad allanol yma yn rhagbaratoawl i'r gwaith mwy pwysig o buredigaeth seremonïol. Yn cael ei ganlyn gan lywodraethwyr y ddinas, aeth y brenhin i dŷ yr Arglwydd, lle y gwneid pech-ebyrth gan yr offeiriaid, meibion Aaron, "dros y cyssegr, a thros Judah." Ni wnaeth Hezeciah, cychwynydd mawr y gwaith sanctaidd, fel Uzziah, fyned dros derfynau yr offeiriadaeth, trwy fyned yn mlaen at yr allor aberthu; ond yn ol y gorchymyn Dwyfol, yr offeiriaid "a ddygasant fychod y pech-aberth o flaen y brenhin a'r gynnulleidfa, ac a osodasant eu dwylaw arnynt." Trwy y weithred arwyddocaol hon cyfaddefasant eu pechodau, a chyflawnasant weithred o ymostyngiad cenedlaethol ger bron yr Arglwydd. Yr oedd yr adeg yn un o lawenydd sanctaidd a diolchgarwch, yn gystal ag edifeirwch. Cymhysgai haul y cyfiawnder

ei belydrau â'u dagrau disgynedig, a dylynodd gobeithion dysgiaer am y dyfodol, dduwch marwol yr amser a aeth heibio. Llawenychai calon Hezeciah, fel un ei gyndad enwog Dafydd, yn uchelwyliau tŷ Dduw; "ac efe a osododd y Lefiaid yn nhŷ'r Arglwydd, â symbalau, ac â nablau, ac â thelynau, yn ol gorchymyn Dafydd, a Gad gweledydd y brenhin, a Nathan y prophwyd; canys y gorchymyn oedd trwy law'r Arglwydd, trwy law ei brophwydi ef."

Mae yn wir yn hyfryd i feddwl am atebiad parod y bobl i apeliad eu brenhin da. Rhoddai y dydd yma o ailymgyssegriad iddynt hwythau hefyd hyfrydwch sanctaidd, ac felly y darllenwn, "a'r holl gynnulleidfa oedd yn addoli, a'r cantorion yn canu, a'r udgyrn yn lleisio; hyn oll a barhaodd nes gorphen y poeth-offrwm. A phan orphenasant hwy offrymu, y brenhin a'r holl rai gafwyd gyd ag ef, a ymgrymmasant, ac a addolasant."

Ar ol esiampl sanctaidd y brenhin a'r tywysogion, gwnaed apeliad yn ddoeth at yr holl gynnulleidfa, pa rai a roddasant atebiad calonog iddo. Gwyddai y brenhin mai y ffordd oreu iddo allu lleshau y bobl, fyddai, nid trwy eu rhyddhau oddiwrth y ddyledswydd a'r fraint o gyfranu at gynhaliaeth y gwasanaeth sanctaidd yma, ond trwy eu cefnogi i wneyd eu hoffrymau gwirfoddol. Cyflwynwyd deg a thriugain o fustych, cant o hyrddod, a dau cant o ŵyn, yn boeth-offrymau; a chyssegrwyd tair mil o ddefaid a chwech cant o fustych i'r gwasanaeth Dwyfol. Crybwyllir fel un ffynhonell o'r llawenydd sanctaidd yn mha un y cyfranogai y brenhin a'i bobl, "oblegid (mai) yn ddisymmwth y bu'r peth." Ni bu dim gwaith araf o baratoi, dim oediad pechadurus, ond yr oedd pawb wedi rhoi allan ymadferthoedd grym a bywiogrwydd iechyd moesol, ac yr oedd y canlyniad wedi cynhyrchu syndod sanctaidd hyd yn oed yn mysg y mwyaf hyderus. Nid oeddynt hwy fel ninau wedi gwneyd cyfrif cywir o'r galluoedd â pha rai yr ydym wedi ein cynhysgaeddu, y mynyddoedd a allwn symmud, y dyffrynoedd a allwn lanw i fyny, a'r prif-ffyrdd o sancteiddrwydd a allwn baratoi, trwy y ffydd fywiog hono sydd yn dwyn holl adnoddau hollalluowgrwydd i'n cynhorthwyo.

Nid oedd y gwaith yma a wnaed mor "ddisymmwth" yn y ddinas, ond dechreuad gwaith mwy oedd i ymdaenu tros frenhiniaeth Judah, ac

hyd yn oed i ymdreiddio i Israel, er yr eilun-addoliaeth oedd yn ffynu, a'r drygfyd oedd ar ddyfod. Wedi, ar ol ymgynghori â'i offeiriaid â'i bobl, penderfynu cadw'r pasg, y coffawdwriaeth cenedlaethol hyny pa un mewn dyddiau gwell a gadwai y genedl anrhanedig, gwahoddodd y brenhin Ephraim i ymuno â Judah, ei bobl ei hun, yn y gadwraeth sanctaidd. "A hwy a orchymysant gyhoeddi trwy holl Israel, o Beer-seba hyd Ddan, am ddyfod i gynnal y Pasg i Arglwydd Dduw Israel yn Jerusalem; canys ni wnaethant erys talm fel yr oedd yn ysgrifenedig."

Gwelodd yr holl wlad o "Beerseba hyd Ddan" yn uniongyrchol y cenhadon yn rhedeg o ddinas i ddinas, gyda gwahoddiad y brenhin a'r tywysogion, pa un a ellir gymmeryd yn gynllun o ddoethineb, duwioldeb, a chariad. Fel y bydd bob amser pan y mae gwahoddiadau o'r fath yn cael eu rhoddi, gwrthododd rhai, tra y derbyniodd ereill yr apeliad yn ddiolchgar. "A phobl lawer a ymgasglasant i Jerusalem, i gynnal gwyl y bara croyw, yn yr ail mis, cynnulleidfa fawr iawn."

Blaenorwyd cadwraeth y pasg gan weithred o sel sanctaidd yn erbyn eilun-addoliaeth. A'r bobl "a gyfodasant, ac a fwriasant ymaith yr allorau oedd yn Jerusalem, bwriasant ymaith allorau yr arogl-darth, a thaflasant hwy i afon Cidron." Yna dylynodd yr wyl gyssegredig, yn goffawdwriaethol am drugareddau gynt yn yr Aipht. Mor ebrwydd y bu y penderfyniad i adferu y gwasanaeth hir-esgeulusedig hyn, fel na ofalwyd yn briodol am y cadwraethau gan ba rai y dylasai gael ei flaenori, gan liaws oeddynt wedi dod o frenhiniaeth Israel, a hwy "a fwyttasant y pasg, yn amgenach nag yr oedd yn ysgrifenedig; ond Hezecïah a weddiodd drostynt hwy, gan ddywedyd, Yr Arglwydd daionus a faddeuo i bob un a barottôdd ei galon i geisio Duw, sef Arglwydd Dduw ei dadau, er na lanhawyd ef yn ol puredigaeth y cyssegr. A'r Arglwydd a wrandawodd ar Hezecïah, ac a iachaodd y bobl." Y fath oedd y llawenydd sanctaidd a ddeffrowyd trwy eu dychweliad at Dduw, fel yr "ymgynhorasant i gynnal saith o ddyddiau ereill; felly y cynhaliasant saith o ddyddiau ereill trwy lawenydd;" a'r brenhin, y tywysogion, a'i bobl a gynhorthwyasant yn llawen gyflawniad y dymuniad duwiol. "Felly y bu llawenydd mawr yn Jerusalem; canys er dyddiau Solomon, ni bu y cyffelyb yn Jerusalem."

(Darllener 2 Cronicl xxix.—xxxi. Esaiah xxxii. 1—8.)

## PENNOD II.

### GWARCHAE LACHIS.

MEDDIANNA dinas Lachis, yn Judea, le pwysig yn hanes Hezeciah, ac y mae yr adfydau dychrynllyd ddioddefwyd gan ei thrigolion yn mysg y golygfeydd mwyaf hynod ddygwyd i oleuni o ganol adfeilion Ninefeh. Ceir cymmydogaeth, os nad gwir safle Lachis, yn mhentref diweddar *Um Lakis*, ychydig i'r gogledd-ddwyrain i'r hen Gaza. Nid oes ganddi ddim adfeilion i ddyweyd am ei gogoniant cyntefig, ac yn yr ystyr yma mae ei thynged yn gyffelyb i lawer o ddinasoedd enwog unwaith yn y dwyrain, pa rai a adeilawyd o briddfeini heb eu llosgi, neu garreg feddal freuol, wedi troi yn awr yn llwch a chlai trwy weithrediad yr awyrgylch am ganrifoedd. Yr oedd yn ddinas gadarn yn amser Joshua, yr hwn "a wersyllodd wrthi, ac a ymladdodd i'w herbyn," ac a'i cymmerodd trwy ruthrgyrch ar ol dau ddiwrnod, pan y tarawodd yr holl drigolion a min y cleddyf. Yr ydym yn ei chanfod yn nesaf yn rhestr y dinasoedd roddwyd i lwyth Judah. Y fath ydoedd ei phwysigrwydd fel yr ailgododd Rehoboam hi, fel un o leoedd amgaeredig ei frenhiniaeth wanychol, ar ol gwrthryfel y deg llwyth; a'r nerth milwrol oedd hi wedi gyrhaedd, oedd yr achos yn debygol iddi gael ei gwarchae gan Senacherib. O herwydd y nerth yma yn ddiamheuol y ffôdd Amasiah i Lachis o Jerusalem, pan y gwnaeth ei ddeiliaid "frad-fwriadu yn ei erbyn ef yno."

Y prophwyd Micah, pan yn rhagfynegu y barnedigaethau oedd i ddyfod ar Samaria a Judah, a lefara am Lachis fel un o'r dinasoedd ar ba un yr oedd y goresgynydd yn fuan ar dywallt ei lid: "Preswylferch Lachis, rhwym y cerbyd wrth y buan-farch; dechreuad pechod yw hi i ferch Sion; canys ynot ti y cafwyd anwireddau Israel." Oddiwrth y geiriau "dechreuad pechod yw hi i ferch Sïon," yr ydym yn dysgu mai Judeaid y ddinas hon oedd y rhai cyntaf i syrthio i'r pechod o eilun-addoliaeth, ac yr ydym yn awr yn cael trwy ad-daliad cyfiawn eu bod yn mysg y cyntaf i dderbyn y wïalen.

Annogodd y llwyddiant a fwynhaodd Hezeciah ef i wrthryfela yn erbyn

Assyria, ac attal oddiwrtho y deyrnged arferol. Yn mlwyddolion Senacherib, ddarganfyddwyd yn ddiweddar, dyry y brenhin y palliad yma i dalu y deyrnged, fel y rheswm am y goresgyniad. Dywed, "Am na wnai Hezecïah, brenhin Judah, ymostwng i fy iau, myfi a ddaethum yn ei erbyn." "Wedi'r pethau hyn, a'u sicrhâu, y daeth Senacherib, brenhin Assyria, ac a ddaeth i mewn i Judah, ac a wersyllodd yn erbyn y dinasoedd caerog, ac a feddyliodd eu hynnill hwynt iddo ei hun." Yr oedd Lachis yn dioddef dychrynfeydd gwarchae cyn i un ymosodiad gael ei wneyd ar Jerusalem, a'r fath ydoedd pwysigrwydd y ddinas hon fel yr aeth Senacherib yno ei hun, "a'i holl allu gyd ag ef," i oruwchlywyddu yr ymosodiad. Tra yno, efe a anfonodd rai o'i brif swyddogion i Jerusalem.

Ychydig o flynyddoedd yn ol nid oedd yr un cofnodiad adnabyddus o warchae Lachis, ond yr un sydd yn gynhwysedig yn y Bibl, a gallasai yr anffyddwyr pe dewisasent wrthod yr hanes gyda dirmyg. Mae gennym yn awr dystion i'r digwyddiad yma fel pe yn cyfodi o fedd yr oesau, yn dyfod ger ein bron o lanau y Tigris, ac yn tystio i wirionedd y cofnodion cyssegredig.

Rhydd Dr. Layard, yr hwn a ddarganfyddodd yn Kouyunjik, y coflechau ar ba rai mae gwarchae Lachis wedi ei ddisgrifio, ddarluniad pur gywir o'r golygfeydd mae yr arlunydd wedi osod allan. Gwelir fod y ddinas yn ymddangos wedi cael ei hamddiffyn gan furiau dyblyg, gyda chaer-ganllawiau, tyrau, a gweithiau allanol amgaerog. Safai mewn gwlad fryniog, pa un a gynhyrchai y winwydden a'r ffigyswydd, ac felly ateba i'r darluniad o wlad Judah. Dengys y coflechau hyn i ni liaws o filwyr arfog, yn cael eu cad-drefnu i'r gwarchae. Yn ein hadferiad ni o'r golygfeydd hyn, wedi ei gyfansoddi o'r defnyddiau roddwyd ar y coflechau, mae y bwäwyr wedi eu cymhysgu â gwŷr y gwaewffyn a'r ffondaflwyr, pa rai a ffurfient ran bwysig o'r llu ymosodol. Mae rhai o'r bwâwyr fel yn yr argofion gwreiddiol, yn sefyll tu ol i darianau symmudol, digon mawr i wneyd amddiffyniad trwyadl i'r holl berson. Dengys yr argofion i ni "gynifer a deg o dwynydd, neu warchgloddiau, wedi eu hadeiladu yn gryno o gerrig, priddfaen, daear, a changhenau o goed, a saith o hyrdd-offer wedi eu treiglo eisoes i fyny at y muriau."



LEIGHTON, BROTHERS.

THE SIEGE OF LACHISH.

Gan na fwriedir ein heglurhad i ddangos y creulonderau a arferid ar ol cymmeryd y ddinas, rhaid i ni foddloni ar roddi y darluniad yn ngeiriau Dr. Layard, yr hwn a ddywed: "Yr oedd rhan o'r ddinas wedi ei chymmeryd. O dan ei muriau y gwelid y milwyr Assyriaidd yn pawlwanu eu carcharorion, ac o borth tŵr draw, neu amddiffynfa, deuai gorymdaith o garcharorion allan, yn cyrhaedd i bresennoldeb y brenhin, yr hwn wedi ymwisgo yn orwych, a'u derbyniodd hwy yn ei eistedd ar ei orsedd. Yn mysg yr ysbail yr oedd dodrefn, arfau, tarianau, cerbydau, llestri o fettel o amrywiol ffurf, camelod, certydd yn cael eu tynu gan ychain, ac yn llwythog o wragedd a phlant, a llawer o bethau am natur y rhai nis gellir penderfynu. Gwahaniaethid y gorchfygedigion oddiwrth y gorchfygwyr gan eu gwisg; gwisgai y rhai hyny a amddiffynent y caerganllawiau helm bigfain, yn gwahaniaethu oddiwrth y milwyr Assyriaidd trwy feddu labed ymylgylchog yn cyrhaedd dros y glust."

Gweinyddir yr arteithiau mwyaf creulon ar y carcharorion, a lleddir rhai â'r cleddyf yn mhresennoldeb y brenhin, yr hwn sydd yn eistedd ar deyrngadair, ar ba un mae medr celfyddydol mawr wedi ei ddefnyddio. Cynhelir ei breichiau ac ochrau gan dair rhes o gerf-luniau, y coed wedi ei gerfio yn orwych, a'i amwisgo mewn mettel boglymog. Dygir y carcharorion i bresennoldeb y brenhin gan Dartan o'r lluoedd Assyriaidd, yn debygol gan y Rabshakeh ei hun, yn cael ei ganlyn gan y swyddogion. Dadgana Dr. Layard ei farn mai Iuddewon yn ddiamheuol oedd y carcharorion, ac nis gall neb sylwi ar y gwynebau hyn heb gydsynio a'r golygiad yma. Maent wedi eu dïosg o'u dillad gwych, ac yn droednoeth, a dim bron am danynt.

Uwch ben y brenhin mae arysgrif pen-saeth, pa un a gyfieithwyd, "Senacherib, y brenhin galluog, brenhin gwlad Assyria, yn eistedd ar orseddfa barn o flaen dinas Lachis; yr wyf yn caniatâu i wneyd lladdfa arni." Mae yn yr olygfa hon arysgrif arall yn cynhwys teitl y brenhin Assyriaidd, yn dangos y balchder a'r boddhâd â pha rai yr edrychai ar ei anturiaeth wrth y ddinas gref yma. Mae yr arlunydd wedi darlunio pabell y brenhin, dros ba un mae yn arysgrifenedig mewn llythyrenau pen-saeth, "Pabell Senacherib, brenhin gwlad Assyria."

(Darllener Llyfr Micah.)

## PENNOD III.

### SENACHERIB A HEZECIAH.

Er fod y brenhin Hezeciah wedi dwyn yn erbyn ei wlad luoedd Senacherib trwy attal y deyrnged arferol oddiwrth y teyrn balch, ni adawyd iddo fedi canlyniadau y weithred eofn hon, canys yr oedd Jehofah ar "ddangos ei hun yn gryf gyd â'r rhai sydd a'u calon yn berffaith tu ag atto ef." Ni a glywwn gan hyny y brenhin da yn cyfarch ei bobl, ac yn dywedyd, "Ymŵrolwch, ac ymgadarnhêwch, nac ofnwch, ac na ddigalonwch rhag brenhin Assyria, na rhag yr holl dyrfa sydd gyd ag ef; canys y mae gyd â ni fwy nâ chyd ag ef. Gyd ag ef y mae braich cnawdol; ond yr Arglwydd ein Duw sydd gydâ ni, i'n cynnhorthwyo, ac i ryfela ein rhyfeloedd. A'r bobl a hyderasant ar eiriau Hezecïah, brenhin Judah."

Mynegwyd y sicrhad cryf yma mewn amgylchiadau a arddanghosent nerth ffydd o du y brenhin a'i dywysogion. Yr oedd Senacherib, enw yr hwn a arwydda *gorchfygwr byddinoedd,* wedi arwain cryfder ei luoedd i wlad Judea, ac wedi cymmeryd ei holl ddinasoedd caerog, oddieithr Libnah, Lachis, a Jerusalem, ac yr oedd Lachis fel y gwelsom yn dioddef dychrynfeydd gwarchae. Darlunia y prophwyd Esaiah (x. 28—32) yn ddisgrifiol ymdaith y fyddin elynol tua Jerusalem, a'r braw a dychryn a gynhyrchai yn mhob tref a dinas y dynesai atynt. Gwelir fod yr holl drefydd a enwir yn nghymmydogaeth Jerusalem. Mae yn debygol mai Nob, y ddinas ddiweddaf a enwyd, ydoedd golygfa y drygfyd angeuol trwy ba un yr oedd y llu rhyfelgar i gael ei dori ymaith.

Yma cadarnha ac eglurha y cofnodion Assyriaidd yr hanesion Hebrëig. Mae gennym iaith fostfawr y brenhin Assyriaidd: "Am nad ymostyngai Hezeciah, brenhin Judah, i fy iau, myfi a ddaethum i fyny yn ei erbyn, a thrwy rym arfau, mi a gymmerais *chwech a deugain o'i ddinasoedd caerog cryfion,* ac o'r mân drefydd oeddynt ar wasgar oddeutu, mi a gymmerais ac a ysbeiliais rifedi aneirif. Ac o'r lleoedd hyn mi a gymmerais ac a ddygais ymaith yn ysbail ddau can' mil ac un cant a haner o bobl, hen ac ieuangc, gwryw a benyw, gyda cheffylau a chesig, asynod a chamelod,

ychain a defaid, rifedi aneirif. A Hezeciah ei hun a gauais yn Jerusalem, ei brif-ddinas, fel *aderyn yn ei wialdy*, gan godi tyrau oddeutu y ddinas i'w gau i mewn, a chodi gwrthgloddiau o bridd yn erbyn y pyrth fel ag i'w rwystro ef allan. Yna syrthiodd ar yr Hezeciah yma ofn nerth fy arfau i, ac efe a anfonodd allan ataf fi benaethiaid a henuriaid Jerusalem, gyda deg talent ar hugain o aur, ac wyth cant o dalentau o arian, ac amrywiol drysorau, ysbail gwerthfawr a diderfyn.... Yr holl bethau hyn a ddygwyd ataf fi i Ninefeh, eisteddle fy llywodraeth; Hezeciah yn eu hanfon mewn ffordd o deyrnged, ac fel arwydd o'i ymostyngiad i'm gallu." Mae y troellair a ddefnyddir gan y brenhin trahausfalch hwn, yn ol ei hanesydd ei hun, yn cael ei briodoli iddo hefyd gan Esaiah: "A'm llaw a gafodd gyfoeth y bobloedd fel nŷth; ac megis y cesglir wyau wedi eu gado, y cesglais yr holl ddaear; ac nid oedd a symmudai aden, nac a agorai safn, nac a ynganai."

Fe sylwir nad yw y brenhin, tra yn ymffrostio yn ei fuddugoliaethau yn Judea, yn anturio dywedyd iddo gymmeryd Jerusalem. Cauodd Hezeciah "fel aderyn yn ei wialdy," ac ni a gawn weled yn awr y modd y gwaredwyd yr aderyn hwnw o fagl yr heliwr. Yr oedd Hezeciah wedi ceisio yn ofer heddychu y gelyn trwy roddi y trysorau mawrion yr oedd wedi eu gofyn, i wneyd i fyny pa rai efe a roddodd yr holl gyfoeth yn ei balas, ysbeiliodd y Deml o'i holl drysorau o aur ac arian, a thorodd ymaith yr aur oddiwrth ei drysau a'i cholofnau. Derbyniodd Senacherib y dirwy drudfawr, ond anfonodd ei genhadon i weinyddu y dinystr a ddylasai gadw draw.

Yr oedd y genhadaeth yma yn gynhwysedig yn benaf o dri pherson, gradd uchel pa rai a nodir allan trwy y teitlau a wisgent, canys enwau ar swyddi yw Tartan, Rabsaris, a Rabsaceh, ac nid enwau priodol, fel yr ymddangosant yn ein cyfieithiad ni o'r Bibl. Darlunir y Tartan ar yr argofion fel yn iawndrefnu y treth-gludwyr. Gwahaniaethir ef oddiwrth swyddogion ereill y llys gan ei ferllysg ddwbl, ac y mae ei deitl yn debygol yn gyfystyr a "Llywydd y Cynghor." Y Rabsaceh ydoedd y pentrulliad, a'r Rabsaris oedd penaeth yr eunuchiaid. Gallwn yn awr wahaniaethu darluniau y swyddogion hyn: yn mysg gweinyddwyr agosaf Senacherib yn ngwarchae Lachis.

Yr oedd y Rabsaceh yma yn eglur yn ddyn o fedr a chraffder gwleidyddol cryf. Gan gymmeryd ei safle wrth ddyfrffos y llyn uchaf, yn mhrif-ffordd Maes y Panwr, efe a alwodd yn chwyddedig am y brenhin Hezeciah i'w bresennoldeb, ond galwodd ei feiddiad allan dri swyddog yn cyfateb mewn gradd i'w sefyllfa ei hun a'r eiddo ei ganlynwyr. Yr oedd iaith yr Assyriaid, yr hon sydd yn awr wedi ei hadferu yn ddigonol i brofi ei mhawr debygrwydd i un yr Iuddewon, yn cael ei deall gan Eliacim, Arglwydd Ystafellydd Hezeciah, yn gystal a chan y Rabsaceh, yr hwn a ddewisodd draddodi ei fost-araeth chwyddedig yn yr Hebraeg, gan mai ei wir amcan oedd yn hytrach i gynhyrfu anfoddlonrwydd yn mysg dinaswyr Jerusalem, na throsglwyddo cenadwri i'w brenhin.

Dengys araeth y swyddog hwn fod yn rhaid fod yr Assyriaid wedi meithrin areithyddiaeth yn mysg eu celfau ereill. Oni bai ei chabledd, ei ffeithiau twyllodrus, a'r rhagrith a ddefnyddiai yr areithydd i sicrhau ei amcanion, rhoddasem iddo yr holl anrhydedd dyledus i siaradwr hyawdl, yr hwn a wyddai yn dda y modd i gamddefnyddio y ddawn i siarad, ac enill drosodd bleidleisiau y bobl i'w achos.

Gwyddai Hezeciah yn eithaf nas gallai gyrchu yn ofer at Jehofah ar y "dydd o drallod" hwnw, ac felly anfonodd ei swyddogion at y prophwyd, braint yr hwn oedd i gysuro calon y brenhin duwiol, a rhagfynegu gorchfygiad ei elyn: "Ac Esau a ddywedodd wrthynt, Fel hyn y dywedwch wrth eich meistr, Fel hyn y dywed yr Arglwydd, Nac ofna'r geiriau a glywaist, trwy y rhai y cablodd gweision brenhin Assyria fi. Wele fi yn rhoddi arno ef wynt, ac efe a glyw swn, ac a ddychwel i'w wlad; gwnaf hefyd iddo syrthio gan y cleddyf yn ei wlad ei hun."

Dychwelodd cenhadon Senacherib at eu mheistr, yr hwn a gawsant yn gwarchae Libnah, o ba le y cyfeiriwyd yr un iaith ddirmygus at Hezeciah mewn llythyr, yr hwn a ddygodd yn uniongyrchol i'r Deml ac a'i gosododd ger bron yr Arglwydd. Mae ei weddi daer ac ymbilgar, a'r atebiad anfonwyd gan y prophwyd, yn mysg yr esiamplau prydferthaf o dduwioldeb gofnodir yn Ngair Duw. Dylynodd yr atebiad i'r weddi hon yn uniongyrchol, ac mewn dullwedd yn tueddu yn dda at chwalu ymaith bob ofn oddiwrth y brenhin a'i bobl.

(Darllener 2 Brenhinoedd xviii. 13—37; xix. 2 Croniel xxxii.)

# PENNOD IV.

## CYFLENWAD-DWFR JERUSALEM.

GWNAETH Hezeciah, tra y galwodd yn ddifrifol a thaer ar yr Arglwydd, ac y ceisiodd hefyd am weddiau Esaiah dros y ddinas warchauedig, ddefnydd ar yr un pryd o bob moddion cyrhaeddadwy i'w hamddiffyn. Mae yn gamgymmeriad mynych a marwol i ymgyrchu at weddi yn lle ein hymdrechion ein hunain. Ei hiawn ddefnydd ydyw i geisio am gyfarwyddyd Dwyfol am y moddion a ddylem ddefnyddio, ac am fendith ar yr ymarferiad o honynt; ac felly yr ydym yn cael y brenhin duwiol yma mor ofalus i gyrchu at y moddion goreu i'w amddiffyn ei hun a'i bobl rhag y goresgynwyr Assyriaidd, ag ydoedd o ddifrifol yn galw ar enw yr Arglwydd. Felly yr ydym yn darllen ei fod yn ofalus i roi y ddinas mewn sefyllfa o amddiffyniad, i gynhysgaeddu peiriannau rhyfel, ac iawndrefnu yr holl nerth a allasai gael: "Ac efe a ymgryfhaodd, ac a adeiladodd yr holl fur drylliedig, ac a'i cyfododd i fynu hyd y tyrau, a mur arall oddi allan, ac a gadarnhaodd Milo yn ninas Dafydd, ac a wnaeth lawer o biccellau ac o dariannau. Ac efe a osododd dywysogion rhyfel ar y bobl, ac a'u casglodd hwynt atto i heol porth y ddinas, ac a lefarodd wrth fodd eu calon hwynt."

Mae yn deilwng o sylw mai un o'r dyfeisiadau cyntaf at ba un yr ymgyrchodd, ydoedd i dori ymaith y cyflenwad dwfr oddiwrth y gelynion gan ba rai y bygythid ei ddinas. Nyni a ddarllenwn iddo ymgynghori "â'i dywysogion, ac â'i gedyrn, am argae dyfroedd y ffynhonnau, y rhai oedd allan o'r ddinas; a hwy a'i cynnorthwyasant ef. Felly pobl lawer a ymgasglasant, ac a argaeasant yr holl ffynhonnau, a'r afon sydd yn rhedeg trwy ganol y wlad, gan ddywedyd, Pa ham y daw brenhinoedd Assyria, ac y cânt ddyfroedd lawer?" Mae y ddyfais at ba un yr ymgyrchodd y brenhin yn berffaith gyson â'r ffaith fod ei sylw wedi ei gyfeirio at y gwaith o sicrhau cyflenwad digonol o ddwfr. Yn yr adolygiad ar ei "hanes," (2 Bren. xx. 20,) nyni a ddarllenwn "fel y gwnaeth efe'r

llynn, a'r pistyll, ac y dug efe'r dyfroedd i'r ddinas." Rhaid ei fod wedi cael cyfeirio ei sylw at werth dwfr mewn cyflawnder, diffyg o'r hwn a ragwelodd, a gwnai daro i'w feddwl yn union mai un ffordd i orfodi enciliad Senacherib a'i lu mawr a fyddai prinder dwfr.

Y rhai hyny a deithiant Jerusalem y dydd presennol ydynt fwyaf galluog i werthfawrogi y daioni gyfranwyd gan Hezeciah, a'r cadystryw doeth a ddefnyddiodd pan y gadawodd y gelyn yn amddifad o'r fantais a sicrhaodd ei lafur. Dywed teithiwr deallus diweddar, "Mae yn syndod a thipyn yn ddyrys i ymwelydd sydd raid iddo gario 'costrel' ddwfr gydag ef yn ei wibdeithiau oddeutu yr amgylchoedd, i ddeall fod y fath gyflawnder o ddwfr unwaith oddiallan fel yr oedd yn rhaid i'r brenhin Hezeciah alw holl nerth Israel i gynhorthwyo i atal y ffynhonau.....Myfi a ddarllenais gyda syndod am 'ddyfroedd lawer,' 'yr holl ffynhonau,' 'a'r afon sydd yn rhedeg trwy ganol y wlad.' Ymadroddion rhyfedd yw y rhai hyn pan eu cymhwysir at y parth yma. Ataliodd Hezeciah a'i 'bobl lawer' hwy mor effeithiol, fel nad ellid cael gafael arnynt byth wed'yn, hyd yn oed gan yr Iuddewon eu hunain."

Rhydd Jerusalem brawf digonol o'r moddion celfyddydol a ddefnyddid gynt i wneyd i fyny am ei phrinder naturiol yn y cyflenwad o ddwfr. Heblaw y galwadau a wneid gan breswylwyr cyffredin y ddinas boblog, yr oedd eisieu llawer iawn at wasanaeth y Deml, ac yn ystod dylifiad yr ymwelwyr o bob parth o'r deyrnas ar y tair gwyl flynyddol, cynhyddai y treuliad i helaethder dirfawr. Gallwn gan hyny gredu y traddodiad a briodola i Solomon y llynoedd mawrion yn agos i'r hen Deml, ac efallai y dyfrffosydd gan ba rai y porthid hwynt. Arddanghosodd teyrnasiad llwyddiannus Solomon a Hezeciah yr un ysbryd anturiaethus ag a hynododd Rhufain a Llundain wedi hyny, a dinasoedd mawrion ereill, mewn adeiladu gweithiau mawrion, pa un bynag ai dyfrffosydd neu afonydd newyddion, i drosglwyddo trysorau ffynhonau pur i'r ddinas o leoedd pell. Mynodd Solomon gludo dwfr i'r ddinas o Etham, i'r deheu o Bethlehem, ac ar y dydd presennol manteisia Mosc Omar trwy yr adeiladau mawrion hyny, y rhai a fwriadwyd ar y cyntaf yn debygol i gyflenwi y Deml.

Rhyfedda ymchwilwyr diweddar at y trefniadau helaeth a fwriedid i



LEIGHTON, BROTHERS

POOL OF HEZEKIAH.

wneyd y cyflenwad dwfr yn ddigonol, ac addefir gan y rhai mwyaf deallus nad yw yr holl ystafelloedd tanddaearol hyn wedi eu darganfod eto. Credir yn gyffredin fod yno ddyfr-gronfa fawr gryn ddyfnder o dan gyntedd y Deml, o ba le y tardda amryw ffrydleoedd, trwy ba rai y cyflenwid llawer o ffynhonau a dyfr-gronfeydd.

Yr oedd Jerusalem yn hynod am ei llynoedd, megis Bethesda a Siloam. Mawr gyrchid i'r cyntaf o herwydd ei rinweddau iachaol, ond y mae yn awr wedi ei lenwi ag ysbwrial, ac y mae wedi hir beidio bod yn "dŷ iachâd," i ba un y gallai y "rhai cleifion" gyrchu er eu lles. Yr oedd llyn Siloam, neu Shiloam, yn agos i droed Mynydd Sion. Rhed ei ddyfroedd eto o graig bum troedfedd ar hugain o dan y ddaear, a chyrhaeddir hwy ar hyd rhes o risiau. Oddiyma disgyna o dan y graig galed, ac ymddengys drachefn gan lifo i lawr y dyffryn mewn cyfeiriad de-ddwyreiniol. Danghosir yn darawiadol y llafur diarbed roddwyd ar y gweithiau hyn, gan y ffaith fod y ffrwd yma yn cael ei chyflenwi gan ffos wedi ei thori trwy fryn creigiog Ophel. Mae Ffynhon y Forwyn, trwy ba un y mae dyfroedd "afon Siloa" yn cael eu cyflenwi, weithiau bron yn sych, ac yn ddisymmwth ail ymddengys ei dwfr, gan lifo yn ffrwd gref, a chan godi yn gyflym i'r uchder o amryw droedfeddi.

Y manteision sicrhawyd i'r ddinas trwy ei dyfrgistiau mawrion, ei llynoedd, a dyfr-gronfeydd, a alluogent y trigolion, yn y rhagolwg ar y gwarchae, i wneyd heb y cyflenwadau o'r dyfrffosydd, pa rai gan hyny a gauwyd i fyny fel na byddai dim cyflenwad oddeutu y ddinas, tra yr oedd eto gyflawnder oddifewn. Fel hyn y gallwn ddeall iaith y prophwyd Esaiah: "Am hynny mewn llawenydd y tynnwch ddwfr o ffynhonnau iachawdwriaeth." Llefara y dyfroedd gludwyd i'r Jerusalem ddaearol, ac a drysorwyd yn ei dyfrgistiau mawrion, wrthym am y cyflenwad digonol o ddylanwadau adfywiol a phurol geir yn eglwys y Duw byw, y Jerusalem sydd oddi uchod, ac o ba rai y gwahoddir ei dinaswyr i gyfranogi, tra y gadewir y rhai hyny a wrthodant fyned o fewn ei phyrth, i brofi yr amddifadrwydd dychrynllyd ragfynegir gan y prophwyd: "A phwy bynnag nid êl i fynu o deuluoedd y ddaear i Jerusalem, i addoli'r Brenhin, Arglwydd y lluoedd, ni bydd gwlaw arnynt."

(Darllener 2 Croniel xxxii. 2—5. Esaiah xii.)

## PENNOD V.

### DINYSTR Y FYDDIN ASSYRIAIDD.

PROFASAI rhagdrefniadau doeth Hezeciah, a gwroldeb ei bobl, yn anghyfartal i fedr a nerth Senacherib, oni buasai i Arglwydd y lluoedd gyfryngu yn drugarog er gwaredigaeth i'w bobl. Yr oedd y fyddin oresgynol yn gynhwysedig o gant a phedwar ugain a phump o filoedd o wyr, ac ni roddai eu llwyddiant yn darostwng dinasoedd caerog Judea a gwledydd ereill un sail i'r rhai gwarchauedig yn Jerusalem i obeithio y caent hwy ddiangc. Cynhyrfid a chynhelid eu gobaith yn unig gan addewid Jehofah a drosglwyddwyd trwy eneu Ei brophwyd Esaiah, rhagfynegiad hynodol yr hwn am Senacherib ydym wedi sylwi arno eisoes: "Wele fi yn rhoddi arno ef wynt, ac efe a glyw swn, ac a ddychwel i'w wlad."

Cyflawnwyd un rhan o'r rhagfynegiad yma, mewn perthynas i'r "swn" trwy ba un yr oedd cynhydd y goresgynydd i gael ei atal, pan y "clywodd son am Tirhacah, brenhin Ethiopia, gan ddywedyd, Efe a aeth allan i ryfel â thi." Tirhacah ydoedd frenhin yr Aipht Uchaf, a gelyn arswydlawn i Senacherib, gan fod ei fuddugoliaethau yn cyrhaedd dros yr holl Aipht, i dueddau Arabia ac Africa, ac mor bell a cholofnau Hercules. Yma drachefn cadarnha y cofnodion Assyriaidd hanesiaeth y Bibl. Dywed Senacherib: "Anfonodd brenhinoedd yr Aipht hefyd wyr meirch a gwyr traed, perthynol i fyddin Moröe, neu Ethiopia, o ba rai nis gellid cyfrif y nifer. Yn nghymmydogaeth Lachis mi a ymleddais frwydr â hwynt. Cadbeniaid y byddinoedd, a gwyr ieuaingc brenhinoedd yr Aipht, a chadbeniaid byddinoedd brenhin Meröe, mi a roddais i'r cleddyf yn ngwlad Libnah." Yr oedd Tirhacah yn gyfaill i'r Iuddewon, a thrwy fyned yn mlaen i'w cynhorthwyo, tynodd i ffordd y brenhin Assyriaidd oddiwrth y rhyfeloedd dinystriol oedd yn ddwyn yn mlaen yn Judea, a pha rai ni chaniatawyd iddo byth eu hailgychwyn.

Deallwn oddiwrth Herodotus i Senacherib, pan y clywodd fod Tirhacah

yn dyfod i waredu yr Iuddewon, fyned trwy yr anialwch ar hyd glan y môr, a chyrhaedd hyd Pelusium, lle y cyfarfyddwyd ag ef gan fyddin Aiphtaidd, o dan lywyddiaeth Sethos, offeiriad o Memphis, a chyn i'r un frwydr gymmeryd lle, i ryw achos anadnabyddus chwalu a gyru ar ffo yr Assyriaid. Felly y darllenwn i'r Iuddewon roddi gogoniant a diolch i Jehofah am eu gwaredigaeth, a rhoddodd yr Aiphtiaid gofgolofn i fyny yn nheml eu duw Pthah yn Memphis.

Cyflawnwyd y rhan arall o'r rhagfynegiad—"wele fi yn rhoddi arno ef wynt"—trwy arddanghosiad mwy hynod fyth o'r gallu Dwyfol: "A'r noson honno'r aeth angel yr Arglwydd, ac a darawodd yngwersyll yr Assyriaid bump a phedwar ugain a chant o filoedd: a phan gyfodasant yn foreu drannoeth, wele hwynt oll yn gelaneddau meirwon. Felly Senacherib brenhin Assyria a ymadawodd, ac a aeth ymaith, ac a ddychwelodd, ac a drigodd yn Ninefeh. A bu, fel yr oedd efe yn addoli yn nhŷ Nisroch ei dduw, i Adrammelech a Sareser, ei feibion, ei ladd ef â'r cleddyf; a hwy a ddiangasant i wlad Armenia; ac Esarhàdon ei fab a deyrnasodd yn ei le ef."

Mor berffaith mae y dinystr gofnodir fel hyn yn cytuno â rhagfynegiad arall mewn perthynas iddo gan Esaiah: "Ac wele drallod ar brydnawn, a chyn y bore ni bydd. Dyma ran y rhai a'n hanrheithiant ni, a choelbren y rhai a'n hyspeiliant ni."

I'r gwaith dychrynllyd yma o farn gael ei weinyddu gan angel Jehofah a haerir yn bendant yn yr hanes cyssegredig, yr hyn ni wna, modd bynag, ein hysbysu am yr offerynoliaeth ddefnyddiwyd gan y dialydd angylaidd. Coleddwyd y dyb yn bur gyffredin mai y "gwynt" ddefnyddiodd ei nerth ar y fyddin ddirfawr hon ydoedd gwynt poeth a heintus yr anialwch, adwaenir fel y Simoon, ac y mae y casgliad wedi ei wneyd yn rhy frysiog mai y Simoon hwn ydoedd yr angel i'r hwn yr ymddiriedwyd y gwaith o ddinystrio. Mae yn eithaf digon i sylwi mewn atebiad, fod yr ymadrodd "angel yr Arglwydd," yn cael ei gyfleu yn y fath fodd ag i drosglwyddo y meddylddrych o offerynoliaeth ddeallol. Efe a "aeth, ac a darawodd yngwersyll yr Assyriaid." Ac nid yw y Simoon yn cyfateb i'r darluniad roddir o'r "gwynt" dinystriol hwn. Cyflawna y Simoon ei waith yn y dydd, ac yn gyffredin oddeutu canol dydd; ond disgynodd

y gosp farwol hon ar y fyddin ar ganol nos. Gweithreda y Simoon yn gyffredin yn yr anialwch; ond disgynodd y gosp yma ar fyddin yn gwersyllu yn bell oddiwrth yr anialwch, ac yn agos i'r ddinas. Pe buasai y "gwynt" o'r nodwedd a dybir, gallasem ddisgwyl iddo ddisgyn ar drigolion y ddinas gyfagos, pob un o ba rai a ddiangasant, canys gwahaniaethodd gweinyddydd y dialedd Dwyfol yn ofalus rhwng y Judeaid a'r Assyriaid, gan gyfeirio y fflangell yn erbyn "pob cadarn nerthol, a phob blaenor a thywysog yngwersyll brenhin Assyria."

Efallai mai yr esboniad goreu ar y digwyddiad yma yw yr eiddo y diweddar Dr. Henderson, yr hwn a ddywed, "nas gellir profi fod y term angel byth yn cael ei ddefnyddio yn ffigyrol gan yr Hebreaid i osod allan unrhyw offerynoliaeth yn y byd sylweddol, er ei fod wedi dyfod agos yn arddefodol mewn esbonwyr i'w haeru. Nid ydym, gan hyny, at ein rhyddid i roddi unrhyw ystyr gwahanol iddo i'r un a ddwg yn gyffredin, hyny yw, ysbryd nefol yn cael ei ddefnyddio fel offeryn rhagluniaeth Ddwyfol. Nid oes dim, modd bynag, i rwystro i ni dybio i'r goruchwyliwr neillduol ac anweledig hwn ddefnyddio ail achosion neu gyfryngol, yn union fel y dinystriodd angel ddeg mil a thriugain o wyr trwy y pla (2 Sam. xxiv. 15, 16; 1 Cron. xxi. 14—18); neu fel gyda Herod, pan y dywedir, "Tarawodd angel yr Arglwydd ef, a chan bryfed yn ei ysu, efe a drengodd."

Coffhâ un o'n beirdd ni am orchfygiad y llu Assyriaidd fel hyn:—

"Fel y dail âr y goedwig yn wyrdd hwyr-ddydd haf,
Y llu a'u baneran sy'n edrych yn braf;
Fel y cwymp dail y goedwig pan hydref a chwyth,
Gorwedda'r llu dranoeth 'n wywedig am byth.

"Canys Angel Marwolaeth wenwynai y gwynt,
I wyneb y gelyn y chwythai'n ei hynt;
Fferai llygaid y cysgwyr fu'n hoew a llon,
Rho'i 'r galon un curiad—llonyddai eu bron.

"Mae y gweddwon o Assur yn uchel eu cwyn,
A delwau Baal ddrylliwyd—darfyddodd eu swyn;
A grymusder y Pagan heb gymhorth y cledd,
A doddai fel eira o flaen Dwyfol wedd."

(Darllener 2 Brenhinoedd xix. 35—38. 2 Cronicl xxxii. 2 . Esaiah xxxvii.—xxxix.)

## PENNOD VI.

### DYDDIAU OLAF HEZECIAH.

MAE yn gamgymmeriad i dybied y gallwn wrth ddarllen yr Ysgrythyrau Sanctaidd drwyddynt yn y drefn yn mha un mae y llyfrau cyssegredig wedi eu gosod yn y canon, olrhain digwyddiadau unrhyw hanesiaeth neillduol fel adroddiad unedig. Yn y rhan tra dyddorol hyny o'r hanesiaeth Iuddewig sydd yn myned yn awr o dan ein sylw, rhaid i ni gasglu y defnyddiau a roddir yn Llyfrau y Brenhinoedd a'r Croniclau, ac at bob un dylem ychwanegu dywediadau ysbrydoledig y prophwydi.

Fel hyn, os mynwn hanes dylynol o ddyddiau olaf Hezeciah, rhaid i ni fyned o'r naill lyfr i'r llall, ac ni a gawn y defnyddiau gofynol yn aros am law y casglydd diwyd. Gallwn ddechreu gydag Ail Llyfr y Cronicl, (xxxii.,) lle y darllenwn "y clefychodd Hezecïah hyd farw, ac a weddïodd ar yr Arglwydd; yntau a lefarodd wrtho, ac a roddes argoel iddo," neu "a wnaeth wyrth iddo" yn ol ymyl y ddalen. Os cyfeiria darllenydd y Bibl yn awr at Ail Lyfr y Brenhinoedd, (xx.,) ca fanylion ychwanegol am afiechyd y brenhin, y rhybudd a dderbyniodd gan y prophwyd i drefnu ei dŷ, a'r taerineb gyda pha un y llefodd ar yr Arglwydd. "Yna efe a drodd ei wyneb at y pared, ac a weddïodd at yr Arglwydd, gan ddywedyd, Attolwg, Arglwydd, cofia yr awr hon i mi rodio ger dy fron di mewn gwirionedd, ac â chalon berffaith, a gwneuthur o honof yr hyn oedd dda yn dy olwg di. A Hezecïah a wylodd ag wylofain mawr."

Yn y Brenhinoedd yr ydym yn darllen nad oedd y prophwyd wedi gadael y palas cyn y "daeth gair yr Arglwydd atto, gan ddywedyd, Dychwel, a dywed wrth Hezecïah, blaenor fy mhobl i, Fel hyn y dywed Arglwydd Dduw Dafydd dy dad, Clywais dy weddi di, gwelais dy ddagrau; wele fi yn dy iachau di; y trydydd dydd yr âi di i fynu i dŷ'r Arglwydd. A mi a 'chwanegaf at dy ddyddiau di bymtheg mlynedd, ac a'th waredaf di a'r ddinas hon o law brenhin Assyria; diffynnaf hefyd y ddinas hon er fy mwyn fy hun, ac er mwyn Dafydd fy ngwas."

Ar ol darllen yr amlygiad hynod yma o nerth gweddi daer, a ydym ni ddim yn deimladwy o ddymuniad difrifol am wybod y modd y darfu i Hezeciah weddio? Tybiwch fod y "daer-weddi" hon wedi ei chadw o olwg dynol, ei bod wedi ei chuddio yn mysg cofysgrifau y llys nefol, fel deiseb oedd y Llywydd Tragywyddol wedi ei ganiatâu, ond yr hon na oddefid i lygaid marwol byth ei darllen. Fel y teimlasem gymhelliad i weddio, Arglwydd dysg i ni weddio yr un modd ag y gweddiodd Hezeciah! Beth a fuasai ein boddhad pe gallasem gael o'r gafell nefol adysgrif o weddi Hezeciah! Fel y buasai ein gwerthfawrogiad o honi yn mwyhau, pe cofiasem mai gweddi y teyrn ar farw ydoedd, wrth yr hwn y dywedodd y prophwyd, "Dyn marwol wyt ti, dod orchymyn am dy dŷ," ac mewn atebiad, i bymtheg mlynedd gael eu hychwanegu at oes yr erfynydd!

Gadewch i ni gan hyny fyned at brophwydoliaethau Esaiah, ac ni a gawn yno y weddi ryfedd hon wedi ei throsglwyddo i ni, nid fel ffurf o weddi—canys nid yw ffurfiau o weddi heb yr ysbryd ond ffug—ond fel engraifft o daerineb gwir weddi, a chefnogaeth i alw yn ddifrifol ar enw yr Arglwydd. Darllenwch y weddi yna, gan hyny, fel ei cofnodir yn Esaiah xxxviii., ac, yn mysg y gwirioneddau hynod a gyfaddefa, sylwch ar addefiad y brenhin duwiol iddo weled "yr Arglwydd Ior yn nhir y rhai byw." Dywedir am "y rhai pur o galon, hwy a welant Dduw;" ac nid ydym ni o'r nifer wynfydedig hyny, oddieithr ein bod yn awr yn gweled Duw yn Ei ragluniaeth, yn Ei air, yn Ei gyssegr, yn ein hanes ein hunain. Nis gallwn ddarllen o'r rhan yma o hanes bywyd Hezeciah, heb sylwi ddarfod iddo gydnabod yn ddiolchgar iddo weled llawer o Dduw yn ei deyrnasiad hynod, yn mha un yr anrhydeddwyd ef i ddwyn oddiamgylch ddiwygiad crefyddol mawr, ac y gwaredwyd ef yn drugarog oddiwrth ormesdeyrn mwyaf grymus, brenhin Assyria.

Mor fawr ydoedd ymostyngiad Jehofah, yr hwn pan y dywedodd y brenhin, "Pa arwydd fydd y iachâ'r Arglwydd fi, ac yr af fi i fynu i dŷ'r Arglwydd y trydydd dydd?" a atebodd trwy Ei brophwyd, "Hyn fydd iti yn argoel oddiwrth yr Arglwydd, y gwna yr Arglwydd y gair a lefarodd efe. A â 'r cysgod ddeg o raddau yn mlaen, neu a ddychwel efe ddeg o raddau yn ol?" Dylasai y brenhin roddi ymddiriedaeth yn ngair y prophwyd heb ofyn am arwydd gwyrthiol. Ond, fel y darllenwn,

"Esau y prophwyd a lefodd ar yr Arglwydd; ac efe a drodd y cysgod ar hŷd y graddau, ar hŷd y rhai y disgynasai efe yn neial Ahaz, ddeg o raddau yn ei ol." Dylid sylwi i'r prophwyd gael ei gyfarwyddo er anrhydeddu ymarferiad o foddion, i osod swp o ffigys ar y cornwyd, meddyginiaeth a arferir hyd eto yn Palestina, er y gallasai gael ei roddi heibio pan yr oedd gallu gwyrthiol yn cael ei ddefnyddio.

Nid yw yn angenrheidiol na buddiol i ymofyn yn nghylch ffurf "deial Ahaz," mewn perthynas i'r hyn mae gwahanol farnau. Yr arwydd a roddwyd ydoedd y fath nad allasai ond Duw yn unig ei gyfranu, yn yr ymarferiad o allu gwyrthiol. Mae yn ddyddorol, modd bynag, i sylw fod "yr arwydd yn ymddangos yn cyfeirio at gyfnodau bywyd Hezeciah. Nid oedd ar y pryd hwn yn ddeg ar hugain oed cyflawn, *canolddydd* bywyd; y cysgod yn myned yn ol un chwarter cylch yn ychwanegu at ei ddyddiau bymtheg mlynedd, trwy ba un yr estynwyd hwy i oddeutu pum' mlynedd a deugain. Ni orphenodd haner-cylch y deial; ond bu farw ar oddeutu pellder un chwarter oddiwrth fachludiad yr haul, neu brydnawn bywyd."

Mae yn ofidus yn awr i ddarllen, "Ond ni thalodd Hezeciah drachefn yn ol yr hyn a roddasid iddo; canys ei galon a ddyrchafodd; a digofaint a ddaeth arno ef, ac ar Judah a Jerusalem." Darlunir y trosedd at yr hwn y cyfeiria yr hanesydd cyssegredig yn 2 Brenhinoedd xx. 12, 13. Ewyllysiai brenhin Babilon gadarnhau ei hun trwy gyngrair â Judea; a throsedd Hezeciah oedd y balchder a arweiniodd i arddanghosiad gwag-ogoneddgar o'i gyfoeth. Sylwch fel y cospwyd y pechod hwn. Nid cynt y gadawodd y cenhadon o Babilon y palas nag yr aeth Esaiah i mewn, ac y dywedodd, "Gwrando air yr Arglwydd: Wele, y dyddiau yn dyfod, pan ddyger i Babilon yr hyn oll sydd yn dy dŷ, a'r hyn a gynhilodd dy dadau hyd y dydd hwn: ni adewir dim, medd yr Arglwydd; Cymmerant hefyd o'th feibion di, y rhai a ddaw a allan o honot, y rhai a genhedli di, a hwy a fyddant yn ystafellyddion yn llys brenhin Babilon." Dylai yr hanes yma fod yn rhybudd i ni rhag pob hunan-ymddiried Yr oedd teithi a nodweddiad crefyddol Hezeciah yn odidog, pan y gadawodd Duw ef, "i'w brofi ef, i wybod y cwbl ag oedd yn ei galon."

(Darllener 2 Brenhinoedd xx. 2 Cronicl xxxii. 24—33. Esaiah xxxviii.)

# PENNOD VII.

## MANASSEH—YR ANNYCHWELEDIG A'R DYCHWELEDIG.

AR farwolaeth Hezeciah, gadawyd brenhiniaeth Judah i gael ei llywodraethu gan blentyn, a'r plentyn hwnw, er wedi ei eni o rieni duwiol, yn un cyndyn a drygionus, yn nodedig am bob drwg a allasai ddiraddio ei gymmeriad ei hun, a dwyn camwedd a thrueni ar ei wlad. Gallwn gredu fod pob un o rieni Manasseh yn weision Jehofah, ac eto yr ydym yn cael i'w mhab ddechreu ei fywyd cyhoeddus trwy adael y llwybr yn mha un yr ymdrechasant ei arwain, iddo barhau yn ei yrfa bechadurus am lawer o flynyddoedd, ac iddo orfod myned trwy gystudd dwfn cyn iddo geisio Duw ei rieni duwiol.

"Mae yn dra thebyg," meddai Esgob Hall, "i Hezeciah wrth briodi mor ddiweddar, yn nerth ei oes a'i grefydd, wneyd dewisiad gofalus o wraig gyfaddas i'w dduwioldeb ei hun, ac ni buasai ychwaith ei hyfrydwch gymmaint ynddi hi—yn ol ei henw, Hephsi-bah, 'fy hyfrydwch'—oni buasai fod ei hyfrydwch hi fel yr eiddo ef yn Nuw. Cilia eu plentyn oddiwrth bob un, gan etifeddu mor llwyr ddrygau ei daid Ahaz, fel pe na buasai yr un Hezeciah wedi bod cydrhyngddo; felly ni a welsom fywyn planhigyn tra ffrwythlawn yn ymddirywio i'r sur afallen neu helygen a roddodd y tarddiad i'w gyff. Eto nis gallaf ddywedyd fod Hezeciah mor rhydd oddiwrth drosglwyddo drwg i'w fab Manasseh, ag ydoedd Ahaz o rydd oddiwrth drosglwyddo da i'w fab Hezeciah. Mae drygioni wedi ymgorffoli yn y natur oreu, tra y mae hyd yn oed y daioni lleiaf yn disgyn oddiuchod."

Gwna rhieni duwiol, sydd a'u calonau yn drallodus wrth ganfod fod ganddynt blentyn annuwiol yn dwyn delw yr Adda syrthiedig, yn dda wrth iddynt ddarllen nodweddiad y mab drygionus hwn i Hezeciah a Hephsi-bah, beidio ystyried eu hunain fel gwrthddrychau neillduol yr anfoddlonrwydd Dwyfol, nac wedi eu cau allan oddiwrth weddi a gobaith am y fendith a all ddod eto, er iddi fod "ar ol llawer o ddyddiau."

Mae yn ddychrynllyd i feddwl am nodweddiad y brenhin ieuangc hwn ar Judah. Er ond deuddeg oed, ymddanghosai ei galon yn addfed

mewn pob drwg. Mae drygau y galon yn gyflym yn eu tyfiad, lle mae y meddwl wedi bod yn hwyrfrydig i ddysgu y gwersi mae rhieni da ac athrawon doeth wedi ymdrechu i'w cyfranu. Gwelwch fel yr oedd Manasseh wedi gosod ei galon ar ddarostwng ei bobl drachefn i'r sefyllfa ddiraddiol hono o ba un yr oedd ei dad duwiol mor ddiweddar wedi bod yn foddion i'w cyfodi hwynt.

Etifeddodd sel ei dad, os na ddarfu ei dduwioldeb. Nid yw yn colli dim amser mewn adferu yr holl ffieidd-dra y llafuriodd Hezeciah i'w ddinystrio. Mae y temlau adfeiliedig ar ben y bryniau wedi eu hadferu yn fuan, a'u cyssegru i eilun-addoliad, myga allorau Baal gan aberthau, llenwir y llwyni â'r drygau gwrthun cydfynedol ag addoliad paganaidd, a châ "holl lu y nefoedd" eu hallorau yn nau gyntedd y Deml. Yr oedd y lle sanctaidd hwnw, yn yr hwn yr oedd Jehofah wedi gosod Ei enw, wedi ei halogi trwy fedrusrwydd gwyrdroedig y brenhin drygionus, yr hwn a blanodd lwyn o fewn ei muriau, yn nghanol pa un y gosododd i fyny eilun. Parhaodd Manasseh am dymhor mawr o'i deyrnasiad maith yn yr annuwiolderau arswydus hyn, ac fel y tyfai ei blant i fyny, parodd iddynt gael eu tynu trwy y tânau yn nyffryn mab Hinnom. Ac nid allwn ryfeddu iddo ef, na ddarfu i'w sel dros eilunod ddim arbed ei feibion ei hun, dywallt gyda pharodrwydd waed y bobl ar y rhai y gormesai. Fel hyn y dywedir wrthym iddo dywallt "llawer iawn o waed gwirion, hyd oni lanwodd efe Jerusalem o ben bwy gilydd."

Yr oedd golygfa yr annuwiolderau dychrynllyd hyn wedi ei feddianu gynt gan yr Amoriaid, y rhai a gawsant eu dinystrio neu eu bwrw allan am yr eilun-addoliaethau trwy ba rai y diraddiasant y tir; ond y fath ydoedd ffieidd-derau Manasseh, fel y gwnaeth "yn waeth nâ'r hyn oll a wnaethai'r Amoriaid." Gwnaeth Efe, yr hwn a ddirmygid fel hyn, ymyryd yn awr i amddiffyn anrhydedd Ei enw Ei hun, ac i ddwyn teyrnasiad anwiredd i ben. Anfonwyd y prophwyd gan hyny gyda ei genadwri ddychrynllyd: "Fel hyn y dywed Arglwydd Dduw Israel, Wele fi yn dwyn drwg ar Jerusalem a Judah, fel y merwino dwy-glust y sawl a'i clywant. A mi a estynaf linyn mesur Samaria ar Jerusalem, a phwys tŷ Ahab; golchaf hefyd Jerusalem fel y gylch un gwppan, yr hwn pan olcho, efe a'i trŷ ar ei wyneb."

Mewn cyflawniad i'r rhagfynegiad yma, "y dug yr Arglwydd arnynt hwy dywysogion llu brenhin Assyria, a hwy a ddaliasant Manasseh mewn dyrysni, ac a'i rhwymasant ef â dwy gadwyn, ac a'i dygasant ef i Babilon." Cadarnha dernyn o hanesiaeth anghyssegredig y rhan yma o'r hanes cyssegredig. Ceisiodd Esarhaddon, un o feibion Senacherib, adfeddiannu y llywyddiaeth dros Syria a Phalestina, oedd wedi syrthio i law yr Aiphtiaid. Aeth ei gadfridog yn mlaen yn erbyn Manasseh, goddiweddodd ef yn ei ffoedigaeth, dygodd ef ymaith i Babilon, lle y cadwyd ef yn garcharor am ddwy flynedd; ac wedi hyny a anfonwyd yn ol i Jerusalem fel caeth-ddeiliad Assyria. Arddengys y mynorion Assyriaidd berson o'r hiliogaeth farfog, wedi ei lawhualu, tra mae ar ei fferau fodrwyau cryfion, wedi eu sicrhau wrth eu gilydd â bàr trwm; mae yr hualau hyn, yn debygol, fel y rhai hyny y rhwymwyd Manasseh ynddynt yn Babilon.

Yn awr, o'r diwedd, atebir yn drugarog weddiau ei rieni duwiol. Hawdd y gallasai efe ddywedyd, "Hyfryd yw ymdriniaethau adfyd;" canys "pan oedd gyfyng arno ef, efe a weddïodd ger bron yr Arglwydd ei Dduw, ac a ymostyngodd yn ddirfawr o flaen Duw ei dadau, ac a weddïodd arno Ef; ac Efe a fu foddlon iddo, ac a wrandawodd ei ddymuniad ef, ac a'i dug ef drachefn i Jerusalem i'w frenhiniaeth. Yna y gwybu Manasseh mai 'r Arglwydd oedd Dduw." Crybwyllir am dano ef yn fynych a phriodol fel prawf o drugaredd fawr Duw i'r pechadur edifeiriol, hanes yr hwn nis gallwn ddarllen heb fawrygu anfeidrol drugaredd a gras, a derbyn anogaeth hyd yn oed o ddyfnderoedd iselaf pechod a thrueni, i alw ar enw yr Arglwydd.

Bu Manasseh byw i brofi cywirdeb ei edifeirwch. Llafuriodd yn egniol i adgyweirio y drygau mawrion a wnaeth i'w wlad, ac i osod esiampl da o flaen ei bobl. Ymegniodd yn awr i gadarnhau ei brif-ddinas, ac i amddiffyn dinasoedd Judah; a mwy pwysig byth, "efe a dynnodd ymaith y duwiau dïeithr, a'r ddelw, allan o dŷ'r Arglwydd, a'r holl allorau a adeiladasai efe ym mynydd tŷ'r Arglwydd, ac yn Jerusalem, ac a'u taflodd allan o'r ddinas." Fel diwygiwr difrifol, "efe a gyweiriodd allor yr Arglwydd, ac a aberthodd arni hi ebyrth hedd a moliant; dywedodd hefyd wrth Judah am wasanaethu Arglwydd Dduw Israel."

(Darllener 2 Brenhinoedd xxi. 1—18. 2 Cronicl xxxiii. 1—20.)



LEIGHTON, BROTHERS.

# PENNOD VIII.

## Y FRENHINIAETH HEDDYCHOL.

CALONOGWYD y prophwyd Esaiah yn ystod ei weinidogaeth faith, pa un yn debygol a gyrhaeddodd i deyrnasiad Manasseh, trwy weledigaethau hyfryd o frenhiniaeth heddychol y Messiah. Gwelodd un brenhin oedd wedi gwasanaethu Jehofah yn ffyddlawn, hyd nes y cwympodd trwy ei eondra anghyssegredig; un arall, yr hwn yn ystod teyrnasiad o un mlynedd ar bymtheg "a wnaeth yr hyn oedd union yngolwg yr Arglwydd;" Ahaz ddrygionus, yr hwn a ledaenodd yn selog addoliad eilunod; Hezeciah dduwiol, yr hwn a lafuriodd yr un mor selog i ddwyn ei bobl yn ol i ffyrdd Duw; ac yna gwelodd ŵr ieuangc annuwiol yn esgyn i'r orsedd i wneuthur archiad ei offeiriaid eilun-addolgar. Yn nghanol y cyfnewidiadau rhyfedd hyn, cafodd ef y fraint gyssegredig o ddarlunio Llywodraethwr, priodoleddau gogoneddus yr hwn a rag-gysgodwyd trwy rinweddau y fath frenhin a Hezeciah, gan gyferbynu â drygau llywodraethwyr drygionus fel Ahaz a Manasseh, ac ni byddai i'w frenhiniaeth o sancteiddrwydd a heddwch fyned drwy ddim cyfnewidiad, tra y byddai i'w blynyddoedd gyrhaedd i oesau tragywyddoldeb. Na fydded i ni gau Llyfr Esaiah cyn i ni roi trem ar y darlun swynol a dynodd o flaen llygaid y genedl Iuddewig, ac oddiwrth yr hwn y dysgid hyd yn oed y pagan i ddisgwyl dygiad yn ol deyrnasiad gwynfydedig i'r byd.

Mor brydferth yw nodweddiad ei Brenhin! "Yspryd yr Arglwydd a orphwys arno ef, yspryd doethineb a deall, yspryd cynghor a chadernid, yspryd gwybodaeth ac ofn yr Arglwydd." "A chyfiawnder fydd gwregys ei lwynau ef, a ffyddlondeb yn wregys ei arennau." Mor raslawn yw y genadwri ar ba un mae yn dod at ddynion. Saith can' mlynedd cyn ei ymddanghosiad, darlunia y prophwyd ef fel y safai i fyny i ddarllen yn y synagog yn Nazareth, a disgrifia y gwaith bendigedig ar yr hwn yr oedd ar ddechreu: "Yspryd yr Arglwydd Dduw sydd arnaf; o herwydd yr Arglwydd a'm heneiniodd i efangylu i'r rhai llariaidd; ac efe a'm

hanfonodd i rwymo'r rhai ysig eu calon, i gyhoeddi rhyddid i'r caethion, ac agoriad carchar i'r rhai sy'n rhwym; i gyhoeddi blwyddyn gymmeradwy'r Arglwydd, a dydd dïal ein Duw ni; i gysuro pob galarus; i osod i alarwyr Sïon, ac i roddi iddynt ogoniant yn lle lludw, olew llawenydd yn lle galar, gwisg moliant yn lle yspryd cystuddiedig; fel y gelwid hwynt yn brennau cyfiawnder, yn blanhigyn yr Arglwydd, fel y gogonedder ef."

Un neillduolrwydd godidog a gwahaniaethol a noda hawliau y Brenhin Messiah ar gariad a diolchgarwch ei ddeiliaid. Yr oedd i ddioddef dros eu pechodau, ac i oddef cospedigaeth fel eu dirprwywr. Felly arddengys y prophwyd bobl waredigol Crist, gan ddywedyd, "Adeiladant hefyd yr hen ddiffaethfa, cyfodant yr anghyfanneddfa gynt, ac adnewyddant ddinasoedd diffaeth, ac anghyfannedd-dra llawer oes. A dïeithriaid a safant ac a borthant eich praidd, a meibion dïeithr ffydd arddwŷr a gwinllanwŷr i chwi." Gan ragweled y wobr a ddylynai y dioddefiadau iawnol hyn, dywed y prophwyd, "Pan osodo Efe ei enaid yn aberth dros bechod, Efe a wêl ei had, efe a estyn ei ddyddiau, ac ewyllys yr Arglwydd a lwydda yn ei law Ef."

Trwy fyfyrdod crediniol ar y dioddefiadau hyn, yr oedd calonau pechaduriaid i gael eu darostwng, a'u dryllio oddiar deimlad o'u pechodau, a'u denu gan gariad sanctaidd at eu Gwaredwr. Lle mae dadleuon a rhesymau wedi methu argyhoeddi, a dychrynfeydd yr Arglwydd heb gynhyrchu dim gwir deimlad o fraw, mae dioddefiadau yr Oen yma ddygwyd i'r lladdfa wedi darostwng balchder y gwatwarwr, a thoddi y galon galetaf i edifeirwch.

Yr oedd yr hawl i lywodraethu gyrhaeddwyd fel hyn i gael ei ymarfer gan y Brenhin Messiah yn y fath fodd fel ag i gynhyrchu y dedwyddwch mwyaf a'r lles uwchaf i'w ddeiliaid ewyllysgar. Fel hyn y dywed y prophwyd: "Nid wrth olwg ei lygaid y barn Efe, nac wrth glywed ei glustiau y cerydda Efe; ond Efe a farn y tlodion mewn cyfiawnder, ac a argyhoedda dros rai llariaidd y ddaear mewn uniondeb; ac Efe a dery'r ddaear â gwïalen ei enau, ac ag anadl ei wefusau y lladd Efe'r anwir."

Tra y mae y rhai hyny dros ba rai yr estyna y Tywysog Tangnefedd

hwn ei deyrnwïalen cariad yn mwynhau y gwynfydedigrwydd o heddwch â Duw a chariad at eu Brenhin, mae ganddynt y gwynfydedigrwydd ychwanegol o gariad at eu gilydd; ac fel yr ymledaena y frenhiniaeth sanctaidd, gwaredir y byd oddiwrth y felldith, a gwneir ef yn drigfa heddwch a chariad; felly y darllenwn: "A'r blaidd a drig gyd â'r oen, a'r llewpard a orwedd gyd â'r mynn; y llo hefyd, a chenau'r llew, a'r anifail bras, fyddant ynghŷd; a bachgen bychan a'u harwain. Y fuwch hefyd a'r arth a borant ynghyd; eu llydnod a gydorweddant; y llew fel yr ŷch, a bawr wellt. A'r plentyn sugno a chwery wrth dwll yr asp; ac ar ffau'r wiber yr estyn yr hwn a ddiddyfnwyd ei law. Ni ddrygant ac ni ddifethant yn holl fynydd fy sancteiddrwydd; canys y ddaear a fydd llawn o wybodaeth yr Arglwydd, megis y mae'r dyfroedd yn toi'r môr."

Fel y mae y Brenhin gwaredigol hwn yn dyfod i Sion, cyfoda gogoniant yr Arglwydd arni, a darlunir yr holl genhedloedd fel yn cyflwyno eu gwarogaeth i'w Llywodraethwr heddychol. Tra yn ymhelaethu ar y testyn gogoneddus hwn, y mae ysbryd y gweledydd sanctaidd yn tanio yn fflam o'r gwresogrwydd mwyaf, ac mewn geiriau teilwng o dafodau angylion tywallta allan feddyliau Duw. Cludodd y geiriau hyn gan y prophwyd (gweler pennod lxi.) yn fynych galon yr Iuddew duwiol i'r oes ddyfodol, fel y cynhorthwyant ni yn awr i ganfod ei rhagoriaeth, ac y galluogant ni i obeithio a gweddio am ei lledaeniad cyffredinol.

Mae gwresogrwydd sanctaidd wedi ei gynhyrchu yn nghalonau ein beirdd ni, telynau y rhai a ddadganasant y seiniau hyfrydaf tra yr adleisient eiriau y prophwyd.

> "Dwg lygad tywyll o dew gèn yn rhydd,
> Ac ar ganwyll ddwl arllwysa ddydd;
> Hollt folltau'r glust o flaen ei lais wnant ffoi,
> A newydd sain a'i swyna wrth ddadgloi;
> Y mud a gân, y cloff a ddryllia'i ffyn,
> Corelwa 'n fflwch fel iwrch ar wàr y bryn.
> Un och, na thwrf, ni thyr ar hinon byd,
> Oddiar bob grudd fe sycha'r dagrau i gyd;
> Mewn cadwyn ddiemwnt rhwymir angeu mwy,
> Certh ordeyrn annwn deimla'i fythol glwy."

(Darllener Esaiah xi.; lxi.)

## PENNOD IX.

### Y BRENHIN DA JOSIAH.

Os nad yw gras, fel y gwelsom, yn disgyn fel etifeddiaeth o dad i fab, felly nid yw pechod ychwaith. Er mor resynus yw dylanwad esiampl rhieni drwg, eto nid yw yn amddifadu y plentyn o'i ryddid moesol, ond gadawa ef i ddewis yr esiampl a wna efelychu, a'r ffordd a wna rodio. Gwnaeth Josiah, fab Amon, o'i flynyddoedd boreuaf ddewisiad doeth a theg o fysg ei hynafiaid brenhinol, gan ddewis Dafydd fel y cynllun i'w efelychu; canys "efe a wnaeth yr hyn oedd union yngolwg yr Arglwydd, ac a rodiodd yn holl ffyrdd Dafydd ei dad, ac ni throdd ar y llaw ddehau, nac ar y llaw aswy."

Neillduodd y brenhin ieuangc, yr hwn a esgynodd i'r orsedd yn wyth oed, ei flynyddoedd cyntaf at y gorchwyl mawr o grefydd bersonol—"tra'r ydoedd efe etto yn fachgen, efe a ddechreuodd geisio Duw Dafydd ei dad"—fel ag yr oedd cyn ymgymmeryd ag adferu y frenhiniaeth o'r iselder i ba un y syrthiodd, yn ofalus i gyflwyno ei enaid ei hun i Dduw. Yr oedd ar gyssegru ei fywyd cyhoeddus i wasanaeth Jehofah, a gosododd sylfaen ei waith sanctaidd trwy gyflwyno ei hun fel hyn megis aberth byw i Dduw Dafydd.

Ar ol pedair blynedd wedi eu treulio fel hyn, deua y gŵr ieuangc brenhinol ger bron ei bobl yn llawn blodau a newydd-deb duwioldeb boreuol, gan gymmeryd ei safle o du yr Arglwydd, a chan gasglu o'i gylch fel offeiriaid ac ysgrifenwyr, llywodraethwyr a chofrestwyr, y rhai hyny yn unig a gynhorthwyent ei amcanion duwiol. Ac yn awr â y diwygiad yn mlaen yn gyflym. "Distrywiasant yn ei ŵydd ef allorau Baalim; a'r delwau y rhai oedd i fynu oddi arnynt hwy a dorrodd efe; y llwyni hefyd, a'r delwau cerfiedig, a'r delwau toddedig, a ddrylliodd efe, ac a faluriodd, taenodd hefyd eu llwch hwy ar hŷd wyneb beddau y rhai a aberthasant iddynt hwy." Cyrhaeddodd y gwaith gychwynwyd yn y brif-ddinas yn fuan i'r talaethau: "Felly y gwnaeth efe yn ninasoedd Manasseh, ac Ephraim, a Simeon, a hyd Naphtali, â'u ceibiau oddi amgylch. A phan ddinystriasai efe'r allorau a'r llwyni, a dryllio ohono

y delwau cerfiedig, gan eu malurio yn llwch, a thorri'r eilunod i gyd trwy holl wlad Israel, efe a ddychwelodd i Jerusalem." Tra ar yr rhyfelgyrch yma, cyflawnodd Josiah yn ddiarwybod ragfynegiad wnaed mewn perthynas iddo yn agos i dri chan' mlynedd a haner cyn hyn. Pan yr adeiladodd Jeroboam yr allor eilun-addolgar, ac y gosododd i fyny y llo aur yn Bethel, "gŵr i Dduw a ddaeth o Judah, trwy air yr Arglwydd i Bethel; a Jeroboam oedd yn sefyll wrth yr allor i arogl-darthu. Ac efe a lefodd yn erbyn yr allor, trwy air yr Arglwydd, ac a ddywedodd, O allor, allor! fel hyn y dywedodd yr Arglwydd, Wele, mab a enir i dŷ Ddafydd, a'i enw Josiah; ac efe a abertha arnat ti offeiriaid yr uchelfeydd y rhai sydd yn arogl-darthu arnat ti." Cyflawnwyd y rhagfynegiad ofnadwy pan y lladdodd y brenhin "holl offeiriaid yr uchelfeydd oedd yno ar yr allorau, ac a losgodd esgyrn dynion arnynt, ac a ddychwelodd i Jerusalem."

Adgoffheir i ni fel hyn am frenhin ieuangc arall, enw yr hwn a berchir gan bob calon Gristionogol yn ein gwlad ni. Yn ol y gyfundrefn Iuddewig, yn hytrach na'r un Gristionagol, ein Hiorwerth y Chweched, yr hwn a ddechreuodd deyrnasu yn ddeg oed, a gychwynodd ei yrfa fer ond pwysig, trwy roddi ergyd llym i'r ymarferiadau ofergoelus oedd yn ffynu ar ol y diwygiad rhanol a osododd ei dad i fyny. Dechreuodd ar ei deyrnasiad trwy geisio yr Arglwydd a'i holl galon, ac heblaw ei hawddgarwch naturiol, yr oedd yn hynod am dduwioldeb difrifol a syml. Anfonodd orchymynion allan at yr "holl wŷr eglwysig," yn erchi "ar i'r delwau hyny y gwyddent eu bod, neu wedi bod, yn un o'u bywiolaethau, yn cael eu camarfer trwy bererindod, neu offrymiad o unrhyw beth iddynt, er gochelyd y pechod ffiaidd o eilun-addoliaeth, gael eu tynu i lawr, a dinystrio y cyfryw." Gwyddai hefyd pa fodd i weddïo dros ei bobl yn gystal a throsto ei hun, a phan y dadganwyd gan ei feddygon fod ei adferiad yn anobeithiol, efe a weddïodd fel hyn: "O fy Arglwydd Dduw, amddiffyn y deyrnas hon rhag pabyddiaeth, a chadw Dy wir grefydd, fel y byddo i mi a'm pobl folianu Dy enw sanctaidd, er mwyn Iesu Grist!"

Gwyddai Josiah nad oedd yn ddigon i ddymchwelyd eilun-addoliaeth; dymunai hefyd ledaenu gwasanaeth Jehofah yn mysg ei bobl. Pan y

glanhaodd y Deml oddiwrth eilunod, mynodd ei hadgyweirio, a'i hadferu i sefyllfa gymhwys i'r gwasanaeth sanctaidd i ba un y cafodd ei chodi, a chefnogwyd ei galon gan sel ei gynhorthwywyr yn y gwaith da—"ar gwŷr oedd yn gweithio yn y gwaith yn ffyddlon."

Tra yn gwneuthur fel hyn ewyllys Duw yn ol y gradd o oleuni oedd ganddynt, cafodd y brenhin a'i gydweithwyr gymhorth annisgwyliadwy a thra phwysig, trwy ddod o hyd "i Lyfr cyfraith yr Arglwydd, yr hwn a roddasid trwy law Moses." Mae yn eglur trwy yr ymdrechion mynych a brwdfrydig o du y llywodraethwyr eilun-addolgar a drygionus, fod y llyfr ysbrydoledig wedi ei golli i'r brenhin a'i bobl. Yn awr am y waith gyntaf y clywa eiriau y Gyfraith, ac y mae yn dra addysgiadol i sylwi pa fodd yr aeth y geiriau hyn i'w enaid, a'r effaith a gynhyrchasant: "A phan glybu'r brenhin eiriau'r Gyfraith, efe a rwygodd ei ddillad."

Yr oedd ofn iachusol am dano ei hun wedi ei ddeffroi yn ei feddwl, yr hwn lle ei droi ymaith, yr ymdrechodd i'w drosglwyddo i'r rhai hyny oedd o'i amgylch, gan ddywedyd: "Ewch, ymofynwch â'r Arglwydd drosof fi, a thros y gweddill yn Israel ac yn Judah, am eiriau'r llyfr a gafwyd; canys mawr yw llid yr Arglwydd a dywalltodd efe arnom ni, oblegid na chadwodd ein tadau ni air yr Arglwydd, gan wneuthur yn ol yr hyn oll sydd ysgrifenedig yn y llyfr hwn." Mor rhagorol oedd ei ddymuniad difrifol am wybod maint y perygl i ba un yr oedd y genedl yn agored, a'r fath esiampl ardderchog a gyflwynir yma i bechaduriaid, y rhai ydynt yn cau eu llygaid ar eu gwir sefyllfa, yn lle ceisio cael golwg arno fel y byddo iddynt brysuro i ddiangc.

Wedi cael ei gefnogi gan y ffafr Ddwyfol, aeth Josiah yn mlaen ar ei waith. Ymrwymodd ef a'i bobl mewn pasg difrifol i wasanaethu yr Arglwydd; "a meibion Israel y rhai a gafwyd, a gynhaliasant y pasg yr amser hwnnw, a gwyl y bara croyw, saith niwrnod. Ac ni chynhaliasid pasg fel hwnnw yn Israel, er dyddiau Samuel y prophwyd."

Er wedi ei symmud yn drugarog rhag y drwg dyfodol, nis gallwn ddarllen am ddull ei farwolaeth heb boen. Ymladdodd yn ddianghenrhaid yn erbyn Necho, brenhin yr Aipht, wrth ymladd â'r hwn y collodd ei fywyd, a phrysurodd ddinystr ei frenhiniaeth ddirywiol.

(Darllener 1 Brenhinoedd xiii. 1—5. 2 Brenhinoedd xxii.; xxxiii. 1—30. 2 Croniel xxxiv; xxxv.)

# PENNOD X.

## Y PROPHWYD JEREMIAH.

CEFNOGWYD Josiah yn ei waith crefyddol gan y prophwyd Jeremiah, hanes yr hwn sydd yn dyfod yn awr o dan ein sylw. Fel y brenhin da y galwyd ef i'w gynhorthwyo yn ei ymdrechion sanctaidd, dechreuodd ar ei weinidogaeth yn ieuangc iawn. Pan y gosodwyd ef "yn brophwyd i'r cenhedloedd," ofnai ymgymmeryd â'i genadwri, gan ddywedyd, "O Arglwydd Dduw! wele, ni fedraf ymadrodd; canys bachgen ydwyf fi." Brodor ydoedd o Anathoth, yn llwyth Benjamin, lle yr ymddengys iddo aros am amrai flynyddoedd, hyd nes y galwyd ef i Jerusalem, i gymmeryd rhan weithredol yn yr ymdrech yn erbyn y pechodau oeddynt yn dwyn y genedl i ddinystr.

Mae rhai sylwadau wnaed yn ddiweddar ar yr amserau yn mha rai yr oedd Jeremiah yn byw, yn taflu goleuni mawr ar y dyledswyddau neillduol oedd ganddo i'w cyflawni, a chytunant yn berffaith â'r cenadwriaethau ysbrydoledig gyflwynwyd. Sylwir, "fod yr amser wedi dyfod pan yr oedd Judah yn ymsuddo o dan bwysau gelynion allanol, ac yn analluog mwyach i sefyll yn unig, ac ei gorfodid i wneyd dewisiad o'i llywodraethwyr tramor. O dan Jehoiacim, yr oedd plaid Aiphtaidd a Chaldeaidd yn mysg ei dywysogion; yr oedd y brenhin ei hun yn cynrychioli yr un gyntaf, a Jeremiah, gyda chyfrifiad cywir o berygl y genedl, ydoedd arweinydd, campwr, a phrophwyd yr un ddiweddaf. Yr oedd prophwydi ereill—Samuel, Eliseus, Esaiah—wedi eu hanfon i gynhyrfu y bobl i wrthwynebiad, ond yr oedd ef wedi dyfod i'r penderfyniad, er mor chwerw ydoedd, fod unig ddiogelwch ei gydwladwyr yn gorphwys mewn derbyn yr hyn oeddynt yn ei wrthwynebu fel y drygau mwyaf, a dygodd hyn arno ef y cyhuddiad o fradwriaeth ac enciliad. Profodd yr amgylchiad ei nodweddiad fel un gwir brophwyd, ond gwnaeth ei agwedd yn ngwyneb ei gydwladwyr, os na ddarfu gynhyrfu ei farwolaeth trwy greulondeb, (yr hyn nid yw wedi ei benderfynu yn eglur,) ei fywyd yn ferthyrdod parhaus. Dyma ydoedd dirgelwch mawr y cyni maith a

thrist i ba un y rhoddodd y fath ddadganiad diatal, y galar yr hwn nad oedd fel galar neb arall, oni bai ei hyder mewn Gwaredwr eto i ddod."

Yn ystod teyrnasiad Josiah, cynhorthwyodd y prophwyd yn gyson y gwaith diwygiadol, trwy geryddu pechodau ei gydwladwyr, a'u hanog i edifarhau a cheisio am drugaredd. Cynhwysa y deuddeg pennod cyntaf y galwadau taer hyn ar y bobl, ac os traethodd gwefusau marwol erioed air yr Arglwydd gydag aidd toddedig, gwnaed pan y cyflwynodd Jeremiah yr apeliadau ffyddlawn hyn. Ni wnaeth ei natur, yr hon a'i cyfaddasodd yn rhagorol at yr amserau galarus oeddynt yn fuan i ddylyn, ei baratoi i lefaru mewn llais taranllyd. Parodd ei deimlad angherddol, ei alar dwfn o herwydd gwaeau y genedl, i'w lais grynu, a'i ddagrau lifo, a chyrhaedd a thoddi pob calon nad oedd wedi ei gadael i galedrwydd parhaus. Gwranewch ef fel y llefa allan: "O na bâi fy mhen yn ddyfroedd, a'm llygaid yn ffynnon o ddagrau, fel yr wylwn ddydd a nos am laddedigion merch fy mhobl! O na byddai i mi yn yr anialwch letty fforddolion, fel y gadâwn fy mhobl, ac yr elwn oddiwrthynt!"

Mae Jeremiah yn esiampl o'r gwroldeb moesol sanctaidd gyda pha un y gall Jehofah orchfygu ofnau y gwangalon, a'u paratoi at gyflawniad cyhoeddus o'r dyledswyddau anhawddaf yn Ei wasanaeth. Mae efe, yr hwn y buasai ei natur yn ei arwain o'r neilldu i wylo ar ben ei hun dros bechodau ei bobl, yn mysg yr hyfaf yn dyweyd yn eu herbyn. Gwawdia ffordd eilun-addolgar y cenhedloedd, yn mha un yr oedd yr Hebreaid wedi bod yn rhodio, cerydda bob gradd a dosbarth am eu hymadawiad oddiwrth y Duw byw, hawliau yr Hwn i'w cariad a'u haddoliad, eu hyder a'u hymddiriedaeth, a hona mewn ymadroddion uchel a thanbaid.

Yr oedd gan Jeremiah, fel yr holl brophwydi cydoesol ag ef—Zephaniah, Habacuc, Ezeciel, a Daniel—yn elynion penaf iddo ddysgawdwyr awdurdodedig crefydd, yr offeiriaid, gwefusau y rhai "a gadwant wybodaeth." Ymdrechasant hwy a'r "prophwydi" gau i'w osod ef i farwolaeth, o achos iddo brophwydo yn erbyn Jerusalem, gan ddywedyd, "Fel Siloh y bydd y tŷ hwn, a'r ddinas hon a wneir yn anghyfannedd heb breswyliwr." Fel hyn, trwy hanes y dynion ffyddlawn yna, y dysgir ni y gall gair yr Arglwydd fod yn anwybyddus i'r rhai hyny sydd ganddynt bob awdurdod all galluoedd gwladol ac eglwysig gyfranu.

Pan y distawyd Jeremiah yn nheyrnasiad Jehoiacim gan dywysogion Judah, ac na oddefwyd iddo ymddangos a phregethu yn y cyhoedd, efe a osododd y gair ysbrydoledig mewn ysgrifen, ac a anfonodd Baruch, ei ysgrifenydd, i'w ddarllen i'r bobl ar ddydd ympryd yn y Deml. Iddo ef, fel yn hanes John Bunyan, a llawer o'n hawdwyr Puritanaidd, profodd ymneillduad y carchar yn Batmos, lle yr ymddanghosodd y Gwaredwr i'w weision, ac y galluogodd hwy i ysgrifenu eu geiriau sanctaidd er addysg yr eglwys yn mhob man ac ar bob amser. Fel hyn y mae cell y carchar wedi profi yn ffynhon gwybodaeth ac iachawdwriaeth.

Pan y daeth byddin Nebuchodnosor yn mlaen i Jerusalem, ac yr aeth yn ol o dan ofn fod cymhorth yn dyfod o'r Aipht, sicrhaodd Jeremiah y trigolion y dychwelai y Chaldeaid ac y dinystrid eu dinas; a phan oedd y barnedigaethau hir-ragfynegedig ar ddisgyn, ymddygwyd at y prophwyd gyda'r parch mwyaf gan y brenhin, yr hwn yn awr a brofodd yn offeryn y dialedd Dwyfol. Yn cael caniatâd naill ai myned i Babilon neu aros gyda'r gweddill, dewisodd aros yn ngwlad ei dadau, y rhai, modd bynag, a'i dygasant ef i lawr i'r Aipht, lle yr anogodd hwy eto i droi at yr Arglwydd. Cyfarwyddwyd ef i ragfynegu tynged y wlad hono yn mha un yr oedd yn alltud, ac yn debygol ei merthyrwyd, a gwledydd ereill hefyd, yn mysg pa rai daliai "gordd yr holl ddaear"—Babilon—y lle amlycaf, fel wedi ei thynghedu i ddinystr ac anghyfanneddiad parhaus: "O herwydd digofaint yr Arglwydd ni's preswylir hi, eithr hi a fydd i gyd yn anghyfannedd; pawb a êl heibio i Babilon a synna, ac a chwibana am ei holl ddïaleddau hi."

Ond cedwir seiniau prydferthaf ei alarnad dros ei anwyl Jerusalem; ac fel y darllena y darllenydd y geiriau cwynfanus hyn, cyfiawnhâ yr iaith hyawdl yn mha un y darlunia Dr. South y prophwyd galarus: "A ddarfu i ni erioed weled galar yn llifo allan yn y fath aidd naturiol ac effeithiol, ag yn ngalarnadau Jeremiah? Gallasai un feddwl fod pob llythyren wedi ei hysgrifenu â deigryn, fod pob gair yn swn calon doredig; fod yr awdwr yn ddyn wedi ei gyfansoddi o ofidiau, wedi ei ddisgyblu i alar o'i febyd; un na anadlodd erioed ond mewn ocheneidiau, ac na lefarodd ond mewn cwynfan."

(Darllener Llyfr Jeremiah.)

## PENNOD XI.

### Y RECHABIAID.

CYFLWYNIR gwyrad-hanes prydferth iawn yn un Jeremiah gan deulu dyddorol y Rechabiaid. Digwyddodd ei amseriad yn agos i flwyddyn derfynol brenhiniaeth Judah, ac o dan deyrnasiad Jehoiacim, yr hwn, er yn fab i'r brenhin duwiol Josiah, ac wedi ei ffafrio â'r rhybuddion a'r apeliadau ffyddlonaf oddiwrth yr Arglwydd gan Jeremiah a phrophwydi ereill, "a wnaeth yr hyn oedd ddrwg yngolwg yr Arglwydd." Yr oedd wedi cael ei wneyd yn frenhin Judah gan frenhin yr Aipht, yr hwn a wnaeth ffordd iddo ef trwy ddïorseddiad brenhin drygionus arall, teyrnasiad byr yr hwn o dri mis a ddefnyddiwyd hefyd i ddrygioni.

Trwy y cyfarwyddyd Dwyfol, gwahoddodd Jeremiah holl dŷ y Rechabiaid i un o ystafelloedd y Deml, a gosododd yno o'u blaenau phïolau a chwppanau gwin, ac anogodd hwynt oll i yfed. Cafodd y gwahoddiad, er iddo gael ei roddi gan ŵr a barchent fel prophwyd yr Arglwydd, ei wrthod yn benderfynol gan yr holl gwmni. Yr oedd gan y prophwyd ormod o barch i'w manylion cydwybodol i ail roddi y gwahoddiad, a chododd yr holl gwmni, a gadawsant y gwin heb ei gyffwrdd; a'r prophwyd, yn cael oddiwrth eu hymddygiad, wers yr hon a brysurodd i'w hadrodd wrth y bobl anufudd o'i genedl ei hun.

Nid Iuddewon oedd y Rechabiaid, er eu bod wedi ymgymhysgu â'r genedl Iuddewig. Hiliogaeth Rechab oeddynt, y Cenead, ac yn dra thebygol o Jethro, tadynghyfraith Moses, yr hwn oedd hefyd yn Genead. Gwahoddwyd y teulu, er nad o genedl Israel, i fyned gyda phobl Jehofah i Ganaan, ac yn mhen amser derbyniasant y gwahoddiad, ac ymgymhysgasant â hwy, gan barhau i gadw llawer o neillduolion bywyd Arabaidd; canys yr oedd ei cyndad wedi gorchymyn iddynt beidio "yfed gwin, na hau had, na phlanu gwinllanoedd, na bod ganddynt yr un, ond preswylio mewn pebyll eu holl ddyddiau." Sonir am Jehonadab, gan ba un y rhoddwyd y gorchymyn hwn arnynt, mewn cyssylltiad â Jehu:

"A phan aethai efe oddi yno, efe a gyfarfu â Jehonadab fab Rechab yn cyfarfod âg ef; ac a gyfarchodd well iddo, ac a ddywedodd wrtho, A yw dy galon di yn uniawn fel y mae fy nghalon i gyd â'th galon di? A dywedodd Jehonadab, Ydyw. Od ydyw, moes dy law. Rhoddodd yntau ei law, ac efe a barodd iddo ddyfod i fynu atto i'r cerbyd. Ac efe a ddywedodd, Tyred gydâ mi, a gwel fy zêl i tu ag at yr Arglwydd. Felly hwy a wnaethant iddo farchogaeth yn ei gerbyd ef." Yr oedd y crybwylliad cyntaf yma am yr Arabiad hunan-ymwadol, dros gant a deg a thriugain o flynyddoedd cyn yr amser y profwyd ei hiliogaeth gan y prophwyd, wrth orchymyn Jehofah. Wedi canlyn yr Israeliaid wrth gymhelliad taer Moses, ymddengys na ddarfu iddynt erioed ymdoddi â chenedl Israel, ac oddiar ofn iddynt roi heibio arferiad syml eu cyndadau, a mabwysiadu drygau a moethau gwareiddiad, yr oedd Jehonadab wedi rhoddi arnynt y ddyledswydd o gadw symlder manwl bywyd Arabaidd.

Rhoddodd ufudd-dod hiliogaeth Jethro, ddirgymhellwyd gan waharddiad Jehonadab, sail i Jeremiah wneyd apeliad grymus at yr Iuddewon. Daeth y Rechabiaid i mewn i'r ddinas yn unig o herwydd fod dynesiad Nebuchodnosor wedi eu gorfodi, er mwyn diogelwch, i dynu i lawr eu pebyll, a diangc i Jerusalem, ac yr oeddynt yno yn bresennol i geryddu pechodau y genedl. Mor rymus ydoedd yr apeliad y cyfarwyddwyd y prophwyd i'w sylfaenu ar eu hesiampl rhagorol! "Fel hyn y dywed Arglwydd y lluoedd, Duw Israel, Dos, a dywed wrth wŷr Judah, ac wrth breswylwyr Jerusalem, Oni chymmerwch chwi addysg i wrando ar fy ngeiriau? medd yr Arglwydd. Geiriau Jonadab, mab Rechab, y rhai a orchymynodd efe i'w feibion, nad yfent win, a gyflawnwyd; canys nid yfant hwy win hyd y dydd hwn, ond hwy a wrandawant ar orchymyn eu tad; a minnau a ddywedais wrthych chwi, gan godi yn fore a llefaru; ond ni wrandawsoch arnaf. Myfi a anfonais hefyd attoch chwi fy holl weision y prophwydi, gan godi yn fore, ac anfon, gan ddywedyd, Dychwelwch yn awr bawb oddiwrth eich ffordd ddrwg, a gwellhêwch eich gweithredoedd, ac nac ewch ar ol duwiau dïeithr, i'w gwasanaethu hwynt, a chwi a drigwch yn y wlad yr hon a roddais i chwi ac i'ch tadau; ond ni ogwyddasoch eich clustiau, ac ni wrandawsoch arnaf."

Bydded i ni wrando ar lais yr Arglwydd trwy Jeremiah yn apelio

atom ni. Y mae lliaws gyda ni, pa rai, er gochelyd y pechod o anghymmedroldeb yn ei effeithiau uniongyrchol a dylanwad ei esiampl, ydynt wedi ymrwymo i lwyr ymatal oddiwrth bob dïod all feddwi, ac y mae y gorchymyn i'r hwn yr ymostyngant yn cael ei gadw yn eu teuluoedd, gan eu "gwragedd, eu meibion, a'u merched," er cysur a dedwyddwch pawb. Ai ni allwn ni glywed y llais Dwyfol, sydd yn apelio atom trwyddynt hwy, yn dywedyd, "Minau a leferais wrthych, yn y modd taeraf, ond ni wrandawsoch arnaf." Mae y gorchymynion—"Na chydymffurfiwch â'r byd hwn;" "Ffowch rhag y llid a fydd;" "Ymgedwch rhag pob rhith drygioni"—yn cael eu cymhwyso atom ni gan awdurdod uwch na rhieni daearol, a dylent gael eu hanrhydeddu oddiar ein parch i'w anfeidrol allu, i'w gariad a'i haelioni tadol, i'w ffafrau dirifedi, a'i "ddawn anrhaethol" Nis gallwn lai nag edmygu y ffyddlondeb sydd yn gwrthwynebu pob temptasiwn i anghymmedroldeb o du y miloedd, pa rai, yn ein dydd ni, trwy hunan-ymwadiad rhagorol a waredant eu hunain ac a achubant ereill oddiwrth dad y drygau, meddwdod; ac ar yr un pryd, mor ofnadwy yw y syniad, fod dyfais ddynol er symmud drygioni dychrynllyd, yn derbyn parch pa un y mae y lliaws o'n cydwladwyr yn ei atal oddiwrth Dduw a Thad pawb oll!

Mewn perthynas i'r Rechabiaid, cyfarwyddwyd y prophwyd i roddi addewid raslawn: "Am hynny, fel hyn y dywed Arglwydd y lluoedd, Duw Israel, ni phalla i Jonadab fab Rechab ŵr i sefyll ger fy mron i yn dragywydd." Cyflawnir yr addewid yma yn ein dydd ni, mwy na phedwar cant ar hugain o flynyddoedd ar ol ei rhoddi.

Barna Dr. Wolff, y cenhadwr Iuddewig, fod hiliogaeth y Rechabiaid hyn, y Beni Kheiber—*meibion Heber*—i'w cael hyd eto yn meddianu mynydd i ogledd-orllewin Medina, yn Arabia. Yn ol yr hanes a gafodd gan y Rabbi More Secot, yn Jerusalem, "hyd y dydd hwn nid yfant win, ac nid oes ganddynt winllan, na maes, na had, ond trigant fel Arabiaid mewn pebyll, yn wiblwythau. Credant a chadwant Gyfraith Moses trwy draddodiad, canys nid yw y Gyfraith ysgrifenedig ganddynt." Danghoswyd adran o'r Talmud i Dr. Wolff, gan y Rabbi, pa un a ddarlunia y Beni Kheiber fel yn hanu o Jethro.

(Darllener Jeremiah xxxv.)

## PENNOD XII.

### BRENHINIAETH BABILON.

Er fod dinas Babilon yn debygol wedi ei sylfaenu mor foreu a dyddiau Nimrod, nid yw yn dyfod i mewn i hanesiaeth y Bibl hyd amser Hezeciah, pan yr anfonodd Merodach Baladan, brenhin Babilon, lythyrau ac anrheg i Jerusalem. Ar y pryd hyny, talaeth oedd Babilonia, ymddibynol ar Assyria, llywodraethwyr pa un oeddynt yn ymdrechu dros ryddid ac annibyniaeth. Gorweddai ar yr Euphrates, fel yr oedd Ninefeh ar y Tigris, ond dri chant o filldiroedd yn nes i'r môr, aeth yn raddol tu hwnt i'r ddinas mwy gogleddol mewn cyfoeth a gwychder, a phan y daeth Nebopolasser yn frenhin iddi, aeth yn erbyn Ninefeh, ac a'i cymmerodd; ac yn amser Josiah gelwid ef yn "frenhin Assyria." Yn 605 C.C., olynwyd y brenhin hwn gan ei fab Nebuchodonosor, enw yr hwn mewn hanesiaeth Feiblaidd a chyffredinol sydd yn fwy agos gyssylltiedig â Babilon na'r un arall o'i brenhinoedd.

O'r adeg yma yr ydym yn colli golwg ar Ninefeh a'r ymerodraeth Assyriaidd, o ba un yr oedd yn brif-ddinas, a meddienir ein sylw gan Babilon a'r Chaldeaid. Er eu bod yn bobl hynafol, yr oeddynt hyd yn hyn yn ddinerth yn mysg y cenhedloedd; ond daethant yn awr yn bobl flaenaf yn Asia, ac yn offerynau o dan Nebuchodonosor i weinyddu y barnedigaethau Dwyfol ar frenhin a phobl Judea. Cadarnhâ yr ysgrifenwyr ysbrydoledig yr holl ddarluniadau roddir gan hen haneswyr o fawredd a gorwychder Babilon. Yn ol Esaiah, hi oedd "prydferthwch y teyrnasoedd," "gogoniant godidowgrwydd y Caldeaid," "y dyner a'r foethus," "ac arglwyddes y teyrnasoedd;" a'r fath ydoedd ei gallu, nes yr oedd, fel ag y gwelsom, yn "ordd yr holl ddaear," "morthwyl," "arfau rhyfel," cymhwys "i ddryllio y cenhedloedd, ac i ddinystrio teyrnasoedd."

Yr oedd y prophwyd wedi rhagfynegu y rhan oedd Babilon i weithredu yn ngweinyddiad y dialedd Dwyfol ar Judea a'i thrigolion euog. Yr oedd y dadganiad cyntaf ofnadwy wedi ei wneyd i Hezeciah gan Esaiah: "Wele, y dyddiau yn dyfod, pan ddygir i Babilon yr hyn oll sydd yn dy dŷ di, a'r hyn a gynnilodd dy dadau di hyd y dydd hwn; ni adewir

dim, medd yr Arglwydd." Yr oedd gan y prophwydi i ddarlunio holl ddychrynfeydd gwarchae y brif-ddinas, a chaethgludiad y bobl, a rhoddodd Jeremiah yn neillduol, fel y dynesai yr amser, adroddiad ffyddlawn a thorcalonus o'r adfydau yr oedd y brenhin a'i bobl i fyned drwyddynt, ac o'r tymhor o ddeg mlynedd a thriugain, trwy ystod pa un yr oedd y caethiwed i barhau: "Wele, mi a anfonaf ac a gymmeraf holl deuluoedd y gogledd, medd yr Arglwydd, a Nebuchodonosor, brenhin Babilon, fy ngwas, a mi a'u dygaf yn erbyn y wlad hon, ac yn erbyn ei phreswylwyr, ac yn erbyn yr holl genhedloedd hyn oddi amgylch; difrodaf hwynt hefyd, a gosodaf hwynt yn syndod, ac yn chwibaniad, ac yn anrhaith tragywyddol. Paraf hefyd i lais hyfrydwch, ac i lais llawenydd, i lais y prïod-fab, ac i lais y brïod-ferch, i swn y meini melinau, ac i lewyrch y canhwyllau, ballu ganddynt. A'r holl dir hwn fydd yn ddiffaethwch, ac yn syndod; a'r cenhedloedd hyn a wasanaethant frenhin Babilon, ddeng mlynedd a thriugain."

Gelwir Nebuchodonosor, er ei fod yn ddyn o falchder creulon ac annuwiol, yn bagan ac eilun-addolwr gwrthun, yn was i Jehofah, o herwydd mai efe oedd yr offeryn dewisedig i wneyd Ei waith barnol ar y genedl Iuddewig wrthgiliedig. Gall dynion fod yn weision i Dduw heb ddim gwybodaeth am ei gymmeriad sanctaidd neu gariad at Ei enw; ac heb un parch i'w awdurdod, gallant yn ddiarwybod fod yn gwneyd Ei ewyllys, ac hyd yn oed fod yn cyflawni rhagfynegiadau Ei brophwydi. Yr oedd y Nebuchodonosor balch hwn yn boddloni ei gariad at allu a thrysor pan oedd yn gweinyddu ei ergydion trymion ar frenhinoedd diweddaf Jerusalem. Aeth yn erbyn Jehoiacim, yr hwn a osodwyd ar yr orsedd gan frenhin yr Aipht, rhwymodd ef mewn cadwynau, a dygodd ef i Babilon. "Ym mhen y flwyddyn," efe a anfonodd drachefn i Jerusalem, a dygodd ymaith ei brenhin ieuangc ond annuwiol, Jehoiacim, yr hwn na theyrnasodd ond tri mis. Cymmerwyd ef hefyd i Babilon "gydâ llestri dymunol tŷ yr Arglwydd;" a gwnaed Sedeciah yn frenhin a'r Judah a Jerusalem, trwy awdurdod brenhin Babilon, fel un dan deyrnged iddo, ac ymddibynol arno.

Ac yn awr yr ydym wedi dod at ddiwedd yr hanesiaeth Judeaidd. Mae ugain o frenhinoedd wedi bod ar Judah, oll yn hiliogaeth Dafydd, pa rai

ydynt wedi meddianu ei orsedd am dri chant a phedwar ugain ac wyth o flynyddoedd; ac nid yw y diweddaf o honynt wedi dysgu dim oddiwrth yr holl farnau ddygwyd ar ei hynafiaid, ac a fygythid arno ef ei hun.

Tra yr oedd y pethau hyn yn cymmeryd lle yn Jerusalem, cafodd y prophwyd Ezeciel, yr hwn oedd wedi ei ddwyn at lanau y Chebar, ei gyfarwyddo i hysbysu i'w gyd alltudedigion am ddyfodol y wlad anwyl hono o'r hon y cymmerwyd hwy. Mwyheid ein dyddordeb mewn darllen prophwydoliaethau yr Hen Destament, a'r addysg a gaem oddiwrthynt, yn fawr wrth gyssylltu pob rhan o'r brophwydoliaeth gyda'r rhan hyny o'r hanes cyssegredig i ba un y perthyna; ac fe welir fod Ezeciel xvii. yn cynhwys y brophwydoliaeth hono mewn perthynas i'r rhan o'r hanesiaeth Iuddewig sydd yn awr yn myned o dan ein sylw.

Yn y "dychymmyg" a'r "ddïareb," llefara y prophwyd am yr "eryr mawr, mawr ei adenydd, hir ei asgell, llawn plu, yr hwn oedd iddo amryw liwiau," yn yr hwn yr ydym yn adnabod brenhin Babilon. Yr oedd yn barod, trwy ddwyn ymaith Jehoiacim, wedi tori brigyn uchaf cedrwydden Libanus. Yr oedd wedi ei gosod yn Babilon, yr hon oedd y pryd hwnw yn "ddinas marchnadyddion." Zedeciah oedd y "blaguryn" a blanwyd yn "maes ffrwythlawn" Judah. Plygodd tuag at "eryr mawr" arall, brenhin yr Aipht. Nid i lwyddo, ond i gael ei dynu ymaith wrth y gwraidd, ac i wywo trwy wynt y dwyrain. Terfyna yr aralleg ogoneddus hon gyda rhagfynegiad am Grist, y blaguryn tyner a wnai Jehofah blanu; canys am dano ef y llefara pan y dywed: "Ar fynydd uchelder Israel y plannaf ef; ac efe a fwrw frig, ac a ddwg ffrwyth, ac a fydd yn gedrwydden hardd-deg; a phob aderyn o bob rhyw asgell a drig dani; dan gysgod ei changhenau y trigant." Yma y darllenwn "yr Efengyl yn Ezeciel," ac y sylwn ar y modd yr oedd ffydd yr Iuddewon yn cael ei chyfarwyddo yn mlaen at y Gwaredwr oedd i ddyfod, fel Awdwr diogelwch a gorphwysfa, heddwch a llawenydd—nid iddynt hwy yn unig, ond i holl genhedloedd y ddaear. Yr oedd y fath addewid wedi ei chyfaddasu i godi eu meddyliau uwchlaw y golygfeydd blinderus yn mha rai y gosodwyd hwy, ac felly yr oedd eu disgyblaeth boenus i'w harwain hwynt, fel y dylai ein harwain ni, at Grist.

(Darllener Esaiah iii. Jeremiah xxv. 1—14. Execiel xvii.)

## PENNOD XIII.

### DINYSTR JERUSALEM A CHAETHIWED JUDAH.

Darostyngwyd Jerusalem i dri o ymosodiadau gan Nebuchodonosor cyn llwyr gyflawniad o'r gwaeau ragfynegwyd yn erbyn y ddinas ymroddedig a'i thrigolion euog. Ar ei ymosodiad cyntaf, rhoddodd y gorchfygwr Jehoiacim mewn cadwynau, gan fwriadu ei gymmeryd i Babilon, ond rhyddhaodd ef wedi hyn, a gwnaeth ef yn un dan deyrnged iddo. Ar yr achlysur yma, yr oedd Daniel a'i gwmnion—Hananiah, Misäel, ac Azariah—yn mysg y gaethglud. Ar ei ail ymweliad, penderfynodd Jehoiacim wrth weled ei brif-ddinas mewn sefyllfa o warchae, i roi ei hun i fyny, er gochelyd parhad y dychrynfeydd, ac felly "aeth allan at frenhin Babilon, efe, a'i fam, a'i weision, a'i dywysogion, a'i ystafellyddion ; a brenhin Babilon a'i daliodd ef yn yr wythfed flwyddyn o'i deyrnasiad." Yr oedd y dydd hwnw, oedd yn dyst o'r ymostyngiad yma, yn un o brudd-der a thristwch arswydus i Jerusalem. Heblaw y diraddiad a syrthiodd ar y brenhin ieuangc a'i dŷ, amddifadwyd y ddinas o'i chyfoeth, gallu, a gogoniant, canys dygodd y brenhin Caldeaidd ymaith "holl drysorau tŷ yr Arglwydd, a thysorau tŷ y brenhin, ac a dorrodd yr holl lestri aur a wnelsai Solomon, brenhin Israel, yn nheml yr Arglwydd, fel y llefarasai yr Arglwydd." Yn mysg y caethion hyn yr oedd y prophwyd Ezeciel, yr hwn a anfonwyd i hyfforddi, cysuro, a rhybuddio ei gydwladwyr yn ngwlad bell eu halltudiaeth.

Yn ystod yr un mlynedd ar ddeg dylynol o dan Sedeciah, yr hwn oedd ymddibynydd truenus ar frenhin Babilon, yr oedd Jerusalem hyd eto yn olygfa gwrthryfel yn erbyn Jehofah. Yn mysg y camweddau o ba rai yr oedd yr Iuddewon yn euog, yr oedd yr un o ddarostwng eu brodyr i gaethiwed, a'u cadw hwy yn ddarostyngol i'w ddiraddiad. Pan ar adeg o berygl y gorchymynwyd i'r meistri caethion hyn i rhyddhau eu brodyr, "hwy a wrandawsant, ac a'u gollyngasant ymaith; ond pan y tybiasant" fod eu peryglon wedi myned drosodd, edifarhasant, "a hwy a ddygasant yn eu hol eu gweision a'u morwynion, y rhai a ollyngasent yn rhyddion, ac a'u caethiwasant hwy, yn weision ac yn forwynion." Danghosir y

dialedd Dwyfol yn erbyn y pechod o fod yn berchen caethion yn y modd cryfaf trwy y bygythiadau a ddygodd ar y rhai oedd yn euog o hono: "Am hynny, fel hyn y dywed yr Arglwydd, Ni wrandawsoch arnaf fi, gan gyhoeddi rhyddid bob un i'w frawd, a phob un i'w gymmydog; wele, fi yn cyhoeddi i'ch erbyn, medd yr Arglwydd, ryddid i'r cleddyf, i'r haint, ac i'r newyn; a mi a wnaf eich symmud chwi i holl deyrnasoedd y byd."

Ar ol naw mlynedd o ymostyngiad i frenhin Babilon, gwrthryfelodd Sedeciah yn ynfyd yn ei erbyn ef, "yr hwn a wnaethai iddo dyngu i Dduw;" gan dori fel hyn ei lw difrifol o ffyddlondeb. Dygodd hyn ar y brenhin euog, ei lŷs drygionus, a'r bobl, y gwarchae olaf, a holl ddychrynfeydd newyn a galanastra. Yr oedd Nebuchodonosor wedi cyrhaedd y buddugoliaethau blaenorol trwy ei gadfridogion enwog, ond yn awr deua yn bersonol, "efe a'i holl lu yn erbyn Jerusalem, ac a wersyllodd yn ei herbyn hi, a hwy a adeiladasant yn ei herbyn hi wrthglawdd o'i hamgylch hi. Ac ar y nawfed dydd o'r pedwerydd mis y trymhaodd y newyn yn y ddinas, ac nid oedd bara i bobl y wlad."

Er gochelyd dychrynfeydd newyn, ar ol gwarchae o ddeunaw mis, diangodd y brenhin a'i bobl liw nos, gan wneyd eu ffordd i wastaddiroedd yr Iorddonen. Yr oedd y Caldeaid yn rhy liosog ac yn rhy ryfelgar i golli eu hysglyfaeth, a daliasant y brenhin ffoedig yn rhwydd, "yn rhosydd Jericho," a darostyngasant ef i'r arteithiau mwyaf creulon. Dyfarnwyd ef i golli ei olwg, efallai trwy law y brenhin Babilonaidd, gan fod y cofadeiladau yn arddangos i ni frenhin Assyriaidd yn tynu ymaith lygaid gelyn caethgludedig; ond nid oedd y gosp yma i ddisgyn hyd nes iddo fod yn dyst o lofruddiaeth ei ddau fab. Rhwymir ef yn nesaf mewn gefynau pres, a dygwyd ef yn garcharor i Babilon. Yr oedd lladdfa y bobl yn ddychrynllyd, gan na chariodd y gorchfygwyr ymaith ond yn unig "y rhai a ddïangasai gan y cleddyf," ac yr oedd y Caldeaid yn mysg y gelynion mwyaf ffyrnig y gallasai y trueiniaid syrthio i'w dwylaw. Yr oeddynt hwy wedi "gwatwar cenhadau Duw, ac yn tremygu ei eiriau ef, ac yn gwawdio ei brophwydi ef, nes cyfodi o ddigofaint yr Arglwydd yn erbyn ei bobl, fel nad oedd iachâd. Am hynny efe a ddygodd i fynu arnynt hwy frenhin y Caldeaid, yr hwn a laddodd eu

gwŷr ieuangc hwy â'r cleddyf yn nhŷ eu cyssegr, ac nid arbedodd na gŵr ieuangc na morwyn, na hen, na'r hwn oedd yn cammu gan oedran; Efe a'u rhoddodd hwynt oll yn ei law ef."

Ar ol ychydig fisoedd, gorphenwyd y gwaith o ddinystrio. Llosgodd Nebuzaradan, un o gadbeniaid uchel brenhin Babilon, "dŷ yr Arglwydd, a thŷ'r brenhin, a holl dai Jerusalem, a phob tŷ mawr a losgodd efe â thân. A holl lu'r Caldeaid, y rhai oedd gyd â'r distain a dorrasant i lawr furiau Jerusalem oddi amgylch." Fel hyn daeth y deml sanctaidd, yr hon uwchlaw pedwar cant o flynyddoedd cyn hyny oedd wedi ei chyssegru i Jehofah, a'i llanw a'i bresennoldeb, ond a halogwyd mor fynych â'r eilun-addoliaethau gwrthunaf, yn bentwr o adfeilion mudlosgedig, halogedig a distrywedig gan y paganiaid, pa rai a oddefwyd i orphen y gwaith o halogiad oedd Israel wedi ei gychwyn. Ar y gwaith dychrynllyd yma o ddinystriad, y cyfeiria yr ysgrifenydd ysbrydoledig yn y Psalmau, ydym wedi nodi i'w darllen. "Dy elynion a ruasant ynghanol dy gynnulleidfaoedd; gosodasant eu banerau yn arwyddion. Ond yn awr y maent yn dryllio ei cherfiadau ar unwaith â bwyill ac â morthwylion. Bwriasant dy gyssegroedd yn tân; hyd lawr yr halogasant breswylfa dy enw."

Yr oedd Jeremiah wedi ei adael eto yn y wlad dros yr hon yr oedd y gwaeau dychrynllyd hyn wedi myned, ac yn ei Alarnadau darlunir hwy yn ffyddlawn a chwynfanir o'u herwydd. "Pa fodd y mae'r ddinas aml ei phobl yn eistedd ei hunan! pa fodd y mae'r lïosog ym mhlith y cenhedloedd megis yn weddw! pa fodd y mae tywysoges y taleithiau dan deyrnged! Y mae hi yn wylo yn hidl liw nos, ac y mae ei dagrau ar ei gruddiau, heb neb o'i holl gariadau yn ei chysuro; ei holl gyfeillion a fuant anghywir iddi, ac a aethant yn elyniou iddi. Judah a fudodd ymaith gan flinder, a chan faint caethiwed; y mae hi yn aros ym mysg y cenhedloedd, heb gael gorphwysdra; ei holl erlidwŷr a'i goddiweddasant hi mewn lleoedd cyfyng. Y mae ffyrdd Sïon yn galaru, o eisiau rhai yn dyfod i'r wyl arbennig; ei holl byrth hi sydd anghyfannedd; ei hoffeiriaid yn uchneidio, ei morwynion yn ofidus, a hithau yn flin arni."

(Darllener 2 Brenhinoedd xxiv. 10—20; xxv. Psalm lxxiv.; lxxix. Jeremiah xxxv. Galarnad.)



LEIGHTON, BROTHERS.

PSALM 137.

## PENNOD XIV.

### JUDAH YN Y CAETHIWED.

Geilw yr hanes cyssegredig ni o wlad yr Iuddewon at olygfa eu caethiwed, pa un a arddengys i'r darllenydd gofalus lawer o wrthddrychau o ddyddordeb dwfn ac o lawer o addysg. Os dylynwn y caethion yn y daith o dros chwe' chant o filldiroedd, ni a'u gwelwn hwy yn ddarostyngedig i ddirmyg a phoen, y fath ag a ddarlunir ar fynorion Ninefeh. Rhwymir rhai yn nghyd gan raffau wedi eu plethu am eu gyddfau, tra mae gan ereill, fel y gwelir mewn un o'n heglurhadau, fodrwyau wedi eu rhoddi yn eu gwefusau, a'u caethgludwyr ffyrnig yn ymgyrchu at rym anghenfilaidd i'w prysuro yn mlaen.

Dygwyd un o ranau cyntaf y gaeth-glud, gydag Ezeciel yn eu mysg, i lanau y Chebar. Dywed y prophwyd wrthym, mai "yn nhir y Caldeaid, wrth afon Chebar, y bu llaw'r Arglwydd arno." Enwir y man lle y penodwyd i ran fawr o'r caethion i fyw, dioddef, a marw. Darlunia eu dwys deimlad o ofid, a'i gydymdeimlad ei hun â'r dïoddefwyr, pan y dywed: "A mi a ddeuthum i Tel-abib; at y gaeth-glud oedd yn aros wrth afon Chebar, a mi a eisteddais lle'r oeddynt hwythau'n eistedd, ïe, eisteddais yno saith niwrnod yn synn yn eu plith hwynt."

Mae yn bwysig i sylwi fod yn rhaid fod yr afon hon yn nghymmydogaeth Ninefeh, gan y dysgwn fel hyn y gallasai y prophwyd yn rhwydd weled y cerfluniau at ba rai y cyfeiria, a pha rai a osodir yn awr o dan ein sylw, gan roddi yr eglurhad mwyaf hynod ar ei ysgrifeniadau. Yn y ddinas hono efe a welodd "wŷr wedi eu llunio ar y pared, delwau y Caldeaid wedi eu llunio â fermilion, wedi eu gwregysu â gwregys am eu llwynau, yn rhagori mewn lliwiau am eu pennau, mewn golwg yn dywysogion oll, o ddull meibion Babilon yn Caldea, tir eu genedigaeth." Sylwyd hefyd fod Tel-abib, eu trigfa, yn arwyddo "bryn twysenau ŷd," yn derbyn ei ffrwythlondeb oddiwrth yr afon gyfagos.

O'r rhan ddiweddaf o'r gaeth-glud, cafodd llawer, os nad yr oll, eu

halltudio i Babilon, prif-ddinas falch eu gorchfygwr, yno i ddïoddef blinderau, a'r gwawd chwerw ddarluniwyd gan y Psalmydd.

Yn ol Herodotus, yr oedd "gogoniant godidowgrwydd y Caldeaid" hon, y pryd hyny yn ei holl ogoniant, yn gorchuddio arwynebedd o dros ddau cant ac ugain o filldiroedd petryal, oddeutu dwbl maint Llundain, yn bymtheg milldir o hyd yn mhob cyfeiriad. Yr oedd y muriau gan ba rai yr amgauid hi, wedi eu codi o briddfeini mawrion, a chymrydedig â chleibyg, yn bedwar ugain a saith o droedfeddi o drwch, ac yn dri chant a haner o uchder. Yr oedd gan y ddinas gant o byrth, pump ar hugain ar bob un o'i phedair ochr, ac er mwyn rhagor o amddiffyniad, cyfodai tri o dyrau rhwng pob deuborth. Cyrhaeddai yr heolydd llydain, oeddynt dros gant a haner o droedfeddi o led, ar draws yr amgauad mawr o borth i borth, pob un o honynt gan hyny yn bumtheg milldir o hyd. Trwy yr ardrefniad yma, yr oedd y ddinas wedi ei rhanu i chwe' chant a thriugain ac unarbymtheg o betryalau, dwy filldir a chwarter o amgylchedd. Yr oedd y tai yn drigfanau pob moethau allasai cyfoeth brynu, ac wedi eu harddwychu âg addurniadau allanol; tra yr oedd yn y lleoedd, oddeutu pa rhai y codwyd hwynt, gynteddoedd a gerddi prydferth.

Yr oedd Babilon wedi ei rhanu i ddwy ran gan yr Euphrates, yn rhedeg o'r gogledd i'r dehau, yr ochrau cyferbyniol yn cael eu cyssylltu gan bont ystaden o hyd, a thriugain troedfedd o led. Ar bob pen i'r bont yma safai palas, ar yr ochr ddwyreiniol i'r afon yr oedd yr un newydd, ac ar y gorllewin yr hên, yn agos i'r hwn safai teml Belus, gan feddianu un o'r petryalau mawrion grybwyllwyd eisoes.

Rhestrid crog-erddi Babilon yn mysg rhyfeddodau y byd. Darlunir hwy fel amrai o uwchrawdau mawrion, yr uwchaf yn gydwastad â phen y muriau. Yr oedd yr olyniad yma o uwchrawdau, gynhelid gan gromenau wedi eu codi un ar y llall, wedi eu gorchuddio â phridd cyfaddas i fagu planhigion a choedydd, yr oll yn cael eu dyfrhau yn dda gan ddyfrffos, i ba un y cyfodid y dwfr o'r afon. Dywedir fod Nebuchodonosor wedi mynu cael gwneyd y gerddi prydferth hyn er boddloni chwaeth ei frenhines, boneddiges o Media, lle yr oedd wedi meithrin ei hoffder at olygfa fynyddig a choedwigol, i wneyd i fyny am yr hyn yr oedd y crog-erddi.



LEIGHTON, BROTHERS.

CAPTIVES OF BABYLON.

Gelwid parth eang yn y ddinas fawr hon, yr hwn fel yr arwydda yr enw, a allasai fod yn grwn, yn wastadedd Dura, ac yr oedd yn debygol yn agos i deml Belus a'r palas brenhinol. Tybir mai hwn yw y parth eang welir hyd eto yn cylchynu y prif foelgloddiau, yn mysg pa rai mae gweddillion y Birs Nimroud—palas Nimroud—dybid hyd ymchwiliad diweddar i fod yn deml Belus.

Galluogodd profiad Syr Henry Rawlinson iddo ef ychydig flynyddoedd yn ol gyfarwyddo nifer o weithwyr i gloddio mewn ymchwiliad am rolfaen oedd wedi ei osod mewn ongl o'r adeilad gan Nebuchodonosor. Pan y dygwyd ef i'r goleu, canfyddwyd ei fod wedi ei wneyd o glai, gorchuddedig âg arysgrifau pensaeth, a'i grasu wedi hyny. Cyfeiria yr arysgrifau at yr adeiladau lliosog oedd y brenhin wedi godi neu adgyweirio yn Babilon, a llefarant am yr adeilad yn mha un eu cafwyd, fel teml y saith blaned, a pha un a allasai gael ei defnyddio fel arsyllfa, gan fod yn wybyddus fod y Caldeaid wedi talu llawer o sylw i seryddiaeth, ac eilunaddoliad y ser. Cymmeradwya y brenhin ei hun i ffafr y nefoedd ar gyfrif ei weithiau, a gweddia am i'w deulu gael aros ar orsedd Babilon am yr holl oesau dyfodol. Fe sylwyd fod y deml hon wedi ei chodi ar sylfaen adeilad hynach, yr hon a dybir i fod yn adfeilion tŵr Babel. Amlygwyd y gofal mwyaf gan y brenhin a'i edmygwyr i fytholi ei enw mewn cyssylltiad a'r gwaith aruthrol hwn, a chofnodir ei enw ar y priddfeini arysgrifenedig geir yn mysg yr adfeilion.

Mae y gweddillyn hanesyddol hwn yn ymddangos mor newydd yn awr a phan y cafodd ei osod gan law y brenhin yn y ddirgelfa baratowyd i'w dderbyn, ac y mae yn mysg y trysorau gwerthfawr welir yn ein casgliad mawr cenhedlaethol. Rhydd derfyn ar ymholiad pwysig mewn perthynas i hynafiaethau Babilon, a chadarnâ yn hynod hanes yr Ysgrythyr am y ddinas hono a'i brenhin. Cyduna y boddhad â pha un yr ymffrostia y brenhin yn ei adeiladau lliosog mewn modd tra hynod â'i eiriau fel eu cofnodir gan Daniel, pan y "llefarodd y brenhin, ac y dywedodd, Onid hon yw Babilon fawr, yr hon a adeiledais i yn frenhindy ynghryfder fy nerth, ac er gogoniant fy mawrhydi?"

(Darllener Ezeciel iii.; xxiii. Psalm xxxvii.)

## PENNOD XV.


### Y PROPHWYD EZECIEL.

TEIMLODD yr Iuddewon, pan y cawsant eu hunain wedi eu halltudio o anwyl wlad eu tadau, gryn demptasiwn i roi ffordd i ddigalondid prudd, ac i ymsuddo i eilun-addoliaeth a chamweddau y paganiaid, yn mysg pa rai y taflwyd hwy. Rhydd Jeremiah y geiriau, yn mha rai y gallwn eu clywed yn traethu eu cwynfanau chwerw: "Gorchuddiaist ni â sorriant, ac erlidiaist ni; lleddaist, nid arbedaist. Ti a'th guddiaist dy hun â chwmmwl, fel na ddeuai ein gweddi trwodd. Ti a'n gwnaethost yn sorod ac yn ysgubion ynghanol y bobl."

Eto nid oedd Duw eu tadau wedi eu gadael. Anfonodd hwy i wledydd y paganiaid eilun-addolgar, fel y gellid eu diddyfnu yn drwyadl oddiwrth y pechod oedd wedi bod yn brif ffynhonell eu hadfydau, a sicrhaodd iddynt y dygid eu halltudiad i ben ar ol deng mlynedd a thriugain, pan y byddai iddynt ddychwelyd i'r ddinas sanctaidd, ac addoli yr Arglwydd drachefn yn Ei Deml.

I'w gwaredu rhag anobaith, breintiodd Jehofah Ei was Ezeciel â gweledigaethau odiaethol o gyfaddas at yr amgylchiadau yn mha rai y gosodwyd hwy. Yr oeddynt yn awr wedi eu symmud yn bell oddiwrth ddinas eu cyfarfod, lle yr oedd pob Iuddew duwiol wedi trigo o dan gysgod yr Hollalluog. Nis gallent mwyach fyned i'r lle yr oedd yr Arglwydd wedi rhoddi coffawdwriaeth o'i enw, na chymhysgu eu gweddiau a'u mawl â'r cymylau o arogldarth a âi i'r Sanctaidd Sancteiddiolaf, lle trigai Jehofah rhwng y cerubiaid.

Ymddanghosai y paganiaid eilun-addolgar yn ninas gymmydogaethol Ninefeh yn awr mewn sefyllfa mwy ffafriol na'r gwrthodedigion cystuddedig hyn. Yr oedd gan yr eilun-addolwyr eu lleoedd sanctaidd, ar furiau pa rai yr oedd gwrthddrychau eu haddoliad wedi eu darlunio; a theimlent sicrwydd am ofal gwarcheidiol y cherubiaid yr oedd eu darluniau




LEIGHTON, BROTHERS.

FROM THE SISTINE CHAPEL.

arwyddluniol yn sefyll ar y mynediad i ystafelloedd ac orielau eu temlau. Arddengys rhai o'r darluniau anferth hyn ben dyn, corff tarw neu lew, ac adenydd adar mawrion; mae gan ereill ben eryr, gydag ysgwyddau, breichiau, a dwylaw dyn. I arddadgan eu sicrwydd o bresennoldeb a ffafr eu duwiau, ni ddarlunid y brenhinoedd Assyriaidd ar y cofadeiladau heb bresennoldeb y duw adeiniog mewn cylch, yn dal modrwy, ac yn ehedfan uwch ben y teyrn, ar yr hwn y gweinyddai yn ei daith, y gwyliai yn ei frwydrau, ac y rhoddai nodded â'i bresennoldeb pan yn cyflawni ei seremonïau crefyddol.

Tra yn yr amgylchiadau torcalonus hyn, a phan eu temptid i gyferbynu eu sefyllfa ddigymhorth â'r eiddo y paganiaid, y rhoddodd Jehofah i'w was weledigaethau a dueddent at gryfhau ei ffydd ei hun, ac adfywio gobeithion y bobl Iuddewig. Rhoddodd yr olygfa aruchel a gofnoda ar agoriad ei brophwydoliaethau, brawf digonol nad oedd Duw wedi gadael Ei bobl, er iddo, o herwydd eu pechodau, eu hanfon i gaethiwed. Yr oedd wedi eu dylyn hwy at lanau y Chebar, ac yr oedd wedi dwyn gydag Ef y cherubiaid gweinyddol, pa rai oeddynt yno i wneuthur Ei ewyllys a gwylio Ei weision.

Gwelodd Ezeciel yn y nefoedd uchel "gwmmwl mawr, a thân yn ymgymmeryd, a disgleirdeb o amgylch iddo, ac o'i ganol, sef o ganol y tân, fel lliw ambr. Hefyd o'i ganol y daeth cyffelybrwydd i bedwar peth byw. A dyma eu hagwedd hwynt: dull dyn oedd iddynt. A phedwar wyneb i bob un, a phedair aden i bob un o honynt." Canfyddir yn rhwydd fod y darluniau hyn yn dwyn rhyw debygrwydd i'r ffurfiau arwyddluniol mawrion â pha rai yr oedd y temlau Assyriaidd wedi eu llenwi, ac y byddai iddynt fel hyn arwain i gyferbyniad rhwng duwiau y paganiaid, a cherubiaid Israel; canys dywed y prophwyd pan eu gwelodd, "gwybûm mai y cherubiaid oeddynt." Os gallasai gwŷr Ninefeh edrych gyda boddhad ar y delwau mawrion o gerig, "o gerfiad celfyddyd a dychymmyg dyn," byddai y prophwyd Iuddewig, a'r rhai a gredent ei dystiolaeth, yn barod i ddyweyd, "Nid fel ein craig ni y mae eu craig hwynt, a bydded ein gelynion yn farnwyr." Mor addysgiadol i'n meddwl yw y cyferbyniad rhwng y ffurfiau dideimlad hyn, gerfiwyd mewn cerig, a'r bodau deallol byw, ddatguddiwyd i lygaid y prophwyd Iuddewig: "Dyma

ddull y pethau byw, eu gwelediad oedd fel marwor tân yn llosgi, ac fel gwelediad ffaglau; yr oedd efe yn ymgerdded rhwng y pethau byw; a disglaer oedd y tân, a mellt yn dyfod allan o'r tân. Rhedai hefyd, a dychwelai y pethau byw, fel gwelediad mellten."

Tynwyd sylw y prophwyd yn nesaf at wrthddrych arall, "fel pe byddai olwyn ynghanol olwyn," neu ddwy yn croesi eu gilydd, fel ag y gwnai y peiriant mawr a oseilient droi yn mhob cyfeiriad; ac mewn canlyniad, "pan elent, âent ar eu pedwar ochr; ni thröent pan gerddent." Canlynid yr olwynion yn eu holl symmudiadau gan y cherubiaid: "Cerddent pan gerddent hwythau; a phan ymgodent hwy oddiar y ddaear, yr olwynion a ymgodent ar eu cyfer hwythau; canys yspryd y peth byw oedd yn yr olwynion." Yn wahanol i'r darluniau sefydlog yn Ninefeh, yr oedd y bodau deallol nefol hyn yn symmud yn gyson trwy'r eangder, mewn ufudd-dod i'r llais o'r entrych uwchben iddynt. Gwelodd y prophwyd, pan y cyfeiriodd ei lygad i'r ffurfafen, "gyffelybrwydd gorsedd-faingc, fel gwelediad maen saphir; ac ar gyffelybrwydd yr orsedd-faingc yr oedd oddiarnodd arno ef gyffelybrwydd megis gwelediad dyn." Amgylchynid yr arddanghosiad yma o'r Mawrhydi Dwyfol, fel y weledigaeth welwyd gan Ioan yn y Datguddiad, gan enfys. Wrth gydmaru yr arddanghosiad aruchel hwn â'r weledigaeth roddwyd i'r Apostol Ioan, pwy all beidio canfod ei fod yn rhoddi i'r prophwyd awgrymiad eglur o ogoniant y Messiah dyfodol, yr hwn yn y dechreuad oedd yn Dduw, a chyda Duw.

Cafodd y gweledigaethau aruchel hyn, fwriadwyd i arddangos y llu angylaidd, oll eu hiawndrefnu gan yr ewyllys Ddwyfol, a'u defnyddio i ddwyn allan amcanion rhagluniaeth Ddwyfol; tra yr oedd gorsedd anfeidrol allu yn gylchynedig gan drugaredd a ffyddlondeb anfeidrol. Gan y goddefir i ni edrych ar y weledigaeth ogoneddus hon, bydded i ni ddylyn esiampl y gwas dewisol hwnw i Dduw, i'r hwn ei danghoswyd, yr hwn a ddywedodd, "A phan welais, syrthiais ar fy wyneb, a chlywais lais un yn llefaru."

(Darllener Ezeciel i.)

## PENNOD XVI.

### DANIEL A'I GYMDEITHION YN BABILON.

YR ydym wedi gweled yn barod, pan yr ymosododd Nebuchodonosor ar Jerusalem yn nheyrnasiad Jehoiacim, fod Daniel a'r tri llangc Iuddewig godidog yn mysg y caethion ddygwyd y pryd hyny i Babilon. Yr oedd y brenhin wrth ddymuno ar i'r dynion ieuaingc hyn gael eu cymmeryd i'w lys, yn cyflawni yn ddiarwybod fwriad yr Un trwy yr Hwn "y teyrnasa brenhinoedd;" ac yn darparu yr offerynau trwy ba rai yr oedd ar ol hyn i'w adnabod a'i gydnabod Ef.

Cofnodir y cyfarwyddiadau neillduol roddwyd gan y brenhin i'w ystafellydd mewn perthynas i ddewisiad y llangciau hyn yn Llyfr Daniel. Yr oeddynt i fod "o'r had brenhinol, ac o'r tywysogion; yn fechgyn y rhai ni byddai ynddynt ddim gwrthuni, eithr yn dda yr olwg, a deallgar ym mhob doethineb, ac yn gwybod gwybodaeth, ac yn deall cyfarwyddyd, a'r rhai y byddai grym ynddynt i sefyll yn llys y brenhin, i'w dysgu ar lyfr ac yn iaith y Caldeaid." Mae y sylw oedd i gael ei dalu iddynt cyn iddynt gymmeryd eu lle yn y llys, a'r pwysigrwydd gyssylltid â'u hiechyd, a thegwch eu hymddanghosiad, hefyd wedi eu cofnodi yn fanwl: "A'r brenhin a ddognodd iddynt ran beunydd o fwyd y brenhin, ac o'r gwin a yfai efe; felly i'w maethu hwynt dair blynedd, fel y safent ar ol hynny ger bron y brenhin." Mae y rhan yma o'r hanes yn gyson nodedig â'r ffaith a ddysgwn oddiwrth y cofadeiladau Assyriaidd, pa rai a arddanghosant i'n golwg nifer o weinyddwyr ydynt oll yn hynod am y math hwnw o degwch y bwriadwyd y lluniaeth moethus yma i'w sicrhau.

Pan y penodwyd y caethion hyn i wasanaeth brenhin Babilon, cyfnewidiwyd eu henwau Hebrëig i rai ereill yn iaith y Caldeaid, ac yn unol â'r sefyllfa a fwriadai y brenhin eilun-addolgar iddynt feddianu. Daniel, enw Hebrëig yr hwn a arwydda "Duw fy Marnwr," a alwyd wrth enw a arwydda "tywysog Bel." Hananiah—"rhodd yr Arglwydd"—a ddaeth yn Sadrach, "negesydd yr haul;" Misäel—"ofynwyd am"—a enwyd yn Mesach, "gwestywr y brenhin;" a daeth Azariah yn Abednego, neu "was Nego." Er iddynt, fel yr arwydda eu henwau, gael eu

neillduo gan y brenhin i goelgrefyddau eilun-addolgar ei lys, yr oeddynt yn addolwyr Jehofah, Duw eu tadau; a rhydd eu bywydau yr esiamplau mwyaf adeiladol o nerth ffydd fywiol i gadw y galon yn nghanol temptasiynau cylchynol llys yn mha un yr oedd coelgrefydd a drygedd yn ffynu.

I ddarllen eu hanes yn iawn, rhaid i ni sylwi iddynt ddechreu ar eu gyrfa trwy weithredu yn ol cymhelliadau cydwybod, ac awgrymiadau doethineb. "A Daniel a roddes ei fryd, nad ymhalogai efe trwy ran o fwyd y brenhin, na thrwy y gwin a yfai efe; am hynny efe a ddymunodd ar y penystafellydd, na byddai raid iddo ymhalogi." Yr oedd anghymmedroldeb yn bechod cyffredin llys Babilon, ac yr oedd y gwyr ieuaingc duwiol hyn mor ofalus i ochelyd magl hunan-foethiant, a'r pechod o eilun-addoliaeth. Yn ein sefyllfa syrthiedig, nis gall fod dim crefydd heb hunan-ymwadiad; ac hyd yn oed pe buasem heb syrthio, nis gallasem wasanaethu Duw heb ufudd-dod parod a diwyro i archiadau y gydwybod. Rhoddodd y penderfyniad sanctaidd yma o du Daniel a'i gwmnion duwiol addewid o ffyddlondeb, a buddugoliaeth egwyddor grefyddol yn eu holl fywyd dyfodol.

Pan ar derfyn tair blynedd y safasant ger bron y brenhin, yr oedd ganddynt ymddanghosiad tecach "na'r holl fechgyn oedd yn bwytta rhan o fwyd y brenhin." Nis gallwn amheu nad oedd eu lliwiau hardddeg, eu llygaid gloew, a'u bywiogrwydd iach, yn cyferbynu yn fwyaf ffafriol âg agwedd foethus y gweision ereill, gan ba rai y cylchynid y brenhin, ac yn neillduol gyda'r dosbarth diraddiol hwnw o lys-swyddogion, "y ffurf crwn, y rudd fwythig, a'r ên dagellog ddifarf," agweddau pa rai a osodwyd allan yn neillduol gan Dr. Layard. Gwnaeth eu prydferthwch a'u nerth deallol, eu gwybodaeth a'u medr yn mhob dysgeidiaeth a doethineb, yr hyn a dderbyniasant oddiwrth Dduw, sicrhau iddynt ymddiried ac edmygedd y brenhin. Cylchynid ef gan wŷr o enwogrwydd mawr fel serydddwyr a dewiniaid; ond "ym mhob rhyw ddoethineb a deall a'r a ofynai y brenhin iddynt, efe a'u cafodd hwynt yn ddeg gwell na'r holl ddewiniaid a'r astronomyddion oedd o fewn ei holl frenhiniaeth ef."

Cododd achlysur yn fuan i gyfiawnhau y farn uchel oedd y brenhin

wedi ffurfio am fedr a dysgeidiaeth ei swyddogion Hebrëig. [illegible] "a freuddwydiodd freuddwydion, a thrallodwyd ei yspryd ef, a'i gwsg a dorrodd oddiwrtho." Galwyd ar y swynwyr a'r ymhonwyr ereill gan ba rai y blinid y llys i'r presennoldeb brenhinol, a gorchymynwyd iddynt adferu y freuddwyd oedd y brenhin wedi anghofio, a rhoddi ei dehongliad. Gan nad oedd ganddynt wybodaeth oruwchnaturiol, nis gallent fynegu y freuddwyd; ac mewn canlyniad, safasant yn agored i ddigasedd y brenhin, yr hwn oedd wedi cael allan eu hymhoniadau gwag, ac a orchymynodd ar i holl ddoethion Babilon gael eu lladd. Hysbyswyd y gyfraith hon i Daniel, yr hwn, gyda'i frodyr, oeddynt yn gynhwysedig yn y ddedfryd.

Yr oedd y gymdeithas fechan hon yn adnabod gwir ffynhonell doethineb, a gwnaethant eu hapeliad difrifol at Dduw y nefoedd, gan geisio "trugareddau yn achos y dirgelwch hwn; fel na ddifethid Daniel a'i gyfeillion gyd â'r rhan arall o ddoethion Babilon." Atebwyd eu gweddi yn uniongyrchol, ac adferwyd breuddwyd y brenhin i Daniel mewn gweledigaeth nos, am ba un y rhoddodd ei ddiolchgarwch difrifol mewn iaith sydd wedi ei chofnodi er ein haddysg.

Dygwyd Daniel ar frys i bresennoldeb y brenhin trallodus, a phan y gofynwyd iddo a allasai wneyd yn hysbys y freuddwyd a'i dehongl, hawliodd i'r gwir Dduw yn unig y gallu i ddangos i'r brenhin ei freuddwyd, gan ddywedyd: "Y mae Duw yn y nefoedd yn datguddio dirgeledigaethau, ac a fynegodd i'r brenhin Nebuchodonosor beth a fydd yn y dyddiau diweddaf."

Yr oedd y weledigaeth y fath nad allasai neb roddi na'i dehongli ond "Efe sydd yn newid amserau a thymhorau; efe sydd yn symmud brenhinoedd, ac yn gosod brenhinoedd." Yr oedd wedi darlunio i'r breuddwydiwr brenhinol y ddelw fawr a'i phen o aur da, ei dwyfron a'i breichiau o arian, ei bol a'i morddwydydd o bres, ei choesau beth o haiarn a pheth o bridd, wedi eu taraw a'u malurio gan gareg dorwyd allan o'r mynydd, yr hon a ddaeth yn fynydd mawr, ac a lanwodd yr holl ddaear.

Yr ydym yn awr yn darllen fel hanesiaeth yr hyn oedd yn ddyfodol yn amser brenhin Babilon, ac fel y mae oesau wedi myned heibio maent wedi cofnodi cyflawniad ei freuddwyd brophwydoliaethol. Y pen euraidd

oedd y frenhiniaeth Fabilonaidd, nodedig am ei chyfoeth. Olynwyd hon gan ymerodraeth y Mediaid a'r Persiaid, arddanghoswyd gan y ddwyfron a'r breichiau arian. Yn nesaf daeth yr ymerodraeth Facedonaidd, ddechreuwyd gan Alexander Fawr, arddanghoswyd gan yr arfogaeth bres ar gorff a morddwydydd y ddelw. Darluniwyd ymerodraeth Rhufain yn briodol gan y coesau haiarn, a'i hymraniad canlynol i liaws o fân frenhiniaethau. Mae y rhai hyn oll wedi syrthio o flaen y gareg dorwyd allan o'r mynydd, nid a llaw—brenhiniaeth y Messiah—am yr hon y dywedodd y prophwyd: "Ac yn nyddiau y brenhinoedd hyn, y cyfyd Duw y nefoedd frenhiniaeth yr hon ni ddistrywir byth; a'r frenhiniaeth ni adewir i bobl ereill, ond hi a faluria, ac a dreulia yr holl frenhiniaethau hyn, a hi a saif yn dragywydd."

Fel hyn cyfarwyddod Jehofah Ei was, y prophwyd, chwe' chan' mlynedd cyn dyfodiad Crist, i ragfynegu y cyfnewidiadau olynol yn hanes ymerodraethau mawrion y byd, a dygiad i mewn frenhiniaeth gwirionedd a heddwch nefol. Rhydd ymddygiad y brenhin ar dderbyniad y prawf yma o ysbrydoliaeth Ddwyfol o du Daniel, eglurhad hynod o'r eilunaddoliaeth diraddiol i ba un yr oedd y Babiloniaid wedi suddo. Efe "a syrthiodd ar ei wyneb, ac a addolodd Ddaniel; gorchymynodd hefyd am offrymmu iddo offrwm ac arogl-darth." Torodd goleuni yn awr ar feddwl y brenhin eilun-addolgar hwn, pa un, er iddo yn fuan wed'yn gael ei ddiffodd, oedd wedi ei fwriadu i gynhyddu nes goleuo ei enaid â holl ddisgleirdeb gwirionedd nefol. "Attebodd y brenhin, a dywedodd wrth Ddaniel, Mewn gwirionedd y gwn mai eich Duw chwi yw Duw y duwiau, ac Arglwydd y brenhinoedd, a datguddiydd dirgeledigaethau, o herwydd medru o honot ddatguddio y dirgelwch hyn." Yr oedd yr anrhydedd roddwyd ar y prophwyd a'i gymdeithion yn fawr, ond yr effaith uwchaf oedd y cynhydd enillwyd gan achos Duw a gwirionedd. "Yna y brenhin a fawrygodd Ddaniel, ac a roddes iddo roddion mawrion lawer, ac efe a'i gwnaeth ef yn bennaeth ar holl dalaeth Babilon, ac yn ben i'r swyddogion ar holl ddoethion Babilon. Yna Daniel a ymbiliodd â'r brenhin, ac yntau a osododd Sadrach, Mesach, ac Abednego ar lywodraeth talaeth Babilon; ond Daniel a eisteddodd ym mhorth y brenhin."

(Darllener Daniel i.; ii.)

# PENNOD XVII.

## Y DDELW AUR AR WASTADEDD DURA.

Ni hysbysir ni am y cyfwng rhwng breuddwyd gyntaf Nebuchodonosor a chyssegriad ei ddelw aur ar wastadedd Dura. Tybir ei fod yn y fan leiaf un mlynedd ar bymtheg ar ol y cyfaddefiad mai Duw Daniel oedd Duw y duwiau, ac fod y brenhin yn y cyfamser wedi goddef i'w angraffiadau da gael eu dileu. Gallasai fod oddiar awydd i dawelu ofnau ei lyswyr, achoswyd trwy ei dystiolaeth i Dduw Daniel, neu oddiar ei awydd i addurno ei ddinas, neu wneuthur anrhydedd i'w dduwiau gau, y darfu iddo osod i fyny y ddelw yma i'w ddeiliaid syrthio i lawr a'i haddoli.

Mae wedi ei dybied i'r brenhin godi y ddelw aur yma oddiar awydd balch i anghywirio ei freuddwyd, ac y gobeithiai trwy frwdfrydedd ac ymlyniad ei bobl, gadw "y pen aur" hwnw trwy ba un yr arddanghosid ei fawredd ei hun. Mwy tebygol, modd bynag, yw y golygiad awgrymwyd gan ysgolhaig Cristionogol enwog am y ddelw hon ac amcan ei chodiad. Dywed Mr. Bononi: "Yr oedd ei huchder yn ddeg gwaith ei lled—cymmesuredd y tueddir ni i feddwl nad allai gyfeirio at ddelw o ddyn, ond a gytuna yn drwyadl a'r eiddo pigadail. Yr oedd y rhan fwyaf o bigadeiladau yr Aipht oddeutu deng waith lled y sylfaen mewn uchder; a chan nad yw y gair a ddefnyddir am ddelw yn yr Hebraeg a'r Deg a Thriugain o anghenrheidrwydd yn arwyddo delw o ddyn, yr ydym yn meddwl fod yn fwy tebygol mai darlun neu ddelw o bigadail ydoedd. Hysbysir ni gan Pliny fod y pigadeiladau yn cael eu hystyried fel arwyddlun o belydron haul, ac yn gyflwynedig i'r haul neu Baal. Ystyrir cufudd yn gyffredin yn sefyll am droedfedd a chwe' modfedd o'n mesur ni; felly yr oedd yn rhaid fod y ddelw yn ddeg a phedwar ugain o droedfeddi o uchder, a naw o led; ac o'r maintioli hyn mae yn sefyll eto yn mysg adfeilion Karnac bigadail o un blocyn gwenithfaen, ac nid oes gennym ond tybied fod y cofadail hwnw wedi ei orchuddio â llafnau aur, i gael yn bresennol i'r dychymyg ddelw gwastadedd Dura."

Beth bynag oedd ei ffurf, mae yn amlwg fod y ddelw hon wedi ei gosod i fyny yn wrthddrych addoliad eilun-addolgar, ac fod y brenhin yn honi yr hawl o reoli addoliad crefyddol ei bobl, o dan berygl y cospedigaethau trymaf. Cafodd yr hawl hono, ymgymmerwyd ar gam, ei honi yn y modd mwyaf gormesol, trwy osod i fyny wrthddrych o warogaeth uwchaf, gan benodi amserau a ffurf addoliad, a chyhoeddi marwolaeth fel cospedigaeth am anufudd-dod: "A'r hwn ni syrthio ac ni addolo, yr awr honno a fwrir i ganol ffwrn o dan poeth." Mae gan Dduw wedi bod yn mhob oes Ei weision ffyddlawn a wrthodasant blygu i eilun, neu gydnabod hawl dynion, pa mor ddyrchafedig bynag, i wneuthur deddfau i gydwybod; ac yn ffodus yr oedd yn Babilon ddynion ffyddlawn, yn barod, beth bynag fyddai y gospedigaeth, i ddiystyru cyfraith trawsarglwyddiaethol y brenhin paganaidd hwn.

Mae yn debygol fod gan gynghorwyr Nebuchodonosor, wrth gymhell y gyfraith hon, gyfeiriad neillduol at y tri Hebrëwr, wrth ddyrchafiad pa rai i ddylanwad y cenfigenent, a pha rai y gobeithient eu difetha trwy y cyhoeddiad anoddefol hwn. Mor awyddus frysiog yr hysbysasant am balliad y tri gwŷr hyn i roi ufudd-dod i'r arch brenhinol! "Y mae gwŷr o Iuddewon a osodaist ti ar oruchwyliaeth talaeth Babilon, Sadrach, Mesach, ac Abednego; y gwŷr hyn, O frenhin, ni wnaethant gyfrif o honot ti; dy dduwiau nid addolant, ac nid ymgrymmant i'r ddelw aur a gyfodaist." Yr oedd y brenhin yn ddiamheuol erbyn hyn wedi anghofio Jehofah, gallu yr hwn oedd wedi addef gynt, canys efe a orphenedd y gorchymyn gyflwynwyd i'r ymwrthodwyr hyn, trwy ofyn, "A pha Dduw yw efe a'ch gwared chwi o'm dwylaw i?"

Pwy nad edmyga hyfder sanctaidd y gwŷr duwiol a atebasant: "Nebuchodonosor, Nid ydym ni yn gofalu am atteb i ti yn y peth hyn. Wele, y mae ein Duw ni, yr hwn yr ydym ni yn ei addoli, yn abl i'n gwared ni o'th law di, O frenhin. Ac onid ê, bydded hysbys i ti, frenhin, na addolwn dy dduwiau, ac nad ymgrymmwn i'th ddelw aur a gyfodaist." Eglura eu hatebiad gwrol, eto gwylaidd, y gwirionedd mai "yn ofn yr Arglwydd y mae gobaith cadarn;" a rhydd esiampl ardderchog i bawb a wyddant y gwirioneddau mawrion mae Duw wedi ddatguddio i ni yn Ei air. Gadawsant eu hunain yn llaw y Duw hwnw a wasanaethent, a

danghosasant yr hyder pa un a ofynai y Gwaredwr mewn amserau diweddarach gan Ei apostolion pan eu dygid "at lywiawdwyr a brenhinoedd o'i achos ef, er tystiolaeth iddynt hwy, ac i'r cenedloedd."

Yr oedd "digofaint y brenhin" yn awr "megis rhuad llew." Newidiodd ei lidiowgrwydd "wedd ei wyneb," ac yn anghofus o wers fawr yr amser a aeth heibio, efe a orchymynodd "am dwymno y ffwrn seithwaith mwy nag y byddid arfer o'i thwymno hi." Dengys y cerfluniau Assyriaidd i ni ffurfiau dynion cawraidd gewynog yn gweini ar y brenhin, neu yn llysoedd y palas, yn barod i wneyd ei gyfarwyddiadau. Y "gwŷr cryfion nerthol" hyn oeddynt i gyflawni gorchymyn y brenhin, a pharatoasant eu hunain yn ewyllysgar at y gwaith creulon ymddiriedwyd iddynt. Cafodd eu haberthau bwriadol eu rhwymo "yn eu peisiau, eu llodrau, a'u cwccyllau, a'u dillad eraill, ac a'u bwriwyd i ganol y ffwrn o dân poeth."

Hyd yma yr ydym wedi gweled gallu dyn; yn awr bydded i ni edrych ar allu Duw. Teflir yr Hebreaid oll yn ddigymhorth, fel y maent, i ganol y ffwrn ddifaol, ond neidia y fflamau allan, a gafaelant yn y dialeddwyr, a chyn iddynt allu diangc, syrthiant yn ebyrth i'w cynddaredd. Ni wnaed yr un wyrth i waredu y gwŷr cryfion oeddynt wedi rhuthro yn rhy agos at y tân poeth gyda eu hebyrth, ond defnyddiwyd y gallu Dwyfol i waredu y cyffeswyr godidog hyny, a'u gosod yn rhydd. Parodd achosion naturiol ddinystr gwŷr cryfion y brenhin; ond daeth mawr nerth Duw i waredu Ei weision ffyddlawn. Daeth "Mab Duw" o'r nefoedd i ddattod y rhwymau oddi am danynt, i ddofi y fflamau poethion, gan ba rai y cylchynid hwy, ac yn mhresennoldeb y llys a'r dyrfa eilunaddolgar, i rodio gyda hwy yn nghanol y tân. "A'r tywysogion, duciaid, a phendefigion, a chynghoriaid y brenhin, a ymgasglasant ynghyd, ac a welsant y gwŷr hyn, y rhai ni finiasai y tân ar eu cyrph, ac ni ddeifiasai flewyn o'u pen, ni newidiasai eu peisiau chwaith, ac nid aethai sawr y tân arnynt." Gallu fel yna sydd gan Jehofah i waredu y rhai hyny a ymddiriedant ynddo Ef.

(Darllener Daniel iii.)

## PENNOD XVIII.

### YR OLAF O'R BRENHINOEDD CALDEAIDD.

Bu Nebuchodonosor, enw yr hwn sydd mor gyhoeddus yn hanes Babilon, trwy drugaredd anfeidrol Jehofah, byw i gael lle yn mysg Ei bobl, ac i'w gyffesu Ef ger bron yr holl fyd. Gwnaed tri apeliad at y tywysog eilun-addolgar hwn cyn i'w galon blygu i lawr mewn gostyngeiddrwydd ac edifeirwch ger bron y gwir Dduw. Gwnaeth adferiad ei freuddwyd a gollodd, a'i dehongliad, iddo fod yn hytrach yn addolwr Daniel, nag yn was gostyngedig i Jehofah. Cynhyrchodd gwaredigaeth wyrthiol y tri llangc Hebrëig un o'r cyhoeddiadau brenhinol hyny yn ffafr gwir grefydd a'i phroffeswyr, pa un sydd yn hawdd i frenhin roi allan heb gyfranogi o'i fendithion. Yna gwnaed y trydydd apeliad, oddiwrth yr hwn yr oedd yr effeithiau mwyaf boddhaol i ganlyn, ac o'r apeliad hwnw, a'r effeithiau hyny, rhydd y brenhin ei hun i ni yr hanes. Mae yr un a fu unwaith yn eilun-addolwr paganaidd yn awr i'w gael yn mysg yr ysgrifenwyr sanctaidd; mae y bedwerydd bennod o Daniel yn gofnodiad wnaed gan law y brenhin ei hun, neu a ysgrifenwyd wrth ei gyfarwyddyd.

Mae y dychweledydd brenhinol at y gwirionedd yn cyfeirio y broffes yma o ffydd "at yr holl bobloedd, cenhedloedd, a ieithoedd, y rhai a drigant yn yr holl ddaear," a chyda chywirdeb anarferol mewn cyhoeddiadau brenhinol, dywed, "Aml fyddo heddwch i chwi." Cofnoda yr ysgrif dra phwysig hon ail freuddwyd, oedd a chyfeiriad neillduol at hanes personol y breuddwydiwr, a'r modd a ddefnyddiodd Jehofah i ddarostwng ei falchder. Yn y freuddwyd hono gwelai y brenhin ei hun megis pren, a'i uchder yn cyrhaedd hyd y nefoedd, "a'i ganghennau oedd deg, a'i ffrwyth yn aml, ac ymborth arno i bob peth; dano yr ymgysgodai bwystfilod y maes, ac adar y nefoedd a drigent yn ei ganghennau ef." Yn nesaf gwelodd y pren uchel wedi ei dori i lawr a'i ddinystrio, a'i wraidd yn unig wedi ei adael yn y ddaear yn mhlith gwellt y maes, hyd nes i "saith amser" fyned drosto. Clywodd oddiwrth y dehonglydd ysbrydoledig ystyr ofnadwy y weledigaeth: "Gyrrant di oddiwrth ddynion, a chyd â bwystfil y maes y bydd dy drigfa, â gwellt hefyd y'th

borthant fel eidionau, ac a'th wlychant â gwlith y nefoedd, a saith amser a gyfnewidia arnat ti, hyd oni wypech mae y Goruchaf sydd yn llywodraethu ym mhrenhiniaeth dynion, ac yn ei rhoddi i'r neb a fynno."

Yn mhen blwyddyn ar ol y rhagfynegiad, pan oedd y brenhin yn ddifeddwl am y rhybudd a dderbyniodd, a phan yn llawn o foddhad, efe a ddywedodd, "Onid hon yw Babilon fawr, yr hon a adeiledais i yn frenhindy ynghryfder fy nerth, ac er gogoniant fy mawrhydi? Syrthiodd llef o'r nefoedd, yn dywedyd, Wrthyt ti, frenhin Nebuchodonosor, y dywedir, Aeth y frenhiniaeth oddiwrthyt." Syrthiodd gwallgofrwydd yn un o'i ffurfiau mwyaf diraddiol am saith mlynedd ar y brenhin balch, a thybiai ei hun yn greadur afresymol, cymhwys i ymddeadellu yn unig gydâ bwystfilod, i safon pa rai yr oedd wedi suddo. Ar derfyn y blynyddoedd hyn, dywed, "Dychwelodd fy synwyr attaf fi, a daethum i ogoniant fy mrenhiniaeth, fy harddwch a'm hoywder a ddychwelodd attaf fi; a'm cynghoriaid a'm tywysogion a'm ceisiasant; felly y'm sicrhawyd yn fy nheyrnas, a chwanegwyd i mi fawredd rhagorol." Yn awr ni a'i clywwn ef yn dyweyd: "Bendithiais y Goruchaf a molienais a gogoneddais yr hwn sydd yn byw byth, am fod ei lywodraeth ef yn llywodraeth dragywyddol, a'i frenhiniaeth hyd genhedlaeth a chenhedlaeth; a holl drigolion y ddaear a gyfrifir megis yn ddiddym; ac yn ol ei ewyllys ei hun y mae yn gwneuthur â llu y nefoedd ac â thrigolion y ddaear; ac nid oes a attalio ei law ef, neu a ddywedo wrtho, Beth yr wyt yn ei wneuthur?"

Yn ol tystiolaeth Syr Henry Rawlinson, rhydd llech fynor gedwir yn y wlad hon, sydd yn orchuddedig âg arysgrifau pen-saeth, flwyddolion y brenhin enwog hwn, ac ni a welsom yr ysgolhaig nodedig hwn yn cyfeirio at ran o'r gofadail henafol, yn mha un y cofnodir gwallgofrwydd Nebuchodonosor.

Gwnaeth Efil-Merodach, mab ac olynydd Nebuchodonosor, wedi ei ddylanwadu efallai gan y dystiolaeth roddwyd gan ei dad i Dduw yr Iuddewon, a chan fawrygu y doniau rhyfeddol â pha rai yr oedd Ef wedi eu cynhysgaeddu, mor gynted yr esgynodd i'r orsedd, ddangos ffafr i'w brenhin caethedig. Efe "a ddyrchafodd ben Joachin, brenhin Judah, o'r carchardy, ac efe a ddywedodd yn deg wrtho, ac a osododd ei gadair ef goruwch cadeiriau y brenhinoedd oedd gyd âg ef yn Babilon, ac efe a

newidiodd ei garcharwisg ef; ac efe a fwyttaodd fwyd yn wastadol ger ei fron ef holl ddyddiau ei einioes."

Arddanghosir Belsassar, yr olaf o'r teyrnach Caldeaidd, yr hwn oedd yn ddiystyr o'r gwersi mawrion a ddysgwyd i'r brenhin balch, o'r hwn yr oedd wedi disgyn, yn adroddiadau rhyfeddol Daniel fel eilun-addolwr gwrthun a halogedig, yr hwn a benderfynai goffhau buddugoliaethau ei dduwiau ar Dduw Israel. Yr oedd y caethwas yma i'r cnawdolrwydd iselwael a anurddai dywysogion ei wlad, wedi yfed gwin yn ngŵydd mil o'i arglwyddi, ac yn mhresennoldeb ei wragedd a'i ordderchadon. Yn ngwallgofrwydd a gloddest ei wledd, galwodd am "y llestri aur ac arian, a ddygasai Nebuchodonosor ei dad ef o'r deml yr hon oedd yn Jerusalem; fel yr yfai y brenhin a'i dywysogion, ei wragedd a'i ordderchadon, ynddynt." Amcan eglur y weithred halogedig hono oedd, tywallt dirmyg ar Jehofah, a dyrchafu "y duwiau o aur, ac o arian, o bres, o haiarn, o goed ac o faen."

Ni bu y gorfoledd yma i'r drygionus ond byr. "Yr awr honno bysedd llaw dyn a ddaethant allan, ac a ysgrifenasant ar gyfer y canhwyllbren ar galchiad pared llys y brenhin; a gwelodd y brenhin ddarn y llaw a ysgrifenodd." Hawdd y gallasai lliw y brenhin newid, rhwymau ei lwynau ef ddattod, a'i liniau guro y naill yn y llall. Yr oedd hir-amynedd Duw wedi ei ddihysbyddu, a dydd ofnadwy ei dynged wedi dod. Saif y prophwyd Daniel ger bron Belsassar i ddinoethi ei halogrwydd, i ddehongli yr ysgrifen ddirgelaidd ar y pared, yr hon nid allai ei ddoethion ei darllen, ac i gyhoeddi ei ddiwedd dychrynllyd. Pwyswyd ef yn y cloriannau, a chaed ef yn brin, dygwyd ei lywodraeth i'r pen, rhanwyd ei frenhiniaeth, a rhoddwyd hi i'r Mediaid a'r Persiaid.

Yn agos i ugain mlynedd yn ddiweddarach, ceisiodd y Caldeaid ail-arddelwi eu hannibyniaeth yn Babilon, pan yr ail gymmerwyd y ddinas gan Cyrus, yr hwn oedd yn blaenori ar Persia, fel yr oedd Darius ei ewythr wedi bod yn ben ar Media. Fel hyn, yn ol yr ysgrifen farwol ar y pared, rhanwyd Babilon, yn gystal a'r ymerodraeth fawr o'r hon yr oedd yn brif-ddinas, rhwng y Mediaid a'r Persiaid. Ar yr achlysur yma hefyd yr oedd y brenhin yn porthi ei foethau cnawdol, tra yr oedd y trigolion wedi eu gadael i afradlonedd penrhydd. Yr oedd Cyrus wedi

paratoi i droi yr afon o'i rhedfa, fel ag i gael ffordd syth i ganol y ddinas, ac fel hyn yn ol yr rhagfynegiad "gosodwyd magl i Babilon, a hi a gafwyd ac a ddaliwyd, o herwydd iddi ymryson yn erbyn yr Arglwydd."

Yr oedd yr amgylchiadau cyssylltiedig â chymmeriad y ddinas eilunaddolgar hon, wedi eu rhagfynegu gan y prophwydi ar yr adeg yr oedd ei brenhinoedd yn gweinyddu y barnedigaethau Dwyfol ar yr Iuddewon. Yr oedd yr Arglwydd wedi dyweyd trwy Esaiah: "Wele fi yn cyfodi y Mediaid yn eu herbyn hwy, y rhai ni roddant fri ar arian; ar aur nid ymhyfrydant ynddo. Eu bwäau hefyd a ddryllia y gwŷr ieuaingc, ac wrth ffrwyth bru ni thosturiant; eu llygad nid eiriach y rhai bach." Yr oedd Jeremiah wedi rhagddywedyd y byddai i'r afon gael ei sychu i fyny, fel ag i amddifadu y ddinas o'i hamddiffyniad: "Sychder sydd ar ei dyfroedd hi; a hwy a sychant; o herwydd gwlad delwau cerfiedig yw hi, ac mewn eilunod y maent yn ynfydu." "Am hynny fel hyn y dywed yr Arglwydd, Wele, myfi a ddadleuaf dy ddadl di, ac a ddïalaf drosot ti; a mi a ddihysbyddaf ei môr hi, ac a sychaf ei ffynnonnau hi." Yr oedd y ddinas i gael ei chymmeryd ar adeg o lawenydd, pan y byddai ei thywysogion yn ymfwynhau yn ngloddest anghymmedroldeb: "Yn eu gwres hwynt y gosodaf wleddoedd iddynt, a mi a'u meddwaf hwynt, fel y llawenychont, ac y cysgont hûn dragywyddol, ac na ddeffrônt medd yr Arglwydd." Mor fanwl oedd y rhagfynegiadau am y digwyddiadau hyn, fel y cyfeiriant at "y dorau" a arweinient o'r afon i'r ddinas, pa rai oeddynt i gael eu gadael yn agored o flaen yr ymosodydd.

Mae haneswyr a ysgrifenasant heb yr un bwriad i ddangos cyflawniad y rhagfynegiadau hyn, wedi cofnodi y digwyddiadau, pa rai a ddengys y modd y cyflawnwyd hwy i'r llythyren. Cyrus, gan gymmeryd mantais ar anrhefn y llys a'r ddinas, a anogodd ei fyddin i fyned i mewn yn ystod y gloddest hyn. Cyrhaeddodd y palas cyn i un cenhad allu hysbysu y brenhin fod ei ddinas wedi ei goresgyn; ac wrth ganfod ei phyrth wedi eu cauad, a'r gwarchlu osodwyd o'u blaenau yn yfed wrth dân fflamllyd, aeth ei filwyr yn mlaen ar y gwaith o ddinystrio. Canfyddodd y brenhin ei berygl pan yr oedd yn rhy hwyr i ddiangc, ac yr oedd yn mysg y cyntaf i syrthio o dan gynddaredd y gorchfygwyr.

(Darllener Daniel iv.; v.)

## PENNOD XIX.

### TAFLU DANIEL I FFAU'R LLEWOD.

PAN yr esgynodd Darius y Mediad i'r orsedd o ba un yr oedd wedi taflu yr olaf o'r brenhinoedd Caldeaidd, yr oedd y Mediaid a'r Persiaid yn gynghreiriol yn yr ymdrech am ymerodraeth. Derbyniodd tiriogaethau eang Media ychwanegiadau mawrion trwy gaffaeliad Babilon, fel pan y gosododd Darius sedd ei lywodraeth yn y ddinas orwych hon, efe a gafodd ei hun yn ben ar chwech ugain o dalaethau, ar ba rai y gosododd yr un nifer o dywysogion. Gosodwyd y llywodraethwyr hyn o dan arolygiaeth tri o briflywyddion, o ba rai yr oedd Daniel yn un, wedi enill ymddiried Darius yr hwn a feddyliodd ei osod ar yr holl deyrnas.

Cynhyrfodd y llwyddiant i ba un y codwyd Daniel yn awr genfigen y tywysogion paganaidd hyn, natur pa rai oedd yn ormod o dan lywodraeth teimladau pechadurus i oddef iddynt lawenhau yn nyrchafiad y dyn mawr a da hwn. Byddwn yn arfer siarad yn fynych am genfigen fel arwydd o feddwl bach, ond nid yw y dynodiad yma yn rhoi darluniad digonol o'r pechod cyffredin ond diraddiol hwnw. Gwir sylfaen y drwg oedd diffyg egwyddor grefyddol iawn. Nid oedd calon y dyrfa genfigenus yma o lyswyr yn uniawn gyda Duw, ac o ganlyniad ni ysgogai yn iawn tuag at ddynion. Dadganwyd yr anghyfiawnder gwrthun a geisiai y bradwyr hyn gyflawni yn erbyn Daniel yn eglur yn eu hiaith eu hunain: "Yna y dywedodd y gwŷr hyn, Ni chawn yn erbyn y Daniel hwn ddim achlysur oni chawn beth o ran cyfraith ei Dduw yn ei erbyn ef." Yr ydym yn mawrhau y dystiolaeth uchel hon i'r cymmeriad y ceisient ei warthruddo, ac y mae yn gywir yr un y dylai pob gwas proffesedig i Dduw fod yn awyddus i'w sicrhau. Gallwn fforddio dioddef yr holl wawd a all pechaduriaid dywallt arnom, os nad ydym wedi rhoddi i'n gwrthwynebwyr un rheswm amgen nag a roddodd Daniel i'w rai ef.

Penderfynodd y dynion dibetrus hyn i wneyd ymroddgarwch crefyddol Daniel yn achlysur i'w ddinystr. Da y gwyddent na wnai barchu yr un gorchymyn brenhinol a wnai ymyraeth â gofynion ei gydwybod a hawliau Duw, a theimlent yn sicr yr ymostyngai i farwolaeth mewn unrhyw ddull

yn hytrach na rhoi fyny gweddio ar y gwir Dduw am ddeg diwrnod ar hugain, neu am un dydd. Gan gelu oddiwrth y brenhin eu bwriad drygionus, derbyniodd y bradwyr y gorchymyn brenhinol, yr hwn ni allai y brenhin alw yn ol pan unwaith yr arwyddnodid ef, fod i bwy bynag a archai arch gan un duw na dyn dros ddeg niwrnod ar hugain ond gan Darius yn unig, gael ei fwrw i ffau y llewod.

Danghosodd ymddygiad Daniel "pan wybu selio yr ysgrifen" ei ffyddlondeb diwyro i Dduw, a'r gwroldeb moesol sanctaidd, heb yr hwn troasai yn wrthgiliwr. Hyd yn hyn yr oedd wedi mwynhau ffafr fawr, ac heb fod yn agored i ddim prawf llym o gywirdeb ei grefydd. Gallasai gael ei wawdio a'i ddirmygu, ond nid oedd "chwerthiniad echryslawn y byd" yn gosp boenus i'r dyn oedd wedi dechreu ei yrfa trwy broffesu ffydd yr Hebreaid, a'r hwn oedd yn ystod bywyd maith wedi cadw proffes gyson. Arferai dair gwaith y dydd, yn ei oruch ystafell, a'r ffenestri yn agored tua Jerusalem, syrthio ar ei liniau a gweddio ar Jehofah. Yr oedd ei galon eto yn y wlad anwyl hono o ba un y cymmerwyd ef yn gaeth, ac ni wnaeth gofalon ei swydd uchel, neu ei gwobrwyon, wneyd iddo anghofio y lle yr oedd coffawdwriaeth o enw Jehofah, ac i ba un yr oedd Ei bobl i gael eu dychwelyd.

Nid oedd dim gwag-ymddanghosiad yn nuwioldeb Daniel, er iddo weddio fel hyn â'i ffenestri yn agored. Os yw pob cristion mewn amgylchiadau cyffredin yn ei ddefosiynau yn ufuddhau i'r gorchymyn "cau dy ddrws," mae amserau pan y gofyna dyledswydd i ni fel Daniel ddangos ger bron pawb ein bod yn mysg y rhai hyny a alwant ar enw yr Arglwydd. Nid aeth Daniel allan fel ymgeisydd am anrhydedd merthyrdod; efe a "weddïai, a chyffesai o flaen ei Dduw, megis y gwnai efe cyn hynny." Cadwodd ar y canol rhwng gwag-ymddanghosiad a llwfrdra pechadurus. Ni thwyllodd ei hun trwy ddyweyd fod yr amser wedi dyfod i weddi ddirgel yn unig, ac felly ceisio gwaredu ei fywyd a'i enaid. Gwyddai yn dda mai "â'r galon y credir," ond gwyddai hefyd, mai "â'r geneu y cyffesir i iachawdwriaeth." Os ydym yn ymawyddu am yr anrhydedd a'r gwynfydedigrwydd o gael ein cydnabod ger bron y Tad a'i angylion sanctaidd, rhaid i ni yn awr gyffesu y Gwaredwr yn gyhoeddus ger bron dynion.

Pan y cyhuddodd gelynion Daniel ef o droseddu y gyfraith, ac y galwasant am weinyddiad o gosp drom ei bygythiad, canfyddodd y brenhin y fagl i ba un y goddefodd ei hun i gael ei gymmeryd. Dyga ei ymddygiad yn gryf i'n meddwl y gocheliad ysbrydoledig, "na âd i'th enau beri i'th gnawd bechu." Yr oedd Herod yn "drist iawn" o herwydd y llŵ byrbwyll, pan y gwelodd mai llofruddiaeth Ioan Fedyddiwr a fyddai y canlyniad; a Darius, pan welodd fod yn rhaid taflu Daniel i ffau'r llewod, "a aeth yn ddrwg iawn ganddo, ac a roes ei fryd gydâ Daniel ar ei waredu ef; ac a fu hyd fachludiad haul yn ceisio ei achub ef." Daeth y foment i daflu y prophwyd i lawr i fysg y bwystfilod creulon, a dywedodd y brenhin wrth Daniel, "Dy Dduw yr hwn yr ydwyt yn ei wasanaethu yn wastad, efe a'th achub di." Yr unig wir ddïoddefydd oddiwrth y gyfraith fyrbwyll hon, am yr hwn y darllenwn, oedd Darius a'i seliodd. Efe "a aeth i'w lys, ac a fu y noson honno heb fwyd; ac ni adawodd ddwyn difyrwch o'i flaen; ei gwsg hefyd a giliodd oddiwrtho." Parhaodd y wylofain dros y nos; ond daeth gorfoledd yn y boreu. Nid oedd galar y brenhin heb esmwythhâd oddiwrth obaith am waredigaeth, ac ar y wawr-ddydd aeth ar frys at ffau y llewod. Bradychai ei lais cwynfanus ei gyfyngder mewnol, ond gan i'w lef gael ei chyfeirio at Daniel, danghosai ei obaith fod y cyffeswr yn fyw, i roddi ei atebiad. I Darius dyma oedd yr amser i brofi gallu y Duw hwnw, ar yr hwn y gweddiai y prophwyd yn barhaus. "Llefarodd y brenhin, a dywedodd wrth Ddaniel, Daniel, gwasanaethwr y Duw byw, a all dy Dduw di, yr hwn yr wyt yn ei wasanaethu yn wastad, dy gadw di rhag y llewod?"

Mor rhyfedd oedd yr atebiad a ddaeth allan o waelod y ffau! "Fy Nuw a anfonodd ei angel, ac a gauodd safnau y llewod, fel na wnaethant i mi niwed; o herwydd puredd a gaed ynof ger ei fron ef; a hefyd ni wneuthum niwed o'th flaen dithau, frenhin." Yma yn wir yr oedd ffydd wedi profi yn fuddugoliaethus. Nid oedd Daniel wedi ymddiried yn ofer yn y gallu a'r daioni Dwyfol; ac anrhydeddodd Jehofah yn awr Ei was yn mhresennoldeb y pagan. Fel hyn dalia Daniel, yn nesaf at y Gwaredwr, y lle uwchaf yn mysg y rhai trwy ffydd "a gauasant safnau llewod."

Ac yn awr cymmerir y drygionus yn eu rhwydau eu hunain Profa y dynion creulon a gwaedlyd ad-daliad cyfiawn a buan. Yr oedd y

brenhin wedi cynddeiriogi at y fradwriaeth oddiwrth ba un yr oedd wedi dioddef, ac y mae ei amser wedi dyfod i ddïalu am yr holl ing a gwasgfa yr aeth drwyddynt. Efe "a orchymynodd, a hwy a ddygasant y gwŷr hynny a gyhuddasant Ddaniel, ac a'u bwriasant i ffau y llewod, hwy, a'u plant, a'u gwragedd; ac ni ddaethant i waelod y ffau hyd oni orchfygodd y llewod hwynt, a dryllio eu holl esgyrn."

Ni ddaeth yr un angel i Dduw yn awr i gau safnau y llewod. Mae y gwaharddiad Dwyfol i'r hwn yr oedd y creaduriaid gwylltion hyn wedi ufuddhau yn ystod y nos, wedi ei alw yn ol, ac y mae eu hanian greulon wedi ei gollwng yn rhydd drachefn. Ar achlysuron pwysig a theilwng yn unig y mae Jehofah yn atal gweithrediad Ei ddeddfau ei hun. Mewn natur yn gystal ag mewn gras, mae eisieu gallu mawr Duw i waredu rhag marwolaeth. Ni raid i Frenhin y brenhinoedd arwyddnodi yr un dïenydd-warant i gospi y drygionus. Mae holl natur yn ymladd yn erbyn y rhai sydd yn ymladd yn erbyn Duw natur, ac nid rhaid i bechaduriaid ond cael eu gadael i dueddiadau natur, nwydau pechaduriaid ereill, cynddaredd uffernol poenydwyr, a bydd y gwaith o ddinystrio wedi ei wneyd.

Arddengys gem cerfiedig, ddarganfyddwyd yn mysg adfeilion Babilon, ddyn yn sefyll ar ddau eufil yn ymfrwydro â dau anifail, wedi eu bwriadu yn debygol yn lluniau llewod, i osod allan fel y tybir ddigwyddiad o fath yr un presennol. Dywedir fod tebygrwydd yn ganfyddadwy rhwng gwisg y dyn, a rhai y caethion Iuddewig yn yr Aipht. Cyfeiria y tebygrwydd yma yn neillduol at y penwisg a'r farf, fel eu gosodir allan yn y darluniau Israelaidd dynwyd ar y cofadeiladau Aiphtaidd. Mae y gem tra gwerthfawr hwn wedi ei arlunio yn y Bibl Darluniadol; ac efallai na byddai yn ormod dychymygu y gallai iddo gael ei gerfio i goffhau am y digwyddiad rhyfeddol hyn, o ba un y byddai y brenhin Darius yn awyddus i gadw rhyw gofarwydd. Gallai fod y geufilod adeiniog, gan ba rai y cynhelid y darlun, wedi eu bwriadu i osod allan y cenhadon angylaidd anfonwyd o'r nefoedd i gau safnau y llewod. O'r braidd y gallai amgylchiad mor hynod fod wedi myned heibio heb ryw gof-arwydd, a beth a allasai fod yn fwy priodol na'r un a gyflenwir fel hyn?

(Darllener Daniel vi.)

# PENNOD XX.

## CYFODIAD A CHWYMP CENHEDLOEDD YN CAEL EU RHAGFYNEGU GAN Y PROPHWYDI.

Yr oedd y genhadwri uchel roddwyd i Jeremiah, yr hwn a osodwyd "ar y cenhedloedd, ac ar y teyrnasoedd, i ddiwreiddio, ac i dynnu i lawr, i ddifetha, ac i ddistrywio, i adeiladu, ac i blannu," yn un ag a gyfranogai gyda yr holl brophwydi sanctaidd. Ar ben bryn uchel gweledigaeth, canfyddent i oesau pell y dyfodol, a gwelent ymdreuliad graddol neu ddymchweliad disymmwth y brenhiniaethau fodolent yn eu hamser; ymledaeniad cenhedloedd oeddynt y pryd hyny yn ymdrechu am fodolaeth; a chyfodiad a llwyddiant rhai ereill nad oeddynt y pryd hwnw wedi dod i fodolaeth. Amcanwyd y rhagfynegiadau hyn, llawer o honynt a fynegwyd ganrifoedd cyn eu cyflawniad, i gyrhaedd amrywiol ddibenion tra phwysig. Yr oedd rhai i argyhoeddi yr Israeliaid fod yr offerynau trwy ba rai y ceryddwyd hwynt yn ddarostyngedig i'r awdurdod Ddwyfol; yr oedd ereill i ddarostwng y cenhedloedd balch hyny a ymffrostient yn eu rhan yn nghospedigaeth pobl Dduw; tra y maent oll yn awr i warantu ein ffydd yn y gyfrol ysbrydoledig yn mha un y maent yn gynhwysedig.

Gallai fod yn fuddiol i fwrw golwg byr ar rai o'r rhagfynegiadau hyn a'u cyflawniad, i'r diben o arddangos y trysorau gwerthfawr a gynhwysant, er mwyn i'r darllenydd gael ei gefnogi i'w chwilio hwynt, er eangiad ei wybodaeth, a chadarnhad ei ffydd.

Rhagfynegir tynged Edom fel hyn gan Ezeciel: "Fel hyn y dywed yr Arglwydd Dduw, Am i Edom wneuthur yn erbyn tŷ Judah wrth wneuthur dïal, a gwneuthur camwedd mawr, ac ymddïal arnynt; am hynny, medd yr Arglwydd Dduw, yr estynaf innau fy llaw ar Edom, a thorraf o honi ddyn ac anifail; a gwnaf hi yn anrhaith o Teman." Dywed Obadiah: "Oni ddinystriaf y dydd hwnnw, medd yr Arglwydd, y doethion allan o Edom, a'r deall allan o fynydd Esau?" Mae yr oll o'r wlad hono y cadarnheir ei mawredd cyntefig trwy weddillion oddeutu deg ar hugain o drefydd, ac y mae yr hynotaf, y graig-ddinas orwych



LEIGHTON, BROTHERS.

PETRA.

Petra, yn awr "yn anialwch anghyfanneddol." Rhydd Volney, y teithiwr anffyddol, y dystiolaeth gyflawnaf i wirionedd y prophwydoliaethau hyn mewn perthynas i Edom. Yn ei amser ef nid oedd un teithiwr wedi ymweled â hi, ac y mae wedi ei sylwi, er fod Edom yn gorwedd ar y ffordd unionaf i'r India, ei bod yn anhygyrch, ac y mae hyd yn oed yr Arabiaid yn ofni myned i mewn iddi, nac arwain neb o fewn ei therfynau.

Tyrus oedd marchnadfa yr hen genhedloedd, ac o dan yr aralleg o long fasnachol brydferth, darlunia Ezeciel (xxvii.) ei masnach â'r holl fyd; ac fel hyn y rhagfynega dynged y ddinas fawr hon: "Hwy a anrheithiant dy gyfoeth, ac a yspeiliant dy farchnadaeth; ac a ddinystriant dy geurydd, a'th dai dymunol a dynnant i lawr; a'th gerrig, a'th goed, a'th bridd, a osodant yng nghanol y dyfroedd. Taenfa rhwydau fyddi; ni'th adeiledir mwy; canys myfi yr Arglwydd a'i lleferais, medd yr Arglwydd Dduw. Fel hyn y dywed yr Arglwydd Dduw wrth Tyrus, Oni chryn yr ynysoedd gan swn dy gwymp, pan waeddo yr archolledig, pan ladder lladdfa yn dy ganol?" Ca y teithiwr allan fod "porthladd Tyrus, er lleied yw yn bresennol, wedi ei gau i fyny i'r radd hono gyda thywod ac ysbwrial, fel mai gydag anhawsder mawr y gall cychod y pysgotwyr hyny a ymwelant yn awr ac yn y man â'r farchnadfa enwog hono gynt, gael myned i mewn er sychu eu rhwydau ar ei chreigiau a'i hadfeilion." Ni chafodd Volney yn Tyrus ond haner cant neu driugain o deuluoedd tlodion, yn byw yn anghyhoedd ar gynhyrchion eu hychydig dir a physgodwriaeth; a chadarnhâ Bruce yn neillduol y rhagfynegiad—"taenfa rhwydau fyddi"—pan y darlunia hi fel "craig ar yr hon y sycha pysgotwyr eu rhwydau."

Yr oedd Philistia, oedd wedi "dïalu dïal trwy ddirmyg calon," i gael ei dinystrio. Dywedodd yr Arglwydd: "Wele fi yn estyn fy llaw ar y Philistiaid, a thorraf ymaith y Cerethiaid, a difethaf weddill porthladd y môr." Felly drachefn gan Amos: "Eithr anfonaf dân ar fur Gaza, ac efe a ddifa ei phalasau hi; a mi a dorraf y preswylwyr o Asdod, a'r hwn a ddeil deyrn-wïalen o Ascelon; a throaf fy llaw yn erbyn Ecron, a derfydd am weddill y Philistiaid, medd yr Arglwydd Dduw." Dylid cofio "pan y traethwyd y rhagfynegiadau hyn, fod pob un o'r dinasoedd mewn sefyllfa lewyrchus, ac nis gallasai dim ond rhagwybodaeth y nefoedd

gyhoeddi ar ba un o'r ddwy, ac yn mha fodd y byddai i phïol ei lidiowgrwydd gael ei thywallt. Mae Gaza yn wirioneddol heb frenhin. Gorwedda uchel dyrau Ascelon yn wasgaredig ar y llawr, ac ni wna yr adfeilion o fewn ei mhuriau gysgodi bod dynol."

Y rhagfynegiad mewn perthynas i'r Aipht oedd—"Yna y byddant yn frenhiniaeth isel. Isaf fydd o'r brenhiniaethau, ac nid ymddyrchafaf mwy oddi ar y cenhedloedd; canys lleihâf hwynt, rhag arglwyddiaethu ar y cenhedloedd." "Pan roddwyf dir yr Aipht yn anrhaith, ac anrheithio y wlad o'i llawnder, pan darawyf y rhai oll a breswyliant ynddi, yna y cânt wybod mai myfi yw yr Arglwydd." Yma drachefn gwirfoddol gynhygia "gwawdiwr crefydd, ond llygad-dyst o'r ffeithiau," ei dystiolaeth i wirionedd y rhagfynegiadau hyn. Dywed Volney: "Nid oes dosbarth canol yn yr Aipt, na phendefigion, offeiriaid, masnachwyr, na thir-feddiannwyr. Mae y wedd gyffredinol o drueni ganfyddir yn yr oll a gyfarfydda y teithiwr, yn nodi allan iddo ef anrheithgarwch gormes, a'r anhyder cydfynedol â chaethwasanaeth. Rhwystra anwybodaeth dwfn y trigolion iddynt ddeall achos eu drygau, neu gymhwyso moddion angenrheidiol eu gwellhâd. Estyna anwybodaeth, ymdaenedig trwy bob dosbarth, ei effeithiau ar bob math o wybodaeth foesol ac anianyddol. Ni siaradir am ddim ond am flinderau mewnol, trueni cyhoeddus, gormeiliaethau arianol, pastyniadau, a llofruddiaethau. Rhydd barn ei hun rai i farwolaeth heb ffurfiolrwydd."

Pan yr oedd Ninefeh yn ei holl falchder a rhwysg, yn "drigfa y llewod, a phorfa y cenawon llewod," rhagfynegwyd ei dinystr fel hyn gan y prophwyd Nahum: "Daionus yw yr Arglwydd, amddiffynfa yn nydd blinder; ac efe a edwyn y rhai a ymddiriedant ynddo. A llifeiriant yn myned trosodd y gwna efe drangc ar ei lle hi, a thywyllwch a erlid ei elynion ef." "Pyrth y dwfr a agorir, a'r palas a ymddettyd. A Hussab a gaethgludir, dygir hi i fynu, a'i morwynion yn ei harwain megis â llais colommennod yn curo ar eu dwyfronnau." "A bydd i bawb a'th welo ffoi oddiwrthyt, a dywedyd, Anrheithiwyd Ninefeh, pwy a gwyna iddi? O ba le y ceisiaf ddiddanwyr i ti?" Mae ei hadfeilion, pa rai ydynt wedi gorwedd yn llonydd am dri chanrif ar hugain, wedi eu claddu mewn moelgloddiau o bridd, fel ag y mae ei safle wedi bod yn destyn



LEIGHTON, BROTHERS.

NINEVEH.



[redacted]

LEIGHTON, BROTHERS.

BABYLON.

dadl, a'i bodolaeth gynt wedi ei wadu, wedi eu harchwilio yn ein dyddiau ni; ac fel y gwelsom, maent wedi dwyn y dystiolaeth mwyaf perffaith i wirionedd y rhagfynegiadau Dwyfol. Nis gallasai Dr. Keith, yr hwn ddeng mlynedd ar hugain yn ol a ddygodd allan lyfr mwyaf gwerthfawr ar y prawf deilliedig oddiwrth brophwydoliaeth, ond llefaru am Ninefeh yn unig fel lle mewn perthynas i'r hwn yr oeddym mewn sefyllfa o "anwybodaeth addefedig." Dywed: "Mae yr anghof sydd wedi myned drosti am lawer oes, yn unedig â phrinder tystiolaeth i'w hunaniaethu, yn profi eto fod y lle y safai yn hir yn anadnabyddus, ac mai o'r braidd y gellir hyd yn oed yn awr benderfynu i sicrwydd."

Ffurfiai Babilon, pan yn ei balchder a'i gogoniant, un o brif faterion prophwydoliaeth Hebrëig. Rhagfynegodd Esaiah gant a thriugain o flynyddoedd cyn i elyn neshau at furiau y ddinas foethus, "lef tyrfa yn y mynyddoedd, swn twrf teyrnasoedd y cenhedloedd wedi ymgynnull, Arglwydd y lluoedd sydd yn cyfrif llu y rhyfel." Mor ddieithr y rhaid y disgynai geiriau y prophwyd ar glustiau dynion, pan y dywedai: "A Babilon, prydferthwch y teyrnasoedd, gogoniant godidowgrwydd y Caldeaid, fydd megis dinystr Duw ar Sodom a Gomorrah. Ni chyfanneddir hi yn dragywydd, ac ni phreswylir hi o genhedlaeth i genhedlaeth; ac ni phabella yr Arabiaid yno; a'r bugeiliaid ni chorlannant yno; ond anifeiliaid gwylltion yr anialwch a orweddant; a'u tai hwynt a lenwir o ormesiaid, a chywion yr estrys a drigant yno, a'r ellyllon a lamant yno. A'r cathod a gyd-attebant yn ei gweddw-dai hi, a'r dreigiau yn y palasoedd hyfryd; a'i hamser sydd yn agos i ddyfod, a'i dyddiau nid oedir." Mae yr holl ragfynegiadau hyn wedi eu cyflawni yn llwyr gan offerynau anymwybodol y bwriad Dwyfol—y Mediaid a'r Persiaid, o dan Darius a Cyrus; y Macedoniaid, o dan Alexander; y Rhufeiniaid, o dan Trajan a Julian; a'r Saraceniaid a'r Tyrciaid, yn cael eu harwain gan Omar a Tamerlane. Mae Babilon wedi dod yn awr "yn garneddau." Dywed teithwyr wrthym fod "twynydd mawrion, palasdai a phreswylfeydd dynol i'w gweled yn mhob man, ac yn ffurfio adfeilion hir ac amrywiol, pa rai mewn rhai manau ydynt yn debycach i fryniau naturiol na moelgloddiau, a orchuddiant weddillion adeiladau mawrion ac ysplenydd." "Mae holl wyneb y wlad yn orchuddedig â gweddillion adeiladau, mewn

rhai lleoedd yn gynhwysedig o furiau priddfeini rhyfeddol o newydd eu golwg; mewn lleoedd ereill o ddim ond cyfres o foelgloddiau ysbwrial, o'r fath ffurfiau anmhenodol, amrywiaeth a maint, fel ag i yru y person a geisiai wneyd rhyw amcan-dyb, i ddyryswch annattodol." Nid oes dim a gystadla ag anrheithiad y ddinas ond yr eiddo y wlad o gylch—"helaethrwydd yr hon sydd wedi diflanu ymaith mor llwyr a phe buasai ysgub anrheithiad wedi ei hysgubo hi o'r gogledd i'r deheu, yr holl wlad, o ragdrefi Babilon hyd y fan bellaf a welir, yn gorwedd yn ddiffaethle prudd."

Trwy y rhagfynegiadau hyn a'u cyflawniad llythyrenol mae Jehofah yn dysgu i ni fel y dysgodd y rhai hyny a'u clywsant gyntaf, wirioneddau mawrion a sanctaidd, yn y modd mwyaf difrifol ac argraffiadol. Yr ydym yn gweled y rhagluniaeth hono sydd yn estyn ei gofal i genhedloedd yn gystal ag i unigolion. Yr ydym yn dysgu "moliannu, a mawrygu, a gogoneddu brenhin y nefoedd, yr hwn y mae ei holl weithredoedd yn wirionedd, a'i lwybrau yn farn; ac a ddichon ddarostwng y rhai a rodiant mewn balchder." Yr ydym yn dysgu "fod un dydd gyd â'r Arglwydd megis mil o flynyddoedd, a mil o flynyddoedd megis un dydd." Yn gydmarol â'n bywyd byr ni, mae y dyddiau hyn i'r Tragywyddol yn wir yn faith, ond nid mor faith ag i dori y cyssylltiad rhwng pechod a chosp, rhwng ufudd-dod sanctaidd a'i wobr o ras. Yn nghwymp yr Aipht, Assyria, Babilon, a brenhiniaethau llai, hanes a thynged pa rai a ragfynegir ac a gofnodir fel hyn, yr ydym yn canfod y digofaint Dwyfol yn erbyn eilun-addoliaeth, balchder, gormes, creulondeb, ymlygriad cnawdol, cybydd-dod, cariad at bleserau bydol, a phob math o ddrygau yn mha rai yr ymfoddhâ cyfundebau mawrion; rhybuddir ni rhag y pechodau hyny a dderbyniant gefnogaeth y cyffredin, a dysgir ni yn y modd mwyaf effeithiol i beidio "dilyn y lliaws i wneuthur drwg," gan y gwelwn "er maint fyddo cymmorth, y drygionus ni bydd dïeuog." Gwirionedd Duw, fel ei danghosir yn nghyflawniad y prophwddoliaethau hyn, ydyw hefyd sylfaen calondid i bawb a gredant ynddo Ef. "Pwy a draethodd hyn er cynt? Onid myfi yr Arglwydd? Trowch eich wynebau attaf fi, holl gyrrau y ddaear, fel y'ch achuber; canys myfi wyf Dduw, ac nid neb arall."

(Darllener Ezeciel xxvii.)

# PENNOD XXI.

## GWELEDIGAETHAU DANIEL.

YR oedd amser y caethiwed Iuddewig, er yn dymhor o ddarostyngiad ac o gerydd llym, yn un o fraint fawr i eglwys Dduw. Yn ystod y tymhor yma defnyddiodd Jehofah yn fynych oleuni y dyfodol i chwalu y prudd-der a amdoai y presennol, ac ni ddylynwyd yr ardrefniad trugarog mewn un amgylchiad â chanlyniad mwy dymunol na phan y trigai Daniel yn Babilon, ac yn Susan, un o ddinasoedd brenhinol Persia. Bydded i ni felly edrych ar yr hyn a eilw Dr. Mede, yn "flwyddiadur sanctaidd, ac almynag mawr prophwydoliaeth, amseryddiaeth prophwydoliaethol amserau mesuredig trwy olyniad pedair o brif frenhiniaethau Daniel."

Mae gan weledigaeth y pedair brenhiniaeth fawr, olynedig gan frenhiniaeth y Messiah, fel ei rhagarweiniad frwydr gwyntoedd y nefoedd ar y môr mawr, wedi ei bwriadu efallai i'n hadgoffa ni o'r galluoedd ysbrydol mawrion hyny ydynt yn cydymdrechu am lywodraeth ar fôr cythryblus amgylchiadau dynol, ac yn dwyn oddiamgylch y cyfnewidiadau olynol yn hanes ein byd. O'r môr cythryblus yma "pedwar bwystfil mawr a ddaethant i fynu, yn amryw y naill oddiwrth y llall." Trosglwyddai yr holl ddarluniau arallegol hyn addysgiadau mwyaf grymus i'r prophwyd, a gwasanaethasant i argraffu ar ei feddwl y gwersi ddysgwyd gan y freuddwyd a ddehonglodd i Nebuchodonosor.

Yr oedd y llew gydag adenydd eryr yn arwyddlun cyfaddas o Babilon—llew mewn cryfder, ac fel eryr yn newredd ei ehediad i eangu ei therfynau a disgyn ar ei gelynion. Danghosai tyniad ei hadenydd, a bod â chalon dyn yn lle â chalon llew, golliad ei gallu a'i dewredd blaenorol; gan gyfeirio at y gwersi darostyngol ddysgid pan y byddai i'r ddinas gael ei chymmeryd gan Darius y Mediad.

"Ac wele, anifail arall, yr ail, yn debyg i arth, ac efe a ymgyfododd ar y naill ystlys, ac yr oedd tair asen yn ei safn ef rhwng ei ddannedd; ac fel hyn y dywedent wrtho, Cyfod, bwytta gig lawer." Yma yr ydym yn cael yr ymerodraeth Bersiaidd, yr hon oedd yn debyg i'r arth am greulondeb. Danghosai y tair asen ei hysglyfaeth, brenhiniaethau Babilon,

yr Aipht, a Sardis; a chyfateba y cyfarwyddyd i gyfodi a bwytta cig lawer i'r rhyfeloedd dinystriol o dan Cyrus a'i olynwyr.

Dywed y prophwyd: "Wedi hyn yr edrychais, ac wele un arall megis llewpard, ac iddo bedair aden aderyn ar ei gefn; a phedwar pen oedd i'r bwystfil; a rhoddwyd llywodraeth iddo." Yma y cawn yr ymerodraeth Facedonaidd, "y rhoddwyd llywodraeth iddi" o dan Alexander Fawr. Yr oedd yn frychog fel y llewpard, i osod allan yr amrywiaeth pobl o ba rai yr oedd yn gynhwysedig. Mae y pedair aden hyn yn arwyddluniol o wibiadau cyflym Alexander, cyflymder cad-deithiau yr hwn, ac olyniad ei fuddugoliaethau, a ddisgrifir trwy yr arddanghosiad yma; tra y cyfeiria y "pedwar pen" yn eglur at ei bedwar olynydd mewn llywodraeth. Rhagfynegir dosbarthiad pedwar-plyg yr ymerodraeth Facedonaidd ar ol marwolaeth Alexander yn ngweledigaeth nesaf Daniel (viii. 22), fel y pedwar corn hynod a godasant ar ol i un corn mawr y bwch gael ei dori. Rhanwyd yr ymerodraeth fawr ennillwyd gan Alexander i bedair o ranau. Cymmerodd Ptolemy yr Aipht yn y deheu; teyrnasodd Seleucus dros Syria a thalaethau mawrion y dwyrain; ffurfiodd Macedon a Groeg yn y gorllewin frenhiniaeth Cassander, tra y syrthiodd Thrace a'r tiriogaethau cyfagos yn y gogledd i Lysimachus.

Y "pedwerydd bwystfil, ofnadwy, ac erchyll, a chryf ragorol, ac iddo yr oedd dannedd mawrion o haiarn; yr oedd yn bwytta, ac yn dryllio, ac yn sathru y gweddill dan ei draed; hefyd yr ydoedd efe yn amryw oddiwrth y bwystfilod oll y rhai a fuasai o'i flaen ef, ac yr oedd iddo ddeg o gyrn." Efe oedd yr arwyddlun cymhwys o'r ymerodraeth Rufeinaidd hono, yr hon oedd yn wir yn "amryw oddiwrth yr holl frenhiniaethau," ac yn barod i "ddifa yr holl ddaear," i'w "sathru hi a'i dryllio." Ymranodd y gallu dirfawr hwn, yr olaf a ymgeisiodd am ymerodraeth gyffredinol trwy rym gorfodol, i ddeg o frenhiniaethau, arddanghoswyd yn gyntaf i frenhin Babilon trwy fysedd traed y ddelw, ac yn awr i'r prophwyd trwy y deg corn yn mhen y bwystfil. Yr oedd y mân frenhiniaethau i ba rai y rhanwyd yr ymerodraeth Rufeinaidd, er fod rhai wedi eu colli ac ereill wedi eu chwanegu, fel y sylwa Syr Isaac Newton, yn cael siarad hyd eto am danynt fel deg brenhin.

Fel hyn y goddefwyd i'r prophwyd drachefn ragweled y cyfnewidiadau

mawrion a phenaf oeddynt i ganlyn yn hanes y byd, a dygodd ei weledigaeth, fel yr eiddo Nebuchodonosor, ef yn bell i amserau y Messiah. Mae y frenhiniaeth ysbrydol hono a rag-gysgodwyd trwy y gareg a dorwyd o'r mynydd nid â llaw, yn cael ei darlunio yn awr yn ei nhatur: "Mi a welwn mewn gweledigaethau nos, ac wele, megis Mab y dyn oedd yn dyfod gyd â chymmylau y nefoedd, ac at yr Hen ddihenydd y daeth, a hwy a'i dygasant ger ei fron. Ac efe a roddes iddo lywodraeth, a gogoniant, a brenhiniaeth, fel y byddai i'r holl bobloedd, cenedloedd, a ieithoedd ei wasanaethu ef; ei lywodraeth sydd lywodraeth dragywyddol, yr hon nid â ymaith, a'i frenhiniaeth ni ddifethir."

Cafodd y "gŵr anwyl" hwn, yn y modd yma fel Abraham, weled dydd Crist a llawenychu. Mae y wedd yn mha un yr arddanghosir y Gwaredwr, yn cario meddwl Daniel i gyfnod diweddarach na'r un y danghoswyd ef i Esaiah. Nid oedd Crist mwyach y gŵr gofidus, neu yr oen a arweinid i'r lladdfa. Mae eisoes wedi cyflwyno yr aberth, ac y mae yn awr yn derbyn gwobr Ei ufudd-dod a'i ddioddefiadau. Mae Daniel, er yn byw rhwng pump a chwe' chan' mlynedd cyn dyddiau Mab y dyn, wedi ei ffafrio yn fwy na'i ddisgyblion. Gwelsant hwy Ef ar ol Ei adgyfodiad, a derbyniasant Ei orchymyn i fod yn dystion iddo hyd eithafoedd y ddaear. "Ac wedi iddo ddywedyd y pethau hyn, a hwynt hwy yn edrych, efe a ddyrchafwyd i fynu, a chwmmwl a'i derbyniodd ef allan o'u golwg hwynt." I Daniel, ymddengys y Gwaredwr pan y mae wedi Ei golli i'r disgyblion galarus, ac yr oedd ei hyfrydwch i fod yn dyst o ganlyniadau bendithiol y genhadwri ar ba un yr oeddynt ar gychwyn.

Rhoddwyd "helaethach datguddiedigaethau" eto i'r gŵr Duw hwn, i hyfforddi ei feddwl ei hun, ac i chwanegu at drysorau yr eglwys ar ol ei farwolaeth. Teimlai meddwl Daniel y dyddordeb dyfnaf, yr hyn na wnai Nebuchodonosor, mewn pethau perthynol i'r eglwys ddyfodol. Iddo ef gan hyny y rhoddwyd rhyw dryolwg i hanes y brwydrau hyny y byddai raid i'r eglwys eu hymladd, a phrif ffynhonell ei chystuddiau. Felly y dywed: "Yr oeddwn yn ystyried y cyrn, ac wele, cyfododd corn bychan arall yn eu mysg hwy, a thynnwyd o'r gwraidd dri o'r cyrn cyntaf o'i flaen ef; ac wele, lygaid fel llygaid dyn yn y corn hwnnw, a genau yn traethu mawrhydi." Gan ewyllysio deall mwy mewn perthynas

i "wirionedd," neu ystyr, y rhan yma o'r weledigaeth, edrychodd, "a'r corn hwn a wnaeth ryfel ar y saint, ac a fu drech nâ hwynt; hyd oni ddaeth yr Hen ddihenydd, a rhoddi barn i saint y Goruchaf; a dyfod o'r amser y meddiannai y saint y frenhiniaeth."

Cyduna ysgrifenwyr Protestanaidd fod y prophwyd trwy yr arddanghosiad yma wedi ei hysbysu am godiad y gallu pabyddol, a'r erledigaethau i ba rai y gwnai ddarostwng saint y Goruchaf. Hysbysa hanesiaeth ni fod y gallu hwn wedi cymmeryd meddiant o dair o'r deg tiriogaeth hyny i ba rai y rhanwyd yr ymerodraeth Rufeinaidd. Yr oedd parhad y gormes ysbrydol i gael ei gyfyngu i "amser, ac amseroedd, a rhan amser;" neu gan gymmeryd "amser" yn gyfystyr a blwyddyn, a phob blwyddyn brophwydol am dri chant a thriugain a phump o flynyddoedd, mae gennym yr ysbaid o ddeuddeg cant a thriugain o flynyddoedd. Mae y rhan yma o'r rhagfynegiad yn llawn o galondid i eglwys Crist yn ein dyddiau ni. Heb anturio cyfrif y dyddiadau prophwydoliaeth hyn, gyda y cywirdeb manwl â pha un y noda seryddwyr ddyddiad diffyg, nis gallwn amheu fod gallu tymhorol pabyddiaeth bron ar ben, a dengys y dyddiau yn mha rai yr ydym yn byw i ni y modd y mae cyfnewidiadau gwladol yn cael eu defnyddio gan y Goruchaf i gyflawni Ei amcanion trugarog a chyfiawn.

Arweiniai y dyddordeb dwfn gymmerwyd gan y prophwyd yn yr oll a berthynai i lwyddiant dyfodol ei bobl a hanes yr eglwys, ef i weddi daer am eglurhad ar y materion mawrion hyn. Yr oedd wedi deall wrth lyfrau—trwy ysgrifeniadau ysbrydoledig Jeremiah y prophwyd—fod "anghyfannedd-dra Jerusalem" i barhau am ddeng mlynedd a thriugain. Fel yr oedd amser y waredigaeth yn nesu, teimlai gymhelliad ac anogaeth i weddio am fendithion ar ei bobl. Ni a allwn ddarllen y weddi daer hon, yr hon ni thraethwyd yn ofer; canys fe'i hatebwyd trwy ddatguddiedigaethau llawnach am y bwriadau Dwyfol, ac amserau eu cyflawniad.

Yr oedd i fod yn bedwar cant a phedwar ugain a deg o flynyddoedd hyd ddyfodiad y Messiah, "i ddibennu camwedd, ac i selio pechodau, ac i wneuthur cymmod dros anwiredd, ac i ddwyn cyfiawnder tragywyddol, ac i selio y weledigaeth a'r brophwydoliaeth, ac i enneinio y sancteiddiolaf."

(Darllener Daniel vii.—ix.)

## PENNOD XXII.

### DYCHWELIAD O'R CAETHIWED.

DROS gan' mlynedd cyn genedigaeth Cyrus, crybwyllodd Jehofah am y tywysog mawr hwnw wrth ei enw, a'r rhyddhad oedd i roddi i'r bobl Iuddewig, gan ddywedyd, "wrth Cyrus, Fy mugail yw, ac efe a gyflawna fy holl ewyllys; gan ddywedyd wrth Jerusalem, Ti a adeiledir; ac wrth y deml, Ti a sylfeinir." Gwelir y manylder gyda pha un y cyflawnwyd y brophwydoliaeth hon, nid yn unig yn enw Cyrus a'i orchymyn i ail adeiladu Jerusalem, ond hefyd yn ei waith yn cymmeryd y cyfenwad o "fugail," ragfynegwyd gan Esaiah.

Gan ei fod yn dal lle mor bwysig yn mlwyddolion eglwys Dduw, mae yn beth da gwybod ychydig o'i hanes ef ei hun. Mab ydoedd i Cambyses y Persiad, a Mandane, merch Astyages, brenhin y Mediaid. Pan yr oedd yn bur ieuangc enwogodd ei hun trwy ei ddewrder, a chynhorthwyodd i orchfygu yr Assyriaid oeddynt wedi goresgyn Media. Yr ydym yn ei gael ef yn nesaf wrth ben deng mil ar hugain o wyr yn ymladd yn erbyn y Babiloniaid, ac yn eu gwasgaru hwynt. Ar ol hyn cyrhaeddodd ei fuddugoliaethau tu draw i'r afon Halys i Cappadocia, ac i Lydia, gwlad Croesus, yr hwn a orchfygodd. Trodd ei arfau yn nesaf yn erbyn yr Assyriaid, ac wedi eu gorchfygu hwynt, gwarchaeodd Babilon, a chymmerodd hi. Ynddo ef yr unwyd llywodraeth y Mediaid a'r Persiaid, ac mewn canlyniad i'w fuddugoliaethau mawrion dros holl Asia, gallai siarad am dano ei hun fel un i'r hwn yr oedd Arglwydd Dduw y nefoedd wedi rhoddi holl deyrnasoedd y ddaear.

Pan, yn 536 C.C., y daeth Cyrus yn feistr Babilon, cafodd Daniel yn hen ŵr, yn y swydd uwchaf allasai deiliad ddal, ac yn y parch mwyaf. Dywed ysgrifenwyr Iuddewig wrthym i'r hen brophwyd ddangos iddo ef y rhan hyny o'r ysgrifeniadau sanctaidd mewn perthynas iddo ei hun. Wedi cael y gallu uwchaf yn ei law, anfonodd Cyrus allan, yn union ar

ol gorchfygiad Babilon, ei archiadeb glodfawr: "Yn y flwyddyn gyntaf i Cyrus brenhin Persia (fel y cyflawnid gair yr Arglwydd, yr hwn a ddywedwyd trwy enau Jeremiah) yr Arglwydd a gyffrôdd yspryd Cyrus, brenhin Persia, fel y cyhoeddodd efe trwy ei holl frenhiniaeth, a hynny mewn ysgrifen, gan ddywedyd, Fel hyn y dywed Cyrus, brenhin Persia, Arglwydd Dduw y nefoedd a roddodd holl deyrnasoedd y ddaear i mi, ac ef a orchymynodd i mi adeiladu tŷ iddo yn Jerusalem, yr hon sydd yn Judah. Pwy sydd yn eich mysg chwi o'i holl bobl ef? Yr Arglwydd ei Dduw fyddo gyd âg ef, ac eled i fynu."

Llyfr Ezra a rydd y ddolen nesaf yn yr hanesiaeth Iuddewig, a chyfrana hysbysrwydd helaeth mewn perthynas i ddychweliad y caethion i wlad eu tadau, ac ail godiad y Deml yn Jerusalem. Gosododd yr archiadeb nid yn unig y caethion yn rhydd, a chaniatau codiad yr ail Deml, ond galwodd ar ddeiliaid Cyrus i gynhorthwyo y gwaith da "âg arian ac aur, â golud ac âg anifeiliaid." Yr oedd llestri sanctaidd y Deml, pa rai yr oedd Nebuchodonosor wedi eu symmud i Babilon, a Belsassar wedi eu halogi i wneuthur coffa am ei fuddugoliaethau eilun-addolgar, wedi bod o dan sylw Jehofah, a chael eu cadw yn ofalus erbyn y cyfnod gorfoleddus hwn, gael iddynt gael eu hailgyssegru i'w wasanaeth.

Dengys y cofrestr o enwau yn Ezra ii. y gofal mawr gyda pha un y cadwai yr Iuddewon eu hachau yn ystod y caethiwed, fel ar amserau ereill; a gellir dysgu y pwysigrwydd gyssylltid â chadwraeth ofalus o'r cofnodion hyn oddiwrth yr amgylchiadau grybwyllir yn y bennod hon, adnodau 61, 62, 63. Trwy y moddion yma yr oedd yr ordinhad Ddwyfol mewn perthynas i'r offeiriadaeth i gael ei chyflawni, ac yn neillduol gwirionedd yr addewid Ddwyfol am y Messiah i gael ei weled.

Yr enwau hynotaf yn y rhestr hon yw rhai arweinwyr y bobl, Zorobabel, a Joshua, yr archoffeiriad. Dengys enw Zorobabel—*dieithryn yn Babilon*—ffydd ei rieni yn nychweliad addawedig y bobl i'w gwlad eu hunain, tra y mae ei enw arall, Sesbassar—*llawenydd mewn gorthrymder*—yn llefaru am y dylanwad adlonol gynhyrchwyd ar y caethion trwy y presennoldeb Dwyfol. I'w ofal ef cyflwynodd Cyrus drysorau cyssegredig y Deml, a thrwy ei ymdrechion ef yn benaf y cafodd yr adeilad sanctaidd ei hailgodi, a'i haddoliad ei adnewyddu. Darlunid ef yn

ngweledigaeth Zechariah fel un o'r coed olewŷdd a gyflenwent y canhwyllbren aur âg olew îr; a Joshua oedd y llall, ei gydymaith yn y gwaith mawr yma i'r Arglwydd. Mae gan ei enw hefyd le yn mysg blaenafiaid yr Hwn oedd ar ol hyn i gyhoeddi gwaredigaeth i'r caethion, ac i adeiladu Teml yn mha un y byddai i'r holl genhedloedd gyflwyno addoliad cymmeradwy.

Yr ydym yn mawrhau y brwydfrydedd gyda pha un yr ymaflodd y bobl yn eu gwaith cyssegredig. Y peth cyntaf oedd codi allor Duw Israel, a chyflwyno y poeth-offrymmau dyddiol, boreuol a phrydnawnol. Yn nesaf cadwasant wyl y pebyll, "ac wedi hynny y poeth-offrwm gwastadol, ac offrwm y newyddloerau, a holl sanctaidd osodedig wyliau yr Arglwydd, offrwm ewyllysgar pob un a offrymmai o hono ei hun, a offrymmasant i'r Arglwydd." "Hwy a gyd-ganasant, wrth foliannu ac wrth glodfori yr Arglwydd, mai da oedd, mai yn dragywydd yr ydoedd ei drugaredd ef ar Israel. A'r holl bobl a floeddiasant â bloedd fawr, gan foliannu yr Arglwydd, am sylfaenu tŷ yr Arglwydd." Ond yr oedd eu llawenydd yn gymhysgedig â galar, canys tra yr oedd y rhai ieuaingc yn gweled y cychwyniad yma ar Deml yr Arglwydd am y waith gyntaf, yr oedd yr hen, oeddynt yn cofio "y tŷ cyntaf," yn wylo nes boddi llais llawenydd â llifeiriaint o alar.

Prin yr oedd y gwaith da wedi ei ddechreu, pan y rhwystrwyd ef gan wrthwynebiad y Samariaid, pa rai, wedi methu cyfranogi o anrhydedd yr ymgymmeriad, a ddefnyddiasant eu holl allu i'w wrthwynebu. Parhaodd yr oediad achoswyd fel hyn am naw neu ddeg o ddyddiau, yn ystod pa rai galwyd am oruwch allu Persia, yn gystal gan yr Iuddewon a'r Samariaid. Ceir darllen am nodweddiad y bobl ddiweddaf hyn mewn pennod ddylynol. Cododd Jehofah yn awr i fyny yn gyntaf Haggai, ac yna Zechariah, i bregethu a phrophwydo i'r bobl, i'w ceryddu am beidio myned yn mlaen, ac i'w cefnogi hwynt âg addewid o lwyddiant. Wrth gadw mewn cof yr amgylchiadau yn mha rai y gosodwyd yr Iuddewon yn awr, gellir darllen ysgrifeniadau y cenhadon hyn i'r Arglwydd, yn ddeallus a chyda budd mawr, fel yn dangos y modd y llywyddai Jehofah dros Ei waith Ei hun. Mae dylanwad addysgiad a chynghor ffyddlawn yn cael ei gofnodi mewn cyssylltiad â'r prophwydi

sanctaidd hyn: "A henuriaid yr Iuddewon a adeiladasant, ac a lwyddasant trwy brophwydoliaeth Haggai y prophwyd, a Zecharïah mab Ido; ïe, adeiladasant, a gorphenasant wrth orchymyn Duw Israel, ac wrth orchymyn Cyrus, a Darius, ac Artaxerxes, brenhin Persia."

Gwnaed holl wrthwynebiad y Samariaid i gydweithio er daioni i bobl Dduw. Sicrhaodd gorchymynion Darius ac Artaxerxes iddynt hwy fwy o gymhorth nag oeddynt wedi dderbyn oddiwrth Cyrus. Anfonwyd Ezra, yr ysgrifenydd, gan Artaxerxes i gryfhau dwylaw ei frodyr, ac wedi ei gynhysgaeddu â thrysorau, gyfrifir i fod oddeutu tri chwarter miliwn o arian Lloegr mewn gwerth. Bu ei bresennoldeb yn Jerusalem yn foddion i ddiwygio llawer o ddrygau i ba rai yr oedd yr Iuddewon wedi syrthio. Ymunasant âg ef mewn cyfaddef eu pechodau gwladol, mewn deisyf am drugareddau gan Dduw y nefoedd; ac wrth ei gerydd a'i gynghor torasant eu hundeb pechadurus â gwragedd dïeithr, pa rai oeddynt yn eu harwain hwynt drachefn i eilun-addoliaeth.

Tybir i Ezra aros yn Jerusalem hyd ei farwolaeth, ac, fel Moses, iddo gyrhaedd yr oed o chwech ugain mlynedd. Yn nghyfrif yr Iuddewon, dalia le ail yn unig i'r eiddo y prophwyd a'r deddfroddwr mawr. Iddo ef y priodolir y gwaith mawr o drefnu a diwygio Llyfrau Ysgrythyrau yr Hen Destament, a rhoddir yr anrhydedd yma iddo nid heb lawer o debygrwydd. Haerir hyd yn oed mai efe oedd y prophwyd Malachi, gan yr arwydda yr enw hwnw angel neu genhad, yn lle bod yn enw priodol person. Yr oedd fel pob prophwyd arall yn genhad Jehofah, a ffyddlawn y cyflawnodd y dyledswyddau â pha rai yr ymddiriedwyd ef. Mae ei enw drachefn yn amlwg yn Llyfr Nehemiah, gyda yr hwn y cydweithiodd yn wresog mewn lledaenu llwyddiant crefyddol yn gystal ag allanol ei genedl. Yr oedd yr "ysgrifenydd cyflym (hwn) ynghyfraith Moses, yr hon a roddasai Arglwydd Dduw Israel," yn byw, pan yr oedd "Plato yn fyw, yn dysgu athroniaeth drymaidd i efrydwyr oerllyd," a da y gofynir, "Beth oedd ef, neu un o'r areithwyr Paganaidd, mewn cydmariaeth â'r dynion hyn?"

(Darllener Ezra, Haggai, a Zechariah. Psalm lxxxv.; cii.; cxxvi.; cxxxiv.)

# PENNOD XXIII.

## NEHEMIAH—EI WAITH A'I WRTHWYNEBWYR.

YR oedd y rhan hono o'r Tir Sanctaidd o ba un y cymmerwyd Judah a Benjamin i gaethiwed heb neb ynddi, oddieithr ychydig o weithwyr isel, hyd y dychweliad o'r caethiwed. Nid felly yr oedd yn y frenhiniaeth ogleddol. Nid cynt yr oedd Salmaneser wedi symmud yr Israeliaid o'u gwlad, nag y llanwodd eu lle â'i ddeiliaid ei hun. Aeth enw Israel yn anadnabyddus yn y wlad o'r hon yr oedd Jehofah wedi bwrw allan ei hiliogaeth wrthryfelgar; a chan i'r estroniaid a'u holynasant "feddiannu Samaria, a thrigo yn ei dinasoedd hi," daethant yn adnabyddus fel y Samariaid.

Gallai fod brenhin Samaria wedi dymuno gorphen ei fuddugoliaethau trwy lanw y Tir Sanctaidd âg eilun-addolwyr na phroffesent un parch i enw Jehofah; ond er i'r Arglwydd oddef i'r brenhin eilun-addolgar hwn i arwain cenedl wrthryfelgar i gaethiwed, ni oddefai i'w holynwyr ei ddianrhydeddu ef ei hun. "Ac yn nechreu eu trigiad hwy yno nid ofnasant hwy yr Arglwydd; am hynny yr Arglwydd a anfonodd lewod yn eu plith hwynt, y rhai a laddasant rai o honynt." Gan dybied mai rhyw dduw lleol fel eu duwiau eu hunain oedd yr Arglwydd, apeliasant at eu brenhin am offeiriad Israelaidd, "i ddysgu iddynt ddefod Duw y wlad." A'r canlyniad fu cymhysgedd dieithriol ac anghydweddol o wir a gau grefydd. Yr oedd Jehofah yn cael ei ofni fel "Duw y wlad;" "hwy a ofnasant yr Arglwydd," ond yr oedd eu calonau a'u serch-iadau, eu hoffrymau a'u defosiynau, yn cael eu rhoddi i dduwiau eu cenhedloedd eu hunain. Yr oedd halogrwydd a chreulonderau eilun-addoliaeth baganaidd mewn gwahanol ffurfiau yn cael eu harfer yn mysg pobl a seinient enw Jehofah gyda dychryn, ac a ymunent yn y gwasanaeth wrth yr hwn y gweinyddai Hebreaid cyflogedig fel Ei offeiriaid.

Rhai fel yna oedd y bobl a ddymunent gael ymuno â'r Iuddewon mewn ailadeiladu y Deml yn Jerusalem, a chydweithrediad pa rai a wrthodwyd gan Zorobabel. Yn ddiweddarach, pan y priododd Manasseh, brawd yr

archoffeiriad Iuddewig, ferch Sanbàlat, llywodraethwr Samaria, gorchymynwyd iddo naill ai ymadael a'i wraig neu ymneillduo oddiwrth wasanaeth y Deml yn Jerusalem. Y canlyniad fu iddo ymadael i Samaria gyda rhai o'r offeiriaid Iuddewig a chryn nifer o'r bobl Iuddewig. Dylynwyd hyn gan godiad teml Samaria ar fynydd Gerizim, yr hwn a ystyrient fel "y lle mae yn rhaid addoli," gan wadu y fath hawliau i fynydd Moriah.

Yr oedd teml y Samariaid o faint a thegwch mawr, fel y gellir dysgu oddiwrth y sylfeini presennol. Yr oedd y prif adeilad yn agos yn betryael o dros ddau cant o droedfeddi ar bob ochr, ac yn nghanol ei gyntedd wythor, ac yn agos iddo ddyfrgist gron hardd. Mae yr olygfa o'r deml hon yn un o'r rhai eangaf a hyfrytaf yn Palestina. Ni a allwn obeithio i'r Samariaid ddyfod yn raddol yn fwy goleuedig trwy y rhan hyny o'r Ysgrythyrau Sanctaidd a dderbynient—Pum Llyfr Moses, pa rai a ddalient mewn parch mawr. Yn bresennol mae eu rhifedi wedi dod i lawr o dan ddau cant. Ymlynant eto wrth eu cyfraith a beddau eu tadau, a dengys eu harchoffeiriad gyda pharch neillduol i'r ymwelydd ysgriflyfr o'u hysgrythyrau hynafol.

Rhai fel yna oedd y bobl a wrthwynebasant godiad ail Deml a muriau Jerusalem. Ni wnai yr Arglwydd, yr Hwn oedd wedi gwaredu Ei weision o gaethiwed, oddef i'w gelynion i luddias Ei fwriadau grasol mewn perthynas iddynt. Pan yr oedd eisieu pencampwr ac arweinydd i wrthsefyll ymosodiad y Samariaid, a gorphen adferiad y ddinas, fe'i cafwyd yn mherson Nehemiah. Yr oedd yr Iuddew duwiol hwn yn dal y swydd uchel o drulliad yn llys Artaxerxes, brenhin Persia, a gwelir pwysigrwydd y swydd hono pan y cofir fod bywyd y brenhin yn ymddibynu ar ei ffyddlondeb. Mae nodweddiad uchel Nehemiah yn amlwg oddiwrth ei fod yn dal y swydd gyfrifol hon, er ei fod yn perthyn i genedl estronol. Nid oedd yr anrhydedd i ba un yr oedd wedi ymddyrchafu yn Persia, wedi dieithrio ei galon oddiwrth wlad ei dadau, nac atal ei alar dwfn pan y dywedodd Hanani, un o'i frodyr oedd wedi dychwelyd o Jerusalem, wrtho ef: "Y gweddillion, y rhai a adawyd o'r gaethglud yno yn y dalaeth ydynt mewn blinder mawr a gwaradwydd; mur Jerusalem hefyd a ddrylliwyd, a'i phyrth a losgwyd â thân."

Ar ol pedwar mis o gyfyngder mawr, tynodd ei olwg drist sylw y brenhin, a pharodd ymchwiliad i'r achos. Anfonodd i fyny yn ddoeth a duwiol ei saethweddi ar i Dduw ganiatâu trugaredd iddo yn mhresennoldeb y brenhin, a chafodd gyfleustra i gyflawni ei ddymuniadau gwladgarol mewn perthynas i'w bobl a'i wlad. Penodwyd ef yn Tirsatha, llywydd Jerusalem, gydag awdurdod i ailadeiladu y muriau, a'r defnyddiau gofynol i gyflawni y gwaith.

Arddanghosodd ymddygiad Nehemiah gyfuniad o frwdfrydedd a challineb, o dduwioldeb uchel a doethineb ymarferol. Cafodd allan trwy ymchwiliad personol y dadfeiliadau oeddynt i gael eu hadgyweirio, ac yna llwyddodd i enill y bobl at y gwaith mawr a gynhygiai wneyd. Yn ei adroddiad ei hun ni a'i clywwn ef yn dyweyd: "Yna y mynegais iddynt fod llaw fy Nuw yn ddaionus tu ag attaf; a geiriau y brenhin hefyd y rhai a ddywedasai efe wrthyf. A hwy a ddywedasant, Cyfodwn ac adeiladwn. Felly y cryfhasant eu dwylaw i ddaioni."

Rhanwyd yr holl waith rhwng y bobl, ac aeth yn mlaen yn gyflym, yn nghanol ymosodiadau mwyaf penderfynol y Samariaid, trwy gyfrwysder a chreulondeb, i'w luddias. Mae hanes y gwaith yma, yr hwn a orphenwyd mewn haner cant o ddyddiau, yn dra dyddorol, a dysg i ni y modd y gallwn gyssegru ein galluoedd i waith mawr a da, hyd yn oed mewn amserau blinderus, a chyda llwyddiant buddugoliaethus.

Yr oedd dylanwad Nehemiah yn ofynol er ysgafnhau beichiau yr Iuddewon tlotaf, y rhai oedd yn dioddef oddiwrth gribddeiliaeth eu brodyr cyfoethog a llwyddianus. Dywed: "Yna llidiais yn ddirfawr, pan glywais eu gwaedd hwynt a'r geiriau hyn. Fy nghalon hefyd a feddyliodd ynof, a mi a ddwrdiais y pendefigion, a'r swyddogion, ac a ddywedais wrthynt, Yr ydych chwi yn cymmeryd occraeth bob un gan ei frawd. A gosodais yn eu herbyn hwynt gynnulleidfa fawr." Adgoffhaodd iddynt am y trugareddau a dderbyniasant; ac apeliodd, fel y gallai, at yr esiampl o wladgarwch oedd ef wedi ddangos, a chydag ysgogiadau arwyddocaol, gwrthdystiodd yn erbyn eu hymddygiad, nes y llwyddodd i ddiwygio y gwarthrudd mawr a fygythiai ddarostwng rhan fawr o'r bobl i gaethiwed.

Pan y gorphenwyd y muriau, yr oedd gwaith mwy eto i ganlyn. Yr

oedd y bobl yn anwybodus o'r pethau mawrion cynhwysedig yn "llyfr cyfraith Moses, yr hon a orchymynasai yr Arglwydd i Israel." Gwelwyd yn anghenrheidiol i'w cynhull er addysg ac addoliad; ac Ezra, yn sefyll ar dŵr o goed wedi ei godi i'r perwyl "a ddug y gyfraith o flaen y gynulleidfa o wŷr, a gwragedd, a phawb a'r a oedd yn medru gwrando yn ddeallus, ar y dydd cyntaf o'r seithfed mis. Ac efe a ddarllenodd ynddo ar wyneb yr heol oedd o flaen porth y dwfr, o'r bore hyd hanner dydd, ger bron y gwŷr, a'r gwragedd, a'r rhai oedd yn medru deall; a chlustiau yr holl bobl oedd yn gwrando ar lyfr y gyfraith." Nid oedd y darlleniad yma o'r gyfraith heb fendith, "canys yr holl bobl oedd yn wylo pan glywsant eiriau y gyfraith," fel y gwelwyd yn angenrheidiol i atal eu galar, a'u hadgoffa mai llawenydd yr Arglwydd oedd eu nherth.

Cynhaliwyd cymmanfaoedd crefyddol mawrion ereill, gwyl y pebyll, cynnulliadau mawrion er ymostyngiad gwladol, edifeirwch, ac ymgyssegriad adnewyddol i Jehofah, yn mha rai y cyflwynid gweddi rymus gan y Lefiaid, y rhai "a waeddasant â llef uchel ar yr Arglwydd eu Duw." Gan nad oedd y ddinas yr hon a gadwai ei mhaintioli blaenorol, ond wedi ei phoblogi yn deneu, y "bobl a fwriasant goel-brennau i ddwyn un o'r deg i drigo yn Jerusalem y ddinas sanctaidd, a naw rhan i fod yn y dinasoedd ereill. A'r bobl a fendithiasant yr holl wŷr a ymroddasant yn ewyllysgar i breswylio yn Jerusalem." Nid oedd yr Arglwydd yn anghofus o'i addewid hono, "a heolydd y ddinas a lenwir o fechgyn a genethod, yn chwarae yn ei heolydd hi."

Aeth Nehemiah, ar ol oddeutu deuddeng mlynedd, yn ol am amser i Babilon, ond dychwelodd i Jerusalem. Er ei fawr ofid canfyddodd fod Tobias, y Samariad, trwy gydweithrediad yr archoffeiriad, wedi sicrhau meddiant o ystafell yn y Deml; fod y Lefiaid wedi eu hamddifadu o'u cynhaliaeth briodol; atelid y degymau oddiwrthynt; halogid y Sabbath yn gyhoeddus; fod yr Iuddewon wedi priodi gwragedd o Asdod, ac Ammon, ac o Moab; ac nad allai y plant siarad yn iaith yr Iuddewon. Diwygiodd yr holl ddrygau hyn gyda brwdfrydedd, a gorphenodd yn ffyddlawn y gwaith mawr â'r hwn yr oedd wedi ei ymddiried.

(Darllener 2 Brenhinoedd xvii. 23 i'r diwedd. Llyfr Nehemiah.)

# PENNOD XXIV.

## LLYFR ESTHER.

PRIODOL iawn y sylwyd am Lyfr Esther, er nad yw yn cynhwys enw Jehofah, eto mae Ei law i'w gweled yn amlwg trwy yr hanes a adrodda. Gallwn gyfrif am adawiad allan hynod yr enw Dwyfol, os derbyniwn y dyb mai detholiad yw y llyfr o gofnodion Persia, wedi ei ddwyn i mewn trwy y cyfarwyddyd Dwyfol i'r Ysgrythyrau Sanctaidd, i'r diben o gofnodi un o gyfryngiadau mwyaf hynod Jehofah ar ran Ei bobl. Er cadarnhad i'r dyb hon, fe sylwir fod yr Iuddewon yn cael eu crybwyll yn y trydydd person, fod Esther yn fynych yn cael ei dynodi wrth y teitl "y frenhines," a Mordecai wrth y cyfenw "yr Iuddew." I ddarllen y digwyddiadau yn y drefn y cymmerasant le, dylent gael eu lle rhwng y chweched a'r seithfed bennod o Lyfr Ezra, ar yr amser pan y "troisai yr Arglwydd galon brenhin Assyria attynt hwy, (yr Iuddewon,) i'w cynnorthwyo hwynt yngwaith tŷ Dduw, Duw Israel."

Gelwir Ahasferus yn frenhin Assyria, o herwydd i Assyria yn hanes blaenorol yr Israeliaid brofi yn achos mawr o'u blinderau, ac yr oedd yn amgylchiad hynod fod llywodraeth Assyria, fu unwaith yn wïalen y llid Dwyfol, yn awr yn meddiant brenhin ag yr oedd yr Arglwydd wedi troi ei galon at yr Iuddewon. Nid oedd Assyria ond rhan fach o diriogaeth ddirfawr Ahasferus, canys yr oedd y brenhin Persiaidd hwn yn "teyrnasu o India hyd Ethiopia, sef ar gant a saith ar hugain o daleithiau."

Ymegyr y llyfr gyda darluniad o ardderchowgrwydd y brenhin Persiaidd, yr arddanghosiad gwag-ogoneddus o gyfoeth yn ei wleddoedd hirfeithion, yn gyntaf i'w dywysogion a'i lys, ac yna i holl ddinaswyr Susan, "o'r mwyaf hyd y lleiaf." Y fath ydoedd yr anghymmedroldeb yn mha un yr ymfoddiai brenhinoedd dwyreiniol y cyfnod hwnw, fel y gwnaed cynhyg tuag at ddiwygiad dirwestol, pan y gwnaeth y brenhin gyfraith na byddai i neb gymhell; "canys gosodasai y brenhin orchymyn ar bob swyddwr o fewn ei dŷ, ar wneuthur yn ol ewyllys pawb." Gellir sylwi fel prawf o ddiwygiad yn ein hamserau ni, i George Whitfield gael achlysur i ddifynu y gyfraith hon i'w roesawyr caredig mewn gwledd

fawr i'r hon y gwahoddwyd ef gan Gwmni Gwin Lisbon. Arweiniodd y gwleddoedd meithion hyn i ddifreiniad y frenhines Fasti o'i "brenhin-fraint," gan iddi gyda rhinwedd a gwyleidd-dra gweddus wrthod y gorchymyn iddi ymddangos "o flaen y brenhin, yn y frenhinol goron, i ddangos i'r bobloedd ac i'r tywysogion ei glendid hi; canys glan yr olwg ydoedd hi." Goruwchreolwyd y gorchymyn ar i'w hanrhydedd gael ei roddi "i'w chyfeilles," gan ragluniaeth Ddwyfol, i ddyrchafiad boneddiges Iuddewig i'r sefyllfa uchel hono yn mha un yr oedd i brofi yn offeryn i arbed yr holl hiliogaeth Iuddewig rhag dinystr.

Plentyn amddifad Iuddewig oedd Esther, "gweddeidd-lwys a glân yr olwg," a merch fabwysiedig Mordecai ddoeth a duwiol, un o'r gaethglud alltudiedig o Jerusalem. Nid oedd wedi bod yn hir yn ei sefyllfa ddyrchafedig pan y cafodd Mordecai allan fwriad i frad-lofruddio y brenhin, yr hwn a rwystrwyd trwy ei ofal, ac a gofnodwyd yn nghofnodion y frenhiniaeth. "Wedi y pethau hyn, y brenhin Ahasferus a fawrhaodd Haman, fab Hammedatha yr Agagiad, ac a'i dyrchafodd ef, gosododd hefyd ei orsedd-faingc ef goruwch yr holl dywysogion oedd gyd âg ef. A holl weision y brenhin, y rhai oedd ym mhorth y brenhin, oedd yn ymgrymmu, ac yn ymostwng i Haman, canys felly y gorchymynasai y brenhin am dano ef; ond nid ymgrymmodd Mordecai, ac nid ymostyngodd."

Yr ydym yn darllen mai "esthmwythdra y rhai anghall a'u lladd," ac y mae y ddihareb yn cael ei gwireddoli yn yr hanes rhyfedd hyn. Teimlai Haman yn ei lwyddiant ei bwysigrwydd yn ormod i freuddwydio am foddhad trwy gospi yr un a wrthododd dalu gwarogaeth iddo; "dïystyr oedd ganddo yn ei olwg ei hun estyn llaw yn erbyn Mordecai ei hunan." Ni wnai dim llai nag aberthiad yr Iuddewon gwasgaredig ar led trwy holl daleithiau yr ymerodraeth foddhau dymuniadau balchder tramgwyddedig y dyn hwn, ac i foddloni ei ddïaledd yr oedd yn ewyllysgar i dalu y swm dirfawr o ddeng mil o dalentau, oddeutu tair miliwn a thri-chwarter o arian Lloegr, i'r "rhai a wnant y weithred hon." Wedi i'r peirianwaith tuag at y dinystr cyfangwbl hwn gael ei wneyd, a'i osod i ysgogi gan Haman, "y brenhin a Haman a eisteddasant i yfed, a dinasyddion Susan oedd yn athrist."

Yn nesaf dylyna blinder mawr i'r Iuddewon. Oddiwrth y blinder hwn nid oedd y frenhines ei hun yn rhydd. Deallodd y perygl oedd ar ddisgyn ar ei phobl, a thrwy apeliadau doeth a thaer Mordecai, arweiniwyd hi i'r penderfyniad gwladgarol i anturio ei bywyd ei hun i waredu ei phobl.

Yr oedd y perygl mwyaf yn nglyn â'r cynllun yma iddi ei hun yn gystal a'r Iuddewon. Nis gallesid galw yn ol y gorchymyn oedd wedi myned allan, ac mor bell ag yr oedd a fyno dyn, nis gallasai dim ei gwaredu hi a'i phobl ond ewyllys gormesdeyrn unbenaethol. Ond yr oedd gallu uwch, am arweiniad a chymhorth yr hwn y gweddiwyd gan holl Iuddewon Susan, a rhoddwyd y callineb rhyfeddol arferwyd gan Esther mewn atebiad i'w gweddiau. Duw Israel oedd yr hwn a gyfarwyddodd y brenhin i estyn allan y deyrnwïalen aur i Esther, a chefnogi ei chais; Efe gyfarwyddodd ei gwefusau fel y gweddiai am i'r brenhin a Haman ddyfod i'w gwledd; Efe gyfluniodd ewyllys y brenhin wrth dderbyn ei gwahoddiad, a'i hanog i wneyd cais, gyda'r addewid y byddai iddo ei roddi hyd haner ei frenhiniaeth; Efe adawodd Haman i weithrediadau ei feddwl ei hun, i'w wag ogonedd, ei ddïalgarwch, a chynghorion ei deulu, y rhai a gynghorasant godi y grogben o ddeg cufydd a deugain o uchder, ar yr hon yr oedd i ddeisyf ar y brenhin am i Mordecai gael ei grogi; Efe roddodd i'r brenhin y noson ddigwsg hono, blinder yr hon a geisiai dreulio allan trwy alw am gofnodion y frenhiniaeth, y rhai a'i hadgofiasant o ffyddlondeb anwobrwyedig Mordecai, oedd wedi achub bywyd y brenhin; Efe ddygodd oddiamgylch y digwyddiadau yn niweddbarth yr hanes hyn, fel y dyrchafwyd Mordecai i anrhydedd, ac y dïoddefodd Haman ad-daliad cyfiawn; ac Efe a arweiniodd feddwl y brenhin i'r unig benderfyniad trwy ba un y gallesid anrhydeddu cyfreithiau anghyfnewidiol Persia, ac arbed bywydau yr Iuddewon.

Eglurha y gwyrad-hanes hwn lawer o egwyddorion y llywodraeth Ddwyfol. Dengys mai "trwy drosedd ei wefusau y meglir y drygionus, ond y cyfiawn a ddaw allan o gyfyngder;" a thrwy oruchafiaeth yr Iuddewon fe'n hadgoffheir yr ymlawenhâ yr holl ddinas "o herwydd llwyddiant y cyfiawn; a phan gyfrgoller y drygionus, y bydd gorfoledd."

(Darllener Llyfr Esther.)

## PENNOD XXV.

### CYSSYLLTIAD HANESIAETH YR HEN DESTAMENT A'R NEWYDD. (I.)

Yr oedd gan Malachi, y prophwyd a'r ysgrifenydd ysbrydoledig diweddaf o dan yr oruchwyliaeth Foesenaidd, genadwri dra phwysig i'w chyflawni. Yr oedd y Deml wedi ei hail-adeiladu, llosgai yr allor yr aberthau gosodedig, a chaniatëid i'r Iuddewon yn ol yr addewidion Dwyfol i gadw eu gwyliau arbenig, a'r holl freintiau nodedig o ba rai yr oedd y genedl wedi ei hamddifadu. Mae ei ysgrifeniadau, pa rai a roddant olwg i ni ar nodweddiad y bobl oeddynt wedi dychwelyd i Jerusalem, yn dangos eu ffurfioldeb yn y gwasanaeth Dwyfol, a'u hysbryd bydol, yn y fath iaith ag a esyd allan werthfawrogiad gwael iawn o'u gwaredigaeth wladdl. Darfyddodd eilun-addoliaeth a bod yn bechod y bobl hyn ar ol y caethiwed, ond tynodd eu hoerfelgarwch a'u difaterwch yn nghadwraeth y cyfreithiau Dwyfol allan y ceryddon trymaf.

Mae yn hyfryd i sylwi yn nghanol y golygfeydd diffaeth hyn, ar ychydig o lanerchi ffrwythlawn y disgynai y gwlith nefol mewn helaethder arnynt, a lle yr oedd hadau y gwirionedd Dwyfol yn doreithiog o ffrwythlawn. "Yna y rhai oedd yn ofni yr Arglwydd a lefarasai bob un wrth ei gymmydog; a'r Arglwydd a wrandawodd, ac a glybu; ac ysgrifenwyd llyfr coffawdwriaeth ger ei fron ef i'r rhai oedd yn ofni yr Arglwydd, ac i'r rhai oedd yn meddwl am ei enw ef." Yr oedd felly trwy holl hanes yr eglwys Hebrëig, ac y mae felly yn ein hamser ni. Bydded ein rhan ni i gael lle yn mysg y gwir Israel, y rhai ydynt ddisgyblion Iesu, yr offeiriadaeth ysbrydol, y rhai a wisgir mewn dillad gwynion, ac a gânt wasanaethu yn y deml nefol.

Yr oedd nos o bedwar can' mlynedd yn dyfod yn awr ar yr eglwys, yn ystod pa un peidiai llais prophwydoliaeth, ond rhoddwyd yr addewid hyfryd y byddai ar ei therfyn i Haul Cyfiawnder gyfodi a meddyginiaeth yn ei esgyll. Yr oedd yr addewid am y dydd hwnw, "o gyfodiad haul hyd ei fachludiad hefyd, mawr fydd fy enw ym mysg y cenhedloedd; ac ym mhob lle arogl-darth a offrymmir i'm henw, ac offrwm pur; canys

mawr fydd fy enw ym mhlith y cenhedloedd, medd Arglwydd y lluoedd." Terfyna y canon sanctaidd gyda chynghor i gofio "Cyfraith Moses, y deddfau a'r barnedigaethau," ac i rag-ddisgwyl y Messiah, rhagflaenor yr hwn yn ysbryd a nerth Elïas a wnai alw dynion i edifeirwch.

Mae blwyddolion y genedl o adeg y rhagfynegiad yma hyd ei gyflawniad, wedi eu cofnodi gan ei hysgrifenwyr ei hun, ond nid gyda yr holl gywirdeb hwnw sydd yn hynodi yr haneswyr ysbrydoledig. Mae yn ddadl gref yn erbyn hawliau y llyfrau a elwir Apocrypha, fod y prophwyd diweddaf, fel y gwelsom, yn cyfeirio ei bobl at "Gyfraith Moses," fel yr unig arweinydd oedd iddynt i'w ddisgwyl hyd ddyfodiad Crist. Er fod eglwys Rhufain wedi dewis gosod y llyfrau hyn yn gydradd â'r gair ysbrydoledig, dylid sylwi nad oeddynt i'w cael yn mysg yr Ysgrythyrau Canonaidd yn ystod y pedwar can' mlynedd cyntaf ar ol Crist, ac na wnaed hwy yn rheol ffydd hyd y flwyddyn 1545, gan gynghorfa Trent. Nid yw yr ysgrifenwyr yn honi dim ysbrydoliaeth; i'r gwrthwyneb, ymwrthodant â hyny. Dywed ysgrifenydd y Maccabeaid, "Os da y gwneuthum, ac megis y gweddai i'r histori, hynny yw'r peth a ewyllysiais; ond os yn llesg ac yn annoeth, hynny yw yr hyn a allwn ei ddwyn i ben." Gwrthddyweda rai rhanau o'r hanes cyssegredig, gan ddyweyd wrthym na fwriwyd Daniel i ffau y llewod; cefnoga weddi dros y marw, a gallwn ystyried hyn fel y gwir reswm o'r achos ei fod yn cael ei amddiffyn gan eglwys Rhufain; rhydd ei gefnogaeth hefyd i'r pechodau o ddyweyd celwydd, hunan-lofruddiaeth, a brad-lofruddiaeth; tra y dengys llawer o'i hanesion y diofalwch mwyaf am y gwir. Ei brif ddefnydd yw dangos sefyllfa y meddwl Iuddewig ar y pryd ei hysgrifenwyd, ac i arddangos y gwahaniaeth rhwng y meddwl hwnw pan adawyd ef i'w alluoedd digymhorth ei hun. Y rhan mwyaf gwerthfawr yw Llyfr cyntaf y Maccabeaid, ar gyfrif yr hanes a rydd am y teulu ardderchog oddiwrth ba un y cymmerir ei enw.

Am y can' mlynedd cyntaf ar ol eu dychweliad o Babilon, parhaodd yr Iuddewon yn ddeiliaid Persia, a gofal yr amgylchiadau gwladol wedi ei ymddiried i'r archoffeiriad, yn ddarostyngedig i reolaeth llywydd *(satrap)* Syria. Diraddiwyd yr offeiriadaeth trwy y dyrchafiad hwn, gan iddi ddyfod yn wrthddrych o hudoliaeth i uchelgais fydol. Dywed

Josephus, pan y gorchfygwyd yr ymerodraeth Bersiaidd gan Alexander Fawr, i'r llywodraeth eglwysig Iuddewig fyned allan o Jerusalem i gyfarfod a'r gorchfygwr, yr archoffeiriad mewn porphor ac ysgarlad, yn gwisgo ei feitr aur, yr offeiriaid mewn llïain main, a'r bobl wedi ymwisgo mewn gwyn yn sefyll o draw. Dynesodd Alexander at yr archoffeiriad, yr hwn a gyfarchodd, a Duw yr hwn a addolai. Pan y gofynwyd paham y gwnai ef, yr hwn yr oedd pawb arall yn ei addoli, addoli archoffeiriad yr Iuddewon, atebodd, "Nid wyf yn ei addoli ef, ond y Duw hwnw sydd wedi ei anrhydeddu ef â'i archoffeiriadaeth, canys mi a welais y person hwn mewn breuddwyd, yn yr arwisg hon, pan oeddwn yn Dios, yn Macedonia," yn addaw "y byddai iddo roi i mi lywodraeth ar y Persiaid." Yna aeth Alexander i mewn i'r Deml, lle yr offrymodd aberth i Dduw, yn ol cyfarwyddyd yr archoffeiriad. Dranoeth, ar gais yr archoffeiriad, rhoddodd ganiatâd i'r Iuddewon i gadw eu crefydd a'u cyfreithiau eu hunain, a rhyddhaodd hwynt oddiwrth deyrnged ar y seithfed flwyddyn, gan estyn y fraint i'w brodyr yn Babilon a Media.

Pan y cododd y gorchfygwr y ddinas Aiphtaidd ardderchog Alexandria, enwyd ar ei ol ef, gosododd ynddi nifer o Iuddewon, i ba rai y rhoddodd yr un breintiau a'i ddeiliaid ei hun. Mabwysiadodd ei olynydd, Ptolemy Lagos, yr un dull tuag at yr Iuddewon, gan anfon llawer mwy o honynt i Alexandria, lle y rhoddodd iddynt ragorfreintiau mawrion, a chododd rai o honynt i swyddi uchel. Cynhorthwyodd yr holl drefniadau hyn gyflawniad y bwriadau Dwyfol mewn perthynas i'r byd cenhedlig, ac arweiniodd ar ol hyn i gyfieithiad yr oraclau sanctaidd i'r Groeg, ar yr adeg pan yr oedd yr iaith hono yn dyfod yn adnabyddus i'r gwareiddedig a'r coethedig yn holl barthau y byd. Cafodd yr oes yma, yr hon oedd yn un lwyddianus iawn, ei bendithio yn fawr trwy lafur doeth a chrefyddol yr archoffeiriad adwaenir mewn hanesiaeth Iuddewig fel "Simon y Cyfiawn," yr hwn a ddywedir a orphenodd ganon yr Hen Destament, trwy ychwanegu Llyfrau Ezra, Haggai, Zechariah, Nehemiah, Esther, a Malachi. Efe oedd yr olaf o lu o ddynion sanctaidd, y rhai ar ol y dychweliad o Babilon, a gasglasant yn ddiwyd yr ysgrifeniadau cyssegredig, ac a ymgyflwynasant er lleshad crefyddol eu cenedl.

(Darllener Llyfr Malachi.)

## PENNOD XXVI.

### CYSSYLLTIAD HANESIAETH YR HEN DESTAMENT A'R NEWYDD. (II.)

Yr oedd Alexandria yn enwog am y llyfrgell fawr gasglwyd gan Ptolemy Philadelphus, oddeutu dau gant a thriugain a deg o flynyddoedd cyn y cyfnod Cristionogol. Arweiniodd ei hoffder mawr o lyfrau iddo wneyd cyfraniad gwerthfawr at drysorau llenyddiaeth gyssegredig, trwy orchymyn i Ysgrythyrau yr Hen Destament gael eu cyfieithu i'r Groeg. Y cyfieithiad yma, adweinir yn awr fel y Deg a Thriugain, yr hwn a agorodd air Duw i'r Cenedl-ddyn yn gystal a'r Iuddew, yw y cyntaf a wnaed erioed, a thebygol iddo dderbyn ei enw oddiwrth nifer y cyfieithwyr. Mae o'r gwerth mwyaf, yn neillduol gan ei fod yn cael ei ddyfynu yn y Testament Newydd yn fwy mynych na'r Hebraeg gwreiddiol, ac yr oedd mewn arferiad beunyddiol gan yr Iuddewon yn y teulu a'r synagog. Gwnaed ef yn fuan ar ol i ganon yr Hen Destament gael ei orphen, gan yr archoffeiriad Simon y Cyfiawn, enw yr hwn a ddelid yn y parch uwchaf gan y genedl Iuddewig. Gallwn ystyried y cyfnod hwn fel y mwyaf llwyddianus fwynhawyd gan yr Iuddewon ar ol eu dychweliad o Babilon, yn gyson â llawer o ragfynegiadau cysurlawn roddwyd gan y prophwydi.

Dylynwyd y tymhor yma o dawelwch yn fuan gan amserau o erledigaeth. Cynhygiodd Ptolemy Euergetes yn rhyfygus i fyned i'r Lle Sanctaidd yn y Deml, ac wedi cael ei atal gan yr Iuddewon, fe ymddïalodd trwy orchymyn yn gwahardd neb i ddyfod i'w bresennoldeb heb addoli ei eilun; a thrwy gyfraith arall, yr oedd pob Iuddew o dan boen marwolaeth, i gael ei losgnodi â darlun o ddeilen eiddew, arwyddnod Bacchus.

Erlidiwr nesaf yr Iuddewon oedd Antiochus Epiphanes, brenhin Syria, yr hwn a ysbeiliodd ddinas a Theml Jerusalem, ac a drôdd Onias yr archoffeiriad o'i swydd, yr hon a werthodd mewn trefn i godi ei deyrnged i'r Rhufeiniaid. Aberthodd hwch ar allor y poeth-offrwm, a rhoddodd orchymyn allan fod i'r Iuddewon ymwrthod a'u crefydd a chydymffurfio a'i un ef, o dan y cospedigaethau trymaf; llosgodd bob adysgrif o'r Ysgrythyrau Sanctaidd a allesid gael, a chyflwynodd y Deml i Jupiter

Olympius, cerflun o'r hwn a gododd ar yr allor. Cymmerai gorchymynion gormesol yr erlidiwr hwn i mewn holl Palestina, a gosodid i fyny yn mhob dinas eilunod Groegaidd, capelau, ac allorau, i arwain y bobl ar gyfeiliorn oddiwrth Dduw. Gorfodid cig moch ar y bobl, a mathau ereill o fwydydd waherddid gan eu cyfraith, ac fel y canlyniad, gwrthgiliodd llawer oddiwrth y ffydd, tra y gwrthsafodd ereill hyd farw.

Cafwyd un arweinydd enwog yn mysg y cyffeswyr hyn yn yr hen Eleazar, prif-ddoctor o'r gyfraith, yr hwn a roddodd ei hun i fyny i'r poenydwyr yn hytrach na throseddu cyfraith ei Dduw. Anogodd hen wraig arall, Solomona, ei saith mab i ddioddef marwolaeth yn hytrach na phechu trwy wrthgilio, ac yna rhoddodd ei hun i fyny i ferthyrdod. Hwy "a ddirdynnwyd, heb dderbyn ymwared, fel y gallent hwy gael adgyfodiad gwell."

Cyffrodd yr erledigaethau hyn wroldeb y Maccabeaid, enwid felly oddiwrth y blaen lythyrenau ysgrifenedig ar eu banerau. Gwnaeth eu tad, gan wrthod y gwobrau gynhygid er ei gymhell i wrthgilio, ladd Iuddew a welodd yn addoli wrth allor baganaidd, ac anogodd ei bum' mab i ymladd yn ddewr dros eu crefydd; ac wedi penodi Judas, elwid Maccabeus, eu harweinydd, bu farw yn gant a chwech a deugain oed.

Cariodd y Maccabeaid y rhyfel yn erbyn eilun-addoliaeth a gwrthgiliad i holl ddinasoedd Judah, gan gyffroi trwy hyny ddigofaint Antiochus, yr hwn yn ei ymdrechion i ddïal a ddygodd arno glefyd blin; syrthiodd o'i gerbyd rhyfel, a bu farw yn fuan wedi hyny mewn mawr boenau corff a meddwl. Gwrthsafodd Judas, gyda galluoedd anghyfartal, y Syriaid; ond cwympodd o'r diwedd wrth ben llu bychan o bum cant.

Terfynodd buddugoliaethau Judas Maccabeus yn adferiad Jerusalem a'r Deml, yr hon a ail-gyssegrwyd i Jehofah, ac yn mha un y cyflwynid yr aberth dyddiol drachefn. Yr oedd gŵyl er coffhau am y fuddugoliaeth hon, a elwid Gwyl y Cyssegriad, yn cael ei chynal yn flynyddol, a chawn gyfeiriad ati yn amser ein Harglwydd. Yr oedd Judas wedi anfon cenhadon i Rufain i geisio cyngrair â'r gallu hwnw, yr hwn oedd y pryd hyny yn eangu ei ddylanwad dros y Dwyrain; ei amcan oedd sicrhau ei amddiffyn rhag Syria a'r Aipht, ond ni chyrhaeddodd yr atebiad ffafriol hyd ar ol marwolaeth y gwron Iuddewig.

Dylynodd Jonathan Maccabeus yrfa wladgarol ei frawd, a chanddo yn elyn iddo Alcimus, yr archoffeiriad, yr hwn a lywodraethai yn Jerusalem, ac achosodd arteithiau a marwolaeth llawer a ymlynent wrth y Maccabeaid; ond daeth Jonathan, ar ol marwolaeth Alcimus, yn llywodraethwr cydnabyddedig Jerusalem, a lliaws o ddinasoedd ereill Judah, er fod llawer o wrthgilwyr gan ba rai y dirmygid ei awdurdod. Yn mherson Jonathan y cafodd y Maccabeaid eu hystyried gyntaf fel llywodraethwyr Judea, a dynodid ei deulu, yn meddiant pa rai yr oedd y gallu uwchaf, yn dywysogion Asmoneaidd, ar ol enw ei daid Asamon. Llofruddiwyd Jonathan, yn yr hwn yr oedd yr archoffeiriadaeth wedi ei huno â'r gallu gwladol uwchaf, ar ol deng mlynedd o deyrnasiad, yn Ptolemais, trwy fradwriaeth Tryphon, un o'r cadfridogion Syriaidd, ac olynwyd ef gan Simon, ei frawd olaf oedd yn fyw.

Mwynhaodd yr Iuddewon am saith mlynedd lwyddiant mawr o dan y tywysog yma, yr hwn a orfododd y gwarchodlu Syriaidd i adael Jerusalem, a chafodd y boddhad o weled y bobl yn y mwynhad o heddwch yn eu cartrefi, yn diwyllio eu tir yn ddiofn, ac yn ymwneyd a gwasanaeth addoliadol y Deml yn ddirwystr. Dygwyd y tawelwch hwn i'r pen trwy uchelgais Ptolemëus, mab-ynghyfraith yr archoffeiriad, calon yr hwn oedd wedi ymddyrchafu, fel y meddyliodd gael y wlad iddo ei hun, a "bwriadodd trwy dwyll yn erbyn Simon a'i feibion i'w difetha hwynt."

Ioan Hyrcanus, yr hwn oedd yn absennol, a ddiangodd rhag y bradlofruddiaeth fwriadwyd iddo ef yn gystal a'i dad Simon, a aeth i mewn i Jerusalem yn nghanol clodforedd y bobl, y rhai a'i derbyniasant fel eu harchoffeiriad a llywodraethwr. Ar ol gwrthsefyll ymosodiad ar y ddinas, ac ymostwng am dymhor i roddi teyrnged i'r Syriaid, cymmerodd afael ar y cyfle i honi annibyniaeth ei wlad, yr hyn a gadwodd am ddeng mlynedd a thriugain, pan ei goresgynwyd gan Pompey, ac y gwnaed hi o dan deyrnged i Rufain. Yn ystod ei deyrnasiad o naw mlynedd ar hugain, adfeddianodd lawer o ddinasoedd oeddynt wedi eu cymmeryd oddiar yr Iuddewon, yn mysg y rhai yr oedd Sichem, perthynol i'r Samariaid. Ei weithred mwyaf poblogaidd oedd dinystriad eu teml ar Fynydd Gerizim, lle yr oedd wedi bod am ddau can' mlynedd yn gydymgeisydd â thy yr Arglwydd yn Jerusalem.

Mae y teyrnach Asmoneaidd yma yn cynhwys enwau Aristobulus, Alexandra, a Hyrcanus II., fel hyn yn eu dwyn hwynt hyd amser Antipater, tad Herod Fawr, yr hwn a briododd Mariamne deg, y ddisgynyddes olaf o'r teulu Iuddewig enwog hwn. Yr oedd Hyrcanus, mab hynaf Alexandra, yn archoffeiriad yn ystod ei bywyd hi; ond ar ei marwolaeth, cwrddodd a gwrthymgeisydd rhy gryf yn Aristobulus ei frawd ieuengaf. Rhoddodd eu hymrysonau gyfleustra i ymyraeth Pompey, yr hwn a gyfryngodd yn ffafr Hyrcanus, ac fel hyn cafodd fantais i weithredu yn unol â gwladlywiad Rhufain, i ranu a gorchfygu.

O'r pryd hwn ymollyngodd y genedl Iuddewig i ormes cryf Rhufain, y gallu nerthol hwnw am yr hwn y rhagfynegwyd yn Llyfr Daniel, ac o flaen yr hwn yr oedd cenedloldeb yr Iuddewon i syrthio. Arweiniodd Pompey ei fyddin i Judea, a gwarchaeodd Jerusalem, yr hon a gymmerodd ar ol tri mis o ymosod, pan y gadawodd i Hyrcanus barhau ei llywodraethwr a'i harchoffeiriad. Yma gwelwn ddechreuad y llywodraeth Rufeinaidd ar y genedl Iuddewig, a chychwyniad ei dinystr.

Yn y flwyddyn 47 C.C., aeth Julius Cæsar i Syria, a chadarnhaodd Hyrcanus yn yr archoffeiriadaeth, ac ar ei farwolaeth daeth yr Iuddewon yn aelodau o'r Senedd Rufeinaidd, a chawsant lawer o ragorfreintiau i'w gwlad. Chwe' mlynedd yn ddiweddarach, ymddengys Herod ar y chwareufwrdd—yr Herod hwnw yn nheyrnasiad yr hwn y ganwyd Tywysog Tangnefedd yn Bethlehem. Yr oedd yn gyntaf yn Detrarch Judea, ac ar farwolaeth ei frawd Phasael, prysurodd i Rufain, a chafodd frenhiniaeth Judea, a chymmerodd yn ol gydag ef oddiwrth Mark Antony, orchymyn i lywodraethwyr Syria am gymhorth i enill meddiant o'i diriogaeth. Gwarchaeodd Jerusalem, yr hon a gymmerodd, ond nid heb lawer o dywallt gwaed. Pan y torodd y rhyfel allan rhwng Augustus a Mark Antony, cymmerodd Herod ochr y diweddaf, gorchfygiad yr hwn a'i gwnaeth yn angenrheidiol arno fyned i Rufain drachefn, a thalu ei foesbarch i Augustus, gan yr hwn y cadarnhawyd ef yn y frenhiniaeth. Fel hyn cawn y genedl wedi ei darostwng i iau Rhufain, a'i llywodraeth yn cael ei gweinyddu gan ormesdeyrn parod i aberthu pob peth i'w nwydau, ei lid, a'i uchelgais.

(Darllener Daniel xi.)

## PENNOD XXVII.

### PLEIDIAU IUDDEWIG.

NI rydd y bras linelliad ydym wedi roddi eisoes o hanesiaeth Iuddewig, ond ychydig o oleuni ar fywyd crefyddol y genedl tua diwedd ei hanes. Mae yn ddymunol i weled, fod ar amser pan yr oedd y fath demptasiynau cryfion i wrthgiliad, gynifer i'w cael yn barod i ddioddef merthyrdod yn hytrach na suddo i eilun-addoliaeth, ac i amddiffyn crefydd eu cyndadau, pan nad oedd mwyach yn gylchynedig â'r deniadau a feddai cyn y caethiwed.

Nis gallwn, modd bynag, gyfeirio at oes y tywysogion Asmoneaidd fel wedi ei hynodi gan ysbrydolrwydd a gwir dduwioldeb. Fel mewn amserau blaenorol, yr oedd yn rhaid ceisio am grefydd bur a dihalogedig yn mysg yr ychydig mewn cydmariaeth; tra yn mysg y genedl yn gyffredinol yr ydym yn canfod balchder cenedlaethol, ac awydd am annibyniaeth ar lywodraeth dramhor, yn eu cynhyrfu hwynt i'r gweithredoedd hyny o ddewrder yr hoffa eu hysgrifenwyr hwy eu cofnodi. Dengys y rhan hyn o'u blwyddolion mor ddichonadwy ydyw edrych ar y grefydd wladol gyda'r hyfrydwch mwyaf, a dadleu ac ymladd drosti, tra y mae ei bywyd mewnol yn dihoeni, a'i hysbryd wedi ymadael.

Hynodid yr amserau o dan ystyriaeth gan y tueddiad i ymranu i'r pleidiau hyny y crybwyllir am rai o honynt yn y Testament Newydd, ac ereill at ba rai ni chyfeirir. O ddiffyg un egwyddor sanctaidd a dirgymhellol i roi bywyd yn y genedl a gwneyd y bobl fel calon un gŵr, boddlonai pob meddwl ei dueddiad neillduol ei hun, a ffurfiwyd pleidiau cwbl groes i'w gilydd, heb ond ychydig o debygrwydd, ond yr enw Iuddewaeth, ac addefiad o Jehofah fel yr unig wir Dduw. Yr oedd eilun-addoliaeth yn wir wedi ei lwyr alltudio, ond yn ei le yr ydym yn cael y math hwnw o eilun-addoliaeth ysbrydol yn mha un y mae tybiau dynol yn cael eu dyrchafu i le gwirionedd, ac yn derbyn y warogaeth ddylid roddi yn unig i ewyllys ddatguddiedig Duw.

Dalia y Saduceaid y lle cyntaf yn hanesiaeth Iuddewig o ran trefn amser, gan fod eu sylfaenydd Sadoc, oddiwrth yr hwn y tardda eu henw,

wedi bod yn dirgymhell ei athrawiaethau oddeutu dau gant a thriugain mlynedd cyn genedigaeth Crist. Dechreuodd ei hyfforddiadau trwy ddirgymhell yr angenrheidrwydd o wasanaethu Duw allan o gariad pur ato Ef, ac nid oddiwrth ddisgwyliad am wobr neu ofn cospedigaeth; ond er mor bell a hyna yn ddysgawdwr gwirionedd, fe fabwysiadodd y cyfeiliornad marwol nad oedd na gwobrau na chospedigaethau i'w disgwyl yn y sefyllfa ddyfodol. Mae ei ddisgyblion, fel y darllenwn yn y Testament Newydd, yn dal nad oes "nac adgyfodiad, nac angel, nac yspryd," ac fod yr enaid yn darfod gyda'r corff yn angeu. Gwadent ofal rhagluniaethol Jehofah, gan briodoli i ddyn y rhyddid mwyaf perffaith i weithredu, a gallu i dda a drwg, fel yr oedd am ei lwyddiant a'i adfyd yn ymddibynol hollol arno ei hun. Yr oedd John Hyrcanus, un o'r tywysogion Maccabeaidd, yn Saducead, a dengys y ffaith ei fod yn archoffeiriad sefyllfa isel crefydd yn mysg yr Iuddewon yn ei amser.

Yr oedd y Phariseaid, enw pa rai sydd yn tarddu oddiwrth air yn arwyddo i ymneillduo, yn sefyll ar wahan oddiwrth y rhan arall o'r gymdeithas Iuddewig, trwy gymmeryd arnynt fwy o dduwioldeb, a chadwraeth manylach o gyfreithiau Moses a thraddodiadau yr henuriaid. Josephus, ei hun yn Pharisead, a ddywed wrthym, eu bod yn fwy duwiol a defosiynol nag ereill, a'u bod yn esbonio y Gyfraith gyda mwy o gywirdeb. Dywed hefyd eu bod oddiar eu gwybodaeth fanwl a'u cyflawniad o grefydd, yn anwyliaid y nefoedd, a dadleuent fod Duw o gyfiawnder manwl yn rhwym i fendithio pob Iuddew, i'w gwneyd hwynt oll yn gyfranogion o frenhiniaeth ddaearol y Messiah, a'u cyfiawnhau a'u gwneyd yn dragywyddol ddedwydd. Nis gellir dynodi efallai adeg eu dechreuad yn fanwl. Ymddanghosant wedi cyfodi i fyny yn raddol, ac yn amser John Hyrcanus yr oeddynt yn gorff cryf, hynodid gan eu hysbryd uchelfalch ac anoddefol, a'u nherth fel plaid wladol. Rhoddent y fath bwys ar draddodiadau eu tadau, nes "dirymmu gair Duw." Mae eu ffurfioldeb a'u rhagrith, eu balchder a'u gwag-ogonedd crefyddol, yn cael eu darlunio a'u dynoethi yn llawn gan ein Harglwydd, ac y mae gennym ddarlun llawn a chywir o'u cymmeriad yn y Testament Newydd. Wrth eu cyferbynu a'r Saduceaid, fe'n hadgoffheir o dueddiad ein natur syrthiedig i gyfeiliorni trwy wrthod gair Duw ar y naill law, a thrwy wrth-

effeithio ei awdurdod âg ychwanegiadau dynol ar y llaw arall. Nis gallwn siarad am yr un o'r pleidiau hyn fel drygau wedi diflanu, gan eu bod yn parhau yn ein hamser ni, er o dan wahanol enwau a ffurfiau.

Mae yr Esseniaid, er nad wrth eu henwau, yn amlwg yn cael cyfeirio atynt yn y Testament Newydd. Cymmerasant arnynt eu dynodiad, a ddeillia o air sydd yn arwyddo i iachau, oddiwrth eu hawydd proffesedig i iachau anhwylderau yr enaid. Priodolir eu dechreuad i gyfnod ychydig cyn codiad y Maccabeaid, pan y gorfu i'r Iuddewon ddiangc rhag eu gelynion, ac ymguddio yn nhyllau ac ogofeydd y ddaear. Daeth y sefyllfa i'r hon y gyrwyd hwynt gan angenrheidrwydd ar ol hyn yn un o ddewisiad. Yr oedd llawer o honynt yn feudwyod a mynachod y genedl Iuddewig, ymgyflwynedig i erwinder a marweiddiad. Yr oedd y rhai hyny nad aent i'r pellder yma yn hynod am y cyflawniadau manwl i ba rai yr ymrwyment. Cadwai eu preswylfeydd, eu gwisg—na newidid nes treulio allan—a'u hymataliad gofalus oddiwrth gysuron cyffredin bywyd, hwy ar wahan oddiwrth ereill yn y wladwriaeth, ac oddiwrth lawer o'r drygau oedd yn ffynu o'u deutu. Tybir eu bod yn cael cyfeirio atynt yn yr Epistol at y Colossiaid, lle y dywedir: "Os ydych wedi meirw gyd â Christ oddiwrth egwyddorion y byd, paham yr ydych, megis pettych yn byw yn y byd, yn ymroi i ordeiniadau, (na chyffwrdd, ac na archwaetha, ac na theimla, y rhai ydynt oll yn llygredigaeth wrth eu harfer) yn ol gorchymynion ac athrawiaethau dynion? Yr hyn bethau sydd ganddynt rith doethineb mewn ewyllys-grefydd a gostyngeiddrwydd, a bod heb arbed y corph; nid mewn bri i ddigoni y cnawd."

Cedwid "ordeiniadau" yr Esseniaid gyda'r manylwch mwyaf. Ni wnai yr Esseniad llym "ddim bwyta bwyd blasus," ond byddai byw ar fara garw, ac nid yfai ond dwfr. Ni fwytâi rhai byth hyd ar ol machludiad haul; ac os cyffyrddent â rhai nad oeddynt o'u plaid hwy, ystyrient eu hunain wedi eu halogi. Heblaw "bod heb arbed y corph," yr oeddynt hwy yn hynod "mewn gostyngeiddrwydd ac addoliad angylion." Hysbysa Josephus ni y gwnaent, pan y derbynient rai i'w cyfundeb, wneyd iddynt gymmeryd llw difrifol y cadwent ac y parchent lyfrau y blaid ac enwau yr angylion gyda gofal.

(Darllener Colossiaid ii. 8 i'r diwedd.)

## PENNOD XXVIII.

### Y SYNAGOG.

MAE yn debyg i'r synagog Iuddewig ddechreu yn y cyfarfodydd mawrion hyny gynhaliwyd yn Jerusalem ar ol y dychweliad o Babilon, pan y gwnaeth Ezra a'i gyfeillion ddarllen "yn eglur yn y llyfr, ynghyfraith Dduw, gan osod allan y synwyr, fel y deallent wrth ddarllen." Gwaith yr ysgrifenydd oedd cyfieithu yr ysgrifeniadau Hebrëig sanctaidd i'r Caldaeg, â'r hon yr oedd y bobl wedi dyfod yn gyfarwydd, gael iddynt wybod beth oedd Jehofah wedi ddyweyd wrth eu tadau. Fe fabwysiadwyd yr arferiad welwyd mor llesol yn Jerusalem ar yr achlysur neillduol yma, yn raddol trwy holl Judea; cyrhaeddodd hyd amserau y Gwaredwr, ac y mae wedi parhau hyd y dydd presennol.

Sicrhaodd y synagogau hyn y daioni mwyaf i'r bobl, angen pa rai yr amcanwyd iddynt gyflenwi. Tra yr oedd y prophwydi yn fyw, ymgasglai plant Israel o'u deutu fel y traethent eu cenadwriaethau ysbrydoledig yn y Deml, yn heolydd y ddinas, neu yn y tai lle y trigai y gweision hyn i'r Arglwydd, gofal y rhai oedd am i'r bobl glywed Ei air; ond yn awr, yr oedd ganddynt i ofyn, "Y prophwydi, pa le y maent hwy?" Hyd yn oed yn y Caethiwed yr oedd y cenhadon ysbrydoledig hyn yn cael eu codi i gyfarwyddo a chysuro yr alltudedigion; ond yn awr, oddieithr y synagogau hyn, nid oedd dim wedi ei adael ond yr hyn a alwai y doctoriaid Iuddewig y Bath-Kol—*merch llais*—am yr hyn y llefarent fel adlais o'r nef.

Yr oedd gwerth yr ardrefniad yma yn fwy oddiwrth y ffaith fod y bobl yn teimlo ei werth a'i angen. Nid oedd fel "y defodau cnawdol (oeddynt) wedi eu gosod arnynt hyd amser y diwygiad," ond peth oedd wedi codi i fyny i lanw angen a ddwfn deimlid, a lle bynag yr oedd, arddanghosai awydd dwys y bobl am sicrhau gwybodaeth o'r gair Dwyfol. Ymddengys fod awydd cyffredinol am fwynhau y fantais hon yn mhob tref yn Judea, a phob rhan o'r brifddinas Iuddewig. Yr oedd hyd yn oed yn angenrheidiol i roi rhyw atalfa ar ddymuniadau y bobl i sicrhau codiad y lleoedd o addysg ac addoliad hyn. Gwaherddid hwynt yn mhob man lle yr oedd llai na deg o ddynion o oed, dysg, duwioldeb, a medrusrwydd, i gyfarfod

a'r treuliau angenrheidiol, a gofalu am y gwasanaeth gofynol. Yr oedd eu nifer yn Jerusalem dros bedwar cant a thriugain, ac nid oedd yr un dref o ddim maint yn Judea na cheid hwynt.

Adeiledid hwy yn gyffredin ar y llanerchi uwchaf yn y gymmydogaeth, ac er eu bod yn lleoedd yn mha rai yr oedd yn gyfreithlawn i weddio, darllen, pregethu, a dadleu, nis gellid eu defnyddio i aberthu. Cyfeiria ysgrifenwyr Iuddewig at yr arysgrifeniadau ar y muriau. Uwch ben y porth, yr oedd ymadrodd o Psalm cxviii. 20: "Dyma borth yr Arglwydd, y rhai cyfiawn a ânt i mewn iddo." Yr oedd yno lawer o frawddegau cyfaddas i gynhorthwyo meddwl crefyddol a buddiol, fel "Gweddi heb ystyriaeth sydd megis corff heb enaid," ac, "Y mae distawrwydd yn ganmoladwy yn amser gweddi." Yr oeddynt yn gynhwysedig o ddwy ran, yr un ar y pen gorllewinol yn cynhwys yr arch neu gist yn yr hon yr oedd llyfrau y Gyfraith a'r prophwydi, ac a elwid weithiau y deml; y llall, yn yr hon yr ymgynnullai y bobl, a elwid llawr yr eglwys, ac a ranid yn mhellach gan bared o ddellt yn gwahanu y gwŷr oddiwrth y gwragedd.

Swyddogion y synagog oeddynt—y llywodraethwr, yr hwn a edrychai ar ol y gwasanaeth, a phan yn angenrheidiol, a alwai ar ereill i ddarllen, neu os oedd ganddynt "air o gynghor" i "draethu;" "angel yr eglwys," neu weinidog y gynnulleidfa, yr hwn yn gyffredin a weddiai, ac a ddysgai y bobl; a'r gweinidog, neu y gwas, yr hwn oedd a gofal yr Ysgrythyrau Sanctaidd arno. Ar un adeg, hysbysa ysgrifenwyr Iuddewig ni, defnyddid y synagog hefyd i ddibenion gwladol, o dan lywyddiaeth y "cynghor o dri," gwaith y rhai oedd penderfynu unrhyw anghydwelediad yn mysg yr aelodau, ac i ddyfarnu yn y dosbarth iselaf o droseddau.

Rhydd yr Ysgrythyr sydd i'w darllen ar ddiwedd y bennod hon, ddarlun o un o'r cynnullfanau hyn, a phrif ddulliau y gwasanaeth bob Sabbath. Gall ychydig o wybodaeth ychwanegol efallai fod yn ddyddorol. Wedi i'r bobl eistedd, offrymai "angel yr eglwys" y gweddiau cyhoeddus, y bobl yn codi oddiar eu heistedd ac yn sefyll, a dyma yn fynych oedd agwedd addoliad, mewn cyfeiriad at ba un yr oedd gan y doctoriaid Iuddewig arwireb, "Oni bai sefyll ni safai y byd." Ar ol gweddio, ac adroddiad o'r rhanau ysgrifenedig ar y phylacterau, deuai

darlleniad y Gyfraith a'r prophwydi. Y phylacterau hyn oeddynt rolau bychain o femrwn, yn cynhwys brawddegau o'r Gyfraith, wisgid ar y talcen a garddwrn y llaw chwith. Trowyd heibio amcan y gorchymyn —"a bydded i ti yn arwydd ar dy law, ac yn goffawdwriaeth rhwng dy lygaid"—pan y cafodd yr arferion plentynaidd ac ofergoelus hyn eu cadw, yn lle y coffawdwriaeth a'r myfyrdod cyson yr amcanwyd ef i'w ddirgymhell. Yr oedd pedair ar bymtheg o weddiau i gael eu harfer yn y synagog, tra yr oedd y Gyfraith a'r prophwydi wedi eu dosbarthu i bedair ar ddeg a deugain o ranau, er gallu eu darllen drwyddynt bob blwyddyn. O'r arferiad o gyfieithu yn syml yr Hebraeg i'r Syro-Caldaeg, y cododd y drefn o roddi esboniadau, ac yna o bregethu i'r gynnulleidfa, a chan fod "gair yr Arglwydd yn werthfawr yn y dyddiau hynny," ac fod gan ddyn i ddyweyd wrth "ei frawd, adnebydd yr Arglwydd," yr oedd y gwaith o esbonio a phregethu yn fynych yn disgyn ar unrhyw ŵr dieithr oedd yn alluog i lefaru er adeiladaeth.

Trwy y sefydliad gwerthfawr yma, "Y mae i Moses ym mhob dinas, er yr hen amseroedd, rai a'i pregethant ef, gan fod yn ei ddarllen yn y synagogau bob Sabbath;" a defnyddiwyd halen doethineb nefol i atal y llygredigaeth cyffredinol i'r hwn yr oedd y genedl yn agored. Y fath ydoedd gwerth y synagogau hyn, fel yr ymddengys i breswylwyr tramorol yn Jerusalem godi rhai er eu lles eu hunain. Yn Actau vi. 9, yr ydym yn darllen am bump o ddosbarthiadau a wnaethant ddefnydd o'r ardrefniad yma. Yr oedd y lleoedd hyn, pa rai yn rhan foreuol eu hanes a gynhorthwyasant i gadw gwybodath am Moses a'r prophwydi, ac yn mha rai yr oedd y duwolion, efallai am bedwar cant o flynyddoedd, wedi addoli Duw bob Sabbath, yn gyrchfanau mynych ein Harglwydd a'i apostolion, a rhoddent y cyfleusterau mwyaf gwerthfawr i wneyd yn hysbys hawliau yr Un am yr hwn yr oedd Moses yn y Gyfraith a'r prophwydi wedi ysgrifenu. Ni anrhydeddwyd yr un synagog erioed fel un Nazareth, lle y safodd y Gwaredwr i fyny i ddarllen am dano Ef, oedd i gyhoeddi rhyddid i'r caethion, ac agoriad carchar i'r rhai sydd yn rhwym; ac y dywedodd wrth y gynnulleidfa syn ond anghrediniol, "Heddyw y cyflawnwyd yr ysgrythyr hon yn eich clustiau chwi."

(Darllener Luc iv. 16—30.)

## PENNOD XXIX.

### HEROD A'I DEML.

GAN fod Herod wedi ei eni ddeuddeg mlynedd a thriugain cyn genedigaeth y Gwaredwr, ac iddo fyw oddeutu blwyddyn ar ol yr amgylchiad pwysig hwnw, gallwn ei ystyried ef fel dolen hanesyddol rhwng yr Hen Oruchwyliaeth a'r Newydd. Mae ei gymmeriad, fel ei darlunir gan Josephus, yn berffaith gyson â'r hanes roddir gan yr efengylwyr am ei greulondeb, pan y gorchymynodd ladd yr holl blant gwryw yn Bethlehem, rhag iddo ef neu ei hiliogaeth gyfarfod a gwrthymgeisydd buddugol yn Mrenin yr Iuddewon oedd newydd ei eni: "Yr oedd yn ddyn trwyadl greulon ac aflywodraethus ei lid; ac er ei fod yn sathru cyfiawnder dan draed, yr oedd bob amser yn hoffddyn ffawd." Cydunai y creulonderau diarbed a hynodasant derfyn ei oes â'i holl yrfa. Wedi casglu penaethiaid y genedl Iuddewig, fe'i cauodd hwynt i fyny yn y Marchredfa yn Jericho, a rhoddodd orchymyn ar iddynt oll gael eu gosod i farwolaeth, rhag yn y llawenydd am ei farwolaeth, y byddai diffyg galarwyr yn ei angladd.

Dyma'r fath ddyn oedd yr hwn a adeiladodd y Deml orwych a addurnai Jerusalem yn nyddiau ein Harglwydd a'i apostolion; a'r hyn, fel arwedd amlwg yn hanesiaeth y Testament Newydd, a all hawlio am ein sylw yma. Dianghenrhaid yw dyweyd nad oedd y gwaith mawr hwn fel adeiladau cyssegredig Dafydd a Solomon, a Zorobabel a'i gydwladgarwyr duwiol, yn arddanghosiad o barch i Arglwydd y Deml. Offrwm ydoedd i'r bobl ar y rhai y gormesai, a pha rai yr oedd wedi ceisio yn ofer eu darostwng trwy gamdrethiadau a chreulondeb. Dywedir mae yn wir i Iuddew o'r enw Baba Ben Bota awgrymu y meddylddrych o adeiladu y Deml fel iawn am roddi aelodau y Sanhedrim i farwolaeth. Dichon y gallwn ei ystyried yn fwy cywir fel canlyniad y gwladlywiad bydol hwnw a wna yn ddarostyngedig iddo ei hun yr elfen grefyddol fel moddion i ddyrchafu

awdurdod a dylanwad y llywodraethwr, ac a geisia am ffafr pob dosbarth i enill mwy o sefydlogrwydd i'r orsedd.

Er fod Teml Herod yn rhagori mewn maint a gwychder ar yr adeilad a adgyfleai, eto ystyrid hi fel yr ail Deml, ac adferiad yn hytrach nag adeilad newydd. Yr oedd adeilad y caethion dychweledig o nodweddiad syml, yn agos yn betryal, ac yn llawer is nag un Solomon; ond dygwyd gwaith Herod yn mlaen fel ag i beidio aflonyddu ar wasanaeth dyddiol yr offeiriaid, ac ymddanghosai cyssegriad yr adeilad ysblenydd yma i ganlyn oddiwrth ei chyssylltiad â'r adeilad diaddurn ond sanctaidd y bwriadwyd hi i gymmeryd ei lle.

Ar ol dadgan i'r bobl ei fwriad i ail-godi y Deml mewn araeth a "ddychrynodd lawer, gan ei bod yn annisgwyliadwy, a chan ei bod yn ymddangos yn anghredadwy," dywed Josephus wrthym, iddo "wneyd yn barod fil o bedrolfeni oeddynt i ddwyn cerig at yr adeilad, ac iddo ddethol allan ddeg mil o'r gweithwyr mwyaf medrus, ac iddo gael dysgu i rai o honynt y gelfyddyd o naddwyr cerig, ac ereill seiri coed, ac yna dechreuodd adeiladu; ond ni wnaed hyn nes yr oedd pob peth yn barod at y gwaith." Tynai y cerig mawrion ddefnyddid yn sylfeini, rai o honynt yn bum cufydd ar hugain o hyd, wyth cufydd o uchder, a deuddeg cufydd o drwch, allan edmygedd disgyblion y Gwaredwr fel yr aent allan o'r Deml ac y dywedasant, "Athraw, edrych pa ryw feini, a pha fath adeiladau sydd yma."

Er fod yr holl adeilad wedi ei chodi wrth orchymyn ac ar gost Herod, ni wnai yr offeiriaid oddef i'r un llaw ond eu hunain gyffwrdd a'r Lleoedd Sanctaidd a Sancteiddiolaf, pa rai y dywedir iddynt hwy orphen yn mhen blwyddyn a haner. Treuliwyd cyfoeth y brenhin ar y colofnresau mawrion, y pyrth uchel, y cynddor godidog ar yr ochr ddwyreiniol, elwid "Porth Prydferth," marmor gwyn y muriau a'r colofnau, y llafnau o aur pur yn gorchuddio ochrau yr adeilad, a llawr y cyntedd nesaf i mewn wedi ei arwynebu â marmor wedi ei ardrefnu yn gelfydd, a'r hwn oedd yn debygol yr un a adwaenir yn awr fel y palmant brith. Yr ydym yn dysgu oddiwrth Josephus fod gan "y Deml ddrysau a chapanau uwch eu pen yr un uchder a'r adeilad gyssegredig. Addurnid hwy â lleni brodiog, gyda eu blodau o borffor a phileri yn gymhlethedig; ac uwch

eu pen, ond o dan y gwaith coronog, yr oedd gwinwydden eurog yn ymdaenedig, a'i changhenau yn crogi i lawr o uwchder mawr, maintioli a chelfyddydwaith teg yr hon oedd yn olygfa o syndod i'r edrychwyr, i weled y fath ddefnyddiau dirfawr oeddynt, a chyda'r fath fedr mawr y gwnaed y celfyddydwaith."

Yr oedd y Rhufeiniaid y pryd hwn yn falch o'u gweithiau adeiladyddol, ac yr oeddynt yn dwyn i mewn lawer o'r prydferthion a ddysgasant oddiwrth yr adeiladau Groegaidd. Mae yn amlwg oddiwrth y darluniad roddir gan Josephus ac ereill, fod y Deml a ymddyrchafodd ar ben Moriah yn gwahaniaethu cryn lawer oddiwrth yr adeilad blaenorol trwy ei nhodweddiad Groegaidd mewn cynllun a manylion, yn mysg pa rai yr oedd y colofnresau mawrwych, ffurfid gan bileri mawrion ac uchel, gyda phenynau Corinthiaidd. Dywed Josephus wrthym fod "oddiamgylch yr holl Deml wedi eu gosod yr ysbail gymmerwyd oddiar genhedloedd barbaraidd; yr oedd y rhai hyn oll wedi eu cyflwyno i'r Deml gan Herod, ac yn ychwanegol atynt y rhai a gymmerodd oddiar yr Arabiaid."

Am yr holl adeilad a'i chynteddau, llefara ysgrifenwyr Rhufeinaidd yn gystal ag Iuddewig gyda'r edmygedd mwyaf. Darlunia Josephus hi fel "yr adeilad mwyaf rhyfedd a welodd neu a glywodd am dani erioed, yn gystal ar gyfrif ei hadeilwaith a'i maintioli, ac hefyd gwychder a godidowgrwydd ei hamrywiol ranau, a chlod ac enwogrwydd ei hamrywiol addurniadau; a llefara Tacitus am dani fel "Teml o gyfoeth dirfawr." I ddieithriaid a nesaent ati o bell, dywedir wrthym yr ymddanghosai fel mynydd mawr yn orchuddedig âg eira; canys lle nad oedd wedi ei haddurno â llafnau aur, yr oedd yn wyn a llachar iawn.

Gellir ffurfio rhyw syniad am uchder a godidogrwydd yr adeilad ddrudfawr hon oddiwrth yr hyn a ddywed Josephus wrthym am ei rhan ddeheuol, "yr hon oedd a'i phyrth yn ei chanol, ac hefyd ei glwysrodfeydd brenhinol, gyda thair rhodfa, pa rai a gyrhaeddant yn eu hyd o'r dyffryn dwyreiniol i'r un y gorllewin, canys yr oedd yn annichonadwy i fedru cyrhaedd dim yn mhellach."

"Teilynga y glwys-rodfa yma," meddai, "gael ei chrybwyll yn well na'r un arall dan yr haul; canys tra yr oedd y dyffryn yn dra dwfn, ac nad ellid gweled ei waelod os edrychech oddi fyny i'r dyfnder, safai

codiad anferth uchel pellach yma y glwys-rodfa ar yr uchder hwnw, fel os edrychai rhyw un o ben y canllawiau, neu i lawr pob un o'r uchelderau hyn, byddai yn benfeddw, tra nas gallai ei olwg gyrhaedd i'r fath ddyfnder dirfawr."

Er mor ysblenydd oedd Teml Herod, yr oedd yn ddarostyngedig i'r rhan fwyaf o'r anfanteision a noda ysgrifenwyr Iuddewig allan mewn perthynas i Deml Zorobabel, a'r anfantais fwy o fod yn waith dyn bydol a drygionus, yn gwneyd arddanghosiad gwag-ogoneddus o'i ogoniant ei hun. Yr oedd yr ail Deml, meddai y Rabbiniaid yn israddol i'r gyntaf o ran yr adeilad, am ei bod yn "is a distadlach." Yn ail, o ran y llestri, y rhai oeddynt yn awr o bres, ond oeddynt o'r blaen o aur pur. Yn drydydd, o ran pump o bethau wedi eu colli ac yn ddiffygiol yn yr ail Deml, pob un o ba rai oeddynt yn y gyntaf: yn nghyntaf, yr oedd arch Duw yn eisieu; yn ail, yr Urim Thummim, gan nad oedd Duw yn rhoddi ateb trwy y ddau beth hyn fel yn yr amserau gynt; yn drydydd, tân, yr hwn yn yr ail Deml na ddisgynodd erioed o'r nefoedd i ysu eu poeth-offrymmau fel y gwnaeth yn y gyntaf; yn bedwerydd, gogoniant Duw yn ymddangos rhwng y cerubiaid, pa un a alwent Shecinah, preswylfa Duw; yn olaf, yr Ysbryd Glân i gyfranu y ddawn o brophwydo, gan na chododd yr un prophwyd rhwng Malachi ac Ioan Fedyddiwr.

Ac eto cyflawnwyd rhagfynegiad Haggai yn llawn, "Bydd mwy gogogiant y tŷ diweddaf hwn na'r cyntaf." Wrth edrych ar Deml Herod fel adferiad o'r un godwyd gan Zorobabel, yr ydym yn gweled y modd y cyflawnwyd y brophwydoliaeth hon, trwy sylwi ar yr addewid fawr: "Unwaith etto, ennyd fechan yw, a mi a ysgydwaf y nefoedd, a'r ddaear, a'r môr, a'r sychdir; ysgydwaf hefyd yr holl genhedloedd, a dymuniant yr holl genhedloedd a ddaw; llanwaf hefyd y tŷ hwn â gogoniant, medd Arglwydd y lluoedd." Crist oedd gogoniant yr ail Deml hon, yr hon a alwodd yn "dŷ fy Nhad i," lle yr amlygodd Ei allu, ac y dysgodd lawer o wirioneddau nefol.

(Darllener Haggai ii.)

# LLYFR VI.

---

Sefyllfa Foesol y Byd ar Ddyfodiad y Gwaredwr.

Genedigaeth Iesu Grist.

Yr Angylion yn Cyhoeddi Genedigaeth y Ceidwad.

Iesu o Nazareth.

Iesu pan yn Ddeuddeg Oed.

Iesu yn mysg y Doctoriaid yn y Deml.

Ioan Fedyddiwr.

Bedydd a Neillduad y Gwaredwr.

Y Temptiad.

Y Rhagarweiniad i Efengyl Ioan.

Wele Oen Duw!

Y Wyrth yn Cana.

Y Gwaredwr yn Puro y Deml.

Nicodemus—yr Enedigaeth Newydd.

Crist yn Dysgu ac yn Bedyddio yn Judea.

"Chwi fugeiliaid sydd yn gwylio,
Yn y maes eich praidd liw nos;
Duw mewn cnawd sy'n awr yn trigo,
Wele acw'i seren dlos;
De'wch, addolwch,
Brenhin, Ceidwad, i chwi yw.

"Ddoethion trowch eich myfyrdodau,
At oleuni teca' 'r nef;
Daeth Dymuniant yr holl oesau,
Gwelwch draw ei seren Ef;
De'wch, addolwch,
Brenhin, Ceidwad, i chwi yw."

MONTGOMERY.

## PENNOD I.

### SEFYLLFA FOESOL Y BYD AR DDYFODIAD Y GWAREDWR.

Byddwn yn gymhwysach i ffurfio barn am y bendithion gyfranwyd i'n byd trwy Efengyl ein Harglwydd Iesu Grist, os rhoddwn drem byr ar ei sefyllfa foesol ar gyfnod mawr Ei ddyfodiad. Mae gennym i edrych ar amser dyddiad ein cyfnod, pan oedd Herod yn frenhin Judea, a Cæsar Augustus yn teyrnasu dros holl ymerodraeth Rhufain.

Nid oedd yr un genedl heb ei duwiau o goed a maen, o arian neu aur, ac offeiriaid i gyflwyno aberthau ac offrymau; ond gwahaniaethai eu holl dduwiau oddiwrth y gwir Dduw yn fwy nag y gwahaniaetha tywyllwch y pwll oddiwrth ddisgleirdeb yr haul. Rhai o'r duwiau hyn oeddynt wrthddrychau a galluoedd mwyaf deniadol y byd naturiol—yr haul, lleuad, a thyrau o ser; mynyddoedd, coedydd, afonydd; y ddaear, y môr, a'r gwyntoedd. Addolid rhinweddau a drygau, iechyd a chlefydau. "Pan dybient eu bod yn ddoethion, hwy a aethant yn ffyliaid, ac a newidiasant ogoniant yr anllygredig Dduw, i gyffelybiaeth llun dyn llygredig, ac ehediaid, ac anifeiliaid pedwar carnol, ac ymlusgiaid."

Lliaws o wrthddrychau addoliad oeddynt wroniaid dwyfoledig enwog am ddewrder, am sylfaenu ymerodraethau, neu lesoli dynolryw trwy ddyfeisiadau pwysig; ond yn gyffredin yr oeddynt yn esiamplau o ddrwg yn hytrach nag o rinwedd, a llawer o honynt yn anghenfilod o ddrygioni yn ei ffurfiau iselaf. Yr oedd yr addoliad yn cyfateb i'r gwrthddrychau i ba rai y cyflwynid ef; yr oedd yn fynych yn salw a gwrthun, ac yn amlach yn hynodol gan greulondeb a'r bryntni adgasaf. Yr oedd tueddiad y gorymdeithiau, gwasanaeth y deml a'r defodau crefyddol, i suddo yr addolwr i ddyfnderoedd is o ddiraddad moesol. Yr oedd llawer o'r temlau, a'r offeiriaid a weinyddent ynddynt, yn cael eu cynhal trwy ddiraddiad y cymmeriad menywaidd, a thrwy demptio y dïofrydwyr i ddarfoddiant drygionus; ac hyd yn oed pe anturiasai yr offeiriaid ddirgymhell purdeb calon neu fywyd, buasai eu hymddygiad eu hunain yn eu gosod yn agored i'r cyhuddiad o ragrith.

Yr oedd y byd paganaidd yn drwyadl amddifad o unrhyw offerynoliaeth

rymus gynhwysiadol i wellhau y bobl, a chefnogi y gobaith o'u diwygiad. Ni wnai yr offeiriaid hyd yn oed broffesu dysgu y tyrfaoedd a ymdyrent i'r temlau. Os gwyddent fwy na'r bobl gyffredin, ni wnaent byth eu dysgu hwynt yn mhellach na'r hyn oedd yn angenrheidiol i sicrhau eu hymlyniad wrth yr eilun a'u cymhorth i'r offeiriadaeth. Mor bell oedd yr offeiriaid paganaidd oddiwrth hyd yn oed ddymuno goleuo y bobl, fel y cadwent hwynt yn ofalus mewn dygn anwybodaeth, a thwyllent hwynt trwy ffug wyrthiau, trwy oraclau gau, a'r celfyddydau dewinol. Yr oedd rhagrith y swyddwyr hyn mor adnabyddus nes bod yn fynych yn destyn y goganwyr, gwawd pa rai a gynhyrfent chwerthiniad y cyhoedd. Dysgid y dirgelion adnabyddus yn unig i'r ychydig dderbynid i'r gyfrinach, a pha rai nad allent eu datguddio i ereill ond o dan y perygl mwyaf; ac hyd yn oed pe y cawsent eu datguddio, yr oed eu tuedd i niweidio ac nid i leshau, gan eu bod yn groes i foes a rhinwedd.

Ni ddaliodd athronwyr Groeg, pa rai a wrthodent yr ofergoelion hyn, ac a gondemnient ddrygau y bobl, erioed ganwyll gwirionedd o flaen y tyrfaoedd. Nid oedd yr ychydig oleuni oedd ganddynt i gyfranu ond yn unig i'r nifer fach ddewisedig a gyrchent i'w hysgolion i chwilio am ddoethineb, ac oeddynt yn alluog i gynhal yr athrawon. Pe buasent yn foddlawn i gyfranu eu goleuni i'r lliaws, yn rhy fynych tywyllwch oedd y goleuni hwnw. Pe gallasent ddynoethi cyfeiliornad mawr, nis gallasai neb o honynt gyflenwi ei le â gwirionedd pur, ac yn fynych yr oedd y "gwrthwyneb gwybodaeth" yma mor fawr fel ag i adael yr ymofynydd cywir yn y penbleth mwyaf poenus. Daliai yr Epicureaid fod y byd wedi cyfodi o ddamwain, ac na ddarfu ac na allai y duwiau estyn eu gofal rhagluniaethol i amgylchiadau dynol. Nid yw yn sicr fod Aristotle yn credu yn anfarwoldeb yr enaid; ac un o weithredoedd diweddaf Socrates, yr hwn a fu farw am ei ddysgeidiaeth uchel o unoliaeth Duw, oedd gorchymyn aberth i Dduw gau. Darluniai y Stoiciaid Dduw fel bod corfforol, yn unedig â sylwedd trwy gyssylltiad hanfodol, yn ddarostyngedig i dynghed anghyfnewidiol; a phwysai Plato, y mwyaf goleuedig o athronwyr paganaidd, ei athrawiaethau ar sylfeini gwan, tra y methai yr athrawiaethau hyny briodoli i'r Goruchel holl berffeithderau Ei natur, a thueddent at gefnogi llawer o ofergoeliaeth.

Fel hyn, heb ddim dylanwadau gwaredigol ac adenedigol, ymsuddai pobl o bob cenedl yn ddyfnach o hyd i lygredigaeth. Yr oedd pechodau am ba rai y mae yn gywilydd i draethu, yn cael eu cyflawni yn y cyhoedd yn gystal ag yn y dirgel. Goddefid creulonderau, bryntni gwrthun, a throseddau ffiaidd heb gymaint a gwaharddiad ffurfiol gan y cyfreithiau. Yr oedd hawliau dynoliaeth yn gystal a chrefydd wedi eu distewi, a darlunid y rhai oedd "gas ganddynt Dduw" hefyd "yn drahaus, yn feilchion, yn ffrostwŷr, yn ddychymygwyr drygioni; y rhai yn gwybod cyfiawnder Duw, fod y rhai sydd yn gwneuthur y cyfryw bethau yn haeddu marwolaeth, ydynt nid yn unig yn gwneuthur y pethau hyn, eithr hefyd yn cydfoddloni â'r rhai sy yn eu gwneuthur hwynt."

Rhydd y bras-ddarlun tra byr hwn gadarnhad digonol o'r oll a ddywedwyd gan ysgrifenwyr y Testament Newydd am sefyllfa ddiraddiol y byd yn eu dyddiau hwy. Nid oedd yn un cabldraith ar ddynion, pa un bynag ai Cenhedloedd ai Iuddewon, i ddywedyd: "Gwyrasant oll, aethant i gyd yn anfuddiol; nid oes un yn gwneuthur daioni, nac oes un."

Rhydd yr adolygiad yma y prawfion mwyaf argyhoeddiadol o'r angenrheidrwydd o ddatguddiad Cristionogol. Gellir cyfeirio y rhai hyny a ymffrostiant yn nigonolrwydd rheswm digymhorth fel arweinydd i wirionedd a daioni, at y ffeithiau a nodasom. Nis gellir ateb fod y cenhedloedd ar y pryd hwn heb gyfodi o anwybodaeth a barbariaeth, gan fod y darluniadau hyn yn cyfeirio at Groeg a Rhufain, lle yr oedd y gelfyddyd o arliwio, cerflunio, ac adeiladu; y wyddoniaeth o feintoniaeth, a'r moddau o resymu yn arddansoddol, rai o honynt ychydig iawn islaw, ac ereill efallai uwchlaw, rhai ein hamser ni. Yn awr, pan y mae goleuni pur yr efengyl wedi lledaenu ei belydrau tu allan i'r eglwys yn gystal ag o fewn ei muriau am ddeunaw cant o flynyddoedd, nid oes neb mewn sefyllfa i allu profi fod rheswm digymhorth yn ddigonol i gyfranu gwybodaeth gymhwys am Dduw, am ofynion deddf foesol, neu am y ffordd i fwynhau y ffafr Ddwyfol. Er dangos beth a all dyn wneyd heb y datguddiad Dwyfol, a'r holl ddylanwadau bendithiol mae yn ddwyn, gallwn gyfeirio yn unig at sefyllfa y byd cyn dyfodiad y Gwaredwr, ac at y rhanau hyny o'r byd, ydynt eto heb eu goleuo â'i wirionedd.

(Darllener Pslam xix.)

## PENNOD II.

### GENEDIGAETH IESU GRIST.

Os oedd, fel y gwelsom, sefyllfa cymdeithas ychydig cyn dyfodiad y Gwaredwr yn un o ddiraddiad moesol dwfn, nid oedd yn amddifad o obaith. Yr oedd rhagfynegiadau y prophwydi Hebrëig am y Messiah a'i frenhiniaeth heddychol wedi cyrhaedd rhyw gymaint o ledaeniad yn mysg y cenhedloedd, ac er eu bod yn cael eu camddeall yn fawr, arweiniasant i'r disgwyliad fod y byd yn fuan i roesawu dyfodiad Gwaredwr gogoneddus.

Yn mysg y trysorau gwerthfawrocaf yn Rhufain yr oedd llyfrau y Sibliaid, wylid gyda gofal eiddigus, ac ar ol eu dinystr trwy dân yn nheml Iau oddeutu can' mlynedd cyn genedigaeth Crist, gorchymynodd y senedd am gasgliad newydd o wahanol barthau y byd. Fel hyn ni a welwn pa fodd y gallasai Tacitus ddyweyd, "Yn hen lyfrau yr offeiriaid, ar yr amser hwnw yn benodol byddai i'r Dwyrain lwyddo, ac i'r rhai hyny a ddeuent allan o Judea gael llywodraeth amgylchiadau dynol." O'r un ffynhonell y dysgodd Virgil lefaru am blentyn yr hwn a enid fel hiliogaeth y duwiau, yr hwn oedd i gael llywyddiaeth gyflawn ar y ddaear, ac i ddwyn i mewn heddwch cyffredinol. Yr oedd creulondeb ac anghyfiawnder i gael eu dileu, a bywyd dyn i gael ei adferu i'w ddiniweidrwydd a'i wynfyd cyntefig. Yr oedd i ddinystrio hiliogaeth y seirff, ac o dano ef yr oedd y ddaear i ddwyn llawnder. Yr oedd yr anifeiliaid anwaraidd i newid eu nhatur, a'r deadelloedd gwâr i bori heb ofni niweid.

Datganodd y wraig o Samaria obaith ei chenedl pan y dywedodd, "Mi a wn fod y Messïas yn dyfod, yr hwn a elwir Crist: pan ddelo hwnnw, efe a fynega i ni bob peth;" ac yr oedd gwŷr ei dinas yn barod i gydnabod "y Crist, Iachawdwr y byd," pan y darganfyddent Ef yr hwn a wnai gyfiawnhau eu ffydd a theilyngu eu haddoliad.

Yr oedd Doethion y Dwyrain wedi eu paratoi i roesawu ac addoli y Brenhin yr hwn oedd i gael ei eni yn Judea, a gellir deall yn rhwydd eu parodrwydd i ganlyn y seren-arweiniol wyrthiol pan y gwybyddwn fod llais y prophwyd wedi cael ei glywed yn eu gwledydd, gan ddywedyd,



LEIGHTON, BROTHERS.

BETHLEHEM.

"Parottowch ffordd yr Arglwydd, unionwch lwybr i'n Duw ni yn y diffaethwch." Am yr Iuddewon, profa ymddygiad Herod, eu brenhin, y grediniaeth goleddid yn ei amser ef, fod brenhin newydd i deyrnasu, ac ymerodraeth arall i gael ei sefydlu. Nid yn unig Herod, ond "pawb oedd gydag ef a lanwyd â braw," a chyda holl "bennaethiaid yr Iuddewon," y gofyniad oedd, nid pa un a oedd brenhin newydd ar ymddanghos, ond "pa le y genid ef."

Camddeallodd yr Iuddewon a'r Cenhedloedd natur y llywodraeth oedd ar gael ei sefydlu ar y ddaear, a nodwedd ei Brenhin. Edrychasai y Rhufeiniaid ar ryw ŵr mawr o'u cenedl eu hunain fel y cymwynaswr at yr hwn y cyfeiriai yr oraclau; a disgwyliai yr Iuddewon am frenhiniaeth ddaearol, brenhin yr hon a adferai eu llywodraeth oedd wedi ei cholli, ddinystriai eu gelynion ac a sicrhâi eu llwyddiant bydol. Gallwn gan hyny ddeall pa fodd y gallodd y Gwaredwr ddyfod at yr eiddo Ei hun, a'r eiddo Ei hun heb ei dderbyn Ef; pa fodd y gallodd y goleuni gogoneddus hwn dywynu, a'r tywyllwch heb ei amgyffred. Daeth heb fod holl rwysgfeydd gallu brenhinol yn ei ganlyn Ef; gan na "ddaw teyrnas Dduw wrth ddisgwyl," ac nad yw "o'r byd hwn."

"A genedigaeth yr Iesu Grist oedd fel hyn: Wedi dyweddïo Mair ei fam ef â Joseph, cyn eu dyfod hwy ynghŷd, hi a gafwyd yn feichiog o'r Yspryd Glân. A Joseph ei gŵr hi, gan ei fod yn gyfiawn, ac heb chwennych ei gwneuthur hi yn siampl, a ewyllysiodd ei rhoi hi ymaith yn ddirgel. Ac efe yn meddwl y pethau hyn, wele angel yr Arglwydd a ymddanghosodd iddo mewn breuddwyd, gan ddywedyd, Joseph mab Dafydd, nac ofna gymmeryd Mair dy wraig: oblegid yr hyn a genhedlwyd ynddi sydd o'r Yspryd Glân. A hi a esgor ar fab, a thi a elwi ei enw ef IESU: oblegid efe a wared ei bobl oddiwrth eu pechodau."

Fel hyn, megis y mae Esgob Taylor wedi sylwi yn brydferth, "boddlonodd Iesu gael ei eni o fam dlawd, mewn lle tlawd, ar noson gauaf oer, yn mhell oddi cartref, yn nghanol dieithriaid, gyda holl amgylchiadau iselder a thlodi. Ac ni cha neb achos i achwyn ar ei wisg arw os cofia am gadachau y Plentyn Sanctaidd hwn; na bod yn anfoddlawn gyda ei wely caled pan yr ystyria i Iesu orwedd mewn preseb."

Ymа y gwelwn mor "fawr yw dirgelwch duwioldeb. Duw a ym-

ddangosodd yn y cnawd." Mae llawer wedi ei ddyweyd a'i ysgrifenu ar y pwngc mawr hwn i gynhorthwyo ein myfyrdodau, ond nid oes yr un dyn anysbrydoledig wedi dwyn mwy o feddwl cyssegredig ar y testyn mawreddog na'r hyawdl Jeremy Taylor, yr hwn a sylwa ;—" Fel y mae yn Dduw, mae Ei orsedd yn y nefoedd, ac y mae yn llanw pob peth a'i anfeidroldeb; fel Dyn, mae wedi Ei amgauad gan gryd anesmwyth, a llefa mewn ystabl. Fel y mae yn Dduw, eistedda ar orsedd goruwch-ddyrchafedig; fel Dyn, yn agored i'r sefyllfa iselaf o anesmwythder ac angen. Fel Duw, wedi ymwisgo mewn gwisg o ogoniant—ar yr un eiliad ag y gellwch edrych ar, a rhyfeddu at ei ddynoliaeth, wedi ei rwymo mewn rhwymau maban rhad ac anheilwng. Fel Duw, cylchynir Ef gan fliwnau o angylion; fel Dyn, yn nghwmni anifeiliaid. Fel Duw, Efe yw Gair tragywyddol y Tad, hunan-gynhaliol, oll-ddigonol, ac heb angen; ac eto ymostyngodd i sefyllfa dlawd ac anghenus. Ac y mae yr ystyriaeth yma yn gymhwys a naturiol i gynhyrchu tueddiadau cryfion o gariad, dyledswydd, ac ufudd-dod, dymuniadau am undeb, a chydffurfiad a'i berson sanctaidd, bywyd, gweithrediadau, a chyfreithiau; fel yr amcanwn ein holl feddyliau, ac y penderfynwn yn y diwedd ein holl reswm, ein teimladau, a'n galluoedd, ar y dywediad hwnw o eiddo St. Paul, 'Os oes neb nid yw yn caru yr Arglwydd Iesu Grist, bydded anathema.'"

Gall y rhai hyny a wadant y gwyrthiau wnaed gan y Gwaredwr a'i apostolion, gyda pheth cysondeb hefyd wadu dirgelwch yr ymgnawdoliad. Os, modd bynag, y credwn i Dduw ymddangos yn y cnawd, yr ydym yn barod i dderbyn y dystiolaeth Ddwyfol am yr holl arwyddion a rhyfeddodau oeddynt ynglyn a'i yrfa ogoneddus, ac a goronwyd trwy Ei adgyfodiad a'i esgyniad i'r nef. Nis gallwn esbonio rhyfeddod yr ymgnawdoliad ar yr un o egwyddorion rheswm dynol yn unig, ac os y derbyniwn y ffaith ryfeddol hon ar y dystiolaeth Ddwyfol, yr ydym yn barod i'w gweled yn cael ei dylyn gan yr olyniad hyny o ryfeddodau ydynt i wneyd i fyny fywyd y Gwaredwr ar y ddaear, a'i oruchafiaeth ddiweddaf ar bawb a wrthwynebasant ei yrfa fuddugoliaethus, a gwaith mawr ein hiachawdwriaeth. Os awn fel addolwyr gostyngedig at y preseb i Bethlehem, gallwn ganlyn Iesu ar hyd Ei yrfa ryfeddol hyd nes yr esgyna i'r nef.

(Darllener Matthew i. 18—25; ii. 1—12. Luc. ii. 1—20.)

# PENNOD III.

## YR ANGYLION YN CYHOEDDI GENEDIGAETH Y CEIDWAD.

Yr oedd y prophwyd Micah, saith gant o flynyddoedd cyn yr amgylchiad, wedi dynodi lle genedigaeth y Ceidwad: "A thithau, Bethlehem Ephratah, er dy fod yn fechan ym mhlith miloedd Judah, etto o honot ti y daw allan i mi un i fod yn llywydd yn Israel; yr hwn yr oedd ei fynediad allan o'r dechreuad, er dyddiau tragywyddoldeb." Pe buasai Joseph a mam wyryfol ein Harglwydd wedi deall y rhagfynegiad yma, gallwn ddychymygu eu petrusder fel y meddylient y byddai i'r Plentyn Sanctaidd gael ei eni yn Nazareth, yn lle Bethlehem, ac fel hyn byddai prawf pwysig iawn o'i Fessïaeth ar ol. Cadwodd eu ffydd a'u symlrwydd duwiol hwynt rhag ofn anesmwyth a gofal adfydus, ac edrychent gyda syndod addolgar fel yr oedd Jehofah yn cyflawni Ei fwriadau Ei hun yn Ei ffordd Ei hun.

Efe yn unig yr hwn sydd yn adnabod y diwedd o'r dechreu, ac sydd a phob digwyddiad o dan ei lywodraeth Ei hun, a all eu rhagfynegu hwynt gyda'r sicrwydd y bydd i'w air gael ei gyflawni. Mae arfaethau yr ymerawdwyr galluocaf, a dymuniad y gwladwr distadlaf fel eu gilydd yn ddarostyngedig i'w lywodraeth, a gosodwyd peirianwaith yr holl ymerodraeth Rufeinaidd ar waith mewn trefn i brophwydoliaeth a hanesiaeth allu cyduno am le genedigaeth Iesu. "Bu hefyd yn y dyddiau hynny, fyned gorchymyn allan oddiwrth Augustus Cæsar, i drethu yr holl fyd. (Y trethiad yma a wnaethpwyd gyntaf pan oedd Cyrenius yn rhaglaw ar Syria.) A phawb a aethant i'w trethu, bob un i'w ddinas ei hun. A Joseph hefyd a aeth i fynu o Galilea, o ddinas Nazareth, i Judea, i ddinas Dafydd, yr hon a elwir Bethlehem, (am ei fod o dŷ a thylwyth Dafydd.")

Yr oedd yn weddus i'r cyflawniad mwyaf yma o'r un yn y byd hwn gael derbyn rhyw ddadganiad cyfatebol a thystiolaeth o'r nef. Yr oedd y tywysogaethau a'r meddiannau yn y lle nefol i ddysgu trwy yr eglwys, ac yn neillduol trwy ei gwaredigaeth a'i Gwaredwr, fawr amryw ddoethineb Duw, ac yn lle rhyfeddu at gydymdeimlad y llu nefol, a'r hyfrydwch gyda pha un y disgynasant i draethu eu llongyfarchiadau sanctaidd, dylasem ryfeddu yn hytrach pe buasent wedi bod yn ddystaw. Ni ddarfu

dim erioed gyssylltu y nef a'r ddaear, ac uno Duw a dyn, yr un modd a'r enedigaeth hono yn ninas fechan Bethlehem, ac yr oedd yn weddus i angylion yn awr gael eu gweled a'u clywed mewn undeb hyfryd â'r hil y gwnaethpwyd ei Gwaredwr yn gnawd.

Trwy fod y bugeiliaid yn "cadw gwyliadwriaethau'r nos," mae wedi cael ei dybied mai yn yr hydref yr oedd amser genedigaeth y Ceidwad yn hytrach nag yn nyfnder y gauaf; tymhor hefyd a fuasai yn anghyfleus i deithio, fel i Joseph a Mair o Nazareth i Bethlehem. Pa un bynag oedd y tymhor hwnw, yr oedd gan y dynion isel hyn oriau maith a blin i'w treulio yn eu gwyliadwriaethau nosawl; canys, fel mab Jesse, nid oedd eu dyledswyddau yn rhydd oddiwrth berygl yn gystal a gofal. Yr oedd y llew a'r arth eto yn gwibio yn agos i'w corlanau, ac yn bygwth eu praidd; ac yr oedd yn dda os oeddynt yn gallu treulio allan y nos gyda ei psalmau, a lloni eu calonau gyda'r gobaith yr oedd ei ganiadau cyssegredig i'w enyn.

Ond yn awr y mae ganddynt achos newydd o fraw. Maent yn "ofni yn ddirfawr;" canys, "wele, angel yr Arglwydd a safodd gerllaw iddynt, a gogoniant yr Arglwydd a ddisgleiriodd o'u hamgylch." Nid oedd gogoniant yr Arglwydd wedi disgleirio ar eu gwlad er y Caethiwed, am dros bum can' mlynedd, ac yr oedd gweinyddiadau angylion yn anadnabyddus erys oesau. Pwy all ddyweyd pa feddyliau a aeth i mewn i galonau y bobl ddiniweid hyn, a pha ddychrynfeydd a frawychent eu hysbrydoedd? Ond yn fuan trowyd eu hofnau i lawenydd. Hwy a gawsant y fraint fendigedig gyntaf o wybod fod Crist yr Arglwydd wedi ei eni. Cafodd dyfodiad y Bugail da, yr hwn oedd i roddi Ei einoes dros y defaid, ac i arwain Ei bobl fel praidd, ei gyhoeddi, nid yn llys y brenhin, ac yn Sanhedrim yr offeiriaid, ond yn mhlith y bugeiliaid isel hyny, gwaith pryderus y rhai a ymdebygai i'w un Ef.

Rhoddwyd cyfarwyddiadau gofalus gan yr angel i arwain y bugeiliaid at y mab bychan, Tywysog Israel; ond mor anhebyg i arwyddion brenhinoldeb oedd y nodau a roddasant. Baban oedd y Ceidwad, Ei wisgoedd oeddynt gadachau, Ei balas ydoedd ystabl, a'i orsedd ydoedd breseb. Yr oedd eisieu tystiolaeth Ddwyfol ar y dynion hyn i'w hargyhoeddi mai y Baban isel hwn oedd eu Brenhin; ond yr oedd y dystiolaeth yn ddigonol.

Yr oedd ganddynt "gwmmwl o dystion;" canys nid cynt y llefarodd angel yr Arglwydd, nag "yn ddisymmwth yr oedd gyd a'r angel lïaws o lu nefol yn moliannu Duw."

Mae cân yr angylion yn gofnodiad o'u duwioldeb uchel, yn ein dysgu ni gyda pha fath wresowgrwydd sanctaidd a hyfrydwch yr addolant Dduw, a pha fodd y porthir arogldarth eu mawl trwy bob amlygiad newydd o'r gogoniant Dwyfol. Cyhoedda y gân hon hefyd "i ddynion ewyllys da." Iesu ydyw y datguddiad perffaith o'r cariad a'r ewyllys da Dwyfol. Mae Tywysog Tangnefedd yn dyfod i gyhoeddi heddwch yn ein byd gwrthryfelgar ni. Efe yw Awdwr heddwch rhwng Duw a dyn, a heddwch rhwng dyn a dyn, mewn teuluoedd a chenhedloedd; canys yn ei ddyddiau Ef bydd "amlder o heddwch." Profir yr ewyllys da Dwyfol i ddynion trwy y ddawn anrhaethol hon, a'r rhai hyny a ânt i weled y Baban hwn yn Ei breseb bychan, a welant ynddo Ef ogoniant gorchuddedig Ei Dad nefol.

Ond nid yw y ddaear dlawd hon ddim yn gartref i angylion sanctaidd a dedwydd. Prysurant yn llawen yma ar eu negeseuon o gariad a thrugaredd, a phan y byddant wedi gorphen eu gwaith, prysurant yn ol "i'r nef." Felly diflana y beroriaeth nefol, ymadawa y cantorion nefol, â "gogoniant yr Arglwydd" o'r golwg, ac y mae gwastad-diroedd Bethlehem drachefn yn orchuddedig gan dywyllwch, ac wedi eu gostegu i ddistawrwydd nos. Ond nid yw y bugeiliaid yn anufudd i'r weledigaeth nefol. Doeth y dywedant y naill wrth y llall, "Awn hyd Bethlehem, a gwelwn y peth hwn a wnaethpwyd, yr hwn a hyspysodd yr Arglwydd i ni." Rhaid i ni ddylyn eu hesiampl da. "Awn hyd Bethlehem, a gwelwn y peth hwn a wnaethpwyd, yr hwn a hyspysodd yr Arglwydd i ni."

Dedwydd os ydym wedi syllu ar y "peth hwn" yn ei holl ddirgelwch, rhyfeddod, ac addysg. Os na ddarfu i chwi, cymmerwch yn awr eich safle gyda'r bugeiliaid hyn, ac fel yr ydych yn syllu, syrthiwch i lawr ac addolwch yn Ei bresennoldeb. Yna yn mhellach cymmerwch hwynt fel eich cynllun; canys, "pan welsant, hwy a gyhoeddasant y gair a ddywedasid wrthynt am y bachgen hwn."

(Darllener Luc ii. 1—20.)

## PENNOD IV.

### IESU O NAZARETH.

DAETH baban Bethlehem, ar ol Ei ymostyngiad i'r ddefod Iuddewig o enwaediad, ac wedi cael ei gyflwyno fel plant Iuddewig ereill ger bron yr Arglwydd, yn wrthddrych o ddiolchgarwch sanctaidd o du dau berson hynafol oeddynt yn disgwyl am ddiddanwch yr Israel. Cydnabyddodd yr hen Simeon Ef fel y Gwaredwr hir-ddisgwyliedig, a chanodd er Ei glod y gân grefyddol hono o ddiolchgarwch sydd eto yn addurno ein psalmyddiaeth Gristionogol. Mae meibion a merched wedi cael achos cyfartal i lawenychu yn nyfodiad y Gwaredwr, a chynrychiolwyd pob un o honynt yn y llongyfarchiadau hyfryd hyn. "Ac yr oedd Anna brophwydes, merch Phanuel, o lwyth Aser; hon oedd oedrannus iawn, ac a fuasai fyw gyd â gŵr saith mlynedd o'i morwyndod; ac a fuasai yn weddw ynghylch pedair a phedwar ugain mlynedd, yr hon nid ai allan o'r deml, ond gwasanaethu Duw mewn ymprydiau a gweddiau ddydd a nos." Nid oedd ei hoed mae yn debygol yn llai na chant a thair neu bedair, ac yr oedd wedi ei estyn yn drugarog fel y cafodd sylweddoli gobaith y bobl dduwiol oeddynt yn disgwyl am y Gwaredwr i ddyfod i mewn i'w Deml.

Gwyliwyd yr un mwyaf gwerthfawr o holl fywydau dynol gan ragluniaeth mwyaf dyfal yn ei holl yrfa ddylynol. Galluogodd offrymau y Doethion y teulu sanctaidd i wneyd ymadawiad brysiog o Bethlehem, tra yr oedd cenhadon Herod yn cyflawni ei arch greulon ar yr holl fabanod gwryw, ac yn llanw y ddinas fechan a galar. Yr oedd rhagor o ragfynegiadau yn y blynyddoedd mebyd yma. Megis Israel yn ei hanes boreuol, yr oedd anwyl Fab Duw i gael ei alw "o'r Aipht," felly Joseph "pan gyfododd, a gymmerth y mab bychan a'i fam o hyd nos, ac a giliodd i'r Aipht; ac a fu yno hyd farwolaeth Herod; fel y cyflawnid yr hyn a ddywedyd gan yr Arglwydd trwy'r prophwyd, gan ddywedyd, O'r Aipht y gelwais fy Mab."

Yr oedd rhagfynegiadau ereill am iselder Ei sefyllfa, pa rai y rhaid hefyd eu cyflawni, ac er eu cyflawniad rhaid i'w drigfa fod yn lle llai

ffafriol na Bethlehem, yr hon oedd ond pum milldir o Jerusalem. Felly Joseph ar ei ddychweliad i Judea, "wedi ei rybuddio, a ddaeth, ac a drigodd mewn dinas a elwid Nazareth; fel y cyflawnid yr hyn a ddywedasid trwy'r prophwydi, Y gelwid Ef yn Nazaread."

Pentref bychan, mae yn debyg, oedd Nazareth ar yr adeg y dewisodd Joseph ef fel noddle i'w deulu. Ni chrybwyllir am dano unwaith gan ysgrifenwyr yr Hen Destament, na chan Josephus, er ei fod wedi bod yn ei gymmydogaeth, ac y sonia am y pentrefi o'i amgylch. Yr oedd y pentref Galileaidd yn guddedig mewn dyffryn bychan, heb fod yn mhell o Fynydd Tabor, ac wedi ei gau oddiwrth y gweddill o'r byd gan yr uchelfeydd cylchynol, yn ymestyn yn debygol i fyny ochr un o honynt at y synagog oedd wedi ei chodi ar ei ben.

Er fod arweinwyr hygoelus ac ofergoelus yn awr yn proffesu dangos yr ogof lle y bu y Gwaredwr byw, cegin Mair, gweithfa Joseph, bwrddciniaw ein Harglwydd a'i apostolion, a'r synagog lle y darllenodd Esaiah, gwell i ni yn hytrach dderbyn tystiolaeth teithydd gonest, "nad yw y llygaid yn gorphwys ar ddim ag yr oedd y Gwaredwr yn gynhefin, ond Ei weithredoedd gogoneddus Ei hun." "Mae agos yn sicr fod pob careg o'r pentref bychan lle y treuliodd y Gwaredwr gynifer o flynyddoedd, erys hir amser wedi malurio yn farl gwyn y bryniau o ba rai eu cloddiwyd. Dadgyfana y graig hon gyda chyflymder mawr, a chan fod y lle yn fynych agos neu yn hollol wedi ei ddinystrio neu ei adael, ni wnai y cerig meddal wedi eu dynoethi fel hyn barhau am haner can' mlynedd."

Bwriadwyd y lle distadl yma, am yr hwn ni fuasem yn gwybod dim, oni bai iddo fod yn gartref y Gwaredwr hyd nes iddo ddechreu ar Ei waith cyhoeddus, i roddi iddo drigfa dawel a neillduedig fel y tyfai i addfedrwydd oedran, ac yn unig trwy wrthwynebu y bwriad Dwyfol yr argeisia ofergoeliaeth chwilfrydig am ddefnyddiau i'r hanesiaeth hyny, yr ymhyfryda hygoeledd awyddgar ei ddarllen. Mae yr "Efengyl Gyntaf a'r Ail o'r Maboed," pa rai o honant gofnodi gwyrthiau Iesu yn Ei ddyddiau boreuol, yn cynhwys "gwrachïaidd chwedlau," mor blentynaidd, fel y mae yn annuwiol i'w cyssylltu hwynt ag enw Iesu.

Tra yn gwrthod pob cynhygiad ynfyd o'r fath i wybod am ffeithiau am ba rai nad oes cofnodiad wedi ei roddi, gallwn aros gyda'r myfyrdod

dyfnaf ar y rhan yma o hanes y Gwaredwr. Mae y sefyllfa isel yn mha un y treuliwyd mebyd Crist, a holl flynyddoedd Ei fywyd, oddieithr y tair diweddaf, yn awgrymu ystyriaethau o'r gwerth uwchaf, am y cymhorth maent yn roddi i'w genadwri Ddwyfol a'i Dduwdod Goruchel.

Mae gennym hefyd wers mwyaf pwysig i'w dysgu pan feddyliom am Grist fel Iesu o Nazareth. Yr ydym yn gweled y cyssylltiad mwyaf agos rhwng y dynodiad distadl yma a'i deitlau mwyaf gogoneddus. Pe buasai wedi bod mewn man lle cylchynwyd Ef gan esiamplau sanctaidd, lle y cyssegrwyd Ei holl flynyddoedd i fyfyrdodau doethineb nefol yr Ysgrythyrau Sanctaidd, lle yr oedd dysgawdwyr gwirionedd yn llafurio i ystorïo Ei feddwl ac hyfforddi Ei galon, buasai un prawf mwyaf pwysig o'i hawliau yn eisieu. Ni ryfeddasai yr Iuddewon gan ddywedyd, "Pa fodd y medr hwn ddysgeidiaeth, ac yntau heb ddysgu?" Ac nis gallasai Efe gyda'r fath rym hynod roi ateb iddynt, gan ddywedyd, "Fy nysgeidiaeth nid eiddof fi yw, eithr eiddo yr hwn a'm hanfonodd i."

Mae anffyddiaeth coethedig ein dydd ni, gan broffesu rhoddi hanes Iesu, wedi dwyn allan ddadl gywrain, sylfaenedig mewn rhan ar y rhan hyny o fywyd y Gwaredwr dreuliwyd yn Nazareth. Dr. Young, yn ei waith rhagorol ar "Grist Hanesyddiaeth," a ddywed: "Pan y ca yr holl amgylchiadau o dan ba rai y dygwyd i ben ddadblygiad gosodedig Ei nodwedd a'i fywyd eu chwilio yn ofalus, ymddengys y pryd hyny, ni a dybiwn, nad oedd y nodwedd a'r bywyd ddim yn gynhydd naturiol, am ba rai y rhydd Ei amgylchiadau, yn ol deddfau cyffredin Rhagluniaeth a meddwl dynol, gyfrif digonol; ond, yn y gwrthwyneb, a gychwynwyd ac a gynhaliwyd er gwaethaf amgylchiadau, yn erbyn pa rai nis gallasai yr un grym daearol ddal, ac, o ganlyniad, rhaid fod eu gwir sylfaen mewn grym oedd yn oruchnaturiol a Dwyfol."

Mae y ddadl anatebadwy o ba un y detholir yr adran hon yn cael ei gosod allan yn fyr fel hyn: "Cymmerwch yn unig fywyd boreuol Crist; tybiwch yn unig mewn ystyr gyffredinol eang ei fod yn cael ei arddangos yn gywir; craffwch yn unig ar y dyn; bydd iddo ddangos a phrofi undeb a'r Duwdod anherfynol. Mae y fath ddynoliaeth a'r eiddo Ef yn drwyadl anesboniadwy oddieithr ar y tir o wir Ddwyfoldeb."

(Darllener Matthew ii. Luc ii. 39, 40.)

## PENNOD V.

### IESU PAN YN DDEUDDEG OED.

O DYMHOR mebyd y Gwaredwr hyd Ei fedydd gan Ioan, nid oes gennym un nodiad awdurdodedig o'i hanes. Syrthia gorchudd dros y blynyddoedd hyn o'i fywyd na feiddia ein cywreinrwydd chwilfrydig gynhyg ei godi, tra y ceir yr eithriad unigol wneir gan yr efengylydd Luc yn llawn o'r addysg mwyaf gwerthfawr.

Ystyrid deuddeg oed, pan y cyflwynir Iesu i'n sylw, gan yr Iuddewon gyda'r dyddordeb mwyaf. Ar y pryd hyn peidiai plentyn a chael ei alw "un bach," a gelwid ef "plentyn gorchymyn," gan yr ystyrid ef yn awr mewn oed addfed i ddeall hawliau y Gyfraith, ac wedi dyfod o dan rwymedigaeth gyflawn i gadw ei gofynion. Ar yr oed yma mae tueddiad y meddwl yn cael ei amlygu, ac yn gyffredin mab doeth a wna dad llawen, a mab ffol a dristâ ei fam. Mae yn dymhor pan y dylai dylanwad tadol gael ei ymarfer yn neillduol i arwain yr ieuangc i benderfyniad sanctaidd dros Dduw, a phan i'r diben yma y dylai ei esiampl ei gymeradwyo i ystyriaeth duwiol.

Sylwch ar nodwedd y Nazaread ieuangc. Am Ei natur anianyddol dywedir wrthym, "a'r bachgen a gynnyddodd." Y natur hono oedd yr eiddom ni, ac yn ddarostyngedig i'w deddfau. Gan fod y plant yn gyfranogion o gig a gwaed, cyfranogodd yntau o'r un pethau, a chynhaliwyd Ei fywyd trwy gyflenwadau o fara beunyddiol wedi ei fesur allan iddo trwy law Ei Dad nefol. Mwy pwysig yw y darluniad roddir o'i feddwl a'i galon, o'i natur ddeallol a moesol. Yr oedd yn "gyflawn o ddoethineb," doethineb o'r fath buraf a mwyaf dyrchafedig, yr un a geisia y dibenion uwchaf, trwy y moddion goreu. Ni dderbyniodd Ei feddwl erioed gyfeiliornad, ni ŵyrdrowyd Ef erioed gan bechod, ac ni rwystrwyd Ef yn Ei fynediad yn mlaen gan rym unrhyw demptasiwn anwrthwynebol; ond yr oedd Ei flynyddoedd fel yr aent heibio wedi gweled Ei natur ddynol yn cynhyddu mewn gwybodaeth o bob gwirionedd nefol. Sylwyd yn rhagorol gan Erasmus, fod "holl ddoniau y Dyn Crist Iesu yn

ddyledus i'r daioni Dwyfol, ac i'r Duwdod amlygu ei hun mewn dull graddol i'r natur ddynol yr hon a ymgymmerodd."

Ar yr un pryd yr oedd Iesu "yn gryf yn yr yspryd"—ymadrodd sydd yn ein dysgu ni fod Ei galon mor bur ag oedd Ei feddwl o oleuedig. Nid oedd dim anghyfartaledd rhwng Ei wybodaeth o'r gwirionedd Dwyfol. Yr ydym yn colli yn fynych o herwydd nad ydym yn gryf yn yr ysbryd, yn hytrach nag o eisieu gwybod ewyllys yr Arglwydd. Mor uchel yr edmygwn y gwirionedd yn ei brydferthwch a'i arucheledd, ond mor wan ydym i ufuddhau i'r gorchymynion pur a gyflwyna i ni! Yr ydym yn gryf mewn penderfynu, ond yn wan mewn gweithredu; yn gryf pan y darfydda y demptasiwn, ond gwan pan y daw i mewn fel llifeiriant; yn gryf pan y mae y gelyn yn absennol, ond mor wan pan y mae yn agos.

Dysgir ni am y ffynhonell o ba un y tarddodd y doethineb a'r cryfder hyn, "A gras Duw oedd arno ef." Fel hyn cyfeirir ni er ein cysur a'n cryfhad at y Ffynhon o ba un y llifa bendithion allan i ni, yn gystal ag i'r Plentyn Sanctaidd Iesu. Daeth Mab Duw yn ddyn, er dangos i ni pa fodd y gall meibion dynion ddyfod yn feibion Duw. Gwyddom fod holl gyflawnder y Duwdod yn preswylio ynddo Ef yn gorfforol, ond yn y darlun tirion gyflwynir yma yr ydym yn syllu nid ar ogoniant Ei natur Ddwyfol, ond ar ragoriaeth Ei ddynoliaeth ansyrthiedig. Fel dyn, ymladdodd Iesu yn erbyn temptasiynau, ymroddodd Ei feddwl bob dydd i chwilio am ddoethineb nefol, a thywalltodd Ei enaid mewn llefau cryf ar Dduw. Gallwn efelychu Ei esiampl perffaith; a rhaid i ni, os mynwn wybod gwirionedd Dwyfol a chael gras i ufuddhau iddo. Neillduol o addysgiadol yw y geiriau hyn i'r ieuengctid, pa rai a gefnogant yr apeliad Dwyfol, "Oni lefi di arnaf fi o hyn allan, Fy Nhad, ti yw tywysog fy ieuengctid?"

Ar y tymhor dyddorol yma o fywyd Iesu, ni a'i cawn Ef yn cael Ei arwain gan Joseph a Mair i Jerusalem, pa rai a aethant yno i gadw Gwyl y Pasc, yn ol eu harfer blynyddol, ynghyd a'r holl Iuddewon duwiol. Yr oedd yr wyl hon yn coffhau am un waredigaeth fawr, ac yn rhaggysgodi un arall. Dywedai pa fodd yr aeth angel marwolaeth heibio i drigfanau yr Hebreaid ar ba rai yr oedd gwaed Oen y Pasc wedi ei daenellu, a gwasanaethai fel cysgod o'r iachawdwriaeth fwy maent hwy

yn ei mwynhau y rhai sydd a'u cydwybodau wedi eu taenellu â gwaed Crist, ein Pasc ni a laddwyd drosom.

Yn yr wyl hon yr oedd Iesu yn bresennol, canys yr oedd y plant yn cael eu cefnogi i fod yn dystion o honi, a gofyn i'w rhieni "Pa wasanaeth yw hwn gennych?" O'r braidd y buasai raid iddo Ef ofyn y gofyniad roddid gan blant ereill. Fel yr edrychai ar Oen y Pasc, o'r hwn ni thorwyd yr un asgwrn, ac ar ba un yr oedd y teulu crediniol yn gwledda, gwelai gysgod o hono Ei hun, y farwolaeth yr oedd i'w mharw, ac o'i eglwys yn yr holl oesau dyfodol yn ymborthi arno trwy ffydd, ac yn derbyn bywyd trwy Ei enw. Onid allwn ddychymygu i ddoethineb newydd fyned yn awr i'w enaid am ei waith a'i ddioddefiadau? ac onid allwn ei glywed Ef yn barod yn dywedyd, "Y mae gennyf fedydd i'm bedyddio âg ef, ac mor gyfyng yw arnaf hyd oni orphener?"

Hysbysa ysgrifenwyr Iuddewig ni mewn atebiad i'r gofyniad, "Pa wasanaeth yw hwn gennych?" gyflwynid gan un o'r plant presennol yn Swpper y Pasc, mai ffurf yr atebiad oedd, "Mor wahanol yw y nos yma oddiwrth bob nos arall! canys bob nos arall nid ydym yn ymolchi ond unwaith, yn hon ddwywaith; ar bob nos arall yr ydym yn bwyta bara lefeinllyd neu groyw, ar hon un croyw yn unig; ar nosweithiau ereill yr ydym yn bwyta unrhyw fath o ddail, ar hon dail surion; ar bob nos arall yr ydym yn bwyta ac yfed naill ai o eistedd neu orwedd, ar hon yr ydym yn lledorwedd yn unig." Yna âi y penteulu yn mlaen i ddyweyd fod y Pasc yn coffhau am yr Arglwydd yn myned heibio tai eu tadau yn yr Aipht; yn nesaf daliai y dail surion i fyny gan ddywedyd, "Bwyteir y dail surion hyn am fod bywydau ein tadau wedi eu gwneyd yn chwerw yn yr Aipht trwy gaethiwed caled;" yna daliai y bara croyw i fyny a dywedai, "Bwyteir y bara croyw hyn am na chafodd toes ein tadau amser i gael ei lefeinio pan yr ymddanghosodd yr Arglwydd iddynt, ac y gwaredodd hwynt allan o law y gelyn." Am yr addysg yma hawlient awdurdod Exod. xii. 26, 27: "A bydd pan ddywedo eich meibion wrthych, Pa wasanaeth yw hwn gennych? yna y dywedwch, Aberth Pasg yr Arglwydd ydyw, yr hwn a aeth heibio i dai meibion Israel yn yr Aipht, pan darawodd efe'r Aiphtiaid, ac yr arbedodd ein tai ni."

(Darllener Luc ii. 40 i'r diwedd.)

## PENNOD VI.

### IESU YN MYSG Y DOCTORIAID YN Y DEML.

YN y bywyd amrywiol hwn, mor fynych mae ein llawenydd yn cael ei ddylyn gan alar, ein horiau heulwenog gan rai o'r tywyllwch duaf! Rhaid fod y teulu sanctaidd wedi profi y boddhad mwyaf cyssegredig oddiwrth eu harosiad yn y Deml gyda'r un sanctaidd oedd dan eu gofal, yr hwn oedd wedi talu Ei ymweliad cyntaf a Thŷ Ei Dad nefol. Nid oeddynt yn mysg y cyfoethog a'r uchel, ond yr oedd ganddynt gyda hwy yr Un dirgelaidd hwnw oedd i fod yn Ogoniant y Deml, a Dymuniant yr holl genhedloedd. O herwydd eu sefyllfa isel, nid oedd neb yn mysg y dysgedig a'r teuluoedd offeiriadol i'w llongyfarch hwynt ar degwch ac argoeliad y Plentyn Sanctaidd, ac i'w fendithio yn enw yr Arglwydd. Ond gallasai Mair, fel yr oedd yn dyst o'r sylw mawr delid i'r minteioedd o ieuengctid hawddgar a aent i fewn i'r Deml am y tro cyntaf, ddywedyd gyda phriodoldeb yn ei chalon, "Megis pren afalau ym mysg prenau'r coed, felly y mae fy Anwylyd ym mhlith y meibion."

Wedi i holl ddefodau yr achlysur gael eu cadw yn ofalus, "wedi gorphen y dyddiau," codasant gyda goleu ddydd ac ymadawasant tua'u cartref distadl yn Nazareth. Gallwn eu dylyn hwy ar hyd eu ffordd nes yr ymestyna cysgodau yr hwyr, ac y troant o'r neilldu i aros am y nos. Wedi myned i'w trigfa ddistadl, disgwyliant am ddyfodiad y Plentyn, ond nid yw yn dyfod. Ceisiant Ef yn awr yn mhlith eu cenedl a'u cydnabod, ond ceisiant yn ofer. Holant yn bryderus pwy a'i gwelodd Ef ddiweddaf, a pha le, ond nid oes neb yn cofio Ei weled yn ystod yr holl ddydd, ac yn awr deua y darganfyddiad poenus fod y Plentyn Iesu wedi ei golli; ni "chawsant Ef."

Ymddengys yn hynod i ni i Joseph a'i fam adael i'r dydd cyfan fyned heibio heb ddeall unwaith nad oedd y Plentyn gyda hwynt. Paham nad oedd y fam yn ofalus i weled pa fodd yr oedd y teithiwr ieuangc yn ymdaro, pa fodd yr oedd yn dal y daith faith? Pa fodd y gallasai beidio myned a'i sylw penaf, a dwyn allan ei phryder dyfnaf fel y siaradai wrthi ar y ffordd? Ond "gan dybied ei fod ef yn y fintai, hwy a aethant



LEIGHTON, BROTHERS.

CHRIST AND THE JEWISH DOCTORS.

daith diwrnod." Ac fel hyn yn fynych yr ydym ni, y rhai ydym yn proffesu bod yn ddisgyblion iddo yn camsynio fel y gwnaethant hwy. Yr ydym yn cymmeryd fod Crist yn y cwmni, yn y teulu, yn yr eglwys, heb fod yn ofalus ein hunain i brofi Ei bresennoldeb, ac i glywed Ei lais. Bydded i ni deithio yn nghwmni y Gwaredwr, pa un bynag ai ar dir neu fôr, a gweddio gartref am iddo Ef aros gyda ni nos a dydd.

Ar y boreuddydd, wele Joseph a Mair yn dychwelyd i Jerusalem, heb gael eu canlyn gan y rhai hyny o'u "cenedl a'u cydnabod" oeddynt wedi eu hudo oddiwrth Grist, ac na ddychwelasant gyda hwynt i gynhorthwyo eu hymchwiliad galarus a phryderus, fel y gwna ein cwmnion yn fynych ein tynu ni oddiwrth Grist, ac anfynych ein harwain yn ol i'w bresennoldeb. Yn mhen tridiau ar ol eu cychwyniad o Jerusalem, treuliwyd y cyntaf ar eu taith tuag adref, yr ail ar eu dychweliad, a rhan o'r trydydd mewn ymchwiliad trwy y ddinas; terfyna eu hofnau gofidus yn narganfyddiad Crist yn y Deml. Yr oedd wedi teimlo hyfrydwch sanctaidd yn y lle cyssegredig, ac yr oedd Ei feddwl yn barod i gasglu yr holl addysg a'r adeiladaeth sanctaidd yr amcanwyd iddo gyfranu i'r addolwr duwiol; felly "arhosodd yn Jerusalem."

Yr oedd ystafell yn y Deml lle yr arferai y doctoriaid neu ddysgawdwyr y Gyfraith bregethu i'r bobl, lle yr holid yr ieuengctid, ac yr oeddynt at eu rhyddid i gynhyg gofyniadau er hyfforddiad pellach. Fel ei gyndad duwiol Dafydd, deisyfai Iesu weled prydferthwch yr Arglwydd, ac ymofyn yn Ei Deml. Yma, yna, y deuir o hyd iddo fel ymofynydd difrifol, a'i glustiau yn agored i addysg, yn ewyllysgar i ddysgu pob peth mae y doctoriaid hyn yn barod i ddysgu. Nid yw y dyb boblogaidd Ei fod "yn dadleu â'r doctoriaid," yn cael ei hawdurdodi gan yr hanes, pa un a sonia am dano "yn gwrando arnynt, ac yn eu holi hwynt." Buasai yn anweddus i'r Nazaread ieuangc deuddeg oed, cyn dechreuad Ei weinidogaeth, i ddadleu â dysgawdwyr y Gyfraith Ddwyfol. Yr oedd yn ddigon iddo Ef i glust-feinio ac ymholi, i wrandaw ac ateb.

Ni hysbysir ni am y gofynion roddwyd i'r dysgawdwyr Iuddewig, ond gallwn fod yn sicr eu bod oll yn deilwng o'r meddwl oedd yn "gyflawn o ddoethineb." Ni ofynodd yr un gofyniad gwag, yr un nad oedd yn deilwng o'r lle a'r gynnulleidfa, yr un nad oedd yn deilwng o atebiad.

Yn hyn mae Efe yn esiampl i'r ieuengctid. Pan yn nghwmni y rhai hyny a allant eu dysgu hwynt, dylai yr ieuengctid geisio am ddoethineb, ac yna trysori i fyny yn ofalus pa beth bynag a allant gael. Mae rhai o'n dynion mwyaf a goreu wedi bod yn nodedig yn eu hieuengctid am eu diwydrwydd fel plant yn casglu addysg oddiwrth bob un a allai ei gyfranu; ac o'r rhai hyny ydynt wedi dyfod yn enwog am ddoethineb Ddwyfol, nid ychydig yn eu bywyd boreuol a fuont yn ofalus i ymwellhau trwy gymdeithas y doeth a'r da, at ba rai y gallasant gael neshad.

Fel hyn y dywedir wrthym, "a synnu a wnaeth ar bawb a'r a'i clywsant ef, o herwydd ei ddeall ef a'i attebion." Onid allai Ei fod wedi gofyn y gofyniadau mwyaf cymhwys am nodwedd y Messiah disgwyliedig, amser Ei ymddanghosiad, a natur Ei lywodrneth? Mae yr effaith gynhyrchwyd trwy "ei ddeall ef a'i attebion," yn cael ei gofnodi yn neillduol; pawb a'r a'i clywsant Ef a "lanwyd â pherlewygfa o edmygedd;" canys felly rhaid i ni gyfieithu iaith gref yr efengylydd. Yn y tymhor boreuol hwn yr oedd y fath amlygiadau o ddoethineb Dwyfol y Gwaredwr, fel pe yr ystyriasid hwy yn deilwng, a arweiniasent i addefiad o'i fawredd, ac a sicrhasent i'r eglwys Iuddewig y fendith o'i addysg yn ystod yr holl flynyddoedd a dreuliodd wedi hyn yn ninodedd Nazareth.

Pan oddiar gynhyrfiad naturiol y dywedodd Mair wrtho Ef, "Fy mab, paham y gwnaethost felly â ni? wele, dy dad a minau yn ofidus a'th geisiasom di," yr oedd yr atebiad a roddodd yn llawn o'r awgrymiad mwyaf pwysig. Pan, gan fabwysiadu y dull yn mha un y sonid am dano fel mab Joseph, y dywedodd Ei fam, "Dy dad a minau a'th geisiasom di," Efe a atebodd gyda phwysfawredd, "Oni wyddech fod yn rhaid i mi fod ynghylch y pethau a berthyn i'm Tad?" neu yn hytrach "yn fy Nhad," gan gyfeirio efallai at y Deml fel "Tŷ Ei Dad."

O'r pryd hwn "Efe a aeth i wared gyd â hwynt, ac a ddaeth i Nazareth, ac a fu ostyngedig iddynt." Mor ddoeth ac addysgiadol yw esiampl Mair, yr hon "a gadwodd yr holl eiriau hyn yn ei chalon!" Yr un modd y dylem ninau "ystyried yn ein calonau" yn ofalus eiriau yr Arglwydd Iesu, pa rai a wnant yn wastad ad-dalu i'n meddyliau gyda ystorfeydd o ddoethineb anfeidrol a gwirionedd achubol.

(Darllener Luc. ii. 40 i'r diwedd.)

## PENNOD VII.

### IOAN FEDYDDIWR.

Yr oedd Ioan Fedyddiwr a Iesu o Nazareth yn perthyn yn agos i'w gilydd, ac wedi eu geni yn agos i'r un amser. Buasai yn naturiol, os heb eu dwyn i fyny gyda eu gilydd, iddynt fod yn fynych yn nghymdeithas eu gilydd. Pe buasai y gyfeillach wedi bod, i ba un y gallasai yr amgylchiadau hyn arwain, mae yn hawdd canfod yr wrthddadl a achosai trwy daflu amheuaeth ar dystiolaeth a roddodd y Bedyddiwr am y Gwaredwr. Yr oedd rhagluniaeth neillduol yn eu cadw oddiwrth eu gilydd o'u mebyd, ac felly yr oedd Ioan yn ofalus i ddyweyd wrth ei ddisgyblion, "Myfi nid adwaenwn ef," hyd nes yr awgrymodd yr Ysbryd Glân iddo ef yr arwyddion trwy ba rai yr adwaenid y Gwaredwr.

Mae yn hyfryd o'r mwyaf i astudio holl nodwedd a gyrfa Ioan. Rhagfynegwyd am dano gan Esaiah, fel "Llef un yn llefain yn yr anialwch, Parottôwch ffordd yr Arglwydd;" a chan Malachi fel cenhad Jehofah wedi ei anfon o flaen Ei wyneb, ac fel Elïas y prophwyd, ysbryd a nerth yr hwn a arddanghosai. Llawenychai llawer ar ei enedigaeth, yr hyn a hysbyswyd yn wyrthiol i Zacharias pan yn y Deml: "A bydd i ti lawenydd a gorfoledd, a llawer a lawenychant am ei enedigaeth ef. Canys mawr fydd efe yngolwg yr Arglwydd, ac nid ŷf na gwin na dïod gadarn, ac efe a gyflawnir o'r Yspryd Glân, ïe, o groth ei fam."

Gwnaeth ei dad Zacharias mewn cân sanctaidd o ddiolchgarwch goffa am ei enedigaeth, a darluniodd y gwaith cyssegredig oedd ganddo i'w gyflawni: "A thithau, fachgennýn, a elwir yn Brophwyd i'r Goruchaf; canys, ti a âi o flaen wyneb yr Arglwydd, i barottôi ei ffyrdd ef; i roddi gwybodaeth iachawdwriaeth i'w bobl, trwy faddeuant o'u pechodau, o herwydd tiriondeb trugaredd ein Duw." Pan yn ieuangc iawn ymneillduodd yn mhell oddiwrth gyrchfanau prysur dynion, oddiwrth olygfeydd temptasiwn, lle, os na syrthiasai i'r drygau oeddynt y pryd hyny yn gyffredin yn mysg dynion, y poenasid ei glustiau â'u geiriau calédion, ac y wylasai ei lygaid yn barhaus fel yr edrychasai ar eu ffyrdd pechadurus. Yn yr anialwch yma y trigodd wedi ymwisgo yn y wisg arwaf, gan fyw

ar yr ymborth symlaf, gan ddal cymmundeb â Duw, a darparu at unrhyw waith oedd ganddo Ef iddo i'w wneyd ar y ddaear. O'r diwedd derbyniodd ei genadwri. Yn nghanol yr unigleoedd anial hyny "daeth gair yr Arglwydd atto ef." Clywodd y llais Dwyfol yn ei gyfarwyddo pa le i fyned, a pha genadwri yr oedd i'w thraethu; ac yn neillduol yn dyweyd wrtho am y bedydd edifeirwch hwnw yr oedd i'w weinyddu i'r tyrfaoedd a ymgynnullent o'i ddeutu.

Nodir ymddanghosiad Ioan i Israel yn dra gofalus, o herwydd mai dyna oedd yr amser pan y dechreuodd y Gwaredwr ar Ei weinidogaeth gyhoeddus, a'r cyfnod pwysicaf o'r un. Dyma oedd y canolbwynt hwnw i ba un y cyfeirid llinellau prophwydoliaeth, ac o ba un y tardda goleuni ac iachawdwriaeth i lewyrchu a lloni pob cenedl a phob oes, a goleuo yr eglwys trwy bob tragywyddoldeb. Pan yr eisteddai Tiberias ar orsedd Rhufain, a phan y cynrychiolai Pontius Pilate lywodraeth yr ymerodraeth fel rhaglaw Judea, tra yr oedd y talaethau cyfagos hefyd o dan y llywodraeth Rufeinaidd; pan yr oedd Caiaphas yn archoffeiriad, ac Annas, ei ddirprwywr, yn llywyddu ar yr urdd hono oedd Duw wedi sefydlu, ond a lygrwyd gan Israel; yna, pan oedd y bobl yn gruddfan o dan ormes Rhufain, ac yn disgwyl am y Gwaredwr a'u gosodai yn rhydd, torwyd ar ddistawrwydd y diffaethwch, gan lais a godai yn uwch uwch, ac a ddeuai bob dydd yn fwy awdurdodol yn ei apeliadau.

Paratoai sefyllfa meddwl y cyhoedd y bobl i wrando ar lais Ioan. Yr oedd yr hwn oedd i gyhoeddi dynesiad agos y deyrnas nefol yn genhad derbyniol i genedl orthrymedig, ac os y ceryddai hwynt yn onest am eu pechodau, eto gwrandawid ef yn amyneddgar, canys yr oedd pechodau y genedl yn awr mor drwm nad allai neb eu gwadu, a "chymmerid ef megis prophwyd," yr hwn a'u ceryddai yn ffyddlawn. Y fath oedd yr argraffiad gynhyrchwyd gan ei ymddanghosiad, ei ddifrifoldeb a'i allu, fel yr oedd "pawb yn meddylied yn eu calonnau am Ioan, ai efe oedd y Crist." Y fath ydoedd y nerth a ddylynai ei alwadau i edifeirwch, a'r adlais a ddeffroai yn nghalonau y bobl, fel y cyffesent eu pechodau, a thrwy ymostwng i'w fedydd proffesent eu hedifeirwch, a'u hawydd am fywyd newydd a sanctaidd.

Gafaelodd y pregethu hyn gan Ioan yn yr holl boblogaeth yn Jeru-

salem, yn holl Judea, a'r holl wledydd o amgylch yr Iorddonen; gadawai y tyrfaoedd eu cartrefi i glywed ei lais rhyfeddol, i gydnabod cyfiawnder ei geryddon, a dyfod yn mlaen fel ymgeiswyr am y ddefod trwy ba un y cyffesent yn gyhoeddus eu heuogrwydd. Hysbysir ni yn arbenigol am y gwahanol ddosbarthiadau y dylanwadid arnynt gan yr apeliadau grymus hyn. Yr oedd yn eu mysg y Phariseaid hunain-gyfiawn, pa rai gyda eu holl ddaioni bostiedig oeddynt ymwybodol o ragrith; y Saduceaid ammheugar, pa rai er eu bod yn eu credo wedi diddymu y byd ysbrydol a'r dyfodol, eto a ufuddhaent i'r rhybudd i ffoi rhag y llid a fydd; y milwyr pa rai a orthryment y bobl, gan eu dychrynu hwynt trwy drawsedd, a chodi terfysgiadau i sicrhau ychwanegiad at eu cyflog; ac i bawb cyflwynai y pregethwr difrifol ei apeliad ffyddlawn, gan wasgu arnynt y ddyledswydd o ddwyn ffrwythau addas i edifeirwch.

O'r diwedd ymddanghosodd Crist, a chafodd Ioan y boddhad hyfryd o ddadgan Ei fawredd a'i waith cyssegredig, fel y llefai allan, "Wele Oen Duw, yr hwn sydd yn tynnu ymaith bechodau'r byd!" Ar y dydd blaenorol yr oedd yr Iuddewon wedi anfon offeiriaid a Lefiaid o Jerusalem i ymofyn am ei hawliau ef ei hun, pa un ai efe oedd y Crist, yr Elïas, neu y "prophwyd" ragfynegwyd gan Moses. Yna efe "a dystiolaethodd, gan ddywedyd, Mi a welais yr Yspryd yn disgyn megis colommen, o'r nef, ac efe a arnosodd arno ef. A myfi nid adwaenwn ef; eithr yr hwn a'm hanfonodd i fedyddio â dwfr, efe a ddywedodd wrthyf, Ar yr hwn y gwelych yr Yspryd yn disgyn ac yn aros arno, hwnnw yw'r un sy'n bedyddio â'r Yspryd Glân. A mi a welais, ac a dystiolaethais mai hwn yw Mab Duw."

Cyflwynodd y pregethwr ffyddlawn yma ei genadwri gyda'r un ffyddlondeb i'r mawr a'r bach. Pan oedd Herod yn byw mewn pechod gwarthus, dynoethodd Ioan ei droseddau, ac ar draul ei ryddid a'i fywyd, gwrthdystiodd yn erbyn y pechod yn mha un yr ymlochai y moethddyn brenhinol, gan ddywedyd, "Nid cyfreithlawn i ti gael gwraig dy frawd;" a thynodd ei ffyddlondeb arno ef ad-daliad chwerw a dïaledd marwol y ddynes bechadurus y condemniai ei throsedd. Fel hyn gorphenodd Ioan ei yrfa, a dygodd i mewn oruchwyliaeth y gras a'r gwirionedd.

(Darllener Matthew iii, 1—12. Ioan i. 15—37.)

## PENNOD VIII.

### BEDYDD A NEILLDUAD Y GWAREDWR.

Yr oedd yr amser wedi dyfod yn awr, pan yr oedd Iesu yn ddeg ar hugain oed, i adael Ei gartref distadl yn Nazareth, a dechreu yn gyhoeddus ar y gwaith mawr y daeth i'r byd hwn i'w gyflawni. Fel y gwelsom, yr oedd Ioan wedi ymddangos ar lanau yr Iorddonen fel Ei Ragflaenor, a hysbysu y tyrfaoedd Ei fod i ymddangos, ac yn awr, pan "y mae llais y briodasferch yn galw am dano, ac y mae holl natur yn ocheneidio am adfeiriad," â allan i gyflawni Ei ymgymmeriad gogoneddus.

Rhyfeddai Ioan, yr hwn a wyddai trwy awgrymiad yr Ysbryd Glân am fawredd yr ymgeisydd newydd hwn am ei fedydd, ei fod Ef yn cynhyg i ymostwng i'r ddefod, a dywedodd, "Y mae arnaf fi eisiau fy medyddio gennyt ti, ac a ddeui di attaf fi?" Felly, "Ioan a warafunodd iddo ef;" a gallwn ddeall y rheswm dros ei wrthodiad pan yr ystyriom nid yn unig israddoldeb Ioan i Iesu, ond arwyddocad y ddefod fel ei gweinyddir i'r tyrfaoedd, canys yr oedd yn awgrymu yr angenrheidrwydd am edifeirwch, ac felly pechadurusrwydd y rhai hyny i ba rai ei gweinyddid.

Nid oedd dim yn natur bur a sanctaidd Iesu i alw am lanhad. Yr oedd y Nazaread hwn yn burach na'r eira ac yn wynach na'r llaeth. Yr oedd bob amser yn caru cyfiawnder, ac yn cashau anwiredd, ac er Ei fod wedi ymgymmeryd â'n natur, yr oedd yn y fath fodd ag i fod yn hollol rydd oddiwrth ei llygredigaeth. Nid ydym yn rhyfeddu dim i Ioan warafun iddo Ef; iddo wahaniaethu rhwng pechaduriaid a'r Hwn nid adnabu bechod, rhyngddo Ef oedd yn llawn o iechyd ysbrydol, a'r rhai hyny yr oedd eu holl ben yn glwyfus a'u calon yn llesg.

Yr oedd gan Ioan yn awr i ddysgu gan Iesu, yr hwn a ddywedodd, "Gad yr awr hon, canys fel hyn y mae yn weddus i ni gyflawni pob cyfiawnder." Yr oedd yn weddus iddo Ef, yn ansyrthiedig fel yr ydoedd, i ymostwng i'r bedydd yma gan Ioan, nid yn unig i wneyd anrhydedd i'w weinidogaeth, ond i ddangos y modd yr oedd wedi gosod Ei hun yn gydwastad â phechaduriaid, ac i gael ei gyfrif gyda throseddwyr. Yr "Arglwydd a roddes arno ef ein hanwiredd ni i gyd;" ac os ydym ni i

fwynhau gwynfyd y dyn i'r hwn ni chyfrif yr Arglwydd iddo anwiredd, rhaid iddo ymostwng i'r darostyngiad yma, gan Ei fod yn fuan wedi hyn i ddioddef drosom ni. Ar y pwngc hwn sylwyd yn brydferth: "Daeth nid i fod yn Waredwr iddo Ei hun, ond i ni. Yr ydym ni yn llawn aflendid a dïenwaediad; mynai Ef gan hyny gael gwneyd i'w gorff perffaith bur yr hyn a fuasai o effeithioldeb i lanhau ein heneidiau anmhur ni, gan wneyd Ei hun fel hyn yn bechod drosom ni, fel y'n gwnelid ni yn gyfiawnder Duw ynddo Ef. Rhodda Ei fedydd Ef rinwedd i'r eiddom ni; Ei weithred olaf, neu yn hytrach Ei ddïoddefaint, ydoedd Ei fedydd â gwaed; Ei un cyntaf, Ei fedydd â dwfr; golcha y ddau y byd oddiwrth eu pechodau."

"Yna efe a adawodd iddo;" ac â Iesu yn ngwydd llawer o dystion i lawr glanau yr Iorddonen, ac fel y saif yn ei ffrwd chwyrn, tywallta Ioan gyda difrifoldeb sanctaidd y dwfr ar Ei ben bendigedig. Deua yn ol i fyny glan yr afon, a phan y mae yn dwys weddio ar Ei Dad nefol, wele! y nefoedd yn ymagor uwch Ei ben, ac fel yr edrycha pob llygaid i fyny, gwelir colommen yn disgyn yn gyflym i'r man ar ba un y penlinia Iesu, ac eheda uwch Ei ben. Nid ydym ni wedi ein gadael fel hwy i ofyn beth a all hyn arwyddo. Gwyddom ni mai yr Ysbryd Glân oedd yn awr yn ymgymmeryd â ffurf weledig, a thrwy arwyddlun cyfaddas yn rhoddi anrhydedd i Grist.

Rhaid fod syndod y dyrfa wrth syllu ar yr olygfa hon wedi mwyhau fel y clywent lais Duw o'r nef yn dywedyd, "Tydi yw fy anwyl Fab, yn yr hwn y'm boddlonwyd." Onid allem ddisgwyl gweled yr holl lu yn awr yn syrthio ger Ei fron gan roddi iddo y parch dyledus i'r Messiah disgwyliedig, ac o hyn allan Ei gydnabod Ef fel eu Harglwydd er gogoniant Duw Dad. Nid oes dim, modd bynag, yn yr hanes i ddangos fod eu calonau ar y pryd hyn wedi eu dwyn i ymostyngiad i Grist. Dychwelodd y golommen ddïeithr i'w chartref, cauodd y nefoedd, diflanodd y llais Dwyfol, ymneillduodd Iesu yn dawel o'r fan, aeth Ioan i'r anialwch, a phob un i'w gartref i ymgymmysgu drachefn â gorchwylion bywyd, ac efallai i anghofio y dystiolaeth a roddodd Duw am Ei Fab.

Fel hyn y neillduwyd Mab Duw yn gyhoeddus i'w waith sanctaidd, ac fel hyn y cyssegrwyd Ef yn offeiriad yn dragywyddol yn ol urdd Mel-

chisedec. Yr oedd wedi Ei neillduo i'r swydd hon yn y nefoedd, ac yn awr rhoddir prawf digonol i'r byd mai Iesu o Nazareth yw y gwir Fessiah.

Yn y trefniad pwysig hyn yr ydym yn cael cydweithrediad personau y Drindod Sanctaidd yn ngwaith ein hiachawdwriaeth. Pan y gofynir am brawf o'r athrawiaeth sylfaenol hon yn ein ffydd Gristionogol, gallwn ateb gydag un o'r hen amddiffynwyr, "Dos, Arian, at lan yr Iorddonen, a gwel y Drindod." Yno mae y Tad, llais yr hwn a glywwn yn llefaru o'r nef; yno mae y Mab, ffurf yr hwn a ganfyddwn yn penlinio mewn gweddi; ac yno mae yr Ysbryd Glân yn disgyn ar ddull colommen. Mae y tri hyn yn un mewn hanfod a bwriad, yn unedig yn y gwaith mawr o'n hiachawdwriaeth.

Mae yn ddyddorol i sylwi ar y ffurf a ymgymmerodd yr Ysbryd Glân pan ddaeth ar yr achlysur hyn yn weledig. Ni chymmerodd ymddangosiad brenhin yr adar, arwyddlun cryfder a mawrhydi, ond un y golommen, darlun o diriondeb a phurdeb. Yr oruchwyliaeth y daeth Efe i'w chychwyn—"goruchwyliaeth yr Ysbryd"—sydd un o burdeb nodedig, ac ewyllys da i ddynion; ac o'r bendithion hyn mae gennym yr arwyddlun cymhwys yn y golommen sanctaidd, pa un a ffurfia yn goron gyfaddas i Dywysog Tangnefedd; a pha le y dylasai y golommen nefol orphwys ond ar y blaguryn cyfiawn yma?

Cadwa miloedd o bererinion yr eglwysi Lladinaidd a Groegaidd goffawdwriaeth flynyddol am fedydd Crist trwy ymweled a'r Iorddonen, ac ymdaflu i'w dyfroedd. Mae un a ymwelodd yn ddiweddar a'r lle yn agos i Jericho, fynychir gan eglwys Groeg,—ffafria y Lladiniaid fan arall yn uwch i fyny yr afon—yn darlunio yr olygfa fel un ddiffygiol iawn mewn priodoldeb a gweddeidd-dra. "Rhuthrai y pererinion," meddai, "ar eu penau i'r ffrwd, gwyr, gwragedd, a phlant, yn un llu anwahaniaethol.... Tywelltid dwfr ar benau rhai mewn efelychiad i fedydd y Gwaredwr.... Mae y glanau yma agos yn unionsyth, ac yn dra lleidiog, tra mae y ffrwd yn rhyfeddol o wyllt, ac yn y man lleiaf yn ddeg trodfedd o ddwfn. Boddwyd dau Gristion a Thwrc, y rhai a anturiasant yn rhy bell, nad oedd modd eu gwaredu, a'r syndod yw na ddarfu llawer mwy brofi yr un dynged, pan yr oedd miloedd yn ymdrochi ar unwaith."

(Darllener Matthew iii. 13—17. Marc i. 9—11. Luc iii. 21—23.)

# PENNOD IX.

## Y TEMPTIAD.

CYMMERODD temptiad Crist le yn union ar ol Ei fedydd, fel y darllenwn yn Marc: "Ac yn ebrwydd y gyrrodd yr Yspryd ef i'r diffaethwch; ac efe a fu yno yn y diffaethwch ddeugain niwrnod yn ei demtio gan Satan; ac yr oedd efe gyd â'r gwŷllt-filod; a'r angylion a weiniasant iddo." Cymhellodd cynhyrfiad cryf yr Ysbryd Ef i ymneillduaeth, a gallwn ddeall yn rhwydd, y carasai megis Ioan, yr hwn oedd wedi hir drigo mewn unigedd, gael tymhor o fyfyrdod tawel cyn iddo ddechreu ar Ei waith cyhoeddus. Nid ydym i dybied iddo Ef, yr hwn a'n dysga i weddio "Nac arwain ni i brofedigaeth," fyned allan yn awr i'r diben o brofi ei nerth mewn brwydr â Satan; aeth ar lwybr dyledswydd, ac fel hyn ymosodwyd arno gan y gelyn.

Mae astudiaeth y rhan yma o hanes y Gwaredwr yn llawn o'r addysg werthfawrocaf. Dengys i ni y modd y mae yr Ysbryd drwg a maleisus hwnw, tywysog y cythreuliaid, yn myned o amgylch gan geisio y neb a allo ei lyngcu, ac nad oes neb yn rhy sanctaidd neu rhy gryf i fod yn wrthddrychau ei ymosodiad. Dysga i ni hefyd y modd y dylem wrthsefyll yr ymosodiadau hyny, yr arfau sanctaidd a ddylem ddefnyddio, a'r modd y dylent gael eu trin; tra y calonoga i ni obeithio y profwn o dan Grist ein harweinydd yn fuddugoliaethus.

Man cyntaf y temptiad ydoedd yn debygol anialwch Sinai, yn mhell i du deheu Judea; canys yno, ac nid yn niffaethwch Judea, y cyfarfyddai a'r "gwŷllt-filod," gan ba rai y cylchynid ef. Fel hyn y gwelwn Ef yn ymweled a'r fan lle y rhoddwyd y Gyfraith; ac megis Moses y Deddfroddwr, ac Elïas y diwygiwr, yn ymprydio am ddeugain niwrnod a deugain nos. Fel y gweision enwog hyny i'w Dad, cynhaliwyd Ei fywyd yn wyrthiol yn ystod yr ympryd maith yma; ac fel Daniel, cadwyd Ef yn wyrthiol rhag creaduriaid ysglyfaethus, gan ba rai y cylchynid Ef, yn ol yr addewid, "Ar y llew a'r asp y cerddi, y cenaw llew a'r ddraig a fethri."

Nid oes eisieu tybied i'r temptiwr ymgymmeryd ag un ffurf weledig

fel y dynesai yn awr at Fab Duw. Gallasai ysbryd Crist fod yn ymwybodol o hono, clywed ei holl apeliadau, a'u hateb hwynt, heb iddo gymmeryd ffurf ddynol, neu unrhyw ffurf, yn union fel nad yw y Cristion yn awr heb wybod am ei ddichellion pan y mae yn prysur ddenu yr enaid gyda ei hudoliaethau. Digon yw i ni weled pa fodd y temptiwyd Ef; gan nad allai gydymdeimlo â ni, oni bai Ei fod "wedi ei demptio ym mhob peth yr un ffunud â ninnau," ac nis gallasai fod yn Waredwr i ni, oni bai Ei fod "heb bechod."

Yr oedd y demptasiwn gyntaf i gynhyrfu anymddiried yn ngofal rhagluniaethol Ei Dad nefol, ac i wneyd gweithred trwy ba un y profid yr anymddiried hyny: "Os Mab Duw wyt ti, arch i'r cerrig hyn fod yn fara." Teimlai yn awr y newyn, ac efallai lluddedrwydd Ei ympryd maith, a gobeithiai y temptiwr y gwnai yn ewyllysgar unrhyw beth i dori Ei chwant, heb aros am weinyddiadau cyffredin rhagluniaeth Ddwyfol. Apeliodd Satan at reswm Crist. Os oedd yn bob peth a broffesai, rhaid fod ganddo allu Dwyfol, ac yn awr digwyddodd achlysur cyfaddas iddo sefydlu Ei hawliau, ac ar yr un pryd i ddiwallu Ei natur newynllyd. Pe llwyddasai yr ymresymiad, methasai gwaith y Messiah ar ei gychwyniad cyntaf. Syrthiasai trwy wrthryfel; neu, pe methasai hyn, llwfrhasai y diafol galon y Gwaredwr trwy amheuaeth am y daioni a'r ffyddlondeb Dwyfol. Cyfarfyddir y twyll resymiadau hyn gan wir ac anffaeledig air yr Ysgrythyr: "Ysgrifenwyd, Nid trwy fara yn unig y bydd byw dyn, ond trwy bob gair a ddaw allan o enau Duw." Llefarwyd yr ymadrodd yn Deut. viii. 3, gan Moses, i ddangos gofal Duw dros Israel, ac nad oedd wedi Ei gyfyngu i foddion cyffredin mewn trefn i gynhal bywyd, pa un a all gynhal trwy unrhyw offerynoliaeth a ddewisa benodi. Fel hyn y clwyfir y gelyn gan gleddyf yr Ysbryd. Newidir lleoliad y temptasiynau hyn yn awr i Jerusalem a'r Deml sanctaidd.

Na fydded i ni gasglu oddiwrth yr ymadrodd "yna y cymmerth diafol ef," ei fod yn cael ei oddef i arferyd unrhyw allu annheg ar berson ein Harglwydd; neu fel y mae rhai wedi tybied, iddo gael ei oddef i'w drosgludo trwy yr awyr. Y golygiad mwyaf syml a naturiol yw, "iddo gael ei gynhyg fod iddynt fyned i weled y ddinas sanctaidd a'r Deml; a phan yno y dywedwyd yn mhellach, mai y pen yw y man goreu oddiar ba un y

ceir golwg ar ogoniant Teml Duw." Yma, ar aden, yn hytrach na "phinacl," yn crogi uwch ben, yn debygol, y dyfnder mawr hwnw o ba le yr oedd o'r braidd yn ddiogel i edrych i lawr, y profodd Satan y Gwaredwr mewn dull newydd.

Os methodd y demptasiwn i anymddiried, efallai y gellir anog Crist i ryfyg. Wrth weled y pwysigrwydd a gyssylltai Crist â'r Ysgrythyrau, ceisia Satan ddod a hwynt yn awr o'i blaid, "ac a ddywedodd wrtho, Os mab Duw wyt ti, bwrw dy hun i lawr; canys ysgrifenwyd, y rhydd efe orchymyn i'w angylion am danat; a hwy a'th ddygant yn eu dwylaw, rhag taro o honot un amser dy droed wrth garreg." Cymmerir y geiriau hyn o Psalm xci., ond nid ydynt yn cael eu dyfynu yn deg. Trwy adael allan y geiriau pwysig "yn dy holl ffyrdd," tywyllai Satan y gwirionedd mawr y gallwn obeithio am y cadwraeth Dwyfol, yn unig fel yr ydym yn tramwyo y ffyrdd hyny ydynt wedi eu hagor o'n blaenau yn y gair Dwyfol a rhagluniaeth, ac yn mha rai yr awdurdodir ni i obeithio am y presennoldeb a'r ffafr Dwyfol. Drachefn, unig arf Crist yw cleddyf yr Ysbryd. Dyfyna iaith Moses: "Na themtiwch yr Arglwydd eich Duw." Yn y geiriau hyn dysgir ni i beidio penderfynu ar ryw ddull neillduol o brofi y gallu Dwyfol, a'n cyfran yn y cariad Dwyfol. Trwy brawfion o'r fath, gallwn gyflawni yr ynfydrwydd mwyaf, dwyn arnom yr euogrwydd mwyaf, a syrthio i anobaith dwfn, os nad i ddinystr.

Newidir eto leoliad y demptasiwn "i fynydd tra uchel," safle yr hwn ni chofnodir. Cyfeiria traddodiad at fynydd uchel a serth yn agos i'r Môr Marw, a'r hwn a elwir yn Quarantania, er cof am yr ympryd deugain niwrnod. Arddelwir hawliau mwy tebygol yn ffafr un o uchelfeydd Horeb, o ba le y gallasai y temptiwr ddangos yn nghyfeiriad Persia yn y dwyrain a'r dehau, yr Aipht yn y de-orllewin, Parthia yn y gogledd, a Rhufain yn y gorllewin. Gan gyfeirio at yr holl deyrnasoedd hyn o'r byd, twyll ymhonai tad y celwydd eu bod wedi eu rhoddi iddo ef i'w cymhwyso fel y mynai, ac addawodd hwynt yn ddrygionus i Grist os cydnabyddid ei awdurdod. Ow! gynifer sydd yn credu yn honiadau yr un drwg, ac yn barod i syrthio i lawr a'i addoli ef, a gwneuthur ei arch, am ran fach yn unig o drysor y byd hwn!

Mae y mawreddigrwydd mwyaf yn null y Gwaredwr o wrthsefyll

trahausder haerllug y demptasiwn hon. Tywynodd rhai pelydrau o'i ogoniant Dwyfol yn awr pan y dywedodd, "Dos ymaith Satan, yn fy ol i." Yr ydym yn edmygu y digter sanctaidd hyn, yr anoddefgarwch hyn â chabledd y creadur syrthiedig a hawlia yr anrhydedd dyledus yn unig i'r Creawdwr, a'r llymder ofnadwy hyn gyda pha un y cyfeirir mellt y digofaint Dwyfol yn erbyn balchder y diafol. Mae y Gwaredwr wedi ei arfogi eto â chleddyf yr Ysbryd: "Ysgrifenwyd, yr Arglwydd dy Dduw a addoli, ac ef yn unig a wasanaethi."

Yn awr ymneilldua y temptiwr wedi ei wanhau a'i ddyrysu o'r frwydr anghyfartal, ond nid yw ond "dros amser" yn unig, a deua yr angylion da, gan ba rai y gwelwyd Iesu yn yr ymdrechfa faith, i weini iddo Ef. Arlwyant ford iddo yn yr anialwch, ac fel gweision gweiniasant arno, a thalasant warogaeth iddo, gan ddangos fel hyn y boddhad sanctaidd gyda pha un y buont dystion o'r fuddugoliaeth gyntaf hon ar yr un drwg.

Rhydd y rhan yma o hanes y Gwaredwr i ni yr addysg mwyaf difrifol a phwysig. Geilw arnom i godi a gweddio rhag myned o honom i brofedigaeth, fel ag i ymollwng i ddichellion ein gelyn profedig a chyfrwys, yr hwn sydd elyn ein hiliogaeth, gan ein bod yn ei weled yma yn y frwydr mwyaf penderfynol â'r Gwaredwr. Na fydded i ni gael ein sïo i ddifaterwch, nac ymchwyddo gan falchder, fel pe na byddai y fath elyn i ymosod arnom, neu fel pe y gallem yn rhwydd droi yn ol ei holl ymosodiadau.

Os ydym yn credu yn Nghrist, ac os ydym Ei wir a'i ffyddlawn ganlynwyr, na fydded i ni ddisgwyl rhyddid perffaith oddiwrth ymosodiadau Satanaidd Rhaid i ni fod wedi ymwisgo â holl arfogaeth Duw, a bod ar wyliadwriaeth wastadol. Yn neillduol dylem ddysgu oddiwrth yr hanes hyn, mewn adegau o ddigalondid a blinder, i ymladd yn erbyn pob anymddiried yn y daioni Dwyfol, a gofal rhagluniaethol; mewn adegau o lwyddiant pan yn ymwybodol o gryfder moesol, dylem fod yn wyliadwrus rhag rhyfyg a hunan-ymddiried, ac ar bob adeg yn ochelgar rhag cariad at y byd, ei feddiannau, ei rwysg, a'i wagedd. Dysga yr hwn a fuddugoliaethodd ar yr ymosodiad yma, a phob un arall o eiddo yr un drwg, i ni i ofyn y gofyniad difrifol, "Pa lesâd i ddyn, os ynnill efe yr holl fyd, a cholli ei enaid ei hun?"

**(Darllener Matthew iv. 1—11. Marc i. 12, 13. Luc iv. 1—13.)**

## PENNOD X.

### Y RHAGARWEINIAD I EFENGYL IOAN.

RHYDD Matthew a Luc i ni achyddiaeth Iesu Grist, i'r diben o ddangos i ni Ei fod yn ol y cnawd yn fab Abraham ac hefyd yn fab Dafydd, gan brofi fel hyn gyflawniad yr addewidion Dwyfol i'r cyndadau enwog hyn, a sefydlu Ei hawliau i ffydd yr Iuddewon. Cymmerwyd yr achau hyn o'r cofnodion hanesyddol gedwid yn y Deml, a rhoddir hwynt yn ol dull ysgrifau cyffelyb a werthfawrogir yn uchel gan y genedl, er yn gwahaniaethu mewn rhyw ystyrion oddiwrth ein dull ni o gofnodi achau. Maent wedi achosi peth dadl, a galw am rai nodiadau eglurhaol i symmud anhawsderau, ond y mae gwrthddadleuon gwrthwynebwyr oll wedi eu dadwneyd yn foddhaol.

Egyr yr apostol Ioan ei Efengyl trwy lefaru am Grist yn ol Ei natur Ddwyfol, ac os yw croesddadleuwyr wedi gwrthwynebu i'w achyddiaeth fel dyn, llawer mwy y maent wedi wrthwynebu ar yr hawliau honir yn Efengyl Ioan. Rhaid i ni feddwl am Grist fel y cyflwynir Ef i ni yn y gair ysbrydoledig, a derbyn heb ragfarn bechadurus y dystiolaeth mae Duw wedi roddi am dano Ef. Mae gennym yma yr honiad mwyaf dïeithriad o Dduwdod goruchel Crist, ac ar wirionedd yr athrawiaeth hon mae Cristionogaeth oll yn sylfaenedig. Yr hyn a hona yr apostol yma yw yr hyn a ddysga yr holl Ysgrythyr Sanctaidd, ac nid oes dim tir canol rhwng addefiad o'r athrawiaeth fawr hon a'r casgliad cableddus nad oedd Crist hyd yn oed ddim yn ddyn da, ond twyllwr y bobl, gan yr hawlia iddo Ei hun yr un anrhydedd goruchel ag a briodolir iddo Ef gan Ei apostol ysbrydoledig.

Fod "y Gair" yn cael llefaru am dano yma fel Duw, yn yr ystyr mwyaf dyrchafedig yn mha un y gall iaith briodoli anrhydedd Dwyfol i'r Creawdwr, raid fod yn eglur i bob ymholydd diragfarn am y gwirionedd. Caria yr ymadrodd "yn y dechreuad" ein meddyliau yn ol i'r tragywyddoldeb a aeth heibio, ac mor bell ag y gall y meddyliau hyny

deithio i'r miliwnau o oesau ydynt wedi ymlithro, yr oedd y "Gair gyd â Duw, a Duw oedd y Gair." Rhoddir y syniad mawreddog a gorthrechol yma mewn ffurf estynedig yn y Diarhebion (viii. 24—26): "Pryd nad oedd dyfnder y'm cenhedlwyd; cyn bod ffynhonau yn llawn o ddyfroedd. Cyn sylfaenu'r mynyddoedd, o flaen y bryniau, y'm cenhedlwyd; cyn gwneuthur o hono ef y ddaear, na'r meusydd, nac uchder llwch y byd."

Er dangos i ni yr ystyr oruchel yn mha un yr honir yma Dduwdod y Gair Tragywyddol, darlunir Ef fel Creawdwr pob peth, a Ffynhonell pob bywyd crëedigol: "Trwyddo ef y gwnaethpwyd pob peth; ac hebddo ef ni wnaethpwyd dim a'r a wnaethpwyd." Heb ymfoddloni ar yr honiad cyffredinol o'i allu creadigol, dywed yr apostol, "na wnaethpwyd un dim" hebddo Ef. Nid y greadigaeth ddefnyddiol yn unig, fel a ddarlunir yn agoriad yr Hen Destament, ond y mae yr holl fodau ysbrydol, angylaidd a dynol, o hono Ef. O hono Ef hefyd y deillia pob goleuni, goleuni dealltwriaeth angylaidd yn y radd gyntaf o greaduriaid, rheswm yn y dyn cyntefig, a datguddiad yn ngwahanol raddau ein hanes.

Os derbyniwn yr arddanghosiad yma o fawredd y Gwaredwr, yr ydym yn barod i briodoli yr holl ogoniant dyledus iddo Ef fel y Gwaredwr. Gall Efe, yr hwn yn gyntaf a roddodd fywyd i angylion a dynion, adferu bywyd i ddyn pan y mae "yn farw mewn camweddau a phechodau." Gall Efe, bywyd yr hwn yw gwir ffynhonell ein dealltwriaeth, "oleuo pob dyn a'r y sydd yn dyfod i'r byd," er mai "tywyllwch a orchuddiai'r ddaear, a'r fagddu y bobloedd." Ni feddwn un anhawsder i weled pa fodd y gallasai gyflawni holl waith prynedigaeth, cyfranu gwerth anfeidrol i'w ufudd-dod, ac effeithiolrwydd aberth perffaith i'w ddïoddefiadau a'i farwolaeth, fel mai gyda chywirdeb y sicrheir, "cynnifer ag a'i derbyniasant ef, efe a roddes iddynt allu i fod yn feibion i Dduw, sef i'r sawl a gredant yn ei enw ef; y rhai ni aned o waed, nac o ewyllys y cnawd, nac o ewyllys gŵr, eithr o Dduw."

Mae y gwirionedd mawr ddysgir fel hyn gan yr apostol yn unol â thystiolaeth yr holl air Dwyfol am Grist, pa un a briodola iddo Ef enwau, priodoleddau, a gwaith Duw, a'r addoliad dyledus yn unig i'r Tragywyddol a'r Goruchel. Fel hyn mae Crist, yr hwn a elwir yn Dduw gan Ioan,

yn cael Ei alw mewn Ysgrythyrau ereill "y Duw mawr," "y Duw cadarn," "y gwir Dduw," "yr unig ddoeth Dduw;" a gelwir Ef wrth yr enw anghyfranogol Jehofah. Priodolir iddo Ef y priodoleddau Dwyfol,—tragywyddolrwydd, mae "ei fynediad allan o'r dechreuad er dyddiau tragywyddoldeb;" anghyfnewidiolrwydd, canys y mae "ddoe a heddyw yr un, ac yn dragywydd;" hollalluowgrwydd, Efe yw "yr Hollalluog;" hollbresennoldeb, canys dywed "yr ydwyf fi gydâ chwi bob amser hyd ddiwedd y byd." Mae yn gwneyd gwaith Duw, creu, a chynhal pob peth trwy air Ei nerth; cyflawna waith prynedigaeth dragywyddol drosom ni; gwneir gwyrthiau trwy Ei air ac yn Ei enw; mae gan Fab y Dyn awdurdod i faddeu pechodau; Efe a'n hadgyfoda y dydd diweddaf; a bernir y byd gan yr Arglwydd Iesu Grist. Am yr holl resymau hyn, rhoddir addoliad goruchel iddo Ef gan holl angylion Duw, a chan yr holl eglwys o ddynion gwaredigol.

Yr ydym yn derbyn y gwirionedd mawr yma ar awdurdod y gair ysbrydoledig. Tardda gwrthddadleuon anffyddiaeth yn erbyn yr athrawiaeth sylfaenol hon i Gristionogaeth oddiar y balchder calon hwnw a broffesa wrthod prawf tystiolaeth, neu oddiar awydd i wybod mwy nag a farnodd Duw yn angenrheidiol i ddatguddio i'n ffydd. Mae llawer o'r wrthddadl yn erbyn goruchel Dduwdod ein Harglwydd yn cael ei dal trwy gamddeall neu gamddarlunio athrawiaeth fawr y Drindod, o ba un y mae yn rhan. Yr ydym yn siarad am dri o Bersonau Dwyfol yn y Duwdod, ond nid am dri o fodau gwahanol, ac os cedwir y gwahaniaeth hanfodol yma, syrthia gwrthddadl y gelynion mwyaf cyfrwys i'r llawr. Pe gwybuasem am y natur ddynol yn unig trwy dystiolaeth, gallasem wrthod y dystiolaeth hono yr un modd, ar sail yr anhawsderau sydd yn nglŷn a hi.

Bydded i ni, gan hyny, yn lle rhoi ffordd i'r gwrthddadleuon hyny ydynt yn codi o ragfarn bechadurus a balchder Satanaidd, alw Iesu yn Arglwydd, er gogoniant Duw Dad, gan ymuno yn yr anthem hono o fawl genir gan yr eglwys ar y ddaear ac yn y nef: "I'r hwn sydd yn eistedd ar yr orsedd-faingc, ac i'r Oen, y byddo y fendith, a'r anrhydedd, a'r gogoniant, a'r gallu, yn oes oesoedd."

(Darllener Ioan i. 1—11.)

## PENNOD XI.

### WELE OEN DUW!

TRA yr oedd yr Iesu yn goddef temptasiynau Satan, yr oedd y Bedyddiwr yn tystiolaethu am dano Ef fel y gwir Fessiah. Fel y terfynai y deugain niwrnod temptasiwn, rhoddwyd cyfleustra tra phwysig arall i Ioan i roi ei dystiolaeth am dano Ef ar yr hwn yr oedd yr Ysbryd Glân wedi disgyn, a gogoniant yr hwn a ddadganwyd gan y Tad. Anfonwyd cenhadon, yn gynhwysedig o offeiriaid a Lefiaid, o'r Sanhedrim yn Jerusalem, i sicrhau ganddo ef ei hun beth oedd ei hawliau, a pha un a broffesai fod y Messiah hwnw am ymddanghosiad yr hwn y disgwylid yn gyffredinol. Yr oedd y parch a ddanghoswyd fel hyn i'r Bedyddiwr, a'r dyb gyffredinol yn mysg y bobl am ei genadwri Ddwyfol, yn gwneyd yn annichonadwy i'w ddadganiad, beth bynag a fyddai, gael ei dderbyn gyda difaterwch, gan nas gallesid ei esgeuluso yn ddiberygl. Yr oedd yr awdurdodau uwchaf hyn yn yr eglwys Iuddewig yn rhwym i dderbyn gyda phob dyledus sylw yr atebiad a geisiasant, ac o'r hyn lleiaf ei bwyso yn ofalus pan ei dygid yn ol iddynt gan eu cenhadon penodedig eu hunain.

Mewn atebiad i'w gofyniadau, dysgodd y gwŷr hyn o enau Ioan, mai nid efe oedd y Crist, na'r Elïas, na'r prophwyd hwnw; ond "llef un yn gwaeddi yn y diffaethwch, Uniawnwch ffordd yr Arglwydd." Efe oedd rhagflaenor y Messiah, yr hwn oedd wedi dyfod eisoes, ac wedi sefyll yn eu mysg, er nad adwaenasant Ef. Yr oedd Ef wedi ymadael am ychydig, ond dychwelai yn ebrwydd. Trannoeth gwelwyd Iesu yn rhodio yn agos i Bethabara, ac yn dynesu at Ioan, yr hwn yn awr i symmud pob amheuaeth oddiar ymofynwyr cywir, a phob esgus oddiar anghredinwyr, a lefodd, "Wele Oen Duw, yr hwn sydd yn tynu ymaith bechodau'r byd." Nid oedd Ioan ddim yn apostol i Grist, nac yn bregethwr Ei efengyl, ond wrth draethu y geiriau pwysig hyn rhoddodd elfenau holl bregethiad yr efengyl. Arddengys wrthddrych mawr ein ffydd yn yr Oen hwnw "a laddwyd er dechreuad y byd," a gysgodwyd o dan yr oruchwyliaeth Iuddewig gan yr aberth dyddiol a'r cymmod blynyddol, ac a ddarluniwyd gan y prophwyd Esaiah, yr hwn a ddywedodd am dano Ef: "Efe a

othrymmwyd, ac efe a gystuddiwyd, ac nid agorai ei enau; fel oen yr arweinid ef i'r lladdfa, ac fel y tau dafad o flaen y rhai a'i cneifiai; felly nid agorai yntau ei enau."

Pe buasai llywodraethwyr yr Iuddewon yn ddidwyll yn eu hymofyniadau am y gwirionedd, ac yn barod i groesawu y Messiah, nis gallasent aros mewn anwybodaeth ar ol y dystiolaeth eglur a phenderfynol hon i Ioan, yr hwn a welodd ac a dystiolaethodd mai y person sanctaidd hwn oedd Mab Duw. Ofer oedd iddynt hwy, fel y mae i neb yn ein dydd ni, i broffesu awydd i wybod y gwirionedd, os oedd eu meddyliau wedi eu dallu gan ragfarn, neu wedi eu chwyddo i fyny gan falchder. Llawer y sydd a broffesant geisio am y Gwaredwr, a galaru am eu hanallu i gyrhaedd at y gwirionedd, a allant gael allan yr achos o'u methiant yn eu diffyg o gywirdeb, o ostyngeiddrwydd, ac o benderfyniad difrifol i ganlyn y goleuni sydd wedi ei daenu ar eu llwybr.

Yr oedd meddyliau ereill wedi eu paratoi yn drugarog i gydnabod hawliau Iesu o Nazareth. Yr oeddynt wedi croesawu addysgiadau Ioan, ac wedi dysgu oddiwrtho i ffoi rhag y llid a fydd, a disgwyl am ymddanghosiad y Gwaredwr, ac fel y cyflwynwyd gwrthddrych ffydd uwch—yr uwchaf—yr oeddynt yn barod i'w reosawu. Yn ddiolchgar am yr oll oeddynt wedi ei ddysgu gan Ioan, yr oeddynt yn barod i adael Ioan a myned at Iesu. Nid cynt y nodwyd y Messiah allan, nag y cyfarchodd y ddau ddisgybl hyn Ef, Andreas a Ioan, fel eu Hathraw newydd, a thrwy Ei ganiatâd, canlynasant Ef i'w drigfa isel, ac arosasant gydag Ef y gweddill o'r dydd hwnw a'r nos. Ddynion dedwydd! mor fawr eu braint, mewn trigfa pa mor isel bynag, i fod yn nghwmni yr Hwn oedd wedi dyfod o'r nef i fod yn Oleuni y Byd a'i Waredwr, ac i ddysgu ganddo Ef am y Tad, a'r genadwri ar ba un y daeth at Ei bobl! O'r dydd hwnw yr oeddynt yn wir ddisgyblion, a buont ffyddlawn hyd angeu.

Ymleda teyrnas Duw fel lefain wedi ei roi mewn clap toes, yr hwn a ymdaena o ran i ran nes y bydd yr oll wedi ei lefeinio. Nis gall newyddion da y deyrnas hono aros yn guddedig yn meddyliau y rhai hyny a'i derbyniant, ond rhaid iddynt fyned yn llawen o galon i galon. Felly yr oedd yn y dechreuad yma yr Efengyl. Andreas "yn gyntaf a gafodd ei frawd ei hun Simon, ac a ddywedodd wrto, Nyni a gawsom y Messias, yr

hyn o'i ddeongl yw, y Crist. Ac efe a'i dug ef at yr Iesu. A'r Iesu wedi edrych arno ef, a ddywedodd, Ti yw Simon mab Jona; ti a elwir Cephas, yr hwn a gyfieithir, Carreg." Felly y mae yn awr drydydd disgybl, yr hwn a ga gan Grist yr enw newydd Cephas yn Syriaeg, a Phedr yn Groeg—carreg—gan gyfeirio efallai at y cryfder a'r gwroldeb hwnw yr oedd wedi hyny i'w arddangos yn ngwasanaeth ei Feistr.

Ymadawa yr Iesu yn awr o Bethabara, gan fod amcan mawr Ei daith wedi ei gyrhaedd. Mae wedi ei fedyddio gan Ioan, wedi ei eneinio yn gyhoeddus fel y Messiah, mae wedi profi Ei allu ar y temptiwr, ac wedi ei gyhoeddi gan Ioan fel Oen Duw. Dychwelai gan hyny i Galilea, taith o oddeutu haner can' milldir. Mae yn debyg mai yn Bethsaida y galwodd yr Athraw newydd hwn Philip, un o'i thrigolion, i'w ganlyn Ef; ac yn yr amgylchiad hwn, fel yn mhob un y rhoddodd allan Ei allu, yr ydym yn canfod Ei berffaith lywodraeth ar galonau dynion. Felly yn awr, mor fynych y galwa yn effeithiol y rhai hyny na wyddent o'r blaen ddim am Ei hawliau, neu oeddynt wedi eu gwirfoddol wrthod hwynt, a thyna hwynt ato ei hun â rheffynau cariad. Yma drachefn yr ydym yn gweled y modd y mae y rhai hyny a elwir fel hyn yn gwahodd ereill i gyfranogi gyda hwynt yn ngwybodaeth o Grist. "Philip a gafodd Nathanaël, ac a ddywedodd wrtho, Cawsom yr hwn yr ysgrifenodd Moses yn y gyfraith, a'r prophwydi, am dano, Iesu o Nazareth, mab Joseph."

Yn atebiad Nathanaël, "A ddichon dim da ddyfod o Nazareth?" yr ydym yn gweled fel y mae meddwl pur mewn perygl i gael ei wyrgamu gan ragfarn; ond yr ydym yn gweled hefyd pa fodd y gwna meddwl felly chwilio yn ddyladwy hawliau y gwirionedd trwy ba un y gellir cywiro y rhagfarn hyny. Mor ddoeth a da oedd y gwahoddiad, "Tyred a gwel." Bydded i ni ddyfod a gweled Iesu, a byddwn yn barod gyda Nathanaël i ddyweyd, "Rabbi, ti yw Mab Duw; ti yw Brenhin Israel." Yr oedd tystiolaeth Crist i Nathanaël yn dra chyfaddas i'w dduwioldeb gwresog. Mewn rhyw fan neillduedig, o dan y ffigysbren, gwelodd yr Arglwydd ef yn ei weddi daer, lle nad allai llygad dynol yn unig ei ganfod; ac fel y cafodd Jacob yr enw Israel oddiwrth ei ymdrechion difrifol mewn gweddi, felly yr oedd Nathanaël yn "Israeliad yn wir."

(Darllener Ioan i. 19—51.)

## PENNOD XII.

### Y WYRTH YN CANA.

YN cael ei ganlyn gan y pum disgybl, Ioan ac Andreas, Philip, Nathanaël, a Phedr, dychwela y Messiah yn awr am ychydig amser i Galilea, a chyrhaedda i'r dref fechan Cana, nid yn mhell o Nazareth. Esgyna y teithiwr Cristionogol, yr hwn a ymwela a'r lle yma, sydd mor gyssegredig trwy ei gysylltiadau fel man dechreuad gwyrthiau y Gwaredwr, i'r bryn neillduedig ar yr hwn y safai, a gwel y tai isel, pa rai a allasent gael eu haneddu o fewn yr haner can' mlynedd diweddaf, ond nid oes yr un yn aneddadwy yn awr. Gwel gofarwyddion o'r wyrth fawr gyflawnwyd yma, canys y mae llawer o hen ddyfrgistiau yn gorwedd yn mysg adfeilion adeiladau cerig calch, a darnau o ddyfrlestri mewn cyflawnder.

Yma cyfarfydda ein Harglwydd drachefn â Mair Ei fam a'i frodyr, a chan nad ydym yn darllen dim rhagor am Joseph, tybir iddo farw ryw bryd cyn y wledd briodas hon. Galwyd y disgyblion a ganlynasant ein Harglwydd hefyd i'r briodas. Dyma lle yr oedd cynnulliad teuluaidd dedwydd, ac yr oedd nid yn unig y gwahoddedigion, ond yn debygol y briodferch neu y priodfab yn perthyn i Iesu. Mae priodas, sylfaen ein perthynasau teuluaidd, sefydlwyd gan Dad dyn pan eto yn ei burdeb dilwgr yn Eden, yn ordinhad a gefnogodd y Gwaredwr trwy Ei bresenoldeb, ac a anrhydeddodd trwy ei gwneyd yn achlysur Ei wyrth gyntaf. Mor ryfedd mae gwirionedd Crist wedi ei gadw gan y rhai hyny a broffesant fod Ei raglawiaid, "yn gwahardd prïodi, ac yn erchi ymattal oddiwrth fwydydd y rhai a greodd Duw i'w derbyn trwy roddi diolch!"

Mae gwledd priodas Ddwyreiniol, fydd yn parhau yn fynych am saith niwrnod, yn dwyn traul fawr ar deulu tlawd, ac yn fynych yn dyhysbyddu ei adnoddau, a gallai mai presennoldeb ychydig o ymwelwyr ychwanegol a achosodd y prinder a alwodd am y wyrth hon. Mae yn amlwg fod gan y fam forwynol y fath wybodaeth o fawredd Crist ag a'i harweiniai i bwyso ar Ei allu gwyrthiol yn y cyfyngder i ba un y darostyngwyd y teulu tlawd yma yn ddisymwth, a chymhellodd ei hyder yn Ei ddaioni y sylw, "Nid oes ganddynt mo'r gwin." Mae yr apeliad hyn

wedi cael ei ddwyn yn mlaen fel prawf fod y Gwaredwr wedi arddangos yn flaenorol Ei allu gwyrthiol; ond y mae gwendid y rhesymiad yma yn amlwg oddiwrth y ffaith mai dyma oedd "dechreu gwyrthiau" Crist.

Yr oedd y genedl Iuddewig wedi bod yn gynhefin a'r arwyddion a'r rhyfeddodau hyn o amser Moses hyd ddyddiau Daniel, i'r hwn y cyflawnwyd y wyrth ddiweddaf yn yr hanesiaeth Iuddewig. Gwnai cenadwri Ddwyfol Moses, a pharhad yr oruchwyliaeth hono a ddygodd i mewn, y dystiolaeth o'r natur anghyffredin yma yn anghenrheidiol i ddiogelu ffydd y bobl, a'r un mor angenrheidiol oedd y fath dystiolaeth i sefydlu hawliau Iesu fel y Messiah. Mae gelynion addefedig datguddiad wedi haeru fod "gwyrthiau yn eu natur eu hunain yn anghredadwy." Dyma oedd iaith Hume, yr hwn a ddywedodd, "Mi a wn trwy brofiad fod deddfau natur yn aros yn ddigyfnewid; ac y mae genyf fwy o reswm i feddwl y gall dynion roi camdystiolaeth, na fod natur wedi cyfnewid." Mewn atebiad i'r twyll resymiad yma, gellir rhesymu fod y rhan fwyaf o'n gwybodaeth yn pwyso ar dystiolaeth, a phur ychydig ar brofiad gweithredol. Mae ein cydnabyddiaeth â rhanau pellenig y ddaear na welsom, ac a digwyddiadau hanesyddol cyn ein hamser, yn tarddu yn unig oddiar dystiolaeth, llais pa un a gydnabyddwn llawn gymmaint ag addysgiadau ein profiad.

Dywedodd yr Iuddewon ar ol hyn wrtho Ef a honai fod y Crist, "Pa arwydd yr wyt ti yn ei ddangos i ni?" a chwrddodd a'r hawliad teg hyd yn oed cyn iddo gael ei fynegu. Collodd mam ein Harglwydd yn eglur pan yr awgrymmodd fod yr amser wedi dyfod iddo Ef wneyd gwyrth. Gwnai y rhai ydynt ar ol hyn wedi dysgu fod Mair yn cydgyfranogi â'r Gwaredwr yn ngweinyddiad bendithion Ei deyrnas rasol, yn dda i fyfyrio y geiriau hyny trwy ba rai y condemniwyd y cyfeiliornad hwn ar ei ymddanghosiad cyntaf. Mae yr ymadrodd "wraig," a gymhwysodd ati, yn cyfleu syniad o ammharch nad yw yn gynhwysedig yn y gair ddefnyddiwyd gan ein Harglwydd. Dywedodd Ei eiriau yn eglur, "Paham yr wyt ti yn ymyraeth a'r gwaith y daethum i'r byd i'w gyflawni?" Eto yr oedd ganddi hyder anherfynol yn ngallu ei Mhab, a dywedodd gan hyny wrth y gwasanaethwyr, "Beth bynnag a ddywedo ef wrthych, gwnewch." Yr oedd yr holl weithredoedd oedd y Gwaredwr i'w cyflawni,

ac adegau eu cyflawniad, yn fanwl wedi eu penodi o'r blaen; a phan y daeth yr awr amlygodd Ei ogoniant.

Yr oedd puredigaeth seremonïol trwy ddwfr yn rhan bwysig o Iuddewaeth, ac ar y pryd hyn cai ei arfer tu hwnt i ofynion y Gyfraith. Fel hyn dywed Marc, "Y Phariseaid, a'r holl Iuddewon, oni bydd iddynt olchi eu dwylaw yn fynych, ni fwyttânt, gan ddal traddodiad yr hynafiaid. A phan ddelont o'r farchnad, oni bydd iddynt ymolchi, ni fwyttânt. A llawer o bethau eraill y sydd, y rhai a gymmerasant i'w cadw, megis golchi cwppanau, ac ystenau, ac efyddynau, a byrddau." Yr oedd y llestri gan hyny wrth law i ddal y rhodd pan y cyfrenid hi. Llanwyd y chwech o ddyfr-lestri, y rhai a ddalient ddau fesur neu dri bob un, trwy orchymyn y Gwaredwr â dwfr hyd yr ymyl, fel nad allai neb wrthwynebu y wyrth ar y tir o ddichell ac ystryw, ac heb eiliad o oediad, cyflawnwyd y weithred o allu creadigol,

"Fe wridai'r gwylaidd ddw'r wrth wel'd ei Dduw."

Gwnaed "dechreu gwyrthiau" i amcan caredig, i waredu y teulu yn Cana rhag y cyfyngder a deimlasent ar balliad y croesawiadau arferol, a rhoddwyd pob prawf gofynol o'i gwirionedd. Pe buasai fel gwyrthiau ffugiol yr oesau Paganaidd neu Babaidd, buasai rhyw goll yn y dystiolaeth, y fath ag a ddengys yr hanes nad allasai fod. Gwyddai y gwasanaethwyr na lanwasant y dyfr-lestri gweigion â dim ond â dwfr pur, ac "hyd yr ymyl," fel nad ellid ychwanegu dim wedi hyn i newid y natur. Llefarai llywodraethwr y wledd, yr hwn a ddewiswyd am ei fod yn gynefin a gwleddoedd fel hyn, a'r hwn a allasai roi barn am natur y ddïod, am y gwin hwn fel y goreu, a hyny heb wybod pa fodd yr oedd wedi ei gynhyrchu, canys "ni wyddai o ba le yr ydoedd."

Adgofia Esgob Taylor yn brydferth i ni pa fodd y mae Iesu bob amser "yn cadw y gwin goreu yn ddiweddaf; nid yn unig o herwydd fod y llawenydd uwchaf yn cael ei gadw yn ol, hyd nes dynesu yn agosach i ogoniant, ond hefyd am fod ein chwaeth yn uwch ar ol hir fwyniant nag ar y prawf cyntaf; y fath yw natur gras, fel y mae yn cynhyddu mewn chwaeth fel y mae mewn mwyniant, gan fod pob rhan o ras yn ddyledswydd newydd a gwobr newydd."

(Darllener Ioan ii. 1—11.)

## PENNOD XIII.

### Y GWAREDWR YN PURO Y DEML.

MAE y pedair Efengyl wedi eu hysgrifenu yn y fath fodd, fel y cawn trwy eu cymharu a'u gilydd, yr olwg eang hono ar fywyd a gweinidogaeth y Gwaredwr nad oedd yn mwriad yr un o'r efengylwyr i'w rhoddi ar wahan oddiwrth y tri arall. Fel hyn, yn Efengyl Ioan, crybwyllir am dri phasc, ac yn debygol am bedwar, yn ystod gweinidogaeth gyhoeddus ein Harglwydd, pa un raid fod wedi cyrhaedd i oddeutu tair blynedd a haner. Er nad yw y tri efengylydd yn crybwyll yn benodol ond am un pasc, eto nid ydynt byth yn awgrymu nad oedd rhagor, tra mae rhai o'r digwyddiadau a gofnodant yn myned i gadarnhau tystiolaeth uniongyrchol yr apostol. Yr ydym yn ddyledus iawn i lafur y rhai hyny ydynt fel hyn wedi cymharu yn ofalus adroddiad yr Efengylau, a thrwy osod pob rhan o hanes y Gwaredwr yn ol trefn amser, ydynt wedi dwyn yr oll i gysondeb perffaith.

Dygir y pasc cyntaf o'r rhai hyn, a'r digwyddiadau hynod cyssylltiedig ag ef, o dan ein sylw gan Ioan, a sonia yr efengylwyr ereill am weithrediad cyffelyb ar y pasc diweddaf, ychydig cyn marwolaeth y Gwaredwr. Fel yr oedd y Gwaredwr wedi dyfod i'r Deml, yr hon oedd Dŷ Ei Dad, cafodd yn awr gyfleustra cyfaddas i'r ymarferiad o'i sel. Yr oedd wedi dyfod yn angenrheidiol i nifer fawr o anifeiliaid, y fath ag a ofynid yn aberth, i gael eu cynhyg yn gyson ar werth yn Jerusalem, ac fod yno newidwyr arian i newid y bathodion ddygid gan yr Iuddewon o wahanol barthau y byd, a'u galluogi i dalu am eu hoffrymau yn arian y Deml. Nid oedd pechod y marchnatwyr yn y pethau hyn yn gorwedd yn eu masnach, ond yn ei dwyn yn mlaen yn y Deml Sanctaidd. Yr oedd eu pechod fel llawer ydynt yn cario gyda hwynt i dŷ Dduw adgofion o'u trafodaeth fydol, ac ydynt fel y bobl am ba rai y dywedai Jehofah wrth Ezeciel, "Deuant hefyd attaf fel y daw y bobl, ac eisteddant o'th flaen fel fy mhobl; gwrandawant hefyd dy eiriau, ond nis gwnant hwy; canys â'u geneuau y dangosant gariad, a'u calon sydd yn myned ar ol eu cybydd-dod."

Yr oedd yr halogiad yma ar y lle sanctaidd wedi bod yn ddiamheuol yn beth o gynhydd graddol, ac wedi ei ddwyn o amgylch gan olyniad o dori dros y terfynau, yn union fel y mae gyda y rhai ydynt wedi proffesu llwyr wasanaethu yr Arglwydd, ac o ris i ris ydynt wedi gadael i fasnach y byd gael y blaen ar feddyliau a dyledswyddau y Sabbath Cristionogol, gan fydoli ei oriau sanctaidd. Un rhan o waith y Gwaredwr yw amddiffyn hawliau y Gyfraith Ddwyfol, yr hon y daeth i'w mawrhau a'i hanrhydeddu, trwy ddangos nas gellid ei throseddu yn ddigosp. Yr oedd anfeidrol ddoethineb, gan hyny, yn y weithred o sel sanctaidd gofnodir yma, trwy ba un y gallai y rhai oeddynt yn dangos diystyrwch cyhoedd i gyfreithiau Jehofah, ddysgu nad allent bechu fel hyn yn ddigosp.

Fel hyn, gan hyny, gwelwn un a ymddengys i fod yn ddyn isel o Galilea, yn myned i gyntedd y Cenhedloedd, yr hwn oedd wedi myned yn fath o ffair neu farchnad fawr, ac yn codi oddiar y llawr ryw fân reffynau, y rhai a wna yn fflangell, ac â yn mlaen i yru y defaid a'r ychain allan o'r lle, i dywallt allan arian y newidwyr, ac i ddymchwelyd eu byrddau. Goddefodd i'r rhai oedd yn gwerthu colommenod i'w symmud oddiyno, a gorfodwyd y lliaws oeddynt yn ymwneyd a'r fasnach gyssegr-ladradol hon, trwy sel ryfeddol y Diwygiwr tanllyd hwn, i gilio ar ffrwst.

Nis gallai y rhai hyny a welsant gyda syndod sel wresog yr Arglwydd, wadu cyfiawnder ac angenrheidrwydd y gwaith a wnaeth. Nis gallent ond yn unig ofyn am ryw brawf o'i hawl i'w wneyd, ac felly dywedasant wrtho Ef, "Pa arwydd yr wyt ti yn ei ddangos i ni, gan dy fod yn gwneuthur y pethau hyn?" Yr oedd eu meddyliau yn rhy ymwybodol o'u camwedd dirfawr i wadu cyfiawnder y gosp a dderbyniasant. Deffrodd cydwybod eu hofnau, a dywedodd wrthynt gymaint oedd eu pechod yn haeddu y gospedigaeth hon. Ca y rhai hyny a geryddant yn ffyddlawn bechodau dynion yn eu priodol ddull, gan rodio yn nghamrau Iesu, yn fynych fod ganddynt yn nghydwybod pechadur gymhorth moesol cryf, ac fod cydwybod fel llais Duw yn nghalon y troseddwr.

Bydded i ni ddysgu oddiwrth yr amgylchiad difrifol yma, mai ysbryd o sel difrifol yw ysbryd Crist, dros anrhydedd a gogoniant Duw. Fel y canfyddai y disgyblion yr arddanghosiad anarferol yma o frwdfrydedd sanctaidd, "cofiasant fod yn ysgrifenedig, Zel dy dŷ di am hysodd i." Os

ydyw ysbryd Crist gennym, nid edrychwn gyda difaterwch dideimlad ar y pechodau sydd yn halogi y byd, a'r cyfeiliornadau sydd yn llygru yr eglwys; a bydd ein sel ddifrifol yn eu gwrthwynebu mewn cyfartaledd i'n ffydd yn Nuw, a'n tebygrwydd i'w anwyl Fab. Dylid cofio i'r geiriau gymhwyswyd gan y disgyblion at Grist gael eu harfer yn gyntaf gan Dafydd, ac yr oeddynt mewn gradd is yn fynegiadol o wresowgrwydd ei ysbryd, a'r ymroddgarwch sanctaidd am ba un y tynodd arno ei hun sarhad.

Yr oedd ymofyniad yr Iuddewon, "Pa arwydd yr wyt ti yn ei ddangos i ni, gan dy fod yn gwneuthur y pethau hyn?" yn anghyfaddas i'r achlysur. Nid oedd doniau gwyrthiol yn angenrheidiol i un a ddeuai yn mlaen i ddiwygio camarferion pwysig mewn crefydd. Ar yr achlysur yma, nid odd Crist ddim yn hawlio ffydd mewn goruchwyliaeth newydd, ond diwygio y camarferion oeddynt wedi llusgo i mewn i'r hen. Yn lle, gan hyny, gwneyd gwyrth, dysgodd athrawiaeth, fel arwydd fod ganddo awdurdod digonol dros yr oll a wnaeth, ac oedd ar wneyd. Ei atebiad, llawn o arwyddocâd dwfn, oedd "Dinystriwch y deml hon, ac mewn tridiau y cyfodaf hi."

Rhagfynegodd fel hyn Ei farwolaeth Ei hun trwy ddwylaw creulawn yr Iuddewon, a datganodd Ei allu Dwyfol, trwy honi yr ailgodai deml Ei gorff ar ol tridiau. Yn yr iaith gynhwysfawr hon, dysgai fod ynddo Ef holl gyflawnder y Duwdod yn preswylio yn gorfforol. Ni bu y Shecinah erioed yn yr ail Deml, ac yr oedd felly yn ddiffygiol o'r hyn oedd yn cyfansoddi prif ogoniant y gyntaf; ond llefara Iesu yn awr am Ei berson Ei hun, fel gwir Deml y presennoldeb Dwyfol. Gellir darllen Ei eiriau fel rhagfynegiad yn hytrach na gorchymyn, a phrofant iddo ddechreu ar ei waith mawr gyda syniad eglur o'r canlyniadau a achosai Ei ffyddlondeb. Sylwch hefyd fel yr arddelwa allu Duw pan y dywed, "Mewn tridiau y cyfodaf hi." "Nid oes un dyn yn arglwyddiaethau ar yr yspryd, i attal yr yspryd." Perthyna y gallu i roddi bywyd, neu i'w adferu pan unwaith wedi ei golli, yn unig i'r Arglwydd Hollalluog, a dyma y gallu a honir gan Grist, fel yr ad-honodd ar ol hyn pan y dywedodd, "Y mae gennyf feddiant i'w dodi hi i lawr, ac y mae gennyf feddiant i'w chymmeryd hi drachefn."

Cymharwch y defnydd o'r geiriau tra phwysig hyn gan y disgyblion,

gyda eu camddefnydd gan yr Iuddewon anghrediniol. Dygodd gelynion y Gwaredwr dair blynedd ar ol iddo lefaru fel hyn, fel cyhuddiad yn Ei erbyn, iddo fygwth dinystrio y Deml, a dengys deongliad diweddarach o'i ymadrodd eu rhagrith pan y gwnaethant y cyhuddiad yma. Dywedasant wrth Pilat, "ddywedyd o'r twyllwr hwnnw, ac efe etto yn fyw, Wedi tridiau y cyfodaf; gorchymyn gan hynny gadw'r bedd yn ddiogel hyd y trydydd dydd." Mae yn debygol fod Ei eiriau yn cael eu dylyn gan ryw weithrediad arwyddocaol, ac iddo gyfeirio at Ei berson Ei hun, fel y gallai pawb, gyda'r disgyblion, ddeall Ei fod yn llefaru am Ei gorff. Deallodd y disgyblion yn gywir eiriau eu Harglwydd, y rhai a gadwasant yn eu cof hyd nes iddynt gael eu heglurhau trwy Ei farwolaeth a'i adgyfodiad. "Am hynny pan gyfododd efe o feirw, ei ddisgyblion ef a gofiasant iddo ddywedyd hyn wrthynt hwy; a hwy a gredasant yr ysgrythyr, a'r gair a ddywedasai'r Iesu." Yn y modd hyn, mae meddyliau crediniol yn cynhyddu yn gyson mewn gwybodaeth, trwy gymharu iaith brophwydol gyda ei chyflawniad, ac fel hyn gyfodi i gydnabyddiaeth mwy deallus â'r gair nefol, ffydd gadarnach yn ei wirionedd, a phrofiad helaethach o'i allu.

Mae yn amlwg oddiwrth iaith yr apostol Ioan, fod ein Harglwydd yn ystod Ei ymweliad byr a Jerusalem, wedi cyflawni rhai gwyrthiau nad ydynt wedi eu cofnodi yn yr hanesiaeth efengylaidd. Ni a gawn yn fuan gyfeiriad at y gwyrthiau hyn yn iaith Nicodemus. Nid oedd yr arddanghosiad anarferol o sel sanctaidd ddygwyd dan ein sylw yn y bennod hon, yn wyrth yn ystyr gyfyngaf y gair, ac hyd yn hyn nid ydym wedi gweled ond un wyrth wedi ei chofnodi; ac eto cyfeirir at "wyrthiau" gan lywodraethwr yr Iuddewon, fel wedi eu cyflawni gan Iesu cyn yr olygfa-nosawl a ddylyna yn uniongyrchol. Fel hyn mae gennym gadarnhad hynod i iaith yr efengylydd: "A llawer hefyd o arwyddion eraill a wnaeth yr Iesu yngŵydd ei ddisgyblion, y rhai nid ydynt ysgrifenedig yn y llyfr hwn; eithr y pethau hyn a 'sgrifenwyd, fel y credoch chwi mai yr Iesu yw Crist, Mab Duw; a chan gredu y caffoch fywyd yn ei enw ef." Bydded i ni ddysgu mai amcan yr holl wyrthiau yw cynhorthwyo ein ffydd, heb ba un yn ofer y gwneir hwynt, ac annichonadwy yw rhyngu bodd Duw.

(Darllener Ioan ii. 13—25.)

## PENNOD XIV.

### NICODEMUS—YR ENEDIGAETH NEWYDD.

"Ac fel yr oedd efe yn Jerusalem ar y pasg yn yr wyl, llawer a gredasant yn ei enw ef, wrth weled ei arwyddion a wnaethai efe." Mae crediniaeth yn Nghrist nad yw "i gadwedigaeth yr enaid." Y fath oedd ffydd y lliaws a welsant y gwyrthiau a wnaeth yr Iesu yn Ei basc cyntaf. Credent fod y gwyrthiau hyny yn wirioneddol, ond ni chyrhaeddai eu ffydd at yr hawliau uchel y daeth i'w harddelwi, a gorphwysai yn llawer rhy fyr o'r diwedd sanctaidd i ba un yr arweiniai y rhai hyny oeddynt "ddisgyblion yn wir." Nid oedd braidd yn ddichonadwy i neb ond gelynion mwyaf penderfynol Crist i wrthod Ei holl wyrthiau; a'r fath ydoedd yr arddangosiadau o'r gallu Dwyfol wnaed yn Jerusalem, fel y traethodd llaweroedd gyffesion uchel o edmygedd ac ymddiried, tra nas gallai Crist, yr hwn a wyddai eu calonau, eu credu pan y proffesent yn uchel gredu ynddo.

Yr oedd Nicodemus yn mysg y nifer oedd dan argraffiad dwfn trwy y gwyrthiau wnaed yn Jerusalem; a chan fod llawer yn proffesu mwy nag a deimlent, felly yr ydym yn cael ynddo ef un a deimlai fwy nag a broffesai yn gyhoeddus. Mae gennym yma lywodraethwr a gredai yn Nghrist; yr oedd yn ddysgedig yn holl gyfreithiau ac athrawiaethau yr Iuddewon, yn aelod o'r Sanhedrim; ac yn awr yn ddisgybl yn wir, gyda dymuniad difrifol am gael ei ddysgu yn llawn yn athrawiaeth y Gwaredwr.

Yn yr ymddiddan yma, datguddia y Gwaredwr y gwirioneddau mwyaf pwysig y daeth i'w dysgu. Nid cynt y cydnabyddodd Nicodemus y genadwri Ddwyfol, nag y cyfarfyddwyd ef gan ddadganiadau a'i rhyfeddai ef. Gallwn dybio fod ganddo nifer o ymofyniadau i'w gofyn i'r Dysgawdwr Dwyfol, yr hwn a'i dysgodd ef ar unwaith am y gwir achos o'r holl anhawsderau brofid gan ymofynwyr am wirionedd crefyddol. Gwnai Iesu fel hyn i'r doctor Iuddewig ddeall fod anhawsderau anoresgynadwy y gwrthwynebydd i Efengyl Duw yn codi yn unig o achos sefyllfa wyrdroawl ei feddwl ei hun a llygredd ei galon. Oddiwrth hyn mae y datganiad, mor ddirgelaidd, ond mor wir, "Yn wir, yn wir, meddaf i ti, oddi eithr geni dyn drachefn, ni ddichon efe weled teyrnas Dduw."

Yr oedd y meddwl Iuddewig yn llawn o ragfarnau yn erbyn y fath wirioneddau ag oedd gan Grist i gyfranu, ac nis gellid symmud y rhagfarnau hyny ond yn unig fel yr adferid y galon i symlrwydd plentynaidd, wedi ei hadnewyddu trwy allu yr Ysbryd Glân, ac felly gael ei "geni drachefn," ac "oddi uchod." Na thybiwn mai amcan ein Harglwydd oedd llefaru am gyfnewidiad oedd yn anghenrheidiol yn unig yn y meddwl Iuddewig, ac ar y cyfnod neillduol hyny; mae y gwirionedd a arddelwa mor gyffredinol a'r cwymp, ac yn gymhwys i bob oed ac oes. Llefara ein Harglwydd am ddyn yn mhob gwlad, dan bob sefyllfa, mewn angen o'r enedigaeth newydd, pa un bynag fyddo ai Iuddew ai Cenedl-ddyn, hynafol neu ddiweddar, dysgedig neu annysgedig, ieuangc neu hen.

I wrthddadl anwybodus Nicodemus, ateba y Dysgawdwr nefol trwy ddangos fod yr angenrheidrwydd am y cyfnewidiad yma wedi cael ei ddysgu yn barhaus i'r genedl Iuddewig trwy yr "amryw olchiadau" oedd ganddynt i'w cyflawni, a pha rai oeddynt yn arwyddluniol o adenedigaeth; ac yn mhellach drachefn, trwy lefaru am wir awdwr yr enedigaeth newydd, osodid allan yn ffigurol trwy ddwfr. Fel hyn dywed, "Yn wir, yn wir, meddaf i ti, Oddi eithr geni dyn o ddwfr ac o'r Ysyryd, ni ddichon efe fyned i mewn i deyrnas Dduw." Mae yr angenrheidrwydd am y cyfnewidiad yma yn sylfaenedig ar y gwirionedd amlwg nad all yr un effaith fod yn fwy na'r achos gan ba un ei cynhyrchir: "Yr hyn a aned o'r cnawd sydd gnawd; a'r hyn a aned o'r Yspryd sydd yspryd." Fel hyn i fabwysiadu aralleiriad rhagorol Jeremy Taylor, dysgodd ein Harglwydd, "fod pob cynhyrch o'r un ansawdd a'i wreiddyn; o'r cnawd deua cnawd a llygredigaeth, o'r Ysbryd deua bywyd ac anfarwoldeb; ac nis gallai dim o egwyddor natur gyrhaedd i ddiwedd goruwchnaturiol, ac, o ganlyniad, yr unig ddrws i fyned i mewn i deyrnas Dduw oedd dwfr, trwy law-arweiniad yr Ysbryd; a thrwy yr adenedigaeth yma yr ydym yn cael ein gosod mewn sefyllfa newydd i fyw bywyd ysbrydol. Priodol y gallasai y Gwaredwr ddyweyd, "Na ryfedda ddywedyd o honof fi wrthyt, Y mae yn rhaid eich geni chwi drachefn."

Nid yw yn un wrthddadl safadwy yn erbyn yr athrawiaeth hon ei bod yn dywyll, ac yn achosi gofyniadau nad allwn yn rhwydd eu hateb. Gellir codi yr un wrthddadl yn erbyn llawer o ryfeddodau natur, o ba

rai dyga ein Harglwydd un yn mlaen: "Y mae'r gwynt yn chwythu lle y mynno, a thi a glywi ei swn ef, ond ni wyddost o ba le y mae yn dyfod, nac i ba le y mae yn myned; felly mae pob un a'r a aned o'r Yspryd." Mae ein hoes ni yn un ag y mae deddfau natur yn cael eu chwilio gyda'r dyfalwch mwyaf, ac eto mae yr eglurhad a ddefnyddiodd ein Harglwydd yn parhau yn ei holl rym. Cyfarfydda ein goruchionwyr mwyaf medrus â lliaws o ofyniadau yn codi oddiar y gangen yma o wybodaeth nad allant eu hateb. Eto nid oes un o honynt a amheua werth gwynt adfywiadol y nef, a'r angenrheidrwydd am iddo ddyfod ac anadlu ar bob math o fywyd i'w hadfywio a'u cynhal, ac yn ei holl rym nerthol i buro y talaethau merllyd dros ba rai y teithia. Eto mae y pwngc mawr yn newydd i Nicodemus, yr hwn a ofyna, "Pa fodd y dichon y pethau hyn fod?" Priodol y teilynga y cerydd, "A wyt ti yn ddysgawdwr yn Israel, ac ni wyddost y pethau hyn?"

Os dylasai y meistr Iuddewig wybod y pethau hyn, mor dda y dylent gael eu deall gan y rhai hyny ydynt yn enwi enw Crist, ac yn proffesu dysgu athrawiaeth Ei deyrnas. Eto mae gweinidogion ymhoniadol o Efengyl Crist a roddant ystyr isel ac anheilwng ar Ei eiriau. Nid yw adenedigaeth, yn ol tystiolaeth rhai, yn ddim mwy na diwygiad cymmeriad. Am y golygiad yma sylwyd yn gywir, "na wnaeth ein Harglwydd, ond yn unig daflu llawer o dywyllwch ar yr hyn oedd yn eglur ac amlwg, ac yn wybyddus, nid yn unig i'r Iuddewon, ond i'r paganiaid doethaf."

Yr un mor anheilwng ac annaturiol yw y dyb fod yr enedigaeth newydd yn cael ei heffeithio gan fedydd. Nis gall dim dwfr, pa un bynag ai ychydig ai llawer, pwy bynag a all ei gymhwyso, olchi yr enaid, puro y galon, neu adnewyddu natur bechadurus dyn. Byddai yn anhawdd yn mysg yr holl gamarferion o'r gwirionedd Cristionogol, i enwi yr un mor groes i synwyr cyffredin a gwir athroniaeth, mor ddinystriol i grefydd bersonol, yn tueddu mwy i fagu balchder offeiriadol, ac mor dwyllodrus i'r enaid, a'r athrawiaeth o adenedigaeth trwy fedydd.

Bydded i ni oll wrando ar eiriau hyn yr Arglwydd Iesu yn eu symlrwydd gogoneddus a'u hawdurdod Ddwyfol, a cheisio profi ein bod yn deall eu meddwl, a theimlo y cyfnewidiad mawr a ddarluniant.

(Darllener Ioan iii. 1—21.)

## PENNOD XV.

### CRIST YN DYSGU AC YN BEDYDDIO YN JUDEA.

I'R rhai hyny sydd yn cofio fod Jerusalem yn perthyn i lwyth Judah, gofyna yr adroddiad i Iesu adael y ddinas sanctaidd a myned i Judea am ryw eglurhad. Gellir, modd bynag, symmud yr anhawsder ymddanghosiadol yn rhwydd, trwy sylwi ar y modd yr ydym yn arfer siarad am adael ein prif ddinas ein hunain, a myned i Middlesex a Surrey, er fod Llundain yn sefyll yn y siroedd hyny. Meddwl yr efengylwr yw i'n Harglwydd wrth adael y ddinas fyned i'r diriogaeth Judeaidd yn mha un y safai, ac ymweled a'r trefydd pwysig a'r pentrefydd yn gyfagos i brifddinas Judah. Wrth gymharu geiriau y Gwaredwr i'w ddisgyblion pan ar Ei ffordd o Judeah i Samaria, "Y mae etto bedwar mis, ac yna daw'r cynhauaf," mae wedi ei gasglu yn gywir fod yr ymdaith yma yn Judea wedi cyrhaedd i oddeutu chwe' mis, yn unol a'r meddwl drosglwyddir trwy yr ymadrodd iddo aros yn Judea.

Mewn rhan flaenorol o'n Darlleniadau, gwelsom y sefyllfa bwysig a ddaliai gwlad Judea yn yr hanesiaeth Israelaidd. O amser Abraham i lawr yr oedd wedi bod yn dyst o'r digwyddiadau mwyaf dyddorol yn mlwyddolion Israel, ac yr oedd cyfaddasder amlwg yn y trefniad "trwy ba un y byddai i had addawedig Abraham" dramwyo y wlad lle yr oedd Ei Dad nefol wedi myned i gyfammod â'i ragflaenor mawr. Byddai yn ddyddorol o'r mwyaf, ar ol oddeutu dwy fil o flynyddoedd, i weled mor ffyddlawn y cadwyd yr addewid Ddwyfol, a dylyn ol teithiau yr hwn yn mha un yr oedd yr holl genhedloedd i gael eu bendithio. Nid yw manylion bywyd dyddiol y Gwaredwr yn ystod y misoedd hyn wedi eu cofnodi, ond y mae gennym hanes am y gwaith mawr i ba un eu cyssegrwyd. Yr oedd Crist yn awr yn dwyn i mewn yr oruchwyliaeth newydd, ac yn bedyddio y rhai hyny oeddynt yn ewyllysgar i ddysgu ei gwirioneddau, ac yn awyddus i fwynhau ei bendithion. Ymddygodd Ef, yr hwn ar ol hyn a anfonodd allan Ei ddisgyblion i ddysgu, gan fedyddio, yn unol a'i gyfarwyddiadau Ei hun, ac yn lle ymfoddloni ar weinyddu y ddefod allanol heb fod yn gyd-ddylynol ag addysg Ddwyfol, "gwnaeth ddis-

gyblion" a bedyddiodd. Dysga bedydd i ddyn ei halogrwydd ysbrydol, a'r angenrheidrwydd am adnewyddiad yr Ysbryd Glân; a chyhoeddai y bedydd yma i Grist i'r ymgeiswyr ewyllysgar, nid yn unig yr angenrheidrwydd am edifeirwch am bechod, ond darpariaeth ddigonol i'w faddeu a'i symmud. Fel hyn caniatawyd i bobl Judea, yn rhan foreuol gweinidogaeth y Gwaredwr, i glywed o'i wefusau Ef Ei hun eiriau y deyrnas, a'i weled Ef, dydd yr hwn a ragwelodd Abraham gyda llawenydd sanctaidd. Ac yn awr, cyn i arfaethiad trugaredd gael ei gyhoeddi i'r Cenhedloedd, yr oedd Iesu yn bresennol i ddatguddio ffyddlondeb a thrugaredd Duw "i'r Iuddew yn gyntaf."

Am y bedydd a ddylynodd yr addysg Ddwyfol yma, cofnodir dau beth pwysig; un yn dal perthynas a'r offerynoliaeth ddefnyddiwyd—"Er na fedyddiasai yr Iesu ei hun, eithr ei ddisgyblion ef;" a'r llall yn dal perthynas a'i helaethrwydd mawr, canys yr oedd "yn gwneuthur ac yn bedyddio mwy o ddisgyblion nag Ioan." Os gofynir am reswm paham na fedyddiasai Crist â'i ddwylaw Ei hun, gallwn fabwysiadu yr atebiad iddo wneyd yn debygol i ddangos na ddaeth i weinyddu defodau allanol, ond bedydd yr Ysbryd Glân, yr hwn Efe yn unig a allai ei gyfranu; ac yn mhellach, fel na byddai iddo roi un achos o ymrafael yn mysg Ei ddisgyblion, trwy roddi cyfle i neb i ymffrostio eu bod wedi cael eu bedyddio nid trwy ddwylaw disgybl neu apostol, ond gan yr Arglwydd Ei hun. Yn yr oll a ddysgodd ac a wnaeth ein Harglwydd, ni roddwyd un gefnogaeth i'r gred o ras sacramentol, neu gyfraniad o wir grefydd i'r galon, trwy unrhyw seremoni gyssegredig, er wedi ei phenodi gan y gyfraith Ddwyfol, a'i gweinyddu gan ddwylaw yr Archoffeiriad mawr.

Yn mhob man trwy Judea dygai y Gwaredwr yn mlaen y gwaith bendigedig yma o wneyd disgyblion trwy Ei addysg Ei hun, a'u bedyddio hwy trwy ddwylaw Ei ddylynwyr. Yr oedd yr amser yn un o deffroad sanctaidd, ac nis gallai ond ychydig fod na chyfranogasant o'i wynfydedigrwydd. Rhaid i ni gofio beth a ddarllenasom am y tyrfaoedd a aethant allan at Ioan o "holl Judea a Jerusalem," fel yr ydym yn awr yn darllen am Iesu yn casglu o'i ddeutu Ef "mwy o ddisgyblion nag Ioan." Ar ol y dychweliad o'r Caethiwed yr oedd yr Iuddewon wedi cael eu cefnogi i ymsefydlu yn y rhanau gwledig o Judea, y rhai yn awr

a boblogid yn dew, ac nis gallwn amheu i filoedd ddysgu "egwyddorion dechreuad athrawiaeth Crist," a thrwy ei weled Ef, clywed Ei eiriau, a chanfod Ei wyrthiau, eu bod yn barod i ymgasglu i'w eglwys pan y pregethid yr Efengyl yn llawn, ac y tywelltid yr Ysbryd o'r uchelder. Fod y nifer hyn yn fawr iawn sydd amlwg oddiwrth y braw a achosasant yn mysg y Phariseaid. Gwyddent fod Ioan wedi cyhoeddi Iesu fel y gwir Fessiah, a chan Ei fod yn enill y fath dyrfaoedd o ddisgyblion, crynent dros eu hawdurdod eu hunain ar y bobl, ac ofnent y dygid eu llywodraeth i derfyn buan. Er mwyn diangc o'u dwylaw, a gochelyd cael ei draddodi cyn yr "amser," y gadawodd Judea, ac yr aeth i Galilea.

Tra yr oedd y gwaith bendigedig yma yn myned yn mlaen yn Judea, yr oedd Ioan yn bedyddio yn Ainon, yn agos i Salim, wedi dyfod i ochr orllewinol yr Iorddonen, i fan heb ei gael allan eto yn eglur, ond lle yr oedd llawer o ddyfroedd. Yma cododd ymofyniad rhwng disgyblion Ioan a'r Iuddewon—neu "rhyw Iuddew," yn ol y cyfieithiad Syriaidd—ynghylch puredigaeth. Gwrthwynebai hwn yn debygol fedydd Ioan fel yn israddol i buredigaethau y gyfraith Iuddewig. Mae wedi ei awgrymu hefyd y gallai iddo attegu ei wrthddadl trwy gyfeirio at y bedydd weinyddid gan Grist, fel pe y bwriadasid bychanu un Ioan, a gallai i hyn arwain i'r achwyniad wnaed gan ddisgyblion Ioan i'w mheistr: "Rabbi, yr hwn oedd gyd â thi y tu hwnt i'r Iorddonen, am yr hwn y tystiolaethaist ti, wele, y mae hwnw yn bedyddio, a phawb yn dyfod atto ef."

Yn y dystiolaeth ogoneddus i Grist dynwyd allan gan y geiriau hyn, gwelwn mor dda yr oedd y Bedyddiwr yn deall ei waith, a'i safle isel mewn perthynas i Grist. "Ioan a atebodd ac a ddywedodd, Ni ddichon dyn dderbyn dim, oni bydd wedi ei roddi iddo o'r nef. Chwychwi eich hunain ydych dystion i mi, ddywedyd o honof fi, Nid myfi yw y Crist, eithr fy mod wedi fy anfon o'i flaen ef. Yr hwn sydd ganddo y brïodferch, yw'r prïod-fab; ond cyfaill y prïod-fab, yr hwn sydd yn sefyll ac yn ei glywed ef, sydd yn llawenychu yn ddirfawr oblegid llef y prïod-fab. Y llawenydd hwn mau fi gan hynny a gyflawnwyd. Rhaid ydyw iddo ef gynnyddu, ac i minnau leihau."

Crist oedd prïod-fab yr Eglwys, yr hwn ydoedd wedi dyfod i'w chodi o ddiraddiad, a'i harwain hi allan wedi ei choroni âg anrhydedd a llawen-

ydd, a hyfrydwch penaf y Bedyddiwr oedd croesawu dynesiad y Prïod-fab nefol hwnw. Cafodd y llawenydd mwyaf gan hyny wrth ddeall fod pawb yn ymgasglu o amgylch y Gwaredwr, a thrwy fedydd yn ei gydnabod Ef fel eu Dysgawdwr Dwyfol. Fel y mae y seren foreuol yn ymgolli i'r golwg yn nisgleirdeb yr haul dwyreawl, felly y byddai i Ioan, er yn ganwyll yn llosgi ac yn goleuo, ganfod yn fuan ei holl oleuni wedi ymgolli yn nisgleirdeb Haul y Cyfiawnder yma, a chydag anfeidrol foddhad y dywedodd, "Rhaid ydyw iddo ef gynnyddu, ac i minnau leihau." Felly yn awr gŵyr y Cristion y terfyna yn bur fuan ddyddiau byr ei lafur yn y winllan, ac y rhaid iddo ef fyned ymaith trwy gysgodion tywyll marwolaeth, heb gyfranogi mwyach yn llafur bendigedig yr eglwys er dychweliad y byd at Dduw; gŵyr hefyd y bydd enw y Gwaredwr "yn dragywydd; ei enw a bery tra fyddo haul; ac ymfendithiant ynddo; yr holl genhedloedd a'i galwant yn wynfydedig;" a dyry y cyferbyniad yma iddo hyfrydwch a mwynhad sanctaidd.

Dysga Ioan hefyd y gwahaniaeth anfeidrol rhwng Crist a phob dyn marwol yn unig fel ef ei hun. Yr oedd Crist "oddi uchod." Yr oedd wedi dyfod o'r nef, o fynwes y Tad, ac yr oedd yn anfeidrol "goruwch pawb," yn Ei fawredd Dwyfol, tra yr oedd Ioan "o'r ddaear," un o'r hiliogaeth, sail yr hon sydd yn y pridd, ac yn agored i anmherffeithderau ein natur lygredig. Yn holl ddysgeidiaeth Crist yr oedd doethineb anfeidrol ac anffaeledig; tra yr oedd yr oll a draethodd Ioan yn "ddaearol" a'u cymharu â datguddiedigaethau dyrchafedig a gyfrenid ganddo Ef, enw yr hwn yw "Gair Duw." "Yr hwn a anfonodd Duw, sydd yn llefaru geiriau Duw; oblegid nid wrth fesur y mae Duw yn rhoddi iddo ef yr Yspryd. Y mae'r Tad yn caru'r Mab, ac efe a roddodd bob peth yn ei law ef. Yr hwn sydd yn credu yn y Mab, y mae ganddo fywyd tragywyddol; a'r hwn sydd heb gredu i'r Mab, ni wêl fywyd; eithr y mae digofaint Duw yn aros arno ef." Yma mae gennym fawredd cyfryngol Crist, yr hwn sydd yn ben ar deyrnas gras. Yma mae gennym hefyd yr unig foddion benodwyd gan anfeidrol ddoethineb a thrugaredd er adferyd ein dynoliaeth golledig. Nid oes gennym ddim gobaith ond yn Nghrist, ac y mae yr adferiad hwnw yn unig trwy ffydd ynddo Ef.

(Darllener Psalm xlv. Ioan iii. 22—36; iv. 1—3.)

"Gwel, Gras o'i phiol aur y sydd
Yn tywallt ffrydiau llon i'r prudd;
A gwel hi'n rhwymo'n dyner iawn
Y waedlyd fron gan ofid llawn.

"Fe ddaeth i loni'r galon drom,
Gyr Satan ffwrdd a'i luoedd ffrom;
Aileuro'r gwyll wna'r seren-ddydd,
Ar lwyni Eden blagur sydd.

"O Zion! cwyd dy lygad llon,
Mae'r hyfryd awr ar ddyfod bron;
Mae anian drwyddi'n adfywhau,
Tywysog Salem ddaw yn glau."

CAMPBELL.

# LLYFR VII.

---

Bwrw Ioan Fedyddiwr i'r Carchar a thori ei ben ef.

Y Wraig o Samaria.

Yr Ail Wyrth yn Galilea.

Crist wrth Fôr Galilea.

Yr Helfa Wyrthiol o Bysgod.

Cythreuliaid ac Anhwylderau yn ymostwng i Awdurdod Crist.

Y claf o'r Parlys wedi ei Iachau.

Ail Basc ein Harglwydd.

Y Bregeth ar y Mynydd.

Y Pur o Galon yn Gweled Duw ar y Ddaear.

Y Weddw o Nain.

Yr Edifeiriol Diolchgar.

Distewi y Dymhestl trwy lais y Gwaredwr.

Y Ddau Gythreulig.

Galw y Disgyblion i Neillduedd.

Porthi y Dyrfa yn Wyrthiol.

Croes y Gwaredwr, a'n un Ninau.

Y Gweddnewidiad.

Ymadawiad Diweddaf ein Harglwydd o Galilea.

## PENNOD I.

### BWRW IOAN FEDYDDIWR I'R CARCHAR.

Cyflawnodd ein Harglwydd trwy Ei holl yrfa, er wedi Ei danio a'r sel mwyaf brwdfrydig, y rhagfynegiad, Efe "a wna'n gall." Un achos o'i ymadawiad i Galilea oedd y cynhwrf yn mysg y Phariseaid wrth ddarganfod y nifer fawr o ddisgyblion oedd wedi Ei wneuthur a bedyddio yn Judea. Yr oedd achos arall yn gweithio ar yr un pryd, nodir fel hyn gan Matthew,—"A phan glybu'r Iesu draddodi Ioan, efe a aeth i Galilea." Gwelodd ein Harglwydd fel yr oedd erledigaeth wedi cyfeirio ei grym yn erbyn Ioan, yr hwn oedd Ei ragflaenor, a pha fodd y gallasai yn union gyfeirio yn Ei erbyn Ei hun, a chan nad oedd yr amser eto wedi dyfod i'w farwolaeth aberthol, ac fod ganddo o'i flaen dros ddwy flynedd o waith pwysig fel goleuni dynion, ymneillduodd o gymmydogaeth y gormesdeyrn drygionus, yr hwn yn llawen a'i taflasai i garchar, neu a'i condemniasai ar frys i farwolaeth.

Yn hyn mae esiampl ein Harglwydd yn orlawn o addysg i'w weision yn mhob oes. Dylem fod yn barod i roi ein bywydau i lawr yn achos Duw a gwirionedd, ond nid i'w bwrw ymaith yn ddirmygus pan nad yw yr amser yn un o ferthyrdod, a phan y gellir cadw y bywyd yn anrhydeddus trwy ufuddhau i ddeddfau cyffredin callineb. Aeth Martin Luther, ar yr adeg briodol, yn ddigel i Lwyr-wys Worms, i wynebu ei elynion mwyaf gormesol a chryfion, fel na byddai iddo wadu y ffydd; a chyda challineb gweddus, derbyniodd y ddirgelfa gynhygiwyd iddo yn Wartburg, pan oedd buddiannau yr Efengyl yn gofyn iddo ymguddio rhag cynddaredd y gorthrymydd.

Mae yn gamsyniad mawr i dybied fod gwasanaeth Duw yn caniatau rhyddhad oddiwrth hawliau callineb yn rhodfeydd iselaf y bywyd Cristionogol; tra yn mhob llafur cyhoeddus er llwyddiant teyrnas y Gwaredwr rhaid i ni gofio Ei gyfarwyddyd Ef, "Byddwch chwithau gall fel y seirph, a diniweid fel y colommenod." Nyni a allwn fel hyn ddeall y cydgordiad perffaith rhwng y gorchymynion hyny o eiddo Crist yn mha rai y galwa ar Ei ddisgyblion i ysbryd o hunan-aberth, a'r rhai hyny yn

mha rai y gofyna am bob gofal dyledus er cadwraeth eu bywydau. Yr hwn a ddywed, "Nac ofnwch rhag y rhai a laddant y corph, ac nid allant ladd yr enaid," a ddywed hefyd, "Pan y'ch erlidiant yn y ddinas hon, ffowch i un arall." Fel hyn yr apostol ffyddlawn yr hwn a ddywed, "Myfi yr awrhon a aberthir, ac amser fy ymddattodiad i a nesaodd," a ddywed hefyd, "Yn Damascus, y llywydd dan Aretas y brenhin a wyliodd ddinas y Damasciaid, gan ewyllysio fy nal i; a thrwy ffenestr mewn basged ym gollyngwyd ar hŷd y mur, ac y dïengais o'i ddwylaw ef."

Mae amserau, modd bynag, pan y mae ffyddlondeb i Dduw yn gofyn i'w weision i aberthu bywyd neu ryddid yn Ei wasanaeth, ac yr oedd yr amserau hyny yn digwydd yn fynych yn nechreuad yr Efengyl; ac yn mhob oes y mae wedi gorfod gwrthwynebu ofergoeliaeth Paganaidd a llygredigaeth gwrthun. Fel hyn yr ydym yn cael Ioan Fedyddiwr yn cael ei alw i golli ei ryddid yn nghyntaf, yna ei fywyd mewn trefn iddo allu profi yn ffyddlawn iddo Ef a'i hanfonodd. Yr Herod grybwyllir yn yr hanes yma oedd Herod Antipas, mab Herod Fawr. Ar farwolaeth ei dad, fe ddaeth i un rhan o bedair o'i frenhiniaeth—Galilea a Perea—oddiwrth yr hyn y gelwir ef y Tetrarch, neu lywodraethwr y bedwaredd ran. Priododd ferch i Aretas, brenhin Arabia, yr hon a fwriodd ymaith, fel y gallai briodi Herodias gwraig ei frawd Philip, yr hwn oedd eto yn fyw. Yr oedd Ioan wedi arferyd peth dylanwad ar feddwl y tywysog drygionus yma, yr hwn mewn ufudd-dod i'w gynghorion "a wnai lawer o bethau," o ba rai yr oedd wedi canfod eu drwg. Yn awr safa y pregethwr o'r diffaethwch yn mhresennoldeb y Tetrarch, a dynoetha y pechod o losgach yn mha un yr oedd yn byw, a chyda phob ffyddlondeb cywir, beth bynag fyddai y perygl, gwrthdystia yn erbyn ei droseddau, gan ddywedyd, "Nid cyfreithlawn i ti ei chael hi," ac ar yr un pryd ceryddodd ef, "am yr holl ddrygioni a wnaethai."

Mae yn ddyledswydd ar holl bregethwyr cyfiawnder, nid yn unig i draethu eu dadganiadau yn erbyn pechod, ond i geryddu yn ffyddlawn y pechadur, er i'w radd fod yn uchel, a'i allu yn fawr, ac iddo fod yn un o'r "rhai a laddant y corph." Yr ydym yn edrych gydag edmygedd ar y dyn distadl nad yw wedi ei wisgo â dillad esmwyth, nac yn trigo mewn tai brenhinoedd, er wedi ei ollwng i bresennoldeb y llywodraethwr yma,

ger bron yr hwn y safa yn ei wisg arw, i siarad nid mewn tôn dyner a llysaidd, ond i lefain allan mewn seiniau uchel, a chydag awdurdod Ddwyfol, "Nid cyfreithlawn i ti gael gwraig dy frawd."

Nis gallasai y fath gerydd wr ffyddlawn lai na thynu arno ddïaledd y rhai hyny y condemniai eu pechodau. "Herodias (ddrygionus) a ddaliodd wg iddo, ac a chwennychodd ei ladd ef," ac ymddengys y boddlonasai Herod ei dïaledd, oni bai ei ofn yr arweiniasai llofruddiaeth Ioan i derfysg poblogaidd, efe "a ofnodd y dyrfa, canys hwy a'i cymmerent ef megis prophwyd." Yr oedd cymhellion ereill i'w luddias ef dros amser. Parchai gymmeriad sanctaidd Ioan, ac efallai ffyddlondeb ei geryddon, a gwrandawodd gydag hyfrydwch ar ei ddadleuon yn erbyn pechod, yn union fel y ceir dynion drygionus yn fynych yn edmygu hyawdledd a brwdfrydedd y pregethwr, heb roddi eu calonau i'w erfyniadau. Ond llwydda taergeisiadau Herodias, a theflir y ceryddwr llym i garchar.

Yr ydym yn rhagflaenu ychydig o fisoedd, i orphen hanes Ioan. Mae peth dyryswch wedi ei achosi trwy yr adroddiad i Ioan pan yn ngharchar anfon dau o'i ddisgyblion at yr Iesu i ofyn iddo, "Ai tydi yw'r hwn sy yn dyfod, ai un arall yr ydym yn ei ddisgwyl?" Tybir fod yn anhawdd cysoni yr ymofyniad hyn a'r tystiolaethau eglur oedd Ioan wedi roddi yn flaenorol am Grist, ond symmudir yr anhawsder trwy ystyried fod y cenhadon i wneyd yr ymofyniad yma er eu boddhad eu hunain, gan nad oedd yn ofynol er ei fwyn ei hun. Yr oeddynt wedi myned at Ioan yn ei garchar, a dywedyd am y gwyrthiau wnaed gan Grist, ac efallai yn amheu pa un a'i y prophwyd yn Galilea oedd yn wir y Messiah. I symmud eu amheuon, anfonodd Ioan hwynt i fod yn dystion o'r gweithredoedd nerthol wneid gan Grist, ac i wrando ar Ei eiriau Ei hun. Yma drachefn y gwelwn pa fodd y profai y Gwaredwr Ei hawliau trwy y gwyrthiau a gyflawnai. "A'r awr honno efe a iachaodd lawer oddiwrth glefydau, a phläau, ac ysprydion drwg; ac i lawer o ddeillion y rhoddes efe eu golwg. A'r Iesu a attebodd, ac a ddywedodd, Ewch a mynegwch i Ioan y pethau a welsoch ac a glywsoch; fod y deillion yn gweled eilwaith, y cloffion yn rhodio, y gwahan-glwyfus wedi eu glanhau, y byddariaid yn clywed, y meirw yn cyfodi, y tlodion yn derbyn yr efengyl."

**(Darllener Matthew xi. 2—19. Marc vi. 17—20. Luc vii. 18—35.)**

## PENNOD II.

### Y WRAIG O SAMARIA.

WRTH deithio o Judea i Galilea, "yr oedd yn rhaid (i'n Harglwydd) fyned trwy Samaria," gan fod y wlad hono yn gorwedd yn union yn Ei ffordd. O ddwy ffordd, gan ddewis yr un agosaf i'r Iorddonen, yr oedd ganddo i fyned trwy ddinas Sychar, yr hon oedd gerllaw y rhandir a roddasai Jacob, ychydig cyn ei farwolaeth, i'w fab Joseph. "Ac yno yr oedd ffynnon Jacob," oddeutu milldir oddiwrth y dref, ac er cymmaint y rhaid y gwerthfawrogid hi am ei dwfr, ac am ei hanes, mae wedi cyrhaedd llawer mwy o ddyddordeb fel y man lle y tynodd y Samariaid gyntaf, gyda llawenydd sanctaidd, o ffynhonau iachawdwriaeth.

Ar ganol dydd, yn debygol ar ddiwrnod poeth, tra ar daith luddedig, eistedda teithiwr Iuddewig i lawr yn flin wrth ochr y ffynhon hon, ac yn ebrwydd deua gwraig o'r dref gyfagos i dynu dwfr, pan, er ei syndod, y gofyna Ef iddi am ddwfr i'w yfed. Yr oedd yr Iuddewon, y rhai a edrychent i lawr yn ddirmygus ar y Samariaid, yn gyffredin yn anfoddlawn i ofyn ffafr oddiar eu llaw. Gan ein bod wedi gweled dechreuad pobl Samaria, a'r cymhysgedd llygredig o gredoau a seremoniau paganaidd ac Iuddewig o ba rai yr oedd eu crefydd yn gynhwysedig, nid ydym yn cael un anhawsder i gyfrif am y ffaith nad oedd yr Iuddewon yn "ymgyfeillach," neu yn hytrach nad oedd rhyngddynt "gyfathrach gyfeillgar" â'r Samariaid. Daeth y Gwaredwr i dynu i lawr y muriau hyny o ragfarn trwy ba rai y gwahanid yr Iuddewon a'r Cenhedloedd, i ddiddymu pob estroneiddiad rhwng cenhedloedd, gan ddwyn pob cenedl i un rhwymyn o frawdoliaeth sanctaidd; ac o'r bwriad grasol yma rhoddodd eisoes awgrymiad pan y dywedodd wrth y wraig o Samaria, "Dyro i mi i yfed."

Bwriadwyd y cais yma i arwain i'r ymddiddan pwysig hwnw yn mha un y datguddiodd Crist Ei hun i'r Samariaid fel y Messiah Yn Judea yr oedd Crist wedi cael ei gyhoeddi i'r Iuddewon gan Ioan, yr hwn oedd Ei Ragflaenor, ac yr oedd Ei hawliau wedi cael eu profi trwy yr amrywiol wyrthiau a gyflawnodd. Gwnaeth Efe, yr hwn a ddefnyddia wahanol


LEIGHTON, BROTHERS.

CHRIST AND THE WOMAN OF SAMARIA.



LEIGHTON, BROTHERS.

SAMARIA.

foddion i ddenu pechaduriaid ato Ei hun, Ei ddisgybles gyntaf yn Samaria heb wyrth, trwy yr ymddiddan pwysig yma, yn mha un y profodd Ei hollwybodaeth, ac yna yr ymhonodd i fod y Messiah.

Mor brydferth yw y trosfynediad yma o'r dwfr o ffynhon Jacob i'r "dwfr bywiol" y daeth i'w gyfranu i'r byd! "Ped adwaenit ti ddawn Duw, a phwy yw'r hwn sydd yn dywedyd wrthyt, Dyro i mi i yfed, tydi a ofynasit iddo ef, ac efe a roddasai i ti ddwfr bywiol." Fel hyn yr âi yr Athraw mawr yma yn fynych oddiwrth bethau naturiol at bethau ysbrydol, oddiwrth yr hen at y newydd, oddiwrth yr adnabyddus at yr anadnabyddus, oddiwrth bethau daearol at y rhai hyny oeddynt yn nefol. Efe yw "dawn Duw," y ffynhon o ddyfroedd byw, agorwyd mewn tir cras a sychedig, gael i ni yfed a pheidio sychedu mwy. Gellir yn briodol ddarlunio y wybodaeth Ddwyfol, y gras nefol, a'r dylanwadau sancteiddiol sydd gan y Gwaredwr i'w cyfranu, fel dwfr bywiol, yr arwyddlun cyssegredig trwy ba un yr oedd y bendithion hyn wedi eu rhagfynegu yn Ysgrythyrau yr Hen Destament.

Gan mai amcan yr Iesu yn awr oedd datguddio Ei wir fawredd yn Samaria, sicrhaodd y wraig hon, pe buasai yn wybyddus o'r mawredd hwnw, y gofynasai iddo Ef am y ddawn fawr oedd ganddo i gyfranu. Mae anwybodaeth o Grist, o'r gallu, y gras, a'r cariad sydd yn trigo ynddo Ef, yn cadw y lliaws rhag llefain allan am Ei iachawdwriaeth; a dylai fod yn ymdrech pawb sydd yn adnabod gras Duw mewn gwirionedd i gyfranu y wybodaeth hon i ereill.

Y fath orchudd tew o anwybodaeth oedd ar feddwl y wraig hon o Samaria fel yr ymddiddanai ein Harglwydd a hi am bethau ysbrydol! "Y wraig a ddywedodd wrtho, Arglwydd, nid oes gennyt ti ddim i godi dwfr, a'r pydew sydd ddwfn; o ba le gan hynny y mae gennyt ti y dwfr bywiol hwnw?" Yr oedd anghenion yr enaid a'r ddarpariaeth wnaed i'n cyflenwi yn faterion hollol newydd i'w chalon. Pan y llefarai Crist am roddi dwfr bywiol, tybiai hi Ei fod yn llefaru am ffrwd gyson yn tarddu o ddyfnderoedd y ddaear; a phan y llefarai am Ei allu i'w roddi, rhyfeddai a allai fod yn fwy na "Jacob, yr hwn a roddodd i ni y pydew, ac efe ei hun a yfodd o hono, a'i feibion, a'i anifeiliaid." A phan y llefarodd am allu y dwfr bywiol i ddiwallu syched yr enaid am wir ddedwydd-

wch, ateba yn anwybodus, "Arglwydd, dyro i mi y dwfr hwn, fel na sychedwyf, ac na ddelwyf yma i godi dwfr." Felly yn awr "dyn anianol nid yw yn derbyn y pethau sydd o yspryd Duw, canys ffolineb ydynt ganddo ef; ac nis gall eu gwybod, oblegid yn ysprydol y bernir hwynt."

Mor ddoeth y dysga y Gwaredwr ni trwy yr esiampl yma! Gan nad allai hi weled trwy orchudd aralleg, gwneir apeliad yn awr at ei chydwybod. Dylynwyd y gorchymyn i fyned a galw ei gŵr, yn fuan gan y prawf mwyaf argyhoeddiadol fod y dyn dïeithr gyda yr hwn yr oedd yn siarad, yn meddu tryolwg goruwchnaturiol i'w bywyd, ac yn gwybod am ei nodwedd bechadurus. Torodd rhyw belydrau o oleuni Dwyfol i mewn yn awr ar ei henaid, deallodd fod y teithiwr yn fwy na dyn cyffredin—yr oedd o'r hyn leiaf yn "brophwyd"—ac ymaflodd yn y cyfleustra i gael penderfyniad ar fater yr oedd dadl mawr am dano rhwng ei phobl hi a'r Iuddewon. Safai Sychar wrth droed Mynydd Gerizim, pen yr hwn a goronid â'r deml yn yr hon yr addolai y Samariaid. Ei hunig ofyniad oedd am lle y dylai dynion addoli ynddo. Nid oedd ganddi ddim i'w ofyn am ei natur a'i ysbryd, a'r cyfrwng trwy ba un y gallai fod yn gymmeradwy. Y fath dryolwg y mae yn roddi yn awr i nodwedd ysbrydol yr oruchwyliaeth y daeth i'w dwyn i mewn i'n byd! "Iesu a ddywedodd wrthi hi, O wraig, cred fi, y mae'r awr yn dyfod, pryd nad addoloch y Tad, nac yn y mynydd hwn, nac yn Jerusalem."

Fel hyn dysgir i ni un o brif wersi yr Efengyl. Nid crefydd y lleoedd sanctaidd yw ein un ni. Yr ydym i ofalu pa fodd yr ydym yn addoli, a phwy, ond nid pa le. Yn ysbryd y geiriau hyn y dywed Oliver Heywood: "Dysga Hooker yn wir nad yw gwasanaeth Duw mewn lleoedd heb eu cyssegru fel eglwysi yn meddu ynddo ei hun y fath berffeithrwydd o ras a gweddusrwydd a phan y mae urddas y lle yn cydgyfarfod, ac fod mawreddusrwydd a sancteiddrwydd y lle yr addolir Duw yn gwellhau hyd yn oed ein gweithrediadau goreu a phuraf; ond gwell gennym ni ddyweyd gyda Dr. John Reynolds, nad oes i ni Gristionogion yr un wlad yn ddïeithr, yr un tir yn ansanctaidd; mae pob parth yn Judea, pob tref yn Jerusalem, a phob tŷ yn Zion; a phob cwmni ffyddlawn, ïe pob corff ffyddlawn, yn deml i wasanaethu Duw ynddi."

(Darllener Ioan iv. 4—42.)

## PENNOD III.

### YR AIL WYRTH YN GALILEA.

WEDI i'r Gwaredwr dreulio ddau ddiwrnod gyda'r Samariaid, y rhai a'u derbyniasant Ef yn galonog i'w dinas, ac oeddynt yn llawen i'w roesawu fel y Messiah, aeth yn mlaen i Galilea, lle gyda'r eithriad o ymweliad byr a Jerusalem, yr arhosodd dros fwy na blwyddyn. Yr oedd llawer o fisoedd wedi myned heibio er pan y bu yn Cana, ac y gwnaeth Ei wyrth gyntaf; ond y mae yn amlwg fod y son am y rhyfeddod wedi myned yn mhell ar led, ac wedi aros yn nghalonau llawer o bobl. Dychwela yn awr i'r un ddinas fechan, "gan bregethu efengyl teyrnas Dduw, a dywedyd, Yr amser a gyflawnwyd, a theyrnas Dduw a nesaodd; edifarhewch a chredwch yr Efengyl." Dywed Luc wrthym Ei fod yn mynychu y synagogau, ac yn cyhoeddi yno y newyddion da fod teyrnas nefoedd wedi neshau, a pha le bynag yr âi yr oedd yn cael anrhydedd gan yr holl bobl a'u clywent Ef.

Nid oedd wedi bod yn hir yn Cana cyn i gyfleustra newydd ddigwydd i'r ymarferiad o'i allu Dwyfol trwy wyrth o drugaredd. Yr oedd dyn enwog yn byw yn Capernaum, swyddog uchel efallai yn llys Herod, yn sefyll mewn angen am gymhorth a allasai y Meddyg da yma gyfranu. Er yn ddyn mawr, uchel mewn anrhydedd, ac yn alluog i gael wrth alwad yr holl gymhorth a allasai y meddygon roddi, cafodd y gofid o weled ei anwyl fab yn syrthio ymaith i glefyd angheuol, ac "ym mron marw." Profodd nad allai gradd na chyfoeth gadw draw o'i drigfa y blinder o afiechyd ac angel marwolaeth, ac mai ofer oedd iddo ddisgwyl dim yn hwy am gymhorth oddiwrth y meddygon. Yn ffodus iddo ef, yr oedd ganddo ffynhonell newydd o ba un y gellid cael gwaredigaeth, a thrwy y drugaredd Ddwyfol, tueddid ef i wneyd prawf o'i heffeithiolrwydd.

Nid oedd wedi bod yn dyst o'r wyrth yn Cana, ond pwysai ar dystiolaeth y rhai hyny a'i gwelsant; ac er nad oedd Crist eto wedi iachau y claf yn Galilea, eto yr oedd gan yr hwn a drodd y dwfr yn win awdurdod ar fywyd a marwolaeth, a gallai waredu ei fab o ymylon y pwll. Ac nid oedd ynddo ychwaith unrhyw amheuon anheilwng am y gras oedd yn

Nghrist Iesu. Yr oedd y wyrth yma yn Cana wedi dangos y caredigrwydd oedd yn mynwes y Gwaredwr, a gallai y pendefig hwn resymu yn deg y gwnai yr hwn a wnaeth wyrth i gynhal croesawgarwch gwledd briodasol, ddefnyddio yr unrhyw allu i esmwythau calon tad dirboenus. Yr oedd ef, fel nad ydym ni, i'w gyfiawnhau am ddisgwyl gwyrth, ac felly prysurodd i ymofyn am dani.

Er ei fod yn ddyn mor fawr, ac er iseled oedd y sefyllfa ymgymmerwyd gan Iesu, nid oedd yn foddlawn, fel Naaman, i anfon ei weision i alw am gymhorth y prophwyd. Os gallasai y person dirgelaidd yma wneyd y daioni ofynid iddo, yr oedd ganddo hawl i'r anrhydedd uwchaf. Ystyrir fod y gair a gyfieithwn "pendefig" yn arwyddo un yn perthyn i'r teulu brenhinol, ond beth bynag oedd ei radd, nid oedd yn rhy uchel i dalu gwarogaeth i Brophwyd Galilea. Gwna gan hyny daith o rhyw ugain milldir at Grist, a chyda phob parch, erfynia am ei gymhorth grasol. Dyma lle mae esiampl anogaethol i'r rhieni duwiol i dywallt eu herfyniadau taer dros y plentyn sydd yn dioddef o dan ei anhwylderau ysbrydol, ac mewn perygl o farwolaeth dragywyddol. Os rhesyma y rhieni hyny mor ddoeth a'r pendefig hwn, ant at y Gwaredwr ar ran eu mhab, er fod ei holl apeliadau ei hun, a'r eiddo cyfeillion a gweinidogion Cristionogol, wedi eu gwneyd yn ofer.

Ar y cyntaf rhaid fod yr ymofynydd pryderus wedi teimlo digalondid wrth y sylw a dynodd ei weddi allan. "Iesu a ddywedodd wrtho ef, Oni welwch chwi arwyddion a rhyfeddodau, ni chredwch." Yr oedd yn angenrheidiol i ddiben mawr gwyrthiau y Gwaredwr gael ei ddeall, ac i ddymuniad afiach am ryfeddodau gael ei atal. Nid amcan yr amlygiadau anarferol yma o'r gallu Dwyfol oedd cymhwyso meddyginiaeth at anhwylderau cyffredin bywyd, llawer llai i foddloni y cariad at y rhyfeddol a'r goruwchnaturiol yn y meddwl Iuddewig. Yr oedd y Gwaredwr yn barod i wneyd llawer o wyrthiau, a rhoddasai allan Ei allu Dwyfol ar yr achlysur yma, ond rhaid rhoddi y bobl ydynt ar fod yn dystion o hono ar eu gocheliad rhag i'r "arwyddion a'r rhyfeddodau" hyn gael eu camarferyd. Eto yr oedd gan y tad, yn cael ei gymhell gan ei ing ei hun, ei achos arbenig ei hun i'w ddadleu, a'i unig atebiad i'r wers fawr oedd gan Grist i'w dysgu oedd, "O Arglwydd, tyred i wared cyn marw

fy machgen." Yn lle ceryddu y taerineb a osodai fywyd ei fachgen o flaen yr holl bethau mawr am ba rai yr oedd Crist wedi bod yn siarad, y fath oedd Ei dosturi fel na wnai wrthod y fendith, ac mewn atebiad i'r cais, "Tyred i wared cyn marw fy machgen," dywedodd yn raslawn, "Dos ymaith, mae dy fab yn fyw."

Gwnai y rhai hyny a ofynant beth yw ffydd, a pha fodd y gwyddom mai yr eiddom ni yw y wir ffydd, yn dda i sylwi ar ymddygiad y pendefig hwn. "A'r gŵr a gredodd y gair a ddywedasai Iesu wrtho, ac efe a aeth ymaith." Mor foddhaol oedd efe gyda gair Crist, fel yr alltudiodd bob ofnau am ddiogelwch ei fab. Yn lle rhedeg yn ol i Capernaum, ymddengys iddo aros yn Cana; canys er y darllenwn "efe a aeth ymaith," nid aeth ar unwaith. Aeth y gair allan o enau yr Arglwydd ar "y seithfed awr," ond ni chyrhaeddodd ef adref hyd dranoeth, pan y cwrddodd a'i weision, y rhai a ddywedasant, "Doe, ar y seithfed awr, y gadawodd y crŷd ef." Yma yr ydym yn cael eglurhad amlwg o'r gwirionedd, "Ni frysia'r hwn a gredo." Rhyddhaodd ffydd yn ngair Crist ei feddwl oddiwrth bob ofn pryderus, a sicrhaodd ef o ddiogelwch ei blentyn, yn gymmaint a phe yr eisteddasai wrth ochr ei wely, ac y gwelsai y bywyd tawel yn dychwelyd, lle yr oedd y clefyd poeth yn ddiweddar wedi bod.

Ar y cyntaf nid oedd gan y pendefig hwn ffydd lawn yn y Prynwr gogoneddus. Yn y diwedd, arweiniodd y wyrth i'r diben uwchaf y cyflawnwyd gwyrthiau y Gwaredwr, "efe a gredodd, a'i holl dŷ." Yr oedd iechyd y corff yn fendith i fab ac etifedd y tŷ pendefigaidd hwnw, ond dyma fendith o anfeidrol fwy o werth wedi ei chyfranu i'r pen teulu, a'r holl aelodau. Rhoddwyd pob calon i Grist, yr oedd pob meddwl yn dderbynydd o'i wirionedd, ac yr oedd yr holl dŷ yn gynhwysedig yn mysg y rhai a gredasant gyntaf yn Nghrist. Fel hyn rhoddir i ni y darluniad mwyaf addysgiadol o'r manteision a'r bendithion mae y Gwaredwr yn gyfranu i'r rhai hyny a apeliant yn ddifrifol ato Ef am yr "iachawdwriaeth fawr." Mae un aelod o deulu wedi ei ddwyn i fwynhad o fywyd ysbrydol, a deua yn dyst dros Grist i bawb sydd dan y cronglwyd, nes y mae pob un wedi eu huno mewn brawdoliaeth sanctaidd, ac enw y lle yw, "Yr Arglwydd sydd yno."

(Darllener Ioan iv. 43—54.)

## PENNOD IV.

### CRIST WRTH FOR GALILEA.

Ar ol traethu yn Cana y gair holl-alluog hwnw, effaith rymus yr hwn a deimlwyd yn ystafell y claf yn Capernaum, talodd ein Harglwydd un ymweliad a Nazareth, y fan y dygwyd Ef i fyny, lle y pregethodd y newyddion da am dano Ei hun; ond yn lle bod "yn gymmeradwy yn ei wlad ei hun," gorfu iddo yn yr ymarferiad o'i allu Dwyfol, i ddiangc am Ei fywyd. Gwna y Darlleniadau ar "Y Synagog Iuddewig," ac "Iesu o Nazareth," mewn rhan eglurhau yr ymweliad yma, ac ni a ddylynwn yn awr yn ol traed y Gwaredwr i Capernaum a Llyn Galilea.

Rhagfynegodd y prophwyd Esaiah y byddai i Galilea gael ei ffafrio yn neillduol â phresennoldeb y Gwaredwr. Aeth gan hyny "fel y cyflawnid yr hyn a ddywedwyd trwy Esaïas y prophwyd, gan ddywedyd, Tir Zabulon, a thir Nepthali, wrth ffordd y môr, tu hwnt i'r Iorddonen, Galilea y Cenhedloedd; y bobl oedd yn eistedd mewn tywyllwch, a welodd oleuni mawr; ac i'r rhai a eisteddent ym mro a chysgod angau, y cyfododd goleuni iddynt." Ar ol i'r Israeliaid gael eu dwyn yn gaethion i Assyria, ymsefydlodd amryw lwythau Cenhedlig yn y wlad o'r hon yr alltudiwyd hwynt, ac a ymbriodasant â'r ychydig Hebreaid a adawyd. Yn anhebyg i Judea, ni chadwyd Galilea yn rhydd i'r rhai hyny a ddychwelasant o'r Caethiwed, ac yr oedd gan hyny, lawer llai o'r elfen Iuddewig yn aros ynddi nag a ellid gael yn Judea. Yr oedd eu hiaith wedi dirywio cymmaint o'r safon Iuddewig, fel y gellid gwneyd allan yn rhwydd y Galilead a âi i Jerusalem trwy ei dafodiaith estronol, fel y canfyddwn gyda Phedr, pan y dywedodd "y rhai oedd yn sefyll ger llaw wrth Pedr drachefn, Yn wir yr wyt ti yn un o honynt; canys Galilead wyt, a'th leferydd sydd debyg." Mae y gair sydd yn dynodi y wlad hon yn arwyddo "talaeth," a bwriadwyd ef gan yr Iuddewon i'w gwahaniaethu oddiwrth Judea briodol, ac yr oedd yr holl diriogaeth yn ddarostyngedig i'r rhagfarn a'r dirmyg deflid ar Nazareth, fel y gwelwn gyda Nicodemus, pan yr anturiodd hawlio cyfiawnder i Iesu o Nazareth: "Hwythau a

ddywedasant wrtho, A ydwyt tithau o Galilea? Chwilia a gwel, na chododd prophwyd o Galilea."

Yr oedd Galilea Isaf, yn mha un y gwelodd y Gwaredwr yn dda dreulio llawer o'i fywyd cyhoeddus, yn ninasoedd ac ardaloedd gwledig yr hon, ac yn agos i'w llyn "y gwnaethid y rhan fwyaf o'i weithredoedd nerthol," yn dalaeth wedi ei phoblogi yn dew, lle yr oedd llawer i fod yn dystion o'i wyrthiau, ac i glywed y geiriau grasol a lefarai. Dywed Josephus wrthym fod Galilea yn cynhwys cant a phedair o ddinasoedd a threfi, y lleiaf o honynt yn rhifo pumtheg mil o drigolion, er fod yr holl wlad erbyn heddyw agos yn anghyfannedd. Y penaf o'r dinasoedd blodeuog hyn unwaith oedd Cesarea Palestina, Tiberias, Capernaum, Chorazin, Bethsaida, Cana, Nazareth, a Nain, oll hyd yn oed yn eu dadfeiliad yn anwyl gan eglwys Crist fel lleoedd sangwyd yn fynych gan Ei draed sanctaidd. Fe ymunolodd yr hwn "a ddaeth i geisio ac i gadw yr hyn a gollasid" a'r bobl ddirmygedig yma fel yr adwaenwyd Ef wedi hyn fel y Galilead, a'i ddisgyblion fel y "gwŷr o Galilea."

Swyn penaf y wlad hon i'w Llyn Galilea, yr hwn a ymwelir gan yr holl deithwyr Cristionogol yn Syria gyda'r teimlad mwyaf cyssegredig. Un o'r mwyaf diweddar a gwybodus o'r dosbarth, yr hwn a gafodd y fraint o syllu ar yr ymlediad tawel, a ddarlunia fel hyn ei deimladau hyfryd fel y mwynhai "wibdaith dawel araf ar hyd pen y môr cyssegredig yma." Dywed: "Mae traed bendigaid Emanuel wedi sancteiddio pob erw, ac y mae llygaid cariad Dwyfol wedi syllu filoedd o weithiau ar yr ymlediad hardd yma o lyn a thir. O! y mae yn anghymarol brydferth ar yr awr brydnawnol hon. Ymleda y bryniau gorllewinol acw eu cysgodion ymestynol drosto, fel y gollynga mamau y lleni niwlweog o gylch cryd eu babanod wrth gysgu. Oer raid fod y galon nad yw yn curo gyda theimlad anarferol. Fab Duw a Gwaredwr y byd! gyda Thydi deisyfa fy ysbryd diolchgar gael cymmundeb yma ar drothwy Dy gartref daearol. Adgoffa pob peth fi o'th bresennoldeb a'th gariad." Yn yr un iaith edmygol mae cân gyssegredig M'Cheyne:—

"Mor hyfryd i'm yw'th dòn a'th draeth,
Fôr Galilea cu!
Y Dwyfol Un i gadw ddaeth,
Dy lanau 'n rhodio fu.

"Oth gylch ymglyma'r bryniau 'n gain,
O ddistaw dawel li;
Traed Iesu harddach oedd na'r rhai'n,
Pan rodiai'th wyneb di.

"Hyn heibio aeth—Bethsaida, p'le?
Chorazin, p'le'r wyt ti?
Pabella'r Arab gwyllt y lle,
A'r cyrs ddatgana 'i gri.

"Chwi deilchion mân, dywedwch 'nawr,
Ai yma'r oedd tref Crist?
Godwyd hyd nef, ai suddo'i lawr,
A wnaeth hyd uffern drist?

"O Geidwad cu! i'r nef a aeth,
'R un Ceidwad wyt yn awr;
Ti gofi byth yr hyfryd draeth,
A'r bryniau per eu sawr."

Mae y môr canoldirol hwn, yr hwn a adwaenwyd gyntaf fel Môr Ginnereth, ac wedi hyny fel Môr Galilea, Llyn Gennesaret, a Môr Tiberias, yn oddeutu pumtheg milldir o hyd, a saith a haner o led, a chwe chant a deuddeg a deugain o droedfeddi islaw i arwynebedd Môr y Canoldir. Terfynir ei ochr ddwyreiniol gan fynyddoedd oddeutu mil o droedfeddi, tra nad yw y rhai ar yr ochr orllewinol yn meddu codiad o fwy na saith gant o droedfeddi. Darlunir agwedd bresennol yr olygfa ar gyffiniau y llyn gan Frederick Adolphus Strauss, yr hwn a ddywed: "Y lle pryd-ferthaf yw ar yr holl daear, ac wrth yr hwn yr oedd y Gwaredwr yn caru aros oreu. Aethom ar fachludiad haul i dref yn dyrchafu o'r dyfroedd, ac edrychasom i lawr ar Lyn hyfryd Gennesaret. Wrth edrych o Tiberias tua'r lan orllewinol, yr ydym yn canfod y mynyddoedd gyda eu hochrau uwchrawdol, yn dynesu i ymyl y môr; ond, yn y pellder o oddeutu tair milltir, ymgiliant drachefn yn y ffurf o fwa llydan, gan adael yn agored wastadedd tair milltir o hyd, a haner hyny o led. Tir Gen-nesaret yw, ac y mae yn dod i fyny yn llawn a'r oll a gofnodwyd am ffrwythlondeb y lan. Cynhyrcha eto mewn helaethder mawr bob math o yd, a bwydlysiau; a thyfa coed o wahanol hinsoddau yn ymyl eu gilydd."

(Darllener Luc iv. 16—31; v. 1—11.)

# PENNOD V.

## YR HELFA WYRTHIOL O BYSGOD.

YR ydym yn gweled Iesu yn awr yn Capernaum, lle yr oedd un tyst byw o'i allu Dwyfol, a theulu lliosog o gredinwyr yn Ei enw. Ni chymmerodd, modd bynag, Ei gartref yn y teulu pendefigaidd hwnw, i'r hwn y bu y cymhwynaswr penaf, ond cartrefai fel y tybir yn nhrigfa isel Pedr, canys yr oedd Efe "yn addfwyn a gostyngedig," a gosododd Ei hun yn mysg y distadlaf o'r hil y daeth i'w dysgu a'i bendithio.

Er fod Capernaum, fel llawer o leoedd ereill yn ei chymmydogaeth, yn awr yn gorwedd yn adfeilion, ac nad yw ei safle wedi ei benderfynu yn derfynol, eto nid oes dim amheuaeth na safai wrth ben y llyn hwnw yn agos i'r hwn y dysgodd y Gwaredwr ac y gwnaeth Ei wyrthiau. Dywed sylwedydd gofalus ar y lle dyddorol yma wrthym fod yn y gymmydogaeth gilfachau bychain lle y gallasai llong fechan nofio yn ddiogel, dim ond ychydig droedfeddi oddiwrth y lan, a lle y gallasai y tyrfaoedd wrth eistedd bob ochr ac o flaen y cwch, wrando heb anrhefn na lludded. Sylwa hefyd, fod "fel pe yn fwriadol i roddi eisteddleoedd y lan bob ochr i'r cilfachau culion hyn wedi ei phentyru â thalpiau esmwyth o olofgraig. Yn rhywle oddeutu yma, hefyd, yr oedd Andreas a Phedr yn bwrw eu rhwydau i'r môr pan y galwodd ein Harglwydd wrth fyned heibio arnynt i'w ganlyn Ef, a dyfod yn bysgodwyr dynion. Ac yn un o'r cilfachau hyn yr oedd Iago, mab Zebedëus, a Ioan ei frawd, yn trwsio eu rhwydau, pan wedi iddynt hwythau gael eu galw y gadawsant yn uniongyrchol y llong a'u tad Zebedëus, ac a ganlynasant Iesu." Ychwanega: "Yma, ïe yma yn gywir, y dechreuodd y trefniant hwnw sydd wedi ymdaenu dros y ddaear, ac wedi chwyldroi y byd. Ac edrych yn y berthynas hyn, a oes llanerch ar y ddaear a all ymgystadlu â'r lle dyddorol yma?"

Yma, yna, y gwelwn Iesu yn debygol ar awr foreuol yn y dydd, yn cerdded o Capernaum at lan y llyn, ac yn fuan ymgasgla tyrfa o wrandawyr astud o'i amgylch Ef. Nid yw y bregeth draddodwyd ar y dydd hwn wedi ei chofnodi, ond "gair Duw" ydoedd, a'r fath ydoedd ei phrydferthwch a'i synwyr, y pwngc, a'r llefarwr, fel y pwysai y tyrfaoedd yn

anghyfleus arno Ef, "ac efe a aeth i mewn i un o'r llongau, yr hon oedd eiddo Simon, ac a ddymunodd arno wthio ychydig oddiwrth y tir. Ac efe a eisteddodd, ac a ddysgodd y bobloedd allan o'r llong." Fel hyn o'r pwlpud yma, nofiai ar y dyfroedd tawel, cyfarchai y Dysgawdwr mawr y tyrfaoedd oeddynt wedi ymgynnull ar y lan esgynol.

Dylynwyd y bregeth hon gan arddanghosiad rhyfeddol o'r gallu Dwyfol. Gwnaeth yr hwn a lefarodd fel "ni lefarodd dyn erioed" hefyd fel ni wnaeth dyn erioed. Cyn i'r dyrfa gael amser i wasgaru, ac mewn trefn i lawer o dystion fod i'r wyrth, gorchymynwyd i Pedr ac Andreas wthio allan i'r dwfn, a bwrw eu rhwydau am helfa. Yr oedd y pysgodwyr druain wedi ymboeni ar hŷd y nos heb lwyddo, a phe gadawsid hwynt i'w barn eu hunain, gorphwysasent am dymhor oddiwrth eu gwaith. Yr oedd yn naturiol i gasglu nad oedd y pysgod o fewn cyrhaedd, ac mai ofer fyddai mor fuan wneyd ail gynhyg. Nid oedd Pedr hyd eto wedi adnabod gwir fawredd Iesu, ond yr oedd ganddo y fath ymddiried yn Ei ddoethineb a'i ddaioni, fel ar Ei air y bwriai y rhwyd un waith yn rhagor.

"Ac wedi iddynt wneuthur hynny, hwy a ddaliasant lïaws mawr o bysgod; a'u rhwyd hwynt a rwygodd." Yr oedd gan Iesu bob creaduriaid wrth Ei arch, ac yn eu mysg y rhai "sydd yn tramwyo llwybrau'r moroedd," ac yn awr trwy Ei allu holl-lywodraethol, tynir y llwythau adeiniog ynghyd yn llïaws mawr, mwy na digon i lanw y rhwydau, a llwytho y ddau gwch, nes yr oeddynt ar soddi. Fel hyn gwelodd pawb allu Crist a'i haelioni, ac yr oedd y dylanwad ar feddwl Pedr yn rhyfeddol iawn yn wir; "A Simon Pedr, pan welodd hynny, a syrthiodd wrth liniau'r Iesu." Nid yn unig gwelodd ar unwaith mai Iesu oedd yr Arglwydd, ond gan wybod hyny, fel yr Arglwydd rhaid Ei fod yn anfeidrol mewn sancteiddrwydd, a meddyliodd yn briodol fel yr oedd yr Un anfeidrol sanctaidd hwn yn gwahaniaethu oddiwrtho ef, a chan hyny llefodd, "Dos ymaith oddiwrthyf; canys dyn pechadurus wyf fi, O Arglwydd." Amlygiadau trugarog yn wir o'r gogoniant Dwyfol yw y rhai hyny a wnant i ni ffieiddio ein hunain ac edifarhau mewn llwch a lludw. Yr oedd yr un effaith fendithiol ar yr holl ddisgyblion, "oblegid braw a ddaethai arno ef, a'r rhai oll oedd gyd ag ef, o herwydd yr helfa

bysgod a ddaliasent hwy; a'r un ffunud ar Iago ac Ioan hefyd meibion Zebedëus, y rhai oedd gyfrannogion â Simon."

Yr oedd y dynion hyn, fel y gwelsom, wedi eu casglu yn flaenorol o gylch y Gwaredwr fel disgyblion; wedi hyny galwyd hwynt i fod yn apostolion; ac ar yr adeg yma yr oeddynt i ymadael a'u gorchwyl isel ar y môr, a thrwy ganlyn Crist, gwrando Ei eiriau, a gweled Ei weithredoedd, yr oeddynt i ymbaratoi i'r genhadaeth apostolaidd. Dywedwyd nid wrth Pedr yn unig, ond wrth y pedwar disgybl arall, "Mi a'ch gwnaf yn bysgodwyr dynion." Darllenwn am danynt oll, "wedi iddynt ddwyn y llongau i dir, hwy a adawsant bob peth, ac a'i dilynasant ef."

Darluniwyd y gwaith mawr i'r hwn yr oedd y dyfodol i gael ei gyssegru, trwy gyfeiriad at yr alwedigaeth yn mha un y treuliasant eu bywyd. Yr oeddynt i fod yn "bysgodwŷr dynion." Byddai eu gorchwyl eto yn un o ofal a chaledi. Rhoddai yr elfen anwadal yn yr hon yr ymboenent ddydd a nos, arwyddlun cymhwys o'r golygfeydd blinderus a gwrthwynebol yn nghanol pa rai y rhaid iddynt lafurio, tra y byddai i amrywiol gywreindeb y pysgotwr, a'r gofal gyda pha un y defnyddiai hwynt, lefaru am y callineb, y medr, a'r pwyll gofynol wrth ymwneyd a gwahanol ddosbarthiadau o bechaduriaid, i'w dwyn hwynt at Dduw. Ond mor ardderchog a bendigedig yw gorchwyl y rhai hyny oeddynt i waredu dynion o anwybodaeth, anghrediniaeth, a pherygl dychrynllyd, a'u hachub o afael yr un drwg! Dyma yr un ardderchocaf o'r holl orchwylion y gall dyn ymwneyd â hwynt, y mwyaf llafurus a phryderus, eto y dedwyddaf, a'i ganlyniadau y mwyaf bendigedig.

Wrth ddewis dysgawdwyr Ei air, a sylfaenwyr Ei deyrnas o'r pysgodwyr Galileaidd hyn, dengys yr Arglwydd i ni nad yw Ei feddyliau Ef fel ein meddyliau ni, na'i ffyrdd Ef fel ein ffyrdd ni. Gallesid disgwyl y casglasai o'i ddeutu y rhai blaenaf yn mysg y dysgawdwyr Iuddewig, y rhai a allasent ddeall oreu Ei air, a'i esbonio oreu i'r tyrfaoedd; "eithr Duw a etholodd ffol-bethau y byd, fel y gwaradwyddai y doethion; a gwan-bethau y byd a etholodd Duw, fel y gwaradwyddai y pethau cedyrn; a phethau distadl y byd, a phethau dirmygus, a ddewisodd Duw, a'r pethau nid ydynt, fel y diddymai y pethau sydd."

(Darllener Psalm viii. Matthew iv. 18—22. Marc i. 16—22 Luc v. 1—11.)

## PENNOD VI.

### CYTHREULIAID AC ANHWYLDERAU YN YMOSTWNG I AWDURDOD CRIST.

Y SABBATH cyntaf ar ol i'r Gwaredwr gymmeryd Ei drigfa yn Capernaum, yr oedd yn bresennol yn y synagog, i anrhydeddu trwy Ei esiampl Ei hun y dydd sanctaidd fel sefydliad Dwyfol, ac i gyfranu addysg Ddwyfol i'r rhai oeddynt wedi ymgynnull. Ar yr adeg yma, yn gystal ag yn Ei addysgiadau dylynol, nyni a ddarllenwn i'r bobl synu "wrth ei ddysgeidiaeth ef; canys yr oedd efe yn eu dysgu hwynt fel un ag awdurdod ganddo, ac nid fel yr ysgrifenyddion." Yr ysgrifenyddion, fel yr arwydda eu henw, oeddynt ysgrifenwyr a ymgymmerent a'r gwaith o ysgrifenu i lawr eiriau y dysgedigion, yn lle ymgymmeryd a'r sefyllfa o ddysgawdwyr gwreiddiol ac ysbrydoledig. Ar y cyntaf cofnodent eiriau y prophwydi, ac ar y pryd yma trysorent i fyny esboniadau eu rabbiniaid a'u doctoriaid mawrion, heblaw gwneyd copïau o'r Gyfraith, yr hon a ymgymmerent i'w hesbonio. Profodd Iesu trwy nodwedd nefol Ei bregethau, trwy eu doethineb Dwyfol, trwy eu hapeliadau at ddeall a chalonau Ei wrandawyr, Ei fod yn Ddysgawdwr wedi Ei anfon oddiwrth Dduw, ac yn fynegydd gwirioneddau mwy nag oedd clustiau dynol erioed wedi glywed.

Synu mwy fyth a wnai pobl Capernaum wrth weithredoedd y Dysgawdwr rhyfeddol oedd newydd gymmeryd Ei drigfa yn eu mysg. Os nad oedd gwyrth y pysgod wedi eu dysgu am fawredd Iesu yr hwn a'i gwnaeth, yr oedd yn y synagog ddïeithriaid yn dystion i'r mawredd hwnw, y rhai oeddynt yn barod i'w dysgu. Y tystion hyn oeddynt gythreuliaid o'r pydew, y rhai a oddefwyd ar yr amser yma i ymweled a'r ddaear, a myned i mewn i gyrff dynion. Y rhai hyny oeddynt, tra yn cadw eu lleoedd uchel yn y nef, wedi gweled y "Sanct Duw" hwn, ac yn eu teyrngarwch dihalog, oeddynt wedi addoli ger bron Ei wyneb. Bu "rhyfel yn y nef;" ymladdasant o dan Satan, tywysog y cythreuliaid, yn erbyn Michael a'i angelion; ac yr oeddynt wedi eu bwrw allan o'u trigfa uchel a gwynfydedig.

Ar ol hir demptio meibion syrthiedig Adda, yr oeddynt ar yr adeg yma

yn cael eu goddef i fyned i gyrff dynion a thrigo yno, gan arddangos fel hyn eu gallu mawr, ac ar yr un pryd ddarparu yn ddiarwybod tuag at amlygiad o allu anfeidrol Crist. Os derbyniwn y golygiadau hyn ar awdurdod y digwyddiadau rhyfeddol hyny, y cyntaf o ba rai a ddaw yn awr o dan ein sylw, gallwn ddarllen yr hanesion gyda llawer o arswyd a syndod yn wir, ond yn rhydd oddiwrth y dyryswch sydd yn canlyn oddiwrth yr holl gynhygiadau i'w hegluro hwynt gan y rhai hyny a wadant fod y dioddefwyr hyn yn feddiannedig gan gythreuliaid.

Fel hyn, yna, yr ydym yn darllen yr hanes rhyfeddol yma mewn ystyr syml a llythyrenol. "Ac yr oedd yn eu synagog hwy ddyn ac ynddo yspryd aflan; ac efe a lefodd, gan ddywedyd, O'ch beth sydd i ni a wnelom â thi, Iesu o Nazareth? a ddaethost ti i'n difetha ni? mi a'th adwaen pwy ydwyt, Sanct Duw." Y llef a ddaeth o eneu y dyn cythreulig hwn ydoedd leferydd yr ysbrydion aflan a drigent ynddo, a'r llef hono sydd dystiolaeth angylion syrthiedig i Grist. Adwaenent Grist, Sanct Duw; ymddengys iddynt Ei gondemnio am ddyfod o hono yn Iesu o Nazareth; ac eto gwyddent mor dda am Ei allu fel y meddylient am dano gyda dychryn, a llefasant, "A ddaethost ti i'n difetha ni?" Y fath olwg roddir fel hyn ar y dychryn gyda pha un y myfyria yr angelion syrthiedig ar allu Mab Duw. Maent "yn credu ac yn crynu," a pha fwyaf a gredant, mwyaf o reswm sydd ganddynt i ofni. Ei allu, fel ei datguddiwyd iddynt hwy, sydd allu i ddifetha, ac nid i achub. Llefara Ei lef wrthynt hwy yn unig yn nharanau Deddf doredig, tra ei traethir i ddyn yn nhônau siriol Efengyl gras.

Deua Iesu o Nazareth fel cyfaill dyn i'w waredu oddiwrth awdurdod Satan, ac i ddattod gweithredoedd diafol. Fel y mae cythreuliaid yn crynu rhagddo, mae gan ddynion reswm i lawenychu ynddo. Felly yma, yn y synagog hon, mae dioddefydd tlawd yn cael ei waredu oddiwrth ormes gythreulig. Ond nid heb ymdrechfa galed y "dygir y caffaeliad oddiar y cadarn, ac y gwaredir y rhai a garcherir yn gyfiawn." "Yna wedi i'r yspryd aflan ei rwygo ef, a gwaeddi â llef uchel, efe a ddaeth allan o hono." Ac er mor fawr oedd yr ymrysonfa cyn i'r rhai aflan hyn roi i fyny eu hysglyfaeth, oni chafodd y dioddefydd ei gyflawn wobrwyo trwy y waredigaeth a gafodd? A oes rhyw ymdrechfa yn ormod, os caiff

ei dylyn gan ganlyniad mor wynfydedig? Os dymunem gael rhyddhad oddiwrth awdurdod Satan, gallwn sicrhau y rhyddhad yma trwy fyned at Iesu o Nazareth; ond rhaid i ni ddisgwyl am lawer o wrthwynebiad o du yr un drwg. Yr ydym wedi ymostwng yn wirfoddol i drawshoniadau Satan; yr ydym wedi bod yn ddisylw o'r gorchymyn Dwyfol, "Ac na roddwch le i ddiafol;" a rhaid i ni beidio rhyfeddu os na bydd i'r gallu i'r hwn yr ymollyngasom yn wirfoddol ollwng ei afael yn rhwydd.

Yr oedd y wyrth hon i leshau llawer heblaw y dyn ar yr hwn ei gwnaed. Cadarnhaodd yr argraffiad gynhyrchwyd trwy allu y Gwaredwr ar Lyn cyfagos Galilea. Nid oedd ei Hawdwr i fyned heibio iddo gyda difaterwch. "Fe a aeth ar bawb fraw, fel yr ymofynasant yn eu mysg eu hunain, gan ddywedyd, Beth yw hyn? pa athrawiaeth newydd yw hon? canys trwy awdurdod y mae efe yn gorchymyn, ïe yr ysprydion aflan, a hwy yn ufuddhau iddo. Ac yn ebrwydd yr aeth son am dano dros yr holl wlad o amgylch." Daeth y tyrfaoedd yn fuan i'r penderfyniad dedwydd fod ganddo Ef, oedd wedi bwrw allan yr ysbrydion gormesol hyny, awdurdod dros bob math o anhwylder. Cynhorthwywyd hwy i'r grediniaeth yma trwy wyrth arall wnaed gan y Gwaredwr yn union ar ol Ei ddychweliad adref o'r synagog. Yr oedd mam gwraig Pedr yn dioddef oddiwrth glefyd blin, ac yr oedd yn ddigon i Iesu gyffwrdd a'i llaw, "a'r cryd a'i gadawodd hi yn y man." Mae yn nghymmydogaeth Capernaum lawer o dir corslyd a wnai y trigolion yn ddarostyngedig i glefyd; ac y mae clefydau o fath heintlyd yn parhau i ffynu yn y parth yma yn yr haf a'r hydref.

Yr oedd yn awr yn fachludiad haul ar brydnawn Sabbath, pan yr ystyriai y bobl y Sabbath drosodd, wedi iddo ddechreu ar yr un amser y prydnawn blaenorol. Gallasai y bobl gan hyny gario eu cleifion i'r tŷ yn yr hwn yr oedd wedi gyru ymaith glefyd trwy Ei gyffyrddiad. Fel hyn "pawb a'r oedd ganddynt rai cleifion o amryw glefydau, a'u dygasant hwy attto ef; ac efe a roddes ei ddwylaw ar bob un o honynt, ac a'u hiachaodd hwynt. A'r cythreuliaid hefyd a aethant allan o lawer, dan lefain a dywedyd, Ti yw Crist, Mab Duw. Ac efe a'u ceryddodd hwynt, ac nid adawai iddynt ddywedyd y gwyddent mai efe oedd y Crist."

(Darllener Matthew viii. 14—17. Marc i. 21—34. Luc iv. 31—41.)

## PENNOD VII.

### Y CLAF O'R PARLYS WEDI EI IACHAU.

Yn union ar ol yr adferiadau gwyrthiol lliosog a wnaed gan y Gwaredwr ar y dydd hwnw, yr hwn, ar y cyfrif yma, a alwyd "y Sabbath mawr," ceisiodd am dymhor byr o ymneillduad. "A'r bore yn blygeiniol iawn, wedi iddo godi, efe a aeth allan, ac a aeth i le anghyfannedd; ac yno y gweddiodd." Mae dyn wedi ei wneyd i fyfyrdod ac ymneillduaeth yn gystal ag i waith. Mae arnom angen y cysgod tawel yn gystal ag oriau prysur tywyniad haul, a byddwn yn barod i leshau ein cenhedlaeth yn y cyhoedd yn unig fel y dysgir ac y sancteiddir ein hysbrydoedd gan ein Tad nefol yn y dirgel. Mae Crist fel hyn yn esiampl i'w holl bobl, ac yn neillduol i'r rhai hyny a fynent ddysgu Ei wirionedd.

Yr oedd y tymhor benodwyd i'w weinidogaeth gyhoeddus mor fyr, fel yr oedd yn rhaid iddo er cyflawni Ei genadwri oruchel, ateb i alwadau y tyrfaoedd oeddynt yn disgwyl am Ei weled a'i glywed Ef. Pan y dywedwyd wrtho gan hyny fod pawb yn ceisio am dano, atebodd, "Mae yn rhaid i mi bregethu teyrnas Dduw i ddinasoedd eraill hefyd; canys i hyn y'm danfonwyd." Er mwyn i'r goleuni bendigedig ymledaenu o amgylch, gadawodd Capernaum, ac "aeth o amgylch holl Galilea, gan ddysgu yn eu synagogau, a phregethu Efengyl y deyrnas, a iachau pob clefyd a phob afiechyd ym mhlith y bobl." Gyda'r awyddfryd mwyaf apeliodd cyfeillion y cleifion ato Ef ar eu rhan, a beth bynag fyddai natur yr anhwylder, pa un bynag ai naturiol neu oruwchnaturiol, ymostyngai i'w gyffyrddiad, canys Ei law ydoedd law Duw. Yn ol Deddf Moses yr oedd y rhai a gyffyrddent a'r peth aflan wedi eu halogi, ond yn y Meddyg da hwn gwelwn eithriad i bawb a ddygent y ffurf ddynol. Cyffyrddai a'r cleifion yn unig i yru ymaith eu hanwylderau.

Yn mysg y dioddefwyr iachawyd yn ystod y daith ddaionus hon, yr oedd un yn wahanglwyfus. Yr oedd tyb yn mysg yr Iuddewon fod yr afiechyd dychrynllyd yma yn syrthio yn uniongyrchol o law Duw, ac mai Efe yn unig a allasai ei iachau. Cydnabyddwyd gallu Dwyfol Crist gan hyny pan y daeth "atto ef un gwahanglwyfus, gan ymbil ag ef, a

gostwng ar ei liniau iddo, a dywedyd wrtho, Os myni, ti a elli fy nglanhâu." Yr oedd yn fwy pwysig i'r gwahanglwyfus i ddangos ei hun i'r offeiriaid na dychwelyd at ei gyfeillion a mynegu iddynt am y wyrth a wnaed, gan hyny dywedodd yr Iesu wrtho, " Gwel na ddywedych ddim wrth neb; eithr dos ymaith; dangos dy hun i'r offeiriad, ac offrymma dros dy lanhad y pethau a orchymynodd Moses, er tystiolaeth iddynt hwy." Y fath, modd bynag, ydoedd ei ddiolchgarwch fel nad allai fod yn ddistaw, " eithr efe a aeth ymaith, ac a ddechreuodd gyhoeddi llawer, a thaenu'r gair ar led."

Ar ei ddychweliad i Capernaum, ail-ymaflodd y Gwaredwr yn Ei waith o ddysgu, ac yn mysg y rhai a ymdyrasant o'i amgylch, yr oedd Phariseaid a doctoriaid o'r Gyfraith, oeddynt wedi dyfod gyda'r tyrfaoedd o bob tref yn Galilea a Judea, ac hyd yn oed o Jerusalem. " Ac yr oedd gallu'r Arglwydd i'w hiachâu hwynt," yn gystal a'i ddoethineb i'w dysgu, a'r fath oedd awydd pryderus y bobl i sicrhau adferiad eu cleifion tra yr oedd Crist eto yn eu mysg, fel y cawn yma bedwar o ddynion yn tori ar y bregeth, trwy gyflwyno ger Ei fron ddyn tlawd claf o'r parlys, mewn dull anghyffredin, ac un a ymddengys i ni, na welsom ond tai Europeaid, braidd yn annichonadwy. Byddai felly yn dda cymmeryd tystiolaeth un sydd wedi gweled y fath adeilad a'r un yma yn fynych.

Dr. W. M. Thomson a ddywed: " Rhaid i ni alltudio o'n meddyliau bob ffurf o dai Europeaidd ac Americanaidd. Yr oedd rhai Capernaum, fel y mae yn amlwg oddiwrth yr adfeilion, yn debyg i rai y pentrefi diweddar yn yr un parth, yn isel, tra isel, gyda phenau gwastad, gyrhaeddir ar hyd grisiau o'r buarth neu y cyntedd. Safai Iesu yn debygol yn y *lewan* agored, ac yr oedd y dyrfa o'i amgylch ac o'i flaen. Gan nad allai y rhai a ddygent y claf o'r parlys 'nesâu atto gan y dyrfa,' dringasant ar nen y tŷ, symmudasant gymmaint o hono ag oedd yn anghenrheidiol, a gollyngasant i lawr y claf trwy yr agoriad.... Nid yw y nen ond ychydig o droedfeddi o uchder, a thrwy blygu i lawr, a dal conglau y gwely—hulyn sachellog tew yn unig, fel sydd yn bresennol yn y parth yma—gallasent ollwng i lawr y gŵr claf.... Yr oedd yr holl amgylchiad yn ddyfais ddiymaros gŵyr gwledig, arferol o agor eu nenau i ollwng i lawr yd, gwellt, a phethau ereill, fel y gwnant eto yn y wlad hon."

"A phan welodd yr Iesu eu ffydd hwynt, efe a ddywedodd wrth y claf o'r parlys, Ha fab, maddeuwyd i ti dy bechodau." Yma gwelwn eglurhad rhyfeddol o allu ffydd, a pha fodd y sicrha fendithion i ereill yn gystal ag i'r rhai hyny ar ran pa rai ei hymarferir. Dygodd y ffydd oedd gan y pedwar dyn yma yn ngallu a gras Crist y fendith i'r claf o'r parlys digynhorthwy. Yr oedd y fendith a geiswyd yn fawr, ond llawer mwy oedd yr un a gyfranwyd. Ceisiasant yn unig am iachâd i'r corff, ond cyfranodd Crist iachawdwriaeth i'r enaid, a rhoddwyd y fendith fwyaf hon, cyn yr un a'u dygodd at Grist. Gallai na wyddent am ddrwg pechod, neu am y fendith o faddeuant, ac iddynt pan y clywsant y Gwaredwr yn dyweyd wrth y dioddefydd fod ei bechodau wedi eu maddeu, deimlo nid ychydig o syndod, os nad siomedigaeth. Nid hyn oedd arnynt hwy eisieu. Daethant am iachad gwyrthiol, y fath ag y gwyddent a allasai Iesu roddi yn rhwydd. Nis gall meddyliau daearol ddeall drwg pechod, a'i ystyried fel y penaf o bob anhwylder, ac felly nid ydynt yn barod i werthfawrógi yn iawn y fendith anfeidrol o faddeuant.

Eto ni wrthododd y Gwaredwr y lles tymhorol am yr hwn y gwnaed y fath ymdrech. Pan y cyhuddodd y Phariseaid Ef o gabledd am faddeu pechodau, rhoddodd brawf digonol fod ganddo awdurdod i ymarfer yr hawlfraint Ddwyfol: "Fel y gwypoch fod gan Fab y dyn awdurdod ar y ddaear i faddeu pechodau, (eb efe wrth y claf o'r parlys,) Yr wyf yn dywedyd wrthyt, Cyfod, a chymmer dy wely, a dos i'th dŷ." Gallwn dybio i'r claf o'r parlys lawenhau wrth gael maddeuant pechod. Fel y y teimlai faich afiechyd, a dynesiad marwolaeth, gallwn obeithio iddo adolygu ei fywyd, teimlo galar ac edifeirwch, a'i fod mor bryderus am ei enaid ag oedd ei gyfeillion am ei gorff tlawd crynedig.

Fel y'n dysgir ni trwy yr arddanghosiadau hyn o drugaredd a gallu y Gwaredwr, i geisio yn gyntaf deyrnas Dduw! Rhoddodd Iesu yn gyntaf y fendith fwyaf, ac yna'r un lai. Mae ein pryder naturiol ni am y byd hwn, a'r bywyd presennol anwadal, ond mynai y Gwaredwr i ni yn gyntaf i weled fod yr enaid wedi ei ddwyn i sefyllfa o ddiogelwch ac iechyd, ac yna disgwyl am ba ddaioni daearol bynag a ddyry Ei law.

(Darllener Psalm li. Luc iv. 42—44; v. 12—16.)

## PENNOD VIII.

### AIL BASC EIN HARGLWYDD.

Yn union ar ol y wyrth ddiweddaf am yr hon y buon yn darllen, galwodd ein Harglwydd ar Matthew, yr hwn, fel y dengys yr hanes, oedd bublican, neu gasglwr cyllid o dan y llywodraeth Rufeinaidd. Adgoffhâi y dreth yn barhaus, yn ei ffurf mwyaf ffafriol, yr Iuddewon o'u darostyngiad i'r Rhufeiniaid, ac yr oedd yn fwy gormesol byth trwy y gorthrech ddefnyddid gan y casglwyr hyn, y rhai a ymgyfoethogent yn gyffredin trwy ofynion anghyfiawn. Trwy hyn nis gallwn ryfeddu fod y publicanod yn cael eu cyfrif gyda'r dirmyg mwyaf gan yr Iuddewon, a'n bod yn eu cael hwy yn wastad wedi eu cyssylltu â "phechaduriaid." Yr oedd ein Harglwydd, yr hwn a ddaeth i geisio ac i gadw y colledig, i sefydlu teyrnas gras, a chyhoeddi trugaredd i'r penaf o bechaduriaid, wedi dewis yn barod Ei ddisgyblion agosaf o bysgotwyr distadl Galilea, ac yn awr ychwanega at y nifer Matthew, y publican.

Yr oedd i fod yn un o golofnau yr eglwys newydd, yn apostol Crist, ac yn un o'r pedwar bywgraffwyr gan ba rai y cofnodwyd Ei fywyd sanctaidd. Yr oedd i fod yn dyst i ras Crist, ac yr oedd ei ufudd-dod parod i alwad y Gwaredwr yn dystiolaeth i'w allu. Pan yr hawliwyd gyntaf y mab hwn i Alphëus i wasanaeth yr Arglwydd, yr oedd yn y lle y derbynid y dreth, yn gylchynedig gan ei lyfrau, papyrau, ac ysgrifau swyddogol, a gallwn dybio yn eistedd wrth fwrdd wedi ei orchuddio âg arian dalwyd gan bobl anfoddog Galilea; ond nid cynt y dywedodd Iesu wrtho, "Canlyn fi," nag "y cododd, ac a'i canlynodd ef."

Gadawodd ein Harglwydd am dymhor byr Galilea, fel y gallai fod yn bresennol yn y Pasc yn Jerusalem, "gwyl yr Iuddewon," grybwyllir yma gan Ioan. Os ystyriwn felly yr "wyl" hon, yna cyrhaeddodd gweinidogaeth gyhoeddus ein Harglwydd dros oddeutu tair blynedd a haner. Mae yr amgylchiad goffheir wedi hyn am y disgyblion yn tynu tywys ar eu dychweliad o'r wyl hon, yn dangos fod y Pasc newydd gael ei gynhal; ac y mae rhesymau cryfion ereill o du y golygiad yma. Y Pasc oedd y mwyaf pwysig o dair gwyl flynyddol yr Iuddewon yn y ddinas sanctaidd,

ac y mae yn hawdd dychymygu ei bod yr un mwyaf dyddorol i'r Gwaredwr, gan y rhag-gysgodai y dioddefiadau mawrion y daeth Ef i fyned drwyddynt, a'r iachawdwriaeth fawr yr oedd Ef ar ddwyn i ben.

Yn ystod yr ymweliad byr yma â Jerusalem, amlygodd ein Harglwydd drachefn Ei allu a'i drugaredd mewn dull ddanghosai ddiben grasol Ei genadwri i'n byd. Yr oedd y Bethesda hyny—*ty trugaredd*—wrth borth y defaid, ar ochr ogledd-ddwyreiniol y Deml, wedi ei godi o amgylch y llyn, lle ar rai amserau cyfnodol y profid ei rinweddau iachaol gan y dioddefwr. Yr oedd amserau pan y rhedai y dyfroedd hyn allan gyda nerth a ffresrwydd mawr, a gwnaed gwelliantau mawrion ar y cyfryw a allai neidio i mewn ar unwaith ac ymdrochi. Ond âi y cyfleustra manteisiol ymaith yn fuan, a thra yr iacheid un, gadewid tyrfaoedd i ddioddef. Yr oedd yn rhaid i'r gweddill ddychwelyd i'r pum colofnres godwyd yn gysgod iddynt, a "disgwyl am gynhyrfiad y dwfr" drachefn. Yr oedd llawer wedi disgwyl am flynyddoedd, ond yn ofer, a thynwyd sylw yr Arglwydd at achos gresynol un oedd wedi disgwyl fel hyn am ddeunaw mlynedd ar hugain. Mor resynol yw yr hanes a adrodda! "Arglwydd, nid oes gennyf ddyn i'm bwrw i'r llyn, pan gynhyrfer y dwfr; ond tra fyddwyf fi yn dyfod, arall a ddisgyn o'm blaen i." Mor rasol oedd cyfryngiad Crist!" Yr Iesu a ddywedodd wrtho, Cyfod, cymmer dy wely i fynu, a rhodia. Ac yn ebrwydd y gwnaed y dyn yn iach; ac efe a gododd ei wely, ac a rodiodd."

Ond gwnaed y wyrth hon ar y Sabbath, a'r Iuddewon, pa rai nad allent wadu ei gwireddolrwydd, a allent yn y fan leiaf ddirmygu ei Hawdwr am droseddu y dydd sanctaidd. Yr oedd Iesu wedi cilio yn ddistaw ymaith oddiwrth y dyrfa oedd wedi ymgasglu o amgylch y dyn gan yr hwn y profwyd yr iachàd rhyfeddol yma, a'r Iuddewon yn lle gofyn i'r dyn, Pwy oedd wedi iachau ei glefyd? a ofynasant iddo yn unig, "Pwy yw'r dyn a ddywedodd wrthyt ti, Cyfod dy wely, a rhodia?" Mae gan yr hyfeiwyr hyn eu cynrychiolwyr eto, yn y rhai nad allant gyfranu un lles i ddynolryw, ond ydynt yn barod bob amser i feirniadu a beio y llafurwyr ffyddlawn yn ngwasanaeth yr Arglwydd. Yr oedd y dyn tlawd yma trwy ei adroddiad byr a syml, wedi cyfiawnhau ei hun yn ei ufudd-dod, a Christ yn Ei orchymyn Dwyfol. Rhaid mai llais Duw a

ddywedodd wrtho, "Cyfod, a rhodia," ac yr oedd y llais yma yn ddigon o awdurdod am y gorchymyn, "Cymmer dy wely i fynu."

Nid oedd Crist wedi cyflawni eto Ei holl fwriadau grasol tuag at y dyn a iachaodd. Rhaid i'r enaid yma hefyd brofi Ei allu. "Wedi hynny'r Iesu a'i cafodd ef yn y deml, ac a ddywedodd wrtho, Wele, ti a wnaethpwyd yn iach; na phecha mwyach, rhag digwydd i ti beth a fyddo gwaeth." Yma gwelwn rai pelydrau o'r Dwyfol yn tywynu allan o ddynoliaeth ein Harglwydd. Nid oedd Crist yn ddeunaw ar hugain oed, ac eto dwg ar gof y pechodau gyflawnwyd gan y dyn hwn yn ei ieuengctid, a gadawa ef i fyfyrio ar y rhybudd: "Wele, ti a wnaethpwyd yn iach; na phecha mwyach, rhag digwydd i ti beth a fyddo gwaeth." Mae yn amlwg mai oddiar deimladau o ddiolchgarwch, ac i'r diben o anrhydeddu y Gwaredwr, yr "aeth (y dyn) ymaith, ac a fynegodd i'r Iuddewon, mai'r Iesu oedd yr hwn a'i gwnaethai ef yn iach." "Am hynny yr Iuddewon a erlidiasant yr Iesu, ac a geisiasant ei ladd ef, oblegid iddo wneuthur y pethau hyn ar y Sabbath."

Yn yr amddiffyniad ardderchog yma dywed y Gwaredwr mai Duw Ei *hun* yw Efe; Ei fod yn dwyn yn mlaen Ei waith holl-alluog a daionus fel Ei Dad nefol, nad oedd Ef fel y prophwydi wedi Ei anfon i gyflwyno cenadwri yn unig, llawn ystyr yr hon nid allent amgyffred bob amser, ond Ei fod yn gwybod holl gynlluniau Dwyfol drugaredd, a'i fod wedi dod o'r nef i'w cyflawni; fod ganddo hawl i'r holl anrhydedd dyledus i'w Dad nefol, ac mai Ei waith Ef oedd codi eneidiau dynion o farwolaeth pechod, yn gystal ag ymarfer goruchaf swydd y farn ddiweddaf. Sefydla yr hawliau hyn trwy brawfion digonol; trwy dystiolaeth y Bedyddiwr, yr hwn a gymmerai pawb megis prophwyd wedi ei anfon oddiwrth Dduw; trwy y gwyrthiau a gyflawnodd, rhai mor rhyfeddol a lliosog; trwy lef Duw, yr hon a glywyd yn llefaru o'r nef wrth y tyrfaoedd ar ddydd Ei fedydd; a thrwy dystiolaeth y prophwyd mawr hwnw Moses, am yr hwn yr ymffrostient, ond yr hwn sydd wedi llefaru o'r blaen am dano Ef, a'r hwn a osodir allan fel yn edrych i lawr arnynt hwy fel cyhuddwr digofus: "Y mae a'ch cyhudda chwi, sef Moses, yn yr hwn yr ydych yn gobeithio." Cyfeiriwyd y geiriau hyn yn debygol at y Sanhedrim.

(Darllener Ioan v. 1—47.)

## PENNOD IX.

### Y BREGETH AR Y MYNYDD.

Wrth ddychwelyd o Jerusalem, aeth y Gwaredwr a'i ddisgyblion trwy y maesydd ŷd ar y dydd Sabbath, dydd yr hwn, oddiwrth ei ddynodiad —"yr ail brif Sabbath" (Luc vi. 1)—a ystyrir i fod y cyntaf o'r saith Sabbath cyn y Pentecost, y rhai a gyfrifid o'r ail ddydd o'r Pasc. Y disgyblion yn newynog a dynasant y tywys i'w bwyta, a dygasant ar y Gwaredwr edliwiadau y Phariseaid, ffug fanylder y rhai a atebodd yn ddyladwy, gan honi fod y Sabbath wedi ei wneuthur er mwyn dyn; ac mai Efe oedd Arglwydd y Sabbath. Ar Sabbath arall, er egluro y teitl rhyfeddol yma, a dangos Ei hawl iddo, aeth i mewn i synagog, ac iachaodd ddyn oedd a'i law wedi gwywo. Wrth fyned at Fôr Galilea, ymdyrwyd ar Ei ol gan dyrfaoedd a ddaethant o leoedd pell, rhai o Idumea, ac ar ba rai yr arferodd Ei allu Dwyfol trwy iachau eu holl glefydau.

Ar ol yr holl arddanghosiadau hyn o'i allu Dwyfol, ymofynodd yr Iesu drachefn am le o ymneillduad; a chafodd ef yn ochr mynydd, lle parhaodd ar hyd y nos mewn gweddi ar Dduw. Dylynwyd y noson hono o addoliad sanctaidd gan urddiad Ei ddeuddeg apostol. Yr oedd rhai yn barod wedi eu casglu o'i ddeutu i fod yn dystion o'i weithrediadau, ac i ddysgu oddiwrth Ei athrawiaeth; ac yn awr ychwanegwyd eu nifer i ddeuddeg, y rhai, gydag un eithriad ofnadwy, oeddynt i brofi yn ffyddlawn hyd angeu. Yn union ar ol i'r gwaith pwysig yma gael ei orphen, traddododd ein Harglwydd y Bregeth ar y Mynydd.

Nid yw mewn un modd yn bwysig i ni allu penderfynu yn foddhaol y lle yn gywir yn mha un yr ymgasglodd y tyrfaoedd i wrando ein Harglwydd yn traddodi y bregeth nefol hon. Nis gallai fod y mynydd uchel a osoda traddodiad allan fel Mynydd y Gwynfydau, yr hwn sydd ddeg milldir oddiwrth Fôr Galilea. Rhaid fod y llanerch yn agos iawn i Capernaum, lle y dychwelodd y Dysgawdwr anffaeledig yn union ar ol i'w bregeth gael ei thraddodi. Gan fod y tir yn codi yn raddol oddiwrth y môr yma, mae llawer o leoedd yn ateb i adroddiadau Matthew a Luc. Ar yr rhestr uchel yma byddai i Grist a'r dyrfa esgyn i'r mynydd, ac eto

yn lle gorfod sefyll ar ei ochrau serth, gallasent sefyll "mewn gwastattir," neu yn hytrach ar le gwastad, neu ddarn o ucheldir gwastad, mewn cryn uchder. Wrth gymmeryd yr olwg yma ar eiriau Luc, ni a allwn ddeall yn rhwydd y cydgordiad rhwng dywediadau y ddau efengylwr.

Yma, yna, ymgymmera y Dysgawdwr Dwyfol a'r agwedd arferol gyda'r dysgawdwyr Iuddewig, a phan yr eisteddodd, ymgasglodd Ei ddisgyblion newydd-benodedig o'i gylch, ac y mae y tyrfaoedd mawrion yn ymwasgu yn agos i ddal gafael ar y geiriau grasol fel y disgynant oddiar Ei wefusau. Yma, fel y gwelsom ar achlysur arall, yr oedd y bobl yn deimladwy o awdurdod Ei addysg a mawredd dwyfol Ei agwedd: "Yr oedd efe yn eu dysgu hwynt fel un ag awdurdod ganddo, ac nid fel yr ysgrifenyddion."

Ymegyr y bregeth hon gyda'r datganiad Dwyfol ar y mater mawr o ddedwyddwch dynol, neu wynfydedigrwydd, pwngc ag yr oedd yr amrywiaeth barn mwyaf yn bod arno y pryd hyny, yn gystal ag yn awr. Yr oedd tri chant o ddarnodion yn arferedig am y daioni penaf yn mysg athronwyr, ac efallai y gellid casglu cynifer o filoedd yn yr amser yma. Y fath fraint oedd i'r dyrfa gael clywed datganiadau anffaeledig ar y pwngc yma o'r dyddordeb dyfnaf, yn lle tybiau diles dynion cyfeiliornus! Mae hon yn fraint i ninau hefyd; gallwn ddysgu gan yr Iesa. Ond i gael budd oddiwrth yr addysgiadau hyn, rhaid i ni osod o'r neilldu lawer o ragfarnau, a derbyn llawer o wirioneddau yn hollol groes i'r tybiau cyffredin yn mysg "dynion y byd, y rhai mae eu rhan yn y bywyd yma."

Bydded i ni wrando ar eiriau y Gwaredwr, "Gwyn eu byd y tlodion yn yr yspryd." Meddylia y dyrfa fod y cyfoethogion yn ddedwydd, ac y gall eu cyfoeth sicrhau gwir fwynhad. Na, meddai y Dysgawdwr yma, i fod yn ddedwydd rhaid i chwi fod yn dlawd yn eich ysbryd, gan deimlo nad allwch gael dim ond fel y deua oddiwrth Dduw. "Gwyn eu byd y rhai sydd yn galaru." Onid yw yr iaith yma yn gwrthddyweyd ei hunan? Onid yw galar a dedwyddwch yn hanfodol wrthwynebol? ac oni chaem wynfyd yn mysg y rhai y mae eu geneuau wedi eu llanw a chwerthin a'u tafod â chân? Na, meddai ein Meistr, rhaid i chwi wybod beth yw galaru am bechod ynoch eich hunain, ac yn ereill; ac os bydd eisieu, rhaid i chwi alaru tra mae y byd yn llawenhau, os ydyw yr ysbryd

i fod eich diddanydd, ac os ydych i gael cysuron Duw, a llawenydd Ei iachawdwriaeth. "Gwyn eu byd y rhai addfwyn." Yn nyddiau Malachi galwent "y beilchion yn wynfydedig;" ac yn ein dyddiau ni mae y mawrion a'r uchel yn nghanol eu gwychder yn cael eu heiddigeddu mewn cyfartaledd fel y sylweddolant amcanion uchelgais fydol; ond dysga Crist ni mai ofer ydyw edrych am wir ddedwyddwch yn y galon hono lle mae y pechod anffyddol o falchder yn trigo. "Gwyn eu byd y rhai sydd arnynt newyn a syched am gyfiawnder." Nid yw gwir ddedwyddwch i'w gael yn y wledd ddrudfawr; ni chynhyrchir ef gan y ddarpariaeth mwyaf dewisol, na'r gwinoedd melusaf. Na; rhaid i'r enaid gael awydd-iadau ellir ddiwallu yn unig trwy sancteiddrwydd, trwy gydffurfiad cyn-hyddol i ddelw Duw, trwy gyfranogiad helaeth o'r dduwiol anian; ac y mae y rhai hyny sydd yn newynu ac yn sychedu fel hyn yn ddedwydd, "canys hwy a ddiwellir," trwy law Duw. "Gwyn eu byd y rhai pur o galon." Felly yr ydym yn dysgu nad yw gwir ddedwyddwch yn deilliaw oddiwrth unrhyw amgylchiadau allanol, pa mor ffafriol bynag. Mae ei eisteddle yn y galon, ac y mae yn rhaid i'r galon hono fod yn bur, wedi ei phuro gan yr Ysbryd Glân, fel y byddai yn wir ddedwydd.

I fod yn ddedwydd rhaid i ni fod yn "dangnefeddwyr," heb gymmeryd dim hyfrydwch yn y cynhenau a'r ymrysonau yn mha rai y mae dynion yn ymosod ar eu gilydd. Yn ysbryd Moses, rhaid i ni geisio wrth weled brodyr yn ymrafaelio, eu hanog "i heddychu;" ac yn ysbryd Crist i ddwyn pawb i un frawdoliaeth garedig.

Mor ddïeithr y swnia y datganiad, "Gwyn eu byd y rhai a erlidir o achos cyfiawnder!" Nid bod yn wynfydedig yw byw mewn tawelwch a llon-yddwch a fwynheir trwy ddifaterwch am hawliau gwir grefydd; ond y mae gwir ddedwyddwch mewn cyfranogi yn llafur ac erledigaethau gweision ffyddlawn Crist, y rhai a ddygant dystiolaeth i'w wirionedd, ac a geisiant ledaenu Ei deyrnas. Rhaid i erledigaeth i fod yn wynfyd, fod "o achos cyfiawnder," nid am ddrwg a wnaethom, neu am annoethineb y syrthiasom iddo yn ein zel dros y gwirionedd. Felly mae gwir wynfyd gan y rhai ydynt yn wrthddrychau gwawd y byd hwn, erledigaethau, a chamgyhuddiadau, pan y mae y blinderau yn dyfod o achos Crist.

(Darllener Matthew v.—vii. Luc vi. 1—5.)

## PENNOD X.

### Y PUR O GALON YN GWELED DUW AR Y DDAEAR.

YN mysg y gwynfydau gyhoeddwyd gan y Gwaredwr, mae un sydd yn gosod allan mewn modd mwyaf addysgiadol fywyd y Cristion, a mwynhad pur a bendigaid yr holl rai hyny at ba rai y dylid cymhwyso y dynodiad uchel. Dysga y Gwaredwr ni mai y rhai gwir ddedwydd yw "y rhai pur o galon;" ac mai eu rhagorfraint fawr hwy yw "gweled Duw."

Y purdeb y llefara Crist am dano nid seremoniol yw, ond moesol. Nid oedd ond ychydig iawn yn mysg y dyrfa ymgasgledig o amgylch y Dysgawdwr mawr yma nad oedd eu crefydd yn gynhwysedig yn unig yn nghadwraeth y Gyfraith seremoniol. I ymprydio yn fynych; i ddegymu y mintys, a'r anis, a'r cwmin; i gyflwyno yr ebyrth penodedig; i gadw y dyddiau sanctaidd; i ochelyd cyffyrddiad a'r claf a'r marw—oeddynt yn marn yr Iuddewon i fod "yn ol y cyfiawnder sydd yn y ddeddf, yn ddiargyhoedd." Nid yw y fath burdeb yn dod i fyny a gofynion Crist. Gofyna Ef burdeb yn nyfnderoedd ein natur foesol. Nid yw teyrnas Crist fwyd a diod, ond cyfiawnder, a thangnefedd, a llawenydd yn yr Ysbryd Glân. Ffydd yn Nuw ydyw, cariad at Ei enw sanctaidd, a chariad gwirioneddol at ddyn. Nid yw y purdeb hwn yn allanol yn unig, yn effeithio ar y fuchedd, ond y mae ei eisteddle yn yr enaid, ac y mae yn cynhwys cydymffurfiad a'r peth mawr a ofyna Duw, "Fy mab, moes i mi dy galon." Os yw y purdeb hwn gennym, ein gweddi barhaus a thaer fydd, "Chwilia fi, o Dduw, a gwybydd fy meddyliau; a gwel a oes ffordd annuwiol gennyf, a thywys fi yn y ffordd dragywyddol."

Fel y gofyna y Gwaredwr am y purdeb hwn, felly y darpara ar ei gyfer. Ni a allwn fod yn bur yn unig fel y glanhâ Ei aberth ni oddiwrth euogrwydd pechod, ac y symmuda gair Ei wirionedd ei halogrwydd. I gael ein lle yn mysg y seintiau ger bron yr orseddfa, rhaid i ni olchi ein gynau a'u canu yn ngwaed yr Oen, cael ein calonau wedi eu taennellu oddiwrth gydwybod ddrwg, a golchi ein cyrff â dwfr glân. Mae arnom eisieu y fendith o iawn, a'r fendith o sancteiddhad; gwaith Crist, yr hwn a dywalltodd Ei waed drosom—a gwaith yr Ysbryd Glân, gweithrediad

yr hwn ar y galon, sydd yn gwneyd y gwirionedd yn effeithiol i argyhoeddi yr enaid, ac yna i ddwyn yn mlaen waith gras i berffeithrwydd.

Mae gwynfydedigrwydd y rhai hyny sydd yn meddu y purdeb hwn o'r nodwedd uwchaf, "Hwy a welant Dduw." Nid ydym i gasglu fod y fraint hon i gael ei chadw erbyn y byd nesaf, lle, os byddwn marw yn yr Arglwydd, y "cawn ei weled Ef megis ag y mae." Mae llawer o'r gwynfydau ereill yn dal perthynas a'r byd hwn, yn gystal a'r hwn a ddaw, a mwynheir y fraint yma o weled Duw yn gyntaf ar y ddaear, ac yna caiff ei pherffeithio yn y nefoedd.

Nis gellir gweled Jehofah, yr Ysbryd Anfeidrol, a llygaid o gnawd. Ni welodd, ac nis gall yr un llygaid marwol Ei weled, ac eto mae wedi Ei weled, a gwelir Ef eto ar y ddaear gan y pur o galon. Hysbysa Hezecïah i ni, (Esaiah xxxviii. 11,) pan yn rhagddisgwyl ei farwolaeth uniongyrchol, iddo ddyweyd "Difuddiwyd fi o weddill fy mlynddoedd. Dywedais, Ni chaf weled yr Arglwydd Ior yn nhir y rhai byw." Rhaid ei fod wedi gweled Jehofah yn flaenorol, fel y gellir Ei weled Ef yn unig â llygaid yr enaid. Felly y cyfarcha yr apostol Ioan y Cristionogion cyntaf, fel y rhai yr oedd eu braint "i weled Duw." Pan y dywed, "Pob un a'r sydd yn pechu, ni's gwelodd Ef," awgryma fod Duw wedi Ei weled gan bawb oeddynt wedi eu gwaredu oddiwrth awdurdod pechod. (1 Ioan iii. 6.) Fel hefyd pan y dywed, "Yr hwn sydd yn gwneuthur drygioni, ni welodd Dduw."

Mae Duw i'w weled â'r enaid yn unig, a phan y bydd yr enaid hwnw wedi ei buro, gall, pa un bynag ai ar y ddaear, neu yn y nefoedd, â gwyneb agored weled Duw. Cynhysgaeddwyd ein heneidiau a galluoedd i weled Duw, a buasem yn Ei weled bob amser oni bai iddynt gael eu tywyllu gan bechod. Yn ol fel y gorchfygir pechod, adnewyddir ein golwg ysbrydol, a gwelir Duw.

Gall y rhai hyny y mae y gorchudd o dywyllwch moesol wedi ei symmud oddiar eu llygaid, weled Duw yn y byd sylweddol o'u hamgylch, pa un bynag ai yn y wybrenau, ai ar y ddaear. Fel hyn yn eglur y gwelodd Dafydd Dduw yn mhrydferthwch a ffrwythlondeb gwlad Judea, fel y darllenwn yn Psalm lxv. 11: "Coroni yr ydwyt y flwyddyn a'th ddaioni, a'th lwybrau a ddiferant frasder." Dywedai y beirdd paganaidd

lle bynag y gosodai Juno ei throed ar y ddaear, y tarddai blodeuyn i fyny i goffhau ei hymweliad. Yr hyn a briodolent hwy i dduw dychymygol, a briodola y Psalmydd yn gyfiawn i'r gwir Dduw. Yr oedd ei ysbryd wedi gweled Jehofah yn rhodio i fyny ac i lawr trwy'r ddaear, ac yn taenu prydferthwch a ffrwythlondeb lle bynag yr aethai. Felly y gallwn ni, os bydd gennym lygaid i weled, ganfod Duw yn mhob peth, o'r gareg fechan wrth ein troed, at y bydoedd pell o oleuni uwch ein penau; o lygad y dydd bychan, at y dderwen fawreddog; o'r milionyn yn y diferyn dwfr, at y cawrfil anferthol, o dan droediad trwm yr hwn y cryna y ddaear.

Eglurach eto y gall y rhai pur o galon weled Duw yn Ei air datguddedig, yn Ei gyssegr, yn nghanol ordinhadau crefydd, ynddynt eu hunain, ac yn Ei ragluniaeth yn y byd moesol. Fel y darllena y llygad goleuedig dudalenau sanctaidd yr Ysgrythyrau, gwel Dduw yn Ei ddoethineb, gwirionedd, a chariad. Yma mae golygfeydd nad allai neb ond y llaw Ddwyfol ddarlunio, dyfnderoedd o gariad a thrugaredd nad all yr un meddwl crëedig blymio, ac uchelderau goruchel o ardderchowgrwydd i ba rai nad all yr ysbryd uwchaf byth ymgyrhaedd heb gymhorth nerth Dwyfol. Mae y Bibl i'r crediniwr goleuedig yn deml ogoneddus, trwy leoedd sanctaidd yr hon y teithia, i weled yn mhob man amlygiadau o'r presennoldeb anfeidrol, a disgleirdeb yr amddiffyn anfeidrol. Mae hanes yr un sancteiddedig yn llawn o Dduw. Nid oes ganddo i ddywedyd gyda Job, fel mewn amser o dywyllwch, "Wele, ym mlaen yr af, ond nid ydyw ef yno; yn ol hefyd, ond ni fedraf ei ganfod ef; ar y llaw aswy, lle y mae efe'n gweithio, ond ni fedraf ei weled ef; ar y llaw ddehau y mae'n ymguddio, fel na chaf ei weled, Ond efe a edwyn fy ffordd i; wedi iddo fy mhrofi, myfi a ddeuaf allan fel aur." Mae yn gweled Duw yn troi ymaith ddrygau mawrion, yn cyfranu bendithion, ac yn fynych

"O ddrwg a dybir, eto yn dwyn da."

Mae y rhai pur o galon yn gweled Duw yn eu teuluoedd, yn dwyn meibion a merched i adnabod a charu y Gwaredwr; maent yn Ei weled yn y byd moesol, yn dwyn yn mlaen deyrnas gras; ac nis gallant fod yn dystion o'r gwaith mawr yma heb orfod dyweyd, "Bys Duw yw hyn."

(Darllener Psalm xlv.; cxxxix.)

## PENNOD XI.

### Y WEDDW O NAIN.

ODDEUTU gwaith awr o farchogaeth oddiwrth droed Tabor mae y pentref bychan *Nein*—Nain—yr hwn yn awr nid yw ond ychydig fwy na phentwr o adfeilion, ond a fu unwaith, mae yn amlwg, yn le o gryn faintioli. Yr unig gofadeiladau a arddengys ydyw ei feddau, y rhai a wasanaethant i'n hadgoffa o'r digwyddiad mawr sydd wedi enill iddo y fath le amlwg yn hanesiaeth yr Efengyl. Dyma lle yr arddanghosodd ein Harglwydd Ei awdurdod ar angeu, ac y rhoddodd ernes o'r amser pan y daw pawb sydd yn y bedd allan mewn ufudd-dod i'w alwad.

Mae Iesu yn awr yn dynesu at y dref fechan hon, yn cael Ei ddylyn gan "lawer o'i ddisgyblion, a thyrfa fawr." Mae Ei allu wedi ei weled yn iachau gyda gair neu gyffyrddiad bob math o glefydau; a syna y tyrfaoedd a glywsant Ei bregeth at Ei ddysgeidiaeth, gan ryfeddu beth y maent i weled a chlywed nesaf. Nid ydynt yn gorfod disgwyl yn hir cyn i achlysur newydd godi er arddanghosiad o'i allu a'i ras.

Gwelwch y ddwy orymdaith hyn yn nesu i gyfarfod eu gilydd. Wrth ben yr un sydd yn dynesu at y ddinas mae Tywysog y Bywyd, yr ail Adda, yr Arglwydd o'r nef, yr Ysbryd sydd yn bywhau, wedi ymwisgo mewn marwol gnawd, fel yn y cnawd y byddai iddo orchfygu marwolaeth. Mae i orchfygu uffern a'r bedd, i grogi eu hagoriadau wrth Ei ystlys; a phrofi yn Awdwr Bywyd Tragywyddol i bob un a'i canlyna. O borth Nain deua allan y cynhebrwng prudd, y rhai a elwir i ddylyn wrth orchymyn Brenhin Dychryniadau. Dyma un arall o'r myrddiynau, y rhai er pan y rhoddodd Angeu ei ergyd cyntaf, a darawyd i lawr wrth ei orchymyn, ac a ddygwyd ymaith i addurno ei fuddugoliaeth. Ychydig o weithiau y cafodd ei lywodraeth ei wrthwynebu; ac am yn agos i fil o flynyddoedd nid yw yr Hollalluog wedi gwrthwynebu y lywodraeth hono i angeu. Mae pawb yn rhoi ffordd i'r gallu anwrthwynebol i'r hwn y rhaid iddynt blygu yn eu tro. Gwyddant "gan waredu ni wared neb ei frawd, ac ni all efe roddi iawn drosto i Dduw; canys gwerthfawr yw pryniad eu henaid, a hynny a baid byth."

Eto nid yw Crist yn gorchymyn i'r dyrfa sydd yn Ei ganlyn i agor ffordd i orymdaith marwolaeth fyned drwodd. Yn gylchynedig gan dyrfa fawr, ychwanegwyd gan "fagad o bobl y ddinas," atalia yr Orymdaith drom yma, a dechreua waredu yr ysglyfaeth o afael y dinystrydd. Ymbilia Ei dosturi fel dyn ar Ei allu fel Duw. Gwelodd y weddw dorcalonus yn wylo uwch ben gweddillion ei hunig fab; a phan y gwelodd yr Arglwydd hi, Efe "a gymmerodd drugaredd arni, ac a ddywedodd wrthi, Nac wyla."

"Nac wyla!" Mor ddïeithr rhaid fod y geiriau tirion hyn wedi disgyn ar ei chlust! Paham y dylai beidio wylo, tra yr oedd y gŵr ieuangc hwnw oedd yn ffon a chynhaliaeth iddi, ei chysur a'i gobaith, y pryd hyny ar y ffordd i'r beddrod du a thywyll? Ond y mae y dïeithr-ddyn yma yn barod i sychu ymaith ei dagrau. Llefara Efe nid fel y gwna cyfeillion daearol pan y dywedant, "Nac wyla;" canys medr Efe gymmeryd ymaith achos ei galar, i roddi "olew llawenydd yn lle galar—gwisg moliant yn lle yspryd cystuddedig."

Ni cha yr elor yma ei chario ddim pellach. Mae llaw Iesu yn ei chyffwrdd; a safa y rhai oedd yn ei dwyn. Ac yn awr cyferchir y marw anymwybodol. Cyferchir y corff gwelw fel pe byddai eto "Y mab ieuangc." Cyrhaedda y llais sydd yn ei gyfarch i'r byd ysbrydol, a chlywir ef gan yr enaid dïosgedig o'r corff, yr hwn a edwyn y llais hyny, ac eheda yn ol yn ufudd i'w dŷ o glai. "Nid oes un dyn (yn unig) yn arglwyddiaethu ar yr yspryd, i attal yr yspryd," llawer llai i'w alw yn ol wedi ei ymadawiad, ond dyma lais Duw mewn cnawd; ac nid cynt y galwodd, nag "y marw a gyfododd yn ei eistedd, ac a ddechreuodd lefaru. Ac efe a'i rhoddes i'w fam."

Drachefn, mae yr holl gyfansoddiad yn gyffroedig gan fywyd. Eistedda y corff gorweddog i fyny yn ddyn byw. Dechreua y tafod mud roddwyd i fyny i ddistawrwydd drachefn lefaru. Nid yn unig y mae y corff yn gynhes gan waed bywydol, ond y mae y meddwl deallol wedi ail gymmeryd ei le, ac y mae iaith yn awr yn barod i draethu ymadroddion o anwyldeb mabaidd i'r fam, ac i briodoli y mawl uwchaf i'r Gwaredwr Dwyfol.

A phaham na wna y Gorchfygwr yma ar Angeu arddangos yn barhaus

fel hyn Ei allu mewn cymmeryd yr ysglyfaeth oddiar y cadarn? Mae rhai amddifaid bob amser a lawenychent pe y gallai eu meirw eistedd i fyny drachefn a dechreu llefaru; a mawr fyddai eu hyfrydwch pe y gellid rhoddi ychydig o flynyddoedd, neu fisoedd, neu ddyddiau, i loni y cylch pruddglwyfus o ba un y symmudwyd hwynt. Ai nid ydym yn barod i ofyn i'r Gwaredwr yn awr i ddangos yr un tosturi ac a wnaeth i Jairus, a Martha a Mair; a rhoddi y fath estyniad einioes ac a roddodd i Hezecïah.

Digon yw ateb y troseddid fel hyn gyfraith fawr marwoldeb, trwy yr hon "y gosodwyd i ddynion farw *unwaith*." Mae y gyfraith hono yn gyfiawn a doeth, a gellid ei rhoddi o'r neilldu yn unig trwy dori ar drefn y llywodraeth Ddwyfol. Gwnai y cymhelliad mawr i edifarhau am bechod, credu yr Efengyl, a gwneyd gwaith bywyd mewn bywyd, golli ei rym os gellid, ar ol syrthio o'r pren, ei godi a'i blanu drachefn, ac ni byddai mwyach yn wir, "lle y syrthio'r pren, yno y bydd efe." Ac ni wnaethai y gwyrthiau hyn gadarnhau cenadwri neillduol Crist i ddwyn i mewn oruchwyliaeth newydd, pe buasent wedi bod yn gyffredin naill ai cyn neu ar ol yr Efengyl. Rhaid i wyrth i ateb ei hamcan mawr, fod o ddigwyddiad tra anaml, ymadawiad oddiwrth drefn gyffredin pethau, trwy ba un "y canir cloch fawr y bydysawd" i alw sylw at ryw arddanghosiad neillduol o allu Jehofah.

Ar yr un pryd rhagfynega y gweithredoedd rhyfeddol yma gan Crist yr amser "y caiff pawb a'r sydd yn y beddau glywed ei leferydd ef, a hwy a ddeuant allan; y rhai a wnaethant dda, i adgyfodiad bywyd; ond y rhai a wnaethant ddrwg i adgyfodiad barn." Mae y digwyddiad a goffheir yma, a dau amgylchiad arall yn mha rai yr adalwodd y Gwaredwr y marw i fywyd, yn ddigonol i brofi Ei allu i godi y myrddiynau o ddynolryw o gwsg y bedd, a'u galw hwynt yn yr adgyfodiad cyffredinol i'r farn ddiweddaf. Gallai y llais a ddywedodd wrth "y mab ieuangc" hwn "Cyfod;" a ddeffrodd hûn marwol merch Jairus, gan ddywedyd, "Talitha cwmi;" ac a lefodd allan wedi hyny, "Lazarus, tyred allan;" yn awr ddeffroi yr holl feirw yn eu beddau, a'u galw hwynt i ymddangos ger bron yr "orsedd-faingc wèn fawr; ac ni fetha mewn gallu pan y daw y diwrnod yn yr hwn "y barna Duw y byd mewn cyfiawnder trwy y gŵr a ordeiniodd efe." Mae Ei awdurdod i

farnu y byd yn un o'r gwirioneddau mawrion a honodd y Gwaredwr yn Ei ddysgeidiaeth foreuaf. Yn mhresennoldeb y Sanhedrim, ni a'i clywwn Ef yn dywedyd: "Y Tad nid yw yn barnu neb, eithr efe a roddes bob barn i'r Mab; fel yr anrhydeddai pawb y Mab, fel y maent yn anrhydeddu y Tad. Yr hwn nid yw yn anrydeddu y Mab, nid yw yn anrhydeddu y Tad yr hwn a'i hanfonodd."

Ac onid yw yr ymarferiad grasol yma o allu y Gwaredwr yn llefaru wrthym am y grym nerthol trwy yr hwn y gweithreda ar yr enaid marw mewn camwedd a phechodau, ac y deffroa ef i fywyd ysbrydol a sanctaidd. Yn gyffredin yr oedd Efengyl yn ngwyrthiau yr Iesu, a gwasanaethent ar yr un pryd i amlygu Ei allu Dwyfol ac i ddywedyd am waith Ei ras. Felly yma gwelwch yr enaid yn ei gysgadrwydd heb ddim bywyd sanctaidd, dim syniadau nefol, dim teimladau duwiol; ond â Iesu heibio, clywir Ei lais grasol, ac yn awr mae yn byw i Dduw. Fel hyn bydded i ni ddysgu addysgiadau y wyrth. Fel hyn bydded i rieni duwiol a wylant uwch ben eu plant sydd "yn feirw mewn camweddau a phechodau," osod gwrthddrychau eu hoffder ger bron y Gwaredwr Hollalluog, ac yn lle eu cyflwyno hwynt i fedd anobaith, drydar am y Gallu a all eu deffroi hwynt i fywyd ysbrydol.

"O fam! na ddeffro seiniau dwys galarnad,
Weddw! nac wyla'n ddiobaith dy gri!
Cadarn yw braich yr hwn ddwg it 'arbediad,
Cadarn yw gair Duw yn gymhorth i ti.

"Yn araf, araf, a'r corff oer ewch ymaith
Cuddiwch ei welw wedd a'r brethyn du
Na cheryddwch yr hon lanwyd ag alaeth,
Mae'n weddw a diblant—chwalwyd ei thy.

"P'am saif y galarwyr? Pwy a'u gorch'myna?
Pwy rwystrodd yr arwyl pruddwych a du?
I lawr rhowch yr elor—mi a'i dihuna!
'Y mab ieuangc, Cyfod!'—ac felly bu.

"O fam! tro'n awr dy alar yn foleddiad;
Plyg, addola'r Messiah uchel fri;
Cadarn oedd braich 'r hwn ddygodd it arbediad,
Cadarn oedd gair Duw fu'n gymhorth i ti." HEBER.

(Darllener Psalm xlix. Pregethwr xii. Luc vii. 11—17.)

# PENNOD XII.

## YR EDIFEIRIOL DIOLCHGAR.

CYNHYRCHODD gwyrthiau Crist argyhoeddiad cyffredinol fod prophwyd mawr wedi cyfodi yn Israel; a rhoddasant iddo yr hawl gryfaf ar ffydd yr holl bobl, at y rhai yr aeth "y gair allan am dano." Ar ol y wyrth yn Nain, "ofn a ddaeth ar bawb, a hwy a ogoneddasant Dduw;" ond nid ydym i dybio iddynt roddi i'r Gwaredwr y parch a'r cariad dyledus iddo, ac heb y rhai nis gallent fod yn "ddisgyblion yn wir." Os oedd gweled y rhyfeddodau hyn a'u hedmygu, a chanmol yr hwn a'u gwnaeth, yn cyflawni ein dyledswyddau at Grist, rhaid fod Capernaum a Bethsaida yn llawn o ddisgyblion, canys ynddynt hwy y gwnaed y rhan fwyaf o'r gweithredoedd rhyfeddol hyn; ac eto yr ydym yn cael y Gwaredwr yn edliw i'r lleoedd hyn "am nad edifarhasent." Gallwn fod yn argyhoeddedig mae Iesu yw y Messiah, a chymmeryd hyfrydwch mewn darllen am Ei wyrthiau, ac eto bod yn fyr o gyrhaedd yr amcan mawr i ba un yr anfonwyd gair Duw i ni. Rhaid i ni edifarhau am bechod, a diangc at Grist am iachawdwriaeth, neu fe brofa ein cyflwr yn llai goddefol nag un Tyrus a Sidon yn nydd y farn.

Eto nid yw y Gwaredwr tosturiol yn ymwrthod a'r pechaduriaid gan ba rai y cylchynir ef, ond parhâ Ei apeliadau grasol; ac yn yr ymarferiad o'i awdurdod fel Cyfryngwr, estyna Ei wahoddiadau trugarog i bawb sydd yn flinderog a llwythog, gael iddynt ddysgu ganddo Ef, a dyfod yn weision iddo, i ddwyn Ei faich ysgafn, a gwisgo Ei iau esmwyth. Yn yr hanes dyddorol sydd yn awr ger ein bron, mae gennym y prawf mwyaf boddhaol na wnaed yr apeliadau trugarog hyn yn ofer.

Yn mysg y Phariseaid, yr oedd un a gredodd yn hawliau y Gwaredwr, a edifarhaodd am Ei bechodau, a gafodd drugaredd, ac a'i derbyniodd Ef fel gwestwr. Darlunir y Pharisead yma, yr hwn y mae ei enw Simon yn cael ei gadw yn yr hanes hyn, gan Grist Ei hun fel un yr oedd ei bechodau wedi eu maddeu, er yn ei nodweddiad ef nad oedd pechod wedi bod yn aml, ac nid ymddanghosodd yn mysg yr amlygiadau mwyaf tarawiadol o Ddwyfol ras. Eto yr ydym yn llawenhau gweled y Pharisead yma wedi

ei ddwyn i sefyllfa o edifeirwch isel, yn plygu y wàr a fu fel gïeuyn haiarn, ac yn addoli wrth draed yr Iesu. Tra yr oedd y wledd hon yn myned yn mlaen, aeth disgybl gostyngedig arall i'r Iesu yn ddistaw i'r tŷ, i roddi amlygiad o'i chariad diolchgar. Mae Iesu fel y gwestwyr ereill yn lledorwedd wrth y bwrdd, yn ol yr arferiad Rhufeinaidd, fel y gallai unrhyw un a safai tu ol iddo eneinio Ei draed, neu eu golchi â dagrau. A gwneir y swyddau tirion hyn gan un edifeiriol alarus, a oddefwyd i ddyfod i mewn i'r ystafell.

Enynodd ei nhodweddiad ddigllonedd y Pharisead dychweledig, yr hwn a ystyriai fod ei drigfa wedi ei anghyssegru trwy ei phresennoldeb. Oddiwrth y dull y mae yr enw "pechadures" yn cael ei gymhwyso ati, nis gallwn amheu fod ei chymmeriad wedi bod yn un o'r natur mwyaf diraddiol. Yr oedd dinas Capernaum wedi ei sarhau trwy ei phresennoldeb, a'r ffordd ddirywiol yn mha un yr oedd wedi byw. Gallai fod yno lawer oeddynt wedi bod yn ysglyfaeth i'w hudoliaethau drygionus, cyfeillion pa rai a'i hystyrient hi fel pla. Ac eto nid ymgiliodd y Sanct, yr hwn sydd yn chwilio y galon, oddiwrth ei dynesiad, pan "y dug flwch o ennaint, a chan sefyll wrth ei draed ef o'r tu ol, ac wylo, hi a ddechreuodd olchi ei draed ef â dagrau, ac a'u sychodd a gwallt ei phen, a hi a gusanodd ei draed ef, ac a'u hirodd â'r ennaint." Mae ffydd Simon, y Pharisead, yn cael ei siglo fel y canfydda y Gwaredwr yn barod i dderbyn y datganiadau o barch oddiwrth y "wraig, yr hon oedd bechadures." Am eiliad aeth cwmwl du dros ei feddwl, ac amheua a yw ei westwr yn wir yn brophwyd. "Efe a ddywedodd ynddo ei hun, gan ddywedyd, Pe bai hwn brophwyd, efe a wybuasai pwy, a pha fath wraig yw yr hon sydd yn cyffwrdd âg ef; canys pechadures yw hi."

Yn lle condemnio Simon yn llym am ei anghrediniaeth, aeth y Gwaredwr yn mlaen i oleuo ei feddwl, ac egluro y rheswm am y gweithrediadau hyn, pa rai oeddynt amlygiad o ddiolchgarwch o du yr edifeiriol. Fel ef ei hun yr oedd hithau hefyd wedi credu yn Iesu, a derbyn Ei ymweliad trugarog, y gwahaniaeth mawr rhyngddynt oedd fod ei chalon hi yn teimlo mwy oddiwrth ysgelerder ei phechod a mawredd y drugaredd ddanghoswyd yn ei harbediad. Yr oedd wedi ei gorlethu yn y darganfyddiad o ras Crist, a theimlai nad allai yr un amlygiad o ostyngeidd-

rwydd a diolchgarwch fod yn rhy ddrud iddi hi i'w gyflwyno, ac i'w Gwaredwr i'w dderbyn.

Gwna ein hymdeimlad o'r pechodau oddiwrth y rhai y gwaredwyd ni reoli mesur ein diolchgarwch i'n Hachubwr. Nis gall y rhai, gan hyny, ydynt wedi llwyr adnabod pla eu calon, ac wedi profi yr iachawdwriaeth, byth draethu eu diolchgarwch mewn tonau rhy uchel, na dangos eu cydnabyddiaeth trwy aberthau rhy fawr. Dyma lle mae dau ychwanegiad at nifer canlynwyr y Gwaredwr, pob un yn gredinwyr, pob un yn edifeiriol, pob un wedicael maddeuant, ond mor fawr y gwahaniaethant yn yr amlygiad o'u cariad at y Gwaredwr. Darllenwch y gwahaniaeth yn y geiriau gyfeiriwyd gan Grist at Simon, Ei ddisgybl, yr hwn sydd yn ei gyffesu Ef fel ei Feistr neu Athraw: "Dau ddyledwr oedd i'r un echwynwr; y naill oedd arno bum can ceiniog o ddyled, a'r llall ddeg a deugain. A phryd nad oedd ganddynt ddim i dalu, efe a faddeuodd iddynt ill dau. Dywed gan hynny, pwy o'r rhai hyn a'i câr ef yn fwyaf? A Simon a attebodd ac a ddywedodd, Yr wyf fi yn tybied mai yr hwn y maddeuodd efe iddo fwyaf. Yntau a ddywedodd wrtho, Uniawn y bernaist. Ac efe a drodd at y wraig, ac a ddywedodd wrth Simon, A weli di y wraig hon? mi a ddaethum i'th dŷ di, ac ni roddaist i mi ddwfr i'm traed, ond hon a olchodd fy nhraed â dagrau, ac a'u sychodd â gwallt ei phen. Ni roddaist i mi gusan; ond hon, er pan ddaethum i mewn ni pheidiodd a chusanu fy nhraed. Fy mhen âg olew nid iraist; ond hon a irodd fy nhraed âg ennaint. O herwydd paham y dywedaf wrthyt, Maddeuwyd ei haml bechodau hi; oblegid hi a garodd yn fawr."

Mae gwers mwyaf anogaethol i'w chael oddiwrth y geiriau hyn i'n Gwaredwr gan y pechadur sydd wedi ei lwytho â theimlad o'i euogrwydd: "Maddeuwyd ei haml bechodau hi." Efe, yr hwn sydd a gallu i ryddhau yr edifeiriol, a gyhoedda y ffaith fod pechodau y wraig hon wedi eu maddeu. Gallasai ei hachos gael ei ystyried yn drwyadl anobeithiol, hyd yn oed gan y disgyblion, ond cyhoedda eu Harglwydd graslawn anfeidrol drugaredd Jehofah i'r edifeiriol a red ato Ef. Gall yr edifeiriol hwnw, yn lle lleihau ei euogrwydd, edrych arno yn ei holl ysgelerder, i roddi cymhellgarwch i'w ymbiliad, "Maddeu fy anwiredd, canys mawr yw."

(Darllener Luc vii. 36—50.)

## PENNOD XIII.

### DISTEWI Y DYMHESTL TRWY LAIS Y GWAREDWR.

Yr ydym yn deall oddiwrth lïaws o deithwyr yn Syria fod Llyn Galilea, fel pob môr canoldirol cylchynedig gan fynyddoedd, yn ddarostyngedig i dymhestloedd disymmwth a chryfion. Yr ydym wedi sylwi o'r blaen fod y llyn hwn yn gorwedd chwe' chant o droedfeddi islaw arwynebedd Môr y Canoldir, yn ychwanegol at yr hyn, "mae y dyfr-rediadau wedi tori allan geunentydd dyfnion a llyngcfeydd gwylltion, gan orchuddio pen y llyn hwn; a gweithreda y rhai hyn fel ffynellau mawrion i dynu y gwyntoedd oerion o'r mynyddoedd." Mae y gwyntoedd hyn mor ddisymmwth ag ydynt o gryfion. Deuant i lawr ar y llyn pan y mae yr awyr yn ddigwmwl hollol, a'r dyfroedd yn dawel, ac yn uniongyrchol cynhyrfir yr ymlediad esmwyth i dymhestl ffyrnig.

Erioed ni arddanghosodd Môr Galilea ddarlun o'r fath ddyddordeb treiddiol a phan y daliwyd y barg-pysgota fechan hon yn y dymhestl fawr o wynt ddisgrifir yn yr hanes yma. Mae yn y llestr y llwyth mwyaf gwerthfawr a groesodd ei ddyfroedd erioed, ac eto tywallta y dymhestl anwahaniaethol ei chynddaredd ar y teithwyr diamddiffyn, fel pe buasent yn farwolion cyffredin. "Hwy a esgynant i'r nefoedd, disgynant i'r dyfnder; ymdroant, a'u holl ddoethineb a ballodd;" "cuddiwyd y llong gan y tonnau;" y "tonnau a daflasant i'r llong, hyd onid oedd hi yn llawn weithian;" "ac yr oeddynt yn llawn o ddwfr, ac mewn enbydrwydd."

Bydded i ni edrych ar y cwmni agored i'r perygl disyfyd yma. Mae y môr wedi hawlio yn fynych y bywydau mwyaf gwerthfawr fel ei ysglyfaeth, ond erioed ni fu y fath gwmni mewn perygl i gael eu claddu yn ei dònau. Mae tywysogion ac offeiriaid, gwŷr mawrion y byd a phregethwyr ffyddlawn yr Efengyl, oll wedi myned i lawr o dan y llifeiriant, ond nid oedd eu bywydau mor werthfawr a'r rhai hyn oeddynt yn ymddangos ar drengu. Bu adeg pan y cludid yr ychydig weddill aelodau o'r teulu dynol yn yr arch ar hyd gwyneb y dyfroedd, ond pe goddefasid i'r arch hono fyned i golli yn y Diluw, ni fuasai y golled yn gyfartal i'r un sydd yn awr yn ymyl. Mae y llong fechan yma, gurir gan y dymhestl,

yn cludo "gogoneddus lu yr apostolion," y rhai ydynt i fod yn "bysgodwyr dynion," tystiolaeth pa rai i Grist dan fendith Ysbryd Duw sydd i brofi yn offerynol er ailenedigaeth y byd. Yn fwy na'r cwbl, acw, yn mhen ol y llestr, y mae Gobaith Israel a'r byd, Efe, ar yr hwn y mae y teulu mawr dynol yn ymddibynol am ei adferiad at Dduw. Dyma lle y mae yr eglwys a'i Gwaredwr, ac ymddanghosai fel pe y gwnaethai chwythad arall a thon arall ddinystrio am byth unig obaith ein byd.

I ni mor ddïeithr yr ymddengys fod y fath fywydau gwerthfawr wedi eu gosod yn y fath berygl; ac mor dywyll y rhaid ei fod i'r disgyblion, i'w mheistr nefol, yr hwn a wyddai bob peth, ac oedd o angenrheidrwydd wedi rhagweled y dymhestl, orchymyn y fordaith beryglus hon ar y llyn. Mwy rhyfedd byth, nid yw yn ymddangos yn ystyriol o'r perygl i ba un y mae wedi dwyn Ei ganlynwyr. Ai nid yw yn cysgu, pan y dylai fod yn effro? Ai nid yw Ei glust yn gauedig, pan y dylai wrando? Ai nid yw yn ddistaw, pan y dylai Ei lais gael ei glywed?

Nis gallwn, fel yr ydym yn darllen fel hyn, ryfeddu fod amserau o berygl mawr ac ing yn digwydd i'r Cristion, pan y mae yn agos a chael ei orchfygu, er yn dylyn yr yrfa mae ei Dad nefol wedi orchymyn iddo. Ychwaith ni ddylai y Cristion hwnw anobeithio os na wneir ymwared mor gynted ag yr ymddengys perygl, neu os na atebir gweddi mor gynted ei cyflwynir. Gorchymynwyd y moriad yma, goddefwyd y dymhestl yma, a chyrhaeddodd cwsg tawel Iesu at fynyd bwysig y perygl, yn ol y bwriad Dwyfol, er cryfhau ffydd y disgyblion, ac arddanghos yn mhellach drachefn allu Crist. Felly cyfyd tymhestloedd fel yr â y Cristion yn mlaen yn ei yrfa, fel y byddai iddo ddyfod yn fwy teimladwy o'i wendid ei hun a'i berygl, ac o'i lwyr ymddibyniad ar Grist am waredigaeth.

Rhuthra y disgyblion yn awr at eu Mheistr sydd yn cysgu, nid am gydymdeimlad yn unig, ond am gynhorthwy. Yr oeddynt yn anfoddlawn i dori ar y cwsg hwnw wnaed yn angenrheidiol gan Ei lafur diorphwys; ond rhaid iddynt ei deffro, neu drengu. Dengys eu gweddi eu ffydd yn Ei allu, "Arglwydd cadw ni, darfu am danom." Gweddiant arno Ef fel y gweddiai yr eglwys gyntefig ar Jehofah, "Deffro, paham y cysgi, O Arglwydd?....Paham y cuddi dy wyneb ac yr anghofi ein cystudd?" "Cyfod yn gynhorthwy i ni, a gwared ni er mwyn dy drugaredd."

Yn y corff lluddedig hwnw ddeffrowyd yn awr o'i gwsg yr oedd cyflawnder y Duwdod yn preswylio. Pe buasai Crist ddim mwy na dyn, buasai wedi brawychu fel y gwelai wrth ddeffro y tonau yn curo ar draws y llestr, ac y canfyddai Ei ddisgyblion yn llawn dychryn. Mae Ei dawelwch yn ddigyffro. O'i fewn Ef triga y tawelwch hwnw nad all yr un dymhestl derfysgu. Mae holl adnoddau Hollalluowgrwydd wrth Ei orchymyn. Mae yn gwybod y gwna Ei eiriau Dwyfol ddistewi y gwyntoedd ubanus, a thawelu y tonau ymluchiol, a'r fath yw Ei nerth ymwybodol, fel y mae cyn i'w lef geryddol gael ei chyfeirio at y dymhestl, amser i siarad a'r disgyblion, a cheryddu eu hofnau: "Efe a ddywedodd wrthynt, Paham yr ydych yn ofnus, O chwi o ychydig ffydd? Yna y cododd efe, ac y ceryddodd y gwyntoedd a'r môr; a bu dawelwch mawr."

Os Duw yn unig "a wna yr ystorm yn dawel, a'i thonnau a ostegant," yna gwelwn yma "Dduw wedi ymddangos yn y cnawd." Mae y gwyntoedd a'r tonau cynddeiriog a ymluchiant yn hyf yn herio pob gallu dynol, ac yn chwerthin am ben llais egwan dyn; ac yn ofer y ceryddasai ac y bygythiasai Crist, pe na buasai yn fwy na dyn, ond dyma lais yr Hwn "a fesurodd y dyfroedd yn ei ddwrn, ac a fesurodd y nefoedd a'i rychwant, ac a gymhwysodd bridd y ddaear mewn mesur, ac a bwysodd y mynyddoedd mewn pwysau, a'r bryniau mewn cloriannau." Dyry y gwyntoedd hyn, fel yr ymostegant ar unwaith, warogaeth iddo Ef; cyhoedda y tonau hyn fel yr ymlonyddant, eu hymostyngiad distaw iddo Ef yr hwn sydd allu mawr Duw.

Dengys yr Arglwydd Iesu y defnydd sydd i'w wneyd o'r wyrth. "Pa fodd yr ydych mor ofnog? pa fodd nad oes gennych ffydd?" Ein gofal pryderus a ddylai fod ar i'r gwyrthiau hyn gynhyrchu eu heffaith priodol arnom ni yn gystal ag ar y disgyblion cyntaf. Mawr a ddylai fod ein ffydd yn ngallu Crist, a'n hymddiried yn y cariad sydd ganddo at Ei ddisgyblion. Bai y dynion hyn fuont yn dystion o'r rhyfeddodau wnaed gan y Gwaredwr, oedd iddynt amheu na'i allu na'i ewyllysgarwch i'w hachub hwynt. Yn unig bydded i ni weithredu ffydd berffaith ynddo Ef, ac ni a gawn fwynhau "tawelwch mawr," a "thangnefedd yr hwn sydd uwch law pob deall."

(Darllener Psalm cvii. 21—31. Matthew viii. 23—37. Marc iv. 35—41. Luc viii. 22—25.)

## PENNOD XIV.

### Y DDAU GYTHREULIG.

Wedi i'r Gwaredwr ddarostwng y gwyntoedd a'r tonau i ddistawrwydd, glaniodd gyda Ei ddisgyblion yn ochr ddwyreiniol y llyn, yn ngwlad y Gergesiaid. Mae cryn sylw wedi cael ei roddi i leddarluniad y parth yma, er mwyn dangos ei berffaith gyfaddasder i'r amgylchiad i ba un yr oedd yn olygfa. Ymddengys i'r efengylwyr Marc a Luc, grybwyll am "wlad y Gadareniaid," mewn trefn i nodi allan i'r darllenwyr Groegaidd a Rhufeinaidd pellenig yn unig gymmydogaeth y lle y gwnaed y wyrth, i ba rai y rhoddid hysbysiad cyffredinol digonol fel hyn, gan fod Gadara yn ddinas Roegaidd, enwog am ei theml a'i chwareudy, a'r baddau twym yn ei chymmydogaeth. Nis gallasai Gadara fod yn hollol yn fan y wyrth hon, gan, a thybio fod ei safle wedi ei benderfynu yn gywir, ei bod daith dair awr i ddeheu eithaf y llyn, a gwyddom fod y wyrth wedi ei gwneyd ar y lan. Mae Matthew, yr hwn oedd yn gyfarwydd bersonol a'r wlad hon, yn nodi y lle yn fanwl ar ba un y gwnaed y wyrth fel gwlad y Gergesiaid.

"Gyferbyn" â safle dybiedig Capernaum, mae lle a elwir Herza, neu Gerza, gan y bobl yn ei gymmydogaeth, a'r hwn yn mhob ystyriaeth sydd yn cyfarfod gofynion yr hanes. Darlunia Dr. W. M. Thomson, i'r hwn yr ydym yn ddyledus am ddarganfod lleoliad y wyrth, Gerza, fel tref fechan ddymchweledig, muriau yr hon ellir olrheinio oll o amgylch, yn gystal ag adfeilion maesdrefi lled fawrion. Safai y ddinas fechan hon o fewn ychydig o latheni o'r traeth, gyda mynydd uchel yn ymgodi yn union uwch ei phen, yn mha un y mae hen feddau, efallai yr un beddau ag yr oedd y rhai cythreulig yn trigo ynddynt. Arddengys y mynydd ddisgyniad agos unionsyth tua'r môr, yr hwn sydd mor agos i'w waelod, fel nad allai y moch wrth ymruthro yn wylltion i lawr, ddim aros, ond prysurid hwynt i'r môr a boddent. Arddengys golygfeydd digwyddiadau yr Ysgrythyr yn fynych ryw ddrych trwy ba un y gelwir hwynt mewn modd hynod i gof y teithiwr. Felly yma, sylwir fod y Wady

Sernak, lle y safai y dref fechan, wedi ei haredig yn mhob man gan foch gwylltion wrth chwilio am wreiddiau bwytadwy ar ba rai y maent yn byw. Mae y creaduriaid hyn mewn cyflawnder eto yn y parth yma, ac y maent yn hynod am eu ffyrnigrwydd.

Y fath, yna, ydyw yr olygfa yn mha un y glaniodd y Gwaredwr ar ol iddo ddarostwng y dymhestl. Yn union "dau ddieflig a gyfarfuant âg ef, y rhai a ddeuent o'r beddau, yn dra ffyrnig, fel na allai neb fyned y ffordd hono." Gan ystyried adroddiadau Marc a Luc fel yn cyfeirio at y wyrth gofnodir gan Matthew, cyfyd gofyniad am y rheswm paham, tra y mae Matthew yn siarad am ddau ddieflig, y sonia pob un o'r efengylwyr ereill am un yn unig. Gallai fod yn ddigonol yma i ddyfynu y gyfraith bwysig sydd yn gymhwysiadol i bob amgylchiad, fod "y cyfrif llawnaf yn cynhwys y byraf, ac nad yw y byraf yn gwrthddyweyd y llawnaf." Hefyd un yn unig o'r dynion hyn sydd yn ymddangos i fod yn briodol ystyriol o'r drugaredd dderbyniodd, ac yn ddiolchgar i'w Waredwr; a thra yr adrodda Matthew y wyrth yn gyfan, dethola y ddau efengylydd arall er llawn eglurhad yr amgylchiad yn mha un yr arddanghosir gallu a gras y Gwaredwr.

Y fath olygfa ofnadwy a darostyngol gyflwynir yma o allu Satan! Yr ydym wedi sylwi yn barod ar gynhydd y gallu Satanaidd, hyd nes o'r diwedd iddo enill meddiant o bersonau dynion, a'u gwneyd yn ebyrth iddo. Goddefid y meddiannedigaethau hyn yn unig pan oedd Crist ar y ddaear, a phan y gellid eu darostwng a'i allu. Gwasanaethant, modd bynag, i osod allan y dull yn mha un y goddefir i Satan yn fynych i enill yr oruchafiaeth ar y drygionus yn ein dydd ni, gan gynhyrfu ei nwydau i ddigofaint a chynddaredd, nad all yr un gallu dynol eu hatal, neu orthrechu y galon trwy brudd-der, a gyru ei ysglyfaeth ymaith oddiwrth bob cymdeithas gyfeillgar â'i gymmydogion, fel y dynion hyn oeddynt a'u trigfa yn mysg y beddau.

Yma, drachefn, yr ydym yn gweled amlygiad o'r gallu Dwyfol yn Iesu, a'i ymarferiad trugarog. Nid cynt y canfydda y dynion hyn nag y neshâ atynt yn dawel, ac heb ofn. Mae y ddau ddieflig ofnadwy hyn, yn canfod y rhai a ellid feistroli yn unig trwy nifer mawr, ac nid cynt y llyffetheirid ac y llawrwymid hwynt nag y dryllient hwynt yn awr y dïeithryn

mwyn diarfog yma yn nesu, a darostyngir hwynt ar unwaith. Syrthiodd un o honynt—efallai y ddau—wrth Ei draed i dalu gwarogaeth iddo, a dyna y pryd y llefodd yr ysbryd aflan o fewn, "Beth sydd i mi a wnelwyf â thi, Iesu Mab y Duw Goruchaf? yr ydwyf yn dy dynghedu trwy Dduw na phoenech fi."

Os nad allai yr ysbrydion drygionus hyn ddim poeni dyn yn hwy, chwenychent o'r hyn leiaf ormesu ar y moch borent ar ben y mynydd cyfagos, ac er mor rhyfedd oedd eu dymuniad, penderfynodd y Gwaredwr ei ganiatau iddynt, a gallwn ganfod rhan o ddoethineb Ei benderfyniad. Dysgai Crist fod y dyn yn fwy o werth na'r lliaws—dwy fil—moch yma, ac ar yr un pryd gweinyddai fesur o farn ar y Gergesiaid, gan ba rai y cedwid yr anifeiliaid gwaharddedig hyn i demptio eu cydwladwyr i anufudd-dod. Yna "y caniattaodd yr Iesu iddynt. A'r ysprydion aflan, wedi myned allan, a aethant i mewn i'r moch; a rhuthrodd y genfaint dros y dibyn i'r môr, ac a'u boddwyd yn y môr."

Gall y teithiwr yn Syria weled eto "y dibyn," i lawr pa un y rhuthrodd yr holl genfaint i'r môr. Wedi i'r meichiaid gael eu hamddifadu fel hyn o'u gofal, rhedasant i'r dref, "a mynegasant bob peth, a pha beth a ddarfuasai i'r rhai dieflig." Tra yn ceisio cadw eu hunain fel hyn rhag bai, yr oeddynt yn dystion dros Grist, tystiolaeth pa rai nis gallasai neb wrthod, a dygodd y dystiolaeth hono yr holl ddinas allan i weled Iesu, a gwrthddrych Ei allu gwyrthiol, ac i glywed yn y lle yr holl fanylion am golliad eu moch.

Arddanghosai yr olygfa a welent brawf digonol i gynhorthwyo yr oll oedd eu gweision wedi draethu. Yno yr oedd yr ymwelydd rhyfeddol â'u gororau, gan yr hwn y gwaredwyd y rhai dieflig; yno wrth Ei draed yr oedd un o honynt yn eistedd, yn ei ddillad, ac yn ei iawn bwyll; yno yr oedd y dibyn i lawr pa un y rhuthrodd y genfaint ffyrnig i'r môr. A beth fu y canlyniad? Ai ni syrthiasant hwythau hefyd i lawr wrth draed yr Iesu a'i addoli Ef? Ai ni ddarfu iddynt hwythau fawrhau y drugaredd oedd wedi Ei ddwyn i'w glanau, ac erfyn am iddo aros gyda hwynt lawer o ddyddiau? Naddo; "attolygasant iddo ymadael o'u cyffiniau hwynt."

(Darllener Matthew viii. 28—34. Marc v. 1—23. Luc viii. 26—40.)

## PENNOD XV.

### GALW Y DISGYBLION I NEILLDUEDD.

BYDDED i'r rhai hyny a broffesant fod yn ddisgyblion i Grist ufuddhau i'w lais fel y dywed, "Deuwch eich hunain i le anghyfannedd o'r neilldu, a gorphwyswch encyd." Gwahodda Iesu, yr hwn a wyddai werth neillduedd sanctaidd i fyfyrdod a gweddi, yn awr Ei weision i fyned gydag Ef i'r porfeydd gwelltog, a cher llaw y dyfroedd tawel. Mae yn dra thebygol fod y gwahoddiad yma yn cynhwys disgyblion Ioan yn gystal a'r apostolion. Mae eu meistr newydd syrthio yn ysglyfaeth i ddialedd Herodias, a byrbwylldra Herod. Yr oedd pen y Bedyddiwr wedi rhoddi blas ar wleddoedd gŵyl genedigaeth llys llygredig; "a'i ddisgyblion ef a ddaethant ac a gymmerasant ei gorph ef, ac a'i claddasant, ac a aethant ac a fynegasant i'r Iesu. A phan glybu'r Iesu, efe a ymadawodd oddiyno mewn llong, i anghyfanneddle o'r naill du." Gan nad allwn dybied i Iesu adael y galarwyr hyn iddynt eu hunain mor gynted ag y dywedasant wrtho am eu trallod, rhaid i ni ystyried eu bod yn gynhwysedig yn y gwahoddiad roddwyd i'w ddisgyblion Ei hun.

Yma, yna, mae gennym ddwy fyntai fechan, amgylchiadau a theimladau pa rai ydynt yn hynod wahanol. Dyma lle mae galarwyr ag y mae eu hathraw hoff wedi ei lofruddio yn greulon yn ei garchar; ac y mae yma apostolion Crist, y rhai sydd newydd ddychwelyd o'u cenadaeth lwyddianus, at "gyfrgolledig ddefaid tŷ Israel." Maent yn llawenychu yn y buddugoliaethau oeddynt wedi gyflawni trwy allu Crist Iesu, yn dywedyd fod hyd yn oed yr ysbrydion aflan wedi eu darostwng iddynt trwy Ei enw. Felly y gwelwn yn nheulu Duw, rhai yn wylo, ereill yn canu o lawenydd sanctaidd, a chymmer yr hwn a orchymynodd i ni wylo "gyd â'r rhai sydd yn wylo," ac i lawenhau "gyd â'r rhai sydd lawen," gydag Ef yn awr i neillduedd y rhai galarus a llawen, fel y byddai i bob un gyfranogi o'i gydymdeimlad ac ymleshau trwy Ei addysg.

Gallasai cwch pysgota bychan eu cludo hwynt yn rhwydd ar hyd pen y llyn i'r lle anghyfannedd yn agos i Bethsaida, lle y byddent yn mhell ar wahan oddiwrth y llawer oeddynt "yn dyfod ac yn myned," a dygodd

Iesu hwynt gydag Ef i'r neillduedd cyfaddas hyny. Felly y dywed yn awr wrthym ni "Deuwch eich hunain," a "Thydi pan weddiech, cau dy ddrws." Os dymunem fyfyrio yn ddwys neu gyda thawelwch digonol, dylem adael swn, a berw, a llwch y byd, a cheisio am gymmaint o ddistawrwydd a llonyddwch ag a allwn gael, teimlo ein bod yn unig gyda Duw, a dywedyd bob un, "Ti O Dduw (a Thydi yn unig) wyt yn edrych arnaf fi." Canys nid yw yn ddigon i newid ein lle, os gwnawn gario gyda ni ein meddyliau bydol i'n lle o ymneillduad. Gallwn fod yn nghilfachau yr anialwch, yn mhell ar wahan oddiwrth drwst a thrafferth y byd, ac eto oddef i'r galon fyned ar ol ei chybydd-dod, a meddyliau trafferthus y byd i dori ar ein hunigedd. Dylai ein hymneillduad oddiwrth y byd fod ein cyfarfyddiad âg Iesu, fel yr ydym yn cael y disgyblion yma wedi eu gwahodd i'r anialwch o herwydd fod Crist Ei hun i fod yno.

Nid oedd y neillduedd yma i gael ei estyn yn ormod. Yr oedd y disgyblion i orphwys "encyd," a dim ond encyd. Nid yw y bywyd Cristionogol yn un y meudwy. Dywedodd Iesu Ei hun, "Rhaid i mi weithio tra'r ydyw hi yn ddydd;" a galwodd Ei apostolion i weithio gyda'r egni mwyaf mewn amser ac allan o amser, a bod yn "helaethion y'ngwaith yr Arglwydd yn wastadol." Os ydym yn blant y goleuni a'r dydd, rhaid i ni gyfodi, ac eneinio y darian, ac ymladd yn gystal a "gweddio yn ddibaid." Rhaid i'n hymneillduad fod er gorphwys ar ol llafur, ac er rhagbaratoad i weithgarwch adnewyddol. Mynai Efe, yr hwn sydd yn gwneyd "tywyllwch, a nos fydd," ac sydd yn peri i'r haul dywynu a llywodraethu y dydd, i'n bywydau, fel Ei weision, fod yn rhanedig rhwng llafur a gorphwys, fel na byddai iddynt na phrofi yn ddiddefnydd na therfynu yn rhy gynhar, neu gael eu hanaddasu i'w waith.

Dengys bywydau y gweision mwyaf enwog i Grist pa fodd y mae yr arferiad o ymneillduad ac addoliad yn cydweddu â'r gweithgarwch mwyaf yn ngwaith yr Arglwydd, o ba rai y mae gennym yr eglurhad mwyaf hynod yn achos Richard Baxter. Egyr adolygydd Ffrancaidd ar "Orphwysfa'r Saint," fel hyn ei adolygiad ar y gwaith nefol hwnw: "Pa le yr ysgrifenwyd y llyfr hwn? Yn ddiau ar derfynau dau fyd, o fewn swn peroriaeth y nef, ac ar doriad dydd tragywyddol. Pa le y bu awdwr y tudalenau hyn byw? A ddarfu ei draed droedio y ddaear neu ai ei

chyffwrdd yn unig a wnaethant? Yn ddiau o'r hyn leiaf ni threuliwyd ei fywyd yn nghanol terfysg y byd, mae wedi myned heibio mewn unigedd; adnabu ddynion yn unig fel y mae angylion yn eu hadnabod; dïeithryn i'w cynhenau, nid yw wedi gadael un bluen o'i aden yn y maes. Didwyller di ddarllenydd, ni wyddai awdwr 'Gorphwysfa'r Saint' am na gorphwys na heddwch ar y ddaear, mae ei enw i'w gael yn hanes blinderau ei wlad. Bu Charles y Cyntaf, Cromwell, a'r olaf o'r Stuarts, mewn dadl â Richard Baxter; profodd garchar ac alltudiaeth."

Mae tymhorau pan y mae y Gwaredwr eto yn galw Ei ddisgyblion i ymneillduo oddiwrth y byd ffwdanus. Tymhor felly yw Ei ddydd Ei hun, yr hwn a hawlia er eu llwyddiant ysbrydol, a buddiannau mawrion Ei deyrnas. Os gwnawn iawn "brynu yr amser," ni a wnawn ufuddhau i alwad y Gwaredwr ar adegau ereill, ac yn fynych, trwy efelychu Ei esiampl Ef o godi yn foreu, nyni a gawn, tra yn rhoddi pob dyledus sylw i hawliau y byd, bob dydd rhyw adeg i gymdeithasu âg Ef. Da a fyddai i ni roddi nid yn unig y dydd cyntaf o'r wythnos, ond oriau cyntaf y dydd i Grist, gan godi, os yn angenrheidiol, cyn y dydd, gael i ni dreulio peth amser gyda Christ mewn myfyrdod, darlleniaeth a gweddi. Mor angenrheidiol ydyw i'n hiechyd ysbrydol i ddal cymmundeb fel hyn â Iesu, fel yr anfona weithiau Ei genhad i arwain Ei ddisgyblion i'r neillduedd a esgeulusasant geisio. Gall y cenhad hwnw fod yn gystudd hirfaith, neu dymhor o ymataliad gorfodol oddiwrth y gorchwylion bydol hyny a ddygwyd yn mlaen gyda gormod o wanc, er esgeulusdod o bethau ysbrydol.

Derbyniai disgyblion Ioan gysur mawr oddiwrth y cyfle yma i gymdeithasu â Christ, yr hwn a allai weinyddu pob cysur oedd arnynt eisieu, a dangos iddynt pa fodd yr oedd eu hathraw wedi "gorphen ei yrfa," a myned i mewn i'w orphwysfa dragywyddol. Derbyniai disgyblion y Gwaredwr hefyd oddiwrtho Ef yr addysgiadau mwyaf pwysig am natur Ei deyrnas, a moddion ei lledaeniad. Derbynient efallai ryw wersi iachus ar yr angenrheidrwydd am ostyngeiddrwydd tra yn ymarfer y galluoedd mawrion gyda pha rai yr oeddynt wedi, ac i gael eto, eu cynhysgaeddu; canys ymddengys eu bod wedi ymlawenhau yn ormodol pan y dywedasant, "Hyd yn nôd y cythreuliaid a ddarostyngir i ni yn dy enw di."

(Darllener Matthew ix. 35—38; x. Marc vi. 14—31.)

## PENNOD XVI.

### PORTHI Y DYRFA YN WYRTHIOL.

DAETH y lle i ba un yr arweiniodd y Gwaredwr Ei ddisgyblion i neillduedd, ar ol i'r neillduedd hyny gael ei fwynhau am dymhor byr iawn, yn llawn bywyd trwy y miloedd oeddynt wedi bod yn dystion o'i ymlongiad gyda Ei fyntai fechan, y rhai "a redasant yno ar draed o'r holl ddinasoedd, ac a'u rhagflaenasant hwynt, ac a ymgasglasant atto ef." Am y lle hwn, yr ydym yn deall oddiwrth y pedwar efengylwyr ei fod yn perthyn i Bethsaida, mai anghyfanneddle ydoedd, ei fod yn agos i lan y môr, gan y cyrhaeddid iddo gyda chwch, mai un o'i arweddion oedd mynydd, ac fod yno lanerch gwelltog gwastad y gallasai llawer o filoedd o bersonau eistedd arno. Yn awr nid oes dim anhawsder mewn cael allan yr holl agweddau ofynir fel hyn gan yr hanes.

Mae Bethsaida, fel Chorazin, wedi bod yn gorwedd mewn adfeiliad erys talm, ond y mae tebygolrwydd mawr fod ei safle yn bur agos i ben Llyn Galilea, ac ar bob ochr i'r Iorddonen, lle mae rhyd eto, tra ychydig islaw, a bron ar y mynediad i'r llyn, mae tywod-fâr, yr hwn a all y teithiwr dramwyo, er gydag ychydig o anghyfleustra. Yma cawn gilfach fechan yn mha un y gall cychod angori yn ddiogel, mynydd oer a llwm, yr hwn a raid fod yn anghyfanneddle fel yn awr, yn anghymwys i'w ddiwyllio, tra yn ei waelod y mae llanerch las, ar ba un y gallai pum mil o bersonau eistedd i lawr yn gysurus pe byddai y Gwaredwr yn bresennol eto i ranu iddynt y cyflenwad gwyrthiol o ymborth. Enw diweddar y gwastadedd yma yw Butaih, ac i'r teithiwr Cristionogol y mae o ddyddordeb neillduol, fel un o'r lleoedd annewidiedig hanesiaeth efengylaidd, heb ei niweidio hefyd gan draddodiadau llygredig y mynachod.

Ar yr ochr hyn i'r mynydd yma yr eisteddai ein Harglwydd a'i ddwy fyntai fechan o ddisgyblion, canys dywedir wrthym gan Ioan, i'r Iesu fyned "i fynu i'r mynydd, ac a eisteddodd yno gyd â'i ddisgyblion." Wedi cyrhaedd i'r fan gyda chwch, rhoddwyd rhyw ychydig o amser i orphwys ac ymddiddan cyfeillgar cyn iddo ddyrchafu Ei lygaid a gweled y dyrfa fawr yn dyfod ato Ef o'r dinasoedd a'r trefydd cyfagos. Mae yn

hyfryd i feddwl am ysbryd difrifol y bobl hyn wrth geisio y Gwaredwr, a mawredd eu rhifedi, canys yr oeddynt yn debygol yn fwy na deng mil; yr oedd yno "yn nghylch pum mil o wŷr, heblaw gwragedd a phlant." Rhedasant yn awyddus "ar draed," gael iddynt sicrhau y fendith o iachad tra yr oedd y Meddyg da eto yn eu mysg hwynt, canys dywed Ioan wrthym, i'r dyrfa Ei ganlyn o herwydd iddynt weled "Ei arwyddion y rhai a wnaethai efe ar y cleifion."

Mawr oedd eu hyder yn ngallu a chariad Iesu, a chyfiawnhawyd yr hyder hyny yn llawn, canys mor gynted ag y gwelodd hwynt, Efe "a dosturiodd wrthynt, am eu bod fel defaid heb ganddynt fugail." Arddanghoswyd y tosturi hwnw yn union trwy weithredoedd o drugaredd. Yr oeddynt wedi rhedeg ato Ef gael i'w cleifion gael eu hiachau, "ac efe a iachodd eu cleifion hwynt;" Efe a "iachaodd y rhai oedd arnynt eisiau eu hiachâu." Estynwyd Ei dosturi yn neillduol at eu heneidiau, canys Efe "a ddechreuodd ddysgu iddynt lawer o bethau." Aethant fel y byddai i'w hanhwylderau corfforol gael eu hiachau, ac iachaodd hwynt; eto teimlai fwy dros eu meddyliau oeddynt wedi eu tywyllu gan anwybodaeth, a'u calonau wedi eu caledu gan bechod, ac ni wnai adael iddynt ymadael heb glywed geiriau bywyd tragywyddol, trwy ba rai y gallent gael eu hachub. Yr oedd wedi myned i'r anghyfanneddle yma i ymddiddan â'r disgyblion, i ddiddanu y trallodedig, a chyfranu gwersi doeth i'w apostolion; ond terfyna y gyfeillach yn gyflym, gael iddo leshau y tyrfaoedd oeddynt yn llefain am Ei dosturi.

Fel hyn parhaodd y Gwaredwr i iachau anhwylderau a dysgu yr anwybodus hyd nes "y dechreuodd y dydd hwyrhau," "wedi ei myned hi yn hwyr," awr i'r prif bryd yn mysg yr Iuddewon, ac at ba un yn eu hawydd i gyrhaedd at y Gwaredwr, nid oedd y dyrfa fawr wedi gwneyd un ddarpariaeth. Ofnai y disgyblion am y dyrfa fawr yma, ac erfyniasant ar eu Mheistr i ollwng y bobl fel "yr elont i'r wlad oddi amgylch, ac i'r pentrefi, ac y prynont iddynt eu hunain fara." Beth raid fod eu penbleth pan y dywedodd, "Rhoddwch chwi iddynt beth i'w fwytta!" Dengys eu hatebiad nad allent fod wedi rhagweled y wyrth oedd ar gyflawni, canys dywedasant, "Nid oes gennym ni ond pum torth, a dau bysgodyn, oni bydd i ni fyned a phrynu bwyd i'r bobl hyn oll."

Yr oedd Philip yn perthyn i'r dref gyfagos Bethsaida, ac i'w "brofi ef" dywedodd y Gwaredwr, "O ba le y prynwn ni fara, fel y caffo y rhai hyn fwytta?" Efallai wrth anfon gyda brys i'r dref a'r lleoedd cyfagos y gallesid prynu cyflenwad mawr o ymborth, ond ymddengys nad oedd yr holl swm yn y drysorfa fechan ddim mwy na dau can ceiniog, ychydig dros bum punt o'n harian ni, ac nid yw hyny "ddigon iddynt hwy, fel y gallo pob un o honynt gymmeryd ychydig." Yn y dyryswch yma, "Andreas, brawd Simon Petr, a ddywedodd wrtho, Y mae yma ryw fachgennyn, a chanddo bûm torth haidd, a dau bysgodyn; ond beth yw hynny rhwng cynnifer?"

Mae yr amser wedi dyfod yn awr i'r Arglwydd weithio. Mae y bobl yn newynog a lluddedig, mae y plant bach yn drystiog, ac yn llefain am eu bwyd, ac os ydynt i gael eu porthi cyn iddynt ddychwelyd i'w cartref, rhaid peidio bod dim oediad, neu fe gaua y nos yn fuan arnynt hwy. Gyda'r tawelwch Dwyfol a feddiannai yn wastad, gorchymynodd y Gwaredwr i'r pum torth, a'r ddau bysgodyn bychan gael eu dwyn, ac i'r holl dyrfa eistedd mewn trefn ar y glaswellt, oedd y pryd hyn yn îr ac mewn cyflawnder. Beth raid fod meddyliau y tyrfaoedd hyn fel yr edrychent ac y gwelsant fod Iesu ar ranu rhyngddynt yr ychydig luniaeth osodwyd o'i flaen, a beth oedd eu harswyd fel yr edrychai i fynu i'r nef, ac yr rhoddai ddiolch am yr ymborth o ba un yr oeddynt i gyfranogi!

Efallai fod y disgyblion erbyn hyn, y rhai a safent yn agos i'r Arglwydd, a'r dyrfa fawr yn disgwyl am wyrth, a'u bod mewn petrusder distaw yn rhyfeddu pa ffurf a ymgymmerai. Pan y dechreuodd Crist dori y bara mwyhâi fel yr âi trwy Ei ddwylaw, fel y cafodd Ei weision eu basgedi wedi eu llenwi, a phrysurasant at y personau ar ba rai yr oedd ganddynt i weini. Dychwelasant, ac adgyflenwir hwynt gydâ bara a physgod, ar bob un o ba rai y defnyddir y gallu creadigol hyd nes y llawn ddigonir pob un. Noda pob un o'r efengylwyr y ffaith, "a hwynt oll a fwyttasant, ac a gawsant eu digon." Bwytasant eu gwala o'r bara, "felly hefyd o'r pysgod, cymmaint ag a fynnasant." Dylasai y tyrfaoedd mawrion, fel yr edrychent at Awdwr y wledd lawn hon, deimlo yn argyhoeddedig eu bod yn mhresennoldeb yr Un am yr hwn y dywed y Psalmydd, "Llygaid pob peth a ddisgwyliant wrthyt; ac yr ydwyt yn rhoddi eu bwyd iddynt

yn ei bryd. Gan agoryd dy law, a diwallu pob peth byw." Mae Ioan wedi cofnodi y geiriau yn mha rai y datganasant eu hargyhoeddiad mai Efe oedd y prophwyd mawr ragfynegwyd gan Moses: "Yna y dynion, pan welsant yr arwydd a wnaethai yr Iesu, a ddywedasant, Hwn yn ddïau yw y prophwyd oedd ar ddyfod i'r byd."

Dysga yr hwn a amlygodd fel hyn haelfrydedd y Creawdwr, ar yr un pryd i'w dderbynwyr y ddyledswydd o gynhildeb, canys "wedi eu digoni hwynt, efe a ddywedodd wrth ei ddisgyblion, Cesglwch y briwfwyd gweddill, fel na choller dim." Dywedir wrthym y byddai yr Iuddewon yn ofalus rhag colli dim bara, neu adael iddo gael ei sathru dan draed, ac fod ganddynt ddihareb, "Yr hwn a ddibrisia fara a syrth i ddyfnderoedd tlodi." Mae y wers yma yn fwy hynodol gan iddi gael ei dysgu yn nghanol llawnder, a chanddo Ef sydd a holl adnoddau anfeidroldeb o dan Ei reolaeth. Profai y briwfwyd yma wirionedd y wyrth, trwy ddangos pa fodd y cafodd y cyflenwad gwreiddiol ei fwyhau, ac mor helaeth oedd raid fod y cyfranau gyda pha rai y diwallwyd y dyrfa.

Gyda y wyrth yma bydded i ni gysylltu y bregeth bwysig yr hon a achoswyd trwyddi dranoeth. Ar ol dibenu y wledd ryfeddol yma, dychwelodd y dyrfa i'w cartrefi, a gwnaeth yr Iesu i'w ddisgyblion fordwyo ar y llyn, gan Ei adael Ef yn yr anghyfanneddle. Daliwyd y disgyblion drachefn gan dymhestl, ac nid oedd Crist gyda hwynt yn y cwch i geryddu y gwynt a'r tonau; ond yn y bedwaredd wylfa o'r nos, oddeutu toriad y dydd, aeth atynt gan rodio ar y tonau. Wedi gwaredu Pedr rhag boddi trwy ei gais byrbwyll i rodio ar y dyfroedd, aeth yr Arglwydd i mewn i'r cwch, ac yn ebrwydd cyrhaeddodd yr holl gwmni yn ddiogel i'r lan.

Dyna pryd y dywedodd y Gwaredwr wrth y dyrfa, "Yn wir, yn wir, meddaf i chwi, yr ydych chwi yn fy ngheisio i, nid o herwydd i chwi weled y gwyrthiau, eithr o herwydd i chwi fwytta o'r torthau, a'ch digoni. Llafuriwch nid am y bwyd a dderfydd, eithr am y bwyd a bery i fywyd tragywyddol, yr hwn a ddyry Mab y dyn i chwi." Yr oedd yr ymborth gwyrthiol roddwyd yn yr anialwch yn ddarlun o hono Ei hun, y gwir fara o'r nef, ar yr hwn y gallwn ymborthi a chael ein maethu i fywyd tragywyddol. "Arglwydd, dyro i ni y bara hwn yn wastadol."

(Darllener Matthew xiv. 13—21. Marc v. 32—43. Ioan vi.)

## PENNOD XVII.

### CROES Y GWAREDWR, A'N UN NINAU.

DYDD gogoneddus oedd hwnw yn hanes daearol y Gwaredwr pan yr atebodd Pedr, gyda ei frodyr, y gofyniad, "Pwy meddwch chwi ydwyf fi?"—"Ti yw y Crist, Mab y Duw byw." Rhoddwyd digon o gyfleustra iddynt er gwneyd allan gyfiawnder Ei hawliau, a dylent fod yn awr yn barod i honi yr hawliau hyny yn eu holl lawnder. Goruchel Dduwdod Crist yw y graig ar yr hon yr adeiledir Ei eglwys, ac y mae yr athrawiaeth hon wrth wraidd pob gwirionedd Cristionogol. Nid cynt gan hyny y deallwyd ac yr arddelwyd hi nag yr aeth yr Arglwydd yn mlaen i gyfranu i'w ddisgyblion ddatguddiedigaethau pellach am amcan Ei genhadwri, a'r dull yn mha un yr oedd yr amcan hwnw i gael ei gyflawni.

"O hynny allan y dechreuodd yr Iesu ddangos i'w ddisgyblion fod yn rhaid iddo fyned i Jerusalem, a dioddef llawer gan yr henuriaid, a'r archoffeiriaid, a'r ysgrifenyddion, a'i ladd a chyfodi y trydydd dydd." Gwnai y rhai hyny a ymffrostiant yn Pedr fel sylfaen yr eglwys, yn dda i sylwi mor gynted ar ol ei broffes ragorol y bradychodd yr anwybodaeth dyfnaf am wirionedd yr un mor bwysig a'r un oedd newydd gydnabod. Mae yr athrawiaeth o oruchel Dduwdod y Gwaredwr o'r pwys mwyaf i ni, am ei bod yn dangos anfeidrol werth Ei farwolaeth. Nid cynt y rhagfynegodd y Gwaredwr Ei farwolaeth, nag y cymmerodd Pedr Ef ato, ac "a ddechreuodd ei geryddu ef, gan ddywedyd, Arglwydd, trugarhâ wrthyt dy hun; nis bydd hyn i ti." Danghosodd yr apostol hwnw wrth wrthwynebu Iesu fel yr âi yn mlaen i'r groes, nad oedd "yn synied y pethau sydd o Dduw, ond y pethau sydd o ddynion;" a cheryddodd y Gwaredwr ef am weithredu rhan y temptiwr, a cheisio rhwystro gwaith yr Arglwydd trwy Ei anog rhag myned i Jerusalem i ddioddef.

Nid yn unig y mae Crist yn ddiysgog yn Ei benderfyniad i ddioddef y groes, ond dysga yn awr y disgyblion fod yn rhaid iddynt ddwyn eu hun hwythau. "Yna y dywedodd yr Iesu wrth ei ddisgyblion, Os myn neb ddyfod ar fy ol i, ymwaded ag ef ei hun, a chyfoded ei groes a chan-

lyned fi." Yr oedd yr achlysur yn un ar yr hwn y gallasai yn briodol wasgu y ddyledswydd o hunan-ymwadiad a dwyn y groes. Yr oedd Ef yn barod i gael Ei ddyrchafu ar Ei groes, a'r oll a ofynai oedd ar iddynt ganlyn yn Ei gamrau. Nid oedd Ei groeshoeliad am ddim pechodau a gyflawnodd, i lanhau dim drygau o'i natur, ond yn unig fel y cedwid y felldith draw oddiwrthynt hwy, ac fel y byddent byw byth. Yr oeddynt i ymwadu a hwy eu hunain, am fod drwg yn eu calonau i gael ei olchi ymaith, ac i ddwyn eu croes beunydd am eu bod yn perthyn i hiliogaeth bechadurus, gan ba rai y gwrthwynebid gwaith Duw. Yr oedd y dioddefiadau yr oedd ar eu dwyn yn ddirprwyol, ac yn llawn haeddiant; nid oedd y rhai hyny at ba rai y gelwid Ei weision nac yn haeddiannol na dirprwyol. Eto yr oeddynt i fyned trwy erledigaethau fel canlyniad eu hymgyssegriad i wasanaeth Crist, a'u hymroddiad i'w achos; os byddai eu sel dros Ei ogoniant yn fawr, felly y gwnai tânau erledigaeth losgi yn ffyrnig yn eu herbyn.

Fel hyn, pan yr anfonodd y Gwaredwr Ei ddisgyblion allan ar eu cenhadaeth gyntaf, rhybuddiodd hwynt i ddisgwyl blinderau o'i achos, "A chas fyddwch gan bawb er mwyn fy enw i; ond yr hwn a barhao hyd y diwedd a fydd cadwedig. A phan y'ch erlidiant yn y ddinas hon, ffowch i un arall; canys yn wir y dywedaf wrthych, Na orphenwch ddinasoedd Israel, nes dyfod Mab y dyn. Nid yw'r disgybl yn uwch na'i athraw, na'r gwas yn uwch na'i arglwydd. Digon i'r disgybl fod fel ei athraw, a'r gwas fel ei arglwydd. Os galwasant berchen y tŷ yn Beelzebub, pa faint mwy ei dylwyth ef?"

Bydded i ni hefyd wrando ar y Gwaredwr pan y dywed wrthym, "Os myn neb ddyfod ar fy ol i, ymwaded ag ef ei hun, a chyfoded ei groes a chanlyned fi." Mae yr oll o'r bywyd Cristionogol yn sylfaenedig ar hunan-ymwadiad, ac nid oes yr un diwrnod yn hanes y Cristion mwyaf dyrchafedig pan nad yw yn hanfodol i'w barhad. Efallai nad oes yr un adran o'r Ysgrythyrau Sanctaidd yn tueddu yn fwy at frawychu y proffeswr yn unig o grefydd, na'r geiriau yma gan ein Harglwydd. Os ydym hyd yn hyn wedi bod yn canlyn ein hewyllysiau ein hunain, ac yn myned yn mlaen yn foddhaol, heb ymdrech i ddarostwng tueddiadau ein natur lygredig, gallwn ddwyn yr enw Cristionogol; gallwn fyned trwy y byd

heb gerydd, a chyda rhyw radd o barch; ond nid ydym eto wedi cymmeryd yr un cam yn y llwybr dyrchafedig a chul sydd yn arwain i'r nef.

Gellir gwrthddadleu fod ein natur wedi ei ffurfio gan y llaw Ddwyfol, ac os gwrthwynebwn geisiadau y natur hono y byddwn yn ymladd yn erbyn Duw ein Lluniwr; mai dylyn natur yw ufuddhau i'w Hawdwr, trwy ufuddhau i'r deddfau y mae wedi argraffu ar ein bodolaeth; ac nis gallesid gwrthwynebu yr wrthddadl yma pe buasai ein natur fel y daeth o law Duw. Pe buasem yn berffaith ac heb syrthio, yna ufuddhasem i Dduw trwy ufuddhau yn unig i deimladau ein holl hanfod. Nid oes gan yr angylion sanctaidd ddim achos i hunan-ymwadu. Maent hwy bob amser yn ufuddhau i ewyllys eu Tad nefol, trwy wneyd eu hewyllys eu hunain. Nid oes dim ynddynt a wnai eu harwain ar gyfeiliorn oddiar lwybrau ufudd-dod, dim awydd am brofi "mwyniant pechod," dim tuedd i wyro oddiar lwybr dyledswydd gyssegredig. Felly y mae gydag ysbrydoedd y cyfiawn y rhai a berffeithiwyd, ac felly y bydd gyda ninau os cawn trwy anfeidrol drugaredd ar ol hyn gymdeithasu â hwynt.

Nid yw dyn yn awr, modd bynag, fel y daeth yn bur a sanctaidd o law ei Luniwr. Gwnaeth Duw ddyn yn uniawn, ond efe a chwiliodd allan lawer o ddychymmygion. Mae y drygau y gelwir arnom i'w gwrthwynebu wedi eu trosglwyddo i'n calonau, ac nid ydynt ddim mwy yn rhan hanfodol o'n natur nag y mae "yr holl anhwylderau sydd i ran y cnawd" yn hanfodol i'n cyfansoddiad corfforol. Mae gennym gan hyny i ddal yn erbyn ein hunain, ac yn erbyn ereill, yn unig fel yr ydym ni a hwythau wedi dyfod yn llygredig trwy bechod. Gallwn ystyried cyflwr perffaith ac ansyrthiedig Adda fel ei sefyllfa naturiol, a'n holl bechodau fel yn ein taflu ni i gyflwr sydd yn hollol annaturiol.

Bydded i ni yna dderbyn y gorchymyn gyfeirir atom ganddo Ef yr hwn yw yr ail Adda, yr hwn sydd yn sefyll uwch ben dynoliaeth ailenedig, ac a esyd ger ein bron y cynllun perffaith â'r hwn y mae gennym i gydffurfio. Bydded i'w Efengyl ddyfod atom nid mewn gair yn unig, ond yn ei holl nerth. Mae yn dwyn iachawdwriaeth yn unig fel y dysga i ni, "i wadu annuwioldeb a chwantau bydol, a byw yn sobr, ac yn gyfiawn, ac yn dduwiol, yn y byd sydd yr awrhon."

(Darllener Matthew xvi. 13—28. Marc viii. 31—38. Luc ix. 22—27.)

# PENNOD XVIII.

## Y GWEDDNEWIDIAD.

Ar ol porthi y dyrfa yn agos i Bethsaida, aeth ein Harglwydd i dueddau Tyrus a Sidon, lle yr iachaodd ferch y wraig o Syrophenisia, ac i Decapolis, enwid felly oddiwrth ei deg dinas, talaeth ar y de-ddwyrain i Fôr Galilea, lle y porthodd yn wyrthiol bedair mil o wyr, heblaw gwragedd a phlant; croesodd y llyn oddiyno i Dalmanutha a Magdala, lle bu yn ymddadlu â'r, ac y gwrthbrofodd, y Phariseaid a'r Saduceaid; yn Bethsaida agorodd lygaid dyn dall; yn nesaf ymddanghosodd yn mysg y trefydd yn agos i Cæsarea Philippi, dinas yn agos i darddellau yr Iorddonen, wrth droed mynydd Hermon, lle y gwnaeth Pedr ei gyffes dda, a lle y llefarodd Crist am Ei farwolaeth Ei hun.

Gan fod yr apostolion i fod yn dystion dros Grist, ac i gyhoeddi Ei fawredd i'r byd, yr oedd yn angenrheidiol iddynt "weled ei fawredd â'u llygaid," a hyny heb lawer o oediad, canys yr oedd Ei ymadawiad o'r byd hwn yn dynesu yn gyflym. Gwers galed a dwys iawn oedd hono i'r disgyblion a ddysgodd y Gwaredwr iddynt pan y dywedodd wrthynt fod yn rhaid iddo gael Ei ladd, a chyfodi y trydydd dydd; ond fe'i dylynwyd yn drugarog gan amgylchiad gogoneddus a dueddai i ddyrchafu eu syniadau am dano Ef, ac i gryfhau eu ffydd yn fawr.

Gan hyny, ar ol dim ond chwe diwrnod llawn, neu "wyth niwrnod," (a chynhwys y digwyddiadau ddarluniwyd,) ar ol llefaru am Ei farwolaeth, y cymmerodd ein Harglwydd "Pedr, ac Ioan, ac Iago, a myned i fynu i'r mynydd i weddïo." Bydded i ni sylwi ar ysbryd addoliadol Iesu, a gweled yn neillduol pa fodd y dygwyd i mewn brif ddigwyddiadau Ei hanes trwy weddi. Nid Tabor yn debygol oedd y mynydd i ba un yr arweiniodd y Gwaredwr yn awr Ei dri disgybl dewisol, at yr hwn y cyfeiria traddodiad, ond y "Panium uchel ac unig, neu yn hytrach Hermon, o ba un y ffurfia y terfyniad deheuol."

Megis ag nad oedd yr holl disgyblion yn apostolion, felly ni wahoddwyd yr holl apostolion i fod yn dystion o'r Gweddnewidiad, nac ar ol hyn o ing Gethsemane. Tri yn unig o'r deuddeg a ffafriwyd i gael gweled yr



LEIGHTON, BROTHERS.

MOUNT TABOR.

olygfa ogoneddus hon, o herwydd rhesymau doeth yn ddiamheuol, os nad perffaith eglur i ni. Iago oedd y cyntaf i ddioddef fel merthyr dros Grist, ac yr oedd yn angenrheidiol i'w ddarparu trwy bob moddion a allasai gryfhau ei ffydd. Yr oedd Pedr wedi bod ar y blaen yn cyffesu Duwdod y Gwaredwr, a chan iddo ymddyrysu wrth y rhagfynegiad am Ei farwolaeth, ymddanghosai angenrheidrwydd neillduol am ei gryfhau ef trwy yr arddanghosiad yma o ogoniant y Gwaredwr. Ioan ydoedd y "disgybl yr hwn yr oedd yr Iesu yn ei garu," ac yr oedd i fod y tyst byw diweddaf i Grist, ac fel hyn dewiswyd ef fel un o'r tri.

Yma, yna, bydded i ni hefyd fod yn bresennol yn yr ysbryd, a cheisio sylweddoli yr olygfa mae yr ysgrifenwyr sanctaidd wedi ddarlunio. Dacw Iesu "y gŵr gofidus," heb dim tegwch neillduol o ymddanghosiad allanol fel y dymunem Ef, ond "mor llygredig oedd ei wedd yn anad neb, a'i brŷd yn anad meibion dynion." Craffwch gydag arswyd, canys y mae yn gweddio, fel, O! na ddarfu i ni yn fynych, os erioed, weddio. Gwelwch yn awr fel y mae y gwyneb trist hwnw yn colli ei brudd-der, ac yr ymddisgleiria gyda llawenydd duwiol a sanctaidd, a chynhydda y disgleirdeb nes newid ei wedd, a chynhydda ei erianedd nes y deua yn danbeidiol fel yr haul; ac ar yr un pryd y mae Ei holl gorff yn myned trwy rhyw gyfnewidiad rhyfeddol, a gwedd-newidiwyd ef yn eu gŵydd hwynt. Nis gallwn ddyweyd natur y cyfnewidiad yma yn Ei wedd, ond yr oedd i'w arddangos Ef i olwg y disgyblion wedi Ei wisgo a chymmaint o ogoniant ag a allent edrych arno, a mwy nag a allent ddarlunio. Y fath ydoedd y gogoniant a saethai allan ei belydrau o'r Duwdod mewnol, fel y gwnaeth nid yn unig Ei holl gorff yn ddisglaer, ond tywynai y goleuni trwy Ei holl ddillad distadl, y rhai "a aethant yn ddisglaer, yn gannaidd iawn fel eira," "cyn wynned a'r goleuni," "yn wyn ddisglaer."

Yn y cyfamser dynesa dau sant gogoneddedig o'r nef, a thalant warogaeth iddo. Dyma lle mae Moses, corff yr hwn yr oedd Jehofah wedi ei gladdu yn agos i bymtheg cant o flynyddoedd cyn hyn, yn Pisgah, gan gymmeryd ei enaid i'r nef; a dyma lle mae Elïas, prophwyd diwygiadol mawr yn Israel, yr hwn a ddygwyd i'r nef mewn cerbyd tanllyd. Mae pob un o honynt mewn ymddiddan dwfn a difrifol â'r person gogoneddus hwn, a'r testyn yw yr un oedd y pryd hwnw, a phob amser wedi hyny,

yn enyn y dyddordeb dyfnaf yn y nefoedd o ba le y daethant—"ei ymadawiad ef, yr hwn a gyflawnai efe yn Jerusalem." Fel yr ydym yn dysgu oddiwrth y gŵyr gogoneddedig hyn am fawredd y pwngc yma! Pan y goddefwyd iddynt am amser byr i ailymweled a'r ddaear, nis gallent gael dim ynddo o ddyddordeb iddynt ond marwolaeth—"ymadawiad"—Iesu; a'r unig fan i ba un yr edrychasant allan o'r lle cyssegredig yma oedd Jerusalem, a hyny am ei bod i fod yn fan y croeshoeliad.

Wedi eu gorchfygu gan gwsg, collod y tri disgybl gychwyniad yr olygfa ogoneddus hon, ond pan o'r diwedd y dihunasant, gwelsant ogoniant y Gwaredwr, "a'r ddau ŵr y rhai oedd yn sefyll gydag ef." Gymmaint o addysg Ddwyfol, gynifer o weledigaethau nefol, ydym ni yn golli o ddiffyg gwyliadwriaeth sanctaidd. Na chysgwn fel rhai ereill, ond deffrown i weled y gogoniant Dwyfol fel y dygir yn agos atom. Nid yw y rhai hyny a sylwant ar y nefoedd weledig yn cyfrif yr oriau yn rhy feithion yn mha rhai y syllant ar y rhyfeddodau nefol; a beth yw yr holl olygfeydd hyn wrth eu cymharu â gogoniant Crist?

Ffafrir ni hyd yn oed yn fwy na'r tri disgybl. Fel y dihunasant o'u cwsg i weled yr olygfa ogoneddus hon, yr oeddynt braidd wedi dyrysu, ac "ofnasant yn ddirfawr;" ac yn eu dyryswch, dywedodd Pedr wrth yr Iesu, "O Feistr, da yw i ni fod yma; gwnawn dair pabell; un i ti, ac un i Moses, ac un i Elïas; heb wybod beth yr oedd yn ei ddywedyd." Yr hyn a wyddom ni oedd dros dymhor a dybiai ef yn barhaus, gan briodoli yr olygfa ogoneddus i'r lle, yr hyn a berthynai yn unig i'r achlysur. Gallwn weled yn Pedr hadau y cyfeiliornadau ydynt wedi addfedu yn mysg ei olynwyr honedig, y rhai a soniant am "grefydd y lleoedd sanctaidd," heb gofio fod y lleoedd yn sanctaidd yn unig fel y mae Crist yn bresennol, ac y datguddir enw Ei Dad nefol.

Nid cynt yr amlygodd yr apostol yr awydd i godi tair pabell, nag "y daeth cwmmwl ac a'u cysgododd hwynt; a hwynt-hwy a ofnasant wrth fyned o honynt i'r cwmmwl. A daeth llef allan o'r cwmmwl, gan ddywedyd, Hwn yw fy Mab anwyl; gwrandewch ef." Ni thybiodd Pedr yn hwy fod yn dda bod yno, canys, "hwy a syrthiasant ar eu hwyneb, ac a ofnasant yn ddirfawr." Mae gennym eglurhad prydferth yma o gariad Crist at Ei ddisgyblion. Pan yr oedd Iesu yn disgleirio fel hyn o ogon-

iant, tosturiodd wrth eu hofnau, "a daeth, ac a gyffyrddodd â hwynt, ac a ddywedodd, Cyfodwch, ac nac ofnwch." Os ydym yn perthyn i nifer Ei ganlynwyr ffyddlawn, ni a gawn weled nad yw Ei ddyrchafiad wedi Ei wneyd Ef yn ddifeddwl am danom. Joseph, wedi dyfod yn llywydd yr Aipht, a dosturiai eto â chariad brawd dros ei frodyr; ac arferir gallu a mawredd y Cyfryngwr er ein lleshad, os ydym yn frodyr iddo.

Yr ydym yn dysgu yma ddiben mawr y weledigaeth ogoneddus hon. Yr oedd Crist i gael Ei weled gan Ei ddisgyblion yn Ei ddisgleirdeb Dwyfol; yr oedd i gael Ei gyhoeddi wedi hyn fel Mab anwyl Duw; a gosodir allan yr amcan ymarferol oedd i gael ei wasgu ar y disgyblion ac arnom ni, yn y gorchymyn byr ond cynhwysfawr, "Gwrandewch ef." Bydded iddo Ef a roddodd y gorchymyn hwn agor ein clustiau a'n calonau i dderbyn o eneu Iesu holl "eiriau y bywyd tragywyddol!"

Rhaid fod camsyniad y disgyblion am gyssegrwydd y lle, a'r budd oedd i ddeilliaw oddiwrth arosiad maith ar yr uchelderau ffafriwyd fel hyn, wedi llwyr chwalu "pan edrychasant o amgylch," ac na "welsant neb mwy, ond yr Iesu yn unig gyd â hwynt."

Yr oedd y ddau ymwelydd gogoneddus wedi dychwelyd i'w trigfanau nefol; yr oedd cwmwl y mawrhydi Dwyfol, "y gogoniant teyrnwych," wedi ymadael oddiar ben y mynydd; a disgyna y Gwaredwr, gan ail gymmeryd Ei agwedd isel blaenorol, yn awr o'r mynydd gyda Ei ddisgyblion, gan orchymyn "iddynt na ddangosent i neb y pethau a welsent, hyd pan adgyfodai Mab y dyn o feirw." Drachefn gwelodd o'i flaen Ef y groes hono ar yr hon yr oedd i gael Ei ddyrchafu, y cwmwl du hwnw y rhaid iddo fyned i mewn iddo, y bedd hwnw yn yr hwn yr oedd i orwedd, a'r adgyfodiad gogoneddus oedd i ganlyn.

Felly rhaid i ni, tra ar y ddaear hon, er esgyn i'r uchelderau mwyaf ffafredig, beidio disgwyl golygfeydd didor o hyfrydwch sanctaidd, neu weledigaethau o ddisgleirdeb nefol. Ni ddylai y tremiadau achlysurol o ogoniant â pha rai y ffafrir ni, ein harwain i ddyweyd, "Da yw i ni fod yma," ond ein cyffroi i wregysu ein lwynau, codi ein traed, a chyrchu yn mlaen hyd nes myned i wlad y gwynfydedigion. I gael llawenydd diddarfod, rhaid i ni esgyn uwch law y lle uwchaf a sancteiddiaf ar y ddaear.

(Darllener Matthew xvii. 1—13. Marc ix. 2—13. Luc ix. 28—36.)

## PENNOD XIX.

### YMADAWIAD DIWEDDAF O GALILEA.

MAE yr hanesiaeth efengylaidd sydd yn gosod ger bron gynifer o ddigwyddiadau yn hanes y Gwaredwr yn ystod Ei arosiad yn Galilea, yn awr yn ein harwain at Ei ymadawiad diweddaf o'r manau hyny yn mha rai y treuliodd y rhan fwyaf o'i fywyd cyhoeddus.

Dranoeth ar ol y Gweddnewidiad, bwriodd ein Harglwydd allan o blentyn ysbryd aflan, oedd wedi gwrthsefyll gallu Ei ddisgyblion, y rhai oeddynt wedi methu yn y gwaith rhyfeddol trwy ddiffyg gweddi ac ympryd. Ar Ei ffordd yn ol i Capernaum, traethodd drachefn wrth Ei ddisgyblion am Ei farwolaeth ddynesiadol, gan ddywedyd, "Mab y dyn a draddodir i ddwylaw dynion, a hwy a'i lladdant, a'r trydydd dydd y cyfyd efe." Yr oedd ar y canlynwyr hoff hyny i Grist, er na ddeallasant Ei eiriau, ofn gofyn eu hystyr, gan iddynt fyned "yn drist iawn," ac yr arswydent hysbysiad llawn o'r dioddefiadau yr oedd ar fyned drwyddynt. Ar Ei ddyfodiad i Capernaum, amlygodd drachefn Ei allu Dwyfol, trwy y modd y gwnaeth arian y deyrn-ged i fyny drosto Ei hun a Phedr.

Ar eu ffordd i Capernaum bu dadl gan y disgyblion yn eu plith eu hunain, pa un yn debygol a dybient na chlywyd gan eu Mheistr, a'i bod yn anhysbys iddo, ond yr oedd yn eithaf adnabyddus i'r hollwybodol Fab Duw, gan yr hwn y ceryddwyd y dadleuwyr yn drugarog, a chydag anfeidrol ddoethineb, canys Efe "a gymmerth fachgennym, ac a'i gosododd ef yn eu canol hwynt; ac wedi iddo ei gymmeryd ef yn ei freichiau, efe a ddywedodd wrthynt, Pwy bynnag a dderbynio un o'r cyfryw fechgyn yn fy enw i, sydd yn fy nerbyn i; a phwy bynnag a'm derbyn i, nid myfi y mae yn ei dderbyn, ond yr hwn a'm danfonodd." Ar yr un pryd ceryddodd bob dïystyrwch angharedig o ereill oeddynt yn ceisio gwneyd daioni yn Ei enw, er nad yn perthyn i'w cymdeithas hwy, a chymhellodd y dyledswyddau o hunan-ymwadiad, tosturi, undeb a ffydd mewn gweddi, a maddeuant o gamweddau.

Cynhelid Gwyl y Pebyll yn mis Hydref, a pharhai am wyth niwrnod, a gelwid hi felly am fod yr Iuddewon yn ystod yr ŵyl yn trigo mewn

pebyll, i goffhau eu gwersylliad yn yr anialwch. Yr oedd hynt gyffredin yr Iuddewon o Galilea i Judea trwy Peræa, ar ochr ddwyreiniol yr Iorddonen, i ochelyd pa un aeth ein Harglwydd trwy Samaria.

Yma drachefn rhoddir i ni arddanghosiad galarus o'r elyniaeth sectaraidd hono a goleddai y Samariaid tuag at yr Iuddewon. "Ac ni's derbyniasant hwy ef, oblegid fod ei wyneb ef yn tueddu tu a Jerusalem." Da a fyddai i'r rhai hyny ydynt yn dwyn yr enw Cristionogol pe y gallem gyfeirio at y Samariaid hyn fel eithriadau anfynych i'r cariad sydd yn ffynu yn mysg proffeswyr yr un ffydd. Gyda llawenydd y cyfeiriem at eu gwrthodiad anghroesawgar o'r Galilead, ac y soniem am dano mewn cyferbyniad i'r cariad hwnw y mae y rhai oll sydd yn enwi enw Iesu yn ei ddwyn tuag at eu gilydd. Pell oddiwrthym fyddo yr ysbryd didoledig ac anghristionogol hwnw nad all ganfod gwir ffydd tu allan i'w ran ei hun o'r eglwys gyffredinol. Yn hytrach bydded i'n calonau ymlenwi â chariad tu ag at "bawb sy yn caru ein Harglwydd Iesu Grist mewn purdeb," a bydded i ni gofio Ei eiriau, "Wrth hyn y gwybydd pawb mai disgyblion i mi ydych, os bydd gennych gariad i'ch gilydd."

"Wedi'r pethau hyn, yr ordeiniodd yr Arglwydd ddeg a thri ugain eraill hefyd, ac a'u danfonodd hwynt bob yn ddau o flaen ei wyneb i bob dinas a man lle'r oedd efe ar fedr dyfod." Ar y negeswriaeth bwysig hon y mae wedi ei sylwi fod y nifer, y lle, a'r amser oll yn arwyddocaol. "Anfonodd ddeg a thriugain i arddangos fod yr Efengyl i gael ei phregethu i'r cenhedloedd paganaidd, pa rai a osodai yr Iuddewon y dydd hwnw i lawr yn ddeg a thriugain, yn union fel yr anfonodd o'r blaen y deuddeg at lwythau Israel. Y lle yr anfonir hwy yw Samaria, gan gynrychioli y byd paganaidd, i ba un ni chaniateid i'r apostolion ar y cyntaf fyned. Mae yr amser hefyd yn llawn o arwyddocâd. Anfonwyd y deuddeg oddeutu amser y Pasc, hyny yw, agos i chwe' mis cyn anfoniad y deg a thriugain, yr hyn a gymmerodd le oddeutu Gŵyl y Pebyll canlynol, trwy yr hyn yr arddanghosai ein Harglwydd Ei fwriad i anfon y newyddion da yn nghyntaf i'r Iuddewon, ac yna i'r Cenhedloedd." Amlygodd y Gwaredwr mor foreu a hyn Ei hun fel "Dymuniant yr holl genhedloedd."

Wedi anfon allan y deg a thriugain rhagredegwyr hyn o'i Efengyl, i

fyned "bob yn ddau o flaen ei wyneb i bob dinas a man lle'r oedd efe ar fedr dyfod," cyfeiriodd y Gwaredwr at y dinasoedd hyny yn Galilea o ba rai yr oedd newydd ymadael. Bydded i ni wrando ar y cyhoeddiadau ofnadwy o wae gyhoeddwyd gan y gwefusau anffaeledig hyn. "Gwae di, Chorazin! gwae di, Bethsaida! canys pe gwnaethid yn Tyrus a Sidon y gweithredoedd nerthol a wnaethpwyd yn eich plith chwi, hwy a edifarhasent erys talm, gan eistedd mewn sachlïain a lludw. Eithr esmwythach fydd i Tyrus a Sidon yn y farn, nag i chwi. A thithau Capernaum, yr hon a ddyrchafwyd hyd y nef, a dynnir i lawr hyd yn uffern."

Poenus yn wir ac arswydus yw y ffaith fod euogrwydd y dinasoedd hyn wedi mwyhau trwy bresennoldeb, gwyrthiau, a phregethau Iesu. Eto felly y bydd gyda ni os na wnawn ar ol ein holl freintiau Cristionogol, ein Sabbathau, ein Biblau, ein haddoldai, ein gweinidogion ffyddlawn, a chyfeillion Cristionogol selog, edifarhau am bechod, a dianc at Grist am iachawdwriaeth. Mae Tyrus a Sidon yn sefyll eto, ond fel y gwelsom, mae llawer o ddyryswch am safleoedd y dinasoedd hyny ar ba rai y cyhoeddodd y Ceidwad y gwaeau trymion hyn, a pha rai yn eu dadfeilion esgeulusedig, a lefarant wrthym am ddinystr "y sawl nid ydynt yn ufuddhau i'r Efengyl."

Ar Ei ffordd i fyny i Jerusalem, gwnaeth ein Harglwydd wyrth arall eto. "A phan oedd efe yn myned i ryw dref, cyfarfu ag ef ddeg o wŷr gwahangleifion, y rhai a safasant o hirbell; a hwy a godasant eu llef, gan ddywedyd, Iesu Feistr, trugarhâ wrthym." Felly yn yr amser presennol mae y dioddefwyr oddiwrth y clefyd dychrynllyd hwn yn sefyll o "hirbell" oddiwrth ddynion ereill, y rhai a arswydant eu dynesiad, ac a'u gorfodant i fyw ar wahan. Yr oedd y dull o gyfranu iachad i'r fintai o ddioddefwyr truenus hyn yn hynod, ond yn dra arwyddocaol. Iesu "a ddywedodd wrthynt, Ewch a dangoswch eich hunain i'r offeiriaid. A bu fel yr oeddynt yn myned, fe a'u glanhawyd hwynt. Ac un o honynt, pan welodd ddarfod ei iachâu, a ddychwelodd, gan foliannu Duw â llef uchel."

Dychwela ein Harglwydd yn awr i Jerusalem ar ol absennoldeb o flwyddyn a chwe' mis, i ba le bydded i ni Ei ganlyn ar Ei ffordd i'w groes, a'r gogoniant ar ol hyny.

(Darllener Matthew xvii. 14—27; xviii. 1—35. Marc ix. 14—50. Luc xvii 11—19.)

# LLYFR VIII.

Iesu yn Dysgu yn Ngwyl y Pebyll.

Mynydd yr Olewydd a Bethania.

Iesu yn Bethania.

Y Damhegion.—Y Mab Afradlon.

Iesu yn Derbyn a Bendithio Plant.

Yr Ymweliad a Zaccheus.

Y Mynediad Buddugoliaethus i Jerusalem.

Judas y Bradwr.

Y Pasc.—Swper yr Arglwydd.—Yr Ing.

Y Prawf a'r Croeshoeliad.

Adgyfodiad y Gwaredwr.

Esgyniad y Gwaredwr i'r Nef.

"Yn y frawdlys gwelwch 'nawr,
Yn garcharor Arglwydd nef.
O y wermod, chwerwedd mawr!
O yr ing ga'i enaid Ef!
Byth nac ysgowch un gwarth na loes,
Dysgwch ganddo ddwyn y groes.

"Ewch yn foreu at y bedd,
Man dodasant Ei gorff E';
Yma mae yn dawel hedd;—
Pwy'i cymmerodd Ef o'r lle?
Cyfododd Crist;—ac aeth i'r nef.
Dyged ninau ato Ef."

MONTGOMERY.



LEIGHTON, BROTHERS

POOL OF SILOAM.

## PENNOD I.

### IESU YN DYSGU YN NGWYL Y PEBYLL.

YR ydym yn awr yn dyfod at y tymhor terfynol—y chwe' mis diweddaf —yn mywyd yr Arglwydd Iesu, at brif ddigwyddiadau pa un ca y Llyfr hwn ei neillduo. Gan fod ein Harglwydd wedi ymddangos yn fynych yn y Gwyliau yn Jerusalem, yr oedd disgwyliad cyffredinol am dano ar Wyl y Pebyll yma, i'r hon, fel y gwelsom, yr aeth "nid yn amlwg, ond megis yn ddirgel," hyny yw heb Ei osgordd arferol o ganlynwyr.

Cyn Ei ymddanghosiad cyhoeddus yn y ddinas, "murmur mawr," neu yn hytrach sibrwd, "oedd am dano ef ym mysg y bobl;" a byddai yn fuddiol i sylwi ar sefyllfa barn yn mysg y lliaws am Iesu ar y pryd hyn. "Rhai a ddywedent, Gŵr da yw; ac ereill a ddywedent, Nag ê; eithr twyllo y bobl y mae." Fel hyn y mae wedi bod bob amser, fel y mae yn awr, rai a wadant hawliau uchel Mab Duw, ac eto a'i hystyriant Ef fel "dyn da," gan Ei osod ar yr un tir a'r dynion mawr ydynt wedi bod yn dysgu gwirionedd ac yn cyflwyno esiamplau o ddaioni. Llawer mwy cyson, modd bynag, oeddynt hwy a atebasant, "Nag ê; eithr twyllo y bobl y mae." Canys os nad oedd Iesu yn anfeidrol fwy na dyn, yr ydym yn cael ein gadael i'r canlyniad ofnadwy mai twyllwr ydoedd. Er mor ddychrynllyd yw y cabledd yma, rhaid addef hyn neu oruchel Dduwdod ein Harglwydd.

Tra yr oedd y croesfarnau hyn yn myned yn mlaen yn ddirgelaidd yn mysg y bobl, gwnaeth ein Harglwydd Ei ymddanghosiad, a dechreuodd ddysgu yn y Deml, lle yr oedd tyrfaoedd mawrion wedi ymgynnull. Gwnaeth doethineb nefol Ei bregeth, pa un ydoedd yn anfeidrol ragori ar yr addysg grefyddol gyda pha un yr oedd y bobl wedi arfer, dynu allan yn naturiol yr ymofyniad, "Pa fodd y medr hwn ddysgeidiaeth, ac yntau heb ddysgu?" Nid rhaid i ni gasglu oddiwrth yr iaith yma na dderbyniodd Iesu yn Ei febyd addysg arferol plentyn Iuddewig, neu Ei fod wedi cyrhaedd yn wyrthiol y gelfyddyd o ddarllen, ond y mae y gofyniad o'r grym mwyaf, ac un a ellir yn briodol gyfeirio at y rhai hyny ar ol darllen pregethau ein Harglwydd a wadant Ei Dduwdod.

Dywed awdwr "Crist Hanesiaeth:" "Rhaid ei fod yn wybyddus yn gyffredin nad oedd erioed wedi dysgu, nad oedd wedi derbyn ond ychydig o addysg reolaidd, efallai dim. Hyd yn oed yn absennoldeb y dystiolaeth bendant yma, buasai agwedd y genedl Iuddewig ar y pryd, cyflwr anghoethedig y pentref yn mha un y treuliwyd Ei fywyd, sefyllfa isel Ei deulu, a'i osodiad yntau i fod yn saer, yn ein harwain ni i gasglu Ei fod heb ddysg na meithriniad." Mae yr unig atebiad iawn i ymofyniad naturiol gwrandawyr y Gwaredwr yn Ei eiriau Ef Ei hun, "Fy nysgeidiaeth nid eiddof fi yw, eithr eiddo yr hwn a'm hanfonodd i." Nid oedd Ei ddysgeidiaeth yn ffrwyth myfyrdod helaeth er ffurfio cyfundrefn o athrawiaeth, ond datguddiad ydoedd oedd ganddo i'w wneyd oddiwrth Ei Dad yn y nefoedd.

Rhaid i ddatguddiad mor bur a dyrchafedig gael ei dderbyn yn galonog i galon pob un sydd a dymuniad cywir a difrifol i wneuthur ewyllys Duw. I feddwl o'r fath mae ei hawliau yn anwrthwynebol, yn ateb ei holl ymofyniadau pryderus, ac yn llenwi ei holl ddymuniadau am oleuni a chariad nefol. Ar wahan oddiwrth dystiolaeth hanesyddol ac allanol mae ei wirionedd yn amlwg "yn ddiddadl," mor gynted ag ei gwelir; yn union fel nad oes arnom eisieu yr un rheswm i brofi pereidd-der y rhosyn neu ddisgleirder yr haul.

Pan y bu yr Arglwydd ddiweddaf yn Jerusalem, iachaodd ddyn wrth lyn Bethesda, ac fel chwiliwr y calonau gwyddai fod gan lywodraethwyr yr Iuddewon fwriad i'w ddal a'i ladd Ef fel torwr Sabbath. Mor gynted y cyhuddodd hwynt o'r bwriad yma, gwadent ef, a dywedasant fod cythraul ganddo, fel pe buasai yn ddichonadwy iddo Ef oedd wedi amlygu y fath awdurdod ar yr ysbrydion aflan hyn, fod yn ddarostyngedig i'w gormes yn Ei berson Ei hun.

Mae yn addysgiadol o'r mwyaf i sylwi pa fodd y cyfiawnha yr Arglwydd y weithred ddyngarol a thrugarog hono y ceisiai yr Iuddewon ei chondemnio. Gwnaent enwaedu ar blentyn gwryw ar y Sabbath os digwyddai y diwrnod hwnw wyth niwrnod ar ol ei enedigaeth, ac eto buasent yn lladd y Gwaredwr am iddo ar yr un dydd wneuthur "dyn yn holliach." Y fath wers bwysig a ddysgodd pan y dywedodd, "Na fernwch wrth y golwg, eithr bernwch farn gyfiawn." Ni ddylasai golwg "ddistadl y Gwaredwr,

a'i ddiffyg o'r hyn a ystyrient hwy yn radd a mawredd swyddogol, eu gwneyd yn rhagfarnllyd yn erbyn Ei weithredoedd a'i ddysgeidiaeth; ac y mae rhwymau arnom ninau i ufuddhau i'r gorchymyn ysbrydoledig: "O herwydd paham rhoddwch heibio bob budreddi, a helaethrwydd malais, a thrwy addfwynder derbyniwch yr impiedig air, yr hwn a ddichon gadw eich eneidiau."

Parhawyd y ddadl yn mhellach byth mewn perthynas i hawliau Iesu o Nazareth, y bobl yn fynych yn traethu eu hargyhoeddiadau gonest, a'r offeiriaid yn cyflwyno eu gwrthddadleuon cyfrwys. Priodol y gallasai y dyrfa ofyn, "A wybu y pennaethiaid mewn gwirionedd mai hwn yw y Crist yn wir?" A thrachefn, "Pan ddelo Crist, a wna efe fwy o arwyddion nâ'r rhai hyn a wnaeth hwn?" Fel hyn aeth y dadleuon hyn a phregethau ein Harglwydd yn mlaen hyd "y dydd diweddaf, y dydd mawr o'r wyl," a wahaniaethid felly o herwydd ei aberthau a'i seremoniau. Ar y dydd hwn arferai yr offeiriaid dynu dwfr o lyn Siloam, a'i dywallt ef ger bron yr Arglwydd ar amser yr offrwm prydnawnol, a safai yr offeiriad oedd yn gweinyddu ar le uchel. Dywed rhai o ysgrifenwyr Iuddewig wrthym mai yn y modd yma yr adgofid y bobl o werth ac angenrheidrwydd dylanwad yr Ysbryd Glân.

Ar adeg y ddefod yma "safodd yr Iesu, ac a lefodd, gan ddywedyd, Od oes ar neb syched, deued attaf fi, ac yfed. Yr hwn sydd yn credu ynof fi, megis y dywedodd yr ysgrythyr, afonydd o ddwfr bywiol a ddylifant o'i groth ef." Tra, fel y gwelsom, yr ystyriai rhai ysgrifenwyr Iuddewig y ddefod o dywallt y dwfr o gawg aur fel yn arwyddocaol o dywalltiad yr Ysbryd Glân, ystyriai ereill hi wedi ei bwriadu yn unig i erfyn am y gwlaw cynhar. Ni adewir ni mewn un amheuaeth am y fendith fawr hono at ba un y cyfeiriai y Gwaredwr y weithred arwyddluniol brydferth hon, canys "hyn a ddywedodd efe am yr Yspryd, yr hwn a gai y rhai a gredent ynddo ef ei dderbyn; canys etto nid oedd yr Yspryd Glân wedi ei roddi, o herwydd na ogoneddasid yr Iesu etto." Addawyd yr Ysbryd Glân fel canlyniad i ddyfodiad ac aberth Crist. Yr oedd wedi dyfod, ond nid oedd yr Ysbryd i gael ei dywallt mewn cyflawnder hyd nes iddo orphen Ei waith ar y ddaear, a myned i mewn i'w ogoniant yn y nefoedd.

(Darllener Ioan vii 11—53.)

## PENNOD II.

### MYNYDD YR OLEWYDD A BETHANIA.

AR ol pregeth gyntaf y Gwaredwr yn y Deml, aeth "pob un i'w dŷ ei hun;" ond yr Iesu a aeth i Fynydd yr Olewŷdd." Yn awr, fel pan Ei gwrthodwyd yn angharedig gan y Samariaid, "Y mae gan y llwynogod ffauau, a chan adar yr awyr nythod, ond gan Fab y dyn nid oes lle y rhoddo ei ben i lawr." Yn y ddinas hono, i'r hon y daeth yn nghyflawniad prophwydoliaeth, lle yr oedd Tŷ Ei Dad; lle yr oedd wedi amlygu Ei allu gwyrthiol, a lle yr oedd i amlygu eto; uwch ben trigolion euog pa un y tosturiodd Ei galon â chariad Dwyfol, a pha rai y mynasai eu casglu yn nghyd "megis y casgl iar ei chywion dan ei hadenydd," nid oedd neb i'w roesawu o dan gronglwyd groesawgar, neu i'w dderbyn Ef fel prophwyd yr Arglwydd. Cafodd orphwysle mwy hyfryd tu allan i furiau y ddinas euog.

Cyfyd Mynydd yr Olewŷdd, un o'r lleoedd mwyaf dyddorol yn hanes bywyd y Gwaredwr, i'r dwyrain o Jerusalem, yn ngolwg pa un yr ymleda am oddeutu dwy filldir. Mae ychydig o'r coed olewŷdd hyny yn aros eto arno, oddiwrth gyflawnder pa rai mewn amserau boreuol y cafodd ei enw, canghenau clymog a bonion calon-dyllog pa rai a brofant eu hoedran mawr. Crybwylla Maundrell, yn hanes ei ymweliad â'r Olewŷdd, iddo oddeutu dwy ran o dair o'r ffordd i fyny, ddyfod at ryw arddgellau wedi eu tori gyda throadau dyrys, a geudyllau tanddaearol, ac a ystyrid fel beddau y prophwydi. Ychydig yn uwch, cafodd hyd i ddeuddeg cromgell fwâog, yn sefyll ochr yn ochr, wedi eu codi er coffawdwriaeth am yr apostolion, y rhai yn debygol a wnaed yn unig i liosogi lleoedd pererindodol goelgrefyddwyr difrifol, y rhai, os yn ddigon ofergoelus, a allent weled y lle y cyfansoddodd yr apostolion eu credo. Gelwid copa deheuol y mynydd hwn yn Fynydd y Camwedd, lle y cododd Solomon deml i Chemos, i foddhau ei wragedd eilun-addolgar.

Gan wrthod y chwedlau mynachaidd hyn gyda dirmyg, mwynha y teithiwr Cristionogol hyfrydwch sanctaidd wrth wybod, fel y gwibia wrth droed y mynydd hwn, y cyfarfydda â Gethsemane ar ei ochr orllewinol; a

phan y dylyna y llwybr sydd yn rhedeg i'r dwyrain ei fod ar y ffordd i Bethania, oddeutu dwy filldir o'r ddinas; wrth ddringo ei ochrau dylyna ol traed Iesu, yr hwn oddiyno a welodd y ddinas euog, ac a wylodd uwch ei phen; yna wedi cyrhaedd i'w ben deua i'r fan o ba un yr esgynodd y Gwaredwr i'r nef. Oddiar y copa yma dywedir wrthym fod "yr olygfa tua'r dwyrain a'r dehau yn dra hynod a tharawiadol. Syniad y Creawdwr Ei hunan wedi ei sylweddoli ydyw o anghyfanedd-dra trwyadl—bryniau tu draw i fryniau, yn suddo i lawr yn mhell i'r Môr Marw, gydag Edom a Moab tu draw." Gellid gweled yr "anialwch" yn mha un y temptiwyd Iesu am ddeugain niwrnod a deugain nos o'r fan gyssegredig yma, ac edrychid arno gan y "Gŵr gofidus" gyda boddhad sanctaidd fel y lle y cafodd fuddugoliaeth ogoneddus ar yr un drwg—gwystl o oruchafiaeth yn y frwydr fawr oedd eto yn ol.

Wrth ddylyn llwybr sydd yn troi o amgylch ochr y mynydd, dynesa y teithiwr at Ardd Gethsemane, gan fyned heibio i ychydig o glytiau o yd, deadell o eifr, ac ychydig ddefaid. Mae yr ardd hon wedi ei hamgau â gwal o gerig, a chedwir hi yn ofalus gan y mynachod, y rhai a wyliant y coed olewŷdd gyda gofal eiddigus. Llefara ymwelwyr duwiol gyda'r boddhad mwyaf am y llanerch gyssegredig hon. "Lle ydyw," meddai un, "o unigrwydd a neillduedd, a Mynydd yr Olewŷdd yn crogi uwch ei ben, ar un ochr, ac ucheldercau gorllewinol dyffryn Jehosaphat a muriau canllawiog Jerusalem ar y llall. Mae bron y fath le ag a ddewisai enaid awyddus i fod ar ben ei hun gyda Duw, pan y mae cysgodion yr hwyr yn ymgasglu uwch ei ben."

Mae yn yr ardd yn awr wyth o goed olewŷdd, pob un yn hen iawn; nid yr un rhai ag y bu y Gwaredwr yn penlinio o dan eu canghenau mewn gweddi, ond yn debygol "ysbrigau o'r boncyffion oeddynt yn yr ardd ddeunaw cant o flynyddoedd yn ol, canys y mae yn eithaf adnabyddus y gwna peisgen yr olewŷdd anfon allan ysbrigau a wnant fyw am ganrifoedd ar ol i'r pren gael ei dori i lawr." Dywed Dr. Robinson: "Gan roddi fy hun i fyny i argraffiadau y foment, mi a eisteddais i lawr ar ben fy hunan o dan un o'r coed oedranus yma. Yr oedd pob peth yn ddistaw ac unig o amgylch. Yn uchel uwch ben ymgodai muriau y ddinas, trwy ba rai ni ymdreiddiai un sain o fywyd dynol." "Yma, neu

o'r hyn leiaf nid yn mhell draw, y dioddefodd y Gwaredwr yr 'ing a'r chwys gwaedlyd' hwnw oedd yn dal cyssylltiad â phrynedigaeth y byd; ac yma mewn ymostyngiad dwfn y gweddiodd, 'Oni's gall y cwppan hwn fyned heibio oddiwrthyf, na byddo i mi yfed o hono, gwneler dy ewyllys di.'"

Ond arweiniai ffordd arw ar draws yr Olewŷdd i Bethania, pa un oedd yn agos i Jerusalem, "ynghylch pymtheg ystâd oddiwrthi." Yn y pentref bychan yma cafodd y Gwaredwr gartref, yn nhy Mair a Martha, a Lazarus. Mae safle Bethania yn dra ffafriol, yn arddangos golygfa y dywedir nad oes ei chyffelyb yn Lloegr. Rhydd olwg ar yr Iorddonen a'r Môr Marw, gyda mynyddoedd Moab oddeutu deg milldir ar hugain o bellder. Nid yw y pentref, er wedi ei godi o gerig, ond lle gwael, yn cael ei drigianu gan oddeutu ugain o deuluoedd, y rhai ydynt yn byw mewn sefyllfa o dlodi. Ymyra traddodiad eto, ac ar ol deunaw cant o flynyddoedd cymmer arno ddangos tŷ Lazarus yn gystal a'i fedd.

"Edrycha'n bentref gwael; ychydig dai
Trigolion tlodion; nenau bwthod oll,
Oddieithr un nendwr syml; ond heblaw
Y ddinas gyfagos, mae'n anhawdd iawn,
Pe chwilid Palestina, cael un man
I'r teithiwr Cristionogol feddwl am,
Gyda mwy o flas, na thref Bethania."

Math o arddgell yw bedd honiadol Lazarus, wedi ei dori yn ddwfn i'r graig, ac i gyrhaedd iddo ar hyd grisiau. Mae yno gromgell fwäog pedair troedfedd ar ddeg o hyd, lle y dywed traddodiad y gosodwyd corff Lazarus. Nid yw y Cristionogion mwyaf deallgar yn talu nemawr o sylw i'r fath leoedd. Dywed un o'r rhai diweddaraf: "Wrth oleuni gwan canwyll gŵyr aethom i lawr yn bur ochelgar ar hyd pump ar hugain o risiau llithrig i fedd tybiedig Lazarus, neu El Azariyeh, fel y gelwir y bedd a'r pentref yn awr. Ond nid oes gennyf yr un darluniad i'w roddi o hono, na dim gofyniadau yn ei gylch i'w gofyn. Ogof druenus ydyw, yn mhob ffordd yn anfoddhaol, ac agos yn wrthun."

Medda yr Olewŷdd ddyddordeb parhaus ar gyfrif yr olygfa a ddyry ar Jerusalem ddiweddar, fel ar yr hen ddinas yn nyddiau ein Harglwydd. Y mae, modd bynag, yn gamsyniad hollol i fabwysiadu cynllun ym-

welydd diweddar a'r fan gyssegredig yma, yr hwn a ddywed: "Haner y ffordd i fyny y mae mynachdy adfeiliedig, yr hwn a godwyd ar y fan fel y dywedir lle y wylodd ein Gwaredwr uwch ben Jerusalem. O'r fan yma dywed rhai teithwyr mae yr olygfa oreu ar y Ddinas Sanctaidd. Ond cadwasom ni rhag troi o amgylch hyd nes cyrhaedd i'r cwr uchaf. Yma ymdorodd yr holl olygfa yn ddisymmwth arnom, ac y mae yn ysblenydd yn wir, yn rhagori yn mhell ar ddim a ddisgwyliasom." Dyma y syniad am "olygfa" y mynyddoedd o amgylch Jerusalem, ond nid am y ddinas.

Yr olwg oreu ar y ddinas sydd o fan oddeutu haner y ffordd i fyny y mynydd, ac a ddarluniwyd fel hyn gan sylwedydd gofalus: "Yr oedd y ddinas yn awr wrth fy nhraed, ond agos yn gydwastad â mi, ceunant dwfn Jehosaphat yn gorwedd cydrhyngom. Gellir canfod pob heol o'r fan yma yn eglur, ac fe'm tarawyd gyda'r gwahaniaeth yn eu hym-ddangosiad, cymmydogaeth y marchnadleoedd yn llawn bywyd a gweith-garwch, tra yn y manau ereill nis gallwn braidd ganfod bod dynol. 'Pa fodd y mae y ddinas yn eistedd ei hunan!' Ymddengys y tai yn debyg i'w gilydd, nendyrau cyffelyb, neu gromenau uwch law yr oll; ond saif eglwys y Beddrod, y mynachdy Armenaidd, ac yn neillduol Mosc Omar, allan mewn ymgodiad mawreddog. Sefydlais fy ngolwg ar dŷ Pilat, a dylynais heol Ffordd y Dioddefaint mor bell a Chalfaria."

Os ydyw yr ymwelydd â manau ydynt wedi bod yn drigfanau dynion mawrion, neu yn faesydd eu gwrhydri, yn addef eu gallu i ddyrchafu yr enaid uwch law y presennol, a'i gario yn ol i gymdeithas â'r amser gynt, nid yw yn anhawdd gorfwyhau pwysigrwydd yr Olewŷdd yn nghyfrif y disgybl Cristionogol. Yn ystod yr wythnos ddigwyddfawr ddiweddaf o fywyd y Gwaredwr, dywed yr Efengylydd Luc wrthym Ei fod yn "y dydd yn athrawiaethu yn y deml, a'r nos yr oedd efe yn myned ac yn aros yn y mynydd a elwid yr Olewŷdd," fel nad allwn braidd dramwyo llwybr nad yw Ei draed wedi ei sangyd, neu gyfeirio at lanerch nad yw wedi ei dyfrhau â'i ddagrau neu ei chyssegru â'i weddiau. Mae y dych-ymyg sanctaidd yn well arweinydd na thraddodiadau mynachod, ac y mae agwedd addolgar ar yr ysbryd yn troi holl wyneb y mynydd yma yn ardd yr Arglwydd, lle ar bob cam y cwyd blodeu i fyny i goffhau Ei ymweliad.

(Darllener Psalm xxii.)

## PENNOD III.

### IESU YN BETHANIA.

GAN fod Bethania yn gyrchfa ddewisedig a mynych y Gwaredwr yn ystod yr ychydig fisoedd diweddaf o'i weinidogaeth gyhoeddus, gallwn gael llawer o addysg ysbrydol os dylynwn y llwybr a dramwyodd Ef ar draws yr Olewŷdd, ac os ymwelwn a'r golygfeydd a gyssegrwyd trwy Ei bresennoldeb yn y pentref neillduedig hwnw. Mae tair o adegau ar ba rai y rhydd yr efengylwyr gyfle i ni weled yr Arglwydd yn Bethania, yn gwahaniaethu yn fawr o ran nodwedd, ond yr oll yn llawn o addysg.

Yma, yna, mae golygfa deuluaidd ar y diwrnod yr aeth ein Harglwydd i mewn i dŷ Martha, Mair, a Lazarus. Yr oedd rhyw gyfreithiwr, neu ddysgawdwr o'r gyfraith, newydd glywed o enau y Gwaredwr ddameg brydferth y Samariad Da, ac wedi ei ollwng i ffordd gyda'r gorchymyn, "Dos, a gwna dithau yr un modd," pan y gwahoddodd Martha Ef i'w thŷ. Fod y teulu yma, er yn "dilyn lettygarwch," o'r dosbarth isel, gyda pha un yr oedd y Gwaredwr bob amser wedi dewis cymhysgu, sydd amlwg oddiwrth y ffaith fod "Martha yn drafferthus ynghylch llawer o bethau," ac oddiwrth ei hapeliad at ei llettywr anrhydeddus, "Arglwydd, onid oes ofal gennyt am i'm chwaer fy ngadael i fy hun i wasanaethu? dywaid wrthi gan hynny am fy helpio."

Dyma lle mae dwy chwaer yn gwahaniaethu llawer o ran tymheredd, a phob un o honynt er mewn gwahanol ffyrdd yn rhoddi parch i Grist. Mae Martha yn awyddus i ddangos pob parch a sylw i'r llettywr mae wedi wahodd, ac y mae yn brysur yn paratoi y pryd hwyrol, "yn drafferthus iawn," ac heb fod wrth ei bodd fod ei chwaer yn eistedd yn llonydd, pan y gwnaethai ei chynhorthwy brysuro y gwaith. Cymhellid ei gweithgarwch yn unig gan garedigrwydd, ac eto arweiniodd i ddrwg mawr, yr hwn na wnai cariad y Cyfaill ffyddlawn yma oddef i fyned heb gerydd. Yn Martha gwelwn y gall yr hyn sydd dda ynddo ei hun, ddyfod yn ddrwg o eisieu cymmedroldeb priodol, ac mor ddichonadwy ydyw yn nghanol y gwasanaeth a ymgymmerwn er anrhydedd i Grist a llwyddiant Ei achos, i fod wedi ymlenwi mor fawr â phethau bydol fel ag



LEIGHTON, BROTHERS.

JESUS IN THE HOUSE OF MARTHA.

i beidio gadael amser priodol i fyfyrdod duwiol a chymmundeb sanctaidd â'r Arglwydd. Mae y rhai hyny ydynt fel y Lefiaid yn amser Nehemiah, yn cymmeryd gofal "y gwaith o'r tu allan i dŷ Dduw," yn gwneyd yn dda; ond dylent fod yn ofalus i fyned i mewn i'r Lle Sanctaidd, "i edrych ar brydferthwch yr Arglwydd, ac i ymofyn yn ei deml."

Yn Mair, yr hon a eisteddodd wrth draed yr Iesu, ac a wrandawodd ar Ei ymadrodd, yr ydym yn gweled esiampl adeiladol o wir ddisgybldod. Rhoddodd yr anrhydedd uwchaf i'r Gwaredwr trwy wrando yn dawel ar Ei ymadrodd nefol. Yr oedd geiriau Iesu wedi suddo yn ddwfn i'w chalon, ac yr oedd wedi dewis "y rhan dda, yr hon ni ddygir oddi arni." Pan y rhoddodd wrandawiad fel hyn i'r Gwaredwr, gan dderbyn mewn addfwynder yr impiedig air yr hwn a ddichon gadw yr enaid, talodd barch disgybl i'w hathraw, gan roddi clust ufudd iddo Ef sydd yn gallu cyfranu y ddoethineb wir a nefol. Yma, yna, yr ydym yn gweled dwy ffordd o arddangos cariad at Grist, a'r rhai y dylai y ferch Gristionogol gyfuno mewn trefn i berffeithio y cymmeriad Cristionogol.

Gadewch i ni eto ymweled a Bethania, a myned i mewn i drigfa distadl Martha, a pheidio ofni myned i mewn er iddo fod wedi ei dywyllu gan gysgod marwolaeth. Mae rhyw afiechyd marwol wedi disgyn ar y brawd anwyl hwnw Lazarus, ac y mae llanw bywyd yn cilio yn gyflym, er fod yn hoff gan Iesu am dano ef, a'i chwïorydd, oeddynt wedi eu llanw â'r fath alar dwfn. Os ydym ni yn gwerthfawrogi cydymdeimlad dynol yn nydd trallod, faint raid fod diddanwch y teulu yma fel y meddylient am y Cyfaill hollalluog hwnw oedd wedi ymweled a hwy mor fynych, ac ar allu a chariad yr hwn y gallent ymddiried. Gyda brys, gan hyny, yr anfonasant ato Ef, gan ddywedyd, "Arglwydd, wele, y mae yr hwn sydd hoff gennyt ti, yn glaf."

Yr oedd ein Harglwydd yn awr yn bell oddiwrth y pentref bychan yma, wedi myned i "Bethabara, y tu hwnt i'r Iorddonen lle yr oedd Ioan yn bedyddio." Yn lle gadael mor gynted ag y cyrhaeddodd y newydd trwm Ef, "efe a arhosodd yn y lle yr oedd ddau ddiwrnod." Os na wna yr Arglwydd anfon cymhorth i ni mor gynted ag yr anfonwn i fyny ein cri taer a dolefus, rhaid i ni beidio a chasglu fod Ei glust yn drwm fel nad allo glywed, neu fod ein gweddi wedi ei gwrthod. Rhaid

i ffydd ac amynedd drigo yn nghyd yn y galon Gristionogol. Oedodd Iesu, ond yr oedd i ddiben mawr a thrugarog, ac er gogoniant Duw.

Dychwelodd ein Harglwydd yn awr i Judea, er ei fod iddo Ef yn le o berygl mawr, gan fod yr Iuddewon wedi ceisio Ei labyddio Ef; ac wedi cyrhaedd i Bethania cafwyd fod Lazarus wedi bod bedwar diwrnod yn ei fedd. Arweiniodd natur awyddus a chyffrous Martha hi at y Gwaredwr mor gynted y gwnaed ei ddynesiad at y pentref yn hysbys, ac yn awr yr ydym yn gweled ei ffydd yn Ei allu, ac yn clywed ei chyffes dda, "Ti yw y Crist, Mab Duw, yr hwn sydd yn dyfod i'r byd." Credai y ddwy chwaer pe buasai Crist yn bresennol na oddefasid i Lazarus farw, a mynegodd yr Iuddewon oeddynt wedi dyfod o Jerusalem i gydalaru â'r teulu amddifad yr un grediniaeth, gan ddywedyd, "Oni allasai hwn, yr hwn a agorodd lygaid y dall, beri na buasai hwn farw chwaith?"

Y fath gyfuniad o'r natur ddynol gyda'r Ddwyfol ydym yn weled yn awr yn mherson Iesu! Saif yn nghanol galarwyr, a galara; gruddfana yn yr ysbryd; ïe, "Yr Iesu a wylodd." "Wele y dyn!" Ond edrychwch eto, a gwelwch "ogoniant Duw." Arweinir Iesu at y bedd, ac wrth Ei orchymyn treiglir y maen oddiar ei enau, a saif y cwmni galarus yn mhresennoldeb y corff marw. Ond yr oedd Crist wedi darfod gruddfan neu wylo. Mae wedi gofyn i'w Dad nefol am adferiad y bywyd gwerthfawr hwnw o Hades, a rhoddir ef. Nid oes ganddo ond yn unig draethu geiriau adalwad, ac y mae yr enaid i ddod yn ol. Yna "efe a lefodd â llef uchel, Lazarus, tyred allan. A'r hwn a fuasai farw a ddaeth allan, yn rhwym ei draed a'i ddwylaw mewn amdo; a'i wyneb oedd wedi ei rwymo â napcyn. Yr Iesu a ddywedodd wrthynt, Gollyngwch ef yn rhydd, a gadewch iddo fyned ymaith." Hawdd y gallasai Iesu ddyweyd, "Myfi yw yr adgyfodiad a'r bywyd; yr hwn sydd yn credu ynof fi, er iddo farw, a fydd byw; a phwy bynag sydd yn fyw, ac yn credu ynof fi, ni bydd marw yn dragywydd."

Unwaith eto bydded i ni ymweled a Bethania, a myned i dŷ, nid Lazarus, ond Simon y gwahanglwyfus, cyfenwad yr hwn a gyfeiria at yr afiechyd o dan ba un y bu o'r blaen yn dioddef, ond yr hwn ni a allwn dybied sydd wedi ei symmud yn drugarog gan yr un gallu ag a alwodd yn ol Lazarus o'r byd anweledig. Yr oedd Simon yn debygol yn un o

lawer oedd wedi derbyn lles trwy law Crist, a'r hwn ar yr achlysur o'r ymweliad yma a hawliai yr anrhydedd o'i bresennoldeb. Gwnai Martha wedi ei hamddifadu o'r fraint yma, yn y fan leiaf ddangos ei chariad at Iesu trwy weini yn ddyfal arno, a gwasanaethu wrth y bwrdd; ac yma drachefn cedwir ei chymmeriad yn gyson.

Dadblygir nodweddiad arall hefyd yn fwy llawn. Mae y Fair hono a welsom gyntaf yn eistedd yn dawel fel dysgadures wrth draed yr Iesu, ac yna yn proffesu ei chrediniaeth yn Ei allu i gadw saethau angeu draw, yn awr yn dynesu ato i ddatgan ei diolchgarwch am waredigaeth ei brawd anwyl o ystafelloedd angeu. Yno eistedda Lazarus wrth y bwrdd, yn wrthddrych sylw pawb, ac yn brawf byw o wir Ddwyfoldeb Crist. Y fath ryfeddodau sydd ganddo i'w datguddio, oddieithr yn wir ei fod wedi gweled pethau "nid yw gyfreithlawn i ddyn eu hadrodd." Tra y mae yn siarad er anrhydedd i'w Waredwr o awdurdod y bedd, "daeth gwraig a chanddi flwch o ennaint o nard gwlyb gwerthfawr; a hi a dorrodd y blwch, ac a'i tywalltodd ar ei ben ef."

Edrychodd llygad Judas yn ddig ar yr offrwm yma, gwerth mawr pa un a ddeallwn o'i enau—tri chan ceiniog, yn agos i ddeg punt o'n harian ni—yr hwn a ddefnyddiasai iddo ei hun yn lle ei roddi i'r tlodion. Mor werthfawr oedd yr enaint yma! Gymmaint mwy gwerthfawr oedd y cariad diolchgar hwnw o ba un yr oedd yn amlygiad, a'r gymmeradwyaeth a dynodd o enau y Gwaredwr, "Hyn a allodd hon, hi a'i gwnaeth!" Defnyddid peraroglau ac enaint gwerthfawr a hyfryd i eneinio cyrff y meirw, a Mair efallai yn rhagweled yn barod gladdedigaeth y Gwaredwr, ac heb wybod pa un ai a oddefid iddi gynhorthwyo yn y swydd ddiweddaf yma o gariad "a achubodd y blaen" gyda ei hoffrwm peraroglaidd.

Nis gall yr un mynegiad o gariad at Grist fod yn rhy ddrudfawr, ac ni cha yr un offrwm gyflwynir oddiar yr amcan pur yma byth ei anghofio. Dywedodd y Gwaredwr wrth yr holl gwmni oedd wedi bod yn dystion o'r olygfa ddyddorol yma, "Yn wir meddaf i chwi, Pa le bynnag y pregether yr Efengyl hon yn yr holl fyd, yr hyn a wnaeth hon hefyd a adroddir, er coffa am dani." Ac yn Efengyl Ioan yr ydym yn cael addewid yr Arglwydd wedi ei chyflawni mewn modd hynod.

(Darllener Matthew xxvi. 6—16. Marc xiv. 1—11. Luc x. 38—42. Ioan xi. 1—46; xii. 2—8.)

## PENNOD IV.

### Y DAMHEGION.—Y MAB AFRADLON.

NID yw yr hoffder o aralleg sydd bob amser wedi hynodi cenhedloedd y Dwyrain yn cael ei ystyried yn ddigonol pan yr ydym yn darllen y damhegion lliosog sydd yn y coflyfrau ysbrydoledig. Mae wedi bod o'r amserau boreuaf i lawr i'n dydd ni yn arferiad y dysgawdwyr Dwyreiniol i ddefnyddio arallegau, dychymygion, a damhegion, fel gwisg gyfaddas eu meddyliau. Yn y modd yma mae y sylw wedi ei dynu, y dychymyg wedi ei foddhau, a'r chwaeth wedi ei ddifyru a'i addysgu. Defnyddir gwisg y ddamheg weithiau i gadw y sylw a chynhorthwyo y farn; ac ar adegau ereill i fywiogi y meddwl, ac awchlymu ei alluoedd wrth ddarganfod yr ystyr fydd yn ymguddio oddiwrth y diofal a'r dwl. Mae pob ymchwiliwr cywir am y gwirionedd yn awyddus "i ddeall dïareb, a'i deongl; geiriau'r doethion, a'u damhegion."

Defnyddiai ein Harglwydd yn fynych y dull yma o gyfranu addysg, am ei fod yr un mwyaf cymhwys i'r bobl a'i gwrandawai Ef, am ei fod yn gofyn gradd briodol o feddwl o du y gwrandawr, ac yr oedd felly yn gymhwys iawn i'r meddwl cywir a difrifol, tra y cynhorthwyai yn fawr y cof i gadw y gwirionedd ar ol unwaith ei ddysgu. Yr ydym ni yn y gwledydd hyn, lle y defnyddir y wisg addurnol yma ar wirionedd yn anfynych, yn edmygu prydferthwch damhegion ein Harglwydd, ac yn gweled eu bod yn dra deniadol i'r ieuaingc, a swynir yn fynych â'r aralleg, cyn y gallant amgyffred y gwirioneddau pwysig a gyflea.

Gwnaed y sylw yn fynych fod damhegion ein Harglwydd wedi eu tynu oddiwrth fywyd gwledig, a gwrthddrychau cylchynol; a phrofa y teithwyr Cristionogol yn Syria wersi y Gwaredwr yn cael eu dwyn adref i'w cof oddiwrth y golygfeydd yr ant trwyddynt. Dywedant, "Mae y cynbethau eto ger ein bron," ac y mae yr holl gyfeiriadau yn berffaith naturiol a chyfaddas i'r wlad, y bobl, y Dysgawdwr, yr oes, a phob amgylchiad arall grybwyllir.

Fel hyn "llefara Crist am y gwinllanoedd; am y canghenau da yn cael eu *glanhau;* am y rhai crin yn cael eu casglu i dân; am y gweithwyr er


LEIGHTON, BROTHERS.

THE PRODIGAL'S RETURN.

ceiniog y dydd *yn sefyll yn y farchnadfa yn disgwyl cael eu cyflogi*, ac yn derbyn eu cyflog ar ddiwedd pob dydd. Dysga adar y tô eto sydd yn cograch ar dŷ pawb wersi o ymddiried mabaidd yn ngofal rhagluniaethol ein Tad nefol; a cherydda y lili mwy gogoneddus ei gwisg na Solomon ofal gormodol â pha beth yr ymwisgwn. Yna yr ydym yn cael y surdoes a'i wers; yr had mwstard gyda ei addewid brophwydol i'r eglwys; yr hauwyr mewn pedwar math o dir, a'u canlyniadau amrywiol; yr had da ac efrau y gelyn; y ffigysbren gyda'i haddewid o wanwyn, a'i bygythiadau i'r diffrwyth. Neu wrth ddisgyn o'r tir at y môr yr ydym yn cael y pysgotwyr, eu llongau, eu rhwydau, a'u galwedigaeth, mor awgrymiadol i apostolion a phregethwyr y rhai sydd i fod yn bysgotwyr dynion."

Wrth fyfyrio ar ddamhegion ein Harglwydd mae yn angenrheidiol bob amser i ystyried yr amgylchiadau yn mha rai y llefarwyd hwynt, y gwrandawyr gan ba rai y gwrandewid hwynt, a'r gwirioneddau nefol y ceisiai yr Athraw mawr eu dysgu. Ceir yn gyffredin fod gan bob damheg un prif feddylddrych, o ba un y mae yn drosglwyddydd, ac fod yr amrywiol fanylion fel y cynhorthwyon ddefnyddir gan yr arlunydd i chwanegu effeithioldeb ei ddarlun. Ni wnawn ddysgu meddwl yr ysbryd os dylynwn ein dychymyg ein hunain, a cheisio gosod meddwl ysbrydol dwfn i bob un o'r pwyntiau hyn, neu gael cefnogaeth i athrawiaeth hoff pa bryd bynag y gall ein cywreinrwydd ei dynu allan. Mae yn gam mawr a'r ddamheg pan y defnyddia y pregethwr hi i arddangos ei fedrusrwydd ei hun, yn lle bod yn awyddgar i dynu o honi yn unig feddwl Crist. Gwneir y sylwadau hyn am nad oes gennym ofod i holl ddamhegion ein Harglwydd, a dengys un o honynt pa fodd y gellir cymhwyso yr awgrymiadau hyn.

Cyfeiriwyd damheg y mab afradlon at y Phariseaid a'r Ysgrifenyddion hyny a rwgnachent wrth y Gwaredwr am Ei fod yn derbyn pechaduriaid, ac yn bwyta gyda hwynt. Yr amcan yn amlwg oedd i gefnogi pechaduriaid i geisio am drugaredd, ac i geryddu y balchder Phariseaidd a wnaethai eu gyru yn ol. Er ein bod wedi crwydro yn ddrygionus i yrfa bechadurus, eto y mae Duw yn Dad trugarog, ac os dychwelwn yn edifeiriol ato Ef, ymhyfryda yn ein derbyn i'w dŷ, ac mewn rhoddi lle i ni yn mysg Ei blant.

Pan y sonia y ddamheg hon am un o'r meibion hyn fel un ufudd,

cyfeiria at y Phariseaid, fel y barnent am danynt eu hunain; canys yr oeddynt "yn hyderu eu bod yn gyfiawn." Cynrychiolir hwynt gan yr hynaf o'r ddau fab hyn. Ymadawodd y mab ieuengaf, wedi cael llawer o waddol gan dad tyner, i wlad bell, lle gwastraffa ei eiddo mewn bywyd afradlon. "Ac wedi iddo dreulio'r cwbl, y cododd newyn mawr trwy'r wlad honno; ac yntau a ddechreuodd fod mewn eisieu."

Daeth lle ei afradlonedd mawr hefyd yn le ei gyfyngder mawr, a buasai yn dda ganddo dori ei newyn â'r cibau, neu yn hytrach y codau a fwytâi y moch, ffrwyth y pren locust, neu fara St. Ioan, a fwytâ y rhai tlotaf weithiau; ond ni roddwyd hyd yn oed hyn gan y rhai hyny yn mysg pa rai yr oedd wedi gwasgaru ei dda.

Yn y cyfyngder yma meddyliodd am ei gartref, am ei dad, ac am y gweision oeddynt yn cael eu digonedd o fara, tra yr oedd ef yn newynu, a daeth i'r penderfyniad doeth a rhagorol, "Mi a godaf, ac a af at fy nhad, ac a ddywedaf wrtho, Fy nhad, pechais yn erbyn y nef, ac o'th flaen dithau, ac mwyach nid ydwyf deilwng i'm galw yn fab i ti; gwna fi fel un o'th weision cyflog." Fel hyn dengys nid yn unig deimlad dwfn o'i drueni, ond cywilydd a galar am ei bechod. Teimlai yn ymwybodol o wrthryfel yn erbyn tad teilwng, ac o bechod yn erbyn Duw y nefoedd. Nid cynt y gwnaed y penderfyniad nag y dygwyd ef i weithrediad, canys "efe a gododd, ac a aeth at ei dad."

Ni chadwyd ef yn hir mewn amheuaeth am gariad a maddeugarwch ei dad, canys "pan oedd efe eto ym mhell oddiwrtho, ei dad a'i canfu ef, ac a dosturiodd ac a redodd ac a syrthiodd ar ei wddf ef, ac a'i cusanodd." O'r braidd yr oedd wedi amlygu ei alar edifeiriol pan y dywedodd y tad caredig hwnw "wrth ei weision, Dygwch allan y wisg oreu, a gwisgwch am dano ef, a rhoddwch fodrwy ar ei law, ac esgidiau am ei draed; a dygwch y llo pasgedig, a lleddwch ef; a bwyttâwn, a byddwn lawen; canys fy mab hwn oedd farw, ac aeth yn fyw drachefn; ac efe a gollesid ac a gaed. A hwy a ddechreuasant fod yn llawen."

Fel hyn dysgir ni mor haelfrydig y mae ein Tad nefol yn ein cyfoethogi â'i ddoniau; pa fodd yr ydym ni yn eu camddefnyddio a'u gwastraffu mewn pleserau pechadurus; pa fodd y mae achosion pechadurus yn cynhyrchu canlyniadau truenus; pa fodd y dylem wneyd brys i ddychwelyd



LEIGHTON, BROTHERS.

SHEEP.

at Dduw trwy edifeirwch. Yna yr ydym yn gweled fod Duw yn disgwyl am le i drugarhau, i roesawu yr edifeiriol i'w dŷ, ac i wneyd coffa am ei ddychweliad trwy alw ar yr holl deulu i lawenhau yn adferiad y crwydryn, ac yn mywyd newydd y marw. Yr ydym yn dysgu gwersi bendigedig y ddameg hon heb roddi ystyr ddirgelaidd i'r fodrwy, y wisg, neu y llo pasgedig, y rhai a ddanghosant fod darpariaeth gyfaddas i'w sefyllfa fel mab yn cael ei wneyd i'r edifeiriol yn nhŷ ei Dad.

Cyfeiria y rhan derfynol o'r aralleg at y Phariseaid a'r Saduceaid grwgnachlyd, y rhai a dybient nad oeddynt erioed wedi crwydro oddiwrth Dduw, neu nad oedd arnynt eisieu edifeirwch. Fel y mab hynaf hwnw edrychent gyda digasedd ac eiddigedd ar y brawd ieuengaf, a phob llawenydd ddanghosid ar ei ddychweliad; ac fel yntau, gyda eu holl gyfiawnder tybiedig, yr oeddynt yn ddiffygiol mewn parch mabaidd a chariad brawdol, ac mor amddifad o'r rhinweddau yr ymffrostient ynddynt. Yn iaith y dysgedig a'r synwyrol Dodderidge, bwriadai ein Harglwydd ddangos "pe buasai y Phariseaid wedi bod mor rhagorol o dda ag yr ymhonent fod, eto buasai yn anheilwng iawn o'u nhodweddiad i ddigio am y croesawiad o'r fath ag a allasai unrhyw edifeiriol cywir dderbyn. Fel hyn gwna yma, fel mewn llawer o destynau cyferbyniol, gondemnio eu hymddygiad ar eu hegwyddorion eu hunain, a dinoetha yn eglur eu rhagrith a'u heuogrwydd."

Dywed y doctoriaid Iuddewig wrthym fod mynyddoedd o feddwl yn crogi ar holl eiriau y Gyfraith. Mae doethineb anfeidrol yn mhob addysg ysbrydoledig, lle y gallwn gael cyflenwad diball o wirionedd trwy fendith Duw ar ein myfyrdod dyfal, mewn atebiad i weddi. Rhaid i ni, modd bynag, beidio crogi "mynyddoedd o feddwl" ar eiriau Duw, a chymmeryd arnom fod gennym gefnogaeth Ddwyfol i greadigaeth ein dychymyg yn unig. Bydded i ni geisio cael o'r ddameg hon, a phob un arall, yr holl ddoethineb nefol y mae yn gynhwys, heb ddymuno mwy nag a fwriadai yr Athraw mawr gyfranu. Dyma lle mae sypiau godidog yn addurno muriau y Deml, o ba rai y gwna gwasgiad ysgafn dynu allan sudd pur y grawnwin, ond na fydded i ni er cael ail a thrydydd cyflenwad, niweidio blas yr oll trwy y suredd a wasgwn allan o'r dail a'r bonion.

(Darllener Luc xv. 1—32.)

## PENNOD V.

### IESU YN DERBYN A BENDITHIO PLANT.

GWERTHFAWROGAI yr Iuddewon duwiol yn fawr fendith dynion sanctaidd a phatriarchaidd, a chwenychent hi yn daer ar ran eu rhai bach, y rhai a dderbynient y fendith trwy arddodiad arwyddocaol y dwylaw. Gan fod y rhieni hyn wedi derbyn bendith oddiwrth addysg a gwyrthiau Iesu, hyderent na attelid Ei fendith oddiwrth eu rhai bach, os dygid hwy at Ei draed, ac os gosodid hwy o flaen Ei lygaid.

Mae llawer i'w edmygu yn y dymuniad duwiol amlygwyd fel hyn gan y rhieni yma, a llawer sydd yn esiampl i rieni yn mhob oes. Nis gall y rhai hyny sydd yn caru y Gwaredwr, ac ydynt yn eu personau eu hunain wedi derbyn bendith oddiar Ei law, wneyd dim yn well i'w hiliogaeth na'u dwyn at y Gwaredwr, a gofyn iddo Ef osod Ei ddwylaw arnynt a gweddio. Gellir gwneyd hyn cyn i'r babanod yma allu bloesgadrodd eu gweddiau bach eu hunain, ac hyd yn oed pan y gwrthodant blygu y lin a chrymu y pen mewn addoliad i Grist.

Rhyfedd yn wir i'r disgyblion geryddu y rhieni hyn! Dylasent gefnogi dynesiad y rhai bach at eu Meistr hynaws, a llawenychu fod Ei fendithion yn cael eu gwerthfawrogi mor uchel. Gan y dymunent i deyrnas y Ceidwad ymeangu, dylasent lawenhau yn y gobaith y gwnai y plant hyn, y rhai a fendithiodd y Gwaredwr, a thros ba rai y gweddiodd, oll dyfu i fyny o'i amgylch a phrofi yn aelodau ffyddlawn o'i eglwys. Torodd goleuni ar eu meddwl, nid heb ymdrech yn erbyn llawer o rag-farnau, ac nis gallwn gyfrif am eu cerydd i'r rhieni hyn, ond yn unig trwy eu hanwybodaeth. Nid oeddynt yn iawn brisio cariad ac ymostyngiad Crist a mawredd Ei galon, ac yr oedd ganddynt eto i ddysgu y gwirionedd a ddysgodd iddynt, "Eiddo y cyfryw rai yw teyrnas Dduw." Efallai y tybient nad allai Ef oedd a'r fath bregethau dyfnion i'w traethu, a'r fath wyrthiau rhyfeddol i'w cyflawni, dalu sylw i blant bychain, neu oddef i'w gwenau na'u llefau Ei dynu oddiwrth Ei waith gogoneddus; ac felly




CHRIST BLESSING LITTLE CHILDREN.

anturiasant benderfynu, pan y dylasent fod yn foddlawn i ddisgwyl ac ymholi.

Yr oedd y croesawiad caredig roddwyd i'r plant hyn yn gerydd ysgafn i'r disgyblion: "Gadewch i blant bychain, ac na waherddwch iddynt ddyfod attaf fi; canys eiddo y cyfryw rai yw teyrnas nefoedd." Peidiwch sefyll fel terfyn rhyngddynt a'u Gwaredwr. Os nad allwch eu helpu, peidiwch a'u cadw draw oddiwrtho Ef a all. A oes neb yn mysg gweinidogion yr Efengyl a wnant yn dda i wrando ar y gair o gerydd o eneu eu Mheistr? A ydynt oll yn ddigon gofalus i arwain plant at Grist?

Ond gadewch i ni edrych oddiwrth y disgyblion at y Meistr. "Efe a'u cymmerodd hwy yn ei freichiau, ac a roddes ei ddwylaw arnynt ac a'u bendithiodd." Gwnaeth fwy nag a feiddiai y rhieni ofyn neu feddwl. Nid oedd yn ddigon iddo eu cyffwrdd, dodi Ei ddwylaw arnynt, gweddio drostynt a'u bendithio. Cymmerodd hwy yn Ei freichiau gyda chofleidiad hoff a charedig. "Wele fel yr oedd yn eu caru!" Fel yr oedd yn caru eu purdeb! fel y tosturiai drostynt fel rhai o hil bechadurus! mor galonog y derbyniodd hwy, i gefnogi pob rhieni i gyflwyno eu rhai bach anwyl i freichiau tragywyddol gariad.

Mae llawer o ystyr cyssegredig yn natganiad y Gwaredwr, "Eiddo y cyfryw rai yw teyrnas nefoedd." Un o'r gwersi mwyaf eglur yw fod llawer o blant yn y nefoedd. Adgoffâ ysgrifenydd "Coronbleth Gypreswydd i Fedd Baban," i ni fod yn y gwledydd gwareiddiedig yn agos i'r haner, ac mewn hinsoddau barbaraidd efallai dair rhan o bedair, o'r rhai hyny sydd yn marw, yn cael eu symmud yn hir cyn i'w galluoedd gael eu dadblygu, ac y gellir yn deg eu hystyried yn weithredwyr moesol. Fel hyn, os ydym yn credu yn nghadwedigaeth babanod—fel pwy nad yw gyda chalon serchog yr un fath ag un Crist?—yr ydym yn gweled uwchlaw haner y boblogaeth ddynol yn y nefoedd, wedi myned yno yn eu maboed. Llefarodd Mab y Dyn, yr hwn a ddaeth i lawr o'r nefoedd, yr hyn a welodd ac a glywodd pan y dywedodd, "Eiddo y cyfryw rai yw teyrnas nefoedd."

(Darllener Matthew xix. 13—15. Marc x. 13—16. Luc xviii. 15—17.)

## PENNOD VI.

### YR YMWELIAD A ZACCHEUS.

DINYSTRIWYD Jericho, y ddinas gyntaf yn Nghanaan gymmerwyd gan Joshua, ar ol i'w muriau syrthio yn wyrthiol gan dân, a dïofrydwyd hi i anrheithiad parhaus, a bygythiwyd melldith ar y dyn a wnai ei hail-adeiladu. Disgynodd y felldith hono ar Hiel, y Betheliad, yr hwn ar ol pum cant a deg a thriugain o flynyddoedd a osododd sylfeini yr ail Jericho yn ngwaed Abiram, ei gyntafanedig. Yn amser ein Harglwydd yr oedd Jericho yn ddinas lwyddianus, yn cynhwys palas hardd adeiladwyd gan Herod, marchredfa, ac amchwareufa. Nid yw Jericho ein dydd ni ond pentref bychan truenus o ddeugain neu haner cant o'r tai tlotaf; cylchynir y trigfanau hyn gan amgaerau wedi eu gwneyd o *nubk*, mathau o frysglwyn sydd mewn cyflawnder yn y gwastadedd cyfagos, a'r drain a'r canghenau wedi eu planu mor agos i'w gilydd na wna na cheffyl na dyn ymosod arnynt.

Yn Palestina cyfarfyddir a'r sycamorwydden—y ffigysbren—yn fynych yn nghymmydogaeth dinasoedd, wedi ei phlanu wrth ochr y ffordd, ac yn y manau agored lle cyfarfydda amrywiol lwybrau. Os nad all ein darllenydd Prydeinig, nad yw wedi gweled ond ychydig o'n coed ffigys wedi eu gosod i dyfu yn erbyn mur, ddychymygu pa fodd y gallasai dyn ddringo i fyny i ffigysbren, gall gael symmud yr anhawsder pe bae byth yn cael cyfle i fyned i'r "ardd ffigyswydd," yn Tarring, ger Worthing, lle y gwel amrai goed ffigys uchelfrig, yn un o ba rai gall tri neu bedwar o ddynion eistedd yn berffaith ddiogel. Yn Syria ymddengys y ffigysbren i fod yn gyrchle dewisol i bobl ieuaingc bywiog, y rhai mewn rhifedi mawr a dreuliant eu horiau gŵyliawl rhwng y canghenau, gan edrych ar y teithwyr odditanodd.

Fel hyn gallwn sylweddoli y darlun dyddorol roddir i ni yn yr hanes. Mae y Gwaredwr yn myned trwy Jericho ar Ei ffordd i fyny i'r ddinas euog hono, Jerusalem, lle y mae i gael Ei draddodi i ddwylaw yr arch-offeiriaid, a'i roddi i farwolaeth. Mae Ei ddisgyblion gydag Ef, a chanlynir Ef gan dyrfa fawr; canys y mae clod Ei wyrthiau lliosog (un newydd

gael ei gwneyd ar Bartimeus ddall) wedi creu awydd cyffredinol am Ei weled Ef, o'r tlawd iselaf i Herod ar yr orsedd. Zacchëus, pen-publican, rhentwr y deyrnged Iuddewig, oedd un o'r rhai hyny a dalent i'r llywodraeth am yr hawl i gasglu y cyllid, gan ddefnyddio oddi danynt radd is o swyddogion, gan ba rai y gormesid yr Iuddewon yn fawr. Nid oedd y dyn yma yn nghanol ei alwedigaethau enillfawr heb awydd gwybod am yr hyn oedd yn myned yn mlaen, ac wrth glywed fod person rhyfedd iawn yn awr yn gadael y ddinas, fe redodd i gael golwg arno, ond aeth yn ofer, am fod Crist yn cael Ei gylchynu gan dyrfa, ac yr oedd yr ymofynydd pryderus yma "yn fychan o gorpholaeth." Mor rhwydd yr eir dros anhawsderau mawrion pan y mae yr ewyllys yn benderfynol! Mae Zaccheus er yn fach, yn hoew, ac yn ebrwydd mae wedi cael lle manteisiol iawn ar ganghen o'r ffigysbren hono sydd ar y ffordd y mae Crist yn myned ar hyd iddi.

Mor dda y mae yn canfod y dïeithrddyn rhyfeddol hwn! Craffa ar Ei wynebpryd, sylwa ar Ei holl agwedd, ac efallai fod ei gywreinrwydd yn unig yn awr yn troi i gydymdeimlad a dyddordeb dwfn. Mae Iesu, er yn cael Ei ddylyn gan dyrfa edmygol, wedi Ei adael i fyned trwy y ddinas heb unrhyw arwydd o sylw parchus, ac os na wneir gwyrth arall pwy all ddyweyd na wna Ef a'i ddisgyblion lewygu yn fuan o newyn, a bod heb le i roi eu pen i lawr. Ond fe wnaeth wyrth—gwyrth Ei ras—ar galon y dyn oedd yn awr yn edrych arno gyda'r fath sylw astud. Ymdreiddiai trem Ddwyfol Iesu, y Dwyfoldeb oedd o fewn yn edrych ar Zaccheus, trwy ei holl enaid. Nid oedd rhaid i'r Gwaredwr ond dyweyd, "Zacchëus, disgyn ar frys, canys rhaid i mi heddyw aros yn dy dŷ di; ac efe a ddisgynodd ar frys, ac a'i derbyniodd ef yn llawen."

Yn awr y mae rhyw beth i'r Ysgrifenyddion a'r Phariseaid, ac iddynt "oll" i rwgnach ato. Grwgnacha y dynion "cyfiawn" hyny na roisant ddim croesaw iddo, "gan ddywedyd, Fyned o hono ef i mewn i lettya at ŵr pechadurus." Edrychai y bobl gyda dychryn ar y tŷ hwnw i ba un yr aeth y sanctaidd a'r Cyfiawn hwn i mewn gyda Ei ddisgyblion, ac efallai fod y rhai a "wyddent y gyfraith" fel yr aent heibio i'r lle mawreddog yma wedi dyweyd yn fynych, "Gwae'r hwn a adeilado ei dŷ trwy anghyfiawnder, a'i 'stafellau trwy gam; gan beri i'w gymmydog ei

wasanaethu yn rhad, ac heb roddi iddo am ei waith; yr hwn a ddywed, Mi a adeiladaf i mi dŷ eang a 'stafellau helaeth, ac a nadd iddo ffenestri, a llofft o gedrwydd, wedi ei lliwio â fermilion."

Ond na rwgnechwch chwi, rai gorthrymedig, fod Iesu wedi myned i dŷ y gorthrymwr yma. Ni wna un dylanwad drwg Ei lygru Ef. Ni wna Ef gefnogi anghyfiawnder a thwyll. Ni wna Ef fradychu eich achos cyfiawn. Am dano Ef y dywedodd Dafydd, "Efe a wared yr anghenog pan waeddo; y truan hefyd, a'r hwn ni byddo cynnorthwywr iddo. Efe a arbed y tlawd a'r rheidus, ac a achub eneidiau'r rhai anghenus;" ac ni chewch ddim yn Nghrist i wrthbrofi y rhagfynegiad. Mae yn myned yn westwr y gorfeiliwr cyfoethog yma, ond â i gyfnewid ei galon. Mae i dderbyn sylw caredig a chroesawgar; canys derbyniodd Ei lettywr Ef "yn llawen;" ond mor ddaionus yr ad-delir am hyn; dyna oedd y dydd mwyaf hynod yn mlwyddolion y tŷ. Efallai fod llawer o ddynion cyfoethog a mawr wedi myned i mewn, llawer o'r balch a'r gwych, llawer o'r rhai hyny ydynt bob amser yn barod i fyned i dŷ gwledd; ond yn awr â iachawdwriaeth i mewn; ac y mae Zacchëus yn wir fab "i Abraham.

Gwelwch mor wirioneddol yw y dychweliad, ac mor gynted y danghosir ei ffrwythau daionus! O'r braidd yr oedd Iesu wedi myned i'r lle pan y danghosa meistr y tŷ pa fodd y mae ei galon wedi ei chyfnewid. Ca yr ymweliad gogoneddus yma i Grist goffawdwriaeth teilwng, a bydd o natur yn cyfateb i gydymdeimlad adnabyddus yr Ymwelydd Enwog, a boddhaol i'w galon garedig, "Wele, haner fy nâ, O Arglwydd, yr ydwyf yn ei roddi i'r tlodion." Mwy na hyn, ni wna Zacchëus guddio ei bechod gyda mantell o elusengarwch ffugiol. Mae yn wir edifeiriol, canys ychwanega, "Os dygais ddim o'r eiddo neb trwy gamachwyn, yr ydwyf yn ei dalu ar ei bedwerydd."


Mae wedi ei awgrymu ei fod yn enwi y swm yma yn debygol am fod y gyfraith Rufeinig yn gofyn adferiad pedair gwaith gymmaint oddiar bublicanod a geid yn euog o godi gormod wrth gasglu y trethoedd; tra yn ol y gyfraith Iuddewig, os dewisiai twyllwr o hono ei hun, neu ar ei addefiad ei hun, wneyd adferiad, ni ofynid iddo adferu mwy na'r swm a dwyllwyd a'r bumed ran yn chwanegol.

(Darllener Luc xix. 1—28.)



CHRIST'S ENTR

[From a Paint



LEIGHTON, BROTHERS.

TO JERUSALEM.

[MARTIN, K.L.]

# PENNOD VII.

## Y MYNEDIAD BUDDUGOLIAETHUS I JERUSALEM.

YR ydym yn awr wedi dyfod at yr wythnos ddiweddaf yn mywyd a gweinidogaeth gyhoeddus y Gwaredwr, ac arweinia yr efengylwyr ni yn ol Ei draed o ddydd i ddydd. Mae wedi ei sylwi yn gywir, "Yn ystod bywyd anghyhoedd ein Harglwydd ychydig o ddigwyddiadau a gofnodir, ac yr ydym yn myned dros ddeunaw mlynedd heb un sylw. Pan y daeth allan i sylw y cyhoedd nid yw y tair blynedd cyntaf yn cael eu dylyn mor fanwl, ond rhoddir y prif hanesion perthynol i bob un gan y naill neu y llall o'r haneswyr. Rhoddir adroddiad llawnach o'r haner blwyddyn ddiweddaf, fel y gallwn roddi cyfrif am bob mis. Ond yn awr fel yr ydym wedi dyfod at yr wythnos ddiweddaf, yr ydym yn gweled pa beth oedd yn ei wneuthur bob dydd, ac yn y diwedd cofnodir digwyddiau pob awr." Yn y modd yma gwylia ein seryddwyr yr haul fel y dynesa at adeg y diffyg, a chofnodant mewn ysbeidiau llai ymddangosiadau y tywylliad. Yr ydym yn awr yn dynesu at awr y diffyg rhyfeddol brofwyd gan Haul Cyfiawnder, a'i gyfodiad i ogoniant newydd.

Darlunia y prophwyd Zecharïah, dros bum cant o flynyddoedd cyn ymddanghosiad y Gwaredwr, fel hyn Ei fynediad cyhoeddus i Jerusalem, "Bydd lawen iawn, ti ferch Sïon; a chrechwenna, ha ferch Jerusalem. Wele dy frenhin yn dyfod attat; cyfiawn ac achubydd yw efe; y mae efe yn llariaidd, ac yn marchogaeth a asyn, ac ar ebol llwdn asyn." Yr oedd yr amser wedi dyfod pan y dymai Iesu gyflawni rhagfynegiad y prophwyd. Yr oedd yr amser hwnw wedi ei benodi yn y meddwl Dwyfol, ac wedi ei ragfynegu yn eglur, a gofynai yr Ysgrythyr yr hon nas gellir ei thori, ar iddo yn awr, yn ol dull syml llywodraethwyr boreuol Israel, farchogaeth i Jerusalem "ar asyn, ac ar ebol llwdn asyn." Ar y Sabbath cyn y croeshoeliad yr oedd y Gwaredwr wedi gorphwyso gyda'i gyfeillion yn Bethania, lle yr oedd wedi dyfod fel y gallai fod yn bresennol yn y Pasc. Gosodid oen y Pasc yn awr o'r neilldu gan bob teulu gan ba rai y cedwid yr ŵyl yn Jerusalem, ac ymddengys Iesu wrth ymwahanu oddiwrth Ei gyfeillion, a gwneyd y rhoddiad yma i fyny o'i

berson Ei hun i ddwylaw dynion drygionus, fel pe yn cyflawni y rhan yma o'r gofynion Dwyfol, fel Oen yn awr wedi ei neillduo yn aberth.

Wrth fyned o Bethania tua'r ddinas, gyda Ei ddisgyblion, aeth y Gwaredwr heibio i bentref Bethphage ar Fynydd yr Olewŷdd, pan "yr anfonodd ddau ddisgybl, gan ddywedyd wrthynt, Ewch i'r pentref sydd ar eich cyfer, ac yn y man chwi a gewch asen yn rhwym ac ebol gydâ hi; gollyngwch hwynt a dygwch attaf fi," gan ddangos fel hyn Ei wybodaeth berffaith o bethau o'i amgylch, er nad oedd yn eu gweled, ar yr un pryd arddanghosodd Ei allu a'i awdurdod fel Arglwydd pawb. O'r braidd y gwnai perchenog yr anifeiliaid hyn oddef i'r disgyblion i'w gollwng hwynt a'u cymmeryd hwynt ymaith, ond pe y dywedai, "Paham y gwnewch hyn?" yr oeddynt i ateb, "Y mae yn rhaid i'r Arglwydd wrthynt," pan y sicrheid hwy y gwnai y perchenog yn y man eu danfon hwynt. Fel yr oedd y gallu Dwyfol wedi ymblethu gydag iselder y ddynoliaeth! Cymmerodd y digwyddiadau oll le fel y dywedodd y Gwaredwr, a gwnaeth y disgyblion fel gorchymynodd Iesu. "A hwy a ddygasant yr ebol at yr Iesu, ac a fwriasant eu dillad arno; ac efe a eisteddodd arno." Mae prophwydoliaeth Zechariah yn hynod am ei manylion. Yr oedd Brenhin Sïon i fyned i mewn i'w ddinas gan farchogaeth "ar asyn, ac ar ebol llwdn asyn," ac y mae y cyflawniad yn hollol i'r llythyren, canys y mae y Gwaredwr yn eistedd "ar yr ebol," ar yr hwn yr oedd y disgyblion wedi taenu eu dillad.

Ac yn awr bydded i ni ymuno a'r orymdaith a chanlyn Brenhin addfwyn a gostyngedig Sïon, mab y brenhin enwog hwnw, Dafydd, gan yr hwn yr adeiladwyd y ddinas hon Jerusalem, ac ei neillduwyd i Jehofah, "Cyfiawn ac achubydd yw efe." Deua, nid mewn cerbyd rhyfel yn cael ei dynu gan feirch carlamog, yn gylchynedig gan gadbeniaid cedyrn, y fath ag oedd yn blodeuo yn nheyrnasiad Dafydd frenhin. Mae wedi ymladd â'r gelyn mwyaf grymus, ac wedi ei orchfygu; mae wedi brwydro â chythreuliaid, a'u bwrw allan; mae wedi sefyll yn erbyn y ffurfiau mwyaf dychrynllyd o afiechyd, ac y maent wedi diangc wrth Ei air. Ond y mae Ei waith mawr i gael ei wneyd eto, canys y mae i ddwyn iachawdwriaeth; mae ar ei chwblhau, ac yna i'w gweinyddu. Mae y frwydr fawr olaf yn nesu, ond nid yw fel "pob cad y rhyfelwr sydd mewn trwst,



LEIGHTON, BROTHERS.

a dillad wedi eu trybaeddu mewn gwaed." Mae i sylfaenu teyrnas, ond nid o'r byd hwn; mae Ei fuddugoliaethau i gael eu henill "trwy losgiad a chynnud tân," ond dylanwad toddedig cariad Dwyfol yw y tân hwnw, yn disgyn ar galonau a'u darostwng hwy mewn edifeirwch.

Edrychwch ar y dyrfa, rhai o'i flaen ac ereill yn Ei ganlyn, pawb yn talu gwarogaeth iddo. Tyna niferoedd eu dillad uwchaf llac i ffwrdd, a thaenant hwy ar y llawr; a thora ereill ganghau o'r gwŷdd, a thaenant hwy yn Ei lwybr, i wneyd yr anrhydedd uwchaf iddo, ac i'w gydnabod Ef fel y Brenhin Messiah. Fel pan yr eneiniwyd Jehu yn frenhin, "hwy a frysiasant ac a gymmerasant bob un ei wisg, ac a'i gosodasant dano ef." Bydded i ni wrando a dysgu o'u geneuau eu hunain pa fodd y maent yn Ei barchu, canys dyrchafant eu lleisiau mewn molawd gogoneddus, a llenwir yr holl awyr â'i fawl. Nid oes dim anhawsder mewn codi y gân yma o fawl, canys y "rhai oedd yn myned o'r blaen, a'r rhai oedd yn dyfod ar ol, a lefasant, gan ddywedyd, Hosanna! Bendigedig fyddo yr hwn sydd yn dyfod yn enw'r Arglwydd." Dyma y psalm iawn i'w chanu ar y dydd bendigedig hwnw, a rhaid fod ysbryd doethineb nefol wedi tywys rhyw ŵr sanctaidd a arweiniodd y gân gyfaddas.

Ond distewir y gorfoledd yma am ychydig. Mae Iesu yn awr wedi cyrhaedd y pwynt hwnw yn Ei lwybr, lle yr ymdora y ddinas i'w olwg yn ei holl degwch, ac nid cynt y distewir llefain y bobl nag yr edrycha Iesu yn drist, ac y gwelir Ef yn wylo. Gwrandawn ar Ei eiriau, "Pe gwybuasit tithau, ïe, yn dy ddydd hwn, y pethau a berthynent i'th heddwch! eithr y maent yn awr yn guddiedig oddiwrth dy lygaid. Canys daw y dyddiau arnat, a'th elynion a fwriant glawdd o'th amgylch, ac a'th amgylchant, ac a'th warchaeant o bob parth."

Ar ol y gorphwysiad difrifol yma, drachefn â yr orymdaith yn mlaen, ac yn awr gwelir myntai arall yn dyfod allan o'r ddinas i roesawu mynediad y Gwaredwr i mewn, a mwyhau Ei orfoledd. Llawer o wahanol barthau o'r tir oeddynt wedi dyfod i fyny i Wyl y Pasc, "pan glywsant fod yr Iesu yn dyfod i Jerusalem, a gymmerasant gangau o'r palmwŷdd, ac a aethant i gyfarfod ag ef, ac a lefasant, Hosanna! Bendigedig yw Brenhin Israel yr hwn sydd yn dyfod yn enw yr Arglwydd."

(Darllener Zachariah ix. 9—17. Matthew xxi. 1—17. Marc xi. 1—11. Luc xix. 29—44.)

## PENNOD VIII.

### JUDAS Y BRADWR.

GAN ragflaenu y cyfnod ydym yn awr wedi ei gyrhaedd yn hanes bywyd y Gwaredwr, yr ydym wedi ei weled Ef wrth swpper yn nhy Simon yn Bethania, pan yr eneiniodd Mair Ef â'r nard gwlyb, a phan y cwynai un o'r disgyblion am y gwastraff ar yr enaint gwerthfawr hwnw, a allesid ei werthu a rhoi yr arian i'r tlodion. Ar yr achlysur yma yr ydym yn cael yr awgrymiad cyntaf o wir nodweddiad Judas, ond fel yr hysbysa yr apostol Ioan i ni "hyn a ddywedodd efe, nid o herwydd bod arno ofal dros y tlodion, ond am ei fod yn lleidr, a bod ganddo y pwrs, a'i fod yn dwyn yr hyn a fwrid ynddo."

Mae yn amlwg i Judas yn union ar ol methu cael gafael ar werth yr enaint yma, ffurfio ei fwriad i werthu ei Athraw i ddwylaw yr archoffeiriaid. Yn flin a dig o herwydd colli y fath ychwanegiad at y drysorfa a ddaliai, penderfynodd i enill rhyw beth trwy droi yn fradwr, a gwerthu Crist am bris caethwas. Yr oedd yr ariangarwch hwnw sydd yn wraidd pob math o ddrwg wedi ei droi yn barod i fod "yn lleidr," ac yn awr anoga ef i waradwydd dyfnach byth y bradwr. Yn ofer yr oedd wedi gwrando ar holl addysg aruchel Crist, ac ar y bygythion dychrynllyd hyny oedd Ef wedi gyhoeddi yn erbyn y pechod bradwrus yma, fel pan y rhoddodd ef yn yr un dosbarth a'r "holl ddrwg bethau sydd yn dyfod oddi mewn, ac yn halogi dyn," a phan "y dywedodd wrthynt, Edrychwch, ac ymogelwch rhag cybydd-dod, canys nid yw bywyd neb yn sefyll ar amlder y pethau sydd ganddo."

Yr oedd y pechod iselwael hwn wedi cadwyno enaid Judas dros yr holl dymhor y proffesai fod yn ddisgybl, a gwnaeth eiriau a gweithredoedd yr Arglwydd yn ofer. Profodd yn gryfach nag un o'r cythreuliaid hyny oeddynt wedi gormesu ar bersonau dynion, ac oeddynt wedi eu bwrw allan gan allu Crist. Tra yr oedd y gweddill o'r disgyblion wedi bod yn derbyn athrawiaethau Crist i'w calonau, ac yn darparu at y swydd uchel a thra anrhydeddus hono â'r hon yr oeddynt yn fuan i ymgymmeryd, ei

fyfyrdod dyddiol ef oedd pa fodd y gallai ysbeiliota o'r drysorfa gyffredin hono wnaed i fyny i ddiwallu anghenion yr Arglwydd a'r disgyblion; nid oedd erioed wedi rhoi ei enaid cul i Grist gael iddo ei eangu; ei galon lygredig i Grist gael iddo ei phuro; ond, yr oedd gyda rhagrith trwyadl wedi celu y pechod yma fel ag i enill ymddiried pawb oddieithr ei Athraw, yr hwn a wyddai bob peth oedd mewn dyn.

A phaham, fe ofynwyd, y goddefodd yr Un hollwybodol hwnw i Judas aros yn mysg Ei ddisgyblion? Digon yw efallai ateb ei fod o bwys i holl fywyd y Gwaredwr fod yn ddarostyngedig i'r ymchwiliad manylaf. Nid oedd yn ddigon iddo dderbyn tystiolaeth Ei gyfeillion, byddai yn dda i'w elyn penaf a bradychwr gael ei dderbyn i'r gyfeillach agosaf âg Ef yn Ei oriau o ymneillduad, a dyweyd a welodd neu a glywodd rywbeth croes i'w hawliau uchel. Felly yr ydym o'r diwedd yn clywed oddiwrth y dyn drygionus yma y cyfaddefiad, "Pechais, gan fradychu gwaed gwirion."

Bron ar yr amser y ffurfiodd Judas ei fwriad i fradychu yr Arglwydd, aeth yr archoffeiriaid, yr ysgrifenyddion, a henuriaid y bobl, i gyngrair ddrygionus i ddal yr Iesu a'i osod i farwolaeth. Heblaw eu gelyniaeth chwerw at y gwirioneddau nefol a ddysgai, y moesau pur a gymhellai, a'r esiampl sanctaidd a osododd, teimlent nid ychydig o ddychryn ar gyfrif Ei ragfynegiadau am ddinystr eu dinas a'u cenedl. Nis gallasai neb draethu y fath ragfynegiadau a diangc rhag eu dialedd, a phan y cyhoeddodd Crist y gwaeau dychrynllyd hyn gwyddai y canlyniadau a ddylynent, ac yr oedd yn barod i'w cyfarfod.

Ymgyfarfyddai y Sanhedrim yn gyffredin mewn neuadd fawr yn y Deml, ond ar yr achlysur yma cyfarfyddodd y llu o gydfradwyr yn nhŷ Caiaphas yr archoffeiriad, fel na byddai i'w bwriad drgionus fyned ar led. Yma drachefn ymyra traddodiad, a chyfeiria at fryn ar y tu dehau i Jerusalem elwir Bryn y Drwg Gyngor, lle y dywedir fod gan Caiaphas faenordy, yn mha un y cynlluniwyd y fradwriaeth hyn. Safai un anhawsder mawr yn eu ffordd o herwydd y cynnulliad mawr oedd Gwyl y Pasc gyfagos wedi ddwyn i'r brifddinas, a chan ba rai y delid y Gwaredwr yn y parch uwchaf. Yr oeddynt gan hyny yn rhwym i ochelyd Ei ddal ar yr ŵyl, "rhag bod cynnwrf yn mysg y bobl."

Yn eu petrusder, deua y bradwr i'w cymhorth. Gallwn ddychymygu eu syndod a'u dychryn pan y cyrhaeddodd disgybl i Iesu dŷ y drwg gyngor, neu pan y rhuthrodd yn ddisymmwth i ganol y cynnulliad. Ac onid allwn hefyd ddychymygu eu dirmyg o'r dyn tra y defnyddient ef yn llawen fel offeryn eu bwriad llofruddiog? Yr oedd ei galon wedi gwneyd ei hun yn barod at wneyd gwaith Satan, a rhoddodd ffordd yn rhwydd i'r diafol, gwaith yr hwn yr oedd yn awr yn barod i'w wneyd. Croesaw yn wir sydd i'r dyfod-ddyn newydd yma, dymuniad iselwael yr hwn am wobr a gyfarfyddwyd yn union. Ei amcan oedd elw, ac y mae ar unwaith yn cael ei addaw. Y pris yr oedd yn foddlawn i wneyd ei waith bradwrus oedd pris cyffredin caethwas, "pris teg a'r hwn y'm prisiwyd ganddynt," ac am y wobr yma ymrwymodd i'w werthu Ef gan yr hwn yr oedd "yr anchwiliadwy olud," ac i dywallt allan "werthfawr waed Crist." Ac yn awr yn rhwym law a throed, yn cael ei reoli gan Satan, i'r hwn y mae wedi dyfod yn gaethwas, wedi rhoi ei hun yn llaw y Sanhedrim wna ei gadw at yr ymrwymiad dychrynllyd hwn, â mab y golledigaeth yma allan i gyflawni y trosedd bryntaf gofnodir mewn hanesiaeth ddynol, canys "o hynny allan y ceisiodd efe amser cyfaddas i'w fradychu ef."

Mae yn ofnadwy i feddwl am fradwriaeth y disgybl, ac i'w weled wrth ben y dosbarth hyny y darlunir eu dinystr yn y fath iaith arswydus gan y Psalmydd: "Tywallt dy ddig arnynt, a chyrhaedded llidiowgrwydd dy ddigofaint hwynt. Bydded eu preswylfod yn anghyfannedd, ac na fydded a drigo yn eu pebyll. Canys erlidiasant yr hwn a darawsit ti; ac am ofid y rhai a archollaist ti y chwedleuant." Mwy ofnadwy fyth yw iaith yr hwn fu yn aberth i'r trosedd dychrynllyd yma: "Mab y dyn yn ddïau sydd yn myned, fel y mae yn ysgrifenedig am dano; eithr gwae y dyn hwnnw trwy yr hwn y bradychir Mab y dyn; da fuasai i'r dyn hwnnw pe nas ganesid ef." Bydded ein gofal a'n gweddi na byddo i ni ail wneuthur pechod y bradwr, trwy broffesu bod yn ddisgyblion i'r Arglwydd Iesu, a choleddu y teimladau hyny a'r ymddygiad hwnw trwy ba rai y clwyfir y Gwaredwr yn nhŷ Ei garedigion.

(Darllener Matthew xxiii.—xxv.; xxvi. 1—5, 14—16.)

## PENNOD IX.

### Y PASC.—SWPER YR ARGLWYDD.—YR ING.

"Y MAE diben i'r pethau am danaf fi." Dyna oedd y geiriau cynhwysfawr ddywedodd y Gwaredwr wrth Ei ddisgyblion y prydnawn cyn Ei groeshoeliad. Ar yr awr hono yr oedd y "diben" yn bur agos, ac ychydig gamrau yn "yr hanes rhyfedd digwyddfawr hwnw," i'r hwn nis gallwn gael dim yn debyg, ni a gawn glywed y Ceidwad yn llefain, "Gorphenwyd." Bydded i ni, yna, sylwi ar y llwybr gerddwyd gan ein Harglwydd ar ol i lywodraethwyr yr Iuddewon benderfynu ar Ei farwolaeth.

Yn gyntaf yr ydym yn cael y paratoad i gadw y Pasc. Yma drachefn dengys y Gwaredwr gydnabyddiaeth âg amgylchiadau gymmerent le, y fath nad allasai feddu fel dyn yn unig heb gyd-ddichell. Gwyddai er Ei fod yn Bethania, pan yr âi dau o'i ddisgyblion i mewn i Jerusalem y cyfarfyddai dyn â hwynt yn dwyn ystenaid o ddwfr, ac os dilynent, yr arweiniai hwynt i'r lletty, yr "oruwch-ystafell fawr wedi ei thanu," lle yr oeddynt i baratoi y Pasc. "A phan ddaeth yr awr, efe a eisteddodd i lawr, a'r deuddeg apostol gyd ag ef. Ac efe a ddywedodd wrthynt, Mi a chwennychais yn fawr fwytta'r pasg hwn gyd â chwi cyn dïoddef o honof; canys yr ydwyf yn dywedyd i chwi, Ni fwyttâf fi mwyach o hono, hyd oni chyflawner yn nheyrnas Dduw. Ac wedi iddo gymmeryd y cwppan, a rhoddi diolch, efe a ddywedodd, Cymmerwch hwn, a rhennwch yn eich plith; canys yr ydwyf yn dywedyd i chwi, nad yfaf o ffrwyth y winwŷdden, hyd oni ddêl teyrnas Dduw."

Rhyfedd yn wir yn y rhagolwg agos ar farwolaeth eu Hathraw fod ymryson yn mhlith y disgyblion hyn pwy a dybygid ei fod yn fwyaf, ond y fath ddull tarawiadol ac effeithiol a ddefnyddiodd eu Harglwydd i derfynu yr ymryson anweddus yma! "Efe a gyfododd oddi ar swpper, ac a roes heibio ei gochl-wisg, ac a gymmerodd dywel, ac a ymwregysodd. Wedi hynny efe a dywalltodd ddwfr i'r cawg, ac a ddechreuodd olchi traed y disgyblion a'u sychu â'r tywel â'r hwn yr oedd efe wedi ei wregysu." Y fath watwariad difrifol ar y weithred yma o wir ostyngeiddrwydd a welir pan y cymmer pabau a brenhinoedd, cardinaliaid a thywysogion, ar Iau

Dyrchafael, yn cael eu cylchynu gan wychderau rhwysgfawr eu heglwys, arnynt efelychu gostyngeiddrwydd Iesu, trwy olchi traed deuddeg o gardotwyr eisteddant yn ymyl yr allor uchel, i osod allan ddisgyblion Crist! Nid ydym i efelychu y weithred yma fel seremoni grefyddol, ond i feithrin yn mysg ein hunain yr ysbryd gostyngedig a hynaws gan ba un ei cymhellwyd, nid trwy ddefod flynyddol, ond yn ngofalon caredig bywyd dyddiol. Bydded i bob un o honom wrando ar eiriau ein Harglwydd wrth Pedr, "Oni olchaf di, nid oes i ti gyfran gyd â myfi."

Danghosodd y Gwaredwr eto Ei drygolwg perffaith i'r digwyddiadau oeddynt yn myned yn mlaen, heb eu bod yn cael eu dwyn o dan Ei sylw yn ol y drefn gyffredin. Gwyddai y gwnai un o'r disgyblion Ei fradychu, ac ar gais Pedr ac Ioan nododd allan y bradwr trwy roddi gwlych damaid iddo o'r ddysgl ar fwrdd y Pasc, pan yr aeth Satan drachefn iddo, a phan y gorchymynodd yr Arglwydd iddo fyned yn mlaen gyda brys ar ei waith —gorchymyn a ddeallid gan y bradwr yn unig.

Mor gynted y gadawodd Judas, rhagfynegodd y Gwaredwr gwymp Pedr, yr hwn mewn anwybodaeth o fradwriaeth ei galon ei hun, oedd wedi honi ei sel mawr dros Grist, a'i benderfyniad i brofi yn ffyddlawn er i bawb Ei wadu. Rhydd ei achos rybudd uchel i ni oll, a dysg ni i beidio ymddibynu arnom ein hunain, ond i "ymnerthu yn y gras sydd yng Nghrist Iesu."

"Fel Pedr na foed i ni,
Yn nerth ein hun i dd'weyd,
Fy Arglwydd byth ni wadaf fi;
Ond cymhorth fi rhag gwneyd.

"Ymofyn cymhorth Duw,
Doethineb yw i ddyn;
Ac hyd'n oed angel egwan yw,
Tra'n pwyso arno 'i hun."

Ar ol y pethau hyn, bron ar derfyn Swper y Pasc, "fel yr oeddynt yn bwytta, yr Iesu a gymmerodd fara, ac a'i bendithiodd, ac a'i torrodd, ac a'i rhoddes iddynt; ac a ddywedodd, Cymmerwch, bwyttewch; hwn yw fy nghorph. Ac wedi iddo gymmeryd y cwppan, a rhoi dïolch, efe a'i rhoddes iddynt; a hwynt oll a yfasant o hono. Ac efe a ddywedodd wrthynt, Hwn yw fy ngwaed i o'r testament newydd, yr hwn a dywelltir

dros lawer. Yn wir yr wyf yn dywedyd wrthych, nad yfaf mwy o ffrwyth y winwŷdden, hyd y dydd hwnnw pan yfwyf ef yn newydd yn nheyrnas Dduw." Yn y modd yma y sefydlodd yr Arglwydd y swper sanctaidd sydd wedi ei gadw gan Ei eglwys am dros ddeunaw cant o flynyddoedd, a'r hwn sydd eto i ddangos marwolaeth yr Arglwydd hyd oni ddelo. Yn y modd mwyaf dychrynllyd y mae wedi ei wyrdroi oddiwrth ei amcan gwreiddiol pur a syml. O fod yn goffhâd diolchgar am y corff a dorwyd drosom, ac yn arddanghosiad o'r undeb hwnw sydd yn bodoli rhwng holl wir ganlynwyr Crist, mae wedi ei draws-sylweddu i wrthddrych o barch ofergoelus, ac wedi ei wneyd yn achlysur o ferthyrdod i wir saint Duw.

"Bara y byd, o ras a dorwyd!
Gwin enaid llesg, o ras yn lli'!
Gan'r hwn y traethwyd geiriau'r bywyd,
A'i angeu ladd ein pechod ni.

"Gwel galon drist gan ing a ddrylliwyd,
Gwel ddagrau edifeiriol gri;
Ac arwydd boed dy wledd trwy'n bywyd,
Mai'th ras yw maeth ein henaid ni."

Ar ddiwedd y swper yma, dywedodd ein Harglwydd lawer o eiriau o ddiddanwch wrth y disgyblion, yn y rhagolwg buan ar Ei farwolaeth. Yr oedd ar ymadael, ond âi i baratoi lle iddynt, a dychwelai i'w derbyn ato Ei hun, gael iddynt fod gydag Ef am byth yn nhrigfanau o orphwysfa dragywyddol Ei Dad. Esgynai eu gweddiau i'r nefoedd yn dderbyniol yn Ei enw, a byddai i'r Ysbryd Glân, y Diddanydd, aros gyda hwynt yn dragywydd. Yn nesaf rhagfynegodd am y frwydr fawr hono y byddai raid iddynt ei hymladd â'r byd yn Ei enw, ac er sefydlu Ei deyrnas, gan ddiweddu gyda'r addewid o oruchafiaeth: "Yn y byd gorthrymder a gewch; eithr cymmerwch gysur; myfi a orchfygais y byd."

Yna canlyna Ei weddi daer dros y disgyblion, a phawb a gredai trwy eu hymadrodd, ar iddynt fod yn sanctaidd trwy gredu y gwirionedd, ac ar i'w cariad at eu gilydd brofi i'r byd Ei genadwri Ddwyfol. Mae y weddi ddiweddaf yma i Grist gyda Ei ddisgyblion, tra y mae yn amlygu Ei gariad atynt, yn dangos i ni beth yw y bendithion y dylent eu ceisio

daeraf iddynt eu hunain. Bydded i ni ddysgu oddiwrth y weddi yma i erfyn yn daer ar i ni gael ein cadw rhag y drwg sydd yn y byd, ar i ni gael ein sancteiddio trwy air y gwirionedd, ac ar i ni gadw undeb sanctaidd ac anwahanedig â Christ, bod yn un âg Ef fel y mae Ef yn un â'r Tad. Y fath gefnogaeth sydd gennym i ddisgwyl am ogoniant tragywyddol, pan y clywwn ein Harglwydd, yn y rhagolwg ar Ei farwolaeth aberthiadol, yn gweddio fel hyn, "Y Tad, y rhai a roddaist i mi, yr wyf yn ewyllysio, lle yr wyf fi, fod o honynt hwythau gyd â myfi; fel y gwelont fy ngogoniant a roddaist i mi; oblegid ti a'm ceraist cyn seiliad y byd." "Ac wedi iddynt ganu hymn, hwy a aethant allan i Fynydd yr Olewŷdd." "Yna y daeth yr Iesu gydâ hwynt i fan a elwid Gethsemane, ac a ddywedodd wrth ei ddisgyblion, Eisteddwch yma, tra'r elwyf a gweddïo accw."

Yr ydym wedi darlunio o'r blaen olygfa ing y Ceidwad. Fel pan Ei gwedddnewidiwyd, cymmerodd gydag Ef Pedr, ac Iago, ac Ioan, ar iddynt weled Ei ddioddefiadau fel yr oeddynt wedi gweled Ei ogoniant. "Ac efe a aeth ychydig ym mlaen, ac a syrthiodd ar y ddaear, ac a weddïodd, o bai bosibl, ar fyned yr awr honno oddiwrtho. Ac efe a ddywedodd, Abba, Dad, pob peth sydd bosibl i ti; tro heibio y cwppan hwn oddiwrthyf; eithr nid y peth yr ydwyf fi yn ei ewyllysio, ond y peth yr ydwyt ti." Yr oedd yn awr yn hwyr y nos, ac yr oedd y disgyblion, lludded y rhai a fwyheid trwy eu tristwch, yn cysgu, tra yr oedd eu Hathraw yn gweddio os oedd bosibl i'r cwpan fyned heibio iddo. Drachefn gweddiodd, a gruddfanodd, ac er i angel gael ei anfon o'r nef i'w nerthu Ef, yr oedd Ei "chwŷs ef fel defnynau gwaed." Ni wyddom ni ddim beth oedd y defnyddiau chwerw cymhysgedig yn y gwpan hono o ddïoddefaint, y cyfyngder meddwl, y frwydr a galluoedd y tywyllwch, cuddiad y gwyneb Dwyfol, a phwysau trymfawr y pechodau hyny am ba rai yr oedd ar farw. Yr ydym yn clywed y llefain ddeua allan o'i galon, ac yn gweled y gwaed yn llifo allan o bob chwysdwll yn Ei gorff, effaith na chynhyrchir oddieithr pan y mae yr holl natur yn cael ei dirboeni gan flinder gorlethol, gan ba un y gwesgir y llif bywydol allan o'i redfeydd naturiol, ac ei gyrir i'r arwynebedd yn "ddefnynau gwaed."

(Darllener Matthew xxvi. 17—46. Luc xxii. 7—46. Ioan xiv. 1—31; xvii.)

# PENNOD X.

## Y PRAWF A'R CROESHOELIAD.

O'R braidd yr oedd ing Gethsemane wedi myned heibio, pan y rhuthrodd ef yr hwn a "adwaenai y lle" i mewn, gyda "thyrfa fawr, â chleddyfau a ffyn, oddiwrth yr archoffeiriaid, a'r ysgrifenyddion, a'r henuriaid." I gwblhau y pechod o fradwriaeth, nododd Judas allan wrthddrych ei frad trwy ddynesu at yr Athraw a'i gusanu Ef, gweithred waradwyddus a dynodd gerydd allan oddiwrth y Gwaredwr, "Judas ai â chusan yr wyt ti yn bradychu Mab y dyn?" tra y cynhygiodd y disgyblion daro y bradwr â chleddyf, a thorodd Pedr ymaith glust Malchus.

Yna arweiniwyd y Gwaredwr ymaith yn gyntaf at Annas, ac yna at Caiaphas, a gosodwyd Ef ger bron y Sanhedrim, lle yr aeth trwy ffug brawf. Yn ofer y gwysid tystion i brofi unrhyw drosedd yn erbyn Cyfraith Moses. Cyflogwyd gau dystion, ond yr oedd eu tystiolaethau yn croesddyweyd. Cyhuddai dau o honynt Ef, gan wyrdroi Ei eiriau, o honi y gwnai ddinystrio y Deml a'i hadeiladu drachefn mewn tridiau. I roddi gwell sail i'w gollfarniad, tynghedodd Caiaphas yr Iesu i ddyweyd os Efe oedd y Crist, mab y Bendigedig, "a'r Iesu a ddywedodd, Myfi yw." Yr oedd y cyfaddefiad yma, modd bynag, yn ddigon gan elynion y Gwaredwr, ac yn esgus digonol i'w gondemnio i farwolaeth am gabledd. "Yna y poerasant yn ei wyneb, ac a'i cernodiasant; eraill a'i tarawasant ef a gwïail, gan ddywedyd, Prophwyda i ni, O Grist, Pwy yw'r hwn a'th darawodd?"

Tra yr oedd y gwatwar yma yn myned yn mlaen o fewn y neuadd, yr oedd golygfa mwy torcalonus byth yn cymmeryd lle yn y neuadd agored oddiallan. Cynhelid y Pasc yn mis Nisan, tymhor yn y flwyddyn Iuddewig yn ateb i'n Mawrth a'n Hebrill ni, pan y dechreuai y gwlaw diweddar ddisgyn, a phan oedd y tywydd yn gyffredin yn oer. Yr oedd tân wedi ei gynheu yn y neuadd agored, "o herwydd ei bod yn oer," ac yno y safodd Pedr ar y cyntaf, ac yna eisteddodd i lawr yn mysg y gweision a'r swyddogion i ymdwymno. Pan y cyhuddwyd ef o fod yn ddisgybl i Iesu, yn lle hawlio ar unwaith yr anrhydedd hono, a dïoddef

y canlyniadau, dywedodd, "Nac wyf." Ailgyhuddwyd ef, a gwadodd drachefn, a phan "y rhai oedd yn sefyll gerllaw a ddywedasant wrth Pedr drachefn, Yn wir yr wyt ti yn un o honynt; canys Galilead wyt, a'th leferydd sydd debyg, efe a ddechreuodd regu a thyngu, Nid adwaen i y dyn yma yr ydych chwi yn dywedyd am dano. A'r ceiliog a ganodd yr ail waith. A Phedr a gofiodd y gair a ddywedasai'r Iesu wrtho, Cyn canu o'r ceiliog ddwywaith, ti a'm gwedi deirgwaith." Dylynwyd y pechod aethus yma i Pedr gan ei edifeirwch uniongyrchol a chywir, ac efe a wylodd yn chwerw dost. Mae y traddodiad ei fod pa bryd bynag ar ol hyn y clywai y ceiliog yn canu, yn wylo, ac fod blynyddoedd meithion o wylo wedi treulio rhychau yn ei ruddiau, er yn anghanonaidd, eto yn awgrymu gwers iachus.

O'r Sanhedrin anfonwyd Iesu at "y rhaglaw," Pontius Pilat, y Rhaglaw Rhufeinig, oblegid yr oedd y Rhufeiniaid yn awr wedi cymmeryd yr awdurdod i gadw yn fyw a gosod i farwolaeth yn Judea. Yn mhresennoldeb y cynrychiolydd yma o'r gallu hwnw oedd yn awr yn llenwi y byd, honodd Iesu Ei uwchafiaeth Ei hun ar frenhiniaeth nad yw o'r byd hwn, brenhiniaeth gwirionedd a chyfiawnder, a pharodd distawrwydd Iesu, yr hwn "nid agorai ei enau," i'r rhaglaw i ryfeddu yn fawr.

I ysgoi y cyfrifoldeb dychrynllyd o gondemnio person diniweid i gael ei groeshoelio, daliodd Pilat afael yn awyddgar ar y dywediad Ei fod yn perthyn i Galilea ac anfonodd Ef at Herod, i raglawiaeth yr hwn y perthynai y wlad hono. Yma, am Ei fod yn ddistaw, ac na wnai foddloni cywreinrwydd y brenhinyn, neu wneyd gwyrth i'w foddio ef, "Herod a'i filwyr, wedi iddo ei ddïystyru ef, a'i watwar, a'i wisgo â gwisg glaerwen, a'i danfonodd ef drachefn at Pilat."

Pan y dychwelodd Iesu oddiwrth Herod, yr hwn na chafodd un rheswm i'w gondemnio, ceisiodd Pilat drachefn Ei ollwng Ef yn rhydd, a chyfnerthwyd ef yn ei ddymuniad gan freuddwyd ryfedd ei wraig, yr hon "a anfonodd atto, gan ddywedyd, Na fydded i ti a wnelych â'r cyfiawn hwnnw; canys goddefais lawer heddyw mewn breuddwyd o'i achos ef." Ceisiodd weithredu y rhagorfraint o drugaredd, a gollwng carcharor yn rhydd ar yr ŵyl, ond fe'i gorthrechwyd gan geisiadau angherddol yr archoffeiriaid a'r penaethiaid, gynhorthwyid gan grochlefau y dyrfa, pa

rai oll a ddewisent o flaen y Sanctaidd a'r Cyfiawn, "Barabbas, yr hwn am derfysg a llofruddiaeth a fwriasid yngharchar." Yna, "pan welodd nad oedd dim yn tycio, ond yn hytrach bod cynnwrf, efe a gymmerth ddwfr, ac a olchodd ei ddwylaw ger bron y bobl, gan ddywedyd, Dïeuog ydwyf fi oddiwrth waed y cyfiawn hwn; edrychwch chwi." Mae yn ddychrynllyd yn wir i glywed eu hatebiad, ac i sylwi ar y modd y mae eu deisyfiad wedi ei ateb. "A'r holl bobl a attebodd ac a ddywedodd, Bydded ei waed ef arnom ni, ac ar ein plant."

Ac yn awr gwneir y paratoadau creulon erbyn y croeshoeliad. "A Philat yn chwennych boddloni'r bobl, a ollyngodd yn rhydd iddynt Barabbas, a'r Iesu, wedi iddo ei fflangellu, a draddododd efe i'w groeshoelio. A'r milwyr a'i dygasant ef i fewn y llys, a elwir Pretorium; a hwy a alwasant ynghŷd yr holl fyddin. Ac a'i gwisgasant ef â phorphor, ac a blethasant goron o ddrain, ac a'i dodasant am ei ben, ac a ddechreuasant gyfarch iddo, Henffych well, Brenhin yr Iuddewon! A hwy a gurasant ei ben ef â chorsen, ac a boerasant arno, a chan ddodi eu gliniau i lawr, a'i haddolasant." Ar ol y dirmygiadau hyn, gwna Pilat un ymdrech eto i ryddhau y carcharor diniweid, ond goruwchreolir ef yn hollol gan ormes y penaethiaid Iuddewig a'r bobl, ac ychydig cyn i'r orymdaith fyned ymaith i Galfaria, aeth Judas i mewn i'r Deml, i arddangos ei hun i'r archoffeiriaid a'r llywodraethwyr fel dïoddefydd trist oddiwrth effeithiau ei drosedd, ar ei ffordd i le y golledigaeth i ba un yr oedd ar ymdaflu yn bendramwnwgl. "Yna pan welodd Judas, yr hwn a'i bradychodd ef, ddarfod ei gondemnio ef, bu edifar ganddo, ac a ddug drachefn y deg ar hugain arian i'r archoffeiriaid a'r henuriaid, gan ddywedyd, Pechais, gan fradychu gwaed gwirion. Hwythau a ddywedasant, Pa beth yw hynny i ni? edrych di." Ni chafodd un lles oddiwrth bris y gwaed, pa un a gynhygiodd ddychwelyd, yn y gobaith ofer efallai y gallai trwy y moddion hyn, a thrwy ei dystiolaeth am berffaith ddiniweidrwydd Crist, eto atal gweinyddiad y ddedfryd. Cafodd yr arian hyny a daflodd ar lawr y deml eu defnyddio i brynu maes i estroniaid, a chadarnhâ darganfyddiad diweddar yn Jerusalem yn y modd mwyaf hynod y rhan yma o'r hanes.


Gwelwch Iesu yn dwyn rhan drom o'i groes ac yn suddo o dan ei phwysau, gyda dau o ddrwgweithredwyr; canys Efe "a gyfrifwyd gydâ

throseddwyr," nes y cyrhaedda i Galfaria, am yr hwn le nid ydym yn siarad yn iawn pan y galwn ef y bryn neu y mynydd. "Ac yr oedd yn ei ganlyn ef lïaws mawr o bobl, ac o wragedd; y rhai hefyd oedd yn cwynfan, ac yn galaru o'i blegid ef," ond ceisiodd droi ffrwd cydymdeimlad oddiwrtho Ei hun, trwy ragfynegu y dïoddefiadau mawrion a ddeuent yn fuan ar y genedl euog. Yr oedd yn arferiad i roddi i ddrwgweithredwr ddracht cryf a syfrdanol, ond gwrthododd Iesu yfed o hwn, ac yn awr ar y drydedd awr o'r dydd—am naw yn y boreu—mae Ei ddwylaw a'i draed wedi eu hoelio wrth y groes, a chodir hi i fyny gael iddo ddïoddef ei holl arteithiau.

Yn ystod y chwe awr hyny o ing meddwl, derbyniodd yr holl ragfynegiadau mewn perthynas i'r amgylchiad pwysig yma eu cyflawniad. Amlygodd Ei ras a'i drugaredd a holl berffeithderau Ei hanfod, tra yr oedd natur wedi ei dirgrynu wrth yr olygfa, a rhoddwyd pob prawf dichonadwy o fawredd Dwyfol y dïoddefydd.

Tra buddiol yw sefyll gyferbyn a'r groes, nid o "hirbell," ond yn ngolwg y Gwaredwr dïoddefus, gael i ni edrych yn ddifrifol arno Ef a wanasom, a gweled fel y cymmerth ein gwendid ac y dug ein doluriau. Tra y mae yn dïoddef arteithiau y croeshoeliad, cableddau y dyrfa, gwawd yr archoffeiriaid, ysgrifenyddion, a henuriaid, a dirmygion sarhaus y milwyr Rhufeinig, mae Ei glust eto yn agored i lefain yr edifeiriol, ac y mae Ei galon yn gorlifo o drugaredd. Ar groes yn agos iddo y mae drwgweithredwr yn marw am ei droseddau, a'r hwn tra yn cyfaddef ei fod yn dïoddef "yn gyfiawn," sydd yn gallu canfod na wnaeth Iesu "ddim allan o'i le." Trugaredd anfeidrol iddo ef ei fod yn marw yn ymyl y groes ar yr hon yr oedd Crist yn dïoddef, ac iddo gael golwg eglur nid yn unig ar ddiniweidrwydd y Gwaredwr, ond hefyd ar Ei fawredd a'i allu i achub. Gan hyny efe a weddiodd "Arglwydd, cofia fi pan ddelych i'th deyrnas. A'r Iesu a ddywedodd wrtho, Yn wir meddaf i ti, Heddyw y byddi gyd â mi ym mharadwys." Na fydded i ni beidio sylwi ar Ei gariad a gofal mabaidd ar yr adeg yma o ing, pan y cyflwynodd Ei fam alarus i ofal yr anwyl Ioan, yr hwn o'r awr hono a'i cymmerodd hi i'w gartref ei hun.

(Darllener Esaiah liii. Matthew xxvi. 47—75; xxvii. 1—38. Ioan xviii. 2—40; xix. 1—24.)




THE DESCENT FROM THE CROSS.

## PENNOD XI.

### ADGYFODIAD Y GWAREDWR.

Adroddir i ni i ddau anffyddiwr, wedi penderfynu cyfranu at resymau yn erbyn gwirionedd Cristionogaeth, gytuno i ysgrifenu yn erbyn adgyfodiad Crist, a dychweliad yr apostol Paul. Tra yn myfyrio yr hanesion hyn yn y Testament Newydd i'r diben o ddysgu yr hyn oedd ganddynt i'w ddadbrofi, argyhoeddwyd pob un o honynt o wirionedd yr adroddiadau, a phan ar yr amser penodedig y cyfarfuasant gyda eu traethodau, cyfaddefasant bob un y cyfnewidiad oedd wedi cymmeryd lle yn eu golygiadau, a dygodd un o honynt—Arglwydd Lyttleton—yn mlaen ei waith ar "Ddychweliad St. Paul," a'r llall—Gilbert West—ei glodfawr "Prawf y Tystion o Adgyfodiad ein Harglwydd."

Adgyfodiad Crist o'r bedd yw yr arbrofiiad o wirionedd Cristionogaeth, heb yr hwn byddai gwir ddiffyg yn aros yn nghadwyn ei phrawfion. Os Crist ni chyfodwyd, mae ein ffydd yn ofer, a'n gobeithion am waredigaeth yn dwyll; rhaid fod y rhagfynegiadau a wnaeth y Gwaredwr am dano Ei hun wedi troi yn gelwydd, ac anfonwyd Ei apostolion i'r byd i gyhoeddi efengyl nad oedd yn sylfaenedig ar wirionedd. Ond yn awr Crist a gyfodwyd, ac a wnaed yn flaenffrwyth y rhai a hunasant, a gall Ei genhadon gyhoeddi yn mhob man Iesu a'r adgyfodiad. Iesu, yr hwn a fu farw dros ein pechodau, a gyfododd i'n cyfiawnhau. Bu farw i gyflwyno aberth dros bechod, cyfododd gael iddo fel ein Harchoffeiriad fyned o fewn y llen, ac ymddangos ger bron y drugareddfa i daenellu y gwaed iawnol, a byw bob amser i eiriol dros bawb a ddeuant at Dduw trwyddo Ef.

Gyda yr hanes efengylaidd yn arweinydd i ni, mae gennym y ffeithiau cyssylltiedig â marwolaeth ac adgyfodiad yr Arglwydd wedi eu hadrodd mor eglur, fel ag i hawlio ein hyder mwyaf yn y gwirionedd, "yr Arglwydd a gyfododd yn wir," tra yr oedd y prawfion y fath ag i lawenychu calonau Ei ddisgyblion, a distewi holl wrthwynebiad gelynion.

Mae anffyddiaeth wael-guddedig ein dydd wedi gwadu gwirionedd marwolaeth y Gwaredwr, tra eto yn proffesu parch i hanesiaeth y Testa-

ment Newydd. Dywed yr hanesiaeth hono wrthym i Iesu roddi i fyny yr ysbryd, neu ollwng ymaith Ei ysbryd; i un o'r milwyr wanu Ei ochr, "ac yn y fan daeth allan waed a dwfr," yr hyn a brawf nid yn unig y ffaith o'i farwolaeth, ond yr achos trwy rwygiad blaenorol y galon; pan y deisyfodd Ioseph o Arimathea am gorff yr Iesu, i Pilat anfon canwriad i sicrhau os oedd wedi gwir farw, yr hwn a ddychwelodd ag adroddiad swyddogol o'r ffaith.

Gellir dwyn i fyny yr archoffeiriaid a'r henuriaid fel tystion ar y pwngc mawr yma. Yr oeddynt yn ofnus rhag iddo gyfodi y trydydd dydd, neu fel y dewisant ei osod allan, "rhag dyfod ei ddisgyblion o hŷd nos a'i ladratta ef," a dyweyd iddo adgyfodi, i atal rhag yr hyn hwy a osodasant wyliadwriaeth wrth y bedd, a seliasant y maen. A wnaent hwy ddim wrth wneyd yr holl baratoadau hyn, ofalu i sicrhau Ei fod wedi gwir farw? Yn wir dengys ymadrodd a ddefnyddiasant wrth gyfarch Pilat, eu bod yn berffaith foddhaol ar y pwynt yma. Cyfeiriasant at yr hyn a ddywedodd Iesu "ac efe etto yn fyw," yr hyn a ddengys eu crediniaeth fod marwolaeth y Gwaredwr wedi llwyr gymmeryd lle. .

Cadarnheir yr adgyfodiad gan y milwyr a ddefnyddiwyd gan yr Iuddewon i'w atal, canys oddiwrthynt hwy y daeth yr hanes rhyfedd am y ddaeargryn fawr, a'r angel yn disgyn o'r nef, "a'i wyneb-pryd oedd fel mellten, a'i wisg yn wen fel eira; a rhag ei ofn ef y crynodd y ceidwaid, ac a aethant megis yn feirw."

Yn nesaf yr ydym yn cael y gwragedd duwiol y rhai a aethant yn foreu iawn at y bedd i eneinio y corff, a chawsant y maen wedi ei dreiglo ymaith oddiar ei enau, a chorff eu Harglwydd fel y tybient wedi ei "ddwyn ymaith." O'r rhai hyn, Mair Magdalen oedd y gyntaf i'w weled Ef ar ol Ei adgyfodiad, ac yna y gweddill o'u cwmni, fel yr oeddynt ar eu ffordd i ddyweyd wrth Ei ddisgyblion beth oeddynt wedi ei weled a'i glywed; canys, "fel yr oeddynt yn myned i fynegi i'w ddisgyblion ef, wele, yr Iesu a gyfarfu â hwynt, gan ddywedyd, Henffych well! A hwy a ddaethant, ac a ymafaelasant yn ei draed ef, ac a'i haddolasant."

Mae gennym dystion ereill, tystiolaeth pa rai sydd "yn haeddu pob derbyniad," oddieithr ein bod i wrthod tystiolaeth yr angylion sanctaidd.



LEIGHTON, BROTHERS.

THE ENTOMBMENT.

Dau o'u nifer, y rhai a ymddangosasant mewn gwisgoedd disglaer, a ddywedasant wrth y canlynwyr trist yma i'r Arglwydd: "Na ddychrynwch; ceisio yr ydych yr Iesu o Nazareth, yr hwn a groeshoeliwyd; efe a gyfododd; nid yw efe yma; wele y man y dodasant ef. Eithr ewch ymaith, dywedwch i'w ddisgyblion ef, ac i Petr, ei fod ef yn myned o'ch blaen chwi i Galilea; yno y cewch ei weled ef, fel y dywedodd i chwi."

Yn nesaf yr ydym yn cael y disgyblion fel tystion, pa rai ydynt yn teilyngu ein crediniaeth, canys nid allent gael eu twyllo, ac nid oedd ganddynt un amcan neu fwriad i dwyllo ereill. Ar ddydd yr adgyfodiad, yr hwn oedd wedi dyfod, ac sydd eto yn ei gylchdro wythnosol yn cael ei gadw fel Dydd yr Arglwydd, fe'i gwelwyd Ef "gan Cephas." "Ac wele dau o honynt oedd yn myned y dydd hwnnw i dref a'i henw Emmaus, yr hon oedd ynghylch triugain ystâd oddiwrth Jerusalem. Ac yr oeddynt nwy yn ymddiddan a'u gilydd am yr holl bethau hyn a ddigwyddasant. A bu, fel yr oeddynt yn ymddiddan, ac yn ymofyn â'u gilydd, yr Iesu ei hun hefyd a nesâodd, ac a aeth gyd â hwynt. Eithr eu llygaid hwynt a attaliwyd, fel nas adwaenent ef." Ar eu dychweliad i Jerusalem, hwy "a gawsant yr un ar ddeg wedi ymgasglu ynghyd, a'r sawl oedd gyd â hwynt, yn dywedyd, Yr Arglwydd a gyfododd yn wir, ac a ymddangosodd i Simon. A hwythau a adroddasant y pethau a wnaethesid ar y ffordd, a pha fodd yr adnabuwyd ef ganddynt wrth dorriad y bara."

Yn nesaf ymddanghosodd yr Arglwydd i'r holl apostolion, y rhai, oddieithr Thomas, oeddynt wedi ymgynnull yn Jerusalem. Aeth i mewn yn ddisymmwth i'w cwmni, a danghosodd iddynt Ei ddwylaw a'i draed y rhai oeddynt yn ddiweddar wedi eu hoelio wrth y groes, a thrwy fwyta gyda hwynt, argyhoeddodd hwy Ei fod yn ymddangos ger eu bron yn y corff. Wythnos yn ddiweddarach, ac ar Ddydd yr Arglwydd, ymddanghosodd drachefn yn eu cyfarfod, a gorchfygodd anghrediniaeth Thomas.

Rhwng yr adeg yma a'i esgyniad, yr oedd yn guddiedig oddiwrth ddynion, yn disgwyl am esgyn i'r nef; ond ymddanghosodd i saith o'r apostolion ar Fôr Galilea, yna i'r unarddeg, ac i bum cant o frodyr ar fynydd yn Galilea, ac yna i'r unarddeg yn Jerusalem ychydig cyn Ei esgyniad.

(Darllener Matthew xxviii. Marc xvi. Luc xxiv. Ioan xx.; xxi. 1 Corinthiaid xv. 1—22.)

## PENNOD XII.

### YR ESGYNIAD.

Yr oedd y cyfwng rhwng adgyfodiad ac esgyniad ein Harglwydd yn amser o fuddugoliaeth iddo Ef, ac o lawer o lawenydd sanctaidd i'w ddisgyblion. Teilyngai Ei ddywediad cyntaf, "Henffych well!" neu yn llythyrenol, "Llawenhewch!" wrth Mair Magdalen, atebiad llawen Ei eglwys yn y dydd hwnw, a thrwy bob oes, ac i dragywyddoldeb. Ei lawenydd Ef oedd un y gorchfygwr, yr hwn oedd wedi ymladd â'r gelynion mwyaf dychrynllyd, ac wedi gorchfygu arnynt ar gyhoedd. Yr oedd wedi myned i frwydr â phechod, ac wedi gyru yn ol ei holl ymosodiadau; ymosodwyd arno yn ffyrnig a mynych gan Satan, holl demtasiynau yr hwn fel picellau tanllyd a ddiffoddwyd ar darian Ei ffydd; yr oedd wedi gorchfygu ar alluoedd unedig daear, bradwriaeth Judas, malais y Sanhedrim, gallu y rhaglaw Rhufeinig, cynddeiriogrwydd y dyrfa, ac yr oedd wedi gorchfygu Angeu y gelyn diweddaf, i dirogaeth ddu a phrudd yr hwn yr aeth i mewn ac a'i hanrheithiodd.

Fel hyn yr oedd y Gwaredwr wedi prynu iddo Ei hun deyrnas Gyfryngol, ac yr oedd ar esgyn i'w orsedd, a dwyn yn mlaen Ei ymerodraeth rasol, i ledaeniad pa un yr oedd amgylchiadau y byd hwn i gael eu gwneyd yn is-wasanaethgar. O hyn allan adwaenir Ef nid fel y "dirmygedig a diystyraf o'r gwŷr," ond fel "y bendigedig a'r unig Bennaeth, Brenhin y brenhinoedd, ac Arglwydd yr arglwyddi; yr hwn yn unig sydd ganddo anfarwoldeb, sydd yn trigo yn y goleuni ni ellir dyfod atto, yr hwn nis gwelodd un dyn, ac nis dichon ei weled; i'r hwn y byddo anrhydedd a gallu tragywyddol. Amen."

Cyn gadael y ddaear hon, yr hon oedd yn awr i ffurfio rhan o "deyrnas nefoedd," yr oedd ganddo gyfarwyddiadau pwysig i'w rhoddi i'w weision, y rhai oeddynt o hyn allan i fod yn gyhoeddwyr Ei wirionedd, ac yn offerynau gan ba rai yr oedd bendithion yr Efengylwyr i gael eu dwyn i'r holl genhedloedd. Yn ol Ei gyfarwyddiadau, yr "un disgybl ar ddeg a aethant i Galilea, i'r mynydd lle yr ordeiniasai yr Iesu iddynt." Yn ystod Ei ymgyfarfyddiad mynych â hwynt ar y mynydd yma, enw yr



LEIGHTON, BROTHERS.

THE ASCENSION.

hwn ni chofnodir, ond yr oedd yn debygol yn agos i Fôr Galilea, cyfranodd ddatguddiedigaethau helaeth am dano Ei hun, Ei waith mawr, natur Ei deyrnas, a gwir ystyr ysgrifeniadau Moses a'r Psalmydd mewn perthynas i'r digwyddiadau oeddynt newydd gymmeryd lle, a'r rhai oeddynt i ddyfod.

Fod gan y disgyblion gamsyniadau i'w symmud, sydd amlwg oddiwrth y nodiadau a draethasant yn fynych cyn ac ar ol Ei farwolaeth ac adgyfodiad, a rhaid fod y rhan yma o'u hanes wedi profi o'r gwerth uwchaf. Yn ystod yr ymweliadau hyn, Efe a "agorodd eu deall hwynt, fel y deallent yr ysgrythyrau, ac efe a ddywedodd wrthynt, Felly yr ysgrifenwyd ac felly yr oedd raid i Grist ddioddef, a chyfodi o feirw y trydydd dydd; a phregethu edifeirwch a maddeuant pechodau yn ei enw ef ym mhlith yr holl genhedloedd, gan ddechreu yn Jerusalem." Bywiogwyd eu galluoedd hwyrfrydig trwy y cymhorth rhyfeddol ac effeithiol hwnw a gyfranodd, canys Efe a roddodd iddynt yr Ysbryd Glân, tywalltiad tra helaeth o'r hwn a addawodd roddi ar ol Ei esgyniad.

Yna, wedi eu cymhwyso hwynt at eu gwaith mawr, rhoddodd iddynt "orchymynion" yn gystal a gallu. Yr oeddynt i fyned allan fel tystion dros Grist, gan ddywedyd y pethau a welsant, a phregethu Efengyl Ei deyrnas. Yn awr, tra eto yn Galilea, y "daeth ac a lefarodd wrthynt, gan ddywedyd, Rhoddwyd i mi bob awdurdod yn y nef ac ar y ddaear. Ewch gan hynny a dysgwch yr holl genhedloedd, gan eu bedyddio hwy yn enw y Tad, a'r Mab, a'r Yspryd Glân." "A'r arwyddion hyn a ganlynant y rhai a gredant; yn fy enw i y bwriant allan gythreuliaid; ac â thafodau newyddion y llefarant; seirph a godant ymaith; ac os yfant ddim marwol, ni wna iddynt ddim niwed; ar y cleifion y rhoddant eu dwylaw, a hwy a fyddant iach."

Cymmerodd cyfarfyddiad diweddaf ein Harglwydd gyda Ei ddisgyblion le yn Jerusalem, lle y gorchymynodd iddynt aros i ddisgwyl am dywalltiad yr Ysbryd Glân, "addewid y Tad." Fel yr oedd Ei weinidogaeth wedi Ei rhagflaenu gan y bedydd â dwfr, felly ei dylynwyd gan fedydd yr Ysbryd Glân, a hyny cyn myned heibio llawer o ddyddiau. Am bresennoldeb y Diddanydd hwnw yr oeddynt yn awr i ddisgwyl a gweddio, fel yr oedd y genedl wedi disgwyl o'r blaen am ddyfodiad y Messiah.

Pan oedd yr Arglwydd wedi siarad fel hyn wrth Ei ddisgyblion, "Efe

a'u dug hwynt allan hyd yn (neu yn hytrach tua) Bethania," nid i'r dreflan, ond i'w therfynau, pa rai oeddynt ar Fynydd yr Olewŷdd; canys "yr oedd Bethania yn Mynydd yr Olewŷdd." Nis gall dim fod yn fwy eglur na'r dystiolaeth yma gan Luc am y llanerch fu yn dyst o'r ymweliad ymadawol hwnw rhwng y Gwaredwr a'i ddisgyblion, ac eto ymyra traddodiad drachefn i wrthddyweyd yr hanesiaeth ysbrydoledig, trwy haeru i'r Gwaredwr gymmeryd Ei ymadawiad o ben y mynydd. Yma mae "Eglwys yr Esgyniad," ac yma, fel na byddo i'r ofergoelus fod yn fyr o brawfion, y mae ol troed i gofnodi y fan benodol lle y sangodd y Gwaredwr ddiweddaf ar y ddaear. Da y gallasai gweinidog Cristionogol difrifol, gan ddigio wrth y fath geisiadau mynachaidd i osod ar ei ffydd, ddyweyd iddo "ddyfod allan o Eglwys yr Esgyniad gyda theimladau o lwyr ffieiddiad." Ni ddyfeisiwyd hon hyd y bedwerydd ganrif, pan yr arferwyd sel anarferol i benderfynu "y lleoedd sanctaidd" honedig yn ngwasanaeth ofergoeliaeth, er yn groes i ffaith amlwg, a gofynion yr hanesion cyssegredig. Pe buasai yr esgyniad wedi cymmeryd lle o'r fan haerir fel hyn iddo, gallasai holl drigolion Jerusalem fod yn dystion o hono, am yr hyn ni roddir yr awgrymmiad lleiaf yn yr hanes ysbrydoledig.

Na, nid yno, ond yn agos i'r dref fechan Bethania, lle yr oedd Crist eisioes wedi dangos Ei awdurdod ar angeu trwy adgyfodi Lazarus o'r bedd, y gadawodd yn awr y byd hwn, yr hwn oedd wedi bod yn olygfa Ei ddioddefaint, gael iddo esgyn i'w orseddfa nefol. Mor llawn o gysur yw y mynegiad, "efe a'u dug hwynt allan hyd yn Bethania, ac a gododd ei ddwylaw ac a'u bendithiodd hwynt," a "thra yr oedd efe yn eu bendithio hwynt, ymadael o hono ef oddiwrthynt!" Y fath oedd y cysur gyfranwyd trwy y fendith hono, y fath oedd eu gorfoledd ar esgyniad eu Gwaredwr i'r nef, y fath oedd y cyfnerthiad ar eu gobeithion gan yr angylion gweinyddol, fel y gadawsant yr olygfa gyssegredig gyda'r llawenydd mwyaf, a dychwelasant i'r ddinas, ac arosasant yn y Deml i foli a bendithio Duw. Gwelodd Daniel y prophwyd, wrth edrych yn mlaen i ddyddiau y Messiah, y Gwaredwr pan "y derbyniodd cwmmwl ef allan o'u golwg hwynt." (Dan. vii. 13, 14.)

(Darllener Psalmau xxiv.; lxviii. Marc xvi. 19, 20. Luc xxiv. 50—53. Ioan xx. 30, 31. Actau i. 9—13.)

# LLYFR IX.

Dydd y Pentecost, a'i Wyrth.

Pregethu yr Efengyl yn Mhorth Solomon.

Ananias a Sapphira.

Gamaliel a'i Gynghor Doeth.

Stephan y Merthyr Cyntaf.

Yr Efengyl yn Samaria.—Simon Magus.

Yr Ethiopiad Dychweledig.

Dychweliad Saul.

Saul yn Damascus a Jerusalem.

Drws y Ffydd wedi ei agor i'r Cenhedloedd.

Paul yn Pregethu yn Athen.

Paul yn Amddiffyn yr Efengyl yn Jerusalem.

Paul y Carcharor yn Rhufain.

Y Saith Eglwys yn Asia Leiaf.

Diweddglo.

"Haul Cyfiawnder, 'n awr i ti,
Plyg cenhedloedd yn ddiri';
Meddyginiaeth d'esgyll mâd,
Ol ar eitha'r byd a âd.
Gwel y llon belydrau byw,
T'wnu b'ont ar Sïon Duw,
Oesau'r byd, heb ball am byth,
O Dduw cariad pur dilyth!"

COLLYER.

## PENNOD I.

### DYDD Y PENTECOST.

ARWYDDA y gair Pentecost y ddegfed a deugain, ac yn mysg yr Iuddewon fe'i defnyddid i osod allan ŵyl gyssegredig, yr hon a gadwent ddeg niwrnod a deugain ar ol y Pasc. Yn yr amserau boreuaf yn yr hanesiaeth Hebrëig gelwid hi yn Wyl yr Wythnosau, gan ei bod yn digwydd saith wythnos ar ol y Pasc. Sefydlwyd hi i goffhau rhoddiad y Ddeddf ar Sinai, ddeg diwrnod a deugain ar ol y noson fythgofiadwy hono pan yr aeth angel yr Arglwydd dros wlad yr Aipht, ac y gadawodd drigfanau yr Hebreaid heb eu cyffwrdd. Y fath ydoedd y dydd ar yr hwn y penderfynwyd i "addewid y Tad" gael ei chyflawni yn hanes yr eglwys Gristionogol. Yn mysg yr Iuddewon, coffhâi am roddiad y Ddeddf i'r genedl hono; yn mysg y Cristionogion, yr oedd i gael ei hynodi gan rodd fawr yr Ysbryd Glân, i ddysgu y disgyblion, ac i brofi o fendith i holl genhedloedd y byd.

O'r diwrnod ar yr hwn y cymmerwyd yr Arglwydd i fyny i'r nefoedd, hyd ddydd y Pentecost, ufuddhaodd yr apostolion a chyfeillion ffyddlawn Crist yn Jerusalem i'w orchymyn trwy aros yn nghyd yn y ddinas, mewn sefyllfa o gymmundeb sanctaidd a'u gilydd, ac o ddisgwyliad difrifol am y rhodd addawedig. Ymgynnullent yn gyson yn nhy un o'u nifer, ac yr oeddynt "yn parhâu yn gyttûn mewn gweddi ac ymbil, gyd â'r gwragedd, a Mair mam yr Iesu, a chyd â'i frodyr ef."

Mae yn ddyddorol i feddwl am y cwmni yma, ac i ystyried y gwaith sanctaidd yr oedd yn ymwneyd ag ef. Yr oedd Mair mam yr Iesu yn wrthddrych o ddyddordeb a gofal neillduol, fel y mae ei choffawdwriaeth wedi bod yn anwyl gan ganlynwyr Crist yn mhob oes. Gresyn i'r parch a'r cydymdeimlad hyny gael eu gwyrdroi yn Fairaddoliaeth, ac iddi hi, yr hon a fawrygodd yr Iesu fel ei Gwaredwr, gael ei dyrchafu yn ffydd yr ofergoelus i gydraddoldeb â Duw.

Mae yn debygol fod yr unarddeg a cheraint ein Harglwydd yn trigo o dan yr un gronglwyd, ac yn cyfarfod bob dydd gyda'r holl ddisgyblion

yn Jerusalem, y rhai oeddynt yn rhifo ugain a chant. Y rhwymyn a'u rhwymai hwynt oedd cariad at Grist, crediniaeth yn Ei addysg, a gobaith yn Ei addewid; ac o'u calonau ymgodai arogldarth o ddiolchgarwch at eu Harglwydd dyrchafedig, a gweddi am dywalltiad yr Ysbryd Glân. Fel hyn parhasant am ddeg niwrnod gyda hyder dïysgog na byddai iddynt obeithio yn ofer, na disgwyl yn hir hyd nes i'r fendith ddyfod.

Ar un o'r dyddiau hyn, deg niwrnod ar ol yr esgyniad, ac felly deugain ar ol adgyfodiad Crist, yr oedd yr ugain a chant wedi ymgynnull, ac fel arfer yn gweddio a disgwyl, pan "yn ddisymmwth y daeth swn o'r nef, megis gwynt nerthol yn rhuthro, ac a lanwodd yr holl dŷ lle yr oeddynt yn eistedd." Mae Duw yn wir yn awr yn dyfod atynt yn Ei nerth, nid i'w melldithio yn Ei ddigofaint, ond i'w bendithio yn Ei drugaredd. Nid yw y gwynt hwn fel yr un a ddaeth o'r anialwch ac a darawodd bedair congl y tŷ yn yr hwn yr oedd teulu Job wedi ymgynnull, ac a syrthiodd ar y llangciau ac a'u lladdodd hwynt; y mae o'r nef uwch ben, a llanwa ei ddylanwad hyfryd yr holl dŷ lle yr oedd y frawdoliaeth dduwiol wedi dod yn nghyd.

Tra yr oedd pawb wedi ofni wrth y swn yma, ac yn argyhoeddedig fod Duw yn wir yn bresennol, ac fod y Gwaredwr yn cyflawni Ei addewid rasol, yr oeddynt yn synu at yr ymddanghosiad rhyfeddol a welent. Yr oeddynt wedi clywed am ogoniant yr Arglwydd oedd wedi arwain eu tadau yn yr anialwch, ac oedd yn hofran uwch ben y drugareddfa yn y Deml gyntaf; yr oeddynt wedi ei weled yn y cwmwl a gylchynai y Gwaredwr fel yr esgynai i'r nef; ac yn awr, fel yr edrycha yr holl gynnulleidfa ar yr unarddeg, hwy a'i gwelant yn disgyn arnynt, a fflamau lleibiol, fel tafodau o dân yn disgleirio uwch eu penau. Mae Duw yn wir yn mysg Ei bobl, mae Shecinah wedi ei hadferu i'r eglwys, ac y mae wedi dwyn rhoddion a bendithion newyddion a digyffelyb.

Da y gall y gogoniant yma i'r Arglwydd ymddangos yn y ffurf o "dafodau gwahanedig, megis o dân," canys nid cynt y buwyd yn dyst o'r ymddanghosiad gwyrthiol yma, nag "y llanwyd â'r Yspryd Glân" y rhai hyny ar ba rai yr oedd wedi disgyn, "ac a ddechreuasant lefaru â thafodau eraill, megis y rhoddes yr Yspryd iddynt ymadrodd." Yma, yna, y mae arwyddlun o'r Ysbryd a'i ddoniau. Yr oedd ei nerth grasol

wedi ei gyfranu i'w calonau, y rhai a lanwyd â gwirionedd ac a ddirgymhellwyd gan gariad Dwyfol, ac yn awr deua i roddi iddynt y ddawn o ymadrodd, gan ddarparu yr eglwys ieuangc i ddysgu yr holl fyd.

Pan y peidiodd yr holl ddaear a bod o un iaith, yr oedd i wahanu dynion i wahanol genhedloedd, ac atal ymerodraeth gyffredinol o ormes y cryf ar y gwan; yn awr y mae y ddawn o dafodau i ad-uno dynion mewn un teulu dedwydd yn Nghrist Iesu. Mae yn rhwydd cymmeryd arnom lefaru mewn "tafodau dïeithr," a hawlio galluoedd gwyrthiol i'r eglwys yn mha un eu traethir, ac yr ydym wedi gwrando ar haeriadau o'r honiadau gwag hyn yn ein dydd ni. Yn yr hanes yma am yr apostolion, rhoddid y doniau newyddion yn union i brawf a gwybyddid eu gwerth.

"Yr oedd yn trigo yn Jerusalem Iuddewon, gwŷr bucheddol o bob cenedl dan y nef." Yr oedd y gwŷr hyn yn barod i farnu honiadau yr apostolion i allu llefaru mewn tafodau dïeithr, i ba rai yr haerid "y rhoddes yr Yspryd iddynt ymadrodd." Yn wahanol i honwyr ein hamserau ni, nid oedd raid i'r gwŷr ysbrydoledig hyn ddisgwyl am flynyddoedd anmhenodol hyd nes y byddai i bobl wneyd allan gan bwy y byddai i'r iaith honedig gael ei deall. Clywai dynion o'r gwledydd Dwyreiniol pell, dïeithriaid o Rufain a'r gwledydd cydrhyngddynt, yn eu mysg y rhanau gogleddol o Africa, yn eu gwahanol ieithoedd fawrion weithredoedd Duw oedd gan y dynion gwyrth-ddoniog hyn i'w mynegu.

Dengys y bennod yn yr hon y cofnodir y wyrth hon y defnydd pwysigfawr i ba un ei cymhwyswyd yn uniongyrchol. Nid oedd yr apostol Pedr yn debygol ond un o'r dysgawdwyr ysbrydoledig gan ba rai y cyhoeddwyd Efengyl Iesu i'r dyrfa ymgynnulledig. Ac mor ogoneddus y mae hawliau y Gwaredwr adgyfodedig yn cael eu honi yma! Mae yr erlidiedig a'r poenedig Iesu o Nazareth yn awr "wedi ei ddyrchafu trwy ddeheulaw Duw," ac y mae holl dŷ Israel i'w gydnabod Ef yn Arglwydd ac yn Grist. Efe, yr hwn a dywalltodd yr Ysbryd i alluogi yr apostolion i bregethu fel hyn, a roddodd yr Ysbryd hwnw hefyd i fendithio y gair lefarwyd: "Y rhai a dderbyniasant ei air ef yn ewyllysgar a fedyddiwyd; a chwanegwyd attynt y dwthwn hwnnw ynghylch tair mil o eneidiau."

(Darllener Actau ii.)


## PENNOD II.

### PREGETHU YR EFENGYL YN MHORTH SOLOMON.

YN fuan ar ol y tywalltiad gwyrthiol o'r Ysbryd Glân, dechreuodd yr apostolion ar y gwaith mawr at yr hwn eu galwyd, a chymmerasant afael awyddgar yn mhob cyfle fel y digwyddai i ddadleu hawliau eu Gwaredwr esgynedig. Parhasant i gyrchu i'r Deml ar oriau addoliad arferol, a gwelir Pedr ac Ioan yma yn myned i mewn trwy y Porth Prydferth, ar y drydedd awr—oddeutu naw yn y boreu—pan y cyflwynid yr aberth boreuol, a phan oedd llawer o addolwyr yn nghyd.

Yr oedd y Porth Prydferth, pa un, fel y dywed Josephus wrthym, oedd wedi ei ychwanegu gan Herod at Gyntedd y Cenhedloedd, wedi ei wneyd o bres Corinth, defnydd a werthfawrogid yn uwch nag arian ac aur. Yr oedd ei uchder yn ddeg cufydd ar hugain, a'i led yn bymtheg, a'i wneuthuriaeth o'r nodwedd mwyaf prydferth a chelfydd.

Fel yr oedd y ddau apostol hyn yn myned trwy y porth yma, gwelsant ddyn tlawd, y gwyddid ei fod wedi bod yn gloff o'i enedigaeth, yr hwn a ddygid gan ei gyfeillion, ac a ddodid yno o ddydd i ddydd i ofyn elusenau gan yr addolwyr. Gosododd y dyn yma ei sylw yn astud ar yr apostolion, gan obeithio cael rhyw beth ganddynt. Fel llawer gormod yn ein dydd ni, nid âi byth i mewn i'r Deml i addoli; ei unig amcan oedd cynhyrfu tosturi ereill, a derbyn eu helusenau. Yn ofer yr edrychai am gymhorth o'r fath oddiwrth Pedr ac Ioan, y rhai er yn apostolion Crist, na feddent nac arian nac aur. Yr oedd yr amser heb ddyfod pan y gwyrdröid Cristionogaeth i fod yn ffynhonell cyfoeth i'r rhai hyny a broffesent ddysgu ei gwirioneddau, fel y darluniai pab anffyddol yr Efengyl fel "twyll enillfawr." Mae wedi ei sylwi fod gan yr eglwys yn yr amserau boreuaf offeiriaid aur a chwpanau pren, ond yn yr amserau diweddarach, fod ganddi gwpanau aur ac offeiriaid pren. Yr oedd gan Pedr ac Ioan, os nad oedd ganddynt arian ac aur, y gallu hwnw oedd o anfeidrol fwy o werth,—gallu a ddefnyddiasant pan y dywedodd Pedr wrth y gŵr cloff, "Arian ac aur nid oes gennyf; eithr yr hyn sydd gennyf, yr wyf yn ei roddi i ti; yn enw Iesu Grist o Nazareth, cyfod a rhodia."



LEIGHTON, BROTHERS.

PETER AND JOHN AT THE BEAUTIFUL GATE OF THE TEMPLE.

Braidd yr anturia y dyn druan feddwl y gallasai gyfodi a rhodio, ond fe gafodd allan yn fuan fel y cymmerodd Pedr ef erbyn ei law, ei fod wedi ei iachau yn wirioneddol, "a chan neidio i fynu, efe a safodd ac a rodiodd, ac a aeth gyd â hwynt i'r Deml dan rodio, a neidio, a moli Duw." Yna "y llammodd y cloff fel hydd;" ac nid cynt y mae yn ymwybodol o'i alluoedd newyddion, nag y defnyddia hwynt er gogoniant i Dduw, gan fyned i mewn i'r Deml, a chydnabod Duw fel awdwr ei drugareddau.

Dyma lle yr oedd gwyrth, gwirionedd yr hon yr oedd pawb yn rhwym o addef. Nid oedd yno ddim cyd-ddichell, fel yn ngwyrthiau honedig offeiriaid paganaidd a phabyddol; "ac yr oeddynt hwy yn ei adnabod, mai hwn oedd yr un a eisteddai am elusen wrth borth Prydferth y Deml; a hwy a lanwyd o fraw a synedigaeth am y peth a ddigwyddasai iddo." Yr oedd rhai o honynt wedi gweled yr iachad yma yn cael ei gyflawni yn uniongyrchol, a dyna lle yr oedd y dyn a iachawyd i dystio am yr apostolion trwy offerynoliaeth pa rai yr iachawyd ef. Rhuthrodd y dorf yn nghyd i'r porth colofnog eang oedd yn dwyn enw Solomon, gan ffurfio fel hyn dyrfa fawr, i ba rai y gallai yr apostolion bregethu yr Efengyl.

Gyda'r fath ffyddlondeb yr honant yn awr hawliau yr Arglwydd Iesu! Gwrthodasant dderbyn y parch a'r edmygedd hyny gynhygiwyd iddynt eu hunain, ag oeddynt yn ddyledus i Dduw yn unig, a phrysurasant i sicrhau y dyrfa fawr fod y wyrth wedi cael ei gwneyd yn enw yr Iesu hwnw oeddynt wedi draddodi i Pilat i'w groeshoelio. Galwyd ar y gŵr cloff i gyfodi "yn enw Iesu Grist o Nazareth," a gweithredodd ffydd yn yr enw hwnw, yn yr hwn y galwai Duw eu tadau yn awr am ffydd pob dyn.

Gofyna hawl bersonol yn Nghrist am edifeirwch am bechod, ac yn neillduol am y pechod mawr o fyw mewn dïystyrwch o'i Efengyl. Yr oedd pechod y bobl hyn wedi cymmeryd ffurf ofnadwy. Yr oeddynt wedi traddodi eu Messiah i farwolaeth; yr oeddynt wedi dewis llofrudd o flaen yr hwn oedd yn sanctaidd, diddrwg, a dihalog; yr oeddynt wedi lladd Tywysog y Bywyd; ac wedi traethu y melldithiad dychrynllyd, "Bydded ei waed ef arnom ni, ac ar ein plant."

Ac eto yr oedd Duw, yn Ei anfeidrol ddoethineb a thrugaredd, yn awr yn cyflawni Ei fwriadau trwy oruwchreoli gweithredoedd dynion drygionus er Ei ogoniant Ei hun. "Eithr y pethau a rag-fynegodd Duw trwy enau

ei holl brophwydi, y dïoddefai Crist, a gyflawnodd efe fel hyn." Y gwaed hwnw a dywalltasant hwy oedd waed yr aberth mawr, ac a allai eu puro hwynt, fel na raid i fradwyr a llofruddion yr Arglwydd Iesu anobeithio am iachawdwriaeth. Oddiar hyn y mae yr apeliad difrifol a thrugarog: "Edifarhêwch gan hynny, a dychwelwch, fel y dilëer eich pechodau, pan ddelo yr amseroedd i orphwys o olwg yr Arglwydd."

I gefnogi yr edifeirwch a'r ffydd yma yn Nghrist, yr oedd y sicrhad mawr y gwnai Duw anfon at yr edifeiriol a'r crediniol y Gwaredwr, yn nerth Ei Ysbryd, yr hwn a gadwai y nefoedd yn Ei berson hyd gyflawniad "pob peth, y rhai a ddywedodd Duw trwy enau ei holl sanctaidd brophwydi erioed."

I ddirwasgu yr apeliad grymus yma, adgoffhaodd yr apostol Pedr i'w wrandawyr fod Moses wedi rhagfynegu dyfodiad Prophwyd mawr, megis ef ei hun, yr hwn oedd i fod yn Ddeddf-roddwr, Arweinydd, a Chyfryngwr rhwng Duw a'r bobl, a'r hwn yr oeddynt i'w wrando yn mhob peth, ac nad allent wrthod ond yn unig ar eu perygyl. Crist oedd y Prophwyd hwnw, ac iddo Ef yr hawliai y cenhadon ffyddlawn hyn ymostyngiad pob meddwl a chalon. Dyna oedd yr apeliad difrifol waed at y dyrfa fawr yn Mhorth Solomon, a chyfeirir yr apeliad yma atom ninau, at ba rai yr anfonwyd gair yr iachawdwriaeth hon. Bydded i ni oll ystyried y Prophwyd mawr yma fel ein Hathraw Anffaeledig, a gwrando arno "ym mhob peth."

Fel hyn yr ydym yn gweled pa fodd y mae yr Arglwydd Iesu wedi ei ddyrchafu i'r safle uwchaf fel Dysgawdwr dynion, tra y mae y gwirioneddau a gyhoedda yn hawlio ffydd ac ymostyngiad pob dyn. Sylwn ar y gosbedigaeth ddychrynllyd o esgeuluso Ei addysg: "A bydd, pob enaid ni wrandawo ar y Prophwyd hwnnw, a lwyr-ddifethir o blith y bobl." Un o'r troseddau mwyaf yn mysg yr Iuddewon oedd dïystyru geiriau yr ysgrifenyddion, ac ni oddefid i'r rhai hyny gan ba rai ei cyflawnid i sefyll o fewn pellder penodol i'r cyfundeb Iuddewig. Os na thalwn sylw i eiriau Crist, ni a gawn ein gwahanu oddiwrth y bobl sydd yn cydnabod Ei awdurdod ac yn parchu Ei air. A pha dynged all fod mor ofnadwy ag ymwahaniad tragywyddol oddiwrth Grist a'i bobl?

(Darllener Actau iii.)



LEIGHTON, BROTHERS.

THE DEATH OF ANANIUS.

## PENNOD III.

### ANANIAS A SAPPHIRA.

YN oes gyntaf a boreuaf yr eglwys, fe welwyd yn angenrheidiol i'w haelodau i ffurfio trysorfa gyffredin, i'r hon yr oedd pawb i daflu eu meddiannau, ac o ba un yr oeddynt i dderbyn eu cynhaliaeth. Felly y darllenwn: "Canys nid oedd un anghenus yn eu plith hwy; oblegid cynnifer ag oedd berchen tiroedd neu dai, a'u gwerthasant, ac a ddygasant werth y pethau a werthasid, ac a'u gosodasant wrth draed yr apostolion; a rhanwyd i bob un megis yr oedd yr angen arno." Nis gellir dwyn yn mlaen drefniad a welwyd yn angenrheidiol i gyfarfod ag amgylchiadau yr eglwys yn y cyfnod boreuol yma o'i hanes, gyda phriodoldeb fel esiampl i'r holl oesau dylynol. Ni chyrchwyd at foddion o'r fath gan yr eglwysi sefydlwyd wedi hyny mewn dinasoedd ereill, ac nid oedd y Cristionogion yn cael eu rhyddhau oddiwrth y dyledswyddau cylchfynedol rhwymedig ar y cyfoethog a'r tlawd, a'r amrywiol raddau hyny nad allent fodoli os oedd pawb i ddylyn esiampl yr eglwys gyntefig yn Jerusalem. Mae yr egwyddor a arweiniodd i'r trefniad yma yn cael ei chydnabod yn ddyledus lle y mae y cyfoethog yn ofalus am eu brodyr tlodion, ac yn cyfranu at eu hanghenion fel y bo'r amgylchiad yn gofyn, yn gymmaint a'u bod oll yn frodyr yn Nghrist Iesu.

Fel y gwelsom fod yno gybydd a bradwr yn mysg yr apostolion, felly yr ydym yn cael yma ŵr a'i wraig yn mysg aelodau yr eglwys yn Jerusalem bob un yn euog o ddyweyd celwydd, ac mewn amgylchiadau yr oedd y pechod wedi ymwisgo yn y nodwedd mwyaf echryslawn. Pan oedd pawb yn gwerthu eu meddiannau, ac yn gosod y cynhyrch wrth draed yr apostolion, "Ananïas, gyd â Sapphira ei wraig, a werthodd dir, ac a ddarn-guddiodd beth o'r gwerth, a'i wraig hefyd o'r gyfrinach, ac a ddug ryw gyfran, ac a'i gosododd wrth draed yr apostolion."

Dylid sylwi pan y cyhuddodd Pedr hwy o ddywedyd celwydd wrth yr Ysbryd Glân, nad oeddynt wedi traethu dim geiriau o dwyll. Nid oeddynt wedi dyweyd, Yr ydym wedi gwerthu ein tir, a dyma holl gynhyrch y gwerthiant. Yr oeddynt wedi cymmeryd yn ddistaw ran o'r gwerth, a

gosod i lawr y gweddill, gan obeithio dianc rhag y cyhuddiad o dwyll, a distewi cydwybod trwy y moddion a ddefnyddiasant.

Mae y darnodiad cyffredin yn yr hwn yr ydym yn siarad am ddyweyd celwydd, fel adroddiad o anwiredd gyda bwriad o dwyllo, yn mhell o fod yn gyflawn. Euog o'r pechod yma yn erbyn Duw yw y neb sydd "yn rhoi arddanghosiad twyllodrus, neu a ddywed, neu a wna, yr hyn a fwriedir i dwyllo arall. Gwnai y rhai hyny ydynt wedi ceisio twyllo ereill trwy weithredu twyll, pan na anturiasent draethu un, yn dda i ystyried yn ddwys y rhan yma o hanes prudd y bobl hyn, a phrysuro i edifarhau am eu pechod, gan gofio nad â i mewn i'r nefoedd ddim a wnelo dwyll." Paley, yn ei "Athroniaeth Foesol," gan gyfeirio at y pwynt yma, a ddywed: "Gall dyn *weithredu* anwiredd; fel wrth gyfeirio ei fys mewn cam gyfeiriad, pan yr ymofyna teithiwr gydag ef am ei ffordd; neu pan y caua masnachwr ei ffenestri i beri i'w ofynwyr gredu ei fod i ffwrdd; oblegid i bob diben moesol, ac felly am eirwiredd, mae iaith a gweithrediad yr un peth; nid yw iaith ond yn unig ffurf o weithredu.

Ceryddodd Pedr Ananïas am ei bechod, gan ddarlunio ei ysgelerder, a syrthiodd i lawr a bu farw, wedi ei daro â llaw Duw, cyn iddo draethu ei dwyll wrth yr apostolion. "A'r gwŷr ieuaingc a gyfodasant, ac a'i cymmerasant ef, ac a'i dygasant allan, ac a'i claddasant."

Rhoddodd Sapphira, yr hon oedd wedi cydfwriadu gyda ei gŵr i gyflawni y weithred yma o dwyll, adroddiad o'r celwydd mewn atebiad i'r gofyniad, "Dywaid di i mi, Ai er cymmaint y gwerthasoch chwi y tir? Hithau a ddywedodd, Ië, er cymmaint." Gwelwch mor ofnadwy a chyda'r fath frys y syrthiodd barnau Duw ar bob un o'r troseddwyr hyn! "Ac yn y man hi a syrthiodd wrth ei draed ef, ac a drengodd; a'r gwŷr ieuaingc wedi dyfod i mewn, a'i cawsant hi yn farw, ac wedi iddynt ei dwyn hi allan, hwy a'i claddasant yn ymyl ei gŵr." Nid ydym yn rhyfeddu dim ddyfod "ofn mawr ar yr holl eglwys, ac ar bawb oll a glybu y pethau hyn." Yr ydym yn crynu wrth i ni ddarllen yr hanes ofnadwy yma, a dylai wasgu yn ddwfn arnom y gwirionedd mai "ffiaidd gan yr Arglwydd wefusau celwyddog," fel y dywed wrth bob un o honom, "Cadw dy dafod rhag drwg, a'th wefusau rhag traethu twyll."

Mae i'w ofidio yn fawr fod yr ysgrifenydd enwog o'r hwn yr ydym

wedi dyfynu, wedi caniatau yr hawl foesol i ddyweyd anwiredd o dan unrhyw amgylchiadau, "wrth ynfydyn er ei fantais ei hun; wrth ysbeiliwr i guddio eich eiddo; wrth fradlofrudd i'w atal neu ei droi oddiwrth ei fwriad;" neu wrth unrhyw berson mewn un amgylchiad pa bynag. Mae enw enwog Paley wedi cael ei ddefnyddio yn rhy fynych fel awdurdod dros droseddu y gorchymyn, "Dywedwch y gwir bawb wrth ei gymmydog."

Gymmaint gwell yw yr addysg foesol iachus hyny gan Dr. Wayland, yr hwn a ddywed am gyfraith geirwiredd, "fel ag y mae yn gymhwys at gyfeillach gyda dynion fel bodau deallol, ei bod yn gymhwys at ein cyfeillach â dynion o dan holl berthynasau dichonadwy bywyd. Fel hyn atalia rieni rhag dyweyd anwiredd wrth blant, a phlant wrth rieni; athrawon wrth ysgolheigion, ac ysgolheigion wrth athrawon; yr hen wrth yr ieuaingc, a'r ieuaingc wrth yr hen; cyfreithwyr wrth y rheithwyr, a'r rheithwyr wrth y cyfreithwyr; gwerthwyr wrth y prynwyr, a phrynwyr wrth y gwerthwyr. Hyny yw, mae y rhwymedigaeth yn gyffredinol ar yr holl berthynasau yn mha rai y saif dynion i'w gilydd.

"Ac nis gellir ei chyfnewid trwy yr ystyriaethau ddygir yn fynych, nad oes gan y person â'r hwn yr ydym yn ymddiddan ddim hawl i wybod y gwir. Mae hwn yn rheswm digonol paham y dylem beidio dyweyd y gwir, ond nid yw yn un rheswm paham y dylem ddyweyd anwiredd. O dan amgylchiadau o'r fath yr ydym at ein rhyddid i wrthod datguddio unrhyw beth, ond nid ydym at ein rhyddid i adrodd yr hyn sydd dwyll.

"Nid yw y rhwymedigaeth i eirwiredd yn ymddibynu ar hawl yr ymofynydd i wybod y gwir. Pe buasai ein rhwymedigaeth yn ymddibynu ar hyn, amrywiai gyda phob person â pha un yr ymddiddanem, ac yn mhob achos, cyn siarad, byddem at ein rhyddid i fesur helaethder hawl ein cymmydog, ac i ddyweyd y gwir neu anwiredd wrtho yn ol hyny."

Mae y dyfyniadau hyn wedi eu gwneyd o "Elfenau Moesddysg," dan olygiad Dr. Angus, ac a gyhoeddwyd yn ddiweddar yn y wlad hon gan Gymdeithas y Traethodau Crefyddol, pa un sydd wedi gwneyd y gwasanaeth mwyaf trwy osod ger bron y darllenwr cyffredin, olwg gynhwysfawr ac eglur ar y pwngc mawr yma, ac y mae yn hawlio parch pawb sydd yn dymuno rhodio yn addas i'r Efengyl.

(Darllener Actau v. 1—11.)

## PENNOD IV.

### GAMALIEL A'I GYNGHOR DOETH.

MAE yn hyfryd i edrych ar yr eglwys yn ei phurdeb cyntefig, fel yr ymddanghosai yn union ar ol troedigaeth y tair mil, ac ar ol i farnau dychrynllyd Duw ddisgyn ar Ananias a Sapphira. Ymgyfarfyddent o ddydd i ddydd yn Mhorth Solomon, lle y gwnaeth eu rhifedi, yr arwyddion a'r rhyfeddodau wnaed gan yr apostolion, a'u cariad brawdol, gynhyrchu gradd mawr o barch, yn ymylu ar y bri uwchaf, yn mysg yr Iuddewon o'u hamgylch. Cedwid y gwahaniaeth rhyngddynt hwy a'r rhai nad oeddynt wedi credu yn Nghrist gyda'r manylder mwyaf. Yr oedd Duw newydd wahanu dau aelod anheilwng oddiwrth y corff mawr, "eithr ni feiddiai neb o'r lleill ymgystylltu â hwynt; ond y bobl oedd yn eu mawrhau." Ac eto cynhyddai yr eglwys, canys "chwanegwyd attynt rai yn credu yn yr Arglwydd, lïaws o wŷr a gwragedd hefyd." Oni ddylem yn ein hamserau ni geisio am yr un ymwahaniad hynodol rhwng yr eglwys a'r byd, canys "pa ran sydd i gredadyn gyd âg anghredadyn?"

Yn awr profodd yr apostolion yn llawn yr addewid a roddodd eu Harglwydd iddynt pan yn Galilea, canys y bobl "a ddygent y rhai cleifion allan ar hŷd yr heolydd, a'u gosod ar welyau a glythau, fel o'r hyn lleiaf y cysgodai cysgod Pedr, pan ddelai heibio rai o honynt. A lliaws a ddaeth hefyd ynghŷd o'r dinasoedd o amgylch Jerusalem, gan ddwyn rhai cleifion, a rhai a drallodid gan ysprydion aflan; y rhai a iachawyd oll." Erbyn hyn rhaid fod yr archoffeiriad Iuddewig, a'r rhai oedd gydag ef, wedi cael allan nad oeddynt wedi dinystrio Cristionogaeth trwy roddi ei sylfaenydd i farwolaeth. Yr oedd ganddynt yn awr lawer o arweinwyr y bobl i ymwneyd a hwynt yn lle un, a rhaid i'r gwaith o erledigaeth gael ei adnewyddu a'i ddwyn yn mlaen gydag egni newydd, gan fod y tân a dybient hwy oeddynt wedi ddiffodd, yn awr yn tori allan o newydd. Delir a theflir yr apostolion gan hyny i garchar, lle, os parhant i wneyd gwyrthiau, na bydd yn ngolwg y dyrfa.

Mor ofer yw moddion dynion i wrthwynebu gwaith yr Hollalluog! "Angel yr Arglwydd o hŷd nos a agorodd ddrysau'r carchar, ac a'u dug hwynt allan." Mae gan y cenhad nefol hwn gyfarwyddyd Dwyfol i'w roddi: "Ewch, sefwch a lleferwch yn y Deml wrth y bobl holl eiriau'r fuchedd hon:" ac ufuddhawyd iddo yn llawen, canys aethant i'r Deml yn foreu, ac athrawiaethasant.

Cyfeirir ein sylw at gynhulliad mawr arall o'r Sanhedrim Iuddewig—"holl henuriaid plant yr Israel." Mae hi yn amser o galedi, mae y genedl mewn perygl, mae yr arweinwyr mwyaf peryglus ar waith, ac y mae y bobl yn myned drosodd atynt wrth y miloedd. Rhaid cadw cynghor, a rhaid cael penderfyniad difrifol gan yr awdurdod eglwysig a'r gallu gwladol yn unedig, a rhaid cario allan y penderfyniad hwnw yn ddioed i'r llythyren. Felly cesglir y cynhulliad mawr yn nghŷd, ac anfonir am y carcharorion. "A'r swyddogion pan ddaethant, ni chawsant hwynt yn y carchar; eithr hwy a ddychwelasant, ac a fynegasant, gan ddywedyd, Yn wir ni a gawsom y carchar wedi ei gau o'r fath sicraf, a'r ceidwaid yn sefyll allan o flaen y drysau; eithr pan agorasom, ni chawsom neb i mewn." Fel hyn tywalltodd yr Arglwydd ddirmyg ar y tywysogion Israel hyn; mor wir yr oedd wedi dyweyd am elynion hyn Ei Fab; "Yr hwn sydd yn preswylio yn y nefoedd a chwardd; yr Arglwydd a'u gwatwar hwynt." Yn ei betruster mawr, dealla yr archoffeiriad fod yr apostolion yn awr yn y Deml, "yn dysgu'r bobl." Anfonir y cadben a'r swyddogion i ddal yr apostolion, a chyflawnant eu nheges heb ddefnyddio trais, rhag cynhyrfu llid y bobl.

Yma, yna, saif y gallu uwchaf hwn yr offeiriaid a'r bobl yn erbyn y Galileaid distadl hyn, a defnyddir ei holl awdurdod, ond yn ofer, i'w darostwng i ddistawrwydd. Pwy nad yw yn edmygu hyfder Pedr fel y saif yn nghanol y gymmanfa hon, ac y dywed, "Rhaid yw ufuddhau i Dduw yn fwy nag i ddynion." Sylwch fel y mae yn eu cyhuddo o'r pechod o fod yn lofruddion Iesu, ac fel y saif ef a'i frodyr fel Ei dystion, yn ol y cyfarwyddiadau a dderbyniasant oddiwrtho Ef.

Yn nghanol eu petruster a'u dychryn, mae un gŵr deallus yn eu plith a all roddi cynghor doeth. Mawr berchid Gamaliel am ei ddysgeidiaeth a'i ddoethineb. Ystyrid gan y gwŷr ieuaingc Iuddewig yn anrhydedd

mawr i gael eistedd wrth ei draed, fel y gwnai Saul o Tarsus, a dywedir wrthym fod Onkelos, awdwr y Targum, wedi llosgi deg pwys a thriugain o arogldarth ar ei gladdedigaeth; a dywed yr Iuddewon fod anrhydedd y gyfraith wedi methu gydag ef. Profasai yn ŵr doeth gwirioneddol pe buasai drosto ei hun wedi rhoi ffordd i'r dystiolaeth dros yr Efengyl, ei chredu, ac anog y gynnulleidfa fawr i syrthio i lawr yn mhresennoldeb Iesu a'i alw yn Arglwydd, er gogoniant Duw Dad. Gan fethu yn hyn, aeth yn mlaen i roddi y fath gynghor ag a ddysgid gan brofiad a chraffder.

Symmudwyd yr apostolion o'r Sanhedrim tra y cyflwynai Gamaliel y cynghor nad oedd yn ddoeth ei roddi yn eu presennoldeb. Anogodd iddynt beidio dylyn yn fyrbwyll y llwybr ar yr hwn yr ymddanghosent yn benderfynol am y "dynion hyn." Os profent nad oeddynt ond penboethiaid yn unig, ni byddai yn hir cyn iddynt fedi tal dyledus eu ffoledd, fel yr oedd wedi bod gydag arweinwyr ereill y bobl, y rhai, ar ol tymhor byr, yn gyffredin a ddygasant ddinystr arnynt eu hunain, a'u canlynwyr twylledig. Cyfeiria at ddau engraifft yn eu cof eu hunain. Theudas, yr hwn yn amser y cofrestriad, yn nyddiau Archelaus, oedd wedi cymmeryd arfau er amddiffyn yr Iuddewon, a drengodd, gyda ei fyntai o bedwar cant o ganlynwyr. Yr oedd hefyd arweinydd terfysglyd arall wedi bod, Judas o Galilea, hanes yr hwn a roddir gan Josephus. Yn nyddiau y dreth, (neu gofrestriad,) cyfododd y dyn yma, "ac efe a drodd bobl lawer ar ei ol; ac yntau hefyd a ddarfu am dano; a chynnifer oll a ufuddhasant iddo a wasgarwyd." Gan ddysgu doethineb oddiwrth y pethau hyn, ymataliai Gamaliel dros dymhor, gael i wir fwriad a nodwedd y cynhyrfwyr hyn gael eu dadblygu, a'r holl genedl gael barnu eu hawliau oddiwrth eu llwyddiant neu eu methiant.

Ni ddylynwyd y cynghorion rhagorol hyn ond yn rhanol. Goddefwyd i'r apostolion i ymadael, ond nid cyn iddynt gael eu curo yn waradwyddus, a'u rhybuddio i beidio llefaru mwy yn enw Iesu. Yn ofer y rhoed y fath ocheliad i'r fath ddynion, "hwy a aethant allan o olwg y cynghor yn llawen, am eu cyfrif hwynt yn deilwng i ddïoddef ammharch o achos ei enw ef. A beunydd yn y Deml, ac o dŷ i dŷ, ni pheidiasant a dysgu a phregethu Iesu Grist."

(Darllener Actau v. 13—42.)

## PENNOD V.

### STEPHAN Y MERTHYR CYNTAF.

YN y sylw cyntaf roddir o Stephan, darlunir ef fel "gŵr llawn o ffydd ac o'r Yspryd Glân;" ac yn mhellach, "yn llawn o ffydd a nerth," yn gwneyd "rhyfeddodau ac arwyddion mawrion ym mhlith y bobl." Pan y gwrthwynebwyd ef yn ei waith da gan Iuddewon perthynol i'r gwahanol synagogau tramorawl yn Jerusalem, yr oedd yn hynod am ei wybodaeth Ddwyfol, a rhagoroldeb ei ysbryd Cristionogol; canys "ni allent wrthwynebu y doethineb a'r yspryd trwy yr hwn yr oedd efe yn llefaru."

Mae yn debygol oddiar barch i Gamaliel y caed yn angenrheidiol am dymhor i adael yr apostolion yn llonydd wrth bregethu yr Arglwydd Iesu, ac i fabwysiadu moddion ereill i wrthwynebu lledaeniad yr Efengyl. Gallai yr Iuddewon tramorawl hyn gan hyny wneyd gwaith y Sanhedrim, tra yr ymddanghosai ei haelodau yn edrych arnynt gyda difaterwch. Gan nad ellid dadwneyd rhesymau Stephan, penderfynwyd dinystrio y dyn gan yr hwn eu traethwyd. Daliwyd ef gan hyny ar y cyhuddiad o ddywedyd "geiriau cablaidd yn erbyn Moses a Duw." Yr oedd y Sanhedrim, gan ymddangos yn anmhleidiol a diragfarn yn erbyn y troseddwr newydd hwn, i eistedd fel ei farnwyr, a gwrando ar y cyhuddiadau ddygid yn ei erbyn gan y tystion. Gau yn wir oedd y tystion hyny, ond yr oedd eu tystiolaeth yn dra derbyniol pan y dywedasant wrth eu barnwyr llygredig: "Nid yw y dyn hwn yn peidio a dywedyd cabl-eiriau yn erbyn y lle sanctaidd hwn a'r gyfraith; canys nyni a'i clywsom ef yn dywedyd y distrywiai yr Iesu hwn o Nazareth y lle yma, ac y newidiai efe y defodau a draddododd Moses i ni."

Tra yr oedd y tystion anudonol a chyflogedig hyn yn dwyn yn mlaen eu cyhuddiadau, rhoddodd Jehofah dystiolaeth mwyaf hynod o blaid Ei was: "Ac fel yr oedd yr holl rai a eisteddent yn y cynghor yn dal sylw arno, hwy a welent ei wyneb ef fel wyneb angel." Yr oedd yr Iuddewon ar wahanol adegau wedi eu ffafrio â gweledigaethau o angylion, ac wedi eu gweled yn disgleirio gyda thanbeidrwydd goruwchnaturiol, a phan y tywalltodd yr Arglwydd yn awr belydrau goleuni Dwyfol ar wynebpryd

Ei was, gorfodwyd "pawb a'r a'i gwelsant" i syllu yn graff arno, canys nis gallent wadu nad oedd ei wyneb yn ymddangos "fel gwyneb angel." Y fath ddarlun roddir fel hyn o ddyn cyfiawn a sanctaidd yr hwn sydd yn agored i ryw gam-gyhuddiad, ac agwedd onest a diniwed yr hwn nad ellir ei ddynwared neu ei ffugio, sydd yn wrthweddiad hollol i'r cyhuddwyr cyflogedig, am ba rai y gellir dyweyd yn iaith Esaiah, "dull eu hwynebau hwynt a dystiolaetha yn eu herbyn."

Gofynodd yr archoffeiriad, yr hwn a gymmer arno drin yr achos ger ei fron gyda thawelwch, os nad gyda difaterwch, i'r cyhuddedig, pa un a oedd y cyhuddiadau ddygid yn ei erbyn yn wir, gan awgrymu y gallai yn awr roi ei atebiad a gwneyd ei amddiffyniad. Rhoddodd Stephan, yr hwn a wyddai bwysigrwydd y cyfle, ac yr oedd yn fwy awyddus i amddiffyn achos gogoneddus ei Waredwr nag i gyfiawnhau ei hun a sicrhau ei ryddhad, atebiad hynod ac annisgwyliadwy i ymofyniad yr archoffeiriad.

Wrth roddi talfyriad o'r hanesiaeth Hebrëig, amcanai ddangos pob parch dyledus i'r Gyfraith, yr hon y camgyhuddwyd ef o'i dirmygu. Gwyddai hanes ei genedl yn dda, ond tra y parchai ac y carai bob peth oedd yn barchadwy, nid oedd yn un o'r rhai hyny a ddywedent, "Teml yr Arglwydd ydym ni," gan fod yn ddall i'w pechodau lliosog. Olrheiniodd gan hyny brif ddigwyddiadau eu hanes, yn cynhwys galwad Abraham, yr ymdaith yn Nghanaan, a'r addewid am y meddiant dyfodol o honi; trallodion Joseph; ei ddyrchafiad dros yr Aipht; arosiad Israel yn y wlad hono; genedigaeth Moses, a'r driniaeth anniolchgar a dderbyniodd pan "y tybiodd fod ei frodyr yn deall, fod Duw yn rhoddi iachawdwriaeth iddynt trwy ei law ef," galwad Moses, a'r mynediad allan; pechodau Israel yn yr anialwch; yr ymsefydliad yn Nghanaan; a chyfodiad Teml Solomon. Yma adgoffhaodd i'r cynghor nad "yw y Goruchaf yn trigo mewn temlau o waith dwylaw; fel y mae y prophwyd yn dywedyd, Y nef yw fy ngorseddfaingc, a'r ddaear yw troed-faingc fy nhraed; Pa dŷ a adeiledwch i mi? medd yr Arglwydd; neu pa le fydd i'm gorphwysfa i?"

Mae yn debygol i'r gynnulleidfa ar draethiad y gwirionedd mawr yma i ymgynhyrfu ac ymgynddeiriogi, ac i Stephan deimlo yn angenrheidiol heb fyned yn mlaen gyda'r hanes i'w gymhwyso at gydwybodau y gwrandawyr. Yr oedd ei amser ef ei hun yn amlwg i fod yn fyr, ac yn

lle gwenieithio i'w wrandawyr, a cheisio troi ymaith eu llid, penderfynodd dywallt ei galon, er y gallai fod ar draul ei fywyd.

Gyda'r fath wroldeb rhagorol yr hona y gwas ffyddlawn hwn ; Dduw wir gymmeriad y dynion beilchion a hunan-gyfiawn hyn o flaen pa rai y bernir ef! "Chwi rai gwargaled a dïenwaededig o galon ac o glustiau, yr ydych chwi yn wastad yn gwrthwynebu yr Yspryd Glân; megis eich tadau, felly chwithau." Tra yn ymffrostio yn eu hynafiaid enwog, prof-asant yn anheilwng o honynt oll, a'r unig gyndadau a efelychent oeddynt y rhai a laddasant y prophwydi. Wedi eu magu yn nghanol seremoniau crefydd dderbyniwyd oddiwrth Dduw, yr oeddynt bob amser wedi gwrth-wynebu yr Ysbryd Glân, yr hwn oedd wedi ysbrydoli dynion sanctaidd i brophwydo. "Pa un o'r prophwydi ni ddarfu i'ch tadau chwi ei erlid?"

Yr oedd eu hymddygiad yn berffaith gyson ag un eu cyndadau dryg-ionus. Lladdai y gwŷr hyny yn yr oesau gynt y prophwydi a ragfynegent ddyfodiad y Cyfiawn, ac y mae y gwŷr hyn, eu disgynyddion, yn awr pan y mae y Cyfiawn wedi ymddangos, wedi dyfod Ei fradwyr a'i lofruddion. Gwasanaethodd eu holl ragorfreintiau goruchel yn unig i fwyhau eu heuogrwydd. Ymffrostient yn y Gyfraith yr hon a drosglwyddwyd iddynt trwy resau angylion disglaer, ac yn awr pan yr oedd y Messiah addawedig wedi ymddangos i gyflawni y Gyfraith hono, ac i gyflwyno aberth dros bechod, yr oeddynt wedi cefnogi y diffeithder o fradwriaeth, ac wedi dyfod yn genedl o lofruddion.

Yr oedd yr Iuddewon wedi colli yr hawl i gymmeryd ymaith fywyd troseddwr, ac yr oedd y weithred o'i labyddio i farwolaeth yn hollol anghyfreithlawn. Gallasai yr offeiriaid ddadleu nad oeddynt wedi penodi y gosbedigaeth hon. Achoswyd hi gan ymdoriad cynddaredd y bobl, pa un y gallasent broffesu bod yn annalluog i'w lywodraethu. Mor brydferth yw nodweddiad y merthyr cyntaf hwn, mor ragorol yw ei ysbryd maddeuol, mor ryfeddol oedd ei dawelwch fel y syrthiai y gawod o gerig trymion arno ef! "A hwy a labyddiasant Stephan, ac efe yn galw ar Dduw, ac yn dywedyd, Arglwydd Iesu, derbyn fy yspryd. Ac efe a ostyngodd ar ei liniau, ac a lefodd â llef uchel, Arglwydd, na ddod y pechod hwn yn eu herbyn. Ac wedi iddo ddywedyd hyn, efe a hunodd."

(Darllener Actau vi.)

## PENNOD VI.

### YR EFENGYL YN SAMARIA.—SIMON MAGUS.

Cefnogodd llofruddiaeth greulon Stephan yr Iuddewon i fyned yn mlaen yn y gwaith o erlid. Fel y mae y dywalgi, pan unwaith wedi profi gwaed dynol, yn sychedu am ragor, ac yn dyfod yn elyn peryglus i ddyn, felly y dynion hyn a dywalltasant waed Stephan, yn lle lliniaru, a chwanegant eu cynddaredd trwy y weithred a gyflawnasant. Felly "bu yn y dyddiau hynny erlid mawr ar yr eglwys oedd yn Jerusalem; a phawb a wasgarwyd ar hŷd gwledydd Judea a Samaria, ond yr apostolion."

Goruwchreolodd Efe sydd a phob calon a phob digwyddiad o dan Ei reolaeth, ac sydd yn gwneyd i "gynddaredd dyn" i'w foliannu, yr holl drallodion hyn er hyrwyddiad yr achos mawr y bwriadwyd hwy i'w ddinystrio. Yr oedd yr erledigaethau hyn, yn lle llethu yr eglwys, yn foddion ei chynhyddiad. "A'r rhai a wasgarasid a dramwyasant gan bregethu'r gair." Arosodd yr apostolion yn Jerusalem, fel canolbwynt y gweithrediadau mawrion hyny yr oedd byddin y ffyddloniaid i'w dwyn yn mlaen o dan gyfarwyddyd eu Harglwydd; ond yr oedd y dyrfa fawr o ddychweledigion, wedi eu hyfforddi fel yr oeddynt yn athrawiaeth Crist, ac wedi eu cynhysgaeddu â doniau gwyrthiol, i fyned allan a gwneyd yn hysbys y pethau a welsant ac a glywsant. Fel y mae gwyntoedd hydref yn cludo yr hadau adeiniog dros wyneb y tir, gan eu planu hwynt lle y gwnant darddu i fyny a thyfu, felly y chwalwyd hadau gwirionedd nefol yn awr o amgylch i wneyd y tir fel gardd yr Arglwydd. Hwy "a dramwyasant hyd yn Phenice, a Cyprus, ac Antiocha, heb lefaru y gair wrth neb ond wrth yr Iuddewon yn unig."

Dylyna yr hanes yrfa un o'r tystion ffyddlawn hyn dros Grist. "Yna Phylip a aeth i waered i ddinas Samaria ac a bregethodd Grist iddynt." Cynhysgaeddwyd Phylip yn helaeth â doniau gwyrthiol, a galluogwyd ef fel hyn i roddi i'r Samariaid y prawf mwyaf boddhaol er cadarnhad i'r athrawiaethau a gyhoeddai: "Canys ysprydion aflan, gan lefain â llef uchel, a aethant allan o lawer a berchennogid ganddynt; a llawer yn gleifion o'r parlys, ac yn gloffion a iachawyd." Bu y gwyrthiau hyn yn

foddion o esmwythâd a chysur i lawer o ddïoddefwyr yn Samaria. Bu y Gwaredwr unwaith, mae yn debygol, yn dysgu yn y ddinas i'r hon yr aeth Phylip, ond amddifadodd y bobl eu hunain wedi hyn o'i addysg, trwy eu anllettygarwch pan y gwelsant fod ei wyneb tua Jerusalem. Hyd eto nid oeddynt wedi derbyn ond ychydig o'r goleuni a welwyd yn Galilea, ac ychydig oddiwrth y rhai a anfonwyd allan gan y Gwaredwr. Yn awr, modd bynag, trosglwyddwyd yr Efengyl iddynt yn ei phurdeb a'i nerth, ac yn ddylynedig gan y prawfion mwyaf boddhaol o'i Dwyfol darddiad.

"Phylip a bregethodd Grist iddynt." Derbyniai y gwyrthiau tra y cyfranent les mawr i bersonau dynion, ac y cynhyrfent yr edmygedd a'r hyfrydwch uwchaf yn mysg y rhai oeddynt yn dystion o honynt, eu gwerth uwchaf oddiwrth yr amcan a wasanaethent mewn perthynas i'r Efengyl. Yr oeddynt i fod yn arwydd i brofi fod goruchwyliaeth newydd wedi ei dwyn i mewn, a'u bod hwy gan ba rai y cyhoeddwyd Efengyl Iesu, yn haeddu derbyniad calonog fel cenhadon trugaredd nefol. Iesu oedd pwngc mawr Phylip, a dylai fod yn un pob gweinidog Cristionogol. Bywyd Iesu, Ei groeshoeliad, a'i esgyniad, a'r iachawdwriaeth sydd i'w chael trwy ffydd ynddo Ef a ddylai fod yn awr, fel y pryd hwnw, y pwngc dihysbydd ar yr hwn yr arhoswn, gan mai trwy y gwirioneddau hyn yn unig y gellir adferu y byd pechadurus at Dduw. Oddiwrth yr Efengyl a bregethwyd gan Phylip, yn fwy nag oddiwrth y gwyrthiau a wnaeth ei ddwylaw, "yr oedd llawenydd mawr yn y ddinas honno."

Am amser maith cyn dyfodiad Phylip yr oedd y Samariaid wedi bod o dan ddylanwad twyllwr gwrthun, yr hwn oedd wedi gweithio ar eu hofergoeliaeth, trwy hudoliaethau y swynwyr. Nid oedd yn dewis dysgu credo, ond sicrhau edmygedd a syndod y bobl. Yr oedd wedi "hudo pobl Samaria, gan ddywedyd ei fod ef ei hun yn rhyw un mawr; ar yr hwn yr oedd pawb, o'r lleiaf hyd y mwyaf, yn gwrando, gan ddywedyd, Mawr allu Duw yw hwn." O'r braidd y gallwn ryfeddu fod y Samariaid fel hyn wedi eu twyllo, pan y gwyddom fel y mae ymhoniadau cyffelyb yn llwyddo yn ein gwlad ni yn y dyddiau mwy goleuedig hyn, o'r hyn y mae gennym lawer o engreifftiau trist yn y rhai sydd yn arfer claerweliad ac ysbryd-guriad, gan gymmeryd arnynt weled pethau yn mhell tu hwnt

i gyrhaedd golwg naturiol, ac i ddal cymmundeb a'r ysbrydoedd yn y byd tragywyddol. Bwriadwyd y goleuni ddygwyd i Samaria i ddinystrio holl weithredoedd y tywyllwch, a'r lle y tywyna y goleuni hwnw yn awr yn ei ddisgleirdeb, chwala yn effeithiol bob hudoliaeth beryglus a thwyll dinystriol o'r fath.

Cymmerodd Simon Magus ei le yn mysg y rhai hyny a broffesent ffydd yn Nghrist, ac fel hwythau bedyddiwyd ef. Ymddengys oddiwrth ddechreuad ei yrfa fod ei broffes o ffydd wedi ei hachlysuro gan y gwyrthiau yn hytrach na chan bregethiad Phylip. Efe "a lynodd wrth Phylip, a synnodd arno wrth weled yr arwyddion a'r nerthoedd mawrion a wneid."

Wedi cyrhaedd o'r newyddion da am lwyddiant yr Efengyl yn Samaria, anfonwyd Pedr ac Ioan i weled y dychweledigion, a'u cadarnhau yn y ffydd. Yr oeddynt wedi bod yn dystion o wyrthiau Phylip, ond nid oeddynt hyd eto wedi eu cynhysgaeddu â'r fath ddoniau gwyrthiol ag oeddynt wedi eu cyfranu i'r eglwys yn Jerusalem; yn awr, mewn atebiad i weddi yr apostolion, cyfranwyd y doniau hyn, yr Ysbryd Glân, i'r credinwyr yn Samaria.

Dymuniad Simon oedd nid yn unig ar iddo gael cydgyfranogi o'r doniau hyn a'r credinwyr ereill, ond ar iddo gael gallu i'w cyfranu. Un o'r doniau gyfranwyd oedd gallu i lefaru mewn ieithoedd na ddysgwyd erioed o'r blaen, ac y mae wedi ei awgrymu fod Simon yn ystyried y gwnai y gallu yma yn neillduol brofi yn ffynhonell o elw. Yr oedd wedi enill arian trwy ei swynion, ac yr oedd yn foddlawn i wario yr arian hyny i gyrhaedd y galluoedd arferid gan yr apostolion. Gyda'r fath ddïystyrwch ardderchog y gwrthodwyd y cynhygiad iselwael hwn gan weision Crist, y rhai ar yr un pryd a ddynoethasant y rhagrith a ryfygodd ei wneyd. Yr oedd yr iaith gryfaf allasai Pedr ddefnyddio yn ofynol i ddarlunio y dyn a dybiodd y gallesid prynu "dawn Duw" âg arian. Yr oedd Judas wedi gwerthu y Gwaredwr am arian, a thybiai Simon y gwnai yr apostolion efelychu mab y golledigaeth, a gofyn pris am ddoniau yr Ysbryd Glân. Eto yr oedd trugaredd iddo os edifarhâi ac y gweddiai. Ond ni wyddai pa fodd i weddio. Deisyfai ddoniau ysblenydd, ond nid y ddawn oreu. Dysga Crist ei holl ddisgyblion i weddio.

(Darllener Psalm xix. Actau viii. 1—25.)

# PENNOD VII.

## YR ETHIOPIAD DYCHWELEDIG.

GWAITH mawr yr amserau yn union ar ol esgyniad yr Arglwydd a disgyniad yr Ysbryd Glân, oedd lledaeniad yr Efengyl yn mysg yr holl genhedloedd; a dengys Actau yr Apostolion pa fodd y defnyddiwyd Rhagluniaeth Ddwyfol er cyrhaedd yr amcan gogoneddus hwn. Yr oedd y Gwaredwr adgyfodedig yn ben uwch law pob peth i'r eglwys. Efe oedd i ddadblygu llyfr hanesiaeth, a llywodraethu holl ddigwyddiadau amser er cynhydd a llwyddiant Ei eglwys. Yr oedd y saith seren yn Ei law ddehau, ac yr oedd i reoli eu symmudiadau a chyfranu eu disgleirdeb.

Wedi i Phylip gyflawni ei genadwri yn Samaria, cyfarwyddwyd ef gan angel yr Arglwydd i fyned "tu a'r dehau, i'r ffordd sydd yn myned i waered o Jerusalem i Gaza, yr hon sydd anghyfannedd," dyma y ffordd union i'r Aipht. Gan ufuddhau yn ebrwydd i'r cenhad nefol, arweiniwyd ef yn fuan at y person enwog yr hwn oedd yn awr i gael ei ychwanegu at nifer y disgyblion, a'r cyntaf i gario yr Efengyl i'w gydwladwyr yn Ethiopia. Gorwedda ei wlad—Abyssinia ddiweddar fel y tybir—yn mhell i'r dehau o'r Aipht, a dygwyd enw y frenhines—Candace—gan amryw a deyrnasasant yn y parth hyny o Africa. Daliai y dyn yma y radd uwchaf yn y deyrnas, ac yr oedd yn fwy byth i'w anrhydedd ei fod yn ddifrifol yn ei gariad at y gwirionedd, a'i awydd i addoli y bywiol Dduw yn unig. Yr oedd wedi gadael eilun-addoliaethau Ethiopia, ac wedi myned i Jerusalem i addoli y Duw oedd wedi gosod ei enw yno.

Nid arddefodwr ydoedd yn unig mewn crefydd, yn foddlawn ar fyned i'r ddinas sanctaidd i gyflawni ei addunedau ac addoli yn y Deml. Er wedi ei eni mewn gwlad baganaidd, yr oedd wedi ymwrthod ag eilun-addoliaeth, ac yr oedd yn un o'r "gwŷr bucheddol" hyny a addolent Dduw Israel, ac a ymawyddent am wybod Ei air. Efallai mai yn awr am y waith gyntaf y gallodd gael, ac yn debygol am swm mawr, ran o'r ysgrythyrau sanctaidd, a fawr werthfawrogai fel moddion i eangu ei adnabyddiaeth â chrefydd yr Iuddewon, a chynhal ei gariad at y gwirion-

edd ar ei ddychweliad i Ethiopia. Fel edmygydd y grefydd hono, o Ddwyfol darddiad yr hon yr oedd wedi ei ddarbwyllo, gwnai ar ei fynediad i Jerusalem dalu ei foesgyfarchiadau i'r archoffeiriad, y Rhaglaw Rhufeinig, a henuriaid y bobl, oddiwrth y rhai ni chlywai ddim am y Messiah. Ond yr oedd yn ceisio yn ddifrifol am ddoethineb Ddwyfol, ac yr oedd y rhol hyny o'r prophwyd Esaiah yn cynhwys geiriau y bywyd tragywyddol, ac ond eu deall yn iawn, a'u gwnaent ef yn ddoeth i iachawdwriaeth.

Y wybodaeth hono am Grist, nad allai, neu na wnai ei gyfeillion, y gwŷr mawrion yn Jerusalem, gyfranu, a roddodd Jehofah yn awr fel yr oedd yn dychwelyd i'w gartref. Da y gallasai ddyweyd, "Deallais fwy na'm holl athrawon, o herwydd dy dystiolaethau yw fy myfyrdod." Defnyddiai y moddion â pha rai ei hymddiriedwyd, ac ni wnai y Gwaredwr a ddywedodd "pob un sydd yn ceisio sydd yn cael," oddef iddo geisio yn ofer.

Mae gan y gŵr mawr yma daith faith a throm, ond â yr oriau heibio yn gyflym fel y darllena ei lyfr gorwerthfawr. Profodd y cyfieithiad Groeg a ddarllenai o fendith fawr iddo ef, fel y gwnaeth i lawer ereill o wledydd tramor, y rhai, oni bai y Deg a Thriugain hyn, nad allasent ddarllen y llyfr ysbrydoledig. "A'r lle o'r ysgrythyr yr oedd efe yn ei ddarllain, oedd hwn, Fel dafad i'r lladdfa yr arweiniwyd ef; ac fel oen ger bron ei gneifiwr yn fud, felly nid agorodd efe ei enau; yn ei ostyngiad ei farn ef a dynwyd ymaith; eithr pwy a draetha ei genhedlaeth ef? oblegid dygir ei fywyd ef oddi ar y ddaear."

Nid rhaid i ni sydd wedi darllen y rhan yma yn fynych, a chennym y Testament Newydd i daflu goleuni ar yr Hen, gael neb i ddyweyd wrthym am bwy y llefara y prophwyd yma. Gyda'r datguddiad cyflawn hyn—y Testament Newydd yw yr esboniad goreu ar yr Hen—mae myrddiynau wedi eu dwyfol oleuo cyn iddynt glywed llais byw. Ni wyddai y gŵr mawr yma efallai fod y Messiah wedi Ei addaw, ac fel y darllenai am Ei ddïoddefiadau, anghyfiawnder Ei farnwyr, a mawredd dirgeledig Ei genhedlaeth, yr oedd yn hollol analluog i ddeall am bwy y llefarai y prophwyd. Gallwn dybied iddo weddio yn gystal a darllen, ei fod yn gywir a difrifol o'r mwyaf yn ei awydd i gael ei oleuo, ac yn awr yr ydym yn gweled mor fuan y llawn foddlonwyd ei ddymuniadau.

Defnyddiodd Jehofah foddion i'w arwain i'r gwirionedd. Cyfarwyddir Phylip i gyfarch y darllenwr difrifol yma o'r gair, gofyniad yr hwn, na roddwyd mewn llais ymholgar difoes, ond gyda phryder dwfn, a atebwyd yn ddiolchgar, fel ei gofynwyd yn garedig. Pan y darllenwn yr Ysgrythyrau Sanctaidd, gwnai pob un yn dda i roddi y gofyniad hwn iddo ei hun, "A wyt ti yn deall y pethau yr wyt yn eu darllain?" yn lle ymfoddloni ar swn a golwg y geiriau yn unig. Croesawodd y gŵr mawr yma yr ymofyniad, ac ymddygodd yn garedig at yr ymofynydd. "Ac efe a ddymunodd ar Phylip ddyfod i fynu, ac eistedd gyd ag ef." Nid oedd uwchlaw dysgu gan yr efengylydd, yr hwn "a agorodd ei enau, ac a ddechreuodd ar yr Ysgrythyr honno, ac a bregethodd iddo yr Iesu."

Ni chyflwynwyd y dystiolaeth yma am Grist yn ofer. Yr oedd yn air y bywyd i'r Ethiopiad, fel y mae wedi profi yn fynych i ereill. Lle mae y galon yn llefain am y gwirionedd, mae y gwaith mawr o ddychweliad yn fynych yn gyflym iawn; ac yma, nid cynt yr arddanghoswyd hawliau Iesu, nag eu cydnabyddwyd ac yr ufuddhawyd iddynt. Dywedodd Phylip lawer mwy nag a gofnodir yma, a dysgodd ef am orchymyn mawr yr Iesu i wneyd disgyblion o'r holl genhedloedd, gan eu bedyddio hwynt yn enw yr Arglwydd Iesu. Dymunai y disgybl newydd yma arddel ei ffydd; ac ar ei broffes syml, "Yr wyf yn credu fod Iesu Grist yn Fab Duw," "hwy a aethant i waered ill dau i'r dwfr, Phylip a'r eunuch, ac efe a'i bedyddiodd ef."

Hyd eto nid oedd yr un dychweledig hwn wedi bod yn dyst o'r un wyrth i hawlio ei ffydd, ond yn union ar ol ei fedydd, fe'i ffafriwyd ag un i'w chadarnhau. "A phan ddaethant i fynu o'r dwfr, Yspryd yr Arglwydd a gipiodd Phylip ymaith, ac ni welodd yr eunuch ef mwy. Ac efe a aeth ar hŷd ei ffordd ei hun yn llawen." Cymmerodd y digwyddiad cofiadwy yma le yn agos i Gaza, yn nghwr deheuol eithaf Judea, yn agos i lan Môr y Canoldir; ac yr oedd Azotus, yr hen Asdod, lle y cludwyd Phylip yr efengylydd yn wyrthiol, oddeutu deg milldir ar hugain yn mhellach i'r gogledd. Teithiodd oddiyno i Ceserea ar hyd glan y môr, ac "efe a efengylodd ym mhob dinas" ar ei daith, megis Joppa, Lŷda, a Saron.

(Darllener Esaiah liii. Actau viii. 26—40.)

## PENNOD VIII.

### DYCHWELIAD SAUL.

TERFYNA hanes methyrdod Stephan trwy ddyweyd wrthym, "a'r tystion a ddodasant eu dillad wrth draed dyn ieuangc a elwid Saul." Pwy a safodd gerllaw ac a welodd y brwdfrydedd gyda pha un yr ymaflodd y dyn ieuangc hwnw yn ngwaith dychrynllyd y dydd, a dybiasai yn ddichonadwy y byddai iddo yn mhen oddeutu dwy flynedd broffesu ffydd y merthyr, a dyfod yn bregethwr selog Efengyl Iesu? Ond yr oedd gan Grist bob awdurdod yn y nef ac ar y ddaear, ac arferodd yn drugarog yr awdurdod hwnw mewn darostwng gelyniaeth Ei elyn mwyaf, ac achub y penaf o bechaduriaid. Yr oedd rhagoriaethau naturiol yn Saul o Tarsus, a wnaent ei wasanaeth o werth mawr i unrhyw achos yn mha un y caent eu defnyddio, ac amcan y Gwaredwr oedd eu sicrhau hwynt i'w wasanaeth Ef, a lledaeniad Ei deyrnas.

Yr oedd yr edrychwr ewyllysgar ar y merthyrdod Cristionogol cyntaf wedi dyfod yn awr yn erlidiwr ffyrnig, ac fel bwystfil ysglyfaethus cynddeiriog, yn chwythu bygythion o gelanedd yn erbyn praidd y Bugail Da. Yr ydym wedi gweled mai ychydig o ddisgyblion adawyd yn Jeruar ol marwolaeth Stephan, a thrwy hyn cynhygiodd Saul i'w canlyn hwynt i'w encilfanau, a dyfod a hwynt yn garcharorion i Jerusalem. Yr oeddynt wedi ffoi allan o'r diriogaeth Iuddewig, ac yr oedd llawer o honynt wedi alltudio eu hunain i Syria, ac wedi cael noddfa yn Damascus, ei phrifddinas. Yn ei sel yn erbyn canlynwyr y Gwaredwr, cynhygiodd Saul ei wasanaeth i'r archoffeiriad at yr hwn yr aeth "ac a ddeisyfiodd ganddo lythyrau i Ddamascus, at y Synagogau, fel os cai efe neb o'r ffordd hon, na gwŷr na gwragedd, y gallai efe eu dwyn hwy yn rhwym i Jerusalem."

Mae gennym ychydig o sylwadau ar hanes blaenorol Saul y byddai yn dda eu dwyn i mewn yma. Yr oedd o linach Iuddewig bur, yr oedd ei rieni o bob ochr yn Iuddewon, canys hyn yw ystyr yr ymadrodd, "yn Hebrëwr o'r Hebreaid." Perthynai ei deulu i lwyth Benjamin, ond fel llawer o'r Iuddewon yr oeddynt wedi eu chwalu ar led, a ganwyd Saul

yn Tarsus, yn Cilicia. O enedigaeth yr oedd yn ddinasydd Rhufeinig, a mwynhaodd yn debygol yr anrhydedd hyny, o herwydd i Augustus ei gyfranu i ddinaswyr Tarsus ar gyfrif eu ffyddlondeb i'w achosion. "Enwaedwyd arno yr wythfed dydd," a dygwyd ef i fyny i gadw yr holl ddefodau Iuddewig gyda'r manylwch mwyaf, "yn ol y Ddeddf yn Pharisead," ac "yn ol y cyfiawnder sydd yn y Ddeddf, yn ddiargyhoedd."

Tybir fod ei dad wedi cynhorthwyo y fyddin Rufeinig, ac wedi cyfoethogi ei hun trwy ddarparu pebyll i'r milwyr; ac o hyn mae yr alwedigaeth o "wneuthurwr-pebyll" broffesid gan y mab, yr ysbryd milwrol ddanghoswyd cyn ei ddychweliad, a'r wybodaeth eang o bethau milwrol arddanghoswyd yn ei ysgrifeniadau.

Anfonwyd ef i Jerusalem gael iddo fyned i ysgol Gamaliel, y doctor Iuddewig enwog, lle y cyrhaeddodd ragoriaeth mawr, ac y cynhyddodd yn y grefydd Iuddewig uwch law llawer o'i gyfoedion, wedi ystorio ei feddwl â thraddodiadau Iuddewig. Yr oedd wedi ei "athrawiaethu yn ol manylaf gyfraith y tadau." Gwna y parch a ennillodd fel hyn gyfrif am ei lwyddiant pan yr aeth at yr archoffeiriad i ddeisyf am "lythyrau i Damascus."

Nid cynt y derbyniodd ei awdurdodiad, nag y defnyddiodd gyda'r llymder mwyaf y gallu a roddai iddo. Gadawodd y ddinas, yn cael ei ddylyn gan warchodlu mor ffyrnig a llidiog ag ef ei hun, ac ar ei ffordd i Damascus, a chyn iddo gael cyfle i gyflwyno ei lythyrau, dechreuodd ar ei waith dychrynllyd. Erlidiodd eglwys Dduw ac anrheithiodd hi, a chosbodd y saint "ym mhob synagog yn fynych," gan eu cymhell "i gablu." Gorfodai yr erlidwyr paganaidd i'r Cristionogion o dan boen marwolaeth i wadu Crist, a'i felldithio; ac ymddengys i Saul osod prawf cyffelyb, yr hwn a barai i wrthgilwyr i wadu Crist yn hytrach na marw drosto. Ni foddlonai ar ddal y disgyblion a gai yn y synagogau, âi i mewn i bob tŷ y tybid eu bod, gan "lusgo allan wŷr a gwragedd, efe a'u rhoddes yngharchar." Parodd y dychryn gynhyrchwyd gan y son am y gweithredoedd hyn i lawer geisio am ddiogelwch trwy ffoi i ddinasoedd tramor; pa bryd bynag y deuai y boblogaeth yn ddigon cynhyrfus i'w llabyddio hwynt i farwolaeth, cytunai bob amser yn y weithred, canys fel hyn deallwn ei eiriau, "mi a roddais farn yn eu herbyn."

Fel hyn dylynodd ei yrfa ddychrynllyd, gan fyned yn ei sel yn mhell tu hwnt i'w genadwri â pha un ei hymddiriedwyd, a chan fygwth llwyr ddinystr eglwys Crist, oedd yn awr wedi ei mawr "anrheithio" trwy ei ymroad dychrynllyd. Ond y mae Damascus yn awr yn "agos," ac yno y mae i agor ei genadwri ac arddangos ei awdurdod. Mae yn awr yn ganol dydd, o dan haul disglaer, ac y mae yr osgordd yn gyru yn mlaen yn ffyrnig yn nghanol llwch a gwres, gan sychedu yn unig am fyned i mewn i'r ddinas, a sicrhau yr ysglyfaeth. Y fath ddychryn raid fod wedi dal calonau diamddiffyn yr ymnoddwyr Cristionogol! Yr oeddynt wedi clywed "gan lawer am y gŵr hwn," ac os pallai eu ffydd, gwyddent fod dinystr wrth law.

Mawr oedd gallu Saul, ond anfeidrol oedd gallu Iesu, ac yr oedd yr amser wedi dyfod pan yr oedd y gallu hwnw i orchfygu. "Yn ddisymmwth llewyrchodd o'i amgylch oleuni o'r nef." "Ac efe (a'i gwmni gwrol) a syrthiodd ar y ddaear," ac efe "a glybu lais yn dywedyd wrtho, Saul, Saul, paham yr wyt yn fy erlid i? Yntau a ddywedodd, Pwy wyt ti. Arglwydd? A'r Arglwydd a ddywedodd, Myfi yw Iesu, yr hwn yr wyt ti yn ei erlid. Caled yw i ti wingo yn erbyn y symbylau. Yntau gan grynu ac a braw arno, a ddywedodd, Arglwydd, beth a fynni di i mi ei wneuthur? A'r Arglwydd a ddywedodd wrtho, Cyfod, a dos i'r ddinas, ac fe a ddywedir i ti pa beth sy raid i ti ei wneuthur. A'r gwŷr oedd yn cyd-deithio ag ef a safasant yn fud, gan glywed y llais, ac heb weled neb."

Fel hyn y darostyngwyd calon yr erlidiwr hwn trwy allu a gras yr Arglwydd Iesu. Pan y gwybu mai y goleuni o'r nef oedd gogoniant Iesu, ac mai y llais a'i cyfarchai oedd llais Iesu, cwympodd ei holl enaid mewn ymostyngiad isel a chariadlawn, a daeth yn was ewyllysgar i'r Gwaredwr. Nid yn unig peidiai ag erlid y Cristionogion, ond deisyfai gael gwasanaethu Crist yn ffyddlawn; am hyn gofyna, "Arglwydd beth a fynni di i mi ei wneuthur?" Nis gall y rhai hyny a wadant ddichonoldeb dychweliad disymmwth yr enaid at Dduw addef yn gyson wirionedd yr hanes rhyfeddol hyn, canys nid oedd yma ddim gweithrediad graddol o gyfranu goleuni a dylanwadu ar y galon i ganlyn ei arweiniad. Ymdreiddiodd y goleuni ar unwaith i'r meddwl, a dygodd yr enaid yn gaeth. Yr oedd y dychweledig mor llwyr gydymffurfiol ag ewyllys

Crist, fel y derbyniodd yn uniongyrchol ei genadwri i fyned i wasanaeth ei Arglwydd a'i Feistr newydd. Nid oedd wedi codi, a sefyll ar ei draed, cyn i'r Gwaredwr, ddyweyd: "Canys i hyn yr ymddangosais i ti, i'th osod ti yn weinidog ac yn dyst o'r pethau a welaist, ac o'r pethau yr ymddangosaf i ti ynddynt; gan dy wared ti oddiwrth y bobl, a'r cenhedloedd, at y rhai yr ydwyf yn dy anfon di yr awrhon. I agoryd eu llygaid, ac i'w troi o dywyllwch i oleuni, ac o feddiant Satan at Dduw, fel y derbyniont faddeuant pechodau, a chyfran yn mysg y rhai a sancteiddiwyd trwy y ffydd sydd ynof fi."

Dengys iaith Iesu mewn atebiad i ofyniad Saul Ei gydymdeimlad dwfn â'i ganlynwyr distadl. Yr oedd Ef wedi ymddyrchafu uwchlaw Ei erlidwyr, ac eto yr oedd Ef yn cael Ei erlid yn aelodau Ei gorff dirgeledig, canys fel y sylwodd un yn dda "sethrid ar y troed, a gwaeddai y tafod allan." Yr ydym yn cael cysur anfeidrol oddiwrth gydymdeimlad Crist, "canys nid oes i ni arch-offeiriad heb fedru cyd-ddïoddef gydâ'n gwendid ni; ond wedi ei demtio ym mhob peth yr un ffunud â ninnau, etto heb bechod."

Rhydd dychweliad Saul atebiad digonol i'r rhai hyny a haerant y gwna cywirdeb yn myntumiad barnau crefyddol sicrhau diogelwch y rhai hyny a'u daliant, beth bynag fyddo y barnau hyny. Dywedir wrthym fod yr eilun-addolwr, y Mahometan, yr Iuddew, y Socin, os yn unig yn gywir a chydwybodol, llawn mor ddïogel a'r crediniwr yn Nghrist, ac y gwna yr holl lwybrau a gymmer dynion os dylynir hwy yn ddiwyd, arwain i'r un nefoedd. Gellid yr un mor wir honi y gwnai unrhyw lwybr os teithid gyda dyfal barhad arwain y teithiwr i'r ddinas y chwenychai gyrhaedd; neu y gwnai unrhyw lymaid a yfai y claf, symmud ei afiechyd os bydd ganddo yn unig ffydd yn ei allu. Nid oedd dim angenrheidrwydd am ddychweliad Saul, os yw cywirdeb a sel yn myntumiad barnau a'u lledaeniad hwynt yn ddigon i sicrhau dïogelwch, canys dywed, "Minnau yn wir a dybiais ynof fy hun, fod yn rhaid i mi wneuthur llawer o bethau yn erbyn enw Iesu o Nazareth." Ac eto yr oedd ar y ffordd i golledigaeth, "y penaf o bechaduriaid," pan yr oedd fel hyn yn gywir a difrifol dros "grefydd yr Iuddewon."

(Darllener Actau ix. 1—31.)

## PENNOD IX.

### SAUL YN DAMASCUS A JERUSALEM.

AMDDIFADODD y goleuni mwy na disgleirdeb yr haul, a saethodd allan o ogoniant y Gwaredwr, yr erlidiwr am dymhor o'i olwg, ac yr oedd yn rhaid i'w gyd-deithwyr ei arwain i'r ddinas gyfagos Damascus, lle yr arosodd dri diwrnod cyn i'r cen syrthio oddiar ei lygaid, ac yr adferwyd yn drugarog ei olwg. Yn y cyfamser tywynodd goleuni nefol ar ei enaid; dwfn argyhoeddwyd ef o'i bechodau, ac yn neillduol o'i euogrwydd mawr yn erlid Iesu yn Ei ganlynwyr. Nid oedd y dyddiau hyny o dywyllwch yn "ddyddiau drwg," er wedi eu treulio mewn dallineb, heb eu lloni gan bresennoldeb neb a allasai weinyddu er ei gysur, ac heb ei ymborth beunyddiol, a waharddid iddo ei gymmeryd gan ei boenau mewnol. Hyd eto, er wedi ei alw gan yr Arglwydd i fod yn apostol newydd, nid oedd wedi ei dderbyn gan Ei ddisgyblion, na'i gydnabod fel un o'u rhifedi, ond er ei fawr gysur "efe a welodd mewn weledigaeth ŵr a'i enw Ananïas, yn dyfod i mewn, ac yn dodi ei law arno, fel y gwelai eilwaith;" ac yn awr sylweddolir y weledigaeth hono.

Anfonwyd Ananïas, un o'r brodyr ffyddlawn yn Nghrist, nid heb wrthresymiad, i'r tŷ yn yr hwn yr oedd y dyn dall yma yn llettya. Gorchfygwyd ofnau Ananïas pan y "dywedodd yr Arglwydd wrtho, Dos ymaith; canys y mae hwn yn llestr etholedig i mi, i ddwyn fy enw ger bron y Cenhedloedd, a brenhinoedd a phlant Israel." Beth oedd hyfrydwch y dïoddefydd truan distadl pan yr aeth Ananïas ar ddiwedd tri diwrnod "i mewn i'r tŷ; ac wedi dodi ei ddwylaw arno, efe a ddywedodd, Y brawd Saul, yr Arglwydd a'm hanfonodd i (Iesu yr hwn a ymddangosodd i ti ar y ffordd y daethost) fel y gwelych drachefn, ac y'th lanwer â'r Ysbryd Glân. Ac yn ebrwydd y syrthiodd oddiwrth ei lygaid ef megis cen; ac efe a gafodd ei olwg yn y man; ac efe a gyfododd, ac a fedyddiwyd. Ac wedi iddo gymmeryd bwyd, efe a gryfhaodd. A bu Saul gyd â'r disgyblion oedd yn Damascus dalm o ddyddiau."



LEIGHTON, BROTHERS.

Derbyniol iawn gan ei enaid adnewyddedig oedd y tiriondeb a dderbyniodd oddiwrth ddisgyblion Iesu, y rhai yn awr a'i hystyrient ef fel eu "brawd," ond nid ganddynt hwn y dysgodd yr Efengyl, canys dywed wrth y Galatiaid, "Nid gan ddyn y derbyniais i hi, nac y'm dysgwyd; eithr trwy ddatguddiad Iesu Grist." Yn ystod y tri diwrnod hyny o ddallineb, dysgodd ddigon yn ychwanegol at y datguddiad gogoneddus ar ddydd ei ddychweliad, i'w addasu ef i bregethu yr Efengyl fel ag "yn ebrwydd yn y synagogau efe a bregethodd Grist, mai efe yw Mab Duw."

Parwyd syndod mawr yn naturiol pan y dechreuodd yr erlidiwr yma bregethu gyntaf yn Damascus. "A phawb a'r a'i clybu ef, a synnasant, ac a ddywedasant, Onid hwn yw'r un oedd yn difetha yn Jerusalem y rhai alwent ar yr enw hwn, ac a ddaeth yma er mwyn hyn, fel y dygai hwy yn rhwym at yr archoffeiriaid? Eithr Saul a gynnyddodd fwy-fwy o nerth, ac a orchfygodd yr Iuddewon oedd yn preswylio yn Damascus, gan gadarnhau mai hwn yw Crist." Wedi cymmeryd ei le yn mysg pobl Crist, a rhoddi ei dystiolaeth i Fessïaeth Iesu, galwyd ef am dymhor i neillduedd, yn ystod rhan o'r tair blynedd a aeth heibio cyn ei ddychweliad i Jerusalem. Gwyddai ddigon i roddi fel hyn ei dystiolaeth i Grist, ond nid digon i'w gyfaddasu at y gwaith mawr hwnw oedd ganddo i'w gyflawni fel apostol y Cenhedloedd. Yr oedd ar ei galon hefyd eisieu cael ei haddysgu a'i disgyblu yn ysgol Crist, ac arweiniwyd ef gan hyny i anialwch Arabia, lle y cadwodd y Gwaredwr gymmundeb ag ef, ac a'i gwnaeth fel saeth loew yn Ei law. Yr oedd yr apostolion ereill wedi cael mwynhau y fantais o weled gwyrthiau a chlywed pregethau yr Arglwydd am dros dair blynedd, a chan fod Saul i fod yn apostol Crist, yr oedd i fwynhau y daioni dirfawr o gymmundeb maith ag Ef yn ystod y tymhor yma o neillduedd yn Niffaethwch Arabia. Tybir mai ar y pryd yma y cafodd y weledigaeth ryfeddol am yr hon y llefara wrth y Corinthiaid: "Mi a adwaenwn ddyn yng Nghrist erys rhagor i bedair blynedd ar ddeg (pa un ai yn y corph, ni wn; ai allan o'r corph, ni wn i; Duw a ŵyr); y cyfryw un a gipiwyd i fynu hyd y drydedd nef. Ac mi a adwaenwn y cyfryw ddyn (pa un ai yn y corph, ai allan o'r corph, ni wn i; Duw a ŵyr), ei gipio ef i fynu i baradwys, ac iddo glywed geiriau anrhaethadwy, y rhai nid yw gyfreithlon i ddyn eu hadrodd." Gallwn dybied mai yn

awr y dysgodd holl gyngor Duw, ac y derbyniodd y wybodaeth eang a thrwyadl hono o drefn achub, ystyr yr holl gyfundrefn Foesenaidd, arwyddluniau a chysgodau y Ddeddf, yr athrawiaeth fawr o gyfiawnhad trwy ffydd yn unig, rhagorfreintiau a dyledswyddau Cristionogion, a'r holl wirioneddau hyny a draethodd yn ei bregethau ac a ysgrifenodd yn ei epistolau.

Am dymhor, arhosodd yn Damascus, yn cael ei fawrygu a'i garu yn fawr gan y disgyblion oeddynt wedi disgwyl am ei ddyfodiad cyntaf gyda'r fath ofn. Yma y parhaodd i ddadleu hawliau Iesu, ac i'w amddiffyn gyda nerth anorchfygol, gan wrthbrofi yr holl wrthwynebwyr gan ba rai yr ymosodid arno. Nis gallai y llafur hyn i Paul, oedd mor niweidiol i'r gyfundrefn lygredig hono o draddodiadau a seremonïau a alwa ef "y grefydd Iuddewig," lai na thynu allan y gwrthwynebiad mwyaf egniol gan elynion y Gwaredwr. Yn analluog i wrthbrofi rhesymau yr apostol, "cyd-ymgynghorodd yr Iuddewon i'w ladd ef," a chan nad oedd ganddynt allu i sicrhau ei farwolaeth trwy foddion cyfreithlon, penderfynasant ar fradlofruddiaeth.

Yr oedd Damascus yn ddinas gaerog, gyda llawer o byrth, a gwylid yr holl byrth hyn nos a dydd gan y cydfradwyr Iuddewig hyn, y rhai mae yn rhaid eu bod yn lliosog iawn yn gystal a phenderfynol. Yr oedd bywyd Saul yn rhy werthfawr i gael ei ddinystrio gan y dwylaw halogedig hyn, mor fuan ar ol iddo gael ei alw at waith Crist; ac yr oedd y disgyblion yn ei garu yn rhy dda i adael iddo drengu os gallent ochelyd y trychineb mawr yma, ac arbed ei fywyd gwerthfawr i'r eglwys a theyrnas eu Harglwydd. Buasent yn ei gadw yn llawen i'w hyfforddi trwy ei esiampl, a'u haddysgu hwynt trwy y "datguddiedigaethau" a gafodd, ond yn awr rhaid iddynt ymadael ag ef, felly hwy "a'i cymmerasant ef o hŷd nos, ac a'i gollyngasant i waered dros y mur mewn basged."

Dyna oedd canlyniad y genadwri a dderbyniodd Saul gan yr archoffeiriad a'r henuriaid yn Jerusalem; ac yn awr, ar ol tair blynedd, dychwela nid i ddyweyd pa beth a wnaeth yn erbyn Crist, ond pa beth a wnaeth Crist iddo ef. Er iddo ddiangc rhag y cydfradwyr Iuddewig yn Damascus, nid oedd ofn marw annewr arno. Yr oedd ganddo ddigon o

wroldeb i ddychwelyd i Jernsalem, a gwynebu yr awdurdodau uchel y derbyniodd eu cenadwri ddrygionus. Yr oedd yno i ddyweyd wrthynt eu bod wedi bod yn fradwyr ac yn llofruddion y gwir Fessiah, yr hwn oedd wedi darostwng ei galon, a gorchymyn i'w wasanaeth ei holl alluoedd.

Ar ei fynediad i'r ddinas, gwna ei ffordd at y disgyblion, gyda pha rai y dewisai ymgymhysgu, y rhai gyda anhawsder a dderbyniasant y newydd am ei ddychweliad. "Eithr Barnabas a'i cymmerodd ef, ac a'i dug at yr apostolion, ac a fynegodd iddynt pa fodd y gwelsai efe yr Arglwydd ar y ffordd, ac ymddiddan o hono ag ef, ac mor hŷ a fuasai efe yn Damascus yn enw yr Iesu. Ac yr oedd efe gyd â hwynt yn myned i mewn ac yn myned allan yn Jerusalem."

Yn ystod yr ymweliad byr yma gan Saul ddychweledig â Jerusalem, profodd yn ffyddlawn i achos y Gwaredwr yn nghanol peryglon mawrion. Llefarodd "yn hŷ yn enw yr Arglwydd Iesu." Galwyd ef yn dyst dros Grist, a thrwy adroddiad o'i ddychweliad ei hun, trwy ei bregethiad grymus o'r Efengyl, a'i fywyd newydd—cydffurfiedig ag esiampl Crist —rhoddodd ei dystiolaeth dros Iesu fel y Messiah. Mawr oedd ei gariad at ei frodyr, dros y rhai yr oedd ewyllys ei galon a'i weddi ar iddynt gael eu cadw, ac yr oedd Jerusalem, prif-ddinas Judea, canolbwynt dylanwad ar yr holl genhedl Iuddewig, yn fan gyfaddas ei ymdrechion mwyaf selog i arwain tŷ Israel i gydnabod y gwir Fessiah.

Yr oedd o'r pwys mwyaf i'r Iuddewon o wledydd pell ddysgu yr Efengyl, gael iddynt ei chario i'r gwledydd hyny yn mha rai y trigent, ac ymddadleuodd yr apostol gan hyny â'r "Groegiaid" hyn, neu yr Iuddewon a siaradent yr iaith Roeg. Yn ysbryd y gwas ffyddlawn yma i'r Arglwydd, dylid rhoddi sylw gofalus i'r tramorwyr lliosog ydynt yn ymweled â'n dinasoedd mawrion, yn neillduol a phrif-ddinas yr Ymerodraeth Brydeinig, na byddo iddynt ymadael o'n mysg heb ddysgu ffordd iachawdwriaeth trwy Grist. Yr ydym yn ddiffygiol iawn mewn cysondeb pan yr ydym yn afon ein cenhadon a'n Biblau i'r gwledydd pellaf, a gadael i'r ymwelwyr lliosog o'r gwledydd hyny i drigo yn ein mysg mewn anwybodaeth o'r Efengyl.

(Darllener Actau ix. 8—31. Galatiaid i. 11—24.)

## PENNOD X.

### DRWS Y FFYDD WEDI EI AGOR I'R CENHEDLOEDD.

Yr oedd yr amser yn awr wedi dyfod pan yr oedd yr Efengyl i gael ei chyhoeddi i'r Cenhedloedd yn gystal a'r Iuddewon a'r Samariaid, ac er cyrhaedd yr amcan goruchel a thrugarog hwn gan y Gwaredwr, defnyddiwyd y rhagluniaeth Ddwyfol yn y dull mwyaf hynod a dyddorol. Yr oedd yr apostol Pedr wedi myned i lawr i bregethu yr Efengyl yn mysg ei gydwladwyr yn Lyda, o ba le y galwyd ef i Joppa, lle y cododd Dorcas haelionus a diwyd o farw, "a llawer a gredasant yn yr Arglwydd" yno. Mewn trefn i sicrhau i'r paganiaid y fraint o dderbyniad i'r eglwys Gristionogol, yr oedd yn rhaid i'r Ysbryd Glân yn awr weithredu yn raslawn ar feddwl Cenhelddyn oedd yn byw yn Cæsarea, ac ar yr apostol Pedr yr hwn oedd yn Joppa, fel ag i'w dwyn i gyffyrddiad, ac anfon y goleuni lle yr oedd angen am dano ac ei taer ddymunid.

Yn gyntaf mae gennym i gyfeirio ein sylw i Cæsarea, ar dueddau Palestina, lle y cawn fyddin Rufeinig yn aros, i weini ar y llywodraethwr Rhufeinig oedd yn byw yno. Yn y fyddin yma, cynhwysedig o eilunaddolwyr Rhufeinig, yr oedd un o'r swyddogion, yr hwn oedd a chant o wŷr dano, trwy yr hyn gelwid ef yn ganwriad, yn "ŵr defosiynol, ac yn ofni Duw, ynghŷd a'i holl dŷ, ac yn gwneuthur llawer o elusenau i'r bobl, ac yn gweddio Duw yn wastadol," I'w ddarparu i dderbyn yr Efengyl, fe'i ffafriwyd â gweledigaeth nefol, yn yr hon y gwelodd "angel Duw yn dyfod i mewn atto, ac yn dywedyd wrtho, Cornelius. Ac wedi iddo graffu arno, a myned yn ofnus, efe a ddywedodd, Beth sydd, Arglwydd? Ac efe a ddywedodd wrtho, Dy weddïau di a'th elusenau a ddyrchafasant yn goffawdwriaeth ger bron Duw." Gorchymynwyd iddo anfon i Joppa am Simon Pedr, yr hwn oedd i ddyweyd wrtho beth a fynai yr Arglwydd iddo i'w wneuthur. Cylchynid ef gan weision ffyddlawn, ac anfonwyd dau o'u nifer yn union, ynghyd "a milwr defosiynol o'r rhai oedd yn aros gyd ag ef," ar y neges bwysig yma. Gan eu gadael hwynt i fyned yn mlaen yn eu taith o ryw ddeg milldir ar hugain i'r dehau ar hyd glàn y môr, gelwir am ein sylw yn awr i Joppa.

Mae Pedr, yr hwn oedd yn llettya yn nhy un Simon barcer, yn ol ei arfer yn myned oddeutu canol dydd ar nen gwastad y tŷ i weddïo, gan gael yno y neillduaeth ffafriol i addoliad, ac efallai gysgod rhag y gwres. Tra yr oedd y teulu yn paratoi y pryd canol dydd, fe ffaffriwyd Pedr â'r weledigaeth fwyaf hynod. Yr oedd efallai yn lluddedig gan eisieu bwyd, a chan syrthio i gysgu, breuddwydiodd am fwyd, ond y fath nad oedd erioed o'r blaen wedi cyfranogi o hono, ac nad allai yn awr gyfranogi heb wrthddadleu, er wrth orchymyn llais nefol.

Tra yr oedd eto yn meddwl am y weledigaeth hon, ac yn ceisio deall ei hystyr, yr oedd y cenhadon o Cæsarea wedi cyrhaedd y tŷ, ac "yn sefyll wrth y porth, ac wedi iddynt alw, hwy a ofynasant a oedd Simon, yr hwn a gyfenwid Pedr, yn llettya yno." Cyfarwyddwyd Pedr gan yr Ysbryd Glân i'w derbyn gydag hyder, a myned lle yr arweinient ef. Oddiwrthynt hwy dysgodd yr apostol am gymmeriad Cornelius, ei fod yn ŵr cyfiawn, yn un oedd yn ofni Duw, a gair da iddo yn mysg yr Iuddewon, a'i fod wedi ei gyfarwyddo gan angel sanctaidd i anfon am yr apostol, yr hwn drannoeth a aeth gyda hwynt i Cæsarea.

Pan yr aeth Pedr i dŷ y canwriad Rhufeinig, yr oedd ei feddwl wedi ei ryddhau o lawer o ragfarn Iuddewig, wedi i Dduw ei ddysgu i beidio galw neb mwy yn gyffredin neu aflan. Derbyniwyd ef gyda llawenydd, a chynhygiwyd anrhydedd iddo na wnai ei dderbyn, ond y fath ag y mae ei olynwyr ymhoniadol wedi ac yn ei fynu. Yr oedd Cornelius wedi casglu i'w dŷ gwmni, y rhai oeddynt i gydgyfranogi ag ef yn y fraint o glywed y genadwri o'r nef. Yr oedd calon y pregethwr newydd fyned trwy y cyfnewidiad mwyaf pwysig, a dechreuodd trwy gyhoeddi hyny: "Yr wyf yn deall mewn gwirionedd, nad ydyw Duw dderbyniwr wyneb; ond ym mhob cenedl, y neb sydd yn ei ofni ef, ac yn gweithredu cyfiawnder, sydd gymmeradwy ganddo ef."

Byr ydyw yr hanes sydd gennym o'r bregeth gyntaf yma o'r Efengyl i'r Cenhedloedd, ond cofnodir digon i'n llanw ni â diolchgarwch am genadwri trugaredd. Dechreua gydag adroddiad hanesyddol cywir o'r ffeithiau mawrion ar ba rai y mae yr Efengyl yn sylfaenedig. Mae y gair a anfonwyd at blant Israel, a'r hwn a wrandawyd ac a gredwyd gan lawer o honynt, yn llefaru am Iesu, ac yn Ei gyhoeddi yn "Arglwydd

pawb oll," pa un bynag ai Cenhedloedd ai Iuddewon. Yr oedd wedi Ei ragflaenu gan Ioan Fedyddiwr, ac wedi Ei eneinio fel y Messiah trwy ddisgyniad yr Ysbryd Glân arno ddiwrnod Ei fedydd. Yr oedd wedi myned "o amgylch gan wneuthur daioni, ac iachau pawb a'r oedd wedi eu gorthrymmu gan ddiafol; oblegid yr oedd Duw gyd ag ef." Yr oedd Pedr wedi bod gydag Ef, ac wedi bod yn dyst o'i wyrthiau, ei groeshoeliad, a chyda llawer ereill wedi cael prawf digonol o'i adgyfodiad.

Yr oedd y person goruchel hwn wedi Ei ordeinio "gan Dduw yn Farnwr byw a meirw." Iddo Ef gan hyny hawliai y pregethwr ysbrydoledig barch ac ymostyngiad pob dyn, ac yn neillduol y gynnulleidfa Genhedlig hono. Er mor fawr oedd y Brenhin dyrchafedig hwn, ni ddylai Ei fawredd achosi dychryn, canys mae Ei holl allu i gael ei ymarfer er iachawdwriaeth dynion.

Tra y cyhoeddid y geiriau trugarog hyn "syrthiodd yr Yspryd Glân ar bawb a oedd yn clywed y gair." Yr oedd y genhadwri yn Ddwyfol, a dygodd yr Ysbryd Dwyfol dystiolaeth i'w gwirionedd a'i nherth, gan ddylanwadu ar galonau y gwrandawyr i'w derbyn gyda ffydd a chariad; fel yn awr, pa bryd bynag y cyhoeddir yr un Efengyl gyda symlrwydd, gyda gwres, gyda phryder dwys, a gweddi am ei llwyddiant. Yn nyddiau boreuol hyny yr eglwys dylynai doniau gwyrthiol yr Ysbryd Glân bregethiad y gair, fel tystiolaeth Ddwyfol i'w wirioneedd, ac i roddi y moddion cyfaddas i'w ledaeniad helaeth yn y byd. Effeithiau felly gynhyrchwyd yn awr trwy ddisgyniad yr Ysbryd, "canys yr oeddynt yn eu clywed hwy yn llefaru â thafodau, ac yn mawrygu Duw."

Edrychodd y chwe' Iuddew dychweledig, y rhai a ddaethent gyda'r apostol, ar yr amlygiadau hyn gyda syndod. Yr oedd gan yr Iuddewon ddihareb yn eu mysg "nad yw yr Ysbryd Glân byth yn gorphwys ar bagan," ac ar y pryd hyn ymddengys fod cwmnion Pedr, er yn gredinwyr yn Nghrist, o dan ei dylanwad. Yn awr, yn ffodus, tora goleuni newydd ar eu meddyliau, a Phedr, yr hwn y diwrnod blaenorol oedd wedi llochesu yr un rhagfarnau culion, yw y cyntaf i ddyweyd: "A all neb luddias dwfr, fel na fedyddier y rhai hyn, y rhai a dderbyniasant yr Yspryd Glân, fel ninnau? Ac efe a orchymynodd eu bedyddio hwynt yn enw yr Arglwydd."

(Darllener Actau x.)



LEIGHTON, BROTHERS.

PAUL PREACHING AT ATHENS.

## PENNOD XI.

### PAUL YN PREGETHU YN ATHEN.

PAUL oedd apostol y Cenhedloedd, ac yn nghyflawniad y gwaith mawr ymddiriedwyd iddo, treuliwyd ei flynyddoedd llafur "mewn teithiau yn fynych," a chan gyrhaedd i'r tiriogaethau pellaf, fel y gellid ei gymharu i "angel yn ehedeg y'nhanol y nef, a'r Efengyl dragywyddol ganddo, i efengylu i'r rhai sydd yn trigo ar y ddaear." Tra buddiol a fyddai ei ddylyn yn yr ysbryd yn ei deithiau, i fyfyrio ar y lleoedd yn mha rai y safodd, a'r personau a anerchodd, ac i adolygu y pregethau a draddododd, pa rai, tra y cyhoeddent oll yr un gwirioneddau efengylaidd, oeddynt yn ateb i agweddau neillduol yr holl bersonau a anerchodd. Pregethodd i fychain a mawrion, i frenhinoedd a gwreng, i Iuddewon dysgedig a phaganiaid diddysg, i'r barbariaid yn Lystra a'r Groegiaid coethedig yn Athen; a byddai yn dda i ddethol ei bregeth yn y ddinas glasurol hon—"llygad Groeg"—fel eglurhad o'i ffyddlondeb yn gystal a'i ddoethineb ysbrydoledig.

Yma yr ydym yn ei gael yn disgwyl am Silas a Thimothëus, am ba rai yr oedd wedi anfon i'w gyfarfod gyda phob brys cyfleus. Yn ystod ei arosiad, yn lle ymfoddloni ar y gweithiau celfyddydol prydferth hyny o ba rai yr oedd y ddinas yn llawn, "ei yspryd a gynhyrfwyd ynddo, wrth weled y ddinas wedi ymroi i eilunod." Yr oedd gan Athen gymmaint ddwywaith o gylchwyliau ag un ddinas arall, a dywedid fod y delwau eilun-addolgar mor lliosog fel "yr oedd yn haws cael duw na dyn yno." Cafodd ddigon i ddefnyddio ei amser er lles yn ngwasanaeth ei Feistr nefol, gan yr âi ar y Sabbathau i'r Synagogau, a phregethai i'r Iuddewon a'r rhai crefyddol; a chyfarfyddai o ddydd i ddydd yn y farchnad â'r rhai oeddynt yn ewyllysgar i wrando arno.

Yr oedd yr Areopagus—Bryn Mawrth—yn enwog am lŷs y barnwyr oeddynt gynt a'r awdurdod ar fywyd a marwolaeth, ac a feddienid y pryd yma gan nifer o farnwyr hybarch, oeddynt i benderfynu dadleuon perthynol i'w duwiau a materion crefyddol. Nis gallai yr apostol sefyll yn mhresennoldeb y gynnulleidfa hono, nac yn un rhan o Athen i fynegu "pethau

dïeithr," neu wirioneddau neu ffeithiau newyddion, heb dynu llawer o sylw; canys yr "holl Atheniaid, a'r dïeithriaid y rhai oedd yn ymdeithio yno, nid oeddynt yn cymmeryd hamdden i ddim arall, ond i ddywedyd neu i glywed rhyw newydd"—ffaith o ba un rhydd yr ysgrifenwyr clasurol lawer o engreifftiau rhyfedd. Dywed un wrthym "nad oedd yno yr un siop, pendist, nac un lle cyhoeddus yn mha rai na byddent yn sefyll yn fynych am ddiwrnod cyfan, gan ddihysbyddu eu dyfais, a difyru eu gwrandawyr segur gyda chylch diddiwedd o ffug newydd."

Safai yn mhresennoldeb yr eilun-addolwyr dysgedig hyn, ac yn gylchynedig gan eu heilunod, ddyn nad oedd ganddo ddim yn ei ymddangosiad i gynhyrchu ofn neu sicrhau parch. Wrth ysgrifenu at y Corinthiaid, llefara yr apostol am dano ei hun fel "yn bresennol" yn "wael yn eu plith." Gan gasglu y cyfeiriadau wneir at ei ymddanghosiad, ac heb roi mwy o bwys arnynt nag a haeddant, dywedir wrthym ei fod yn fychan o gorpholaeth, ddim mwy na thri chufydd (pedair troedfedd a haner) o uchder, yn benfoel, yn gwaru gan dueddu at fod yn gam o ran ei ffurff. Yr oedd ei lygaid yn fywiog, craff, a siriol, yn cael eu cysgodi mewn rhan gan ei aeliau, ei drwyn braidd yn hir ac yn camu yn brydweddol, ei farf braidd yn dew, o hyd digonol, ac fel ei gudynau yn britho. Dechreuodd trwy iselhau yr eilunod a dangos ffolineb eilun-addolwyr. Ond bydded i ni sylwi ar ddoethineb a challineb ei anerchiad: "Ha wŷr Atheniaid, mi a'ch gwelaf ym mhob peth yn dra choelgrefyddol;" yn hytrach, "yr ydych yn dra ymroddedig i addoliad y galluoedd anweledig." Nis gallai lefaru am Dduw newydd, ond gallai bregethu iddynt am y "DUW NID ADWAENIR," i'r hwn yr oeddynt wedi codi allor. Efe, yr hwn "a wnaeth y byd, a phob peth sydd ynddo, gan ei fod yn Arglwydd nef a daear, nid yw yn trigo mewn temlau o waith dwylaw; ac nid â dwylaw dynion y gwasanaethir ef, fel pe bai arno eisieu dim, gan ei fod yn rhoddi i bawb fywyd, ac anadl, a phob peth oll." Yr oedd un o'u poëtau eu hunain, Aratus, wedi dyweyd, "Ei hiliogaeth ef ydym ni;" a chanlyna "gan ein bod ni yn hiliogaeth Duw, ni ddylem ni dybied fod y Duwdod yn debyg i aur, neu arian, neu faen, o gerfiad celfyddyd a dychymmyg dyn." Ond yr oedd Duw wedi edrych dros yr amseroedd yn mha rai yr oedd yn anwybodaeth hyn yn ffynu; neu i fabwysiadu aralleiriad rhagorol, "Nid




LEIGHTON, BROTHERS.

ELYMAS THE SORCERER STRUCK WITH BLINDNESS.

ymddanghosai yn cymmeryd sylw o honynt trwy anfon cenadwriaethau pendant atynt fel y gwnaeth at yr Iuddewon, ac y gwna yn awr hefyd at y Cenhedloedd." Ond yr oedd yr amser wedi dyfod yn awr i edifeirwch, a gelwid ar yr holl fyd i edifarhau, o herwydd, meddai yr apostol, "iddo osod diwrnod yn yr hwn y barna efe y byd mewn cyfiawnder, trwy y gŵr a ordeiniodd efe; gan roddi ffydd i bawb, o herwydd darfod iddo ei gyfodi ef oddiwrth y meirw."

Yr oedd enwi yr adgyfodiad yn cyfleu i'r athronwyr hyn feddylddrych yn mhell uwch law eu rheswm, a chan hyny yn enyn eu gwawd, ac felly gwatwarodd rhai, neu gwnaethant yn ysgafn o'r pwngc, gan ymddwyn at y pregethwr gyda dirmyg. Trowyd y pwngc mawr, yr hwn, os yn wir, a haeddai barch uniongyrchol, o'r neilldu hyd amser mwy cyfaddas, y fath nad yw byth yn digwydd, canys felly y gallwn ystyried difaterwch diofal eu haddewid, "Ni a'th wrandawn drachefn am y peth hwn." Fel hyn yr oedd "y peth hwn," a'r holl wirioneddau mawrion oeddynt yn pwyso arno, yn guddiedig oddiwrth wŷr doeth a deallus Athen, tra fel yr ydym newydd weled, y derbyniodd yr ymofynwyr gostyngedig a difrifol yn nhŷ Cornelius hwynt gyda llawenydd sanctaidd.

Anfynych y mae yr holl wrandawyr mewn un gynnulleidfa yn derbyn cenadwri yr Efengyl, ac anfynych y maent oll yn ei gwrthod. Felly yma, ni oddefodd yr Arglwydd i lafur Ei weision ffyddlawn fyned yn hollol ofer. Yr oedd yno "rai gwŷr a lynasant wrtho," a'u calonau wedi eu cynhyrfu gan gydymdeimlad sanctaidd â'i ysbryd, ac o dan argraffiad dwfn yn ffafr y gwirioneddau newyddion a gyhoeddai; ac yn eu mysg yr oedd dau ddychweledig o radd a phwysigrwydd uchel, un foneddiges o'r enw Damarius, ac un arall Dionysius, aelod o lŷs yr Areopagus, yr hwn oedd wedi eistedd fel un o'r barnwyr, ac wedi ei ddwyn yn gaeth, nid trwy ei hyawdledd, ond trwy rym y gwirioneddau a gyhoeddai.

Yma, gan hyny, enillwyd dychweledigion newyddion at Grist, ac fel yr ymadawai yr apostol o Athen, er fod y lliaws dinaswyr eto yn ymroddedig i athroniaeth falch a gau ac eilun-addoliaeth ddiraddiol, gadawodd yn eu mysg rai oeddynt wedi derbyn yr Efengyl, ac oeddynt yn barod i'w phroffesu, i'w hamdiffyn, ac i ddysgu ei gwirioneddau.

(Darllener Actau xvii. 16—34.)

## PENNOD XII.

### PAUL YN JERUSALEM.

YR ydym yn deall oddiwrth adroddiad o'i hanes roddir ganddo ef ei hun, fod Paul, yn ystod ei ymweliad cyntaf â Jerusalem ar ol ei ddychweliad, wedi cael rhybudd Dwyfol nad oedd ei lafur i brofi yn llwyddianus yn y ddinas hono. Tra yn gweddio yn y Deml, ymddanghosodd yr Arglwydd iddo mewn llewyg, ac a ddywedodd: "Brysia, a dos ar frys allan o Jerusalem; o herwydd ni dderbyniant dy dystiolaeth am danaf fi." "Dos ymaith; canys mi a'th anfonaf ym mhell at y Cenhedloedd." Yn mhen tymhor ar ol hyn, efe a aeth "yn rhwym yn yr ysbryd i Jerusalem," gan ufuddhau i gynhyrfiad a wyddai oedd yn Ddwyfol, ac yn barod gyda gwroldeb sanctaidd i gyfarfod unrhyw beth a ddigwyddai iddo, pa un bynag ai fflangellau, carchar, neu angeu. Nid oedd modd i ddyn oedd wedi gwneyd cymmaint i ledaenu yr achos oedd wedi ei awdurdodi i'w ddinystrio, allu aros yn gyhoeddus yn y ddinas ddrygionus heb dynu arno ei hun ddigofaint y bobl anghrediniol, a'r offeiriaid llidiog.

Rhoddwyd y cyfle i ymosodiad creulon pan y tybiwyd mewn byrbwylldra ei fod wedi arwain cenedlddyn—Trophimus, Ephesiad—i'r rhan hyny o'r Deml oedd wedi ei neillduo yn hollol i'r Iuddewon. Er nad oedd yr apostol wedi troseddu felly, "yr Iuddewon oeddent o Asia, pan welsant ef yn y Deml, a derfysgasant yr holl bobl, ac a ddodasant ddwylaw arno, gan lefain, Ha wŷr Israeliaid, cynnorthwywch; dyma y dyn sydd yn dysgu pawb ym mhob man yn erbyn y bobl, a'r gyfraith, a'r lle yma, ac ym mhellach, y Groegiaid hefyd a ddug efe i mewn i'r Deml, ac a halogodd y lle sanctaidd hwn." Oni bai cyfryngiad rhagluniaethol, profasai y canlyniadau yn farwol i Paul, canys "cynhyrfwyd y ddinas oll, a'r bobl a redodd ynghyd; ac wedi ymaelyd yn Paul, hwy a'i tynnasant ef allan o'r Deml; ac yn ebrwydd cauwyd y drysau. Ac yr oeddynt hwy yn ceisio ei ladd ef." Wedi ei waredu gan gapten y Deml oddiwrth y tyrfaoedd ffyrnig, ceisiodd yr apostol am gyfle i'w hanerch, ac wedi i ganiatad gael ei adael, a distawrwydd mawr gael ei gyrhaedd, apeliodd atynt yn eu tafodiaith Hebrëig eu hunain.



LEIGHTON, BROTHERS.

PAUL AND BARNABUS AT LYSTRA.

Adroddodd ddigwyddiadau ei fywyd, ei droedigaeth, ei dderbyniad i'r eglwys Gristionogol, ei genadwri i dystiolaethu i bawb beth oedd wedi weled a chlywed, a'r weledigaeth a welodd yn Nheml Crist, yr hwn a ddywedodd wrtho, "Dos ymaith; canys mi a'th anfonaf ym mhell at y Cenhedloedd."

Hyd yma gwrandawyd arno gydag astudrwydd dwfn, a gallasai fyned yn mlaen efallai heb aflonyddu arno pe buasai heb siarad am y Cenhedloedd fel gwrthddrychau ffafr Ddwyfol. "A hwy a'i gwrandawsant ef hyd y gair hwn, a hwy a godasant eu llef, ac a ddywedasant, Ymaith a'r cyfryw un oddi ar y ddaear; canys nid cymhwys ei fod ef yn fyw. Ac yr oeddynt yn llefain, ac yn bwrw eu dillad, ac yn taflu llwch i'r awyr."

Ar ol y frwydr yma, pan y gwnaethai y pen-capten holi Paul trwy ei fflangellu, fel y gallai trwy y dirboeniad hyn dynu allan oddiwrtho gyfaddefiad o euogrwydd fel yr achos o'r terfysg diweddar, dadleuodd yr apostol ei ddinasyddiaeth Rufeinig, a derbyniodd yn llawn y fantais i ba un y rhoddai hawl iddo, canys nid oedd yn gyfreithlawn i fflangellu Rhufeinwr, ac yn neillduol un heb ei gondemnio. "Yn ebrwydd gan hynny yr ymadawodd oddiwrtho y rhai oedd ar fedr ei holi ef; a'r pen-capten hefyd a ofnodd, pan wybu ei fod yn Rhufeiniad, ac oblegid ddarfod iddo ei rwymo."

Yr oedd dranoeth, mewn rhai ystyriaethau, hyd yn oed yn fwy pwysig na'r dydd yma o derfysg a thystiolaeth ffyddlawn am Grist. Dygir Paul i bresennoldeb y Sanhedrim hono yr oedd ei harchoffeiriad wedi rhoddi iddo ei genadwri waedlyd, ac o achos pa un yr ystyrid ef fel bradwr. Nid oedd byth ar ol y diwrnod pan yr aeth allan gyda ei osgordd trwy borth Ephraim, yn cael ei ddylyn gan fendithion yr archoffeiriad, wedi sefyll yn mhresennoldeb y cynghor oedd wedi gobeithio cael croesawu ei ddychweliad a gwobrwyo ei wasanaeth ffyddlawn. Yr oedd hyd ei droedigaeth wedi gwneyd eu gwaith yn rhy dda; ond yr oedd yr holl sel a ddanghosodd, y cableddau a achosodd, a'r marwolaethau a barodd, wedi eu hanghofio, am ei fod wedi aros yn fyr yn ei yrfa, ac wedi encilio at y ffydd yr awdurdodwyd ef i'w dinystrio.

O flaen y frawdle yma, dechreuodd amddiffyniad iddo ei hun a'r gwirioneddau mawrion o ba rai yr oedd yn bregethwr, ac awgryma y

geiriau rhagflaenol ei fod ar gyfeirio at y dull oedd wedi ei ddylyn yn ddoeth y dydd o'r blaen wrth gyfarch y dyrfa fawr yn y Deml. Nid cynt yr oedd wedi dechreu ar ei araeth nag yr archodd Ananias, trwy ei fod yn analluog i atal neu gadw y tawelfrydedd angenrheidiol i farnwr, "i'r rhai oedd yn sefyll yn ei ymyl ei daro ef ar ei enau."

Mae yn debygol nad oedd y dyn drygionus hwn trwy ei wisgiad na'r sedd a feddianai, wedi gwahaniaethu ei hun ar yr adeg hyn oddiwrth aelodau ereill y frawdle, fel y rhagfynegodd yr apostol mewn perlewyg prophwydol, heb wybod pwy a gyfarchai, ei dynged, ac a ddywedodd wrtho, "Duw a'th dery di, bared wedi ei wyn-galchu; canys a ydwyt ti yn eistedd i'm barnau i yn ol y ddeddf, a chan drosedddu y ddeddf yn peri fy nharo?" Heblaw yr anghyfiawnder a wna yn awr i Paul, ac yn erbyn pa un y gwrthddadleuodd, mae yn wybyddus iddo dwyllo yr isoffeiriaid o'u cynhaliaeth, ac fod rhai o honynt wedi marw o eisiau. Cafodd y farn fygythiwyd yn ei erbyn ei llawn gyflawni oddeutu pum mlynedd wed'yn, yn nechreu y rhyfel Iuddewig, pan y llusgwyd ef allan ac ei lladdwyd, ar ol ceisio ymguddio mewn hen ddyfrffos.

Yr oedd yn amlwg nad oedd Paul i dderbyn gwrandawiad teg a thawel yn mhresennoldeb ei farnwyr llidiog, y rhai, gyda'r holl wyddfodolion, oeddynt yn berwi drosodd yn gyflym o ddigofaint. Yn nghanol y cymhysgedd, cymmerodd yr apostol afael ar y cyfle i lefaru "am obaith adgyfodiad y meirw," fel un o'r achosion o'r gwrthwynebiad a ddioddefai. Fel hyn cafodd gyfle i roddi ei dystiolaeth dros wirionedd mawr mewn perthynas i'r hwn yr oedd ei farnwyr yn hollol groes i'w gilydd, ac ar yr un pryd wrth eu rhanu, gorchfygodd mewn mesur mawr yn y ffug brawf yma; canys "bu ymryson rhwng y Phariseaid a'r Saduceaid, a rhanwyd y llïaws."

I'w waredu rhag cynddaredd y dyrfa, "y pen-capten, yn ofni rhag tynnu Paul yn ddrylliau ganddynt, a archodd i'r milwyr fyned i waered, a'i gipio ef o'u plith hwynt, a'i ddwyn i'r castell. Yr ail nos yr Arglwydd a safodd ger llaw iddo, ac a ddywedodd, Paul, cymmer gysur; canys megis y tystiolaethaist am danaf fi yn Jerusalem, felly y mae yn rhaid i ti dystiolaethu yn Rhufain hefyd."

(Darllener Actau xxi. 17—40; xxii.; xxiii.)

# PENNOD XIII.

## PAUL YN RHUFAIN.

AR ol yr olygfa gynhyrfus yn y Sanhedrim, cafodd yr apostol Paul gyfleusderau ereill i sefyll i fyny "er ymddiffyn yr Efengyl" yn mhresennoldeb llywiawdwyr a brenhinoedd, y rhai a glywsant o'i enau hawliau Tywysog holl frenhinoedd y ddaear, ac unig ffordd iachawdwriaeth. Yn Cæsarea, safodd ger bron Felix, rhaglaw Rhufeinig y dalaeth, pan yr oedd Ananïas a'r henuriaid Iuddewig hefyd yn bresennol, a rhyw areithiwr —Tertulus—gyda hwynt, yr hwn oeddynt wedi ei gyflogi i ddadleu yn erbyn Paul.

Dwy flynedd yn ddiweddarach, yr ydym yn ei gael yn garcharor yn mhresennoldeb Festus a'r brenhin Agrippa, pan y cafodd genhad i ddywedyd drosto ei hun heb aflonyddiad, a phan yr oedd eglurdeb ei adroddiad, a medruswydd ei amddiffyniad y fath fel y dywedodd "Agrippa wrth Paul, Yr wyt ti o fewn ychydig i'm hynnill i fod yn Gristion!" i'r hyn yr atebodd yr apostol gyda moesgarwch cyfartal i'w ffyddlondeb, "Mi a ddymunwn gan Dduw, o fewn ychydig, ac yn gwbl oll, fod nid tydi yn unig, ond pawb hefyd sydd yn fy ngwrando heddyw, yn gyfryw ag wyf fi ond y rhwymau hyn."

Rhydd hanes mordaith Paul i Rufain, a gawn gyda manylder, olwg i ni ar beryglon mordwyaeth yn y cyfnod o dan sylw; caria ni yn ol i lawer o olygfeydd dyddorol y cynoesoedd, a dyru engreifftiau rhyfeddol o'r Rhagluniaeth neillduol hono oedd i gyflawni yr addewid o ymddanghosiad Paul yn Rhufain i dystiolaethu dros Grist. Gall y rhai hyny ydynt yn methu deall pa fodd i gysoni bwriad Duw gyda rhydd weithrediad a chyfrifoldeb dyn, ddysgu gwers iachus, a gorchfygu llawer ar eu dyryswch, os darllenant yn astud hanes y llongddrylliad yn Malta. Yno darllenwn fwriad Duw pan y dywedodd yr angel, "Nac ofna, Paul; rhaid i ti sefyll ger bron Cæsar; ac wele, rhoddes Duw i ti y rhai oll sydd yn morio gyd â thi." Yno hefyd yr ydym yn dysgu nad yw y bwriad yma ddim yn ein rhyddhau oddiwrth ein cyfrifoldeb, neu yr angenrheidrwydd am bob rhagocheliad er diogelwch. Mae y bwriad Dwyfol

hwnw sydd yn penderfynu y diwedd, yn cynhwys hefyd y defnydd o foddion cymhwys er ei gyrhaeddiad.

Cyrhaeddodd Paul ddinas ymerodrol Rhufain ar amser pan yr oedd yn feistres y byd, a phan oedd o'r pwys mwyaf i Grist a'i wirionedd gael eu cynrychioli yn ffyddlawn gan weinidog galluog y cyfammod newydd. Yr oedd disgyblion Crist wedi medru eu ffordd yn barod i amrywiol ranau o Itali yn gystal a Rhufain, o ba le yr oedd rhai wedi myned mor bell ag Appii-forum, oddeutu haner can' milldir o bellder, i gyfarfod a charcharor yr Arglwydd Iesu.

Yn ystod arosiad Paul yn mhrif-ddinas fawr yma y byd, cafodd y cyfleusderau mwyaf ffafriol i wneyd gwaith ei Feistr, canys yn lle cael ei daflu i garchar a'i ddedfrydu i ddistawrwydd, "cenhadwyd iddo aros wrtho ei hun, gyd â milwr oedd yn ei gadw ef." Mae yn debygol yn ol yr arferiad Rhufeinig, ei fod wedi ei gadwyno wrth ei gydymaith, fel yr oedd "yn gennad mewn cadwyn;" ond ni wnaeth y rhwymau hyn atal ei gyhoeddiad ffyddlawn o'r Efengyl, a "gair Duw ni's rhwymwyd."

Dydd byth-gofiadwy oedd hwnw, pan y daeth "llawer atto ef i'w letty, i'r rhai y tystiolaethodd ac yr eglurodd efe deyrnas Dduw, gan gynghori iddynt y pethau am yr Iesu, allan o gyfraith Moses, a'r prophwydi, o'r bore hyd yr hwyr;" ac yr oedd ei ganlyniadau yr un fath a chyffredin eto ar ol diwrnod o lafur ffyddlawn yn ngwasanaeth Crist, "a rhai a gredasant i'r pethau a ddywedasid, a rhai ni chredasant." Galwodd y gwrthodiad gwirfoddol o'r Efengyl, ddanghoswyd gan ran o'r cyfarfod, am rybudd ffyddlawn o enau yr apostol o'r canlyniadau a ddylynent. Nid oedd yr un esgusawd dros y rhai hyny oeddynt yn meddu Ysgrythyrau yr Hen Destament—y Gyfraith a'r prophwydi—a'r rhai oeddynt wedi eu dysgu i ddisgwyl am ddyfodiad y Messiah, os gwrthodent hawliau Iesu o Nazareth. Profent eu hunain yn y sefyllfa ddall a chaled hono ddarluniwyd gan Esaiah, trwy yr hwn yr oedd yr Ysbryd Glân wedi dyweyd: "Dos at y bobl yma, a dywed, Yn clywed y clywch, ac ni ddeallwch, ac yn gweled y gwelwch, ac ni chanfyddwch; canys brasâwyd calon y bobl hyn, a thrwm y clywsant â'u clustiau, a'u llygaid a gauasant; rhag iddynt weled â'u llygaid, a chlywed â'u clustiau, a deall â'r galon, a dychwelyd, ac i mi eu hiachâu hwynt."

Ar ol y gwrthodiad penderfynol yma o'r Efengyl o du y penaethiaid Iuddewig, hysbysodd yr apostol iddynt fod ei bendithion i gael eu cyfranu i'r paganiaid. Taflwyd tŷ Paul yn awr yn agored i bawb a ewyllysient wrando am Grist. Yr oedd Rhufain baganaidd yn fwy goddefol na Jerusalem, neu Rhufain babaidd, fel y parhaodd Paul "gan bregethu teyrnas Dduw, ac athrawiaethu y pethau am yr Arglwydd Iesu Grist, gyd â phob hyfder, yn ddiwahardd."

Yn ffodus, yr ydym ni wedi byw i weled yr amser yn mha un y mae y fendith o ryddid crefyddol wedi ei henill i yn agos holl Itali, a phan y mae tebygrwydd y sicrheir yr un fendith hefyd i Rufain. Mae y gormes a ataliai ddarlleniad gair Duw, a phroffes o'r Efengyl yn ei symlrwydd, trwy ragluniaeth Duw, wedi ei ddymchwelyd; ac o dan darian rhyddid crefyddol, mae llawer yn gwneyd yn awr yn Itali, yr hyn a wnaeth yr apostol Paul dros ddeunaw cant o flynyddoedd yn ol. Rhoddir yr Ysgrythyrau Sanctaidd mewn rhifedi mawr yn nwylaw yr Italiaid, y rhai a'u derbyniant gydag awyddfryd mawr, ac heblaw eu darllen yn y dirgel, ymgynnullant yn eu tai i geisio am gynhorthwy eu gilydd i ddeall eu meddwl sanctaidd, ac i weddio am oleuni Dwyfol.

Mae Cristionogaeth yn awr yn cael ei hadfywhau yn y wlad hono, lle am oesau y mae wedi ei chladdu fel corff o'r hwn yr oedd bywyd wedi hir ymadael. Yr oedd y corff hwnw wedi ei eneinio â'r peraroglau mwyaf hyfryd; mae offeiriad wedi ceisio celu ei aroglau drewedig fel yr ysgydwent y thuser yn ei bresennoldeb; mae tywyllwch y bedd wedi ei sirioli gan y lampau wedi eu trwsio yn ofalus ddydd a nos â dwylaw offeiriadol; ac y mae y blodeu prydferthaf wedi eu gosod ar y corff ac o'i amgylch, i guddio golwg marwolaeth; ond eto dychrynfeydd marwolaeth sydd wedi teyrnasu. Ond yn awr mae y Gwaredwr wedi dyfod yn Ei holl allu a'i ras, ac wedi sefyll ger bron y bedd, gan lefain â llef uchel, "Tyred allan!" ac yr ydym yn gweled bywyd yn lle marwolaeth; a'n gwaith ni yw yr un syml a bendigedig o ufuddhau i orchymyn Iesu pan yr adfywhaodd gorff Lazarus, i ddatod dillad y bedd, ac i gymmeryd ymaith rwymau marwolaeth. "Gollyngwch ef yn rhydd, a gadewch iddo fyned ymaith."

(Darllener Actau xxviii. 16—31.)

## PENNOD XIV.

### Y SAITH EGLWYS YN ASIA.

Yr oedd Asia Leiaf yn un o olygfeydd boreuaf llafur apostolaidd, ac yn ei dinasoedd prydferth yr oedd llawer a adawsant eilun-addoliaeth a drygau paganiaeth am ffydd Crist. Planwyd saith eglwys Asia mewn dinasoedd yn nherfynau gorllewinol y wlad hono, y rhai a sylfaenwyd ac a feddianwyd gan drefedigion o Groeg. Yr ydym yn dysgu oddiwrth Luc, yr hanesydd eglwysig ysbrydoledig, pa fodd y dygwyd yr Efengyl i mewn i rai o'r dinasoedd hyn gan yr apostol Paul a'i gydlafurwyr; ac anrhydedd mawr yr apostol Ioan oedd bod yn offeryn trwy yr hwn yr anfonodd y Tyst ffyddlawn a Chywir Ei epistolau at yr eglwysi hyn. Amcan y gohebiaethau Dwyfol hyn oedd i ddiwygio y drygau i ba rai yr oedd yr eglwysi yn syrthio, i'w rhybuddio hwynt rhag heresiaeth ddinystriol, i gefnogi eu ffydd a'u hufudd-dod, a'u calonogi yn eu hymdrech yn erbyn pechodau a chyfeiliornadau yr oes.

Yn lle gwneyd pob un o'r epistolau hyn yn destyn arnodiad, i'r hyn nid yw ein gofod sydd yn ngweddill yn ddigon, rhaid i ni gyfyngu ein sylwadau at un o'u nifer, yr un a gyfeiriwyd at yr eglwys yn Philadelphia. Dechreua fel pob epistol trwy apeliad at y milwr Cristionogol, a dysga ni fod yn rhaid i bob Cristion edrych ar ei sefyllfa bresennol fel un o ymdrech. Rhaid i ni fod yn filwyr i Grist, gan ymostwng iddo fel ein harweinydd, gan ganlyn yn ol Ei draed, ymlenwi â'i ysbryd, a disgwyl buddugoliaethu yn unig am ei fod Ef wedi gorchfygu, ac yn eistedd ar orseddfaingc Ei Dad. Mae gennym i ymladd yn erbyn ein hunain, nid fel y gwnaeth Duw ni, ond fel yr ydym wedi ein darostwng gan bechod; a rhaid i ni gymmeryd y groes beunydd, a chydag hunan-ymwadiad sanctaidd, ymladd yn erbyn yr hyn oll sydd yn "ddaearol, anianol, a chythreulig." Câ yr hwn sydd yn gorchfygu ei wneyd yn golofn yn y deml nefol, ac allan nid â mwyach, ac ysgrifena y Gwaredwr arno ef enw Duw y Jerusalem nefol, a'i enw newydd Ei hun. Fel hyn gwneir cyfeiriad at y cerfluniau a ffurfient golofnau yn y temlau prydferth hyn, wedi ysgrifenu arnynt enw y duw oddiwrth yr hwn y tybid fod y gorch-

fygwr wedi disgyn, y ddinas i'r hon y perthynai, a'r cadfridog o dan yr hwn yr ymladdodd. Os ydym yn orchfygwyr ar bechod a Satan, yn lle cael adail wedi wedi ei chodi er coffawdwrieeth am danom mewn rhyw deml orwych ar y ddaear, ni a gawn ffurfio rhan o'r deml nefol wedi ei chydadeiladu yn drigfa i Dduw trwy yr Ysbryd, heb byth fyned allan o'r safle uchel ac anrhydeddus yn mha un y gosoda gras Dwyfol ni.

Dylynid yr apeliadau at yr eglwysi hyn gan rybuddion difrifol o'r anfoddlonrwydd Dwyfol, a symmudiad y canhwyllbren aur o'i le, oddieithr iddynt edifarhau a gwasanaethu yr Arglwydd yn ffyddlawn. Gwrthodasant wrando yr hyn a ddywedodd yr Ysbryd, a suddasant yn raddol i lygredigaeth mawr. Mae dadfeiliad allanol y dinasoedd yn mha rai y sylfaenwyd yr eglwysi hyn wedi ei ddarlunio yn fynych gan y teithwyr a ymwelasant â hwynt, ac yn y darluniau roddir yn y gyfrol hon gosodir allan eu hagwedd bresennol yn gywir.

Arddengys Ephesus yn awr "ychydig o bentyrau annealladwy o gerig," a rhai adfeilion ysblenydd, o ba rai perthyna y prif un i'r chwareudy bythgofus am y terfysg ddarlunir yn Actau yr Apostolion. Ceisir am weddillion Teml enwog Diana yn awr yn ofer. Mae Ephesus yn annrhigianol, ac anfynych yr ymwelir â hi.

Saif Smyrna ein dydd ni oddeutu haner can milldir i'r gogledd o Ephesus, ac y mae yn ddinas fasnachol flodeuog, o efallai gant a deg ar hugain o filoedd o drigolion, ond dinystriwyd yr hen Smyrna gan ddaeargryn. Saif y ddinas ddiweddarol hon ar ymyl machwy prydferthaf, ac y mae ganddi y fantais fawr o ddau deulu cenhadol ffyddlawn, y rhai a lafuriant yn benaf yn mysg yr Armeniaid, ac a bregethant yn yr iaith Dyrciaidd. Mwynhaodd Smyrna weinidogaeth, a bu yn dyst o ferthyrdod yr hybarch Polycarp, disgybl Ioan, yr hwn pan y galwyd arno i wawdio y Gwaredwr, a atebodd, "Chwech a phedwar ugain mlynedd yr wyf wedi gwasanaethu Crist, ac ni wnaeth y niweid lleiaf i mi; pa fodd y gallaf, gan hyny, gablu fy Mrenin a'm Gwaredwr?"

Arddengys Pergamus (Bergamo) oddeutu deg milldir a thriugain i'r gogledd o Smyrna, yn mhlith ei thai bychain a distadl rai gweddillion o'r eglwysi Cristionogol boreuol, y rhai a ymddanghosant "fel amddiffynfeydd mawrion yn nghanol cadrottai o goed." Cyfrifir ei thrigolion yn

bedair mil ar ddeg, yn cynhwys tair mil o Roegiaid, tri chant o Armeniaid, tri chant o Iuddewon, y gweddill yn Dyrciaid.

Mae Thyatira, cartref Lydia, "un yn gwerthu porphor," yn enwog eto am ei phorphor neu frethyn coch, ac yn mysg ei thrigolion mae rhai Cristionogion mewn enw, ond y mae yn ofidus i ddeall nad oes i "weithredoedd, a chariad, a gwasanaeth, a ffydd, ac amynedd yr eglwys ffyddlawn hon, mwy yr un coffawdwriaeth ar y ddaear, oddieithr y ganmoliaeth sydd yn yr epistol anfonwyd at 'yr eglwys yn Thyatira.'"

Mae Sardis yn awr yn bentref gwael, adfeilion pa un a dystiant fod yr Arglwydd wedi dyfod arni "fel lleidr yn y nos;" mae ei holl ogoniant wedi myned ymaith. "Mae pabellau duon y Turcomaniaid crwydriol yn wasgaredig trwy y dyffryn prydferth yma, adseinia chwibaniad y gyrwr camelod yn awr yn mhalas anghyfanneddol Crœsus, a chlywir cân y fwyalchen unig o furiau yr hen eglwys Gristionogol." Ni chafodd Shubert yno ond dau felinydd Cristionogol yn 1836, y rhai a siaradent yr iaith Dyrciaidd yn unig.

Mae Philadelphia yn ddinas o gryn bwysigrwydd, ac yn breswylfa esgob Groegaidd, ond y mae llygredigaethau y mil Cristionogion Groegaidd ac Armenaidd yn cyferbynu yn wael a hen ffydd yr eglwys a gadwodd air y Gwaredwr, ac nad oedd wedi gwadu Ei enw. Yn mysg gweddillion y ddinas hon mae "un golofn ar ben ei hun o gryn hynafiaeth, fel yn adgoffhau yr edrychydd o'r geiriau hynod, "Yr hwn sydd yn gorchfygu, mi a'i gwnaf ef yn golofn yn nheml fy Nuw i."

Am Laodicea, dywed ysgrifenydd diweddar, "y mae hyd yn oed yn fwy unig nag Ephesus; mae glaswellt yn tyfu ar ei muriau, ei themlau yn anghyfanedd; mae hyd yn oed ei henw wedi diflanu. Dewisasom brysuro yn lle aros yn hwy yn y fan bruddglwyfus hyny, lle yr oedd pob peth yn sisial anghyfannedd-dra, a lle y swnia hyd yn oed y gwynt a ysguba yn rhuthrwyllt trwy y dyffryn fel chwerthiniad cythreulig Amser, yn llawenychu uwch dinystr dyn a'i gofadeiladau mwyaf gorwych." "Mae yn bentwr o adfeilion wedi eu gadael yn holloll i'r ddallhuan a'r llwynog, tystia ei hadfeilion am ei gwychder blaenorol, ac am anfoddlonrwydd Duw ar ymadawiad ei heglwys enwog gynt oddiwrth y ffydd."

(Darllener Datguddiad ii.; iii.)

## PENNOD XV.

### DIWEDDGLO.

FEL hyn y mae wedi myned o dan ein sylw brif hanesion Ysgrythyrau yr Hen Destament, y gwirioneddau mawrion a ddysgant, a'r gwersi sanctaidd a ddirgymhellant. Yr ydym wedi myned ar hyd prif-ffordd llenyddiaeth gyssegredig, heb ymdroi i fyfyrio ar y prydferthwch deniadol neu y mawreddusrwydd aruchel a gawsid yn yr amrywiol olygfeydd trwy fyfyrdod maith, ac heb droi ar y llaw ddehau na'r aswy mewn ymchwiliad am y llanerchi teg yn ffyrdd anghyhoedd y bereriniaeth sanctaidd.

Mae wedi bod ein hyfrydwch i gyd-dramwyo rhai o'r golygfeydd hyfryd agoredig i ni yn ngwledydd y Bibl, nid yn y gobaith o ddysgu o honynt pa fodd y dylid addoli Duw, neu y gellid ufuddhau i'w ewyllys, ond i gael egluriadau o'r gwirionedd Dwyfol, a gweled pa fodd y mae natur yn dyfod o dan warogaeth i ddatguddiad. Mae gwersi iachawdwriaeth i gael eu clywed yn unig o'r oraclau bywiol; ond i'r rhai sydd wedi eu dysgu yn iawn, rhydd y byd oddi allan, nid ychydig, gynhorthwyon i gof, a rhybuddwyr y gallwn bob amser wrando ar eu llais gyda lles. Os iawn werthfawrogwn yr holl addysgiadau hyn, gallwn fabwysiadu iaith yr arweinydd mawr hwnw mewn dysgeidiaeth a gwyddoriaeth, a ddywedodd, "Dy greaduriaid a fuont lyfrau i mi, ond yr Ysgrythyrau yn llawer mwy. Mi a'th geisiais yn y cynteddoedd, y maesydd, a'r gerddi, ond mi a'th gefais Di yn Dy demlau."

Cyrhaeddid yr effaith mwyaf dymunol a bendithiol pe y telid mwy o sylw i'r Ysgrythyrau sanctaidd, pe eu darllenid gan lawer ydynt wedi eu hesgeuluso, a phe byddai i'r rhai hyny ydynt wedi eu darllen mewn ysbryd ffurfiol a difater eu myfyrio hwynt o dan yr argyhoeddiad mai y Bibl yw y llyfr mwyaf dyddorol, yn gystal a mwyaf pwysig a allant ddarllen. Mae wedi bod yn nod gwastadol yn y Darlleniadau hyn i sylweddoli golygfeydd yr hanesiaeth Fiblaidd, a'r holl amgylchiadau gan ba rai y cylchynid y gweithredwyr, ac i ddangos y gwna, wrth fyfyrio llawer o ranau o'r Ysgrythyr, y gweithrediad hyn fawr gynhorthwyo efrydydd y Bibl i ganfod eu prydferthwch a theimlo eu nerth bywiol.

Ai nid ydym yn barod i gymhwyso at yr holl Ysgrythyrau sanctaidd y darluniad prydferth a roddodd Esgob Horne o Lyfr y Psalmau? "Wedi eu hysgrifenu o dan ddylanwad yr hwn ag y mae pob calon yn wybyddus, a phob digwyddiad yn rhaghysbys iddo, maent yn gyfaddas i ddynolryw yn mhob sefyllfa, mor dderbyniol a'r manna a ddisgynodd oddi uchod gan ymateb i bob archwaeth. Gwywa cynhyrchion tecaf athrylith ddynol ar ol ychydig ddarlleniadau, fel blodau casgledig yn ein dwylau, a chollant eu perarogledd; ond deua y planhigion anwywedig hyn, fel yr ymgynefinwn a hwynt, yn fwy prydferth o hyd; ymddengys eu blodau yn cynhyddu bob dydd, arogl ffres yn ymdori allan, a melusion newyddion yn cael eu tynu o honynt. Awydda yr hwn sydd wedi profi unwaith o'u rhagorion am brofi o honynt drachefn, a'r hwn sydd yn eu profi amlaf ga y blas goreu arnynt."

Yr ydym wedi gweled pa fodd y gellir dadwneyd y gwrthddadleuon ddygir gan anffyddiaeth goethedig ein dydd, ac y gellir sefydlu unoliaeth gwyddoriaeth â'r cofnodion ysbrydoledig. Fel y mae gair Duw wedi sefyll yn llwyddianus bob prawf wnaed yn yr oesau gynt ac yn awr, felly y gwna orchfygu yn y dyfodol bob gwrthwynebiad, a myned heb gael un niwed trwy bob prawf tanllyd. Ceir gelynion newyddion i'r gyfrol sanctaidd yn awr o'r rhai hyny a broffesant barchu ei hawdurdod, ond gallwn fod yn hyderus y gwna fuddugoliaethu ar ffugddysgeidiaeth gau esbonwyr, yn gystal ag ar ymosodiadau ffyrnig gelynion addefedig.

Yr ydym wedi cael cyfle mynych i sylwi ar gyflawniad rhyfeddol rhagfynegiadau dynion ysbrydoledig oesau ar ol i'r rhagfynegiadau hyny gael eu traethu, ac fel hyn dylem ddysgu y sicrwydd y bydd i'r bygythion yn erbyn pechaduriaid a'r addewidion am fendith i'r cyfiawn gael eu cyflawni yn llawn. Fel yr ydym wedi darllen am lywodraeth ddiwyro Duw yn cyfranu melldithion a bendithion, yr ydym yn clywed y llais a ddywedodd "da fydd i'r cyfiawn; gwae'r anwir, drwg fydd iddo." Bydded i ni ddysgu chwilio ein cyflwr ein hunain yn ngolwg Duw. Trwy hunan-ymholiad ffyddlawn ni a gawn weled ein mawr berygl, fel y byddo i ni gael ein hanog i ddiangc am noddfa at y gobaith osodwyd o'n blaen yn yr Efengyl. Mae gennym i chwilio yr Ysgrythyrau, am eu bod yn tystiolaethu i ni am Grist. Yr ydym yn golledig, ac y maent yn

datguddio i ni Waredwr, Mab y dyn, yr hwn a ddaeth i geisio ac i gadw y colledig. Yr ydym yn bechadurus ond gallwn gael ein sancteiddio trwy y gwirionedd, a Gair Duw yw y gwirionedd hwnw, yr hwn sydd abl i'n gwneyd ni yn ddoeth i iachawdwriaeth.

Bydded i ni ddarllen Gair Duw gyda gweddi ar ei Awdwr am oleuni Dwyfol. Mor addysgiadol yw esiampl y Psalmydd pan y gweddia, "Datguddia fy llygaid, fel y gwelwyf bethau rhyfedd allan o'th gyfraith di." Mae yr ysgrifeniadau sanctaidd yn agoredig o'i flaen, nid yw ei lygaid wedi pylu, ac nid oes yr un pall yn ei allu i ddarllen yr holl eiriau mae dynion ysbrydoledig wedi ysgrifenu, ac eto galwa ar Dduw i agor ei lygaid, gan ddwfn deimlo yr anghenrheidrwydd am oleuni Dwyfol fel na byddo iddo ddarllen yn ofer. Felly y gweddiodd yr apostol dros yr Ephesiaid, ar i Dad y Gogoniant roddi iddynt "Yspryd doethineb a datguddiad trwy ei adnabod ef." Yr ydym wedi clywed am bersonau duwiol yn darllen yr Ysgrythyrau ar eu gliniau, ac heb orchymyn yr agwedd yma wrth ddarllen y gyfrol sanctaidd, nis gallwn lai na chanmol yr ysbryd a arddengys, canys nid oes neb ond Awdwr y Gair Dwyfol yn unig a all ein galluogi i ddeall ei feddwl a theimlo ei allu. Ni a wnawn yn dda i gofio arwyddair Martin Luther, ac fel yntau, ni a gawn "fod bod wedi gweddio yn dda, wedi bod yn fyfyrio da." Mae yr Ysbryd Glân "yn Ysbryd doethineb a datguddiad," ac fel y cyfrenir Ei ddylanwadau, deua pethau tywyllion yn oleu, a gwneir pethau ceimion yn uniawn ger ein bron.

Taer anogir y darllenydd yn narlleniad y gyfrol sanctaidd i ddylyn cynghorion rhagorol Esgob Horsley, yr hwn a ddywed, "Dylid arferyd diwydrwydd neillduol wrth gymharu testynau cyferbyniol yr Hen Destament a'r Newydd....Mae yn anhygoel i un nad yw wedi gwneyd y prawf, gymmaint o gynhydd ellid wneyd yn y wybodaeth hono sydd yn gwneyd yn ddoeth i iachawdwriaeth, wrth fyfyrio yr Ysgrythyrau yn y modd yma, heb yr un esboniad neu eglurhad pellach nag a rydd y gwahanol ranau o'r gyfrol sanctaidd ar eu gilydd. Bydded i'r un mwyaf diddysg eu myfyrio hwy yn y dull yma, ac na fydded iddo byth roi i fyny gweddio am oleuni yr Ysbryd hwnw trwy yr hwn y llefarwyd y llyfrau hyn, ac ni rydd holl gylch athroniaeth ddyrys a hanesiaeth dy-

wyll yr un wrthddadl trwy ba un y gall ewyllys wrthnysig dyn siglo ffydd y Cristion dysgedig hwn. Gwna y Bibl wrth ei fyfyrio fel hyn brofi yn wir i fod yr hyn ydym ni Brotestaniaid yn ei ystyried—yn sicr a digonol reol ffydd ac ymarweddiad—yn darian iachawdwriaeth yr hon yn unig all ddiffodd picellau tanllyd y drygionus."

Yn neillduol dylem gadw mewn cof yr amcan mawr i gael ei gyrhaedd trwy fyfyrio Gair Duw. Rhaid iddo fod yn llusern i'n traed, a llewyrch i'n llwybr. Ni châ y dyn sydd yn eistedd yn segur yn nghadair y gwawdiwr byth allan pa fodd y gellir gorchfygu ei wrthddadleuon, ond câ yr hwn sydd yn dymuno am wybod y ffordd yn unig gael iddo rodio ynddi, afael arni, ac fel yr erfynia am y cymhorth Dwyfol, "ni chyfeiliorna." Mae ufudd-dod ffyddlawn a serchog i'r gwirionedd adnabyddus eisioes yn brif foddion cynhydd mewn Doethineb Ddwyfol. "Yr hwn y mae ganddo, y rhoddir iddo." Gan dalu sylw gofalus i gynghor yr apostol, "Y peth y daethom atto, cerddwn wrth yr un rheol, syniwn yr un peth," ac ni a gawn mor wir y mae wedi ei addaw, "Os ydych yn synied dim yn amgenach, hyn hefyd a ddatguddia Duw i chwi."





LEIGHTON, BROTHERS.

PATMOS.



LEIGHTON, BROTHERS.

THE RUINS OF THE TEMPLE OF DIANA, EPHESUS.



LEIGHTON, BROTHERS.

PERGAMOS.



LEIGHTON, BROTHERS.

THYATIRA.



LEIGHTON, BROTHERS.

SARDIS.



LEIGHTON, BROTHERS.

PHILADELPHIA.



LEIGHTON, BROTHERS.

LAODICEA.



LEIGHTON, BROTHERS.

SMYRNA.

# DANGHOSEG GYFFREDINOL.

## CYFROL II.

TUDALEN
Achyddiaeth Crist ....... 131
Adenedigaeth ....... 145
Adfywiad Crefydd yn Itali ....... 297
Adgyfodiad, Yr, yn cael ei rag-gysgodi gan Wyrthiau Crist ....... 185
Adgyfodiad Crist y Prawf Cryfaf o wirionedd Cristionogaeth ....... 249
Adgyfodiad Crist, Tystion o ....... 250
Ahasferus a'i Ymerodraeth ....... 81
Aipht, Yr, a'i thynged ....... 64
Alexander Fawr a'r Iuddewon ....... 86
Alexandria, Adeiladwyd ....... 86
—— ei Llyfrgell ddirfawr ....... 87
Ananias a Sapphira, eu pechod a'i gosb ....... 263
Antiochus Epiphanes a'i elyniaeth at yr Iuddewon ....... 87
Apocrypha, Yr ....... 85
Asmoneaidd, Y deyrnach ....... 90
Assyria, Dinystrio byddin ....... 16
Athen a phregethiad Paul ....... 289

Babanod, Achubiaeth ....... 231
Babilon, Brenhiniaeth ....... 37
—— Maint y ddinas a'i Gerddi Crogedig ....... 44
—— wedi ei chymmeryd gan Cyrus ....... 59
—— a'i thynged rhagfynegedig ....... 67
Bedydd a Neillduad y Gwaredwr ... 124

TUDALEN
Belsassar, yr olaf o'r Brenhinoedd Caldeaidd ....... 58
—— ei anfoesoldeb a'i ddinystr ....... 58
Bersiaidd, Y Llywodraeth, ar yr Iuddewon ....... 85
Bethania a'r Gwaredwr ....... 220, 222
Bethesda, Y Llyn, a'i feddyginiaethau 175
Bethsaida ....... 199
Birs Nimroud a'i gerfysgrifau hynod, ddarganfyddwyd gan Syr H. Rawlinson ....... 45

Caethgludiad Judah ....... 42
Caethiwed, Dychweliad o'r ....... 73
Caiaphas ac Ananias ....... 245
Cana, Y wyrth yn ....... 137
Capernaum, ei rhagoriaethau a'i thynged ....... 165, 177
Cenhedloedd—Drws y Ffydd wedi ei agoryd i'r ....... 286
Crist fel "Y Gair" ....... 131
—— Gwyrth gyntaf ....... 137
—— yn puro y Deml ....... 140
—— yn dysgu a Bedyddio yn Judea 147
—— Ei dystiolaeth i'w Fessiaeth ... 155
—— a'r Wraig o Samaria ....... 156
—— Ei addysg Allegawl ....... 157
—— yn iachau mab y Pendefig ....... 159
—— wrth Fôr Galilea ....... 162
—— yn Capernaum ....... 165

TUDALEN
Crist yn bwrw allan Gythreuliaid ... 168
—— yn iachau y claf o'r parlys ...... 171
—— Ei bregeth ar y Mynydd ......... 177
—— yn adferu mab y Wraig Weddw o Nain ........ 184
—— yn distewi yr ystorm Galileaidd 190
—— yn adferu y ddau Ddieflig o Gadara ........ 193
—— yn galw Ei Ddisgyblion i Neillduedd ........ 196
—— yn porthi y dyrfa yn wyrthiol.. 199
—— Gweddnewidiad.................... 206
—— Ei ymadawiad diweddaf o Galilea ........ 210
—— Ei ddysgeidiaeth yn Ngwyl y Pebyll ........ 215
—— Ei ymweliad a Bethania ........ 222
—— yn derbyn a bendithio plant ... 230
—— Ei ymweliad a Saccheus ......... 232
—— Ei fynediad buddugoliaethus i Jerusalem ........ 235
—— Ei Swpper diweddaf gyda'i Ddisgyblion ........ 241
—— Ei ing yn yr Ardd .............. 244
—— Ei brawf a'i Groeshoeliad ...... 245
—— Ei adgyfodiad .................... 249
—— Ei gyfarfyddiad diweddaf gyda'i Gyfeillion ........ 253
—— Ei esgyniad i'r Nef .............. 252
Cristionogol, Callineb.................... 153
Cyflenwad dwfr i Jerusalem............ 13
Cynghorion i Efrydwyr y Bibl......... 303
Cyrus yn cymmeryd Babilon ......... 59
Cysylltiad hanesiaeth yr Hen Destament a'r Newydd .................... 84

Damascus .................................. 283
Damhegion Crist .......................... 226
Daniel a'i Gyfeillion yn y Caethiwed 49
—— yn deongli breuddwyd y Brenhin 51
—— ei wrthodiad i addoli y ddelw aur ........ 54
—— Cenfigenu wrth, ei fwrw i ffau

TUDALEN
y Llewod, ei gadw gan Dduw, a'i godi i anrhydedd uwch ............... 60
Daniel, Gweledigaeth..................... 69
Darlleniadau (Ein) yn cael eu hadolygu 301
Ddelw aur, Y, ar wastadedd Dura, tybir mai Pigadail ydoedd ......... 53
Deg a thri ugain, Anfon allan y ...... 211
Deml, Porth Prydferth y ............... 260
Diwygiad crefyddol Hezeciah ......... 3
Duw yn cael Ei weled gan y pur o galon ........ 180
Dwyfoldeb y Gwaredwr .............. 131
—— Rhesymau yn erbyn............... 133

Edom a'i thynged ........................ 64
Efengyl, Yr, yn cael ei phregethu yn Mhorth Solomon........................ 260
Efil-merodach ............................. 57
Ephesus...................................... 299
Erledigaethau yr Iuddewon ............ 87
Esau, pregethwr heddwch............... 25
Esseniaid, Yr .............................. 93
Esther, Llyfr ............................... 81
Esther a Mordecai ........................ 82
Ethiopiad, Yr, dychweledig............ 275
Ezeciel a'r caethion Iuddewig ......... 43
—— Gweledigaethau.................. 46
Ezra .......................................... 76

Ffynhonau Iachawdwriaeth ............ 15

Gadara yn Galilea ........................ 195
Galilea, Môr .............................. 163
—— distewi ei ystorm gan Grist...... 190
Gamaliel a'i gynghor doeth ............ 266
Genedigaeth Crist yn cael ei gyhoeddi gan Angylion ........................ 109
Gethsemane, Gardd ..................... 219
Groes, Yr olwg gyntaf ar y ............ 203
Gweddnewidiad, Y ..................... 206
Gwersi oddiwrth hanesion yr Ysgrythyr ........ 301
Gwyrthiau heb eu cofnodi............... 143

## DANGHOSEG GYFFREDINOL.


TUDALEN

Haggai ... 75
Haman, ei fradwriaeth a'i dynged ... 82
Heddychol, Brenhiniaeth, Crist ... 25
Helfa wyrthiol o Bysgod ... 166
Herod a'i Deml ... 97
Hezeciah a diwygiad crefyddol ei oes 3
—— Cofnodion Assyriaidd o ... 11
—— Dyddiau olaf ... 19
Hunanymwadiad, Yr angenrheidrwydd am ... 205

Iesu Grist, Genedigaeth ... 106, 109
—— —— o Nazareth ... 112
—— —— pan yn ddeuddeg oed ... 115
—— —— yn y Deml ... 118
—— —— wedi ei golli a'i gael ... 119
—— —— Ei fedyddio a'i neillduo i'w waith ... 124
—— —— yn galw Ei Ddisgyblion cyntaf ... 136
Ioan Fedyddiwr ... 121
—— ei dystiolaeth am Grist ... 134, 149
—— ei fwrw i garchar a thori ei ben 153
Iuddewig, Sectau ... 91

Jeremiah, ei Amserau a'i Ragfynegiadau ... 31, 42
Jerusalem, y Cyflenwad Dwfr ... 13
—— ei dinystr gan Nebuchodonosor 40
Josiah y Brenhin Ieuangc duwiol ... 28
Judah yn y Caethiwed ... 42, 43
Judas y Bradwr ... 238, 245, 247

Lachis, Gwarchae ... 7
—— darganfyddiad cofolion gwarchae, gan Layard ... 8
Laodicea ... 300
Lazarus, Marwolaeth ac Adgyfodiad 224
—— Bedd ... 220

Maccabeaidd, Y Gwroniaid, a'u Gwrhydri ... 88
Mair, Offrwm gwerthfawr ... 225
Malachi ... 84

TUDALEN

Manasseh, Troseddau a Dychweliad. 22
Martha a Mair ... 222
Matthew y Publican wedi ei alw ... 174
Mordecai ... 82
Moses ac Elias, Ymddanghosiad ... 207
Myfyrio gair Duw ... 303

Nain, Y weddw o ... 183
Nazareth, cartrefle Iesu ... 112
Nebuchodonosor ... 38, 40, 45, 49, 53, 56
—— ei wallgofrwydd yn cael ei gofnodi ar y cofadeiladau ... 57
Nehemiah, ei waith a'i wrthwynebwyr 77
Neillduad oddiwrth y byd weithiau yn angenrheidiol ... 198
Nenau tai Dwyreiniol ... 172
Nicodemus a'r Enedigaeth Newydd .. 144
Ninefeh, Dinystr rhagfynegedig ... 66

Olewydd, Mynydd yr ... 218

Parlys, Y claf o'r, wedi ei iachau ... 171
Pasc, Gwyl y, wedi ei hadfer gan Hezeciah ... 6
—— ei nhewid gan Grist am Swpper yr Arglwydd ... 241
Paul yn Athen ... 289
—— yn Jersusalem ... 292
—— yn Rhufain ... 295
Pedr, Gwadiad ac Edifeirwch ... 245
—— a'r Canwriad ... 286
Pentecost, Dydd y ... 257
Pergamus ... 299
Pilat, Pontius ... 246
Pregeth Crist ar y Mynydd ... 177
Priodas, Gwleddoedd, yn y Dwyrain 137
Phariseaid, Y ... 92
Philadelphia ... 298
Philip a'r Myfyriwr Ethiopiaidd ... 275
Philistia, Dinystr ... 65

Rabsaceh, Cenadwr a Heriad dirmygus ... 12
Rechabiaid, Y ... 34
Rhagarweiniad, Y, i Efengyl Ioan ... 131

DANGHOSEG GYFFREDINOL.


TUDALEN

Saduceaid, Y ... 91
Saith, Y, Eglwys yn Asia ... 298
Samaria, Y wraig o ... 156
—— a'r Efengyl ... 272
—— Gwrthwynebiad, i'r Caethion Iuddewig dychweledig ... 75
Sardis ... 300
Saul, Dychweliad ... 278
—— yn Damascus a Jerusalem ... 282
Sefyllfa Foesol y Byd ar ddyfodiad y Gwaredwr ... 103
Sel yn hanfodol i wir grefydd ... 141
Sennacherib, Buddugoliaethau, yn Judea ... 10
—— dinystr ei Fyddin ... 16
Siloam, Llynoedd, a Bethesda ... 15
Simon y Pharisead ... 187
—— Magus ... 273
Simoon, Y ... 17
Smyrna ... 299
Stephan y Merthyr Cyntaf ... 269

TUDALEN

Synagog, Y, Iuddewig, ei Swyddogion a'i gwasanaeth ... 94
Swpper yr Arglwydd, Sefydlu ... 241

Teml Jerusalem wedi ei hadferu gan Zorobabel ... 78
—— ei hailadeiladu gan Herod ... 98
—— ei hardderchogrwydd ... 99
—— yn cael ei phuro gan Grist ... 140
Temptiad Crist ... 127
Twyll, Nas gellir byth amddiffyn ... 265
Thyatira ... 300
Tyrus a'i anghyfanedd-dra rhagfynegedig ... 65

"Wele Oen Duw" ... 134

Ysgrythyr, Rhagoriaeth yr ... 302

Zaccheus, Ymweliad Crist a ... 232
Zecharia ... 75
Zedeciah, Caethgludiad ... 41